

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 15fed Chwefror, 2022
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Cyfarfod Rhithiol Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu - https://gwynedd.public-i.tv/core/portal/home
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 / cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION Y CYFARFOD GYNHALIWDYD AR 18 IONAWR 2022			4 - 12
6	CYLLIDEB 2022-23	Cyng. Ioan Thomas	Dewi Morgan	13 - 74
7	ADRODDIAD DRAFFT ASESIAD O ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU 2022	Cyng. Dafydd Meurig	Rhion Glyn	75 - 520
8	PRYDLESU CANOLFAN CEFNFAES i BARTNERIAETH OGWEN	Cyng. Craig ab Iago	Carys Fon Williams	521 - 524
9	PRIS CINIO YSGOLION CYNRADD, ARBENNIG A DILYNOL MEDI 2022	Cyng. Cemlyn Williams	Bethan Griffith	525 - 529
10	GWELEDIGAETH Y CYNGOR AR GYFER GWEITHIO I'R DYFODOL	Cyng. Nia Jeffreys	Geraint Owen	530 - 541
11	CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23 - ADOLYGIAD 2022/23	Cyng. Dyfrig Siencyn	Dewi Wyn Jones	542 - 704
12	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABIENT DROS YR ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A'R ADRAN GYFREITHIOL	Cyng. Nia Jeffreys	Geraint Owen	705 - 716

13	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS YR ADRAN ECONOMI A CHYMUNED	Cyng. Gareth Thomas	Sioned Williams	717 - 723
----	---	------------------------	--------------------	--------------

Y CABINET DYDD MAWRTH, 18 IONAWR 2022

Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Nia Jeffreys, Dilwyn Morgan, Ioan Thomas, Gareth Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Williams.

Hefyd yn bresennol-

Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Pennaeth Cyfreithiol), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) ac Annes Siôn (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

Eitem 6: Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol)

Eitem 7 ac 8: Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

Eitem 11: Garem Jackson (Pennaeth Adran Addysg)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

5. COFNODION CYAFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 RHAGFYR

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 21 Rhagfyr 2021 fel rhai cywir.

6. DATHLU DYDD GWYL DEWI

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Nia Jeffreys

PENDERFYNWYD

- a. Dynodwyd dydd Gŵyl Ddewi yn ddiwrnod o wyliau ychwanegol i staff y Cyngor sy'n gweithio ar delerau gwaith gweithwyr llywodraeth leol, ar gyfer dathlu diwrnod ein nawddsant cenedlaethol i'w ariannu yn unol a paragraff 2.10 o'r adroddiad.
- b. Awdurdodwyd swyddogion i ymchwilio i opsiynau posib i wneud trefnant o'r fath yn un parhaol ac i'r perwyl hwnnw cynnal trafodaethau pellach gyda'r undebau llafur cydnabyddedig a parhau i lobio am gefnogaeth Llywodraeth San Steffan i ddatganoli i Lywodraeth Cymru y grym iddynt fedru sefydlu gwyliau banc i Gymru.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y Cyngor Llawn ar y 7 Hydref wedi penderfynu gofyn i'r Cabinet ystyried dynodi Dydd Gŵyl Ddewi yn swyddogol drwy roi diwrnod o wyliau i'w gweithlu ynghyd a galw ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli y grym i Lywodraeth Cymru i fedru creu gwyliau banc i Gymru fel y drefn sydd i'w gweld eisoes yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Pwysleisiwyd fod y penderfyniad a wnaethpwyd yn y Cyngor Llawn yn un unfrydol a trawsbleidiol a oedd yn dangos awydd clir i weithredu.

Eglurwyd nad oedd y mater yn un hawdd a fod cost ynghlwm a'r penderfyniad ond diolchwyd i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Pennaeth Cyllid am wneud y gwaith ymarferol i wneud hyn yn bosib.

Mynegwyd fod y llythyr a dderbyniwyd gan Lywodraeth San Steffan yn ymateb i'r lythyr y Cyngor yn warthus ac yn arddangos anealltwriaeth lwyr o ddatganoli a Chymru. Eglurwyd fod yr Aelod Cabinet yn deall fod rhai unigolion yn anghytuno gyda'r penderfyniad oherwydd y gost i Gyngor Gwynedd, ond ei fod yn rhoi'r cyfle i ddangos gwerthfawrogiad i staff y cyngor am eu gwaith yn ystod y cyfnod y pandemig. Ychwanegwyd fod cefnogaeth wedi ei dderbyn gan unigolion ar draws y wlad ac fod angen ei weld fel cyfle i ddefnyddio yr ŵyl banc i roi hwb i'r economi. Gofynnwyd i Lywodraeth Cymru i ddilyn Cyngor Gwynedd ac i alw am yr hawliau i'w galluogi i sicrhau fod Dydd Gŵyl Dewi yn troi yn Ŵyl Banc Cenedlaethol.

Ychwanegodd Pennaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol fod yr adroddiad yn egluro fod modd i'r Cyngor allu ystyried gwneud y penderfyniad i roi diwrnod ychwanegol o Wyliau Banc i rhan helaeth o weithlu'r Cyngor, ond gan fod amodau gwaith Athrawon yn cael ei penderfynu yn genedlaethol nad oes modd eu cynnwys yn y penderfyniad hwn. O ganlyniad nodwyd fod y penderfyniad yn berthnasol i holl staff y Cyngor gan eithrio Athrawon.

Yn dilyn y penderfyniad bydd 1 Mawrth yn cael ei gyfri fel Gŵyl Banc arferol, gan nodi y bydd lleoliadau megis llyfrgelloedd ar gau ond y bydd gwasanaethau gofal yn parhau. Eglurwyd y bydd y staff fydd yn gweithio yn cael diwrnod o wyliau ychwanegol neu addasiad cyflog, ac fod y £200,000 yn cynnwys ystyriaeth o'r holl ffactorau. Eglurwyd o ran ail ran y penderfyniad fod hyn yn rhoi hawl i Swyddogion barhau gyda'r trafodaethau a undebau i drafod y syniad i'r dyfodol ac i barhau i lobio Llywodraeth Cymru i gael yr hawl i sefydlu gwyliau banc i'r dyfodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod y penderfyniad hwn yn benderfyniad unfrydol gan y Cyngor Llawn a nodwyd fod angen gweithio gyda partneriaid megis Llywodraeth Cymru er mwyn penderfynu fel Cymry am Wyliau Banc ac i beidio gorfod gofyn am ganiatâd Llywodraeth Lloegr.
- Nodwyd fod sylwadau yn nodi mai arian trethdalwr fydd yn talu am y Gŵyl Banc ychwanegol yma gan amlygu mai hyn yr un arian sydd ar gael i ariannu pob un o wyliau banc ar draws y flwyddyn.
- Amlygwyd pryder fod Cyngor Gwynedd yn penderfynu rhoi gŵyl banc ychwanegol ar ben ei hun, gan nad yw'n wyliau cenedlaethol.
- Mynegwyd pryder am y gost yn flynyddol, ond nodwyd mai penderfyniad i'w ariannu ar gyfer un tro yw'r cais hwn. Ychwanegwyd fod angen edrych ar ymarferoldeb ei wneud ar gyfer y tymor hir.
- Mynegwyd siom yn ymateb sarhaus Llywodraeth San Steffan i lythyr Cyngor Gwynedd, a ychwanegwyd ei fod yn amlygu'r berthynas sydd i'w weld rhwng Cymru a Lloegr fod angen gofyn caniatâd am wyliau i ddathlu gŵyl sydd yn bwysig i'r genedl.
- Amlygwyd yr angen i gael trafodaeth gyda busnesau hefyd i weld beth sydd yn bosib i'r dyfodol.
- Pwysleisiwyd siom nad oes modd cynnwys athrawon a staff ysgolion yn rhan o'r penderfyniad.
- Pwysleisiwyd fod Dydd Gŵyl Ddewi yn ddiwrnod o ddathlu Cymreictod a diwylliant Cymraeg. Mynegwyd dealltwriaeth am bryder am gost ynghyd a staff y Cyngor yn cael gwyliau tra gweithwyr allweddol eraill ddim yn cael. Er hyn nodwyd nad oes gan y Cyngor ddylanwad tu allan i'r Cyngor ac mae San Steffan sydd ar dylanwad yma. Mynegwyd fod y llythyr gwrthod yn sarhad ar y Cymry.

7. CYLLIDEB REFENIW 2020/21 - ADRORDDIAD DIWEDD TACHWEDD 2021

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNWYD

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2021 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodwyd fod effaith ariannol Cofid yn parhau yn 2021/22, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- Nodwyd fod cyfundrefn cymorth Covid Llywodraeth Cymru drwy gronfa caledi yn parhau, ond nad yw'n cyfarch gorwariant oherwydd llithriad yn y rhaglen arbedion.
- Nodwyd fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol eleni.
- Cymeradwywyd yr argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol ar

gyllidebau Corfforaethol, fod:

- Tanwariant o (£20k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
- Tanwariant net o (£1,846k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng cofid.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn manylu ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw'r Cyngor a'r rhagolygon tuag at diwedd y flwyddyn ariannol. Eglurwyd fod adroddiadau blaenorol wedi amlygu fod effaith ariannol y pandemig wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor gyda cyfuniad o gostau ychwanegol ynghyd â cholledion incwm werth dros £20miliwn yn 2020/21 ac yn £10miliwn hyn yn hyn eleni. Ychwanegwyd fod ceisiadau i ad-hawlio yn cael ei wneud yn fisol o gronfa caledi Llywodraeth Cymru.

Mynegwyd yn dilyn llunio rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2021/22 drwy ddileu, llithro ac ail broffilio cynlluniau arbedion nodwyd fod oediad mewn gwireddu arbedion yn parhau mewn rhai meysydd, gyda oediad o ganlyniad i'r pandemig yn ffactor amlwg. Tynnwyd sylw at y prif feysydd ble mae gwahaniaethau sylweddol.

Mynegwyd fod yr adran yn rhagweld gorwariant o bron i £1miliwn yn yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant eleni gyda methiant cyflawni arbedion gwerth £855k yn ffactor amlwg. Nodwyd mai y prif feysydd gorwariant yw gwasanaeth pobl hŷn, anabledau dysgu a gofal cymunedol. Pwysleisiwyd fod effaith pandemig wedi cael ardrawiad sylweddol ar yr adran gyda gwerth dros £3miliwn wedi ei hawlio gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau ychwanegol yn y cyfnod.

Esboniwyd o ganlyniad i'r Cyngor yn dyrannu £1.8miliwn ychwanegol i'r Adran Blant a Cefnogi Teuluoedd yn y gyllideb 2021/22 i gwrdd â phwysau cynyddol, ynghyd â dileu gwerth £1.1 miliwn o gynlluniau arbedion, fod rhagolygon ariannol yr adran yn addawol iawn. Tynnwyd sylw at broblemau gorwariant yn y maes casglu a gwaredu gwastraff yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sydd yn parhau. Eglurwyd fod yr adran yn wynebu costau ychwanegol yn ymwneud a'r pandemig ond fod yr adran yn ffyddiog y bydd y Llywodraeth yn parhau i ddigolledu'r adran am weddill y flwyddyn.

Yn Gorfforaethol, nodwyd fod rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2021/22 yn gyfrifol am gynnyrch treth ychwanegol ac hefyd yn cyfrannu at y tanwariant ar Ostyngiadau Treth Cymru. O ganlyniad i hyn, mynegwyd fod sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael ei fantoli o ganlyniad i danwariant ar gyllidebau Corfforaethol yn ogystal â'r mwyafrif o adrannau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod gorwariant yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant yn ddeillio o arbedion hanesyddol sydd yn anodd i'w cyflawni ond eglurwyd fod gwaith yn mynd yn ei flaen i ddelio ar arbedion.

- Mynegwyd fod gwaith ymchwil yn cael ei wneud ar hyn o bryd yn benodol i edrych ar y gorwariant yn y maes Casglu Gwastraff yn yr Adran Briffyrdd. Eglurwyd nad yw'r cylchdeithiau newydd wedi gwreiddio eto, ac amlygwyd costau ychwanegol sydd wedi bod yn y maes o ganlyniad i'r pandemig.
- Nodwyd pryder am ddefnyddio y gair gorwariant gan nad gorwariant yw'r costau yma ond gwir gost o redeg gwasanaethau sydd yn cynorthwyo pobl, o ganlyniad mynegwyd yr angen i ofyn am fwy o gefnogaeth gan Lywodraeth San Steffan i ariannu awdurdodau lleol i gefnogi trigolion Gwynedd.
- Diolchwyd i Lywodraeth Cymru am y gefnogaeth i gadw canolfannau hamdden Gwynedd, Byw'n Iach, dros y cyfnod y pandemig. Mynegwyd fod y canolfannau ar agor gyda mesurau diogelwch yn ei lle a rhoddwyd anogaeth i bobl fynd i'w defnyddio.

8. RHAGLEN GYFALAF 2021/22 - ADRODDIAD DIWEDD TACHWEDD 2021

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNWYD

Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd (sefyllfa 30 Tachwedd 2021) o'r rhaglen gyfalaf.

Cymeradwywyd ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:

- lleihad o £15,000 mewn defnydd o fenthyca,
- cynnydd o £3,134,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
- cynnydd o £104,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
- cynnydd o £75,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
- lleihad o £1,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
- cynnydd o £363,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi prif ddiben yr adroddiad oedd i gyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig a cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mynegwyd fod yr adroddiad yn nodi dadansoddiad fesul adran o'r rhaglen gyfalaf o £127.7 am gyfnod o dair blynedd.

Mynegwyd fod gan y Cyngor gynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi oddeutu £52.1 miliwn eleni, gyda £27.4miliwn wedi'i ariannu drwy grantiau penodol. Eglurwyd fod effaith y pandemig yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac mai dim ond 37% o gyllideb eleni sydd wedi ei wario hyd ddiwedd Tachwedd, o'i gymharu a 51% ddwy flynedd yn ôl. Nodwyd fod £22.1miliwn o wariant arfaethedig wedi'i ailbroffilio o 2021/22 i 2022/23 a 2023/24 gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys £6.2miliwn Cynlluniau Strategaeth Tai, £5.8miliwn Cynlluniau Atal Llifogydd a £5.4miliwn Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21.

Tynnwyd sylw at y rhestr grantiau ychwanegol a lwyddodd y Cyngor ei ddenu ers yr adolygiad diwethaf a oedd yn cynnwys £2.3miliwn Grant Cynnal a Chadw

Ysgolion, £1.4milwi i Atal Llifogydd a £0.4miliwn Grant Cronfa Symbyliad Economaidd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd am yr adroddiad a holwyd pam fod lleihad yng ngwariant y rhaglen gyfalaf yn ystod 2023/34. Mynegwyd fod hyn o ganlyniad i ansicrwydd maint y grantiau yn ystod y flwyddyn hon.
- Amlygwyd fod addysg a tai yn cael blaenoriaethu pan yn buddsoddi.

9. TROSOLWG ARBEDION - ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22 a blynyddoedd blaenorol.

Nodwyd fod effaith Covid19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.

Wrth baratoi cyllideb 2022/23, yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 3 o ran cynlluniau arbedion 2022/23: - cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef

- Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
- Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
 - symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol
 - nodwyd mai £595,000 yw gwerth arbedion y cynlluniau gweddilliol i'w tynnu o gyllideb 2022/23, fel a nodir yn Atodiad 3.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adran yn crynhoi sefyllfa arbedion y Cyngor. Eglurwyd ers 2015/16 fod gwerth £35miliwn o arbedion wedi eu cymeradwyo i'w gwireddu ar gyfer cyfnod 2015/16 – 2021/22. Nodwyd bellach, fod dros £32.8 miliwn o'r arbedion yma wedi eu gwireddu sydd yn 94% o'r swm gofynnol dros y cyfnod.

Mynegwyd ers Ebrill 2020 fod adrannau'r Cyngor wedi bod yn canolbwyntio ar ymateb i'r pandemig ac o ganlyniad fod llithriad wedi bod yn gwireddu'r rhaglen arbedion. Wrth edrych ar gynlluniau arbedion am y cyfnod 2015/16 i 2020/21 amlygir fod 96% o'r arbedion wedi ei gwireddu. Ategwyd mai'r prif gynlluniau i'w cyflawni yw cynlluniau gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran

Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

Amlygwyd fod 45% o arbedion 2021/22 wedi eu gwireddu ond eto mai'r adrannau gyda gwerth uchaf o gynlluniau eto i'w cyflawni yw'r Adran Briffyrdd ynghyd â'r Adran Oedolion. Pwysleisiwyd fod gwireddu gwerth £32.8miliwn o arbedion ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol, ac amlygwyd risgiau i gyflawni gwerth £0.8miliwn o gynlluniau.

Eglurwyd yn dilyn adolygiad diweddar gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a Swyddogion Cyllid o'r cynlluniau arbedion ar gyfer 2022/23 rhaid cydnabod fod y sefyllfa wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni dau gynllun arbedion gwerth £489,750. Tynnwyd sylw at y ddau gynllun 'Adolygiad Dechrau i'r Diwedd' yn yr adran Blant a Teuluoedd a cynllun 'Trosglwyddo Meysydd Chwarae i eraill' gan yr adran Briffyrdd a gofynnwyd i'r Cabinet i ddileu'r ddau gynllun o'r gyllideb.

Gofynnwyd yn ogystal i ail broffilio cynlluniau arbedion o fewn yr Adran Economi a Chymuned ac yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant o 2022/23 i 2023/24 o ganlyniad i ardrawiad y pandemig ar yr adrannau yma. Yn dilyn dileu a llithro arbedion, nodwyd mai £595,000 yw gwerth arbedion y cynlluniau sy'n weddill yn 2022/23.

10. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ar y cyfan fod perfformiad yr adran yn gyffredinol dda er gwaethaf yr heriau sydd yn eu wynebu. Amlygwyd o ran cynllun Trosglwyddiad Unedau Gwyliau o'r Dreth Gyngor i Drethi Busnes, ei bod yn ymddangos fod Llywodraeth Cymru yn dechrau deall maint y broblem. Ategwyd fod yr adran wedi cydlynu ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drethiant lleol.

O ran cynllun Cyflawni Arbedion, mynegwyd fod yr adroddiad blaenorol wedi amlygu fod £34.8miliwn o arbedion wedi ei cyflawni sydd yn tanlinellu perfformiad da yr holl adrannau ar draws y Cyngor. O ran perfformiad yr adran ar y cyfan amlygwyd fod Datganiad o'r Gyfrifon yn dilyn yr archwiliad, ynghyd ag adroddiad yr archwiliwr allan wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac unwaith eto cyhoeddwyd barn diamod ar y Datganiad o Gyfrifon. Llwyddwyd yn ogystal i gwblhau adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn cyn y dyddiad statudol o 1af o Ragfyr.

Amlygwyd fod nifer o ceisiadau taliad cefnogi hunan ynysu yn parhau i gynyddu,

gan nodi fod hyn yn faich ychwanegol ar y Gwasanaeth Budd-daliadau. Eglurwyd o ganlyniad i hyn fod cynnydd yn nifer y dyddiad a gymryd ar gyfartaledd i brosesu cais budd-dal newydd. Nodwyd fod gwytnwch systemau mewnol technoleg gwybodaeth y Cyngor yn parhau'n iach, ac fod gwaith sylweddol wedi ei wneud i gryfhau gallu'r adran i amddiffyn ymosodiadau seibr. Er hyn, nodwyd pryder am systemau cenedlaethol sy'n cael eu gwesteia tu allan i'r Cyngor sydd ddim yn cyrraedd y safon disgwylidig.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd gyda'r adran yn gweinyddu grantiau'r Llywodraeth amlygwyd nad oes cyfeiriad at hyn yn yr adroddiad, ar pwysau ychwanegol fydd ar yr adran. Eglurwyd y bydd y cynllun grantiau newydd ychydig yn wahanol gan fod angen tystiolaeth gan y busnesau i ddangos eu bod yn parhau i fod yn gwmni gweithredol sydd yn masnachu. Ategwyd fod unedau gwyliau wedi ei heithrio o'r cynllun grantiau yma gan nad oedd y cyfyngiadau yn eu heffeithio.

11. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Cemlyn Williams

PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod perfformiad yr adran yn parhau i fod yn dda. Diolchwyd i staff yr adran am y gwaith arwrol maent wedi ei wneud dros y pandemig yn cefnogi ysgolion. Ategwyd fod cydnabyddiaeth am waith yr adran wedi ei amlygu gan benaethiaid y sir yn ogystal ac Estyn. Mynegwyd fod y berthynas rhwng yr adran ar ysgolion yn sicr wedi cryfhau yn ystod y cyfnod anodd.

Tynnwyd sylw at Strategaeth Addysg Ddigidol, gan ddiolch i'r Cabinet am eu cefnogaeth i'r gwaith arloesol sydd yn symud yn ei flaen. Nodwyd fod y cyfnod pandemig wedi dal dau gynllun yn ei ôl sef Cynllun Ôl 16 a Cyd-Weithio Rhwng Ysgolion Uwchradd Meirionydd. Eglurwyd y bydd y gwaith hwn yn cael ei flaenoriaethu pan yn dod allan o gyfnod y pandemig.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Diolchwyd i'r adran a'r Ysgolion am ei gwaith arbennig dros gyfnod y pandemig.
- Tynnwyd sylw ar Ysgol y Garnedd gan nodi fod y cynllun hwn yn adlewyrchu uchelgais y Cyngor o beth mae'r adran eisiau ei ddarparu i blant Gwynedd.
- Diolchwyd i'r adran am roi arweiniad i'r ysgolion ac i sicrhau diogelwch plant a pobl ifanc.

Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 2:40pm

CADEIRYDD

Cyfarfod:	Cabinet
Dyddiad:	15 Chwefror 2022
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet dros Gyllid
Pwnc:	Cyllideb 2022/23
Swyddog Cyswllt:	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

CYLLIDEB 2022/23

Y Penderfyniad a geisir

Argymell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £295,232,820 ar gyfer 2022/23 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £213,210,400 a £82,022,420 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 2.95%.
 2. Sefydlu rhaglen gyfalaf o £59,074,980 yn 2022/23 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.
-

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Rhaid i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2022/23.
- 1.2 Mae'r Cyngor wedi derbyn cynnydd grant ar gyfer 2022/23 sy'n gynnydd arwyddocaol ar yr hyn y bu i ni ei dderbyn mewn blynyddoedd blaenorol. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cynnydd grant o 8.8%, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £18.1m mewn ariannu allanol. Yn ogystal â hynny, mae £311k ychwanegol wedi ei gynnwys i adlewyrchu trosglwyddo cyfrifoldebau i'r setliad (materion oedd wedi'u ariannu'n flaenorol drwy grantiau penodol).
- 1.3 Er gwaethaf y setliad rhesymol eleni, mae nifer o ffactorau fydd yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar ein gwasanaethau yn 2022/23. Felly, yn ogystal â chyfarch graddfa chwyddiant sy'n uwch ar hyn o bryd nag y bu ers sawl blwyddyn, mae cyfle i ymdrin â phwysau gwario ehangach gan gynnwys mynd i'r afael â chostau parhaus sy'n deillio o'r argyfwng Covid-19, a dileu neu ohirio cynlluniau arbedion nad yw'n ymarferol i'w gwireddu yn 2022/23. Byddai cymryd y penderfyniadau hyn yn golygu cynnydd Treth Cyngor o 2.95%.

- 1.4 Mae'r gyllideb ddrafft wedi bod yn destun ymgynghori gyda mwyafrif aelodau'r Cyngor mewn cyfres o weithdai yn Ionawr, a wedi ei graffu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 10 Chwefror. Swyddogaeth y Cabinet yw argymhell cyllideb cytbwys a phriodol i gyfarfod y Cyngor ar 3 Mawrth ar gyfer 2022/23.
- 1.5 Erbyn 2022/23, byddai angen cynyddu ein gwariant o £20.2m er mwyn "sefyll yn llonydd" (mae manylion yn rhan 3 isod). Mae hyn yn cynnwys £7.1m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau (mae manylion o'r 'bidiau' unigol yn Atodiad 2).
- 1.6 Yn ogystal â £6.7m i ymdrin â'r pwysau ar gyllidebau, argymhellir cynnwys £1.4m i ddarparu cyllideb gorfforaethol i ddygymod â chostau a colled incwm o barhad yr argyfwng Covid-19, gan na fydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido hyn yn 2022/23 wrth i'w Cronfa Galedi ddirwyn i ben ar 31 Mawrth 2022. O ystyried bydd y Cyngor wedi hawlio oddeutu £14.4m o'r Gronfa Galedi yn 2021/22, nid ydym yn rhagweld bydd yr £1.4m yn ddigonol ynddo'i hun i ymdrin â'r pwysau; sefydlwyd Cronfa Adfer Covid wrth gau cyfrifon 2019/20 i'r perwyl hyn, a hefyd gellir gwneud defnydd o'r Gronfa Strategaeth Ariannol pe byddai angen.
- 1.7 Mabwysiadwyd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (am 2022/23 – 2024/25) gan y Cabinet ar 28 Medi 2021. Nodwyd yn yr adroddiad fod cynllunio ariannol yn hynod heriol yn 2021, gydag ystod o senarios posib yn awgrymu bwlch cyllido ar gyfer 2022/23 a allai fod unrhyw swm rhwng £0 a £7.5m, gyda'r ystod o ganlyniadau posibl yn cynyddu'n eang erbyn 2023/24 a thu hwnt. Ar sail yr wybodaeth oedd i law ar y pryd, yr "achos gorau" a ragwelwyd bryd hynny oedd cynnydd yn y Grant Llywodraeth o 4.5%. Gan fod y setliad yn rhagori hyd yn oed yr "achos gorau" hwn mae'n bosib i'r Cyngor allu ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau tra ar yr un pryd ddiddymu neu oedi y mwyafrif o gynlluniau arbedion oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn.
- 1.8 Felly, disgwylir gwireddu £595k yn 2022/23 o'r rhaglen arbedion cynlluniwyd eisoes (mae manylion yn rhan 4 isod a'r cynlluniau unigol wedi'u rhestru yn Atodiad 3) fydd y mynd beth o'r ffordd i gyfarch y bwlch ariannol sy'n ganlyniad i'r pwysau ychwanegol.
- 1.9 Bu adolygiad trylwyr o'r Strategaeth Asedau yn 2019, ac fe'i adolygwyd yn 2020, ac eleni rydym yn cynnig sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £59.1m yn 2022/23, fel sydd wedi'i osod allan yn Atodiad 4.
- 1.10 Mae cyllideb 2022/23 yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd, ac yn argymhell cynnydd 2.95% yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni.
- 1.11 Mater i'r Cyngor llawn yw ystyried y gyllideb a gosod y Dreth Cyngor erbyn 2022/23 ar sail y materion a nodir yn yr adroddiad dilynol. Mae'r adroddiad manwl yma'n nodi'r ffactorau sydd yn dylanwadu ar y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2022/23, ac yn amlinellu'r prif newidiadau ers 2021/22.

2. GRANT LLYWODRAETH CYMRU

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r setliad dangosol i ariannu awdurdodau lleol ar gyfer 2022/23. Nodir manylion fel y'i cyhoeddwyd yn swyddogol 'debyg-wrth-debyg' gan Lywodraeth Cymru yn y tabl isod, ynghyd â'r gwir ffigyrau "cash":

Grant Cynnal Refeniw 2021/22 – 2022/23	Cyfanswm Awdurdodau Cymru £	Cyngor Gwynedd swyddogol £	Cyngor Gwynedd "cash" £
Grant y Llywodraeth 2021/22	4,670,079,770	195,904,720	194,793,140
Grant y Llywodraeth 2022/23	5,107,507,200	213,210,340	213,210,340
Cynnydd £	437,427,430	17,305,620	18,417,260
Cynnydd %	+9.4%	+8.8%	-

Ni fydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei setliad terfynol tan 2 Mawrth 2022. Mae manylion pellach am y setliad dros dro ar gael yma –

[Setliad refeniw a chyfalaf Llywodraeth Leol 2022 i 2023 | LLYW.CYMRU](#)

- 2.2 Mae ffigyrau swyddogol Llywodraeth Cymru yn y tabl uchod yn dangos yn dybiannol fod Cyngor Gwynedd yn derbyn cynnydd grant o £17.3m erbyn y flwyddyn nesaf (ar ôl addasu'r ffigwr cymharol 2021/22 i adlewyrchu'r trosglwyddiadau i mewn i'r setliad), sy'n gynnydd o 8.8%, tra bod y cyfartaledd ledled Cymru yn 9.4%.
- 2.3 Mae nifer o ffactorau yn bwydo'r fformiwla dyrannu grant llywodraeth leol, megis poblogaeth y sir, nifer disgyblion yn ein ysgolion, a nifer hawl wyr cymorth incwm. Eleni, bu dipyn mwy o gynnydd yn y niferoedd hyn mewn awdurdodau eraill.
- 2.4 Derbyniwyd cynnydd sylweddol mewn "cash" oherwydd addasiad sylfaen trethiannol sy'n ail-ddosbarthu grant rhwng awdurdodau lleol Cymru. Roedd hyn oherwydd gostyngiad cymharol mewn eiddo treth cyngor yng Ngwynedd (gwneud i fyny am effaith mudo 'tai gwyliau' i'r rhestr treth busnes), o'i gymharu â chynnydd cyffredinol arferol mewn eiddo treth cyngor ar draws awdurdodau lleol eraill Cymru.
- 2.5 Bydd Lywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r setliad grant terfynol ar gyfer awdurdodau lleol ar 2 Mawrth, ynghyd â chyllideb terfynol Llywodraeth Cymru eu hunain, a bydd dadl perthnasol yn y Senedd ar 9 Mawrth. Wedi trafod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, ni ddisgwylir newid arwyddocaol o'r ffigyrau grant 'dangosol' yn y setliad drafft.

2.6 Os bydd y ffigwr grant yn newid i fyny neu i lawr ar adeg cyhoeddi'r Setliad Terfynol, mor hwyr yng nghylch gosod y gyllideb a treth 2022/23, byddai'n rhy hwyr i newid ffigyrau'r Dreth Cyngor. Felly, byddwn naill ai'n defnyddio balansau cyffredinol y Cyngor i gysoni gostyngiad mewn cyllid grant, neu'n cyfrannu at falansau cyffredinol i gysoni cynnydd mewn cyllid grant.

3. GWARIANT REFENIW'R CYNGOR - 2022/23

3.1 Nodir yn y tabl isod y cynnydd mewn gwariant fydd angen er mwyn "sefyll yn llonydd" yn 2022/23.

Gofynion Gwario Ychwanegol

	£	£
Cyllideb Sylfaenol		275,669,610
Chwyddiant Cyflogau Staff	8,475,440	
Chwyddiant Arall (cyflenwyr)	3,979,720	
Ardollau (Tân, CNC a CBC)	493,200	
Demograffi	(26,700)	
Bidiau - Pwysau ar	6,732,590	
Addasiadau Cyllideb Amrywiol	(788,400)	
Cost Benthycu / Llog ar	(107,640)	
Covid-19	<u>1,400,000</u>	
Cyfanswm net yr		<u>20,158,210</u>
Cyfanswm gofynion gwario 2022/23 cyn arbedion		<u>295,827,820</u>

3.2 Cyllideb Sylfaenol 2021/22

Er mai £276m yw gwariant net 2021/22, mae'n bwysig nodi fod gwir wariant y Cyngor yn £470m, oherwydd ein bod yn derbyn lluo o grantiau penodol gwerth £134m ac yn codi incwm cyffredinol o £60m am wasanaethau yr ydym yn eu darparu.

3.3 Chwyddiant Cyflogau £8.5m

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad yma, nid oedd cytundeb cyflogau y gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2021 i Mawrth 2022 wedi cael ei gytno, ond ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf sydd i law rydym yn rhagdybio cynnydd o 1.75%. Darperir yma ar gyfer cynnydd tâl 1.75% i athrawon ysgolion Gwynedd am y cyfnod Ebrill – Awst 2022 (effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2021).

Mae'r gyllideb wedyn yn neilltuo amcan gynnydd yng nghytundeb tâl 2022/23 o 4% ar gyfer yr holl weithlu (athrawon o Medi 2022, gweddill y gweithlu o Ebrill 2022).

Nodir hefyd bydd cynnydd o 1.25% mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn dod yn weithredol yn Ebrill 2022.

Hefyd wedi'i gynnwys yma, mae cost incrementau net o drosiant sydd eleni yn golygu dyrannu £171,000 ychwanegol i ysgolion cynradd, ond £9,100 yn llai i ysgolion uwchradd, gan roi cynnydd net o £161,900.

3.4 **Chwyddiant Arall £4m**

Swm 'net' sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer effaith y 'cyflog byw' (isafswm tâl) ar gostau a ffioedd sy'n daladwy i'n cyflenwyr preifat (yn cynnwys £636k ar gyfer cartrefi gofal preswyl annibynnol, a £806k ar gyfer cwmnïau gofal di-breswyl), ynghyd â chynnydd chwyddiant ar gyllidebau tanwydd ac ynni (£467k) a chynnydd prisiau yn dilyn ail-dendro (megis yswiriant £234k).

3.5 **Ardollau £493k**

Bydd y lefiau a delir i'r cyrff perthnasol yn cynyddu fel a ganlyn rhwng 2021/22 a 2022/23:

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru £421k
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri £0
- Cyfoeth Naturiol Cymru (Ardollau Arbennig) £10k
- Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) y Gogledd £62k

Tynnir sylw aelodau yn benodol fod Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn gorff newydd sydd wedi gosod ei gyllideb cyntaf ar gyfer 2022/23.

3.6 **Demograffi (£27k)**

Cyfanswm net sy'n adlewyrchu -£57k oherwydd lleihad net mewn nifer disgyblion yn yr ysgolion a +£30k oherwydd cynnydd mewn plant sy'n derbyn gofal gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

Mae'r ffigwr net o -£57k i ysgolion yn cuddio sefyllfa wahanol mewn gwahanol sectorau, sef uwchradd +£372k a cynradd -£429k.

3.7 **Pwysau ar Wasanaethau £6.7**

Mae Atodiad 2 yn cynnwys manylion pob cais unigol am wariant ychwanegol sy'n deillio o bwysau ar y gwasanaethau.

Argymhellir cymeradwyo ceisiadau ("bidiau") gwerth £6.7m am adnoddau parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau.

Hefyd, argymhellir cymeradwyo bidiau 'un-tro' gwerth £6.2m sydd i'w ariannu o'r Gronfa Trawsnewid.

Gofynnir i bob adran i adnabod unrhyw wariant rhaid i'r Cyngor gyflawni er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth sylfaenol. Nid yw'r drefn yma ar gyfer datblygiadau newydd dymunol, ond yn hytrach ar gyfer parhad gwasanaethau sylfaenol presennol.

Mae elfen o'r ceisiadau yma wrth gwrs yn amlygu ei hun wrth i ni adolygu patrymau gwariant y flwyddyn gyfredol. Mae eraill yn ganlyniad i faterion sy'n codi lle mae angen gwario er mwyn gwarchod deilliannau i'r cyhoedd, neu i gwrdd â gofynion statudol. Mae yna elfen hefyd o lywodraeth ganolog yn creu pwysau a disgwyliadau, ac wedyn y Cyngor gorfod dygymod gyda'r sgil effeithiau.

Mae'r eitemau cyflwynir yma yn Atodiad 2 wedi cael eu herio'n drylwyr gan y Tîm Arweinyddiaeth cyn eu hargymell i'w cymeradwyo gan y Cabinet. Ymhellach, cyflwynwyd yr holl geisiadau gwariant hyn yn y Seminarau Cyllideb a gynhaliwyd ar 24, 25 a 26 Ionawr 2022, lle roedd y mwyafrif o aelodau'r Cyngor yn cydsynio fod y gwariant yn anorfod.

3.8 Addasiadau Cyllideb Amrywiol (£788k)

Cyfanswm sy'n adlewyrchu nifer sylweddol o addasiadau i wahanol gyllidebau ar draws y Cyngor.

3.9 Costau Benthycia a Llog ar Falansau (£108k)

Rhagamcan o ostyngiad (£38k) mewn llog taladwy ar fenthyciadau yn 2022/23, wrth i hen fenthyciadau hir-dymor ddirwyn i ben, ynghyd â chynnydd (£70k) mewn dychweliadau wrth fuddsoddi balansau a llif arian y Cyngor.

3.10 Covid-19 £1.4m

Ers Ebrill 2020 mae Llywodraeth Cymru wedi digolledu awdurdodau lleol am gostau ychwanegol a cholled incwm fel sy'n ganlyniad i'r pandemig allan o'u Cronfa Caledi. Roedd cyfanswm y cymorth gan y Llywodraeth oddeutu £20m yn 2020/21, ac amcangyfrif bydd y cymorth oddeutu £14.4m yn ystod 2021/22.

Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid yn Llywodraeth Cymru wedi datgan yn ddiamwys bydd y cymorth hwn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022 a bydd disgwyl i awdurdodau lleol ariannu unrhyw gostau ychwanegol / colled incwm yn sgil Covid-19 wedi hynny.

Felly, mae'r pwysau ariannol yn y gyllideb yn cynnwys £1.4m pellach sydd wedi ei ddarparu er mwyn sefydlu cronfa gorfforaethol, i ddygymod â'r sefyllfa. Nid ydym yn rhagweld bydd yr £1.4m yn ddigonol ynddo'i hun i ymdrin â'r pwysau ond mae cronfeydd eraill ar gael i gynorthwyo. Sefydlwyd Cronfa Adfer Covid wrth gau cyfrifon 2020/21 i'r perwyl hyn, a hefyd gellir gwneud defnydd o'r Gronfa Strategaeth Ariannol pe byddai angen.

4. ARBEDION

4.1 Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £32.8m o gynlluniau arbedion ers 2015/16, ond eto eleni, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu'r adrannau i wireddu nifer o'u cynlluniau.

4.2 Ar 18 Ionawr 2022, wrth ystyried adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion, penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn o ran cynlluniau arbedion 2022/23:

- cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef
 - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
 - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
- symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol.

Arbedion	Gohirio i 2023/24 neu hwyrach £	Dileu £
Cynlluniau 2022/23	1,290,250	489,750

4.3 Felly, bydd gwerth £1,780,000 o arbedion a gynlluniwyd yn wreiddiol i'w gwireddu yn 2022/23 bellach ddim yn cyfrannu at gau bwlch cyllidebol 2022/23. Canlyniad hyn yw mai £595,000 yw gwerth yr arbedion sy'n weddill yn y rhaglen i'w tynnu allan o gyllideb 2022/23, yn hytrach na £2,375,000. Mae mwy o fanylion yn Atodiad 3, ac yn yr adroddiad Cabinet 18 Ionawr.

4.4 Wedi'r addasiadau uchod i'r rhaglen arbedion, mae'r holl gynlluniau unigol sydd i'w gweithredu gan yr adrannau yn 2022/23 wedi'u rhestru yn Atodiad 3 er gwybodaeth, ac mae'r cyfansymiau adrannol wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol.

Arbedion i ddygymod gyda Bwlch Ariannu 2022/23	
	£
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant	100,000
Adran Cefnogaeth Gorfforaethol	100,000
Adran Economi a Chymuned	70,000
Adran Cyllid (a T.G.)	25,000
Adran Amgylchedd	12,500
Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol	287,500
Arbedion ar gael i leihau bwlch Cyllideb 2022/23	595,000

5. BWLCH ARIANNU 2022/23 A'R DRETH CYNGOR

- 5.1 Fe welir o ran 3 uchod fod anghenion gwario'r Cyngor (cyn tynnu arbedion) ar gyfer 2022/23 yn £295.8m. Nodwyd yn rhan 2 fod y grant oddi wrth Lywodraeth Cymru am fod yn £213.2m.
- 5.2 Fel eglurwyd yn rhan 4 uchod, mae cyfanswm o £595,000 o arbedion i'w ddefnyddio i leihau'r bwllch ariannu.

Sefydlu Cyllideb 2022/23	
	£
Cyllideb Sylfaenol 2021/22	275,669,610
Gofynion Gwario Ychwanegol	<u>20,158,210</u>
Gofynion Gwario 2022/23 cyn Arbedion	295,827,820
Ilai Incwm Grant Refeniw Llywodraeth Cymru	(213,210,400)
Ilai Cyfanswm yr Arbedion i gau'r Bwlch	(595,000)
Bwlch gweddilliol o'r Dreth Cyngor	<u>82,022,420</u>

- 5.3 Golyga hynny fod bwllch gweddilliol o £82m, ac argymhellir cyfarch y bwllch hwnnw drwy'r Dreth Cyngor. Bydd angen codi'r Dreth 2.95% er mwyn cynhyrchu incwm digonol.
- 5.4 Mae gwybodaeth gefndirol a'r cyd-destun ar gyfer gosod lefel y Dreth (ynghyd â manylion y Premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor) wedi'i gyflwyno yn Atodiad 6.
- 5.5 Felly, argymhellir codi'r dreth 2.95%, fydd yn cynhyrchu £82m o dreth erbyn 2022/23, sydd yn £1.2m o incwm ychwanegol tuag at y bwllch o'i gymharu â chyllideb 2021/22. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £43.76 i eiddo mewn Band D, neu £0.84 yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 3.68% ar gyfer 2022/23) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
- 5.6 Yn 2021/22 roedd lefel Band D Gwynedd yn £1,483, tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,402. Fodd bynnag, mae hynny am resymau hanesyddol, gan fod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd ers 2015/16 yn 4.2% ar gyfartaledd, sy'n llai na'r cynnydd 4.3% a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru yn ystod yr un cyfnod.

- 5.7 Pe bai aelodau'r Cyngor awydd cynnydd llai na 2.95% yn lefel y Dreth, yna byddai rhaid ymrwymo llai o adnoddau parhaol i ymdrin â'r pwysau ar wasanaethau.
- 5.8 Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a lefel rhesymol o drethiant o hyd yn un anodd. Ar gyfer 2022/23 disgwylir bydd y cynnig gerbron i godi'r dreth 2.95% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau tra'n gosod cyllideb gytbwys yn lefel tebyg i fwyafrif yr awdurdodau yn y gogledd.

6. CASGLIADAU / CYLLIDEB 2022/23

- 6.1 Mae'r adroddiad yma a'r atodiadau yn gosod allan y ffactorau y dylid eu hystyried wrth sefydlu cyllideb 2022/23 ac er gwaethaf cynnydd grant sydd yn uwch na chwyddiant eleni, bydd rhaid parhau i gynaeafu rhai arbedion hanesyddol – er fod modd oedi neu dileu'r mwyafrif – a chodi lefel y dreth er mwyn gosod cyllideb gytbwys.
- 6.2 Argymhellir cyfarch angen gwario refeniw o £295.2m, wedi ychwanegu £20.2m, sy'n cynnwys darparu £6.7m er mwyn cyfarch y galw am wasanaethau.
- 6.3 Ar ôl derbyn grant gan Lywodraeth Cymru o £213.2m a dibynnu ar £595k o arbedion, bydd angen i lefel y Dreth Cyngor gynyddu 2.95% i gynhyrchu £82m o incwm er mwyn cau bwloch ariannu 2022/23.

Cyllideb gytbwys ar gyfer 2022/23	
	£
Gofynion Gwario 2022/23 cyn Arbedion	295,827,820
Cyfanswm Arbedion 2022/23	(595,000)
Cyllideb 2022/23	<u>295,232,820</u>
I'w ariannu drwy -	
Incwm Grant	213,210,400
Treth Cyngor (cynnyrch ar ôl codi 2.95%)	<u>82,022,420</u>
Cyllideb 2022/23	<u>295,232,820</u>

- 6.4 Bydd hyn yn golygu gosod cyllideb net o £295,232,820. Rhoddir ddadansoddiad o'r gyllideb fesul gwasanaeth yn Atodiad 1.

7. CYFALAF

- 7.1 Sefydlwyd strategaeth asedau 2019/20 – 2028/29 gan y Cyngor llawn ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf, ac rydym yn ychwanegu at hwnnw erbyn 2022/23. Ceir manylion y rhaglen gyfalaf bresennol yn Atodiad 4.
- 7.2 Mae'r ddau dabl a welir yn Atodiad 4 yn adlewyrchu'r gofynion cyfalaf, ynghyd â'r ariannu, ar gyfer gosod cyllideb cyfalaf 2022/23 i 2024/25, er mwyn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £59,074,980 yn 2022/23, i'w ariannu o'r ffynonellau sydd wedi'u dadansoddi yn Atodiad 4.
- 7.3 Yn y tabl yn Atodiad 4 nodir bod £500k ar gael yn flynyddol ar gyfer cyllido bidiau cyfalaf. Ar gyfer 2022/23, mae'r gyllideb yma wedi ei glustnodi ar gyfer y 7 bid cyfalaf perthnasol a fanylir yn Atodiad 2ch.

8. STRATEGAETH TYMOR HIRACH

- 8.1 Mabwysiadwyd Strategaeth Cyllideb 2022/23 gan y Cabinet ar 28 Medi 2021. Bwriad y Strategaeth yma oedd rhoi amlinelliad o drefn flynyddol llunio cyllideb am y flwyddyn 2022/23, ynghyd â Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y Cyngor Penderfyniad y Cabinet oedd:
- i. Cymeradwywyd y drefn ac amserlen ar gyfer llunio Cyllideb 2022/23.
 - ii. Nodwyd os bydd bwloch cyllido i fantoli cyllideb 2022/23, bydd y Cyngor yn defnyddio cyllidebau a cronfeydd wrth gefn i liniaru colledion adnoddau yn y tymor byr, a pwylllo cyn adnabod unrhyw arbedion ychwanegol fydd angen yn ystod haf 2022.
 - iii. Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad fel Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor, tra'n nodi, yn y cyd-destun cyfredol, fod cynllunio ariannol yn hynod heriol.
- 8.2 Wrth gyhoeddi setliad drafft 2022/23 yn Rhagfyr 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd Awdurdodau Lleol Cymru ar y cyfan yn derbyn +3.5% yn 2023/24 ac yna +2.4% yn 2024/25. Wrth gwrs, gall Gwynedd dderbyn llai na chyfartaledd Cymru. Er enghraifft, derbyniwyd +8.8% eleni o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o +9.4%.
- 8.3 Golyga hyn bydd y cynnydd yng ngrant y Llywodraeth ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn sylweddol llai na'r hyn byddwn yn ei dderbyn yn 2022/23. O ystyried cyfraddau chwyddiant, wrth gynllunio ar gyfer y blynyddoedd hyn bydd gosod cyllideb gytbwys yn golygu ail-ymweld â'r cynlluniau arbedion sydd wedi llithro i'r blynyddoedd hynny.

9. YSTYRIAETHAU ERAILL AC AMRYWIOL ASESIADAU

- 9.1 Mae'r lefel gyfredol o falansau cyffredinol y Cyngor yn £7m, ac ar ôl cyfarch effaith Covid-19 ar gyfrifon diwedd blwyddyn 2021/22, ystyrir bydd lefel y balansau hyn yn briodol i'w gadw ar gyfer llif arian ymarferol a gwariant annisgwyl. Cyflwynir gwybodaeth am y balansau a chronfeydd wrth gefn yn Atodiad 7.
- 9.2 Mae'r gyllideb yma'n argymhell defnyddio £6,172,960 o'r Gronfa Trawsffurfio er mwyn ariannu'r bidiau refeniw un-tro sydd wedi eu nodi yn Atodiad 2.
- 9.3 Mae Atodiad 5, 'Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2022/23', yn egluro sefyllfa cyllideb ysgolion Gwynedd.
- 9.4 Wrth benderfynu ar gyllideb, rhaid i'r Cabinet a'r Cyngor ystyried effaith eu penderfyniadau o safbwynt cydraddoldeb yn unol â'r dyletswyddau statudol sydd ar y Cyngor drwy **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**. Bydd hyn yn ysgafnach eleni, gan nad ydym yn cyflwyno unrhyw gynlluniau arbedion newydd ychwanegol. Mae Atodiad 8 yn ymdrin yn benodol â'r ddyletswydd, gan gynnwys sylwadau'r swyddog cyllid statudol ar y Gyllideb cyfan o safbwynt cydraddoldeb. Mae'r asesiad yn cadarnhau fod y bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol ac ni chredir y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn sylweddol, gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu hargymhell.
- 9.5 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn seiliedig ac wedi eu datblygu yn unol â'r ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor dan Adran 3 i ymgymryd â datblygiad cynaliadwy yn ei holl weithgareddau. Yn unol â'r drefn arferol, rhoddir gwybodaeth fanylach am y Ddeddf Llesiant a chasgliadau perthnasol yn Atodiad 9.
- 9.6 Mae rhaid i'r swyddog cyllid statudol fynegi barn am gadernid yr amcangyfrifon. Cyflwynir asesiad o risgiau a chadarnhad priodol yn Atodiad 10.
-

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Barn y swyddogion statudol

Swyddog Monitro:

Er mai mater i'r Cyngor llawn ydi penderfynu yn derfynol ar y gyllideb mae'n bwysig fod y Cabinet yn rhoi argymhelliad clir iddo ynglŷn â'i gynlluniau gwario a'r gyllideb ddrafft ac mae'r adroddiad hwn yn cyflawni hynny. Unwaith y bydd y Cyngor wedi cytuno ar y ffynonellau cyllido, yna y Cabinet fydd yn gyfrifol am y gwariant a'r blaenoriaethu oddi fewn i'r gyllideb honno.

Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys. Wedi ystyried yr holl risgiau amlinellir yn Atodiad 10 i'r adroddiad, a'r camau lliniaru, rwyf o'r farn fod Cyllideb y Cyngor am 2022/23 yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.

ATODIADAU

- 1 Cyllidebau Arfaethedig
- 2 Crynodeb Bidiau
- 2a Bidiau Refeniw Parhaol
- 2b Bidiau Refeniw Un-tro
- 2c Bidiau Cyfalaf
- 3 Arbedion
- 4 Cyfalaf
- 5 Ymdrin â'r Gyllideb Ysgolion yn 2022/23
- 6 Treth Cyngor
- 7 Balansau
- 8 Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol
- 9 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 10 Cadernid yr Amcangyfrifon

ATODIAD 1 - CRYNODEB CYLLIDEB

CYLLIDEBAU ARFAETHEDIG 2022/23 FESUL GWASANAETH										
	Cyllideb	Chwyddiant	Chwyddiant	Demograffi	Incwm,	Trosglwyddiad	Pwysau ar	Arbedion	Addasiadau	Cyllideb
	Sylfaenol	Cyflogau	Arall		Ffioedd a	Setliad	Wasanaethau	Effeithlonrwydd	Amrywiol	Sylfaenol
	2021/22				Phrisiau					2022/23
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
ADRANNAU										
Addysg Canolog	17,292	396	210				163		(198)	17,863
Cyllideb Ysgolion	80,572	2,993	492	(57)					37	84,037
Economi a Chymuned	5,250	198	(13)		(279)		785	(70)	22	5,893
Oedolion, Iechyd a Llesiant	56,607	1,260	1,663			193	1,585	(100)	383	61,591
Plant a Chefnogi Theuluoedd	19,341	563	330	30			1,090		(12)	21,342
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	25,663	868	371		84	118	1,072	(288)	35	27,923
Amgylchedd	3,697	310	(16)		(66)		398	(13)	2	4,312
Tai ac Eiddo	6,677	276	23		88		590		239	7,893
Ymgynghoriaeth Gwynedd	(134)	302	14		(150)				3	35
Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol	1,958	74	9		(10)				121	2,152
Cefnogaeth Gorfforaethol	7,226	299	256				495	(100)	(69)	8,107
Cyllid (a T.G.)	6,616	388	(12)				480	(25)	32	7,479
CYFANSWM ADRANNAU	230,765	7,927	3,327	(27)	(333)	311	6,658	(596)	595	248,627
Materion Corfforaethol a Chyfalaf	47,793	548	1,145				4,064		(1,468)	52,082
CYFANSWM GROS	278,558	8,475	4,472	(27)	(333)	311	10,722	(596)	(873)	300,709
Llai Praesept Cyngorau Cymuned	(2,544)						-			(2,544)
CYFANSWM GWARIANT GROS	276,014	8,475	4,472	(27)	(333)	311	10,722	(596)	(873)	298,165
Balansau a Reserfau Penodol	(344)						(2,588)			(2,932)
CYFANSWM GWARIANT NET =	275,670	8,475	4,472	(27)	(333)	311	8,134	(596)	(873)	295,233
Ariannwyd Drwy:-										
Grant	194,794									213,211
Treth Cyngor	80,876									82,022
Cyfanswm Incwm	275,670									295,233

	Teitl y Bid	Parhaol (£)	Un tro (£)	Cyfalaf (£)
Adran Addysg				
Bid 1	Cludiant Taccis a Threnau Ysgolion	150,000		
Bid 2	Swyddog Addysg Uwchradd	89,530		
Bid 3	Tocyn Teithio Ôl-16	218,070		
Un tro 1	Swyddog Hybu Cinio am Ddim		42,920	
Cyf 1	Cae Cymunedol Caernarfon ar safle Ysgol Syr Hugh Owen.			118,000
Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd				
Bid 4	Cynllun Awtisitaeth (ar y cyd gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	48,000		
Bid 5	Cynllun Pan Fyddai'n Barod	50,000		
Bid 6	Tâl am Sqiliau i Ofalwyr Maeth	65,000		
Bid 7	Tim Nos a Diogelu	16,000		
Bid 8	Gwasanaeth Cefnogol Derwen	100,000		
Bid 9 & Un tro 2	Tîm Ôl-16 Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol	200,000	100,000	
Bid 10	Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Plant Anabl	102,500		
Un tro 3	Cefnogi Pobl		350,000	
Adran Amgylchedd				
Bid 17	Adnoddau staffio Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd	16,860		
Bid 18	Uwch Swyddog Gweithredol	55,850		
Un tro 8	Swyddog Prosiectau Cefn Gwlad		36,500	
Un tro 9	Cefnogi a chyfathrebu'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwqaiedia		114,750	
Un tro 10	Swyddogion Ymgysylltu Gwarchod y Cyhoedd		261,720	
Un tro 11	Cynllun peilot ar gyfer cyflwyno parthau dynodedig i qartrefi modur wersvlla dros nos.		100,000	
Cyf 6	Gwelliannau i groesfan ar Ffordd Llanberis, Caernarfon			50,000
Adran Economi a Chymuned				
Bid 19	Amqueddfa Lloyd George	27,000		
Bid 20	Cynnal gwasanaeth i gefnogi busnesau / adfer a datblygu'r economi	139,570		

	Teitl y Bid	Parhaol (£)	Un tro (£)	Cyfalaf (£)
Adran Economi a Chymuned (parhad)				
Un tro 12	Rhaglen Hybu Canol Trefi		257,520	
Un tro 13	Cynllun Eiddo Gwaq		111,680	
Un tro 14	Fframwaith Adfywio Gwynedd		240,210	
Un tro 15	Cynnal a Chadw Canolfannau Hamdden Byw'n Iach		36,000	
Cyf 2	Cronfa Cefnogi Cymunedau (Cist Gwynedd)			50,000
Cyf 3	Ail Wynebu Maes Parcio Y Glyn, Llanberis			100,000
Cyf 4	Uwchraddio a diogelu Parc Padarn			50,000
Adran Ymgynghoriaeth				
Cyf 7	Hirael – cynllun atal llifogydd a gwellianau cysylltiadau trafndiaeth wrdd			75,000
Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol				
Bid 23	Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn	75,620		
Bid 24	Gangiau Ardal	507,910		
Bid 25	Newid trefniadau Iechyd a Diogelwch - Casglu Gwastraff	342,000		
Bid 26	Gwywiad yr Onnen	100,000		
Bid 27	Tariff Tannwydd Coch	65,000		
Un tro 16	Cylchdaith Ailgylchu Ychwanegol (Ardal Arfon) - Casglu Gwastraff		141,190	
Un tro 17	Swyddog Prosiect Economi Gylchol		40,040	
Un tro 18	Swyddog Ymgysylltu a Newid Ymddygiad Ailgylchu		40,040	
Cyf 5	Flare ar gyfer delio gyda nwyon safle tirlenwi Ffridd Rasmus, Harlech			56,900
Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant				
Bid 11	Oed Trosglwyddo Anabledd Dysgu	223,050		
Bid 12	Llety Cefnogol – Maes Anabledd Dysgu	300,000		
Bid 13	Staffio Cartrefi Preswyl Anabledd Dysgu	160,070		
Bid 14	Ffioedd Safonol Preswyl a Nyrsio (Cartrefi Annibynnol)	2,695,000		
Bid 15	Cytundebau Staff Achlysurol	125,000		
Bid 16	Anghenion staffio uned gofal dementia Plas Hedd, Bangor	70,000		

	Teitl y Bid	Parhaol (£)	Un tro (£)	Cyfalaf (£)
	Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (parhad)			
Un tro 4	Cryfhau Timau Adnodd Cymunedol - Gweithwyr Cymdeithasol / Ymarferwyr Gofal		250,000	
Un tro 5	Cydlynnydd Trosglwyddo		47,420	
Un tro 6	Sicrwydd Ansawdd		48,930	
	Adran Tai ac Eiddo			
Bid 21	Digartrefedd - costau ychwanegol llety dros dro	358,560		
Bid 22 & Un tro 7	Cynyddu capasiti Uned Digartrefedd Atebion Tai	100,000	131,200	
	Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth			
Bid 28	Adnewyddu Cytundeb Meddalwedd Microsoft	332,000		
Un tro 19	Cynyddu capasiti TG y Cyngor i gefnogi Strategaeth Ddiadidol Ysaolion Gwynedd		148,000	
	Adran Cefnogaeth Gorfforaethol			
Un tro 20	Datblygu Hunaniaith		203,880	
Un tro 21	Prosiect Iechyd a Diogelwch		40,035	
Un tro 22	Llesiant meddyliol gweithlu'r Cyngor		50,000	
Un tro 23	Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth		36,445	
Un tro 24	Ymgynghorydd Iaith		94,480	
Un tro 25	Addasiadau i swyddfeydd er mwyn cyfarch trefniadau gweithio newydd vn v dvfodol		250,000	
	Cyngor			
Un tro 26	Cynllun Hinsawdd		3,000,000	

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

BIDIAU REFENIW PARHAOL 2022/23

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
ADDYSG			
Bid 1	Cludiant Tacsis a Threnau Ysgolion	<p>Cytundebau diweddaraf ar sail nifer dyddiau blwyddyn gyllidol 2022-23, yn dangos gwariant o £3,044,427 yn erbyn cyllideb o £2,554,360 (yn cynnwys cyfraniad o £100k o'r Grant Gwella Addysg EIG tuag at gostau tacsis Canolfannau Iaith) yn gadael diffyg o £490,067.</p> <p>Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â - - diffyg o £145k yn bid a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn gyllidol 2021-22. (cyflwynwyd bid am £290,440 a derbyniwyd £145,440 parhaol a £145k un tro), - yn defnyddio arbedion o (£65,980) sydd wedi deillio wrth ail tendro cytundebau Ardal Arfon yn Ebrill 2021.</p>	150,000
Bid 2	Swyddog Addysg Uwchradd	<p>Cabinet 28 Ebrill 2020 wedi cymeradwyo cyllid am gyfnod o ddwy flynedd i benodi swyddog er mwyn targedu, cefnogi a chynnig her briodol ac amserol i'r ysgolion uwchradd.</p> <p>Cais i ariannu'r swydd yn barhaol, er sicrhau parhad yng nghynhwysedd ychwanegol yr Adran i gefnogi'r sector uwchradd mewn cyfnod o bandemig, yn ogystal â chefnogi'r ysgolion rheiny sydd yn peri pryder, ac angen her a chefnogaeth ychwanegol ar eu taith tuag at hunan-wella.</p>	89,530

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Bid 3	Tocyn Teithio Ôl-16	<p>Codir ffi o £300 ar bobl ifanc 16 + oed i deithio i'w sefydliadau addysg boed yn yr ysgol neu goleg. Mae'r ffi'r un fath i bawb dim ots os ydynt yn teithio am 1 diwrnod neu 5 diwrnod. Cyngor Gwynedd yw'r unig awdurdod yn rhanbarth y Gogledd sy'n codi ffi.</p> <p>Gwaith ymchwil yn dangos bod y pandemig wedi cael effaith andwyol ar bobl ifanc 16-25 oed o ran eu lles ac o ran cyfraddau NEETs. Roedd y gyfradd NEETs ar ei huchaf y llynedd yn ystod y pandemig (er yn is eleni, heb gyrraedd y lefel cyn y pandemig eto). Credir fod cost y Tocyn Teithio Ôl-16 yn rhwystr i rai pobl ifanc allu manteisio ar addysg bellach.</p> <p>Bwrdd Cefnogi Llesiant Pobl wedi adnabod llesiant yr oedran 16 + fel blaenoriaeth drawsadrannol yn sgil y pandemig, sy'n un o flaenoriaethau'r Adran Addysg yng Nghynllun y Cyngor.</p> <p>Byddai dileu'r ffi yn sicrhau mynediad di-rwystr i addysg bellach. Ac yn sicrhau cysondeb yn y cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd fanteisio ar addysg bellach yn rhad ac am ddim yn yr un modd a'u cyfoedion mewn siroedd eraill.</p>	218,070
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD			
Bid 4	Cynllun Awtistiaeth (ar y cyd gyda'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)	<p>Comisiynwyd mewnbwn arbenigol i ddatblygu cynllun i ymateb i geisiadau am asesiadau a chefnogaeth yn ymwneud ag awtistiaeth yn dilyn adroddiad beirniadol gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae cynllun drafft wedi ei ddatblygu, caiff ei gyflwyno i'r Cabinet cyn hir. Hefyd, ym mis Medi 2021 daeth Cod Ymarfer ar gyfer Awtistiaeth i rym. Datblygwyd y cynllun ar y cyd gyda Chyngor Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.</p> <p>Byddai'r bid yn ariannu swydd Cydlynedd Awtistiaeth a 2 swydd Gwaith Cymdeithasol ar gost blyneddol o £144k. Byddai'r Cyngor yn cyfrannu tuag at draean o'r gost.</p>	48,000
Bid 5	Cynllun Pan Fyddai'n Barod	<p>Ers 2016 mae cynnig trefniant aros yn eu lleoliad maeth i bobl ifanc sy'n troi 18 oed yn ofyniad statudol, ond ni chafwyd arian ychwanegol gan y Llywodraeth i'w weithredu. Ar gyfer 2 flynedd cyntaf y cynllun trosglwyddwyd arian o gyllideb maethu mewnol. Nid yw trosglwyddiad pellach yn bosib er mwyn rheoli'r gyllideb.</p> <p>Mae rhwng 5 a 8 person ifanc sydd mewn lleoliad maeth yn troi 18 yn flynyddol. Nid yw pob un yn dewis aros ymlaen, gyda rhwng 60% a 80% sy'n gymwys yn gwneud hynny. Eleni mae 11 yn rhan o'r cynllun hyd at ddiwedd Medi. Bydd 3 o'r trefniadau yn dod i ben cyn diwedd mis Mawrth 2022, a rhagwelir y bydd 4 cynllun newydd.</p>	50,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Bid 6	Tâl am Sgiliau i Ofalwyr Maeth	<p>Telir Lwfans Maethu i ofalwyr maeth ar gyfer pob plentyn yn eu gofal. Nid yw'r gofalwyr maeth fel arall yn derbyn cyflog, ond gellir derbyn ffi fel cydnabyddiaeth am eu rôl yn ddibynol ar ddatblygiad personol, hyfforddiant a pharodrwydd i gwblhau cymhwyster gofal plant.</p> <p>Mae nifer y gofalwyr maeth yn weddol sefydlog a nod yr awdurdod lleol yw sicrhau nifer digonol o ofalwyr maeth er mwyn ceisio osgoi lleoli gydag asiantaethau preifat.</p> <p>Erbyn hyn, mae mwy o ofalwyr maeth sy'n gymwys am daliad ffi na'r gyllideb sydd ar gael. Cynyddwyd cyllideb talu lwfansau maeth y llynedd, ond nid oedd cynnydd ar gyfer yr elfen talu ffi i ofalwyr maeth.</p>	65,000
Bid 7	Tim Diogelu ac Ansawdd	Yn sgil ymateb i gynnydd yn y galw, addaswyd sefydliad ar gyfer swydd Swyddog Adolygu Annibynnol ac Amddiffyn o 0.7 FTE i 1 FTE sydd wedi creu diffyg yn y gyllideb o £16k.	16,000
Bid 8	Gwasanaeth Cefnogol Derwen	<p>Mae'r galw am wasanaeth gan Dîm Cefnogol Derwen wedi cynyddu yn sylweddol a natur anghenion yr achosion yn fwy dwys. Oherwydd natur dwys yr anghenion, gall sefyllfa cartref fod dan straen gan arwain at becynnau argyfwng am gyfnod o amser i leddfu'r sefyllfa. Law yn llaw a hyn, mae nifer pecynnau gofal dwys ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Iechyd i blant gwael hefyd wedi cynyddu, mae rhain yn becynnau cymhleth iawn.</p> <p>Gyda mwy o blant yn cael diagnosis yn fuan yn eu bywydau ni ellir gweld y bydd y galw am wasanaethau yn lleihau.</p>	100,000
Bid 9	Tim ôl-16 Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol	<p>Dros y 5 mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn y nifer achosion sy'n agored i'r timau (cynnydd o 441 i 600), ond ni welwyd cynnydd yn y nifer o Weithwyr Cymdeithasol. Sydd wedi arwain at lwyth gwaith sylweddol uwch i'r Gweithwyr Cymdeithasol.</p> <p>Dros y 12/18 mis diwethaf mae'r gwasanaeth wedi profi heriau cynyddol i gynnal a chadw gweithlu Gwaith Cymdeithasol cymwysedig.</p> <p>O ganlyniad i fethu â recriwtio, penderfynwyd ychwanegu at staff y timau drwy ychwanegu swyddi Gweithwyr Gofal Cymdeithasol di-gymhwyster, ail-ddisgrifio swyddi'r Uwch Ymarferwyr dros-dro a symud rhai Gweithwyr Cymdeithasol profiadol o rannau eraill o'r Gwasanaeth am gyfnod penodol.</p>	200,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Bid 10	Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Plant Anabl	<p>Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn y nifer teuluoedd sy'n dewis Taliadau Uniongyrchol i drefnu pecynnau gofal eu hunain. Law yn llaw a hynny, mae natur a chymhlethdod anghenion bellach yn fwy dwys sy'n golygu bod angen am becynnau gofal mwy. Rhwng y ddau ffactor yma mae gwariant yr Adran ar Taliadau Uniongyrchol i blant anabl yn debygol o fod oddeutu £238k yn erbyn cyllideb o £81k.</p> <p>Mae cost cyfartalog achos wedi codi o £3,740 yn 2018-19 i £8,810 yn 2021-22. Gyda chost cyfartalog achos pecyn trwm bellach yn £20k.</p>	102,500
OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Bid 11	Oed Trosglwyddo Anabledd Dysgu	<p>Bydd nifer o unigolion sydd wedi bod yn derbyn gwasanaeth gan yr Adran Plant a Theuluoedd yn troi yn 18 oed ac yn cychwyn derbyn gwasanaeth gan y Gwasanaeth Anableddau Dysgu yn ystod 2022/23. Mae 9 o'r unigolion yma wedi eu hadnabod yn becynnau gofal lle bydd costau sylweddol ychwanegol. Yn ogystal, mae 2 unigolyn arall wedi troi yn 18 yn ystod 2021/22 lle mae angen bidio am effaith flwyddyn lawn eu pecynnau gofal.</p>	223,050
Bid 12	Llety Cefnogol – Maes Anabledd Dysgu	<p>Mae anghenion unigolion mae'r Tîm yn eu cefnogi yn mynd yn fwy cymhleth. A'r niferoedd sydd yn byw mewn tŷ a chefnogaeth yn cynyddu. Mae prinder o lety addas, ond mae prosiect lletya yn gweithio ar gwrdd â'r angen ar draws y Sîr.</p> <p>Mae'r opsiwn o fyw mewn tŷ gyda chefnogaeth yn well opsiwn o ran cyfarch anghenion nifer fawr o unigolion a chael gwerth gorau am arian. Mewn ambell achos, bydd angen llety fwy arbenigol yn y gymuned. Fel rhan o'r bid yma, mae nifer o resymau pam fod yr unigolion dan sylw angen tŷ a chefnogaeth/wedi symud i dŷ a chefnogaeth/llety arbenigol :</p> <ul style="list-style-type: none"> * Newid mewn angen sylweddol (1) * Unigolion yn dychwelyd adref o garchar neu ysbyty arbenigol (3). * Unigolion yn byw gartref gyda'i rhieni/gofalwr, a'r sefyllfa yn fregus iawn, neu wedi torri lawr (2) 	300,000
Bid 13	Staffio Cartrefi Preswyl Anabledd Dysgu	<p>Mae strwythur staffio Cartrefi Preswyl Anableddau Dysgu Frondeg (Caernarfon) a Tan Y Marian (Pwllheli) wedi bod yn annigonol i gwrdd ag anghenion y preswylwyr wrth i anghenion y preswylwyr newid a dwysau.</p> <p>Er fod staff ychwanegol wedi eu rhoi mewn lle i gynnal y rota, dydi'r strwythur cyllidol heb gael ei ddiweddarau i gyd fynd ar hyd y blynyddoedd, ac felly mae gorwariant ar gyllideb staffio y ddau gartref yn flynyddol.</p> <p>Gyda £35,070 ar gyfer penodi is reolwr preswyl yng nghartref Tan Y Marian.</p>	160,070

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

Bid 14	Ffioedd Safonol Preswyl a Nyrsio (Cartrefi Annibynnol)	<p>Mae gwaith ar y gweill i ystyried os yw'r ffioedd safonol ar gyfer comisiynu gofal Preswyl a Nyrsio yn adlewyrchu'r gwir gost o ddarparu gofal.</p> <p>Mae'r gwaith yma ar lefel cenedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Fel rhanbarth gogledd Cymru mae grŵp tasg wedi ei sefydlu, ac un o'r ymarferiadau sydd wedi digwydd yn ddiweddar yw cymharu ein ffioedd safonol cyfredol gyda'r hyn sy'n cael ei awgrymu gan y 'Toolkit Laing & Buisson'. Mae'r gwahaniaeth ariannol fesul y 4 categori gofal sydd gennym yn sylweddol. Mae gwaith o gasglu tystiolaeth a chynnal trafodaethau gyda'r darparwyr lleol hefyd wedi cymryd lle ac angen ei ddatblygu ymhellach dros yr wythnosau nesaf. Byddwn angen cyfle i ystyried yr holl oblygiadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr a rhanddeiliaid eraill cyn dod i gasgliad terfynol ar y ffioedd ar gyfer y flwyddyn i ddod.</p> <p>Mae'r swm yn amcan o'r gost ychwanegol fyddai angen arnom fel awdurdod pe byddem yn cynyddu ein ffioedd safonol i'r lefelau sy'n cael eu hawgrymu gan y 'Toolkit' diweddaraf a'r dystiolaeth gan ein darparwyr lleol. Mae'r amcan hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr incwm sy'n cael ei gasglu gan unigolion sy'n gallu cyfrannu / talu am eu gofal.</p>	2,695,000
Bid 15	Cytundebau Staff Achlysurol	<p>Mae'r staff achlysurol yn gweithio oriau cyson ac am gyfnodau di-dor felly gellir eu gweld yn angenrheidiol i'r gwasanaeth.</p> <p>Dymuniad y gwasanaeth yw cynnig cytundebau oriau amrywiol ond parhaol i'r staff yma.</p> <p>Mae annhegwch i'r cyflogau a delir, er yn cyfrannu'n gyfartal i'r gwasanaeth fel aelod staff parhaol ond eu bod ar y cyflog isaf ac ddim cyfle i godi oherwydd eu statws.</p> <p>Mae angen am 70 aelod staff ychwanegol i'r strwythur cartrefi, ar gyfartaledd 5 i bob cartref a Bryn Blodau yn uwch gan ei fod yn gartref mwy.</p>	125,000
Bid 16	Anghenion staffio uned gofal dementia ychwanegol a gofal mwy dwys yng nghartref preswyl Plas Hedd, Bangor	<p>Datblygwyd un Uned Dementia ym Mhlas Hedd ac erbyn hyn mae buddsoddiad yn cael ei wneud i addasu uned arall o 7 gwely. Mae'r bid hwn ar gyfer staffio yr uned ychwanegol ar gyfer dyblu'r ddarpariaeth gofal dementia yn y cartref.</p> <p>Mae'r uned dementia yn llawn yn gyson ac ers rhai misoedd mae'r rhestr aros ar gyfer gwelyau yr uned wedi bod yn fwy na'r nifer o welyau sydd yn yr Uned. Ar un adeg roedd 12 o unigolion yn aros am y math yma o ddarpariaeth gofal yn yr ardal leol. Dros yr un cyfnod mae hyd at 7 o welyau preswyl arferol wedi bod yn wag ar brydiau a neb wedi bod ar y rhestr aros ar gyfer eu lleoli ynddynt.</p>	70,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

AMGYLCHEDD			
Bid 17	Adnoddau staffio Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd	Nid yw'r 3 gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn y drefn 'haenau rheolaethol' gan nad oes Arweinyddion Tîm i gefnogi'r rheolwyr. Felly, mae gormod o bwysau dydd i ddydd ar y Rheolwyr Gwasanaeth gydag oddeutu 14 swyddogion yn gofyn am arweiniad. Bydd disodli 6 swydd Swyddog GyC gyda 6 swydd Arweinydd Tîm (2 ar gyfer pob gwasanaeth) nid yn unig yn sicrhau bod rheolwyr gyda'r capasiti i reoli ond hefyd sicrhau bod strwythurau'n cael eu sefydlu i gyd-fynd ag egwyddorion haenau rheolaethol.	16,860
Bid 18	Uwch Swyddog Gweithredol	<p>Mae'r adran gyda rôl allweddol neu'n arwain mewn sawl maes gwaith sydd yn bwysig yn gorfforaethol, megis Tai Haf, cydbwyllgorau, gwasanaeth profi, olrhain a diogelu. Yn ogystal, mae mwy o gyfrifoldeb ar yr adran y dyddiau hyn mewn perthynas â'r gyfundrefn rheoli perfformiad a bydd angen cefnogaeth i weithredu'r drefn a sicrhau bod popeth, gan gynnwys y gofrestr risg, yn cael eu cadw'n gyfredol.</p> <p>Rydym wedi adnabod yr angen am gefnogaeth ychwanegol ar yr Uned Reoli er mwyn medru cwrdd â'r gofynion sydd arnom mewn perthynas â materion adrannol a chorfforaethol.</p> <p>Byddai apwyntio Uwch Swyddog Gweithredol i weithio ar y cyd â'r Pennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yn cyfarch y bwch ac yn sicrhau trosolwg mwy effeithiol o'n gweithrediadau ddydd i ddydd.</p>	55,850

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

ECONOMI A CHYMUNED			
Bid 19	Amgueddfa Lloyd George	<p>Dyfodol Ymddiriedolaeth Elusen Amgueddfa Lloyd George yn parhau'n ansicr ers i'r gyllideb a dderbynnir gan y Cyngor gael ei thorri o £27k yn sgil 'Her Gwynedd'.</p> <p>Mae materion cyfraith elusennol yn ei gwneud yn anodd iawn trosglwyddo neu gau'r amgueddfa oherwydd yr angen i sicrhau lles gorau'r elusen gan yr Ymddiriedolwyr (sef y Cabinet).</p> <p>Yr opsiwn a ffafirir yw i'r Cyngor barhau i redeg yr amgueddfa, ond i ddatblygu trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng yr elusen a'r Cyngor.</p> <p>Mae Achos Busnes wedi ei ddatblygu i barhau gyda rôl allweddol i'r Cyngor yn rhedeg y safle gyda chyfraniad o £20k y flwyddyn gan y Cyfeillion.</p>	27,000
Bid 20	Cynnal gwasanaeth i gefnogi busnesau / adfer a datblygu'r economi	<p>Byddai'r cais yn sefydlogi a dwysáu ymdrechion yr Adran i gefnogi busnesau lleol a datblygu'r economi drwy:</p> <p>a) Sicrhau cyllid parhaol i ariannu dwy swydd (Rheolwr Rhaglen Swyddi Gwerth Uchel a Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig) sy'n allweddol i'n hymdrechion i wella'r economi er budd pobl Gwynedd.</p> <p>b) Sefydlogi a chynyddu gallu'r Cyngor i gefnogi busnesau lleol drwy, greu swydd ychwanegol o fewn Tîm Cefnogi Busnesau a chyllido swydd dros dro Cymhorthydd Cyfathrebu o fewn Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata'r Adran yn barhaol.</p>	139,570
TAI AC EIDDO			
Bid 21	Digartrefedd - costau ychwanegol llety dros dro	<p>Mae dros 500 o unigolion yn ddigartref, gyda dros 250 mewn llety dros dro megis llety gwely a brecwast neu westy. Ar gychwyn y pandemig fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddiddymu'r gofyn am 'flaenoriaeth angen' ac mae'n bellach yn ofynnol i ni gartrefu pawb gan sicrhau nad oes unigolion yn cysgu ar y stryd. Mae'r gofyn hyn yn debygol o barhau.</p> <p>Rhagwelir hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol, derbyniad Grant Caledi gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfarch costau llety dros dro ar gyfer y digartref. Mae risg y bydd y grant yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fe fydd y gyllideb ychwanegol yn ein galluogi i barhau i gwrdd â'n dyletswydd statudol i gartrefu unrhyw un sy'n cyflwyno'n ddigartref.</p>	358,560
Bid 22	Cynyddu capasiti Uned Digartrefedd Atebion Tai	<p>Creu 4 swydd ychwanegol i'r Uned Atebion Tai er mwyn gallu ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau digartrefedd, a hynny am gyfnod dros dro o ddwy flynedd.</p> <p>Nid yw niferoedd swyddogion y Tîm Atebion Tai wedi newid i gyfarch y gwaith ychwanegol yn sgil cynnydd yn nifer cyfeiriadau, ac felly nid yw'r Uned ar hyn o bryd yn cyflawni eu holl ddyletswyddau statudol.</p>	100,000

ATODIAD 2a - BIDIAU REFENIW PARHAOL

PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL			
Bid 23	Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn	Cabinet yn ei gyfarfod ar 27/07/21 eisoes wedi cymeradwyo'r GDMC a'r angen i ariannu 2 Warden Gorfodaeth Stryd (Rheoli Cŵn). Fydd nid yn unig yn canolbwyntio ar GDMC ond hefyd gyda phwyslais cryf ar godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd.	75,620
Bid 24	Gangiau Ardal	Fel rhan o waith ymgynghori cychwynnol Ardal Ni 2035, mae sawl sylw wedi ei dderbyn am weld gwellhad yn edrychiad ein strydoedd. Bwriad y cais yw ariannu gangiau ardal a fydd yn ymateb i'r gwaith glanhau, "seidio", chwynnu ac ymateb i waith brys gan ychwanegu gwerth gweledol yn ein hardaloedd/cymuned.	507,910
Bid 25	Newid trefniadau lechyd a Diogelwch - Casglu Gwastraff	Newidiadau i drefn gwaith y Gwasanaeth Casglu Gwastraff a gytunwyd drwy gytundeb torfol. Un o amodau'r cytundeb oedd i'r Gwasanaeth ail-arfarnu swyddi o fewn y tîm casglu. Mae'r gwaith hwn bellach wedi ei gyflawni gyda'r angen i ail-arfarnu rhai swyddi. Trwy ail-arfarnu'r swyddi hyn, bydd gwell trefn a dealltwriaeth o gyfrifoldebau a dyletswyddau'r tîm, sydd am weld gwelliant yn y gwasanaeth.	342,000
Bid 26	Clwyf Gwywiad yr Onnen (Ash Dieback)	Adran eisoes wedi derbyn bidiau un tro yn y blynyddoedd diwethaf er mwyn ymateb i'r afiechyd, ond byddai'r arian parhaol yn caniatáu'r Adran i barhau i baratoi rhaglen o dorri a thocio coed a'u hadnabuwyd yn beryglus yn dilyn archwiliadau gan archwilwyr arbenigol.	100,000
Bid 27	Tariff Tanwydd Coch	Yn sgil newid deddfwriaethol, o Ebrill 2022 ni all y Cyngor ddefnyddio tariff tanwydd coch a bydd rhaid defnyddio tanwydd gyda thariff llawn.	65,000
CYLLID A THECHNOLEG GWYBODAETH			
Bid 28	Adnewyddu Cytundeb Meddalwedd Microsoft	Cytundeb gyda'r darparwr yn dod i ben diwedd Mehefin 2022. Mae'r cytundeb yn cael ei gytuno rhwng Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a Microsoft, felly nid oes lle i'r Cyngor ddylanwadu ar y prisiau. Hefyd, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y defnyddwyr sy'n cael eu cefnogi gan y Cyngor, gyda'r niferoedd yn codi o 2,390 yn 2017/18 i 2,711 erbyn hyn. Rhagwelir fydd y cynnydd rhwng £215k a £332k y flwyddyn.	332,000
CYFANSWM BIDIAU REFENIW PARHAOL			6,732,590

ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

BIDIAU REFENIW REFENIW UN-TRO 2022/23

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
ADDYSG			
Un tro 1	Swyddog Hybu Cinio am Ddim	<p>Ariannu swyddog i annog rhieni i hawlio prydau ysgol am ddim ac i annog mwy o ddisgyblion cymwys i dderbyn y pryd yn yr ysgol. Ym mis Gorffennaf a Medi 2021, 60% o'r disgyblion oedd yn gymwys i ginio am ddim a gymrodd fwyd yn yr ysgol.</p> <p>Cost y swydd fyddai £32,920 gyda £10k tuag at adnoddau hyrwyddo hawlio prydau ysgol am ddim.</p>	42,920
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD			
Un tro 2	3 swydd Gweithwyr Gofal Cymdeithasol a 4 swydd Gweithwyr Cymdeithasol (Tim ôl 16)	Bid refeniw parhaol am yr un swm hefyd wedi ei gyflwyno gan yr Adran, petai'r cais parhaol yn aflwyddiannus yna gofynnir i'r Cabinet ystyried ariannu'r cais ar sail un tro.	100,000
Un tro 3	Cefnogi Pobl	<p>Grŵp Tasg a Gorffen y Bwrdd Cefnogi Pobl wedi adnabod fod angen buddsoddi i'r isod:</p> <p>Tlodi Newidiadau i daliadau Credyd Cynhwysol yn effeithio ar 9,600 o gartrefi yng Ngwynedd, gyda dros eu hanner yn deuluoedd gyda phlant. Rhai materion yn cynnwys nad yw'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol yn gallu ymdopi gyda'r galw presennol. Nifer o ddefnyddwyr banciau bwyd yn cynyddu. A phrisiau tanwydd yn cynyddu ac yn cael yr effaith fwyaf ar deuluoedd incwm isel, a chartrefi ar gyflenwad pre-payment.</p> <p>Bid ar gyfer Cydlynnydd Tlodi a dau Swyddog Uchafu Incwm a Chynhwysiad.</p> <p>Model Pen Blaen / Drysau Ffrynt Cais am Swyddog Cefnogol i sefydlu trefniadau cydweithio ar draws y 4 adran i edrych ar drefniadau gweithio, trefniadau cyfeirio, cytuno ar raglen hyfforddiant "What Matters" ac ati er mwyn cysoni diwylliant ac ymarfer delio gyda chwsmer ar draws y drysau ffrynt.</p>	350,000

ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

OEDOLION, IECHYD A LLESIANT			
Un tro 4	Cryfhau Timau Adnodd Cymunedol (TAC) - Gweithwyr Cymdeithasol / Ymarferwyr Gofal	<p>Mae cynnydd wedi bod yn y galw am gefnogaeth TAC ers dechrau'r pandemig sydd wedi rhoi pwysau aruthrol ar wasanaethau a staff.</p> <p>Nid ydym yn gallu cefnogi unigolion yn amserol gyda 130 o unigolion ar restr aros am asesiad, 380 unigolyn yn aros am adolygiad o gynllun gofal a chefnogaeth a 99 unigolyn yn aros am gefnogaeth gofal cartref a nifer fawr o unigolion yn methu dychwelyd adref o'r Ysbyty yn amserol ar yr 20fed Medi 2021.</p> <p>Mae elfen o'r bid yn angenrheidiol i gwrdd â chyfrifoldebau statudol y gwasanaeth yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. A bydd y gyllideb yn ein galluogi i benodi 5 swydd Gwaith Cymdeithasol, ac yn sicrhau yr arbenigedd angenrheidiol o fewn y gwasanaeth er mwyn cwrdd ag anghenion trigolion Gwynedd.</p>	250,000
Un tro 5	Cydlynnydd Trosglwyddo (cais ar y cyd gyda'r Adran Plant)	Swydd ar gyfer gwella'r cydweithio rhwng y ddau adran wrth i blant drosglwyddo i'r Adran Oedolion.	47,420
Un tro 6	Sicrwydd Ansawdd	<p>Mae angen cryfhau'r capasiti o ran cynnal archwiliadau ar ddarparwyr gofal o fewn y Sir. Mae 2.5 Swyddog Sicrwydd Ansawdd yn yr Adran ar hyn o bryd ac nid oes capasiti ganddynt i archwilio'r holl ddarpariaeth allanol (h.y. gofal preswyl, gofal nyrsio, llety cefnogol, gofal dydd a darparwyr gofal cartref) a hefyd ein holl ddarpariaeth fewnol.</p> <p>Mae'r Adran wedi symud adnodd dros dro o'r Uned Gontractau er mwyn cynyddu capasiti y gwaith archwilio.</p>	48,930
TAI AC EIDDO			
Un tro 7	Cynyddu capasiti Uned Digartrefedd Atebion Tai	<p>Creu 4 swydd ychwanegol i'r Uned Atebion Tai er mwyn gallu ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn cyfeiriadau digartrefedd, a hynny am gyfnod dros dro o ddwy flynedd.</p> <p>Nid yw niferoedd swyddogion y Tîm Atebion Tai wedi newid i gyfarch y gwaith ychwanegol yn sgil cynnydd yn nifer cyfeiriadau, ac felly nid yw'r Uned ar hyn o bryd yn cyflawni eu holl ddyletswyddau statudol.</p>	131,200

ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

Tud. 40

AMGYLCHEDD			
Un tro 8	Swyddog Prosiectau Cefn Gwlad	<p>Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi sefydlu sawl rhaglen grant i gefnogi Awdurdodau Lleol i weithredu cynlluniau sy'n eu galluogi i uwchraddio hawliau tramwy, sefydlu llwybrau teithio llesol, annog gwirfoddoli a gwarchod bioamrywiaeth.</p> <p>Yn ogystal mae camau gan y Cyngor i edrych ar ddyfodol twristiaeth yng Ngwynedd, dynodiad Safle Treftadaeth y Byd a pharatoi'r cynllun Newid Hinsawdd yn dangos yr angen i fanteisio ar gyfleoedd ariannu er mwyn uwchraddio a diogelu'n asedau naturiol. Mae'r Adran wedi paratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (drafft) fydd yn adnabod blaenoriaethau ac anghenion adnoddau am y blynyddoedd nesaf ym maes mynediad i gefn gwlad.</p> <p>Er mwyn sicrhau bod yr Adran yn manteisio'n llawn ar y cyfleon gwneir cais am adnodd staff ychwanegol am 3 mlynedd (£36,500 y flwyddyn) er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol :</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gweithredu prosiectau ar draws feysydd gwaith y Gwasanaeth. - Cynllunio ymlaen a chael pecyn o brosiectau yn barod. - Cynorthwyo i baratoi ceisiadau a monitro cynnydd. - Gweithredu argymhellion y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (drafft) a chyfrannu i raglenni gwaith traws adrannol. 	36,500
Un tro 9	Cefnogi a chyfathrebu'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig	<p>Cais i ariannu adnodd ychwanegol o fewn y Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i helpu gwaith y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd. £60k o Ebrill 2022 hyd at Ebrill 2025.</p> <p>Hefyd cais i gyfrannu 50% tuag swydd i gefnogi gwaith dydd i ddydd y Gwasanaeth (gwaith lle nad oes angen Cydlynnydd i'w wneud). Nodir y bydd angen cytundeb gan Ynys Môn i gyfraniad 50%. £54,750 o Ebrill 2022 hyd at Ebrill 2025.</p>	114,750

ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

Un tro 10	Swyddogion Ymgysylltu Gwarchod y Cyhoedd (GyC)	<p>Drwy fanteisio ar arian Grant y Gronfa Galedi a chefnogaeth y Cabinet, drwy arian bid, mae'r Adran wedi penodi 3 Swyddog Ymgysylltu GyC am gyfnod dros dro hyd at Ebrill 2022.</p> <p>Mae'r swyddi hyn nid yn unig wedi gwella gwydnwch y gwasanaethau GyC ond hefyd wedi ymateb i'r gofyn am orfodaeth fwy llym a phresenoldeb gweladwy yn ein trefi a phentrefi; wedi ymateb ac archwilio i achosion positif o'r haint Cofid; a chynghori busnesau, adrannau eraill y Cyngor, Prifysgol Bangor a'r Colegau.</p> <p>Bydd y gwariant yn sicrhau ein bod nid yn unig yn parhau i wella gwydnwch y gwasanaethau GyC, hwyluso'r gwaith allan yn y maes ond hefyd yn ein galluogi i roi rhaglen hyfforddi ar waith er mwyn datblygu swyddogion cymwys i'r dyfodol. Cais i ariannu swyddogion am gyfnod 3 mlynedd (£87,240 y flwyddyn).</p>	261,720
Un tro 11	Cynllun peilot ar gyfer cyflwyno parthau dynodedig i gartrefi modur wersylla dros nos.	<p>Cynhaliwyd gwaith ymchwil ar y cyd gyda'r Adran Economi a Chymuned gyda'r nod o ddarganfod mwy am dueddiadau perchnogion cartrefi modur ac adnabod ffyrdd o gael gwell rheolaeth o'r modurwyr sydd ddim yn gwneud trefniadau o flaen llaw i wersylla dros nos mewn safleoedd carafanau pwrpasol. Derbyniwyd dros 8,800 ymateb i'r holiaduron.</p> <p>Yn deillio o'r gwaith ymchwil, amlygwyd fod mwyafrif o drigolion lleol yn datgan mai treialu syniadau newydd e.e. cyfres o 'aires' mewn safleoedd mwy trefol gan ddefnyddio meysydd parcio cyfredol y Cyngor neu fusnesau preifat fyddai datrysiad mwyaf addas. Amlygwyd hefyd y byddent yn fodlon i'r Cyngor dreialu defnydd o feysydd parcio mewn lleoliadau mwy trefol a chaniatáu parcio dros nos am gyfnod penodol e.e. 48 awr.</p> <p>Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ar y 9 Tachwedd 2021, yn gofyn am gymeradwyaeth i dreialu'r defnydd o hyd at 6 safle parcio'r Cyngor (neu rhan o'r safle) ar gyfer cyfleuster i gartrefi modur aros dros nos. Mi fydd angen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer gweithredu.</p>	100,000

ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

ECONOMI A CHYMUNED			
Un tro 12	Rhaglen Hybu Canol Trefi	<p>Ariannu Rheolwr Prosiect a Hyfforddai Proffesiynol am 3 mlynedd, er mwyn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> -Datblygu a gweithredu prosiectau gwella a hybu canol trefi (yn cynnwys Cynllun Adfywio Dinas Bangor) -Cefnogi ymdrechion trawsadrannol i ddatblygu blaenoriaeth yn deillio o'r Fframwaith Adfywio a'r 13 cynlluniau lleol cysylltiedig -Targedu grantiau allanol ar gyfer prosiectau unigol <p>Gyda'r gwaith yn disgyn o fewn Blaenoriaeth Gwella 1 Cynllun y Cyngor.</p>	257,520
Un tro 13	Cynllun Eiddo Gwag	<p>Ariannu Rheolwr Prosiect am 2 flynedd, er mwyn gweithredu ar y Cynllun Gweithredu Eiddo Gwag, sydd gydag amcanion:</p> <ul style="list-style-type: none"> -Gryfhau arferion presennol a mabwysiadu dull gweithredu gorfforaethol integredig -Integreiddio a chefnogi ymdrechion ehangach adfywio a hyrwyddo canol trefi -Adnabod a datblygu dulliau gweithredu a datrysiadau ar sail y gymuned i helpu ymdrin ag eiddo gwag. <p>Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys gweithgareddau sydd uwchlaw rhaglenni gwaith a chapasiti presennol yr Adrannau. Gyda'r gwaith yn disgyn o fewn Blaenoriaeth Gwella 1 Cynllun y Cyngor.</p>	111,680
Un tro 14	Fframwaith Adfywio Gwynedd	<p>Mae'r Fframwaith Adfywio newydd wedi adnabod 13 ardal leol gyda'r bwriad o ddatblygu cynlluniau adfywio lleol ar eu cyfer. Yn sgil hyn, mae angen cynyddu capasiti o fewn y Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau ar gyfer cydlynu'r gwaith, ac i gefnogi'r cymunedau lleol. Mae hefyd cyfle i sefydlu swyddogion cyswllt o fewn y cymunedau i hwyluso cysylltiadau trawsadrannol.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn cynnwys rheolwr a 3 swyddog cefnogi cymunedau (gyda threfniadau am swyddog dros dro yn dod i ben mis Mawrth 2022).</p> <p>Bydd y gwariant ychwanegol yn galluogi'r Gwasanaeth i benodi 2 Swyddog Cefnogi Cymunedau ychwanegol. Bwriad yw treialu pob aelod o'r tîm i ganolbwyntio ar 2 ardal yr un (gydag un swyddog yn canolbwyntio ar 3 ardal).</p>	240,210

ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

Un tro 15	Cynnal a Chadw Canolfannau Hamdden Byw'n Iach	<p>Digolledu Cwmni Byw'n Iach am golled incwm yn sgil yr angen i gau pwll nofio Caernarfon am gyfnod o 8 wythnos er mwyn cynnal gwaith cynnal a chadw. Bwriedir cau'r pyllau nofio dros gyfnod yr haf 2022 er mwyn lleihau'r effaith ar wersi nofio a cholled incwm.</p> <p>Yn sgil y gwaith i ddatblygu cae synthetig maint llawn newydd yng Nghanolfan Hamdden Arfon yn ystod 2022/23 ac ail-wynebu cae synthetig Llanrug. Mi fydd angen digolledu'r Cwmni am golled incwm yn sgil na fydd y caeau ar gael am gyfnod o 6 mis - cost o £4k.</p>	36,000
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL			
Un tro 16	Cylchdaith Ailgylchu Ychwanegol (Ardal Arfon) - Casglu Gwastraff	<p>Yn sgil pandemig Covid gwelwyd cynnydd mewn lefelau ailgylchu yn y tair ardal, gyda'r cynnydd mwyaf yn ardal Arfon o 15% i'w gymharu â gwaelodlin 2019/20. Nid yw'n gwbl glir beth sydd wedi gyrru'r newid hwn, ond mae'r cynnydd mewn deunyddiau yn golygu nad yw'r gwasanaeth yn gallu ymdopi gyda'r gwaith efo'r un lefel o gerbydau / criw. Mae costau'r gylchdaith ychwanegol wedi cael ei adhawlio o Grant Caledi Llywodraeth Cymru eleni a'r llynedd.</p> <p>Mae'r cynnydd yn y tunelledd ailgylchu yn ardal Arfon yn golygu fod gennym gerbyd a chriw ychwanegol allan bob diwrnod er mwyn ymdopi gyda'r gwaith. Bydd sicrwydd o arian 'Un tro' yn ein pontio am y flwyddyn ariannol nesaf tra byddwn yn dilyn dau ddarn o waith mawr yn y gwasanaeth sef Adolygiad Ffordd Gwynedd ac Adolygiad WRAP ar y cylchdeithiau cyfredol. Cais i ariannu criw ychwanegol am £83,190 (3 x FTE) a fflyd £58k.</p>	141,190
Un tro 17	Swyddog Prosiect Economi Gylchol	<p>Ariannu swyddog a fyddai'n gyfrifol am lunio bidiau yn sgil anhawster i gyflwyno bidiau o fewn yr amserlen a osodir gan y Llywodraeth yn ogystal ag arwain prosiectau economi gylchol yr adran.</p> <p>Enghraifft o gynllun yw darparwyd 11 hwb bwyd gydag offer megis oergelloedd a rhewgelloedd. O ganlyniad i'r prosiect hwn darparwyd bwyd i ystod eang o bobl o fewn eu cymunedau gan hefyd leihau gwastraff bwyd gan archfarchnadoedd.</p> <p><i>Swm y cais yn ddibynnol ar arfarniad swydd.</i></p>	40,040

ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

Un tro 18	Swyddog Ymgysylltu a Newid Ymddygiad Ailgylchu	<p>Ariannu swyddog fel prif bwynt cyswllt rhwng yr adran a'r cyhoedd. Byddai'r swydd yn cryfhau ein ffrydiau cyfathrebu, ac yn ein galluogi i rannu llwyddiannau'r adran drwy ddefnyddio dulliau creadigol cyfathrebu ac ymgysylltu mwyaf addas a diweddar.</p> <p>Ar adegau rydym yn methu cyfleoedd i fod yn rhagweithiol drwy godi ymwybyddiaeth, dathlu llwyddiant ac ymateb i ymholiadau'r adran. Hefyd, mae gan yr Adran gynllun 'Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu' a byddai'r swydd yn sicrhau cyflawni amcanion y cynllun.</p> <p><i>Swm y cais yn ddibynnol ar arfarniad swydd.</i></p>	40,040
CYLLID A THECHNOLEG GWYBODAETH			
Un tro 19	Cynyddu capasiti TG y Cyngor i gefnogi Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd	Angen i gynyddu capasiti TG mewnol y Cyngor i ddarparu cefnogaeth i'r ysgolion (yn sgil gweithredu Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd). Adroddwyd i'r Cabinet 9fed o Dachwedd 2021.	148,000
CEFNOGAETH GORFFORAETHOL			
Un tro 20	Datblygu Hunaniaith (Prif Swyddog Hunaniaith, Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith ac Arian prosiect i gefnogi prosiectau digidol/Prosiect 15)	<p>Mae wedi dod i'r amlwg nad yw'n amserol i Hunaniaith symud i fod yn endid annibynnol ar hyn o bryd oherwydd prinder grantiau a chostau uchel. Gwelwyd hefyd yr angen am brif swyddog llawn amser i arwain ar y gwaith yn y dyfodol.</p> <p>Byddai'r gwariant ychwanegol hefyd o gymorth i Hunaniaith roi mwy o sylw i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg i drigolion Gwynedd yn y maes digidol.</p> <p>Cais i ariannu: Prif Swyddog Hunaniaith (PS3) £53,060 x 4bl Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith (S2) £36,490 x 2bl Arian prosiect digidol/Prosiect 15, £10k ar gyfer blwyddyn 1 a £10k pellach ar gyfer blwyddyn 2.</p>	203,880

ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

Un tro 21	Prosiect Iechyd a Diogelwch	<p>Prosiect ar reolaeth iechyd a diogelwch effeithiol wedi ei adnabod yng Nghynllun y Cyngor 2022/23 fel blaenoriaeth gorfforaethol. Ceir adolygiad llawn o bob elfen o reolaeth iechyd a diogelwch o fewn y Cyngor. Ond yn sgil y gwaith ychwanegol mae'r Gwasanaeth Iechyd Diogelwch a Llesiant yn parhau i wynebu yn sgil pandemig Covid, mae risg nad oes capasiti digonol o fewn y tîm i yrru y prosiect yn ei flaen.</p> <p>Cais i gyflogi Swyddog Prosiect (S3), dros dro er sicrhau adnodd dynodedig i yrru y prosiect yn ei flaen</p>	40,035
Un tro 22	Llesiant meddyliol gweithlu'r Cyngor	<p>Mae straen yn parhau i fod y prif achos absenoldebau yn y gwaith o fewn y gweithlu. Mae cyfnod y pandemig wedi dod a straen ychwanegol ar sawl carfan o'r gweithlu am lu o wahanol resymau, boed yn staff gofal, staff addysg neu staff swyddfa sydd wedi bod yn gweithio o adref ers 18 mis. Mae angen gwella'r hyfforddiant sydd ar gael i bob rheolwr ar sut i reoli straen y gweithlu.</p> <p>Mae hyn wedi bod ar raglen waith yr Uned Iechyd Galwedigaethol ers tro ond oherwydd y gwaith ychwanegol sylweddol yn sgil COVID a fod cyfeiriadau i'r Uned yn gyffredinol ar gynnydd, nid oes capasiti i wneud hynny ar hyn o bryd heb adnodd ychwanegol.</p> <p>Cais i ariannu swyddog (PS1) am dri diwrnod yr wythnos yn 2022/23 ynghyd â chostau hyfforddi cysylltiedig.</p>	50,000
Un tro 23	Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth	<p>Cais am arian i gyllido swydd Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth am ddwy flynedd ar raddfa S2 er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn dygymod gyda'r gofynion newydd yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.</p> <p>Mae galw am wasanaeth y swyddogion Democratiaeth wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf wrth gynnal cyfarfodydd rhithiol.</p>	36,445

ATODIAD 2b - BIDIAU REFENIW UN-TRO

Tud. 46

Un tro 24	Ymgynghorydd iaith	<p>Cais i ariannu swydd Ymgynghorydd iaith am gyfnod o 2 flynedd ar raddfa PS1 er mwyn galluogi'r tîm i roi sylw teilwng i asesiadau effaith ar yr iaith Gymraeg</p> <p>Mae galw am wasanaeth ac arbenigedd cynllunio ieithyddol yr uned iaith wedi cynyddu ac yn debygol o gynyddu yn y misoedd nesaf (yn sgil llwyddiant enwebiad Safle Treftadaeth Byd, adolygu Cynllun Datblygu Lleol, cynnal asesiadau cydraddoldeb) ond nid oes digon o gapasiti yn y tîm presennol i ymdopi gyda'r gwaith.</p> <p>Ar hyn o bryd allwn ni ddim rhoi sylwadau ar yr asesiadau/ datganiadau iaith a gyflwynir gyda cheisiadau cynllunio o fewn y cyfnod ymgynghori swyddogol o 20 diwrnod oherwydd gofynion eraill.</p>	94,480
Un tro 25	Addasiadau i swyddfeydd er mwyn cyfarch trefniadau gweithio newydd yn y dyfodol	Bydd trefniadau gweithio hybrid i'r dyfodol yn golygu y bydd defnydd staff o swyddfeydd yn newid. Tydi dyluniad y swyddfeydd ar hyn o bryd ddim yn addas ar gyfer galluogi'r trefniadau gweithio hybrid. Bydd angen addasiadau i'r adeilad e.e. creu gofod hot desks, mwy o ystafelloedd cyfarfod, gofod storio offer. Bydd angen buddsoddi mewn moderneiddio'r swyddfeydd e.e. offer TG ac ystafelloedd cyfarfod gyda'r dechnoleg i gynnal cyfarfodydd rhithiol.	250,000
CYNGOR			
Un tro 26	Cynllun Hinsawdd	Cais ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd ar gyfer cynlluniau yn ymwneud a'r hinsawdd e.e. Adnewyddu loriau bin i fod yn rhai trydan, cynlluniau bioamrywiaeth, gwelliannau i adeiladau ayb.	3,000,000
CYFANSWM BIDIAU REFENIW UN TRO			6,172,960

ATODIAD 2c - BIDIAU CYFALAF

BIDIAU CYFALAF 2022/23 - I'W ARIANNU O'R GYLLIDEB O FEWN Y CYNLLUN RHEOLI ASED AU

	Teitl y Bid	Manylion y Bid	Swm a Argymhellir (£)
ADDYSG			
Cyf 1	Cae Cymunedol Caernarfon ar safle Ysgol Syr Hugh Owen.	<p>Nod y prosiect yw adeiladu cau synthetig 3G maint llawn yng Nghaernarfon. Bydd y cae oddeutu 100m x 64m gydag wyneb 3G synthetig modern, caiff ei amgylchynu gyda ffens a bydd llifoleuadau ynghyd a darpariaeth acoustig a thurlunio. Cae ar gyfer pêl-droed a hoci yn bennaf er bydd yn bosib cynnal ymarferion rygbi a chwaraeon eraill fel athletau arno.</p> <p>Byw'n lach fydd yn rheoli'r cae, gydag ysgolion y dalgyrch yn ei ddefnyddio'n ddi-dâl yn ystod y dydd, a chlybiau a'r gymuned yn ei ddefnyddio gweddill yr amser.</p> <p>Mae sawl corff wedi adnabod yr angen am gae newydd ac wedi ymrwymo cefnogaeth ariannol i'r prosiect.</p> <p>Clustnodwyd £885k drwy'r Rhaglen Ariannu Cyfalaf 2019-22 ar gyfer gwella cyflwr y caeau synthetig sydd yn y sir. Mae oddeutu £80k o'r swm wedi ei glustnodi ar gyfer gwella cyflwr y cae presennol. Bwriedir defnyddi'r swm yma tuag at y cynllun.</p> <p>Byddai cymeradwyo'r bid yn caniatâu cwblhau prosiect gwerth £900k.</p>	118,000
ECONOMI A CHYMUNED			
Cyf 2	Cronfa Datblygu Gwirfoddol (Cist Gwynedd)	Mae CIST Gwynedd yn darparu grantiau refeniw a chyfalaf i grwpiau gwirfoddol ar draws y sir i ddatblygu a gwireddu prosiectau cymunedol. Yn 2021/22 cefnogwyd 7 prosiect gyda'r arian wedi ei gymeradwyo yn gyfan gwbl.	50,000
Cyf 3	Ail Wynebu Maes Parcio Y Glyn, Llanberis	<p>Ni ellir codi ffi am y maes parcio nes bod gorfodaeth parcio mewn lle, pan fydd y gorfodaeth mewn lle mi fydd angen gwella safon y maes parcio. Felly mae angen ail wynebu'r maes parcio.</p> <p>Trafferth arall yw nad oes baeau parcio wedi eu marcio, gyda cerbydau yn parcio'n flêr a bod yr ardaloedd parcio ddim yn dal gymaint o geir ac y gall. Mi fydd angen sicrhau fod y baeau wedi eu marcio pan fydd y gorfodaeth parcio mewn lle.</p>	100,000

ATODIAD 2c - BIDIAU CYFALAF

Tud. 48

Cyf 4	Uwchraddio a diogelu Parc Padarn	<p>Goleuadau Maes Parcio Gilfach Ddu Diffyg goleuadau yn y safle yn bryder. Fe fyddai gosod goleuadau nid yn unig yn gwella diogelwch y safle ond hefyd yn cynnig yr opsiwn i gartrefi modur gwneud defnydd o'r safle yn y dyfodol gan gynhyrchu incwm ychwanegol i'r parc.</p> <p>Pontydd Ger Y Llyn – Parc Padarn Rhwyng maes parcio Ger Y Llyn a'r maes chwarae mae dwy bont bren sy'n croesi Afon Goch. Mae'r ddwy bont erbyn hyn yn dirywio ac mi fydd angen eu newid. Os bydd y pontydd yn cael eu dymchwel yna fe fydd rhaid i'r cerddwyr gerdded wrth ochr y lôn fawr i fynd am neu o'r maes parcio Ger Y Llyn.</p> <p>Diogelwch Dŵr Dwy elfen i'r gwaith, y cyntaf yw diogelwch defnyddwyr. Ariannu dylunydd i greu arwydd gyda map o'r llyn yn nodi'r ardaloedd diogel i nofwyr, ardal i offer a phrynu offer achub newydd ar gyfer y llyn. Yr ail elfen yw diogelwch natur. Cais i osod lleoliad golchi yn ardal y Glyn (lleoliad golchi eisoes yn Gilfach Ddu).</p> <p>Teithio Gwyrdd Cais i ariannu gosod racs beics o amgylch y parc er mwyn annog pobl leol ac ymwelwyr i wneud defnydd o'r lon las pan yn teithio i Lanberis. A hefyd gosod pwyntiau gwefru ceir trydan yn Gilfach Ddu.</p> <p>Mesurau Gwrth-fandaliaeth Gosod byrddau picnic a meinciau gwrth fandaliaeth.</p>	50,000
PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL			
Cyf 5	Fflêr ar gyfer delio a nwyon safle tirlenwi Ffridd Rasmus, Harlech	Contractiwyd rheolaeth nwy tirlenwi ar y safle hwn am y 5 mlynedd diwethaf, mae'r contractwyr wedi gadael y safle yn ddiweddar, gan ei wneud yn ofynnol i'r rheolaeth nwy gael ei reoli'n fewnol unwaith eto gan y Cyngor. Mae cyfaint a safon y nwy wedi lleihau i lefel ble mai dim ond fflêr llosgi calorig isel sydd a'r gallu rheoli'r nwy sy'n weddill yn ddigonol. Mae'n ofyniad trwydded statudol sy'n gyfrifoldeb ar Gyngor Gwynedd i reoli'r nwy cyhyd â'i gynhyrchiad.	56,900

ATODIAD 2c - BIDIAU CYFALAF

AMGYLCHEDD			
Cyf 6	Gwelliannau i groesfan ar Ffordd Llanberis, Caernarfon	<p>Uwchraddio'r groesfan sydd wedi lleoli ar waelod y gyffordd sydd yn arwain i Stad Ysgubor Goch, Ffordd Llanberis. Mae'r safle croesi gyda phaent coch ar y briffordd yn bresennol ond nid yw safle croesi o'r math hwn yn rhoi gofyn statudol ar gerbydau i stopio.</p> <p>Mae Ffordd Llanberis yn hynod o brysur ac er gwaethaf ymdrechion yr Adran ni lwyddwyd i benodi swyddog i groesi plant ysgol. Hefyd, mae'r Adran wedi ceisio denu arian ar gyfer uwchraddio'r groesfan ond nid oedd y cais yn llwyddiannus.</p> <p>Derbyniwyd nifer o adroddiadau o sawl methiant agos yn y lleoliad, ble mae croeswyr wedi cael a chael i osgoi anafiadau difrifol. Ym mis Medi 2021 cafodd ddisgybl Ysgol Syr Hugh Owen ei daro gan gar yn agos i'r man croesi ac roedd rhaid i'r hofrennydd ambiwlans ymdrin â'r ddamwain oherwydd sefyllfa draffig yr ardal.</p>	50,000
YMGYNGHORIAETH			
Cyf 7	Hirael – cynllun atal llifogydd a gwelliannau cysylltiadau trafndiaeth wyrdd	<p>Disgwylir y bydd gwaith ar y cynllun atal llifogydd yn dechrau yn Ebrill 2022. Er mwyn sicrhau buddion ychwanegol fydd yn hwb i adfywio dinas Bangor, mae'r prosiect am weld gwelliannau i drafndiaeth wyrdd (llwybr arfordirol a lôn beics genedlaethol) ar hyd llwybr yr amddiffynfa newydd fyddai'n hybu cysylltiadau rhwng canol y ddinas, Lôn Las Ogwen a'r pier.</p> <p>Mae'r cynllun atal llifogydd Hirael wedi cyllido gyda grant 85% gan Lywodraeth Cymru. Bydd y swm ychwanegol gofynnir amdano hefyd yn denu grant 85% gan roi £500k ar gyfer buddion ychwanegol, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Codi lefel y promenâd arfordirol i alluogi cerddwyr i weld dros y wal lifogydd newydd - Gwelliannau i'r promenâd gan gynnwys gosod meinciau ac arwyddion - Gwelliannau i'r llwybr arfordir a'r llwybr beicio cenedlaethol. Fydd yn gwella cysylltiadau teithio o Lôn Las Ogwen (Porth Penrhyn) i ganol Bangor ac i'r pier - Offer hamdden 'gym awyr-agored' ar faes chwarae Brenin Sior - Edrych ar opsiynau i osod unedau manwerthu ger y maes chwarae - Gwelliannau ategol (tu allan i'r prosiect atal llifogydd) drwy wella y llwybr beicio drwy Borth Penrhyn i gyfeiriad Hirael (adroddiad dichonoldeb newydd ei gwblhau). 	75,000
CYFANSWM BIDIAU CYFALAF			499,900

ATODIAD 3

ARBEDION

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £32.8m o gynlluniau arbedion ers 2015/16, ond eto eleni, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu'r adrannau i wireddu nifer o'u cynlluniau.
2. Mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.
3. Oherwydd hynny, tra byddai yna gyfleoedd cyfyngedig i geisio darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd, roeddem bellach wedi cyrraedd sefyllfa lle y byddai unrhyw angen am arbedion o sylwedd yn debygol o olygu toriadau i wasanaethau.
4. Mae'r setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol drafft ar gyfer 2022 i 2023 yn rhoi cynnydd arwyddocaol yng ngrant Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ni nag mewn blynyddoedd blaenorol i adolygu'r rhaglen arbedion.
5. Cyflwynwyd adroddiad Trosolwg Arbedion i gyfarfod Cabinet ar 18 Ionawr 2022. Penderfynodd y Cabinet dderbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22 a blynyddoedd blaenorol. Nodwyd hefyd bod effaith Covid-19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.

[Adroddiad](#)

[Atodiad 1, Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 i 2020/21 fesul Adran](#)

[Atodiad 2, Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2021/22](#)

[Atodiad 3, Cynlluniau Arbedion 2022/23](#)

6. Roedd gwerth £2,375,000 o arbedion wedi eu cynllunio i'w gwireddu yn 2022/23, a hynny'n gyfuniad o arbedion oedd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol a chynlluniau newydd. Ar ôl ystyried y sefyllfa, penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn o ran y cynlluniau hynny:
 - cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef
 - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
 - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
 - symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi effaith y penderfyniad:

	Gwreiddiol £	Gohirio i 2023/24 neu hwyrach £	Dileu £	Rhaglen Ddiwygiedig £
Cynlluniau 2022/23	2,375,000	1,290,250	489,750	595,000

7. Canlyniad hyn yw fod gwerth £595,000 o gynlluniau arbedion yn weddill i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn **2022/23**. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol ac eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor, ac felly ddim yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn prosesau statudol priodol, ac fe'i rhestrir isod **er gwybodaeth**.

Arbediad	Swm £
ADRAN AMGYLCHEDD	
Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	12,500
ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL	
Gostyngiad yn y nifer o Gynghorwyr	100,000
ADRAN CYLLID (a T.G.)	
Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol	25,000
ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT	
Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)	100,000
ADRAN ECONOMI A CHYMUNED	
Buddsoddi mewn gwelliannu fyddai yn gwneud Neuadd Dwyfor yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i'r dyfodol	70,000
ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL	
Rhesymoli gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir	32,500
Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'	105,000
Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid diwrnod casglu i drigolion)	150,000
CYFANSWM ARBEDION 2022/23	595,000

8. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi nodi y bydd y cynnydd yn y setliad yn llawer llai ar gyfer 2023/24 a 2024/25 felly disgwylir y bydd angen paratoi i weithredu'r cynlluniau hynny sydd wedi cael eu llithro eleni.

ATODIAD 4

CYFALAF

1. Tra bod cyllidebau refeniw awdurdodau lleol yn wynebu cyfyngiadau, mae cyllidebau cyfalaf hefyd dan bwysau, ac mae ymhlygiadau refeniw i wariant cyfalaf sydd heb ei ariannu drwy grant penodol.
2. Gosodaf isod raglen arfaethedig ar gyfer y cynlluniau am y dair mlynedd nesaf:

RHAGLEN GYFALAF			
	2022/23	2023/24	2024/25
	£'000	£'000	£'000
Cynlluniau Asedau'r Cyngor :			
Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif	3,861	3,854	2,901
Cynlluniau Tai	4,435	1,300	1,300
Hwb Iechyd a Gofal Penygroes	1,750	0	0
Cartrefi/ Canolfannau Oedolion	1,611	625	0
Ffyrdd, Pontydd a Bwrdeistrefol	1,193	1,640	2,271
Atal Llifogydd Arfordirol	1,995	0	0
Cynlluniau Eraill	3,831	1,628	1,241
Bidiau Cyfalaf	500	500	500
Cynlluniau Eraill :			
Adnoddau Grant Cyfalaf Cyffredinol Ychwanegol i'w ddyrannu	270	1,646	1,646
Dadgarboneiddio	0	917	917
Strategaeth Dai – Cronfa Premiwm Treth y Cyngor	0	0	2,549
Strategaeth Dai - Prynu i Osod	0	0	2,880
Cynlluniau Eraill Eisoed wedi eu Cymeradwyo :			
Cynlluniau/Strategaeth Tai	11,617	5,430	0
Cynlluniau Ysgolion 21 Canrif (LIC)	11,026	455	0
Atal Llifogydd Arfordirol	4,993	0	0
Cerbydau Adrannol	4,017	947	0
Unedau Diwydiannol	2,925	0	0
Cynlluniau Eiddo	1,331	0	0
Eraill	3,720	300	0
CYFANSWM Y RHAGLEN	59,075	19,242	16,205

3. Byddwn yn ariannu'r rhaglen fel a ganlyn:

ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF			
	2022/23	2023/24	2024/25
	£'000	£'000	£'000
Benthyca Gyda Chefnogaeth	4,073	4,073	4,073
Benthyca Arall	3,791	3,289	2,880
Grantiau a Chyfraniadau	18,722	5,347	5,100
Derbyniadau Cyfalaf	750	0	0
Refeniw Adrannol a Chorfforaethol	34	0	0
Cronfa Cyfalaf	9,345	204	0
Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill	22,360	6,329	4,152
CYFANSWM ARIANNU'R RHAGLEN	59,075	19,242	16,205

4. Sefydlwyd strategaeth asedau newydd o 2019/20 ymlaen gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2019. Mae'r strategaeth asedau newydd yn weithredol am y cyfnod 2019/20 hyd at 2028/29. Fe'i ymgorfforir fel rhan o'r Rhaglen Gyfalaf.
5. Sefydlwyd proffil tair mlynedd o 2019/20 gan y Cabinet ar 2 Ebrill 2019, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu proffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2022/23 ymlaen.
6. Mae'r tabl uchod felly yn adlewyrchu'n fras y gofynion cyfalaf (ynghyd â'r ariannu) ar gyfer gosod cyllideb 2022/23 i 2024/25, tra bod y manylder ar y cynlluniau unigol wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn y strategaeth asedau 10 mlynedd 2019/20 hyd 2028/29.
7. Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol yn y setliad ariannol gan Lywodraeth Cymru yn uwch yn 2022/23 na'r hyn a dybiwyd pan yn sefydlu'r strategaeth asedau. Mae'n fwriad dod ag adroddiad dilynol gerbron y Cabinet i adolygu blaenoriaethau'r Cynllun Asedau a sicrhau'r defnydd o'r adnodd ychwanegol hwn.
8. Felly, gofynnir i'r Cyngor llawn sefydlu rhaglen gyfan gwerth £59,074,980 ar gyfer 2022/23, i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn y tabl o dan rhan 3 uchod.

ATODIAD 5

YMDRIN Â'R GYLLIDEB YSGOLION YN 2022/23

- Cefndir:** Adroddwyd i gyfarfod 7 Chwefror 2022 o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ar elfennau perthnasol o gyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2022/23, lle nodwyd y bydd cynnydd arferol yn y cwantwm ysgolion Gwynedd eleni, gan fod y Cyngor (yn wahanol i rai awdurdodau lleol) yn ariannu chwyddiant, incrementau cyflog, a demograffi.
- Chwyddiant:** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu **£3.3m** eleni ar gyfer cynnydd chwyddiant, gan gynnwys chwyddiant tâl athrawon, a cynnydd cyfraniad Yswiriant Gwladol cyflogwr o 1.25%. Bydd hyn yn cyfarch cost cynnydd o 1.75% am y 5 mis Ebrill – Awst, sef effaith blwyddyn llawn cytundeb tâl Medi 2021, ac hefyd cost cynnydd o 3% amcangyfrifir ar gyfer cytundeb tâl Medi 2022 (am y 7 mis Medi 2022 – Mawrth 2023). Wrth gwrs, bydd dyraniadau ysgolion am ynni hefyd yn codi gyda lefel chwyddiant perthnasol.
- Incrementau Cyflog Staff:** Ychwanegir £168k tuag at gyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23 oherwydd incrementau net o drosiant staff. Bydd **£162k** o'r ychwanegiad yma'n mynd i gyllidebau ysgolion.
- Demograffi (niferoedd disgyblion):** Bydd y gyllideb ysgolion yn cynyddu eleni oherwydd yr addasiadau "demograffi" arferol, sy'n deillio o newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Defnyddir gwir nifer disgyblion Medi 2021 i gyfrifo dyraniadau 2022/23. Mae'r sefyllfa yn gwahaniaethu o ysgol i ysgol, ond ar y cyfan mae effaith cynnydd niferoedd disgyblion yn golygu y byddai'r gyllideb ysgolion yn ei gyfanrwydd yn lleihau **£57k**, sy'n cynnwys lleihad -£429k i'r sector Gynradd a chynnydd +£372k i'r sector Uwchradd. Bydd ysgolion unigol yn disgwyl cynnydd / gostyngiad yn eu dyraniadau cymesur â'r newid mewn niferoedd disgyblion yn yr ysgolion.
- Bidiau Argymhellir Cymeradwyo:** Gwelir yn y rhan bidiau (Atodiad 2) o'r adroddiad hwn fod argymhelliad i gytuno i ariannu 'bidiau' parhaol 2022/23 i'r Adran Addysg gwerth cyfanswm o **£457.6k**, er mwyn ariannu cost uwch cludiant tacsis a threnau i ddisgyblion (£150k), Swyddog Addysg Uwchradd (£89.5k) a dileu costau'r Tocyn Teithio Ôl-16 (£218.1k). Yn ychwanegol i hynny, argymhellir ariannu swyddog hybu Cinio am Ddim gydag arian un-tro (£43k).
- Dim Arbedion Newydd:** Unwaith eto eleni, wrth ddatblygu cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23, cytunwyd ffordd ymlaen er mwyn osgoi gofyn i ysgolion Gwynedd am arbedion newydd ychwanegol. Ers i'r Cyngor, ar 5 Mawrth 2015 yng nghyd-detun 'Her Gwynedd', benderfynu ar darged arbedion £4.3m wrth osod cyllideb 2015/16, ni ofynnwyd i ysgolion Gwynedd am unrhyw arbedion newydd ychwanegol. Ers 2015/16, bydd Cyngor Gwynedd wedi gwireddu £32.8m o gynlluniau arbedion, gyda £4.3m ohono (13% o'r arbedion) wedi'i gynaeafu o'r ysgolion (sy'n cynrychioli 30% o wariant net y Cyngor).

7. **Grantiau Penodol Addysg:** Ymddengys bydd grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru yn parhau ym maes Addysg yn 2022/23 ar lefel tebyg i 2021/22.
8. **Casgliad Cyffredinol:** Wedi cymryd yr holl ffactorau uchod i ystyriaeth, bydd y gyllideb ysgolion yn sylweddol uwch yn 2022/23 na lefel 'cash' 2021/22, ond yn eithaf tebyg mewn termau 'real' (gan fod y bidiau argymhellir eu cymeradwyo ar benawdau sydd heb eu datganoli).

ATODIAD 6

TRETH CYNGOR

1. Mae'n benderfyniad allweddol i aelodau'r Cyngor llawn ei wneud, yn sgil yr ystyriaethau cyflwynir yma, i sefydlu union lefel y cynnydd Treth Cyngor ar gyfer 2022/23. Yr allwedd i hyn yw cael y balans yn briodol rhwng yr angen i wario ar wasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a'r cynnydd treth sydd yn addas i'w godi ar drigolion Gwynedd.
2. Yn y tybiaethau hanesyddol a wnaed yn ein strategaeth ariannol tymor canolig, defnyddiwyd ffigwr o 3.5%, fel amcangyfrif o'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r lefel bu'n rhaid ei godi yn amrywio'n flynyddol, a hynny i raddau helaeth am fod setliad grant Llywodraeth Cymru yn siomedig. Er enghraifft, yn 2019/20 bu'n rhaid cynyddu'r dreth 5.8%, o 3.9% yn 2020/21 ac o 3.7% yn 2021/22.
3. Eleni, erbyn 2022/23 argymhellir codi'r dreth 2.95%. Byddai hynny'n cynhyrchu £82.1m o dreth (o'i gymharu â £80.9m yn 2021/22), sy'n cynnwys £6m o gynnyrch Premiwm. Byddai hynny'n gyfystyr i gynnydd yn y Dreth Cyngor o £43.76 i eiddo mewn Band D, neu 84c yr wythnos. Bydd y dreth a godir gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (cynnydd o 3.68% ar gyfer 2022/23) a'r cynghorau cymuned (% amrywiol) yn ychwanegol i hyn wrth gwrs.
4. Mae dros 8,700 o dai sy'n atebol i dalu treth yng Ngwynedd yn derbyn rhyw elfen o gymorth tuag at eu Treth Cyngor, ac mae dros 60% o eiddo Gwynedd mewn bandiau is na band D. Byddai pob 0.1% ychwanegol o dreth yn addasu'r bwlch ariannol y byddem angen ei ddarganfod o tua £79,672. Felly, byddai 0.5% yn golygu addasu'r bwlch ariannol tua £398,359 tra byddai 1% yn golygu addasu'r bwlch ariannol o tua £796,718.

5. Nodir isod y cynnydd a welwyd yn Nhreth Cyngor Gwynedd, a'r cynnydd a welwyd ar gyfartaledd ar draws Cymru, ers 2015/16:

Blwyddyn	Cyngor	
	Gwynedd	Cymru
2021/22	3.7%	3.6%
2020/21	3.9%	4.6%
2019/20	5.8%	6.2%
2018/19	4.8%	4.9%
2017/18	2.8%	3.0%
2016/17	4.0%	3.6%
2015/16	4.5%	4.3%
Cyfartaledd 2015-22	4.2%	4.3%

Yn 2021/22 roedd lefel Treth Cyngor Band D Cyngor Gwynedd yn £1,483 tra roedd lefel treth cyfartalog siroedd Cymru yn £1,403.

Ceir mwy o fanylion yn ddogfen yma (sydd ar gael yn Saesneg yn unig): [Council Tax Levels in Wales, 2021-22 \(llyw.cymru\)](#)

6. Ni wyddom yn union eto beth fydd y cyfartaledd cynnydd ar draws Cymru yn 2022/23, ond yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yw bydd amrediad eithaf eang ar draws Cymru. Mae'r cynnig gerbron i godi'r dreth 2.95% yn gyson â'r sefyllfa ar draws y gogledd.
7. Mae'r dewis rhwng cynnal gwasanaethau a threthu o hyd yn un anodd, wrth gwrs, a mater i'r holl aelodau yw pwyso a mesur a dod i'r balans y maent yn ystyried sy'n briodol. Fodd bynnag, ymhellach i sawl sgwrs anffurfiol yn y gweithdai aelodau, **argymhellir cynnydd Treth Cyngor o 2.95%, fyddai'n gynnydd wythnosol o £0.84 neu £43.76 yn flynyddol, gyda threth Band D o £1,526.99 am 2022/23.**

CYNNYRCH PREMIWM TRETH CYNGOR AR EIDDO GWAG AC AIL GARTREFI

8. Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 2 Rhagfyr 2021, penderfynwyd parhau gyda'r premiwm o 100% ar ail gartrefi ac ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy am 2022/23. Amcangyfrifir bydd y Cyngor yn derbyn £6m o incwm ychwanegol yn 2022/23 trwy godi'r premiwm, a bwriedir neilltuo'r arian mewn cronfa er mwyn gweithredu'r Cynllun Gweithredu Tai, fydd yn anelu i ddarparu tai ar gyfer pobl ifanc yn ein cymunedau.
9. Rhaid ymgorffori'r holl incwm a cyfarch gwariant perthnasol yng nghyllideb 2022/23.

ATODIAD 7

BALANSAU

1. Mae awdurdodau lleol angen lefel darbodus o 'gyfalaf gweithio' i gynnal llif arian digonol ac i gyfarch gwariant annisgwyl. Rhagwelir bydd gan y Cyngor falansau cyffredinol o tua £9m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon, yn cynrychioli tua 1.9% o wariant refeniw gros y Cyngor.
2. 'Rydym wedi nodi, ar fwy nag un achlysur, oherwydd yr amgylchiadau tymhestlog y byddwn yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod, ei fod yn briodol cadw symiau wrth gefn er mwyn medru ymdrin gyda phroblemau allasai godi.
3. Nid oes unrhyw beth wedi digwydd yn y cyfamser i newid y farn yma, gyda'r cynnydd parhaus mewn galw am wasanaethau gofal a her sylweddol yr argyfwng Covid-19 yn golygu fod y risg yn parhau. Felly, mae'r angen i sicrhau fod gennym falansau priodol i fedru dygymod gydag unrhyw sioc ariannol dal yn berthnasol.
4. **Mae gan y Cyngor nifer o reserfau penodol** sydd wedi eu sefydlu i gwrdd ag anghenion gwariant penodol. Mae'r rhain hefyd yn rhan o gyllideb y Cyngor, wrth gwrs, ac wedi'u craffu yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i'r reserfau penodol gan y Cabinet ar 18 Mai 2021 a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 27 Mai 2021, pryd cymeradwywyd trosglwyddo £170k o gronfeydd i gynorthwyo'r Adran Plant a Theuluoedd oedd wedi gorwario yn 2020/21. Rwy'n adolygu lefel y reserfau yma'n barhaus, a **bwriedir cynnal adolygiad eto erbyn Mai 2022**, i ystyried faint o le fydd yna i'r Cyngor newid ei flaenoriaethau tu mewn i'r reserfau yma.
5. Yn ei adroddiad "Ymdrin â'r Heriau Ariannol sy'n wynebu Llywodraeth Leol yng Nghymru" (2014), mae **Archwilio Cymru wedi datgan** (ym mharagraff 1.8):

*"Gall cynghorau ddefnyddio gronfeydd wrth gefn i'w helpu i gydbwysu eu cyllidebau lle nad yw cynlluniau arbedion yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig neu lle mae'r incwm yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, **ni fyddai fel arfer yn briodol cyllido gwariant rheolaidd o gronfeydd wrth gefn**. Mae lefel synhwyrol o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio yn elfen allweddol o sefydlogrwydd ariannol; bydd isafswm y lefel briodol yn amrywio gan ddibynnu ar rwymedigaethau hysbys a phosibl awdurdod a'i gynlluniau gwariant. Ceir arwyddion bod ambell gyngor yn dibynnu gormod ar gronfeydd wrth gefn cyffredinol i ymdrin â diffyg yn y gyllideb, yn hytrach na cheisio mabwysiadu dulliau mwy cynaliadwy, sy'n aml yn golygu gwneud penderfyniadau amhoblogaidd."*

6. Ategwyd y neges yma mewn cyfarfodydd diweddar gydag Archwilio Cymru, sydd wedi adrodd yn Hydref 2020 ar gynaliadwyedd ariannol awdurdodau lleol Cymru o ganlyniad i bandemig Covid-19. Tra mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy Cyngor Gwynedd ymysg chwartil uchaf yr amrediad o awdurdodau lleol Cymru (yn nhermau maint eu cronfeydd defnyddiadwy), **barn Archwilio Cymru yw:**

“(9) fod rhai cynghorau mewn sefyllfa well o lawer na’i gilydd i ddod drwy her ariannol fel y pandemig. Enghreifftir hyn yn fwyaf amlwg gan y lefelau amrywiol o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd yn cael eu dal gan gynghorau”, a (18) bod “lefel y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy sydd ar gael i gyngor yn un o ddangosyddion allweddol cydnheredd a chynaliadwyedd ariannol”.

Mae copi o’r adroddiad i’w gael yma:

[Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol o ganlyniad i'r Pandemig COVID-19 | Audit Wales](#)

7. Rwy’n argyhoeddedig fod defnydd y Cyngor o falansau, gan ddefnyddio £2 filiwn yn 2022/23 tuag at y Strategaeth Ddigidol Addysg er mwyn sefydlu cronfa adnewyddu cyfrifiaduron, gyda’r disgwyliad i ysgolion dalu’r hanner arall yn weithred gwbl briodol.
8. Wrth gwrs, gallai sefyllfa ariannol 2021/22 wedi bod yn wahanol. Eleni, ar ganol argyfwng, mae balansau’r Cyngor wedi bod yn arf allweddol roedd yn caniatáu i ni aros i weld beth oedd sefyllfa’r setliad grant, cyn hyd yn oed gofyn i wasanaethau’r Cyngor adnabod cynlluniau arbedion newydd ychwanegol. Roedd gwasanaethau Gwynedd yn medru canolbwyntio ar ymateb i’r argyfwng Covid-19, sy’n wahanol i’r sefyllfa mewn rhai awdurdodau lleol eraill.
9. Yn ogystal â rhoi’r hyder i ni weithredu’n ddilyffethair yn wyneb costau’r argyfwng, roedd bodolaeth ein balansau yn ‘prynu amser’ ac osgoi ‘hel bwganod’ am doriadau ychwanegol nad oedd eu hangen erbyn 2022/23. Gan bydd y Cyngor â balansau o tua £7 miliwn yn dilyn defnyddio’r £2 filiwn at y Strategaeth Ddigidol Addysg, byddwn wedi cadw’r swmp o’r balansau wrth gefn eto, fel eu bod ar gael i ‘bontio’r’ sefyllfa ariannol os y bydd angen.

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

1) Manylion

1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2022/23

1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae gosod cyllideb flynyddol yn ofyn statudol ar y Cyngor, yn ogystal â bod yn gam allweddol yn y drefn o gynnal stiwardiaeth ariannol dda.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Medi 2021, wrth baratoi Strategaeth Ariannol Tymor Canol, a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 28 Medi 2021. Gwaith manwl wedi gallu cychwyn ar 21 Rhagfyr 2021, sef dyddiad cyhoeddi setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2022 i 2023.

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Mae nifer o gamau gweithredu wedi eu cymryd pan yn paratoi'r gyllideb yma:

- Trafodaethau rhwng cyfrifwyr gwasanaeth ac uwch swyddogion yr adrannau i ystyried bidiau a chynlluniau arbed
- Holl aelodau'r Cyngor wedi cael eu gwahodd i seminarau cyllideb ar 24 – 27 Ionawr 2022
- Cydweithio agos rhwng y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol a swyddogion cyllid wrth ystyried bidiau
- Aelodau'r Cabinet wedi cael cyfle i fynegi barn ar yr asesiad o'r bidiau
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael cyfle i graffu'r gyllideb ar 10 Chwefror
- Y Cabinet i ystyried y gyllideb ddrafft ar 15 Chwefror a gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn
- Y Cyngor llawn i osod y gyllideb ar gyfer 2022/23 a phennu cyfradd Treth Cyngor ar 3 Mawrth

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Mae'r gyllideb a amlinellir yma yn ceisio parhau i ddarparu deilliannau priodol i holl drigolion y sir. Gan fod cynnydd yng ngrant y Llywodraeth eleni yn ddigonol i gwrdd â'r galw am wasanaethau yn ogystal â chwyddiant, mae modd sefydlu cyllideb gytbwys heb chwilio am arbedion ariannol pellach.

Mae pob cynllun arbedion sydd eisoes yn y rhaglen i'w weithredu wedi bod yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr adeg y cafodd ei gyflwyno. Bryd hynny, bu cydnabyddiaeth fod posibilrwydd i ni gael ardrawiad fyddai'n effeithio'n anghymesur ar rai gyda nodweddion gwarchoddedig, ond mae'r adrannau sy'n berchen ar yr arbedion wedi cynnig cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau. Hefyd, mae'r cynlluniau arbedion unigol wedi bod yn destun asesiadau effaith priodol sy'n cefnogi'r penderfyniadau ariannol gerbron yma.

Gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu cyflwyno eleni, ni fu proses ymgynghori.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu cyflwyno eleni, ni fu proses ymgynghori.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae cyllideb 2022/23 wedi ei lunio ar egwyddor "gynyddol". Hynny yw, defnyddir cyllideb 2021/22 fel cyllideb sylfaenol, gan wneud nifer o addasiadau cyn dod at gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23:

- Chwyddiant Cyflogau Staff
- Chwyddiant Arall (cyflenwyr)
- Cynnydd mewn ardollau (Awdurdod Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd)
- Addasiadau i adlewyrchu newidiadau mewn demograffi
- Bidiau ariannol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau
- Addasiadau technegol i'r gyllideb
- Cynnydd neu ostyngiad mewn costau benthyca a llog ar falansau
- Cyllideb ychwanegol wedi ei greu er mwyn ymdrin â phwysau ariannol parhaus sy'n deillio o Covid-19.
- Gwireddu arbedion sydd eisoes wedi cael eu cytuno

Mae pob un o'r bidiau ariannol a chynlluniau arbed wedi bod yn destun asesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain.

Wrth gynllunio ein cyllidebau ar gyfer parhad gwasanaethau'r Cyngor, mae ein cyfrifwyr wedi rhoi ystyriaeth i gydraddoldeb ar bob lefel, gan ddefnyddio data a thystiolaeth am ddemograffi a thueddiadau wrth gynllunio ar lefel strategol. Yn yr un modd (ond yn fwy penodol) wrth ddod i benderfyniad ar gynlluniau arbedion unigol, mae penaethiaid adrannau'r Cyngor wedi dadansoddi effaith cynlluniau ar wasanaethau, a monitro'r effaith yn briodol.

Yn ogystal â chwrdd â phwysau chwyddiant, mae gan bob gwasanaeth yr hawl i gyflwyno cais am adnodd os yw'n ystyried fod angen cyllideb ychwanegol i sicrhau fod gwasanaethau'n parhau. Mae'r symiau a welir o dan y pennawd "pwysau ar wasanaethau" yn gydnabyddiaeth fod y Cyngor yn darparu cyllid digonol er mwyn sicrhau nad yw ein trefniadau ariannol yn cael effaith andwyol ar lefel y gwasanaethau a ddarperir. Fe geir manylion llawn yn Atodiad 2 ac fe welir fod rhan sylweddol o'r cyfanswm bidiau refeniw parhaol yn mynd i'r maes gofal cymdeithasol.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Na

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Anabledd	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Rhyw	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Oedran	Positif	Mae'r gyllideb a argymhellir yn cynnwys cynnydd arwyddocaol yng nghyllideb yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant er mwyn cryfhau'r sector gofal preswyl a nyrsio.
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Ailbennu rhywedd	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Yr iaith Gymraeg	Positif	Mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys sicrhau fod adnoddau wedi cael eu rhoi yn eu lle i gefnogi gwasanaethau dwyieithog llwyr. Mae nifer o fidiau am adnoddau ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau (Atodiad 2) yn gysylltiedig â'r Gymraeg. Nodir yn benodol y cais am £305,000 o arian un-tro ar gyfer Datblygu Hunaniaith (Prif Swyddog Hunaniaith, Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith ac Arian prosiect i gefnogi prosiectau digidol).

		<p>I ategu hyn, Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.</p> <p>Wrth lunio'r gyllideb rhoddwyd sylw penodol i Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y saith nod Llesiant. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i'r chweched nod sef 'Diwylliant a'r Gymraeg'.</p>
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif	Mae cyllidebau'r Cyngor, ac yn enwedig y bidiau llwyddiannus wedi eu llunio i sicrhau fod yr awdurdod yn gallu parhau i gyfeirio adnoddau i leihau gwahaniaethu ar sail anfantais economaidd-gymdeithasol

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Ni chredir fod unrhyw effaith a soniwyd amdano yn 3.1 yn ddigonol i arwain at gamwahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Positif	Mae'r gwaith o osod y gyllideb yn seiliedig ar waith sylweddol dros nifer o flynyddoedd o sicrhau fod cyllideb yn ei le sydd adlewyrchu anghenion a gofynion pobl Gwynedd
Meithrin perthnasau da	Niwtral	Mae'r gwaith o osod cyllideb yn cael ei wneud o fewn ffiniau clir, ac mae'r balans o fidiau llwyddiannus ac arbedion yn ymateb i'r gwir bwysau sydd ar wasanaethau.

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Cynllun Corfforaethol y Cyngor yw prif ddogfen polisi'r Cyngor ac mae'n cynnwys nifer o gynlluniau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r gyllideb yn cael ei llunio er mwyn gweithredu'r polisi hwnnw.

Eleni, wrth lunio Cyllideb 2022/23, nid yw'r Cyngor wedi cael yr angen i ddarganfod cynlluniau arbedion newydd. Mae'r arbedion sydd i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn 2022/23 eisoes wedi eu cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol. Dilynwyd prosesau statudol priodol cyn eu cymeradwyo ac felly nid ydynt yn destun penderfyniad eleni. Roedd y prosesau statudol yn cynnwys cwblhau asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am effaith ar yr iaith Gymraeg. Wrth drin penderfyniadau am arbedion yn adroddiad Cyllideb 2020/21, casglwyd fod **dim effaith** wedi ei ganfod ar yr iaith Gymraeg ond fod angen cadw golwg wrth weithredu.

Wrth baratoi adroddiad Cyllideb 2021/2022 rhoddwyd ystyriaeth ar effaith arfaethedig Cyllideb 2021/2022 ar y Gymraeg. Yn unol â'r arfer cwblhawyd asesiad cydraddoldeb sy'n cynnwys cwestiwn am yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae'r drefn yma yn parhau ar gyfer 2022/23.

Ymysg y ceisiadau llwyddiannus am arian y tro hwn mae ymrwymiad o £305,000 o arian un-tro ar gyfer Datblygu Hunaniaith (Prif Swyddog Hunaniaith, Swyddog Datblygu Digidol Hunaniaith ac Arian prosiect i gefnogi prosiectau digidol).

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Polisi ariannol yw hwn, a credwn fod y polisi cyfredol yn mynd hyd eithaf ein gallu cyfreithiol a statudol yn hynny o beth o safbwynt cael effaith bositif ar yr iaith.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Mae'r drefn o sefydlu cyllideb y Cyngor yn ganlyniad i gamau penodol sy'n ystyried cyllideb sylfaenol y flwyddyn flaenorol a'r camau sydd angen eu cymryd i wedyn i adlewyrchu addasiadau sydd angen eu hystyried i ymdrin â phwysau ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn ychwanegol i hynny mae sefyllfa gyllidebol holl wasanaethau'r Cyngor yn destun adolygiad manwl dair gwaith y flwyddyn, er mwyn adnabod unrhyw feysydd lle mae angen gweithredu i ymdrin â thanwariant neu gorwariant – yn enwedig os nad ydi cyllidebau yn annigonol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau. Mae natur gwasanaethau'r Cyngor yn golygu fod y pwysau ar wasanaethau yn lleihau anghyfartaledd economaidd-gymdeithasol gan fod y mesurau i ymdrin â phwysau ar wasanaethau yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Nid oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu cynnig eleni, ac mae'r rhai sydd yn bodoli yn y rhaglen ers blynyddoedd blaenorol wedi dod yn destun asesiad fanwl i sicrhau fod anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei leihau.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Mae'r ceisiadau am wariant ychwanegol i ymdrin â phwysau ar wasanaethau ("bidiau") wedi bod yn destun asesiadau manwl gan nifer o swyddogion ac aelodau a felly rydym yn hyderus fod pob cam sy'n ymarferol bosib i leihau anfantais economaidd-gymdeithasol wrth lunio'r gyllideb wedi cael eu cymryd.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd effaith cyffredinol bositif o barhad y gwasanaethau ystyriwyd yn flaenoriaeth i'w hamddiffyn a'u ariannu i'r lefel galw ychwanegol.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae effaith wedi ei adnabod, ond ni chredir y bydd yn sylweddol, gan nad oes cynlluniau arbed newydd yn cael eu hargymell.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd yr adrannau yn gweithio i sicrhau eu bod yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Bydd yr aelodau etholedig yn dod i benderfyniad ar y balans briodol i'w gael rhwng cynnydd yn y Dreth Cyngor a'r angen i ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn yn flynyddol ar osod y gyllideb a chyfradd y Dreth.

Bydd yr arbedion yn cael eu herio yn y Cyfarfodydd Herio Perfformiad dair gwaith y flwyddyn ac yn cael eu hadrodd i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol. Hefyd, bydd adroddiad Trosolwg Arbedion yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio tair gwaith y flwyddyn.

ATODIAD 9

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.
2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
 - Edrych i'r tymor hir – Mae'r gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, nid ar gyfer 2022/23 yn unig, ac yn cymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
 - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r gyfres o Weithdai Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
 - Cymryd agwedd integredig – Mae polisiau ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni wedi'u ystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
 - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
 - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu a'r strategaeth arbedion hir-dymor wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
3. Prif gasgliadau am gyllideb 2022/23 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
 - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
 - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
 - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
 - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
 - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
 - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwyieithog)
 - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)

4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pryd cymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol, ac ystyriaeth o hynny yn y pwyllgorau craffu trefnwyd i'w ystyried ac i flaenoriaethu arbedion i'w gweithredu.
5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.

ATODIAD 10

CADERNID YR AMCANGYFRIFON

1. Yn unol ag Adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn arfaethedig. Mae Atodiad 7 yn amlinellu sefyllfa'r balansau a chronfeydd wrth gefn, tra mae'r atodiad yma'n cadarnhau cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol sy'n sail i'r gyllideb.
2. Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch gwariant ac incwm yn y dyfodol ac mae'n anochel eu bod yn cynnwys elfen o risg yn sgil rhagdybio. Gall effaith y risg hon gael ei lliniaru drwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.
3. Nid yw cadernid yr amcangyfrifon cyllidebol yn gwestiwn syml os ydynt wedi'u cyfrifo yn gywir. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau wedi'u seilio ar amcangyfrif neu ragolygon, a bydd elfen o risg ynghylch gwireddu cynlluniau a chyflawni targedau. Ystyrir gwahanol risgiau i'r gyllideb isod:
4. **Risg Chwyddiant** - Mae risg gall chwyddiant droi allan yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y gyllideb. Ar gyfer 2022/23, yn sgil cyfnod diweddar o chwyddiant cynyddol, caniatwyd chwyddiant ar sail y wybodaeth ddiweddaraf am tâl a phrisiau. Disgwylir i'r lefel uchel gyfredol o chwyddiant ostwng yn ystod 2022/23, ond mae risg y bydd chwyddiant yn codi eto ac mae mwy o ansicrwydd nac arfer eleni ynghylch y lefel tebygol. Gall cynnydd mewn chwyddiant ychwanegu at gostau'r Cyngor, ond gellir lleddfu hyn drwy ddefnyddio cyllideb wrth gefn fel bo'r angen.
5. **Risg Cyfraddau Llog** - Gall cyfraddau llog effeithio'r gyllideb refeniw drwy'r llog a enillir - h.y. byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn golygu mwy o incwm. Yn unol â Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor (mewn eitem ddilynol ar raglen y cyfarfod hwn), nid yw'r gyllideb yn dibynnu ar ddychweliadau rhy uchel. Yn 2021 roedd cyfraddau llog yn parhau i fod ar eu hisaf erioed, ond maent wedi cychwyn cynyddu ac mae cynnydd pellach yn 2022/23 yn ymddangos yn anorfod. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel a byddai'n digolledu'r risg chwyddiant, oherwydd bod un yn debygol o gynyddu gyda'r llall.

6. **Risgiau Grantiau Penodol** - Mae risgiau ynghlwm â'r nifer fawr o grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff eraill sy'n cefnogi cyfran o wariant y Cyngor. Gwyddom, wrth gwrs, bydd dim grantiau Covid o Gronfa Caledi Llywodraeth Cymru (gweler paragraff 8 isod), a gall rhai o'r grantiau penodol eraill ostwng, neu cael eu torri, ac nid oes gennym ddarlun cyflawn wrth i'r flwyddyn ariannol gychwyn. Rydym wedi derbyn grantiau penodol sylweddol ym maes gofal cymdeithasol yn ystod blynyddoedd ariannol diweddar, ag ymrwymadau cysylltiedig, sy'n gwneud cynllunio cyllidol yn anodd. Yn gyffredinol, bydd rhaid i'r gwariant cysylltiedig orffen pan daw grant i ben, ond mae'n bosibl fydd telerau contract yn golygu na all gwariant gael ei dorri mor gyflym â'r grant, neu bod costau diswyddo i'w hariannu. Ymhellach, efallai bydd gweithgaredd a ariennir mor bwysig i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor ei hun, a'r Cyngor yn penderfynu parhau â'r gwariant. Byddwn yn lliniaru'r risg hon drwy sicrhau bod gennym yr wybodaeth orau sydd ar gael am grantiau, ond mae'r cyrrff ariannu (Llywodraeth, ayb) yn rheoli'r sefyllfa hyn.
7. **Risgiau Incwm** - Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd penodol mewn incwm ffioedd sydd cyfwerth â'r cynnydd mewn costau perthnasol. Os bydd galw am wasanaethau'r Cyngor yn disgyn, ac nad yw targedau incwm yn cael eu cyflawni, gall hynny arwain at orwario ar gyllidebau adrannol. Bydd angen monitro gwir sefyllfa'r gyllideb yn ofalus yn ystod y flwyddyn ac, os oes angen, torri yn ôl ar wariant i gyfateb i'r gostyngiad mewn incwm. Bydd hynny ddim yn bosib gyda rhai cyllidebau mawr corfforaethol, lle rhaid gosod amcangyfrifon incwm ar lefel darbodus.
8. **Risg gyda Covid-19** – Oherwydd yr argyfwng Covid-19, disgwylir y bydd Cronfa Caledi Llywodraeth Cymru wedi digolledu Cyngor Gwynedd gyda chymorth grant gwerth cyfanswm oddeutu £14.4m yn 2021/22, yn ychwanegol i'r £20m o gymorth a dderbyniwyd yn 2020/21. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog Cyllid yn Llywodraeth Cymru wedi datgan yn ddiamwys y bydd y Gronfa Caledi, sydd wedi ariannu'r cymorth yma, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Felly, yng nghyllideb 2022/23 Cyngor Gwynedd, rydym wedi cynnwys darpariaeth parhaol ychwanegol o £1.4m i ddygymod â chostau a colledion o barhad yr argyfwng. Hefyd, mae cronfeydd penodol (y Gronfa Covid, a Chronfa'r Strategaeth Ariannol) wedi cael eu diogelu i fod wrth gefn i gefnogi unrhyw wariant neu golled incwm uwchlaw'r £1.4m yng nghyllideb 2022/23. Yn 2020/21, cyn cadarnhad o'r cymorth grant yn wyneb costau sylweddol yn gynnwys yn yr argyfwng, roedd bodolaeth balansau'r Cyngor wedi rhoi'r hyder i ni weithredu'n ddilyffethair er lles pobl Gwynedd. Drwy hawlio grantiau yn briodol o Gronfa Caledi'r Llywodraeth yn 2020/21 a 2021/22, llwyddwyd i warchod y swmp o'r balansau hyn ar gyfer 2022/23.
9. **Risg ag Arbedion** – Mae'r setliad gan Lywodraeth Cymru yn golygu fod y Cyngor wedi gallu dileu neu lithro oddeutu £1.8m o'r £2.4m o gynlluniau arbed oedd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2022/23. Mae'r £595,000 o gynlluniau arbed sydd yn weddill yn ymddangos yn gyraeddadwy, ond mae hanes gan rai o adrannau'r Cyngor o fethu cyflawni eu cynlluniau arbed. Yn unol â'r drefn arferol, byddwn yn lliniaru'r risg drwy sicrhau fod cynlluniau arbedion ym mherchnogaeth adrannau ac aelodau'r Cabinet, a monitro'r cynnydd perthnasol yn rheolaidd.

10. **Costau Diswyddo Staff** - Mae rhai gwasanaethau yn ailstrwythuro eu staff er mwyn cyflawni arbedion, a staff yn cael eu rhyddhau drwy ddiswyddiad. Ni fydd llawer o achosion eleni, ond lle'n briodol caiff costau diswyddo eu cyllido o gronfa wrth gefn ganolog, ac mae swm addas wedi cael ei neilltuo i'r perwyl hyn, sy'n lliniaru'r risg.
11. **Premiwm y Dreth Cyngor** - Wrth benderfynu ar y Sylfaen Drethiannol, aseswyd nifer yr ail gartrefi a thai gwag i'w cynnwys yn y ffigyrau yn ddarbodus. Mae risg bod nifer yr eiddo fydd yn talu wedi'i or-amcan a'r incwm a gesglir yn is na'r swm amcangyfrifwyd (oherwydd eiddo'n trosglwyddo i'r rhestr treth fusnes). Rydym yn rheoli'r risg drwy gyflogi arolygwyr sy'n gwirio'r ffeithiau, a thrwy beidio ymrwymo'r holl gynnyrch treth posibl o'r Premiwm cyn daw'r sefyllfa'n fwy eglur.
12. **Barn y Swyddog Cyllid Statudol** - Wedi ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) o'r farn bod y cyllidebau yn gadarn, yn ddigonol, ac yn gyraeddadwy.



Adroddiad i'r:	Cabinet
Dyddiad	15 Chwefror 2022
Arweinydd Portffolio	Y Cyngorydd Dafydd Meurig
Swyddog	Rhion Glyn, Pennaeth Cynorthwyol, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant
Pwnc:	Adroddiad Drafft Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022

1 Pwrpas yr adroddiad

- 1.1 Darparu trosolwg o Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022, sydd wedi'i lunio fel gofyniad dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Ceisio cefnogaeth y Cyngor Llawn ar gyfer cymeradwyo Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru. Cyflwynwyd yr Adroddiad Arolwg Ymgynghori i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 3 Chwefror 2022.
- 2.2 Mae angen llunio a chyhoeddi'r asesiad ar ffurf adroddiad erbyn mis Ebrill 2022. Mae'r gwaith yn parhau i baratoi asesiad anghenion poblogaeth Gwynedd a disgwylir y bydd yn barod yn hydref 2022.

3 Argymhelliad

- 3.1 Bod y Cabinet yn cymeradwyo Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022.

4 Manylion yr adroddiad

- 4.1 Mae Adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) yn gofyn bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn asesu'r canlynol ar y cyd:
 - a) Y graddau y mae angen gofal a chefnogaeth ar bobl yn ardal yr awdurdod lleol.
 - b) Y graddau y mae angen cefnogaeth ar ofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol.
 - c) Y graddau nad yw anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu diwallyu.

- d) Yr ystod a'r lefel o wasanaethau sydd ei angen i ddiwallu anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol.
- e) Yr ystod a'r lefel o wasanaethau sydd ei angen i gyflawni'r dibenion yn Adran 15(2) (gwasanaethau ataliol) yn ardal yr awdurdod lleol.
- f) Y camau gweithredu gofynnol i ddarparu ystod a lefel o wasanaethau a nodwyd yn unol â pharagraffau (d) ac (e) drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.2 Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn drafod y themâu / grwpiau canlynol o leiaf:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl Hŷn
- Iechyd, Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrâu
- Anableddau Dysgu (Plant ac Oedolion)
- Awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Gofalwyr

4.3 Mae'r asesiad yn trafod manau diogel, digartrefedd a chyn-filwyr hefyd. Mae'r asesiad wedi cael ei lywio gan y gofynion a nodwyd yn y cod ymarfer ar gyfer yr Asesiad Anghenion Poblogaeth [AAP] ac wedi rhoi sylw dyledus i ddyletswyddau a pholisïau eraill sy'n cael effaith sylweddol ar y grwpiau a restrwyd. Mae pob pennod yn cynnwys asesiad o;

- Y Gymraeg (y 'cynnig gweithredol')
- Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol
- Effaith pandemig COVID-19
- Ystyriaethau diogelu
- Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Gwerth Cymdeithasol

4.4 Tra bod y AAP yn ofyniad statudol, nid dyma'r prif reswm dros ymgymryd â'r gwaith. Mae'r AAP yn ddogfen hanfodol sydd yn darparu sail dystiolaeth i gefnogi sefydliadau a gwasanaethau ledled y rhanbarth, ac mae'n cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer cylchredau cynllunio strategol, gan danategu integreiddiad gwasanaethau a threfniadau partneriaethau cefnogi.

4.5 Mae swyddogion wedi treulio llawer o amser yn cynhyrchu papurau gwaith lleol, dadansoddiad data ac ymchwil i lywio'r adroddiad rhanbarthol. Mae'r papurau gwaith hyn, er nad ydynt wedi'u cyhoeddi fel rhan o'r adroddiad rhanbarthol, yn ddogfennau cynllunio gwerthfawr. Mae'r prif negeseuon allweddol lleol yn Adran 5 y papur hwn

- 4.6 Mae angen o hyd am weledigaeth a chynllun lleol ar gyfer gwasanaethau ymhob ardal. Wrth symud ymlaen, byddai'r partneriaeth yn ceisio parhau gwaith yr asesiad o anghenion i sicrhau bod asesu anghenion ein poblogaethau'n broses barhaus.
- 4.7 Mae'r gofyniad i lunio adroddiad hygyrch, rhanbarthol mewn cyfnod amser mor fyr wedi cyfyngu beth a ellir ei gynnwys. Mae'r gwaith wedi'i baratoi yn ystod cyfnod heriol iawn yn sgil pwysau'r pandemig. Mae wedi golygu cryn dipyn o ymdrech gan swyddogion i wneud yn siŵr bod dogfen ystyrllon yn cael ei chreu.
- 4.8 Dylid nodi nad yw rhai o'r ffynonellau data cenedlaethol a oedd ar gael pan baratowyd y ddogfen wreiddiol yn 2017 bellach yn cael eu casglu neu ddim ar gael bellach.
- 4.9 Nid yw'r ddogfen AAPD terfynol felly yn berffaith ac rydym yn argymhell diweddarau wrth i ddata cenedlaethol newydd ddod ar gael a bod mwy o waith yn cael ei wneud yn lleol. Byddwn yn datblygu proses barhaus i wella a diweddarau'r AAP fel ei fod yn parhau'n ystyrllon ac yn gyfredol. Bydd hyn hefyd yn helpu i'w wneud yn broses fwy hylaw.
- 4.10 Mae'r AAP wedi'i greu ar y cyd ac wedi'i arwain gan waith ymgysylltu. Cynhaliodd swyddogion arweiniol lleol a rhanbarthol ddadansoddiad o'r data, adolygiadau o'r llenyddiaeth gefndir, adolygiadau o wasanaethau a gwaith ymgysylltu ychwanegol a oedd yn canolbwyntio ar faterion penodol. Mae'r materion allweddol a'r themâu a nodwyd yn seiliedig ar ymgynghoriad ac adborth gan staff, sefydliadau partner, cydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Iechyd Lleol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd, i nodi anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth o strategaethau comisiynu blaenorol ac asesiadau o anghenion.
- 4.11 O'r herwydd mae ein dull cydgynhyrchu yn golygu bod gennym ni ddogfen AAP sy'n ystyrllon ac yn seiliedig ar wybodaeth gan gynnwys amrywiaeth eang o bobl, o gymharu â dogfen wedi'i chreu ar ei phen ei hun yn ystod ymarfer pen desg, sef y dull a ddefnyddiwyd gan ardaloedd eraill yng Nghymru.
- 4.12 Mae'n rhaid llunio un adroddiad rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru, a'i fod yn cael ei gymeradwyo gan Gyngor Llawn bob ardal awdurdod lleol (Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) a Bwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol.
- 4.13 Mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad dim hwyrach na mis Ebrill, 2022. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefannau pob awdurdod lleol, gwefan y bwrdd iechyd a gwefan y bartneriaeth ranbarthol yn Gymraeg a Saesneg. Bydd copi o'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Mae'r AAP Llawn yn ddogfen faith. Bydd crynodeb o adroddiadau, fersiynau ar gyfer plant a phobl ifanc a fformatau hygyrch eraill ar gael hefyd. Bydd y rhain yn cael eu cynhyrchu unwaith y mae'r dadansoddiad llawn wedi'i gwblhau ac yn cael eu cyhoeddi gyda'r Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth Llawn er mwyn gwneud y cyd-destun a'r prif negeseuon yn fwy hygyrch a dealladwy.

5 Negeseuon Lleol Allweddol y Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth / Negeseuon Allweddol ar gyfer y Cabinet

- 5.1 Bydd asesiad anghenion poblogaeth Gwynedd yn rhoi sylw mwy manwl i faterion sydd wedi eu hamlygu yn y data a gyflwynir yn yr adroddiad. Yn ychwanegol at hyn, dylid tynnu sylw at y canlynol:
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd yr uchaf yng Ngogledd Cymru o 10% (76.4%) (Tabl 9). Ystyrir bod y galw am weithwyr sy'n medru darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr drwy gyfrwng yr Iaith Gymraeg yn cael ei fodloni gan amlaf yng Ngwynedd o gymharu a'r siroedd eraill
 - Gwynedd yw'r unig sir lle gwelir cynnydd rhwng 2020 a 2040 yn amcangyfrif nifer y plant sydd â salwch cyfyngol hirdymor (Tabl 12). Gall hyn olygu'r angen am gymorth ychwanegol i rieni sy'n ofalwyr
 - Gwelodd Wunedd gynnydd sylweddol yn y nifer o blant mewn gofal maeth rhwng 2015 a 2020 (Tabl 26)
 - Mae Ffigwr 24 yn dangos mai pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yng Ngwynedd sydd â'r sgorau llesiant meddwl uchaf yng Ngogledd Cymru (24.5) ac mae'n ystadegol sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (24)
 - Wrth ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ynghylch sut mae gwasanaethau ieuencid yng Ngwynedd yn cefnogi eu lles emosiynol a meddyliol, gwelwyd bod pobl ifanc o'r farn bod diffyg ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl pobl ifanc yn gyffredinol. Roedd y gwasanaethau ieuencid yn darparu cymorth gwerthfawr i'r rhai a oedd wedi cymryd rhan ond roedd angen ei hyrwyddo'n well (tud 72)
 - Gwynedd sydd â'r gyfradd uchaf o bobl hŷn (252 fesul 100,000 o'r boblogaeth) ar y gofrestr anabledd dysgu (tud 166)
 - Nododd darparwyr anabledd dysgu eu bod yn gweithio'n dda iawn gydag asiantaethau eraill a'u bod yn ddiolchgar am y cymorth maent wedi'i dderbyn gan wasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd (tud 173)
- 5.2 Fel y nodir uchod bydd y papurau gwaith a'r ddogfen Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth lawn yn cael eu defnyddio'n lleol i gynllunio gwasanaethau i'r dyfodol, yn enwedig wrth adfer ar ôl y pandemig. Bydd yn ddogfen allweddol i ystyried datblygiad yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ogystal â hysbysu'r Cynllun Lles Lleol. Bydd hefyd yn bwydo i mewn i ddogfennau eraill, yn cynnwys y Strategaeth Gymunedol, cynlluniau Trechu Tlodi a chynlluniau Tai/Cefnogi Pobl.

6 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

- 6.1 Sefydlodd Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru grŵp llywio rhanbarthol i arwain ar y gwaith ar gyfer grwpiau technegol, ymgysylltu data a themâu eraill, er mwyn arwain ar dasgau penodol. Mae aelodaeth o grwpiau o bob awdurdod lleol Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd

Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartion eraill gyda diddordeb yn yr asesiad o anghenion megis swyddogion a gyfer y BGC. Mae strwythur llywodraethu ynghlwm fel atodiad 1.

- 6.2 Roedd ymgysylltiad ar gyfer yr asesiad poblogaeth yn cynnwys: holiadur ar gyfer sefydliadau sy'n gofyn am eu barn a thystiolaeth; canllaw hwylusydd at ddefnydd partneriaid er mwyn cynnal grwpiau trafodaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth a gweithdai gyda trigolion. Derbyniwyd cyfanswm o 350 ymateb i'r holiadur rhanbarthol ac mae'r ymatebion hyn wedi darparu data ansoddol cyfoethog i hysbysu'r AAP. Yn ogystal â'r arolwg, gwnaethom hefyd gasglu a defnyddio dystiolaeth o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd ledled y rhanbarth gan bartneriaid. Mae'r canfyddiadau hyn ar gael ar fas-data ymgynghoriad y cydweithredfa rhanbarthol, sydd yn brosiect parhaus i wella'r gwaith o gydlynu gweithgareddau ymgysylltu ar draws y rhanbarth a galluogi gwell defnydd o'r canfyddiadau. Mae adroddiad ymgynghori llawn hefyd ar gael ac mae wedi'i atodi i'r prif adroddiad.
- 6.3 Mae map budd-ddeiliad wedi'i lunio a'i adolygu, sy'n rhestru'r holl grwpiau poblogaeth sydd efallai angen gwasanaethau gofal a chefnogaeth i sicrhau bod gymaint o bobl â phosib wedi cael cyfle i leisio eu barn. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu gyda grwpiau anodd eu cyrraedd hefyd.

7 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 7.1 Mae'r AAP yn cyfrannu at gylchredau cynllunio strategol rhanbarthol a lleol, a bydd hyn yn ei dro yn cefnogi blaenoriaethau corfforaethol awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ei boblogaeth breswyl.
- 7.2 Yn ychwanegol at y gofyniad i asesu anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth, mae gofyniad pellach i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu digonolrwydd y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir i ddiwallu anghenion y boblogaeth, ar ffurf Adroddiad Cadernid y Farchnad. Mae hyn y cynnwys asesiad o sefydlogrwydd y farchnad ar gyfer gwasanaethau gofal a chefnogaeth rheoledig. Yn dilyn cyhoeddiad yr asesiad o APP, bydd Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi yn 2022.
- 7.3 Mae'n rhaid llunio Asesiad o Les fel gofyniad dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer pob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus yn dilyn terfynau amser tebyg i'r Asesiad Poblogaeth. Roedd yr asesiad poblogaeth yn ystyried anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth, tra bo'r Asesiad o Les yn cynnwys ffyniant, iechyd, gwytnwch, cydraddoldeb, diwylliant bywiog, cyfrifoldeb cyd-eang a chymunedau cydlynol. Mae gorgyffwrdd rhwng y ddau, felly mae'r tîm prosiect ar gyfer AAP yn ymgysylltu gyda swyddogion ar gyfer y BGC ynghylch cynnydd yr asesiad o anghenion a'r asesiadau o Les ac yn rhannu gwybodaeth lle bo'r angen.
- 7.4 Yn ogystal â hysbysu ein cynlluniau lleol, cam nesaf y prosiect fydd hefyd i ddefnyddio'r asesiad poblogaeth i ddatblygu cynllun ardal i'r rhanbarth. Efallai bydd gwaith ar y cynllun ardal yn y dyfodol yn cynnwys rhagor o waith ymchwil ac ymgynghori i archwilio ardaloedd blaenoriaeth yn ddyfnach, cyn cytuno ar

ba ardaloedd i'w blaenoriaethu ar gyfer gwaith rhanbarthol. Bydd y cynllun ardal yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi yn 2023.

8 Goblygiadau o ran Adnoddau / Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 8.1 Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru wedi ariannu'r prosiect rhanbarthol, sydd wedi cynnwys rheolwr prosiect rhan-amser er mwyn cefnogi datblygiad yr AAP. Roedd costau cysylltiedig, megis cyfieithu ac ymgysylltiad arbenigol hefyd wedi cael ei ariannu gan y bartneriaeth.
- 8.2 Bu cost i'r awdurdodau lleol, BIPBC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran amser staff ac adnoddau i gefnogi'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys staff i wneud gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff ac aelodau etholedig a staff i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi ac ysgrifennu'r adroddiad. Cynhaliwyd mwyafrif y gwaith hwn rhwng mis Ebrill 2021, a mis Rhagfyr 2021 ar gyfer asesiad o anghenion y boblogaeth.
- 8.3 Wrth symud ymlaen, bydd yr asesiad AAP yn nodi blaenoriaethau rhanbarthol a lleol, ac efallai caiff ei nodi bod angen lefel o fuddsoddi ar y blaenoriaethu hyn, ar lefel ranbarthol neu leol.

9 Risgiau ac Aseiad o Effaith

- 9.1 Na fyddai'n bosibl cael cymeradwyaeth gan y chwe chynghor a Bwrdd BIPBC mewn pryd i gyhoeddi erbyn mis Ebrill 2022. I liniaru hyn, mae'r tîm prosiect yn bwriadu ymgynghori mor eang â phosib cyn y broses gymeradwyo.
- 9.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu'r gofyniad am Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar yr asesiad o anghenion fel adroddiad yn ei hun. Mae'r asesiad o anghenion yn cynnwys dadansoddiad ac ymchwil ar gydraddoldeb, hawliau dynol ac economaidd-gymdeithasol ar gyfer pob grŵp sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad o anghenion.

Papurau Cefndir	Lleoliad	Gwybodaeth Gwefan
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014): Cod Ymarfer		http://www.ccwales.org.uk/codes-of-practice-and-statutory-guidance/

Barn y swyddogion statudol

Swyddog monitro:

Fe nodir yn yr adroddiad fod yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yma yn cael ei pharatoi er cyfarch gofyn statudol yn deillio o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i baratoi cynllun ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd. Mae'r arweiniad statudol ynglŷn â Rhan 2 o'r Ddeddf hefyd yn cyfeirio'r Awdurdod i baratoi cynllun ar y cyd yn rhanbarthol gyda'r awdurdodau perthnasol eraill ynghyd a rhoi'r ddogfen gerbron y Cyngor llawn i'w gymeradwyo.

Pennaeth Cyllid:

Ar wahân i'r gofyn statudol i ddarparu'r ddogfen yma, mae asesiad cynhwysfawr o'r galw am wasanaethau rŵan ac i'r dyfodol yn hanfodol os ydym am barhau i wneud yn siŵr fod ein adnoddau wedi cael eu cyfeirio i'r lle cywir. Wrth gwrs, nid yw hynny yn golygu y bydd modd ariannu pob agwedd fel y buasem yn ei ddymuno ac mae'n sicr y bydd yr angen i flaenoriaethu – a gwneud penderfyniadau anodd ar adegau – yn parhau.

Rwyf yn fodlon nad yw'r asesiad hwn yn creu ymrwymiad gwario ynddo'i hun, ond bydd yn arf pwysig a defnyddiol wrth gynllunio am y dyfodol. Bydd angen i gais am adnoddau ychwanegol fod yn destun trefniadau arferol y Cyngor.


Atodiadau:

Atodiad 1: Cyfeiriadau


Atodiad 2: Map o dystiolaeth

Atodiad 3: Adroddiad Arolwg Ymgynghori

Strwythur Llywodraethu Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru



Strwythur Rheoli Prosiectau





CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**
NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru

Ebrill 2022 Drafft



Cysylltwch â ni

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru

Cyfeiriad: Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: cydweithredfagogleddcymru@sirddinbych.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 712622

Cynnwys

Rhagair.....	4
1. Cyflwyniad.....	5
2. Y dull o ymdrin â'r asesiad o anghenion y boblogaeth	12
3. Trosolwg Gogledd Cymru	25
4. Plant a phobl ifanc.....	41
5. Pobl hŷn	89
6. Anghenion iechyd cyffredinol, nam corfforol a nam ar y synhwyrau.....	127
7. Anableddau dysgu	160
8. Awtistiaeth.....	191
9. Iechyd meddwl (oedolion)	207
10. Gofalwyr di-dâl	229
11. Cyn-filwyr.....	259
12. Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches	260

Rhagair

Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru, gyda chymorth pob un o chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd, yn falch o gyhoeddi'r ail Asesiad rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth.

Yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth fydd sylfaen darpariaeth ein gwasanaethau yn y dyfodol ar draws sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol y rhanbarth, a fydd yn sicrhau bod anghenion ein pobl yn cael eu diwallu.

Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth wedi'i ddatblygu yn ystod y pandemig COVID-19. Mae'r pandemig wedi cael effaith ar holl agweddau bywyd. Mae wedi bod yn gyfnod penodol anodd a heriol i staff yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac i'r rhai rydym ni'n eu cefnogi.

O ganlyniad i'r pandemig, rydym ni'n gweld tueddiadau'n newid yn anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yn ei chyfanrwydd ac, o ganlyniad, mae'r effaith leol i Ogledd Cymru wedi'i hystyried trwy gydol yr Asesiad hwn o Anghenion y Boblogaeth.

Blaenoriaeth i bob gwasanaeth fydd adfer ar ôl effeithiau'r pandemig ei hun a sicrhau ein bod yn cynllunio'n effeithiol dros y tymor canolig a'r tymor hir i ymateb i anghenion ein pobl wrth iddynt newid.

Rhan allweddol o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth oedd deall barn y boblogaeth. Bu i ni ddefnyddio ystod eang o adroddiadau ymgynghori, ynghyd â safbwyntiau dros 350 o unigolion, sefydliadau a phartneriaid a gymerodd ran mewn arolwg rhanbarthol. Mae'r adborth a gafwyd wedi rhoi gwybod i ni beth sydd o bwys i'r rhai sydd angen cymorth neu sydd â chyfrifoldebau gofalu ac mae hyn wedi dylanwadu'n helaeth ar yr argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn.

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Roedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth poblogaethau rhanbarthol. Roedd hefyd yn sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i reoli a monitro gwasanaethau i sicrhau bod sefydliadau'n cydweithio i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth wedi'i lunio gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Cyhoeddwyd yr asesiad cyntaf o anghenion y boblogaeth yn 2017 ac mae wedi'i ddefnyddio fel sail i'r asesiad newydd hwn.

1.2 Pwrpas asesiad o anghenion y boblogaeth

Fel rhanbarth, rydym ni eisiau deall anghenion gofal a chymorth holl drigolion Gogledd Cymru fel y gallwn ni gynllunio gwasanaethau'n effeithiol i ddiwallu'r anghenion hynny'n briodol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd yr asesiad o anghenion y boblogaeth yn dynodi:

- Anghenion gofal a chymorth rhanbarth Gogledd Cymru
- Y gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny
- Unrhyw fylchau (anghenion heb eu diwallu) a'r camau angenrheidiol

Yr asesiad yw'r sail y dylai'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei defnyddio i wneud penderfyniadau i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth at y dyfodol. Mae hefyd wedi'i fwriadu i ddylanwadu ar brosesau penderfynu lleol, gan gynnwys cynlluniau gwelliant corfforaethol a datblygu strategaethau a chynlluniau.

Mae'r asesiad wedi'i wneud ar y cyd gan y chwe chyngor lleol sydd yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Y chwe chyngor lleol yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae'r asesiad rhanbarthol o anghenion y boblogaeth yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru a sut y bydd anghenion y boblogaeth yn addasu ac yn newid dros y blynyddoedd. Bydd y canfyddiadau o fewn yr asesiad hwn yn cynorthwyo pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus yn y rhanbarth i ddarparu gwasanaethau gwell a digonol i'n trigolion sydd angen gofal a chymorth.

1.3 Dulliau ymchwil

Mae'r dulliau ymchwil yn cynnwys:

- Dadansoddi setiau data lleol a chenedlaethol i ddod o hyd i dueddiadau.
- Tystiolaeth gan yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd.
- Tystiolaeth o ymchwil lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Blaenoriaethau o bolisiâu/strategaethau/cynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Ymatebion i'r arolwg rhanbarthol ac ymarferion ymgynghori eraill gan drigolion, sefydliadau, staff a darparwyr.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys tabl o gyfeirnodau wedi'u trefnu yn ôl pennod thematig, gyda manylion y ffynhonnell o wybodaeth a gyfeirnodir yn yr asesiad o anghenion.

Lle mae data'n cael ei gyflwyno a chyfraddau, cyfraddau bras yw'r rhain oni bai y nodir fel arall. Mae hynny'n golygu eu bod yn seiliedig ar gyfanswm y boblogaeth ac nad ydynt wedi'u haddasu i gyfrif am wahaniaethau yn strwythur oedran poblogaethau.

Mae'r rhan fwyaf o ddata rheoli perfformiad blynyddol ar gael ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Er enghraifft, bydd y cyfnod o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021 yn cael ei ysgrifennu ar ffurf 2020/21.

1.4 Ymgynghori ac ymgysylltu

O fewn y Cod Ymarfer i ddatblygu asesiad o anghenion y boblogaeth, mae'n dweud bod rhaid i awdurdodau lleol a phartneriaid weithio gyda phobl i gael gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw. Blaenoriaeth i'r holl bartneriaid yw'r egwyddor o gydgyhyrchu. O ganlyniad i hynny, mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth wedi'i ddatblygu trwy ymgysylltu. Mae'r prosiect ei hun wedi cynnwys cynnal ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu rhanbarthol mawr yn seiliedig ar yr egwyddorion

cededlaethol i ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru ac egwyddorion cydgyngyrchu, a oedd yn llywio ein cynllun ymgysylltu ac ymgynghori.

Nod yr ymgynghoriad oedd darganfod beth yw anghenion gofal a chymorth pobl yng Ngogledd Cymru ac anghenion cefnogaeth gofalwyr. Bu i ni weithio gyda'n partneriaid i gasglu a chrynhoi canfyddiadau o ymgynghoriadau oedd wedi'u cynnal dros y blynyddoedd diwethaf. Mae canfyddiadau o unrhyw ymchwil, deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau eraill o anghenion, datganiadau sefyllfa neu adroddiadau ymgynghori perthnasol hefyd wedi'u hystyried a'u cynnwys lle bo hynny'n berthnasol. Mae chwiliad cynhwysfawr o lenyddiaeth hefyd wedi'i gynnal mewn perthynas â nodweddion a ddiogelir.

Mae'r crynodebau hyn wedi'u cynnwys o fewn rhannau penodol lle bo hynny'n berthnasol (er enghraifft, ymgynghoriad Anableddau Dysgu 2018, yn rhan o Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru) ac maent hefyd wedi'u cyhoeddi yn rhan o [gyfeiriadur ymgysylltu newydd i Ogledd Cymru](#). Cafodd arolwg rhanbarthol ei gynnal hefyd. Gan fod yr arolwg wedi'i fwriadu ar gyfer ystod eang o grwpiau o'r boblogaeth a gwasanaethau, cytunodd y grŵp ymgysylltu ar nifer bach o gwestiynau pen agored fel y gallai'r rhai oedd yn ymateb rannu beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Fe ofynnem ni i'r ymatebwyr beth oedden nhw'n ei feddwl oedd yn gweithio'n dda ar hyn o bryd, beth allai fod yn well a sut roedd cymorth wedi newid oherwydd Covid-19 a beth fyddai effeithiau hirdymor hynny. Fe wnaethom ni hefyd ofyn cwestiynau ynghylch y Gymraeg a derbyn y 'Cynnig Gweithredol'.

Cafwyd cyfanswm o 350 o ymatebion yn uniongyrchol i'r holiadur. Roedd tua 61% o'r ymatebion gan bobl oedd yn gweithio i sefydliad sydd ynghlwm â chomisiynu neu ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Mae timau lleol hefyd wedi gwneud gwaith ymgysylltu eu hunain lle nad oedd hynny'n cael ei wneud yn rhanbarthol. Mae pob un o'r adrannau o fewn yr adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o'r canfyddiadau allweddol ar gyfer y grwpiau hynny mewn ymateb i'r ymgynghoriad a thrwy ddulliau ymgysylltu eraill. Cafodd penodau drafft hefyd eu rhannu'n helaeth â phartneriaid i gael adborth a sylwadau.

Mae [adroddiad ymgynghori](#) manwl wedi'i lunio, sy'n manylu ar y broses ymgynghori a'r dulliau a ddefnyddiwyd.


1.5 Llywodraethu'r prosiect

Gofynnodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i Fwrdd Comisiynu Gogledd Cymru oruchwylio'r prosiect. Bu iddynt sefydlu Grŵp Llywio rhanbarthol i gydlynu datblygu'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Ar ben hyn, roedd is-grwpiau fel gweithgor data a gweithgor ymgysylltu. Roedd holl weithgorau'r prosiect yn cynnwys cynrychiolaeth o'r chwe awdurdod lleol, y bwrdd iechyd ac iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd arweinwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd eu gwahodd i ymgysylltu â'r Grŵp Llywio i sicrhau cyfatebiad rhwng y gwaith oedd yn cael ei wneud ar gyfer yr Asesiadau Lles. Roedd trefniadau rheoli'r prosiect yn sicrhau bod cysondeb ar gyfer yr holl bartneriaid wrth lunio asesiad rhanbarthol. Lluniwyd adroddiadau prosiect rheolaidd ac fe gawsant eu rhannu â'r byrddau rhanbarthol yn ôl yr angen.

Mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth wedi'i gymeradwyo gan y chwe awdurdod lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Diagram 1: Trefniadau llywodraethu prosiect



1.6 Beth sy'n digwydd nesaf – cynllunio strategol

Bydd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael ei ddefnyddio i lywio Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad, adroddiad rhanbarthol sydd i gael ei gyhoeddi ym Mehefin 2022. Bydd Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn asesu sefydlogrwydd a digonolrwydd y farchnad gofal cymdeithasol yn sgil y canfyddiadau a'r anghenion sydd wedi'u nodi o fewn yr asesiad hwn. Yn ogystal, mae Cynllun Ardal i gael ei gyhoeddi yn 2023. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cyfrannu at strategaethau eraill.

Mae'r Cynllun Ardal hefyd yn cael ei lunio mewn partneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd (BIPBC) ac yn cael ei oruchwylio gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn benodol bwysig ar gyfer cylchoedd cynllunio strategol iechyd a gofal cymdeithasol gan y bydd y canfyddiadau a'r blaenoriaethu allweddol sy'n deillio ohono'n dylanwadu ar y canlynol:

- Camau gweithredu ar gyfer argymhellion i'r partneriaid am feysydd blaenoriaeth integreiddio i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- Sut y bydd gwasanaethau'n cael eu caffael i'w darparu, gan gynnwys modelau amgen.
- Manylion gwasanaethau ataliol a fydd yn cael eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb.
- Camau i'w cymryd o ran darparu gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau cymorth.
- Camau angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae llawer o waith arall yn rhanbarth Gogledd Cymru'n cyd-fynd â'r asesiad o anghenion y boblogaeth. Mae pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn y rhanbarth. Bydd pob BGC yn llunio Asesiad Lles erbyn Mai 2022. Mae cysylltiadau wedi'u creu â BGCau lle mae agweddau cyffredin mewn blaenoriaethau a themâu ar draws y rhanbarth.

Mae gwaith ar raglenni trawsnewid eraill yn cael ei wneud un ai drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol neu'r bwrdd iechyd.

1.7 Cyfyngiadau, gwersi a ddysgwyd a chyfleoedd

Mae paratoi un asesiad hygyrch o anghenion y boblogaeth ar draws chwe awdurdod lleol ac ardal un bwrdd iechyd o fewn y terfynau amser wedi bod yn broses heriol. Roedd pwysau ychwanegol Covid-19 yn cyfrannu at hynny. Diolch i ymdrechion tîm y prosiect, grŵp llywio'r prosiect a oedd yn cynnwys arweinwyr lleol, yr is-grŵp data, y grŵp ymgysylltu, sefydliadau partner, timau, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac aelodau'r cyhoedd a fu'n rhan o gydgyhychu'r asesiad.

Un o'r prif heriau oedd cael gafael ar ddata o ansawdd da am y boblogaeth. Ni fydd data Cyfrifiad 2021 yn cael ei gyhoeddi mewn pryd i'w gynnwys yn yr asesiad ac nid oedd nifer o ddangosyddion ar gael oherwydd newidiadau i'r modd mae data'n cael ei gasglu ers yr asesiad diwethaf a gan fod rhywfaint o waith casglu data wedi'i ohirio oherwydd Covid-19.

Ers cyhoeddi'r asesiad cyntaf o anghenion y boblogaeth yn 2017, rydym wedi diweddarau'r asesiad yn rheolaidd yn ôl yr angen, er enghraifft, yn sgil datblygu'r strategaeth i ofalwyr, y strategaeth anabledau dysgu a'r strategaeth ddementia. Bydd y broses hon yn parhau yn ystod cylch y 5 mlynedd nesaf fel bod gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ddata a gwybodaeth sy'n gyfredol i allu llywio gwelliannau i wasanaethau iechyd a gofal a lles pobl a chymunedau Gogledd Cymru. Bydd y diweddariadau sydd wedi'u cynllunio'n cynnwys data Cyfrifiad 2021 pan mae ar gael yn 2022 a chynnal asesiadau mwy manwl o anghenion lleol.

Argymhellir bod grŵp llywio'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn parhau i drefnu cyfarfodydd rheolaidd i oruchwylio'r diweddariadau a gwneud rhagor o argymhellion ynglŷn â sut i wella ansawdd, argaeledd a chydlyniant y data i lywio asesiadau o anghenion yn y dyfodol.

Rhai o gyfyngiadau'r adroddiad hwn yw:

- **Data'r Cyfrifiad:** Cynhaliwyd y Cyfrifiad diweddaraf yn 2021. Ni fydd data'r Cyfrifiad wedi'i gyhoeddi tan wanwyn 2022 ar y cynharaf. O ganlyniad, mae rhywfaint o ddata yn yr asesiad o anghenion hwn yn dibynnu ar ddata Cyfrifiad 2011, sydd wedi'i ddiweddarau ag unrhyw setiau data eraill lle bo hynny'n bosib'. Wrth gyhoeddi data'r Cyfrifiad, bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.
- **Data lleol:** Roedd llawer o'r data oedd ar gael i'w ddefnyddio yn yr adroddiad

ar gael ar lefel awdurdod lleol, rhanbarthol neu genedlaethol, a oedd yn ei gwneud yn anodd deall anghenion ardaloedd llai a gwahaniaethau o fewn ffiniau awdurdodau lleol. Bydd cynhyrchu asesiadau mwy manwl o anghenion lleol i ategu'r adroddiad rhanbarthol yn datrys hynny.

- **Mapio gwasanaethau:** Nid yw'r asesiad wedi'i fwriadu i fod yn fap manwl o'r holl wasanaethau sydd ar gael, ond mae trosolwg bras ym mhob adran.
- **Cysylltiadau ag asesiadau/strategaethau eraill:** Bydd yr asesiad o anghenion yn helpu i lywio'r adroddiad rhanbarthol sy'n cael ei ddatblygu, Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad. Mae cysylltiadau hefyd wedi'u gwneud â datblygu asesiadau lles, yn benodol lle mae gwaith yn gorgyffwrdd. Er bod rhywfaint o'r gwaith wedi digwydd yn gyfochrog, bydd cysylltiadau mwy eglur yn dod i'r amlwg pan fydd yr asesiadau'n cael eu cyhoeddi.
- **Anghenion gofal a chymorth cudd:** Mae rhai pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth ond sydd wedi bod y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad neu heb eu dynodi ym mhenodau'r adroddiad. Mae'r penodau a'r grwpiau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn yn bodloni gofynion y cod ymarfer, ond mae angen i rai sy'n gwneud penderfyniadau fod yn ystyriol y gallai fod grwpiau eraill sydd ag angen am ofal a chymorth.

1.8 Rhagor o wybodaeth

Mae'r wybodaeth a gasglwyd i ddatblygu'r asesiad o anghenion y boblogaeth wedi bod yn gynhwysfawr, ond ni fu modd cynnwys yr holl wybodaeth gefndir yn yr adroddiad. Gallwch wneud cais am y wybodaeth honno trwy anfon e-bost at cydweithredfagogleddcymru@sirddinbych.gov.uk.

2. Y dull o ymdrin â'r asesiad o anghenion y boblogaeth

2.1 Trefn yr adroddiad

Mae'r asesiad o anghenion y boblogaeth wedi'i rannu'n benodau thematig ar gyfer pob grŵp. Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel hyn:

- [Plant a phobl ifanc](#)
- [Pobl hŷn](#)
- [Iechyd, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrâu](#)
- [Anableddau dysgu](#)
- [Awtistiaeth](#)
- [Iechyd meddwl](#)
- [Gofalwyr di-dâl](#)

Yn ychwanegol at yr uchod, mae grwpiau eraill wedi'u cynnwys fel pobl ddigartref, cyn-filwyr y lluoedd arfog a ffoaduriaid.

Bydd pob pennod a thema o leiaf yn cynnwys:

- Trosolwg rhanbarthol demograffig o'r boblogaeth.
- Crynodeb o'r trefniadau cymorth presennol.
- Crynodeb o'r tueddiadau presennol a'r rhai disgwylidig.
- Crynodeb o'r hyn mae rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau, staff, sefydliadau a darparwyr yn ei ddweud wrthym ni.

O fewn y Ddeddf a'r Cod Ymarfer, mae angen i bartneriaid sicrhau bod nifer o ofynion yn cael eu hystyried o fewn yr asesiad o anghenion y boblogaeth. Mae'r meysydd hyn yn themâu trawsbynciol ar draws y grwpiau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad. Bydd pob un o'r materion hyn yn cael effaith wahanol ar bob grŵp. Gan hynny, mae'r asesiad yn cynnwys gwybodaeth fwy penodol o fewn y penodau unigol gan y bydd themâu allweddol yn amrywio.

Mae rhannau penodol yn rhoi trosolwg i grynhoi'r themâu trawsbynciol sy'n dilyn yn yr adran hon, ond os oes effaith benodol ar grŵp, bydd hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y penodau perthnasol.

2.2 Ystyriaethau'r iaith Gymraeg

Wrth ddarparu gwasanaethau, mae dyletswydd ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gwneud hynny yn eu hiaith ddewisol. Y 'cynnig gweithredol' yw'r egwyddor allweddol yn fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Gymraeg 'Mwy Na Geiriau'. Mae hyn yn golygu y dylid cynnig gwasanaethau yn Gymraeg i bobl heb iddynt orfod gofyn. Bydd yr asesiad o anghenion yn ystyried y ddarpariaeth Gymraeg o fewn cyd-destun y tri thema allweddol o fewn y fframwaith, sef:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Gymraeg.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Creu amodau ffafriol (isadeiledd a chyd-destun).

Mae cael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn elfen bwysig o ddarpariaeth gofal a chymorth ar draws pob grŵp claf. Fodd bynnag, mae gan rai grwpiau fwy o angen i gael eu gwasanaethau yn y Gymraeg. Ar gyfer y grwpiau hyn, dylai'r Gymraeg gael ei ystyried fel elfen sylfaenol o ddarpariaeth gwasanaeth. Y grwpiau hyn yw:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Pobl gydag anableddau dysgu
- Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Gwasanaeth Dementia
- Gwasanaethau Strôc
- Gwasanaethau therapydd iaith a lleferydd.

Ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai gwasanaethau Gymraeg fod ar gael i ddefnyddwyr gymaint â'r Saesneg. Mae'r asesiad o anghenion hwn yn darparu proffil iaith ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru. Mae effaith gwasanaethau yn Gymraeg hefyd wedi'i chynnwys o fewn y penodau thematig.

Elfen allweddol o sicrhau bod gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar gael yn Gymraeg, yn unol ag egwyddorion y Cynnig Gweithredol, yw recriwtio a dal gafael ar weithlu sydd â sgiliau Cymraeg. Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad gwerthuso'r fframwaith Mwy Na Geiriau. Yn dilyn hynny, ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig yn dweud y byddai grŵp tasg a gorffen yn cael ei sefydlu i ddatblygu cynllun gwaith pum mlynedd ar gyfer y fframwaith.

Mae'r pynciau y bydd y grŵp tasg a gorffen yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys:

- Dysgu a sgiliau'r gweithlu.
- Rhoi'r Gymraeg yn rhan greiddiol o bolisïau.
- Rhannu arferion da a datblygu dull o alluogi.

Mae disgwyl i'r cynllun gwaith pum mlynedd ar gyfer fframwaith Mwy Na Geiriau gael ei gyhoeddi yn 2022. Bydd y blaenoriaethau a'r argymhellion sy'n cael eu nodi'n ffurfio'r camau cynllunio rhanbarthol a lleol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn rhan o'r Cynllun Ardal rhanbarthol sydd i gael ei gyhoeddi yn 2023.

2.3 Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'r proffil cydraddoldeb a'r wybodaeth am nodweddion a ddiogelir wedi'u cynnwys ym mhob pennod thematig o fewn yr asesiad hwn. Yn ogystal â'r wybodaeth ystadegol, mae gwybodaeth arall am gydraddoldeb wedi'i chynnwys dan y penodau perthnasol. Mae chwiliad wedi'i gynnal ar lenyddiaeth cydraddoldeb a hawliau dynol i lywio'r asesiad hwn. Mae'r canfyddiadau hefyd wedi'u cynnwys yn y penodau.

Mae canfyddiadau o'r ymgynghoriad rhanbarthol hefyd wedi'u crynhoi lle cafodd materion eu codi gan ymatebwyr yn ymwneud â chydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer y rhai sydd â nodweddion a ddiogelir. Dyma'r nodweddion a ddiogelir sy'n agweddau trawsbynciol o fewn y penodau thematig:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil

- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Bydd angen cynnal Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer unrhyw benderfyniad, polisi neu strategaeth a ddatblygir mewn ymateb i'r asesiad o anghenion hwn. Bydd y wybodaeth ym mhob pennod ynglŷn ag anghenion gofal a chymorth pobl sydd â nodweddion a ddiogelir yn helpu i lywio'r asesiadau o effaith hynny.

2.4 Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Bellach, mae dyletswydd ar gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i ystyried effaith anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol gyda'r nod o leihau anghydraddoldeb y canlyniad. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei diffinio fel hyn:

“Byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas.”

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol gynnwys byw mewn ardaloedd difreintiedig, diffyg cyfoeth, cefndir economaidd-gymdeithasol unigolyn, incwm isel neu ddim incwm o gwbl neu amddifadedd materol. Mae anghydraddoldeb canlyniad, wedi'i achosi gan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn cael ei ddiffinio fel hyn:

“Mae anghydraddoldeb canlyniad yn ymwneud ag unrhyw wahaniaeth mesuradwy mewn canlyniad rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth.”

Mae modd mesur anghydraddoldeb canlyniad trwy ffactorau fel addysg, iechyd, cyflogaeth, cyfiawnder a diogelwch personol, safonau byw a chyfranogiad, yn enwedig mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghlwm â gwasanaethau. Bydd effaith anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb canlyniad yn cael ei hasesu ar gyfer pob grŵp yn yr asesiad o anghenion hwn, yn ogystal â throsolwg ar dlodi ac amddifadedd ar draws y rhanbarth. Mae BGCau hefyd yn gwneud gwaith ar yr Asesiadau Lles a bydd y rheiny'n asesiad manylach o faterion economaidd-gymdeithasol o fewn y nodau a'r blaenoriaethau lles.

2.5 Gwerth cymdeithasol

Mae gan “werth cymdeithasol” sawl diffiniad a defnydd. Un diffiniad yw'r gwerth mae defnyddwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ei weld. Diffiniad arall yw gwerth ychwanegol ar ben beth mae contract cyhoeddus, er enghraifft, yn ei nodi fel gofynion craidd y contract. Gallai'r gwerth ychwanegol hwn fod yn gymdeithasol, yn amgylcheddol neu'n economaidd, ond mae yn aml yn cael ei alw'n “werth cymdeithasol”. Mae trydydd diffiniad sy'n benodol i Gymru ac mae'n deillio o Ran 2, Adran 16 yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Adran 16 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo gofal cymdeithasol a gwasanaethau ataliol drwy “fentrau cymdeithasol, cyrff cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector”. Mae'r pum model darparu hyn weithiau yn cael eu galw'n “sefydliadau gwerth cymdeithasol” neu, yn fwy cywir, “modelau darparu â gwerth cymdeithasol”.

Mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio hyrwyddo'r tri math o “werth cymdeithasol”:

- Math 1: Mae bwriad clir y dylai gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau ataliol ddarparu “beth sy'n bwysig” i ddefnyddwyr a gofalwyr, gan ddefnyddio dulliau cydgynhyrchiol: hynny yw, cydgynllunio, cyd-ddarparu a chyd-werthuso gwasanaethau *gyda* defnyddwyr a gofalwyr. Mae'r bwriad hwn wedi'i fynegi'n eglur mewn dau o egwyddorion allweddol y Ddeddf: Canlyniadau Lles a Chydgyhyrchu.
- Math 2: Mae anogaeth uniongyrchol ar gyfer “gwerth ychwanegol”, er bod y cyfeiriadau'n rhai eithaf ysgafn: y nod craidd yw cyflawni “beth sy'n bwysig” i ddefnyddwyr a gofalwyr.
- Math 3: Mae dyletswydd Adran 16 yn hyrwyddo'r pum math o “fodel gwerth cymdeithasol” yn glir – a'r brif resymeg am hyn yw bod y “modelau” yma, oherwydd eu cyfansoddiad neu'r ffordd maent wedi'u cynllunio, yn gwyro tuag at ddefnyddio dulliau cydgynhyrchiol a chyflawni “beth sy'n bwysig”. I raddau llai, maent hefyd yn cael eu hyrwyddo oherwydd eu potensial i gynnig “gwerth ychwanegol”.

Mae'n bwysig nodi bod gan y Ddeddf ddau egwyddor arall – Cydweithio ac Atal.

Mae'r canllawiau mewn perthynas ag Adran 16 yn awgrymu bod y pum math o “fodel

gwerth cymdeithasol” hefyd i gael eu hyrwyddo oherwydd y potensial i gydweithio i greu'r budd mwyaf i'r cyhoedd a gweithio'n ataliol er budd hirdymor defnyddwyr a'u gofalwyr (ac er mwyn defnyddio adnoddau cyhoeddus yn ddarbodus).

Mae'r trosolwg uchod i'w weld yn fwy manwl yn [adroddiad Canolfan Gydweithredol Cymru 2020](#) ynghyd â dadansoddiad o'r heriau a'r opsiynau i gomisiynwyr gofal.

Mae tri maes gweithgarwch wedi'i nodi:

1. Ceisio “gwerth cymdeithasol” trwy gomisiynu contractau
2. Meithrin “gwerth cymdeithasol” trwy fonitro a rheoli contractau
3. Meithrin “gwerth cymdeithasol” y tu hwnt i'r farchnad.

Mae sefydliadau gwerth cymdeithasol mewn lle da iawn i ddarparu gofal a chymorth ehangach, gan gynnwys gofal a chymorth sy'n mynd y tu hwnt i'r farchnad, ond gallant hefyd ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio.

Bydd yr asesiad hwn o anghenion y boblogaeth yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth o'r mathau o “werth cymdeithasol” a nodir uchod a bydd yn ceisio dynodi camau penodol ar gyfer y rhanbarth i feithrin “gwerth cymdeithasol” trwy brosesau comisiynu, caffael, rheoli contractau a chefnogaeth ar gyfer gweithgarwch hunangymorth trigolion a chymunedau y tu hwnt i'r farchnad.

Bydd asesiad mwy cyflawn o'r modd mae'r gweithgareddau hyn yn gallu sicrhau'r gwerth cymdeithasol gorau o fewn y farchnad a thu hwnt yn cael ei ddatblygu'n fwy manwl yn Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru.

Bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn hyrwyddo “modelau darparu gwerth cymdeithasol” sydd:

- Yn cyflawni canlyniadau lles.
- Yn gweithio'n gydgyhyrchiol – gan roi llais cryf a rheolaeth go iawn i ddefnyddwyr.
- Â gogwydd ataliol ac sy'n lleihau dibyniaeth.
- Yn cynnwys cydweithio, cydweithredu a phartneriaeth.
- Yn ychwanegu gwerth – cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Bydd hefyd yn hyrwyddo gweithgareddau sy'n cynnal neu'n gwella lles gofalwyr di-dâl a chapasiti cymunedol y tu hwnt i'r farchnad, na fyddai'r farchnad yn gallu bod yn sefydlog hebdo.

2.6 Diogelu

Mae rheoliadau diogelu wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn rhoi fframwaith cyfreithiol i Fyrddau Diogelu Gogledd Cymru i Blant ac Oedolion. Amcanion allweddol Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant Gogledd Cymru yw:

- Diogelu oedolion/plant o fewn ei ardal sydd ag anghenion gofal a/neu gymorth ac sy'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod.
- Atal yr oedolion/plant hynny yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae pob pennod yn cynnwys adran ar gyfer diogelu. Mae hyn yn amlygu'r materion diogelu allweddol i bob grŵp unigol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2020 i 2021](#).

Ers 2016/17, mae cynnydd wedi bod yn nifer yr oedolion sy'n cael eu nodi fel rhai a amheuir o fod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod ar hyd a lled Cymru. Yn 2016/17 adroddwyd bod cyfanswm o 2,300 o oedolion mewn perygl ac erbyn 2018/19 roedd wedi cynyddu i 2,900. Roedd cynnydd yn ardal pob awdurdod lleol. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad yn ôl ardal pob awdurdod lleol.

Tabl 1: Oedolion mewn risg yn ôl ardal awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Oedolion a amheuir o fod mewn perygl 2016/17	Oedolion a amheuir o fod mewn perygl 2018/19
Ynys Môn	165	205
Gwynedd	350	395
Conwy	285	550
Sir Ddinbych	400	450
Sir y Fflint	350	500
Wrecsam	785	825
Gogledd Cymru	2,335	2,930
Cymru	11,760	14,940

Ffynnonhell: Oedolion dan amheuaeth o fod mewn risg gan yr awdurdod lleol a mesur, Llywodraeth Cymru

Mae'n bwysig nodi bod yr uchod ar gyfer pob oedolyn. Nid yw data'n cael ei gasglu ar sail pa mor ddiameddiffyn yw pobl bellach. Bydd materion penodol yn ymwneud â diogelu ar gyfer y grwpiau o fewn yr asesiad hwn o anghenion y boblogaeth yn cael eu trafod ym mhob adran.

Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant wedi parhau'n eithaf cyson ar hyd a lled Cymru ac mae hyn hefyd yn wir yng Ngogledd Cymru. Mae gostyngiad bach wedi bod ers 2016/17, ond mae hyn yn cuddio ychydig o wahaniaethau rhwng awdurdodau lleol. Mae gostyngiad wedi bod yn Ynys Môn, Gwynedd a Sir y Fflint ond mae Conwy, Sir Ddinbych a Wrecsam wedi gweld cynnydd. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad yn ôl ardal pob awdurdod lleol.

Tabl 2: Plant ar y gofrestr amddiffyn plant

Awdurdod lleol	Plant ar y gofrestr amddiffyn plant 2016/17	Plant ar y gofrestr amddiffyn plant 2018/19
Ynys Môn	100	80
Gwynedd	80	55
Conwy	35	70
Sir Ddinbych	80	90
Sir y Fflint	165	110
Wrecsam	130	170
Gogledd Cymru	595	575
Cymru	2,805	2,820

Ffynnonhell: Plant ar y gofrestr amddiffyn plant, tabl CARE0154, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae pryderon diogelu wedi'u codi o ganlyniad i effaith COVID-19. Fe wnaeth adroddiad gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol ganfod bod adroddiadau am bryderon diogelu wedi gostwng yn sylweddol ar ddechrau'r pandemig (Mawrth, Ebrill, Mai 2020). Fe wnaeth hyn wedyn godi'n uwch na'r lefelau arferol erbyn Mehefin 2020. Er bod adroddiad y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn canolbwyntio ar ddata Cyngorau Lloegr, nodwyd bod y tueddiadau hefyd yn wir yng Ngogledd Cymru.

2.7 Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Diffiniad Llywodraeth y DU (y Swyddfa Gartref, 2013) o drais a cham-drin domestig yw:

“Unrhyw achos neu batrwm o achosion o ymddygiad rheolaethol, gorfodol neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng rhai sy’n 16 oed neu’n hŷn neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu sy’n aelodau o deulu waeth beth yw eu rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y mathau canlynol o gamdriniaeth:

- Seicolegol
- Corfforol
- Rhywiol
- Ariannol
- Emosiynol
- Ymddygiad rheolaethol
- Ymddygiad cymhellol”

Gall trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol, ac mae’n digwydd o fewn pob math o berthynas agos, gan gynnwys perthnasoedd o’r un rhyw. Mae cam-drin domestig yn effeithio ar bobl o bob oed a chefnidir ac mae gan unigolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig risg lawer uwch o ddioddef â phroblemau iechyd meddwl, problemau cyffuriau ac alcohol ac o fod yn ddigartref.

Mae pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth yn cael eu heffeithio’n waeth gan gam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae gan bob pennod o fewn yr asesiad hwn adran ynghlwm â thrais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac mae cydweithwyr o dîm rhanbarthol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru wedi cynorthwyo â nhw.

Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at Strategaeth Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymry 2021-2024.

2.8 Covid-19

Cafodd [adolygiad cyflym o COVID-19](#) ei wneud ym mis Hydref 2020 gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r adolygiad cyflym yn crynhoi ymchwil sydd ar gael ac effaith COVID-19 ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth. Roedd pob grŵp yn yr asesiad hwn o fewn cwmpas yr adolygiad cyflym. Bydd pob adran yn yr asesiad yn cynnwys trosolwg cryno.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar bob rhan o gymdeithas, ond mae effaith y pandemig wedi cael ei theimlo'n waeth gan rai grwpiau, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion gofal a chymorth. Roedd adroddiad gan Think Local Act Personal yn dangos bod pobl yn profi dryswch a gorbryder, yn ogystal ag:

- Unigedd ac arwahanrwydd a'r effaith ar iechyd meddwl.
- Pwysau ariannol.
- Problemau ymarferol fel siopa bwyd.
- Cynnydd mewn gorbryder am iechyd.
- Newidiadau a gyflwynwyd fel cadw pellter cymdeithasol a oedd yn effeithio ar rai oedd â nam ar y synhwyrau.

Bydd effaith COVID-19 at ddiben yr asesiad o anghenion hwn yn cael ei hystyried yng nghyd-destun y pedwar niwed sydd wedi'u defnyddio i ddisgrifio'r blaenoriaethau bras ar gyfer y GIG a'r sector gofal cymdeithasol, sef:

- Niwed oherwydd COVID-19 (iechyd a lles).
- Niwed oherwydd bod y GIG a'r system gofal cymdeithasol yn cael eu llethu.
- Niwed oherwydd llai o weithgarwch nad oedd yn gysylltiedig â Covid.
- Niwed oherwydd camau gweithredu ehangach mewn cymdeithas (cyfnodau clo).

Mae'r asesiad o anghenion hefyd yn ystyriol bod y pandemig Covid-19 yn parhau ac wedi cynyddu anghydraddoldeb ar draws cymdeithas ymhellach. Fe gyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau adroddiad "Amlygu'r materion: anghydraddoldeb a'r pandemig" (Awst 2020) sy'n nodi:

"Yn ystod y pandemig, mae ein tebygolrwydd o farw, colli swydd neu fynd ar ei hôl hi ym maes addysg wedi cael ei benderfynu'n rhannol gan ein hoedran, hil, rhyw, anabledd, incwm a ble rydyn ni'n byw. Mae'r feirws a'r ymateb iddo yn ehangu'r anghydraddoldebau

presennol, a hynny drwy leihau incwm a chynyddu risgiau yn anghymesur i rai grwpiau o bobl.”

Mae'r materion allweddol a'r themâu sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Mae tlodi wedi bod yn ffactor allweddol wrth edrych ar effaith y pandemig, o gyfraddau marwolaeth i'r risg o golli swyddi ac incwm, cyflawniad addysgol a gorboblogaeth mewn ardaloedd/tai o ansawdd gwael. Mae pobl o grwpiau ethnig penodol, plant, pobl anabl a gofalwyr i gyd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi.
- Mae gan ddynion, pobl hŷn, pobl o grwpiau ethnig Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl sydd â chyflyrau iechyd, pobl anabl a phobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig gyfraddau marwolaeth uwch gyda Choronafeirws.
- Mae bron i hanner y rhai sydd â'r incwm isaf yng Nghymru'n cael eu cyflogi mewn sectorau oedd wedi gorfod 'cau i lawr'.
- Bydd plant oedd â'r cyflawniad addysgol isaf cyn y pandemig wedi disgyn ymhellach y tu ôl i'w cyfoedion, gan gynnwys bechgyn, plant o gefndiroedd ethnig penodol a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Roedd yr adolygiad cyflym hefyd yn nodi'r egwyddorion canlynol, a ddylai lywio gwaith a chymau gweithredu yn y dyfodol:

- Hyrwyddo cynhwysiant digidol
- Dulliau cynhwysol o ailgynllunio gwasanaethau
- Defnyddio dull sy'n seiliedig ar hawliau

Cydnabuwyd bod effaith y pandemig yn cyrraedd ymhellach na phryderon iechyd. Mewn ymateb i effeithiau economaidd-gymdeithasol ehangach, cafodd Canolbwyntiau Covid eu treialu mewn 5 lleoliad yng Ngogledd Cymru. Mae'r dull aml-bartner yn darparu cymorth ychwanegol fel cyfeirio at fudd-daliadau, gwybodaeth am fanciau bwyd a diogelu cyflenwad bwyd, mynediad at sgiliau digidol a chymorth ag iechyd meddwl.

Gan fod gan y pandemig effeithiau unigryw i'r grwpiau sydd wedi'u hasesu o fewn yr adroddiad hwn, mae adran benodol am Covid-19 wedi'i chynnwys i nodi'r effaith yn glir a'r angen ar gyfer y grwpiau hynny wrth i'r rhanbarth gael ei gefn ato ar ôl y pandemig. Mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd yn rhan o'r arolwg ar-lein sy'n

ymwneud yn benodol ag effaith Covid-19 ar brofiad trigolion wedi'i ddarparu yn yr adran nesaf.

Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym: effaith Covid-19

Mae'r pandemig wedi gwneud problemau ynghlwm â rhestrau aros, diffyg staff a gwasanaethau'n waeth. Mae wedi gadael llawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr heb gymorth ac wedi cyfyngu'n helaeth ar eu bywydau, sydd wedi arwain at unigedd, arwahanrwydd ac iechyd yn gwaethygu. Mae'r pwysau wedi gwneud niwed i iechyd meddwl a chorfforol staff.

Nid oedd yr holl effeithiau'n rhai negyddol. Dywedodd nifer bach o'r ymatebwyr nad oeddent wedi gweld unrhyw newidiadau i wasanaethau. Roedd cyfnodau clo wedi helpu rhai i fod yn fwy annibynnol, treulio amser gwerthfawr gyda'u teulu ac mae rhai disgyblion, yn enwedig rhai sydd â gorbryder cymdeithasol neu broblemau bwlio yn yr ysgol, wedi elwa o beidio â mynd i'r ysgol.

Mae'r pandemig wedi cyflymu datblygiadau i greu dulliau ar-lein i ddarparu rhaglenni ac mae wedi gwneud rhai pobl yn fwy parod i ddefnyddio opsiynau TG. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar lawer o bobl ond nid yw'r dull digidol yn gweddu i bawb a gallai ei gwneud yn fwy anodd i bobl, yn enwedig pobl hŷn, gael gafael ar wasanaethau ac ymgysylltu â nhw.

Roedd yr ymatebwyr yn credu, yn y tymor hir, y bydd yn bwysig:

- Datrys y problemau oedd yn bodoli cyn Covid-19.
- Cefnogi pobl i ailgysylltu â gwasanaethau.
- Cefnogi dychwelyd i wasanaethau wyneb yn wyneb.
- Paratoi am alw newydd a chynyddol am wasanaethau.
- Cynyddu cefnogaeth iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc.
- Parhau i ddarparu gwasanaethau ar-lein.
- Cefnogi staff a hybu recriwtio.

Fe wnaeth llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ddisgrifio cael eu gadael heb gymorth a bod eu bywydau wedi'u cyfyngu'n arw:

“Fe stopiodd bob dim, felly mae rhestr aros oedd yn ddwy flynedd bellach bron yn bedair.”

“Aeth gwasanaethau i bobl awtistig neu bobl ag anableddau dysgu o fod yn hynod brin i beidio a bod yno o gwbl.”

“Mae fy ngwasanaethau dydd i wedi cael eu cau felly mae’r dyddiau wedi bod yn ddiflas iawn i mi.”

“Ni allwn gael unrhyw help yn ystod cyfnod clo COVID. Dim ond wedi cael gweithiwr cymdeithasol ar ôl sawl galwad ffôn ac ymbil arnyn nhw ar ôl i’r cyfyngiadau gael eu llacio rywfaint.”

“Mae yna ddiffyg pethau i’w gwneud gyda chymorth i bobl efo anabledd corfforol a diagnosis o ddementia hefyd. Mae’n teimlo fel rhan o gymdeithas sydd wedi cael ei anghofio.”

“Llai o bobl mewn cerbydau cludiant, sy’n lleihau ein gallu ni i gael pobl sydd ag anawsterau dysgu i ac o’r gwaith.”

Mae dadansoddiad manwl o’r ymatebion sy’n ymwneud â Covid-19 i’w gweld yn [adroddiad llawn yr ymgynghoriad](#).

3. Trosolwg Gogledd Cymru

3.1 Beth yw sefyllfa Gogledd Cymru?

Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys ardaloedd y 6 awdurdod lleol sef Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r bwrdd iechyd lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, hefyd yn rhannu'r patrwm hwn ac mae'n cynnwys 4 Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus.

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth breswyl sydd tua 700,000 gyda'r bobl yn byw ar draws ardal o tua 2,500 milltir sgwâr. Mae gan Ogledd Cymru ddwyser poblogaeth o 114 o bobl i bob cilometr sgwâr. Sir y Fflint yw'r boblogaeth ddwysaf sef 356 o bobl i bob cilometr sgwâr. Gwynedd yw'r boblogaeth leiaf dwys sef 49 o bobl i bob cilometr sgwâr.

Mae yna gynydd wedi bod yn y boblogaeth breswyl ers yr asesiad diwethaf o anghenion y boblogaeth. Mae'r tabl isod yn rhoi amcangyfrif canol blwyddyn 2020 ar gyfer y boblogaeth yn ôl ardal yr awdurdod lleol ochr yn ochr â'r rhai ar gyfer 2016 a hysbysodd yr asesiad o anghenion diwethaf a hynny i ddibenion cymharu:

Tabl 3: Amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn yn ôl ardal awdurdod lleol

Cyngor lleol	Amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth 2016	Amcangyfrif canol blwyddyn o'r boblogaeth 2020	Newidiadau i'r boblogaeth (rhif)	Y newid yn y boblogaeth (%)
Ynys Môn	69,700	70,400	775	1.10%
Gwynedd	123,300	125,200	1,848	1.48%
Conwy	116,800	118,200	1,364	1.15%
Sir Ddinbych	95,000	96,700	1,680	1.74%
Sir y Fflint	154,600	156,800	2,221	1.42%
Wrecsam	135,400	136,100	647	0.48%
Gogledd Cymru	694,800	703,400	8,535	1.21%
Cymru	3,113,200	3,169,600	56,436	1.78%

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r tabl isod yn dangos poblogaeth Gogledd Cymru yn ôl proffil oed ac awdurdod lleol (wedi ei seilio ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2020).

Tabl 4: Proffil oedran yn ôl awdurdod lleol

Cyngor lleol	0-15 (rhif)	0-15 (%)	16-64 (rhif)	16-64 (%)	65-84 (rhif)	75-84 (%)	85+ (rhif)	85+ (%)
Ynys Môn	11,900	17%	39,900	57%	16,250	23%	2,400	3%
Gwynedd	20,750	17%	75,850	61%	24,400	19%	4,200	3%
Conwy	18,850	16%	66,400	56%	27,750	23%	5,150	4%
Sir Ddinbych	17,400	18%	55,750	58%	20,850	22%	2,650	3%
Sir y Fflint	28,800	18%	94,750	60%	29,600	19%	3,700	2%
Wrecsam	25,950	19%	82,400	61%	24,300	18%	3,450	3%
Gogledd								
Cymru	123,650	18%	415,000	59%	143,150	20%	21,550	3%
Cymru	562,750	18%	1,938,250	61%	583,450	18%	85,150	3%

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tabl 5: Amcanestyniadau poblogaeth Gogledd Cymru fesul cyngor lleol (pob oed)

Cyngor lleol	2025	2030	2035	2040	Newid (rhif)	Newid (%)
Ynys Môn	69,800	69,600	69,500	69,500	-300	-0.4%
Gwynedd	126,300	128,300	129,900	131,300	5,050	3.8%
Conwy	119,200	120,500	121,700	123,000	3,800	3.1%
Sir Ddinbych	96,500	97,100	97,600	98,400	1,850	1.9%
Sir y Fflint	158,200	159,200	160,100	161,300	3,050	1.9%
Wrecsam	134,800	133,700	132,900	132,500	-2,350	-1.8%
Gogledd						
Cymru	704,900	708,300	711,800	715,900	11,050	1.5%
Cymru	3,193,600	3,229,300	3,260,700	3,290,300	96,700	2.9%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth wedi eu seilio ar 2018, Llywodraeth Cymru

Yn gyffredinol mae disgwyl i boblogaeth breswyl Gogledd Cymru gynyddu o 11,050, fe fydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gweld cynnydd bach yn y boblogaeth breswyl ac eithrio Ynys Môn a fydd yn aros yn weddol sefydlog a Wrecsam a fydd o bosibl yn gweld gostyngiad bach yn y boblogaeth.

Mae'r tablau isod yn rhoi darlun mwy manwl o'r amcanestyniadau poblogaeth yn ôl grŵp oed, yn gyffredinol fe fydd y rhanbarth yn profi gostyngiad yn y nifer o bobl 15 oed ac iau ac mae hyn yn batrwm ar draws holl ardaloedd yr awdurdodau lleol. Fe fydd y grŵp oed gweithio, y rhai hynny sydd rhwng 16 a 64 oed, hefyd yn gostwng ar draws y rhanbarth, eto caiff hyn ei ailadrodd ar draws yr holl awdurdodau lleol ac eithrio Gwynedd sy'n parhau yn weddol sefydlog.

Mae gan Ogledd Cymru boblogaeth sy'n heneiddio. Rhwng 1998 a 2018 mae cyfran y boblogaeth 65 oed a hŷn wedi cynyddu o 18.5 y cant i 23.0 y cant, tra roedd cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau wedi gostwng o 19.8 y cant i 17.8 y cant. Mae amcanestyniadau yn dangos y bydd y duedd hon yn parhau i breswylwyr 65 oed a hŷn yng Ngogledd Cymru a Chymru yn ehangach.

Tabl 6: Amcanestyniadau poblogaeth Gogledd Cymru fesul awdurdod lleol (15 oed ac iau)

Cyngor lleol	2025	2030	2035	2040	Newid (rhif)	Newid (%)
Ynys Môn	11,700	11,100	10,800	10,800	-900	-8.4%
Gwynedd	20,700	20,400	20,700	21,100	450	2.1%
Conwy	18,900	18,100	17,700	17,700	-1,200	-6.7%
Sir Ddinbych	17,000	16,100	15,800	15,800	-1,150	-7.3%
Sir y Fflint	28,600	27,700	27,400	27,600	-950	-3.5%
Wrecsam	25,100	23,500	22,900	23,000	-2,050	-9.0%
Gogledd Cymru	122,000	116,800	115,200	116,100	-5,850	-5.0%
Cymru	60,800	542,200	535,500	540,400	-20,400	-3.8%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth wedi eu seilio ar 2018, Llywodraeth Cymru

Tabl 7: Amcanestyniadau poblogaeth Gogledd Cymru fesul awdurdod lleol (16 -64 oed)

Cyngor lleol	2025	2030	2035	2040	Newid (rhif)	Newid (%)
Ynys Môn	38,600	37,700	36,700	36,200	-2,450	-6.8%
Gwynedd	76,000	76,200	75,700	75,900	-100	-0.1%
Conwy	64,900	63,500	62,200	61,800	-3,100	-5.0%
Sir Ddinbych	54,500	53,500	52,500	52,100	-2,350	-4.5%
Sir y Fflint	94,200	92,900	91,500	91,200	-2,950	-3.2%
Wrecsam	80,700	78,700	76,500	75,000	-5,700	-7.6%
Gogledd Cymru	408,800	402,600	395,100	392,200	-16,600	-4.2%
Cymru	1,922,700	1,914,200	1,899,800	1,899,200	-23,450	-1.2%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth wedi eu seilio ar 2018, Llywodraeth Cymru

Tabl 8: Amcanestyniadau poblogaeth Gogledd Cymru fesul awdurdod lleol (65 oed a Hŷn)

Cyngor lleol	2025	2030	2035	2040	Newid (rhif)	Newid (%)
Ynys Môn	19,400	20,800	22,000	22,500	3,050	13.6%
Gwynedd	29,600	31,700	33,500	34,300	4,650	13.6%
Conwy	35,400	38,900	41,900	43,500	8,050	18.6%
Sir Ddinbych	25,100	27,400	29,400	30,400	5,350	17.6%
Sir y Fflint	35,500	38,600	41,200	42,400	6,950	16.4%
Wrecsam	29,100	31,400	33,400	34,500	5,450	15.7%
Gogledd Cymru	174,100	188,900	201,400	207,600	33,550	16.1%
Cymru	710,200	772,800	825,400	850,700	140,550	16.5%

Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth wedi eu seilio ar 2018, Llywodraeth Cymru

Noder mai StatsCymru yw ffynhonnell yr amcanestyniadau poblogaeth uchod, maent yn rhoi amcangyfrifon o faint y boblogaeth yn y dyfodol, ac maent wedi eu seilio ar ragdybiaethau yn ymwneud â genedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r rhagdybiaethau wedi eu seilio ar dueddiadau'r gorffennol.

3.2 Proffil iaith Gymraeg Gogledd Cymru

Mae pob un o'r penodau yn yr asesiad o anghenion hwn yn cynnwys adran ar gyfer ystyried yr iaith Gymraeg sy'n ymwneud â'r grwpiau penodol a gaiff eu cynnwys. Egwyddor allweddol ar gyfer yr holl bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yw'r Cynnig Rhagweithiol. Mae'r cynnig rhagweithiol yn greiddiol i 'Mwy na Geiriau', y fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw unigolyn sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf i geisio hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a gofalu sydd angen cefnogaeth. Ymhlith y canlyniadau lles cenedlaethol mae:

“Dwi'n cael gofal a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen hynny arna i”

Mae'n rhaid darparu 'cynnig rhagweithiol' i ddefnyddwyr gwasanaeth, nod fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol sef 'Mwy na Geiriau' yw sicrhau fod anghenion ieithyddol y gwasanaethau yn cael eu diwallu a bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu darparu i'r rhai sydd eu hangen. Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu 5 grŵp blaenoriaeth lle mae gwasanaethau Cymraeg yn hynod o bwysig, y grwpiau hyn yw:

- Plant a Phobl Ifanc
- Pobl Hŷn
- Pobl â Dementia
- Pobl ag Anableddau Dysgu
- Pobl â phroblemau lechyd Meddwl

Er bod y grwpiau hyn wedi eu nodi fel rhai hynod o ddiamddiffyn os na allant dderbyn gofal drwy gyfrwng y Gymraeg, fe fydd yr asesiad hwn o anghenion y boblogaeth yn ystyried yr ystod o wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg ar gyfer yr holl grwpiau o ganlyniad i broffil iaith Gymraeg poblogaeth Gogledd Cymru.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o broffil yr iaith Gymraeg ar gyfer y rhanbarth, gwybodaeth fwy manwl yn ymwneud â'r grwpiau unigol ac mae effeithiau penodol darpariaeth Gymraeg ar eu cyfer wedi ei gynnwys yn y penodau a'r adrannau perthnasol. Fe gydnabyddir er mwyn i wasanaethau gael eu darparu yn y Gymraeg

fod angen i hyn gael ei adlewyrchu yn sgiliau'r gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Lle mae'r lefel o siaradwyr Cymraeg yn uwch (er enghraifft yng Ngogledd Orllewin Cymru) fe fydd yn cyfateb i niferoedd uwch o ddinasyddion yn cael mynediad i ofal a gwasanaethau cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae siaradwyr Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn ffurfio cyfran uwch o'r boblogaeth na'r rhanbarthau eraill yng Nghymru (Ystadegau i Gymru, Datganiad Ystadegol Gogledd Cymru, 2020). Yn 2020 roedd gan Ogledd Cymru 279,300 o breswylwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (Ffynhonnell Arolwg Poblogaeth StatsCymru 2021); mae hyn yn gyfystyr â 41% o'r boblogaeth gyffredinol ar draws y 6 awdurdod lleol.

O'r 6 ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru mae 5 o fewn y deg Awdurdod Lleol uchaf o ran y niferoedd uchaf o siaradwyr Cymraeg. Gwynedd sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg gyda 76% o'r boblogaeth breswyl yn gallu siarad Cymraeg, gydag Ynys Môn yn dilyn ar 66%. Conwy sydd â'r drydedd gyfradd uchaf o siaradwyr Cymraeg gyda 38% ac mae gan Sir Ddinbych 34%. Y siroedd mwyaf dwyreiniol sef Sir y Fflint a Wrecsam sydd â'r ganran isaf o siaradwyr Cymraeg gyda 23% a 26%.

Mae yna amrywiaethau rhanbarthol gyda Gorllewin Cymru yn bennaf yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a Gogledd Ddwyrain Cymru gyda niferoedd is o siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol. Mae'n bwysig nodi fod gan 4 o'r 6 ardal awdurdod lleol ganran uwch na'r cyfartaledd cyffredinol ar gyfer Cymru. Mae'r tabl isod yn dangos proffil yr Iaith Gymraeg ar gyfer yr holl breswylwyr dros 3 oed sy'n gallu siarad Cymraeg.

Tabl 9: Siaradwyr Cymraeg yn ôl awdurdod lleol

Cyngor lleol	Pawb sy'n 3 oed a Hŷn (cyfanswm y boblogaeth)	Yn gallu siarad Cymraeg	Ddim yn gallu siarad Cymraeg	% y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
Ynys Môn	68,100	45,100	22,900	66.3%
Gwynedd	118,800	90,700	28,000	76.4%
Conwy	111,800	41,900	69,900	37.5%
Sir Ddinbych	91,200	31,200	59,800	34.3%
Sir y Fflint	151,300	35,000	116,200	23.2%
Wrecsam	135,200	35,400	99,800	26.2%
Gogledd Cymru	676,400	279,300	396,600	41.2%
Cymru	3,034,400	884,300	2,147,800	29.2%

*Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol Stats Cymru 2021 (yn gorffen ym Mehefin 2021)

Fe gydnabyddir fod casglu data yn ymwneud â'r iaith Gymraeg fel rhan o arolwg Poblogaeth Blynyddol Cymru yn aml ychydig yn uwch na chofnodion y cyfrifiad. Ar adeg cyhoeddi'r asesiad o anghenion nid oedd data Cyfrifiad 2021 ar gael ar gyfer ei gynnwys. Mae data wedi ei gymryd o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol, fodd bynnag fe gydnabyddir y gall hwn fod ychydig yn uwch na chofnodion y cyfrifiad. Fe fydd yr asesiad hwn o anghenion yn cael ei ddiweddarau gyda ffigyrau mwyaf diweddar y cyfrifiad unwaith y bydd rhain wedi eu cyhoeddi ganol 2022.

Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cyfrif am 31% o'r holl blant oed ysgol sy'n mynychu lleoliad cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Mae plant sy'n mynychu lleoliad gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg mewn dwy ffrwd, dwyieithog AB, dwyieithog BB a Saesneg ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn cyfrif am 58% o'r cyfanswm i Gymru gyfan ar gyfer y mathau hyn o leoliadau addysgol.

Tabl 10: Lleoliadau addysgol Cymraeg (2020/21)

Cyngor lleol	Cyfrwng Cymraeg	Dwy ffrwd	Dwyieithog AB*	Dwyieithog BB**	Cyfrwng Saesneg yn bennaf ond gyda defnydd sylweddol o'r Gymraeg
Ynys Môn	5,242	399	Amherthnasol	3,029	879
Gwynedd	9,298	Amherthnasol	6,088	Amherthnasol	1,465
Conwy	2,648	456	Amherthnasol	608	2,850
Sir Ddinbych	3,252	113	Amherthnasol	2,095	259
Sir y Fflint	1,428	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Wrecsam	2,464	107	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Gogledd Cymru	24,332	1,075	6,088	5,732	5,453

* O leiaf 80% o bynciau heblaw Saesneg a Chymraeg yn cael eu haddysgu trwy'r Gymraeg yn unig i bob disgybl. Un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai disgyblion yn y Saesneg neu yn y ddwy iaith.

** Addysgir o leiaf 80% o bynciau (ac eithrio Cymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond maent hefyd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg.

Ffynhonnell: Data cryno Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion yn ôl awdurdod lleol (disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd), tabl SCHS0252, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym am wasanaethau cyfrwng Cymraeg

Mae ymarfer ymgysylltu rhanbarthol wedi hysbysu'r asesiad o anghenion hwn, fel rhan o'n gwaith ymgysylltu fe ofynnem i ymatebwyr roi adborth i ni ar eu gallu i gael mynediad i wasanaethau yn y Gymraeg. Yn gyffredinol fe ddaeth ymatebwyr i'r casgliad fod y ddarpariaeth o'r Cynnig Rhagweithiol yn "afreolaidd". Dywedodd rhai y gwneir hyn yn effeithiol iawn, er enghraifft trwy Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych ac mewn rhai gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn.

"Caiff y cynnig rhagweithiol ei gynnig i bob unigolyn dwi'n gweithio gyda nhw, ac mae yna aelodau o staff sydd wedi eu nodi a all gynorthwyo os oes angen."

“Mae gan bob hysbyseb a hysbysiadau fersiynau Cymraeg a Saesneg ac mae ein cyfarchiad ffôn hyd yn oed yn Gymraeg yn gyntaf ac yna'r Saesneg.”

Dywedodd eraill mai dim ond ar y pwynt pan fo defnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu hasesu y gallant wneud y cynnig, yn hytrach na phan maent yn gwneud y cyswllt y tro cyntaf.

“Dwi'n credu y byddai'n fwy priodol i hyn gael ei gynnig ar y pwynt cyswllt cyntaf. Fodd bynnag, dwi'n ymwybodol fod y swyddfa cyswllt cyntaf yn derbyn lefel uchel o ymholiadau ac fel gyda ni i gyd, dim digon o staff i ymdopi.”

“Mae ein tîm un pwynt mynediad yn cyfarch yn ddwyieithog. Fe fyddai'n well i gael system ffôn lle gallwch wasgu 1 am y Gymraeg, 2 am y Saesneg ayb, ond gydag aelodau cyfyngedig o staff yn siarad Cymraeg fe all hyn olygu fod rhaid i'r bobl hynny aros yn hirach.”

Roedd rhai yn bryderus yn ymarferol fod y cynnig yn parhau i fod yn gam symbolaidd. Mae nifer o gartrefi gofal a darparwyr gofal yn y cartref yn ei chael yn anodd i weithredu'r broses o ddarparu siaradwr Cymraeg. Maent yn dod i'r casgliad fod angen gwneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn ac i gefnogi staff i wella eu Cymraeg. Mae'n rhaid i hyn gynnwys cyfleoedd ar gyfer dechreuwyr llwyr a'r rhai sydd angen magu hyder. Mae nifer o sefydliadau yn darparu hyfforddiant o ran y Gymraeg i'w staff, un ai yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Er enghraifft:

- Cyrsiau a gaiff eu cynnig gan y cyngor lleol neu'r bwrdd iechyd.
- Grwpiau Cymraeg amser cinio.
- Staff sy'n siaradwyr Cymraeg yn cynnal gweithdai i'w cyfoedion di-Gymraeg.

Cadarnhaodd nifer o'r ymatebwyr eu bod yn darparu eu holl wybodaeth ysgrifenedig, cyhoeddiadau, arwyddion, newyddlenni, negeseuon e-bost ac yn y blaen yn y Gymraeg. Maent yn argymhell fod rhaid gwneud gwelliannau mewn cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd dros y we, gweminarau a galwadau fideo.

Dywedodd nifer o ymatebwyr fod staff sy'n darparu gofal yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag roeddent yn amrywio mewn capasiti o wasanaethau cyfan gwbl ddwyieithog gyda nifer o siaradwyr Cymraeg cynhenid ar bob lefel mewn sefydliad i drefniadau mwy anffurfiol. Roedd rhai gwasanaethau yn gallu darparu hyfforddiant yn y Gymraeg, er enghraifft ar gyfer gofalcwyr maeth sy'n siaradwyr Cymraeg. Nododd

eraill tra'u bod yn gallu sgwrsio gyda defnyddwyr gwasanaeth yn y Gymraeg, roedd eu staff yn teimlo'n fwy hyderus yn darparu gofal a gwneud asesiadau ffurfiol yn Saesneg.

Rhwystr mawr yw gallu recriwtio siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn fwy o her wrth chwilio am staff gyda sgiliau arbenigol ac fe all ddod yn fwy anodd wrth i wasanaethau ddod i ddibynnu fwyfwy ar staff asiantaeth. Dywedodd ymatebwyr a oedd yn gweithio yng Ngorllewin Cymru fod cael siaradwyr Cymraeg i ddarparu gofal yn hanfodol gan fod y mwyafrif o'r boblogaeth hyn yn siaradwyr Cymraeg ac mai Cymraeg yw iaith gwaith.

“Mae siaradwyr Cymraeg yn hanfodol ar gyfer lleoliadau yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae gan holl gartrefi preswyl y cyngor staff sy'n siarad Cymraeg ac mae'r holl staff yn cael eu hannog i siarad neu ddysgu Cymraeg.”

“Mae mwy o alw i'w weld yn Ne Sir Ddinbych, ond caiff hyn ei adlewyrchu yn sgiliau'r gweithlu hefyd, er enghraifft mae 95% o'r staff yng Nghysgod y Gaer yn Siaradwyr Cymraeg.”

Yn yr un modd, mae'n well gan nifer o oedolion gydag anhawster dysgu yng Ngwynedd gyfathrebu yn y Gymraeg. Nid yw hyn yn fater i staff lleol, ond fe all weithiau brofi i fod yn rhwystr wrth weithio ar draws ffiniau siroedd, er enghraifft caiff yr holl gyfarfodydd rhanbarthol eu cynnal yn Saesneg sy'n golygu na all rhai unigolion gydag anabledd dysgu gyfrannu.

Credai rhai nad oes yna ddigon o staff gyda sgiliau Cymraeg yn gweithio yn y gwasanaethau anabledau dysgu plant a phobl ifanc, ac felly nad oes gan deuluoedd y dewis i siarad Cymraeg. Amlygodd eraill fod dysgu Cymraeg yn hynod o bwysig wrth gefnogi pobl gyda dementia, sy'n aml yn troi yn ôl ar yr iaith yr oeddent yn ei siarad gartref fel plentyn. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer meithrin ymddiriedaeth gyda defnyddwyr gwasanaeth:

“Dwi wedi dechrau dosbarthiadau Cymraeg lefel mynediad, mae wedi fy ngalluogi i gael sgwrs gyflwyno fer gyda dyn oedrannus gyda dementia, ac fe ddatblygodd perthynas dda.”


3.3 Tlodi, amddifadedd ac anfantais economaidd-gymdeithasol

Mae cyfraddau tlodi ac amddifadedd yng Nghymru wedi bod yn cynyddu, mae un ym mhob pedwar o bobl yng Nghymru nawr yn byw mewn tlodi cymharol o'i gymharu ag un mewn pump ar draws y DU (A yw Cymru'n Decach? 2018). Mae un ym mhob tri o blant yn byw mewn tlodi ac maent yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol na'r boblogaeth yn gyffredinol (Llesiant Cymru 2021), mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn gysylltiedig â chanlyniadau lles mwy gwael yn gyffredinol gan gynnwys iechyd, addysg a chyflogaeth. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a osodir gan Lywodraeth Cymru yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ceisio gwneud y cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a'r bwch sy'n lledaenu o anghydraddoldeb o ganlyniad i dlodi. O fewn pob un o'r penodau thematig caiff asesiad o'r effeithiau economaidd-gymdeithasol ar bob un o'r grwpiau ei gynnwys i fynd i'r afael â materion unigryw neu rai economaidd-gymdeithasol penodol.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru wedi amlygu fod gan Ogledd Cymru rai o'r ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Dyma'r ardaloedd sydd mewn glas tywyllach yn y llun isod. Mae 3 o'r ardaloedd hyn o fewn y deg cymuned â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru – y rhain yw Gorllewin y Rhyl 2 a Gorllewin y Rhyl 1, sy'n gyntaf ac ail o ran yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, a hefyd Queensway 1 yn Wrecsam, y 9^{fed} ward â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Mae gwybodaeth fanwl yn ymwneud â'r ardaloedd ar gael yn [Adroddiad Canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019](#).

Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Er enghraifft, mae gan bobl sy'n byw yn y cymunedau â'r amddifadedd mwyaf yng Ngogledd Cymru gyfradd uwch o 25% o dderbyniadau brys ac mae yna wahaniaeth sylweddol o ran disgwyliad oes o 7 mlynedd a gwahaniaeth o ran iechyd gwael yn gyffredinol ac anabled o 14 mlynedd (Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol BIPBC 2020-2021)

Map 1: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2019)



Ffynhonnell: Adroddiad Canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019

Ffurfiwyd [Mudiad Iechyd a Thai 2025](#) yn 2015 mewn ymateb i ganfyddiadau amddifadedd. Maent rŵan yn gydweithfa o 600 o bobl a mudiadau o ogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i gydweithio i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Fe lanswyd rhaglen Gogledd Cymru Iach gan BIPBC yn 2016. Gyda phartneriaid o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a darparwyr tai mae'r rhaglen yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ar draws y rhanbarth.

3.4 Iechyd a lles

Yn 2020 fe gynhaliwyd asesiad o anghenion lleol ar iechyd a lles cyffredinol poblogaeth Gogledd Cymru gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Nododd yr asesiad mai'r prif gyflyrau sy'n effeithio ar boblogaeth Gogledd Cymru yw pwysedd gwaed uchel, diabetes, asthma, clefyd coronaidd y galon a chancr. Nid yw 1 o bob 3 unigolyn dros 65 oed ac 1 o bob 5 unigolyn o oed gweithio mewn iechyd da yn gyffredinol ar draws y rhanbarth. Mae'r asesiad yn amlygu fod ymddygiadau iachus yn ffactor mawr ym mhroffil iechyd cyffredinol Gogledd Cymru. Mae dangosyddion iechyd a lles da, fel deiet da ac ymarfer corff yn isel ac mewn rhai achosion mae tueddiadau'n gostwng.

Nid yw un o bob pedwar o blant pump oed o fewn amrediad pwysau iach, mae llai na hanner yr holl oedolion â phwysau iach a llai na thri o bob deg oedolyn yn bwyta 5 ffrwyth neu lysieuyn ac nid yw un o bob pump oedolyn yn gwneud hanner awr o weithgarwch corfforol yr wythnos.

Mae gwybodaeth fwy manwl ar broffil iechyd cyffredinol poblogaeth Gogledd Cymru i'w gael ym mhenodau [Iechyd, Anabledd Corfforol a Nam Synhwyrdd](#), a [Plant a Phobl Ifanc](#).

3.5 Gwasanaethau ataliol

Egwyddor allweddol sy'n sail i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw atal ac ymyrraeth gynnar. Yr egwyddor hon yw i leihau'r cynnydd mewn angen enbyd a chefnogaeth ymhlith y boblogaeth a bod y cymorth cywir ar gael ar yr amser cywir. Mae'r asesiad hwn o anghenion y boblogaeth yn rhan hanfodol o sicrhau fod y partneriaid ar draws y rhanbarth yn gallu sefydlu anghenion eu poblogaethau lleol i leihau'r angen am gefnogaeth ffurfiol drwy wasanaethau ataliol wedi eu targedu.

Mae map o dystiolaeth a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth wedi eu llunio gan Wasanaeth Tystiolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan weithio'n agos gyda thîm Iechyd Cyhoeddus Prifysgol Betsi Cadwaladr, i gefnogi datblygiad fframwaith o swyddogaethau craidd a all gyfrannu tuag at atal, oedi neu leihau dibyniaeth ar ofal a chefnogaeth a reolir. Mae hwn ar gael yn Atodiad 2. Mae'r map yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn wreiddiol yn 2016 a oedd yn nodi, drwy dystiolaeth ac asesiad o anghenion lleol, y gwir achos neu'r ffactorau sbarduno a arweiniodd bobl i gysylltu â gwasanaethau. Mae'r map yn amlinellu'r amrediad delfrydol o ymatebion seiliedig ar dystiolaeth (ymyriadau) i ffactorau sbarduno ac yn darparu mynediad wedi'i strwythuro i ffynonellau amrywiol o dystiolaeth gan gynnwys ffynonellau lefel uchel fel adolygiadau systematig sydd wedi eu cyhoeddi a rhai cyhoeddiadau gwirfoddol ac adroddiadau cynadleddau sy'n hynod o berthnasol i'r ymyrraeth a / neu'n berthnasol i Gymru.


Gall y map hwn gael ei ddefnyddio i hysbysu penderfyniadau comisiynu integredig yn y dyfodol a manylion caffael.

3.6 Unigrwydd ac arwahanrwydd

Yn yr Asesiad diwethaf o Anghenion y Boblogaeth, fe ymdriniwyd â'r ffocws o ran unigrwydd ac arwahanrwydd yn bennaf o fewn y bennod ar gyfer Pobl Hŷn. Ers yr Asesiad diwethaf o Anghenion y Boblogaeth yn 2017 mae ffactorau yn ymwneud ag unigrwydd ac arwahanrwydd wedi newid, yn arbennig o ganlyniad i sefyllfa COVID19 gyda chyfyngiadau cyfreithiol wedi eu rhoi ar allu pobl i gymdeithasu gyda theulu, ffrindiau a chydweithwyr.


Cydnabyddir y gall unigrwydd ac arwahanrwydd effeithio ar bob grŵp oed. Daeth yr Arolwg Cenedlaethol i Gymru i'r casgliad ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2020 fod pobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn unig o'i gymharu â phobl hŷn. Dywedodd 9% o bobl dros 65 oed eu bod yn unig o'i gymharu â 19% o'r rhai 16-44 oed a 15% o'r rhai 45 i 64 oed. Dylid nodi fodd bynnag y gallai pobl hŷn fod yn llai tebygol o roi gwybod am deimladau o unigrwydd. Fodd bynnag roedd yna ostyngiad cyffredinol mewn unigrwydd yn 2019/20 gyda 15% o ymatebwyr yn teimlo'n unig a oedd yn ostyngiad o 2016/17 pan ddywedodd 17% o bobl eu bod yn teimlo'n unig.

Siart 1: Y ganran o bobl sy'n unig yn ôl oed, Cymru 2019-20




Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Siart 2: Y ganran o bobl sy'n unig yng Ngogledd Cymru fesul cyngor lleol 2019-20



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Y ganran o bobl sy'n unig yng Nghymru 2016-17 i 2019-20



Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae ffactorau eraill sy'n effeithio ar unigrwydd yn cynnwys ffactorau fel iechyd a lles cyffredinol, mae unigolion sy'n ystyried fod eu hiechyd yn 'wael' yn fwy tebygol o roi gwybod am deimladau o unigrwydd o'i gymharu â'r rhai sydd ag iechyd sy'n 'dda'. Fe ddaeth yr Arolwg Cenedlaethol i'r casgliad fod 35% o'r unigolion sydd â'u hiechyd yn wael a 24% sydd â'u hiechyd yn weddol yn unig o'i gymharu ag 11% o'r rhai sydd â'u hiechyd yn dda neu'n dda iawn. O ran yr unigolion gydag afiechyd meddwl dywedodd 44% eu bod yn teimlo'n unig o'i gymharu ag 11% heb salwch. Mae

ffactorau economaidd-gymdeithasol hefyd yn cyfrannu at deimladau o arwahanrwydd ac unigrwydd, fe all hefyd gael effaith anghymesur ar y rhai hynny gyda nodweddion a ddiogelir.

4. Plant a phobl ifanc

4.1 Gwybodaeth am y bennod hon

Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar anghenion gofal a chymorth plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. At ddibenion yr asesiad anghenion hwn, mae'r bennod yn cynnwys y rhai rhwng 0 a 18 oed yn ogystal â'r rhai sy'n gymwys i gael gwasanaethau nes eu bod yn 25 oed, fel pobl ag anableddau a phobl sy'n gadael gofal.

Mae'r bennod yn cynnwys:

- Trosolwg poblogaeth / demograffig.
- Iechyd cyffredinol plant a phobl ifanc.
- Plant a phobl ifanc ag anableddau a / neu salwch.
- Plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth (mae adran 12 yn ymdrin â ffoaduriaid a cheiswyr lloches).
- Plant a phobl ifanc ar y gofrestr amddiffyn plant.
- Plant a phobl ifanc dan ofal (gan gynnwys maethu a mabwysiadu).
- Beichiogrwydd yn yr ardegau
- Iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc.
- Gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal i blant a phobl ifanc.

Mae plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth yn cael eu hystyried drwy gydol y bennod ac yn cael eu cynnwys dan y themâu perthnasol. Mae mwy o wybodaeth am anghenion plant a phobl ifanc ym mhenodau eraill yr asesiad anghenion hwn. Mae gwybodaeth bellach sy'n cwmpasu plant a phobl ifanc i'w gweld yn y penodau canlynol:

- [Iechyd, anableddau corfforol a nam ar y synhwyrau](#)
- [Anableddau dysgu](#)
- [Awtistiaeth](#)
- [Ffoaduriaid a cheiswyr lloches](#)

4.2 Diffiniadau

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 y meini prawf cymhwysedd ar gyfer plant a phobl ifanc ag angen gofal a chymorth yw:

Mae angen y plentyn ... yn cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd os:

(A) Naill ai -

- i. Mae'r angen yn deillio o salwch corfforol neu feddyliol y plentyn, oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu amgylchiadau tebyg eraill; neu
- ii. Mae'r angen yn un os na chaiff ei ddiwallu yn debygol o gael effaith niweidiol ar ddatblygiad y plentyn;

(B) Mae'r angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r canlynol -

- i. Y gallu i gyflawni arferion hunanofal neu ddomestig
- ii. Y gallu i gyfathrebu
- iii. Amddiffyn rhag cam-drin neu esgeulustod
- iv. Cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysg neu weithgareddau hamdden
- v. Cynnal a neu ddatblygu perthynas teulu neu berthnasau personol arwyddocaol eraill
- vi. Datblygu a chynnal perthnasau cymdeithasol a chyfranogiad yn y gymuned
- vii. Cyflawni nodau datblygu

(C) Mae'r angen yn un na all y plentyn, rhieni'r plentyn neu unigolion eraill â rôl rhiant ei ddiwallu, naill ai -

- i. Ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd
- ii. Gyda gofal a chefnogaeth eraill sy'n barod i ddarparu'r gofal a'r gefnogaeth honno, neu
- iii. Gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan y plentyn, y rhieni neu bobl eraill mewn rôl rhiant fynediad atynt; a

(D) Mae'r plentyn yn annhebygol o gyflawni un neu fwy o ganlyniadau personol y plentyn oni bai-

- i. Mae'r awdurdod lleol yn darparu neu'n trefnu gofal a chefnogaeth i ddiwallu'r angen; neu

- ii. Mae'r awdurdod lleol yn galluogi'r angen i gael ei ddiwallu trwy wneud taliadau uniongyrchol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2015).

Fe wnaeth diwygiadau i Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant y llynedd ddiwygio'r diffiniad o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae'r rhain bellach yn cynnwys plant a phobl ifanc:

- ag anableddau a/neu salwch
- sydd wedi cael profiad o ofal
- sydd angen gofal a chymorth
- sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal
- rheiny ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol.

4.3 Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth

Yn 2020, roedd tua 123,700 o blant 0-15 oed yng Ngogledd Cymru (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021). Ychydig o newid sydd wedi bod yn nifer y plant rhwng 2015 a 2020 ledled Gogledd Cymru neu ym mhob sir fel y dangosir yn y tabl isod. Nid yw'r newid wedi bod yr un fath ar draws pob awdurdod lleol, gyda rhai yn gweld cynnydd yn nifer y plant, ond rhai yn gweld gostyngiad. Mae cyfran y plant yn y boblogaeth gyfan hefyd yn amrywio. Conwy sydd â'r gyfran isaf o blant, sef 16% o'i phoblogaeth, a Wrecsam sydd â'r uchaf ar 19%.

Tabl 11: Nifer y plant 0-15 oed yng Ngogledd Cymru yn ôl awdurdod lleol


Awdurdod Lleol	Nifer 2016	% 2016	Nifer 2020	% 2020	Nifer Newid
Ynys Môn	12,000	17%	11,900	17%	-100
Gwynedd	20,900	17%	20,800	17%	-100
Conwy	18,800	16%	18,900	16%	+100
Sir Ddinbych	17,200	18%	17,400	18%	+200
Sir y Fflint	28,500	18%	28,800	18%	+300
Wrecsam	26,100	19%	25,900	19%	-200
Gogledd Cymru	557,100	18%	562,700	18%	+100
Cymru	123,600	18%	123,700	18%	+5,600

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r siart isod yn dangos nifer y plant a ragwelir ym mhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru dros gyfnod o 15 mlynedd. Rhagwelir y bydd nifer y plant yn gostwng yng Ngogledd Cymru o 7%. Mae'r lefel ar gyfer pob awdurdod lleol yn amrywio o ostyngiad o 2% ar gyfer Gwynedd, i 12% yn Wrecsam. Mae hon yn duedd ledled y wlad, a rhagwelir y bydd y niferoedd hefyd yn gostwng 5% yng Nghymru gyfan. Bydd cyfran y plant o gymharu â chyfanswm y boblogaeth yn gostwng 1-2% ar draws holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru, ac 1% ar gyfer Cymru gyfan.

Siart 4: Amcanestyniadau poblogaeth, plant 15 oed ac iau (yn seiliedig ar 2018)



Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol 2018 ar gyfer Cymru (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Iechyd cyffredinol plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru

Mae cyfnodau cyn cenhedlu, beichiogrwydd a blynyddoedd cynnar yn ddylanwadol yn iechyd a datblygiad plant yn y dyfodol. Mae canran y pwysau geni isel ledled Gogledd Cymru wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2017, mae tua 5% o fabanod yn cael eu geni â chyfradd geni isel o dan 2,500g. Mae pwysau geni isel yn ffactor pwysig, gan ei fod yn gysylltiedig â marwolaethau babanod, disgwyliad oes ac mae'n rhagfynegydd allweddol ar gyfer anghydraddoldebau iechyd. Mae gwahaniaethau ar draws y rhanbarth, sy'n cysylltu yn gyffredinol ag ardaloedd ag amddifadedd uwch.

Wrecsam sydd â'r gyfran uchaf o bwysau geni isel ar 6.9% ac Ynys Môn yr isaf ar 4.9% (Asesiad Anghenion Ardal 2021, ICC).

Mae gan Ogledd Cymru gyfradd marwolaethau babanod uwch (marwolaethau o dan 1 oed) o'i chymharu â chyfartaledd Cymru, 4.5 fesul 1,000 o enedigaethau byw, o'i gymharu â 3.1 ar gyfer Cymru. Mae cyfraddau marwolaethau babanod yn amrywio o 2.6 fesul 1,000 o enedigaethau byw yng Ngwynedd i 6.9 fesul 1,000 o enedigaethau byw yng Nghonwy. Mae cyfraddau marwolaethau newyddenedigol (marwolaethau o dan 28 diwrnod oed) yn amrywio o 2.6 fesul 1,000 o enedigaethau byw yng Ngwynedd a Sir y Fflint i 7.9 fesul 1,000 o enedigaethau byw yng Nghonwy. Ffigurau 2018 yw'r rhain ac mae'r cyfraddau'n seiliedig ar niferoedd bach iawn ac felly dylid eu trin yn ofalus. Ni chawsant eu cyfrif ar gyfer rhai awdurdodau yng Ngogledd Cymru, gan fod y nifer yn cael ei ystyried yn rhy fach (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021).

Y cyfartaledd cyffredinol ar gyfer bwydo ar y fron ar 10 diwrnod oed i Gymru yw 35%, mae cyfartaledd BIPBC Gogledd Cymru yn is na'r cyfartaledd ar 34%. Mae gwahaniaethau ar draws y rhanbarth gyda'r cyfraddau uchaf ar 37% yng Ngwynedd a'r isaf ar 31% yn Sir Ddinbych. Mae bwydo ar y fron yn darparu buddion iechyd o leihau marwolaethau babanod, llai o debygolrwydd o ordewdra plentyndod a llai o orfodaeth i fynd i'r ysbyty (Asesiad Anghenion Ardal 2021, ICC).

Nid yw pob plentyn pedair oed yng Ngogledd Cymru wedi cael eu brechiadau arferol, mae 90% o blant pedair oed ar draws BIPBC wedi eu cael, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 88%. Mae pob ardal awdurdod lleol yn cwrdd neu'n uwch na chyfartaledd Cymru (Asesiad Anghenion Ardal 2021, ICC). Bu gostyngiad diweddar mewn cyfraddau imiwneiddio ledled y wlad.

Ar draws BIPBC mae bron i 70% o blant pump oed o bwysau iach o gymharu â bron i 74% ledled Cymru gyfan. Ar lefel awdurdod lleol, mae'r canrannau ar gyfer Gwynedd (70%), Conwy (69%), Sir Ddinbych (68%) a Wrecsam (69%) yn is na chyfartaledd Cymru. Gall pwysau afiach yn ystod plentyndod fod yn gysylltiedig ag ystod eang o broblemau iechyd yn ddiweddarach mewn bywyd a gwaethygu'r cyflyrau presennol (Asesiad Anghenion Ardal 2021, ICC).

Mae cyrhaeddiad addysgol yn benderfynydd hanfodol o iechyd, mae iechyd a lles da yn gysylltiedig â gwell presenoldeb a chyrhaeddiad yn yr ysgol. Erbyn 30 oed, mae disgwyl i bobl sydd â'r lefelau uchaf o addysg fyw bedair blynedd yn hwy na'r rhai sydd â'r lefelau addysg isaf. Mae ymadawyr ysgol sydd â sgiliau a chymwysterau yn

amrywio ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Sgôr Cyfartalog wedi'u gapio Cymru 9 (sy'n cynnwys yr holl gymwysterau hyd at a chan gynnwys lefel 3) yw 350. Mae Gwynedd yn rhagori ar hyn ar 360, Ynys Môn a Sir y Fflint yn 352. Mae Ynys Môn yn unol â chyfartaledd Cymru ar 349, Conwy yw'r trydydd isaf ar 343 ac yna Wrecsam yn 333 gyda Sir Ddinbych â'r sgôr isaf ar 323 (Aseiad Anghenion Ardal, ICC 2021).

Mae'r ystadegau ar gyfer 2017/18 yn dangos mai cyfartaledd Cymru ar gyfer plant 11 i 16 oed sy'n ysmegu yw 3.6%. Mae gan BIPBC gyfartaledd o 4.4%, sy'n golygu mai hwn yw'r rhanbarth bwrdd iechyd uchaf yng Nghymru. Ar gyfer bechgyn, mae hyn yn 4.4% ac ar gyfer merched 4.2%, sy'n ystadegol uwch na ffigurau Cymru o 3.5% ar gyfer bechgyn a 3.3% ar gyfer merched. Mae tua 43% o bobl ifanc 16 i 24 oed wedi yfed uwchlaw'r canllawiau argymelledig o leiaf un diwrnod mewn wythnos. Ymhlith pobl ifanc 11 i 16 oed, mae 17% o fechgyn a 14% o ferched yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016c).

Plant a phobl ifanc ag anableddau a / neu salwch

Amcangyfrifir bod 11,500 o blant a phobl ifanc ag unrhyw salwch cyfyngol hirdymor yng Ngogledd Cymru. Caiff hyn ei amcangyfrif trwy ddefnyddio arolwg. Mae'n cynnwys y rhai dan 16 oed neu'r rhai 16 a 17 oed sy'n ddibynyddion. Rhagwelir gostyngiad bach o bron i 700 o blant dros y cyfnod o 20 mlynedd.

Tabl 12: Amcangyfrif o nifer y plant (0-17) sydd â salwch cyfyngol hirdymor, 2020 a 2040

Cyngor Lleol	2020	2025	2030	2035	2040	Newid
Ynys Môn	1,100	1,100	1,050	1,000	1,000	-110
Gwynedd	1,950	1,950	1,900	1,900	1,950	30
Conwy	1,800	1,800	1,700	1,650	1,650	-110
Sir Ddinbych	1,600	1,600	1,550	1,500	1,500	-120
Sir y Fflint	2,700	2,700	2,600	2,550	2,550	-100
Wrecsam	2,400	2,350	2,200	2,150	2,150	-270
Gogledd Cymru	11,500	11,450	11,000	10,800	10,850	-690

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.

Ffynhonnell: Daffodil

Efallai y bydd effaith gynyddol ar rieni a gofalwyr wrth i'r plant heneiddio a thyfu o ran codi a symud yn gorfforol, rheoli ymddygiad a diogelwch, a all olygu'r angen am

gymorth ychwanegol i rieni sy'n ofalwyr. Mae mwy o wybodaeth am rieni sy'n ofalwyr ar gael yn yr [adran gofalwyr di-dâl](#).

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ym mhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Mae'n amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau ar gyfer y categori gweithredu gan ysgol a gweithredu gan yr ysgol a mwy. Ynys Môn sydd â'r gyfran uchaf o ddisgyblion gweithredu gan yr ysgol ar 15.9%, o'i gymharu ag 8.2% yn Wrecsam. Cyfartaledd Gogledd Cymru yw 10%. Mae amrywiant sylweddol hefyd yn y categori gweithredu gan yr ysgol a mwy. Conwy sydd â'r gyfran uchaf ar 12.3%, o'i gymharu ag 4.8% yn Sir y Fflint a Wrecsam. Mae gan 2.2% o ddisgyblion Cymru ddatganiad anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn cymharu â 2.7% yn Wrecsam, yr uchaf yng Ngogledd Cymru, a 0.8% yng Nghonwy gyda'r isaf.

Tabl 13: Nifer y disgyblion ysgol ag anghenion addysgol arbennig (5-15 oed), 2020/21

Cyngor Lleol	Nifer Gweithredu gan yr Ysgol	Canran Gweithredu gan yr Ysgol	Nifer Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Canran Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	Nifer ar Ddatganiad	Canran ar Ddatganiad
Ynys Môn	1,243	15.9%	609	7.8%	174	2.2%
Gwynedd	1,243	9.0%	1,373	9.9%	259	1.9%
Conwy	1,223	9.9%	1,519	12.3%	103	0.8%
Sir Ddinbych	1,178	9.2%	1,278	10.0%	176	1.4%
Sir y Fflint	2,205	11.8%	898	4.8%	443	2.4%
Wrecsam	1,304	8.2%	763	4.8%	436	2.7%
Gogledd Cymru	8,396	10.3%	6,440	7.9%	1,591	2.0%
Cymru	43,222	11.5%	27,729	7.4%	8,300	2.2%

Ffynhonnell: Data cryno Cyfrifiad Ysgol Blynyddol Lefel Disgyblion yn ôl awdurdod lleol (disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd), tabl SCHS0334, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae cofrestr anabledde ar gyfer plant a phobl ifanc, fodd bynnag, mae'r niferoedd yn fach iawn ac o bosibl yn ddatgeliadol ac felly nid yw hyn wedi'i gynnwys. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth gydag anabledde a gefnogir gan y gwasanaethau

cymdeithasol yn anwadal. Bu gostyngiad cyffredinol yng Ngogledd Cymru, ond mae rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd sylweddol. Mae gwahaniaethau clir rhwng awdurdodau lleol, a allai fod oherwydd gwahaniaethau mewn prosesau cofnodi neu ddefnyddio trothwyon cymhwysedd.

Tabl 14: Nifer a chanran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth gydag anabledd, 2017 i 2020

Cyngor lleol	Nifer 2017	% 2017	Nifer 2020	% 2020	Nifer Newid
Ynys Môn	75	20.9%	10	2.8%	-65
Gwynedd	245	37.3%	215	26.0%	-30
Conwy	155	22.5%	130	24.6%	-25
Sir Ddinbych	90	24.7%	105	28.1%	10
Sir y Fflint	65	17.3%	130	23.3%	60
Wrecsam	65	10.3%	80	11.7%	10
Gogledd Cymru	700	22.5%	660	20.1%	-35
Cymru	3,455	21.7%	3,600	21.7%	145

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.

Y ganran yw cyfran yr holl blant sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n anabl.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant yn Derbyn Gofal a Chymorth. StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Plant sy'n derbyn gofal a chymorth

Yn 2020, roedd bron i 2,900 o blant yn derbyn gofal a chymorth ledled Gogledd Cymru. Dyma 2,302 o blant ar gyfer pob 100,000 o blant yn y boblogaeth, sydd ychydig yn is na chyfradd Cymru gyfan o 2,553 o blant mewn angen ar gyfer pob 100,000 o blant yn y boblogaeth. Mae'r tabl isod yn dangos bod y niferoedd yn amrywio ledled Gogledd Cymru a thros amser heb unrhyw duedd glir.

Tabl 15: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o blant (0-15) sy'n derbyn gofal a chymorth, 2017 i 2020

Cyngor Lleol	Nifer 2017	Cyfradd 2017	Nifer 2020	Cyfradd 2020	Nifer Newid
Ynys Môn	310	2,569	320	2,677	15
Gwynedd	560	2,681	720	3,461	160
Conwy	575	3,063	440	2,306	-140
Sir Ddinbych	335	1,947	305	1,764	-30
Sir y Fflint	330	1,162	480	1,658	150
Wrecsam	555	2,115	595	2,276	40
Gogledd Cymru	2,665	2,156	2,860	2,302	195
Cymru	13,785	2,474	14,395	2,553	615

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl grŵp oedran ledled Gogledd Cymru. Mae'r grwpiau oedran yn ddefnyddiol ar gyfer dangos faint o wasanaethau priodol i hoedran sydd eu hangen, er y dylid nodi, wrth eu cymharu'n uniongyrchol, fod y grwpiau o wahanol feintiau. Er enghraifft, mae 10-15 oed yn ymestyn dros chwe blynedd tra bod 16 i 17 oed yn cynnwys dwy.

Tabl 16: Nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl oedran ledled Gogledd Cymru.

Cyngor Lleol	Dan 1 oed	1 i 4 Oed	5 i 9 Oed	10 i 15 Oed	16 i 17 Oed	Cyfansw m
Ynys Môn	15	75	90	140	40	365
Gwynedd	25	150	225	320	105	825
Conwy	25	85	150	180	85	520
Sir Ddinbych	10	65	95	130	60	365
Sir y Fflint	15	105	160	195	75	555
Wrecsam	35	135	190	235	70	665
Gogledd Cymru	130	620	910	1,200	435	3,295
Cymru	720	2,915	4,485	6,275	2,185	16,580

Mae niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgeliad. Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Gall y prif faterion sy'n effeithio ar bob grŵp oedran amrywio. Er enghraifft, i rai 0-5 oed gall y gyfran o blant mewn risg o esgeulustod fod yn uwch, ond i rai yn eu harddegau gall y gyfran o bobl ifanc sydd angen/sy'n cael cefnogaeth ar gyfer anawsterau ymddygiad/emosiynol cymhleth fod yn uwch.

Mae'r prif gategori angen am blant sy'n derbyn gofal a chymorth i'w weld isod ar gyfer Gogledd Cymru. Mae ychydig dros eu hanner oherwydd camdriniaeth neu esgeulustod (56.5%). Y categori nesaf amlaf yw anabledd neu salwch y plentyn (17.2%), camweithrediad teuluol (11.1%) neu'r teulu mewn straen aciwt (8.3%). Gellir atgyfeirio teuluoedd am fwy nag un rheswm, felly mae'r rhestr hon yn adlewyrchu'r prif reswm a gofnodwyd.

Tabl 17: Plant sy'n derbyn gofal a chymorth yn ôl categori angen, 31 Mawrth 2020, Gogledd Cymru

Categori	Nifer	%
Cam-drin neu esgeulustod	1,860	56.5%
Anabledd neu salwch plentyn	565	17.2%
Anabledd neu salwch rhiant	105	3.1%
Teulu mewn straen aciwt	275	8.3%
Camweithrediad teuluol	365	11.1%
Ymddygiad cymdeithasol annerbyniol	65	2.0%
Rhiant absennol	50	1.5%
Tarfu oherwydd mabwysiadu	10	0.3%
Cyfanswm	3,295	100%

Mae niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgeliad.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Canlyniadau plant sy'n derbyn gofal a chymorth

Mae'r cyfrifiad plant sydd angen gofal a chymorth yn casglu llawer mwy o wybodaeth fanwl, ond oherwydd y niferoedd bach a'r anghysondebau wrth goladu, dim ond gwybodaeth gryno yr ydym wedi'i chynnwys yma. Mae'r data llawn ar gael ar [StatsCymru](#).

Mae canlyniadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal a chymorth yn cael eu monitro'n flynyddol. Mae crynodeb ar gyfer Gogledd Cymru ar gael yn y tabl isod. Mae cyfran y plant sydd â'r imiwneiddiadau diweddaraf a gwiriadau deintyddol yn is yng Ngogledd Cymru na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ganran oed 10+ sydd â phroblemau iechyd meddwl yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, 19% o'i gymharu â 14%. Mae'r gwiriadau gwylidwriaeth iechyd plant diweddaraf ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae cyfran y plant ag awtistiaeth yn uwch yng Ngogledd Cymru ar 16%, o'i gymharu â 12% yng Nghymru. Mae'r data llawn, gan gynnwys ar gyfer pob awdurdod lleol ar gael [StatsCymru](#).

Tabl 18: Iechyd plant sy'n derbyn gofal a chymorth, 31 Mawrth 2020, Gogledd Cymru

Categori	Nifer Gogledd Cymru	Gogledd Cymru %	Cymru %
Canran y plant â'r imiwneiddiadau diweddaraf (1)	2,870	89%	92%
Canran y plant sydd â gwiriadau deintyddol cyfoes (ar gyfer plant 5 oed a hŷn) (2)	1,955	79%	83%
Canran y plant sydd â phroblemau iechyd meddwl (ar gyfer plant 10 oed a hŷn) (3)	310	19%	14%
Canran y plant sydd â gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd plant cyfoes (ar gyfer plant 0 i 5 oed) (4)	795	92%	91%
Canran y plant ag awtistiaeth (5)	525	16%	12%

(1) Cofnodir plant ag imiwneiddiadau diweddaraf fel bod wedi derbyn yr holl imiwneiddiadau y dylai plentyn o'u hoedran fod wedi'u derbyn erbyn dyddiad y cyfrifiad.

(2) Diffinnir plant sydd â gwiriadau deintyddol cyfoes fel y rhai y mae deintydd wedi gwirio eu dannedd yn ystod y deuddeg mis hyd at 31ain Mawrth.

(3) Yn cynnwys problemau iechyd meddwl a gafodd ddiagnosis gan ymarferydd meddygol a phlant sy'n derbyn Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) neu ar restr aros am wasanaethau. Yn cynnwys iselder; hunan-niweidio; ac anhwylderau bwyta. Yn cynnwys plant sy'n nodi eu bod yn dioddef o broblemau iechyd meddwl ond nad oes ganddynt ddiagnosis. Nid yw anhwylderau sbectrwm awtistig, anabledau dysgu a phroblemau camddefnyddio sylweddau yn cael eu hystyried yn broblemau iechyd meddwl ynddynt eu hunain.

(4) Gofynnwyd i Awdurdodau Lleol nodi a oedd gwiriadau hybu iechyd y plentyn/ gwyliadwriaeth iechyd y plentyn yn gyfredol ar ddyddiad y cyfrifiad.

(5) Mae awtistiaeth yn cynnwys ystod o anhwylderau datblygiadol cysylltiedig sy'n dechrau yn ystod plentynod ac yn parhau wedi troi'n oedolyn.

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Casglwyd data hefyd ar gyfer canran y plant 10+ oed â phroblemau camddefnyddio sylweddau. Cafodd hyn ei atal fel rhan o'r datganiad data ar gyfer Wrecsam oherwydd bod y niferoedd bach dan sylw yn ddatgeliadol. Y cyfartaledd ar gyfer Cymru oedd 7%. Roedd y cyfrannau'n amrywio o 12% yn Sir y Fflint i 3% yng Nghonwy.

Plant ar y gofrestr amddiffyn plant

Yn 2018-19, roedd 575 o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Ngogledd Cymru. Er bod y niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer pob awdurdod lleol, ar y cyfan ar gyfer Gogledd Cymru, mae'r lefel wedi aros yn debyg, gyda gostyngiad bach o 3% (15 o blant). Oherwydd y niferoedd bach dan sylw, nid yw'n bosibl nodi tueddiadau clir oherwydd, er enghraifft, gallai newid dramatig o un flwyddyn i'r llall fod oherwydd bod un teulu'n symud i neu o ardal.

Tabl 19: Nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth yng Ngogledd Cymru.

Cyngor Lleol	2016-17	2017-18	2018-19	Cyfradd fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18
Ynys Môn	100	45	80	59
Gwynedd	80	90	55	24
Conwy	35	65	70	32
Sir Ddinbych	80	100	90	47
Sir y Fflint	165	145	110	34
Wrecsam	130	130	170	59
Gogledd Cymru	595	575	575	41
Cymru	2,805	2,960	2,820	45

Mae niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgeliad.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r tabl yn dangos nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ôl grŵp oedran ar draws Gogledd Cymru. Mae'r grwpiau oedran yn ddefnyddiol ar gyfer dangos faint o wasanaethau priodol i hoedran sydd eu hangen, er y dylid nodi, wrth eu cymharu'n uniongyrchol, fod y grwpiau o wahanol feintiau. Er enghraifft, mae 10-15 oed yn ymestyn dros chwe blynedd tra bod 16 i 17 oed yn cynnwys dwy.

Tabl 20: Nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn ôl oedran yng Ngogledd Cymru.

Cyngor Lleol	Dan 1 oed	1 i 4 Oed	5 i 9 Oed	10 i 15 Oed	16 i 17 Oed	Cyfansw m
Ynys Môn	10	20	15	25	10	80
Gwynedd	*	15	20	15	*	55
Conwy	10	20	20	20	*	70
Sir Ddinbych	15	25	30	25	*	90
Sir y Fflint	15	30	35	35	*	110
Wrecsam	20	40	55	50	5	170
Gogledd Cymru	70	145	170	170	20	575
Cymru	285	745	850	820	120	2,820

Mae niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgeliad. Cyfrifiad Plant sy'n Derbyng Gofal a Chymorth, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

Yn 2021 roedd 1,470 o blant a phobl ifanc yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru. O'r rhain, roedd 53% yn fechgyn a 47% yn ferched, sy'n debyg i'r darlun cenedlaethol ledled Cymru gyfan. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu 350 yn ystod yr amserlen a ddangosir yn y tabl isod. Mae gan Gogledd Cymru nifer is o blant sy'n derbyn gofal fesul 100,000 o'r boblogaeth na gweddill Cymru, ond mae amrywiadau sylweddol ledled y rhanbarth, o 795 yn Sir y Fflint i 1,304 yn Wrecsam. Mae'n bwysig nodi fod y nifer yn newid yn sydyn ar hyn o bryd gyda chynnydd sylweddol mewn pobl ifanc sydd newydd gael llety.

Tabl 21: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o blant sy'n derbyn gofal (o dan 18) yn ôl awdurdod lleol, 2017 a 2021

Cyngor Lleol	Nifer 2017	Cyfradd 2017	Nifer 2021	Cyfradd 2021	Nifer Newid
Ynys Môn	140	1,039	160	1,214	20
Gwynedd	220	927	280	1,210	65
Conwy	180	829	215	1,015	35
Sir Ddinbych	160	825	180	923	20
Sir y Fflint	210	654	255	795	45
Wrecsam	215	736	375	1,304	160
Gogledd Cymru	1,120	805	1,470	1,063	350
Cymru	5,960	949	7,265	1,153	1,305

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.
Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

O ran oedran y plant a'r bobl ifanc hyn, mae'r nifer ar gyfer pob band oedran i'w weld yn y tabl isod. Y gyfran uchaf yw 10-15 oed. Dylid nodi wrth eu cymharu'n uniongyrchol bod y grwpiau o wahanol feintiau. Er enghraifft, mae 10-15 oed yn ymestyn dros chwe blynedd tra bod 16 i 17 oed yn cynnwys dwy. Gan fod y braced oedran hwn yn cynnwys trawsnewidiadau allweddol ar gyfer y plant hyn, o ran iechyd, addysg, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, mae angen ystod eang o ddarpariaeth gwasanaeth a gwasanaethau cymorth i gefnogi'r boblogaeth hon.

Tabl 22: Nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ôl oedran ledled Gogledd Cymru.


Cyngor Lleol	Dan 1 oed	1 i 4 Oed	5 i 9 Oed	10 i 15 Oed	16 i 17 Oed	Cyfanswm
Ynys Môn	5	35	40	55	25	160
Gwynedd	10	60	80	95	40	280
Conwy	10	45	50	70	40	215
Sir Ddinbych	5	30	35	75	30	180
Sir y Fflint	10	55	50	105	40	255
Wrecsam	25	100	90	120	45	375
Gogledd Cymru	65	325	350	515	220	1,470
Cymru	295	1,370	1,700	2,745	1,150	7,265

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r siart isod yn dangos nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau yng Ngogledd Cymru rhwng 2016 a 2020. Bu cynnydd cyffredinol i holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru.

Siart 5: Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau yng Ngogledd Cymru



Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Profiadau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

Mae sefydlogrwydd lleoliad yn ffactor pwysig mewn canlyniadau iechyd, addysgol ac economaidd cyfredol a hirdymor plant a phobl ifanc sydd mewn gofal (canllaw NICE - NG205 Hydref 2021). Y ganran o blant oedd mewn gofal yn barhaus a arhosodd yn yr un lleoliad ar gyfer cyfnod Ebrill 2020 9 Ebrill 2021 oedd 78%. Mae hyn yr un fath a chyfran Cymru. Ynys Môn oedd â'r gyfran isaf, sef 70% gydag un lleoliad, a Chonwy yr uchaf gydag 81%.

O'r plant hynny oedd mewn gofal yn barhaus dros yr un cyfnod, roedd gan 8% o'r rhai ledled Gogledd Cymru wedi cael 2 neu fwy o newidiadau mewn lleoliad dros y cyfnod hwnnw. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 7%. Ynys Môn oedd â'r uchaf ar 12% a Gwynedd yr isaf ar 2%.

Mae'n anodd cymharu'r profiad rhwng siroedd gan fod y niferoedd dan sylw yn fach, ac felly mae'r data'n tueddu i amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn dibynnu ar blant a theuluoedd penodol sydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar yr adeg honno.

Tabl 23: Nifer y lleoliadau yn y flwyddyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (2021)

Cyngor lleol	Nifer 1 lleoliad	% 1 lleoliad	Nifer 2 lleoliad	% 2 lleoliad	Nifer 3+ lleoliad	% 3+ lleoliad
Ynys Môn	115	70%	30	18%	20	12%
Gwynedd	225	80%	50	17%	5	2%
Conwy	175	81%	25	13%	15	7%
Sir Ddinbych	140	77%	30	17%	10	6%
Sir y Fflint	200	78%	30	13%	25	9%
Wrecsam	285	76%	55	15%	35	9%
Gogledd Cymru	1,140	78%	220	15%	110	8%
Cymru	5,635	78%	1,110	15%	515	7%

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos faint o blant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu rhoi yn eu sir enedigol, mewn mannau eraill yng Nghymru a thu allan i Gymru. Mae 68% o'r plant sy'n derbyn gofal yng Ngogledd Cymru wedi'u lleoli yn eu sir eu hunain. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'n amrywio o 63% yng Nghonwy i 72% yn Ynys Môn. Mae amrywiant eang yn y cyfrannau a leolir y tu allan i Gymru. Sir y

Fflint sydd â'r uchaf a allai fod oherwydd ei bod yn ffinio â Lloegr. Nid yw'n hysbys pa mor bell o'u sir enedigol y maent wedi'u lleoli. Mae lleoliad yn y sir neu gerllaw yn bwysig i blant a phobl ifanc gynnal eu rhwydweithiau cymdeithasol cadarnhaol sefydledig gyda theulu (rhieni, brodyr a chwiorydd) a'r ysgol - sy'n eu helpu i ddatblygu eu hunaniaeth ac aeddfedrwydd emosiynol (canllawiau NICE NG205 Hydref 2021).

Tabl 24: Lleoliad y lleoliadau yn y flwyddyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (2020)

Cyngor Lleol	Nifer tu mewn i ardal awdurdod lleol	% tu mewn i ardal awdurdod lleol	Nifer rhywle arall yng Nghymru	% rhywle arall yng Nghymru	Nifer tu allan i Gymru	% tu allan i Gymru
Ynys Môn	115	72%	35	22%	5	3%
Gwynedd	205	71%	60	21%	20	7%
Conwy	125	63%	50	25%	20	10%
Sir Ddinbych	120	71%	25	15%	20	12%
Sir y Fflint	170	68%	40	16%	40	16%
Wrecsam	220	68%	70	22%	25	8%
Gogledd Cymru	955	68%	280	20%	130	9%
Cymru	4,705	66%	1,795	25%	360	5%

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae plant sy'n derbyn gofal o'r tu allan i'r sir yn cael eu lleoli yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys mewn gofal maeth ac unedau preswyl. Er bod y lleoliadau hyn yn cael eu hariannu'n allanol, mae'r niferoedd hyn o blant yn gosod gofynion ychwanegol ar wasanaethau lleol fel iechyd, addysg, yr heddlu a gwasanaethau cymorth, ac mae pob un ohonynt yn cael eu hariannu'n lleol.

Yn ogystal, wrth i'r plant hyn adael y system ofal, os ydyn nhw'n penderfynu ymgartrefu yn yr ardal leol, gall hyn roi straen ar adrannau tai, sydd eisoes dan bwysau.

Nid yw'r cyfrifiad o blant sy'n derbyn gofal bellach yn casglu data ar hyn, fodd bynnag mae BIPBC yn casglu'r data ac wedi canfod bod gogledd Cymru yn derbyn

mwy o blant sy'n derbyn gofal ac yn lleoli nifer fawr o bobl ifanc mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal. Yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, roedd 514 o blant sy'n derbyn gofal wedi'u lleoli yn awdurdodau lleol Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam o ardaloedd o'r tu allan. Mae hyn yn ostyngiad o 1.5% o gymharu â 522 yn 2019/20. O'r 514 a dderbyniodd leoliadau yma, mae 161 wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn, gan ddod â'r cyfanswm presennol i 353.

Gofal maeth

Roedd tua 945 o blant mewn gofal maeth yng Ngogledd Cymru yn 2020. Mae'r niferoedd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn er 2015. Y cynnydd hwn hefyd yw'r duedd genedlaethol, gyda'r niferoedd yn cynyddu ledled Cymru gyfan. Wrecsam oedd â'r cynnydd mwyaf, gyda nifer y plant yn dyblu. Gwelodd Gwynedd gynnydd sylweddol hefyd. Mae'r niferoedd yn yr awdurdodau lleol eraill wedi amrywio.

Tabl 26: Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth

Cyngor lleol	2015	2017	2018	2019	2020
Ynys Môn	90	100	100	90	110
Gwynedd	145	145	145	165	200
Conwy	120	125	150	140	140
Sir Ddinbych	125	110	110	115	115
Sir y Fflint	135	140	135	150	140
Wrecsam	120	135	170	175	240
Gogledd Cymru	735	755	810	835	945
Cymru	4,250	4,425	4,700	4,840	4,990

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.

Ffynhonnell: Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol mewn lleoliadau maeth.

StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mabwysiadu

Ar gyfartaledd, mae gwasanaethau mabwysiadu yn gweithio gyda rhwng 15% a 19% o blant sy'n derbyn gofal (Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, 2016b). Mae gan hyd at 25% o blant sydd wedi'u lleoli i'w mabwysiadu'n barhaol brofiadau yn ystod plentyndod sydd angen cefnogaeth arbenigol neu wedi'i thargedu (Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, 2016b).

Datblygwyd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) mewn ymateb i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae wedi'i strwythuro mewn tair haen, gan ddarparu gwasanaethau yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Maent wedi cynhyrchu fframwaith ar gyfer cymorth mabwysiadu sy'n ceisio ei gwneud hi'n haws i fabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc gael cefnogaeth pan fydd ei angen arnynt (Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, 2016a). Bydd rhan o weithredu'r fframwaith yn cynnwys mapio angen, galw, gwasanaethau ac adnoddau.


Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru yn bartneriaeth rhwng yr holl awdurdodau lleol a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sir Wrecsam. Mae gweithio'n rhanbarthol yn helpu'r gwasanaeth i ddod o hyd i deuluoedd newydd yn fwy effeithiol, lleoli plant yn gyflymach a gwella'r gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

Beichiogrwydd yn yr arddegau

Mae cyfraddau beichiogi rhai yn eu harddegau yn gostwng a bu gostyngiad cyson ledled Cymru a Lloegr ers cryn amser. Ymhlith y rhesymau a awgrymir mae argaeledd dulliau atal cenhedlu hir-weithredol hynod effeithiol, a hefyd patrymau ymddygiad pobl ifanc yn newid lle mae rhai yn mynd allan yn llai aml. Mae beichiogrwydd yn yr arddegau yn ffactor risg sy'n cyfrannu at bwysau geni isel a llawer o ganlyniadau iechyd ac economaidd-gymdeithasol gwael eraill ar gyfer y fam a'r babi.

Mae cyfraddau erthyliad ar gyfer y rhai dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng dros y deng mlynedd diwethaf (o 16.5 i 6.9 fesul 1,000 rhwng 2010 a 2020). Mae'r gostyngiad ers 2010 wedi'i nodi'n arbennig yn y grŵp oedran dan 16 oed, lle mae'r cyfraddau wedi gostwng o 3.9 fesul 1,000 o ferched yn 2010 i 1.2 i bob 1,000 o ferched yn 2020. Mae'r gyfradd erthyliadau ar gyfer pobl ifanc 18 i 19 oed hefyd wedi gostwng o 30.7 fesul 1,000 o ferched i 22.1 fesul 1,000 o ferched yn yr un cyfnod ([Ystadegau erthyliadau, Cymru a Lloegr: 2020](#)).

Siart 6: Cyfraddau beichiogi fesul mil o ferched 15-17 oed, Cymru a Lloegr, 2015-2020



Ffynhonnell: Cyfraddau beichiogi yng Nghymru a Lloegr, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ym mhob ardal ledled Gogledd Cymru, mae'r nifer sy'n beichiogi yn eu harddegau wedi bod yn gostwng fel y dengys y tabl isod. Dylid trin y ffigurau hyn yn ofalus, fodd bynnag, gan fod y niferoedd dan sylw yn fach iawn i rai awdurdodau lleol.

Tabl 25: Nifer a chyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth o feichiogi rhwng 15 a 17 oed

Cyngor Lleol	Nifer 2015	Cyfradd 2015	Nifer 2019	Cyfradd 2019	Newid
Ynys Môn	26	23.4	18	16.7	-8
Gwynedd	44	23.0	39	22.6	-5
Conwy	48	24.7	30	17.8	-18
Sir Ddinbych	59	37.0	33	23.5	-26
Sir y Fflint	85	32.7	48	18.8	-37
Wrecsam	83	37.1	60	28.1	-23
Gogledd					
Cymru	345	30.3	228	21.6	-117
Cymru	1,271	24.3	838	17.3	-433

Ffynhonnell: Cyfraddau beichiogi yng Nghymru a Lloegr, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Lles emosiynol ac iechyd meddwl

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (2014) wedi diffinio iechyd meddwl da fel:

“Cyflwr llesiant lle mae pob unigolyn yn gwireddu ei botensial ei hun, yn gallu ymdopi â phwysau arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn ffrwythlon, ac yn gallu gwneud cyfraniad i'w gymuned neu chymuned.”

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016a) yn defnyddio'r term lles meddyliol fel y'i diffinnir uchod: problemau iechyd meddwl ar gyfer profiadau sy'n ymyrryd â gweithrediad o ddydd i ddydd; a salwch meddwl i ddisgrifio problemau iechyd meddwl difrifol a pharhaus sy'n gofyn am driniaeth gan wasanaethau iechyd meddwl arbenigol.

Gall problemau iechyd meddwl ddechrau yn ystod plentyndod a gallant gael effeithiau gydol oes, megis cyrhaeddiad addysgol gwael, mwy o risg o hunanladdiad a chamddefnyddio sylweddau; ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau.

Ymhlith y ffactorau risg mae rhieni sy'n defnyddio alcohol, tybaco a chyffuriau yn ystod beichiogrwydd; straen mamol yn ystod beichiogrwydd; iechyd meddwl gwael rhieni; rhiant yn y carchar a diweithdra rhieni. Mae plant sy'n dioddef cam-driniaeth; plant sy'n derbyn gofal; troseddwr ifanc; plant ag anabledd deallusol; pobl ifanc 16-18 oed nad ydyn nhw mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET); gofawyr ifanc a phobl ifanc â salwch corfforol hefyd mewn mwy o berygl o salwch meddwl (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2010).


Gall profiadau cynnar arwain at ganlyniadau tymor hir ar gyfer iechyd meddwl a datblygiad cymdeithasol plant a phobl ifanc (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016b).

Mae Ffigur 24 yn dangos mai pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yng Ngwynedd sydd â'r sgorau llesiant meddwl uchaf yng Ngogledd Cymru (24.5) ac mae'n ystadegol sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (24). Pobl ifanc yn Wrecsam sydd â'r sgôr isaf (23.6) ac mae'n ystadegol sylweddol is na'r cyfartaledd yng Nghymru.

Siart 7: Sgoriau cyfartalog Graddfa Lles Meddwl Byr Warwick-Caeredin (SWEMWBS), plant mewn ysgolion uwchradd rhwng 11 ac 16 oed, Cymru ac awdurdodau unedol, 2017/18

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio HBSC & SHRN (DECIPher)

H 95% cyfwng hyder



Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru 2021.

Mae rhagfynegiadau o Daffodil yn dangos bod nifer y plant a phobl ifanc ag anhwylderau meddwl yng Ngogledd Cymru tua 9,300 yn 2020. Rhagwelir y bydd yn gostwng dros yr 20 mlynedd nesaf i oddeutu 8,500 yn 2040. Mae hyn oherwydd gostyngiad yn nifer plant a phobl ifanc yn gyffredinol, ac nid oherwydd gostyngiad disgwylidig mewn anhwylderau meddwl. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar arolwg yn 2017 a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn lleol, bu cynnydd yn nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio am gymorth iechyd meddwl ac mae hyn yn debygol o barhau yn dilyn effaith Covid-19 ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Cafodd atgyfeiriadau i wasanaeth iechyd meddwl plant a phobl ifanc y gostyngiad mwyaf o ran unrhyw wasanaeth iechyd meddwl, gyda 53% yn llai o atgyfeiriadau yn Ebrill 2020 o gymharu â lefelau 2019/20. Roedd anawsterau o ran cael apwyntiadau meddyg teulu yn debygol o fod wedi cael effaith ar allu plant i gael gwasanaethau iechyd meddwl yn ystod y cyfnod hwn. Mae agor a chau ysgolion hefyd wedi dylanwadu'n fawr ar amrywiadau mewn nifer yr atgyfeiriadau dros y 19 mis diwethaf, gydag atgyfeiriadau o'r system addysg yn creu llwybr cyffredin i gleifion i wasanaethau iechyd meddwl. Nifer sylweddol o atgyfeiriadau wedi eu nodi rhwng Mawrth a Gorffennaf 2021, yn dilyn ail-agor lleoliadau addysgol wyneb yn wyneb tuag at ddechrau'r cyfnod hwn. Roedd cyfraddau atgyfeirio ym Medi (+10%) a Hydref (+16%) yn uwch na'r sefyllfa cyn Covid, yn dilyn y gostyngiad a ragwelwyd mewn lefelau atgyfeirio yn ystod cyfnod gwyliau ysgol Awst.

Mae ymgynghoriadau digidol yn parhau yn rhan allweddol o gynnig rhithiol gwasanaethau iechyd meddwl, gyda chyfraddau defnyddio o 15% yn ystod Hydref 2021. Dyma'r gyfran isaf o ymgynghoriadau fideo heblaw yn ystod y mis cyntaf o gofnodi yn Ebrill 2020, er ei bod yn werth nodi fod hyn yn parhau yn llawer uwch na'r cyfraddau digidol a gofnodwyd gan dimau iechyd meddwl oedolion/oedolion hŷn yn ystod y cyfnod hwn. O fewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc i gleifion preswyl, mae cyfraddau meddiannu gwely yn parhau i fod yn uwch na lefelau hanesyddol 2019/20, gyda chyfradd meddiannu gwely cyfartaledd o 74% yn Hydref 2021, 13% yn uwch nag un 2019/20.

Tabl 27: amcangyfrif o nifer y plant (5-16 oed), gydag unrhyw broblem iechyd meddwl, 2020

Cyngor lleol	2020	2025	2030	2035	2040	Newid
Ynys Môn	885	885	830	795	780	-105
Gwynedd	1,565	1,550	1,485	1,495	1,520	-45
Conwy	1,445	1,465	1,395	1,340	1,325	-120
Sir Ddinbych	1,300	1,315	1,245	1,185	1,175	-125
Sir y Fflint	2,165	2,175	2,085	2,045	2,030	-140
Wrecsam	1,925	1,900	1,755	1,670	1,645	-285
Gogledd Cymru	9,290	9,290	8,790	8,530	8,470	-820

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddant yn cyfansymio.
Ffynhonnell: Daffodil

Mae'r tabl isod yn dangos y ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer iechyd plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â nhw eu hunain, eu teulu, ysgol a chymuned. Dylai strategaethau i hyrwyddo iechyd meddwl a lles plant ganolbwyntio ar gryfhau'r ffactorau amddiffynnol a lleihau amlygiad i'r ffactorau risg lle bynnag y bo modd.

Tabl 28: Ffactorau risg ac amddiffynnol ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc (Adran Addysg, 2016)

Ffactorau risg	Ffactorau amddiffynnol
<p>Yn y plentyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylanwadau genetig • IQ isel ac anabledau dysgu • Oedi datblygu penodol neu niwro-amrywiaeth • Anawsterau cyfathrebu • Natur anodd • Salwch corfforol • Methiant academiaidd • Hunan-barch isel 	<p>Yn y plentyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bod yn ferch (mewn plant iau) • Profiad ymlyniad diogel • Natur radlon fel plentyn bach • Sgiliau cyfathrebu da, cymdeithasgarwch • Bod yn gynllunydd a bod â chred mewn rheolaeth • Hiwmor • Sgiliau datrys problemau ac agwedd gadarnhaol • Profiadau o lwyddiant a chyflawniad • Ffydd neu ysbrydolrwydd • Y gallu i fyfyrto
<p>Yn y teulu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwrthdaro agored gan y rhieni gan gynnwys trais domestig • Teulu yn chwalu (gan gynnwys lle mae plant yn cael eu cymryd i ofal neu eu mabwysiadu) • Disgyblaeth anghyson neu aneglur • Perthnasau gelyniaethus a gwrthodol • Methiant i addasu i anghenion newidiol plentyn • Cam-drin corfforol, rhywiol, emosïynol neu esgeulusto • Salwch seiciatryddol rhieni • Troseddoldeb rhieni, alcoholiaeth neu anhwylder personoliaeth • Marwolaeth a cholled - gan gynnwys colli cyfeillgarwch 	<p>Yn y teulu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • O leiaf un berthynas riant-plentyn da (neu un oedolyn cefnogol) • Hoffter • Disgyblaeth glir a chyson • Cefnogaeth ar gyfer addysg • Perthynas gefnogol tymor hir neu absenoldeb anghysondeb difrifol
<p>Yn yr ysgol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bwlio • Gwahaniaethu • Tor o ran cyfeillgarwch cadarnhaol neu ddiffyg cyfeillgarwch cadarnhaol • Dylanwadau gan gymheiriaid gwyrddoëdig • Pwysau gan gymheiriaid • Perthynas wael rhwng y disgybl ac athro/awes 	<p>Yn yr ysgol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Polisiâu clir ar ymddygiad a bwlio • Polisi 'drws agored' i blant godi problemau • Dull ysgol gyfan o hyrwyddo iechyd meddwl da • Rheoli ystafell ddosbarth yn gadarnhaol • Ymdeimlad o berthyn • Dylanwadau cadarnhaol gan gymheiriaid
<p>Yn y gymuned:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anfantais economaidd-gymdeithasol • Digartrefedd • Trychineb, damweiniau, rhyfel neu ddigwyddiadau llethol eraill • Gwahaniaethu 	<p>Yn y gymuned:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhwydwaith cefnogol ehangach • Tai da • Safon byw uchel

Ffactorau risg	Ffactorau amddiffynnol
<ul style="list-style-type: none"> • Digwyddiadau bywyd arwyddocaol eraill 	<ul style="list-style-type: none"> • Ysgol morâl uchel gyda pholisïau cadarnhaol ar gyfer ymddygiad, agweddau a gwrth-fwlio • Cyfleoedd ar gyfer rolau cymdeithasol gwerthfawr • Amrywiaeth o chwaraeon / gweithgareddau hamdden

I gael mwy o wybodaeth am yr effeithiau negyddol y mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn eu cael ar iechyd corfforol a meddyliol unigolyn gweler yr adroddiad a luniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015).

Cyn pandemig Covid-19, nododd un o bob pump (19%) o bobl ifanc yng Nghymru symptomau iechyd meddwl (Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2019). Mae'r pandemig wedi gwaethygu problemau iechyd meddwl a lles i blant a phobl ifanc. Canfu ymchwil a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod y pandemig wedi cael effaith negyddol dros ben ar bob agwedd ar les meddyliol ymhlith plant a phobl ifanc.

Maes allweddol o bryder a nodwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Llywodraeth Cymru yw bod bwlbch yn y ddarpariaeth ar gyfer yr hyn y mae'n ei alw'n 'y canol coll'. Mae hyn yn cyfeirio at blant a phobl ifanc sydd angen cymorth iechyd meddwl, ond efallai na fyddant yn ddigon sâl i fodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau. Mae'r Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) yn rhaglen a arweinir gan GIG Cymru, sy'n ceisio gwella'r gefnogaeth emosiynol ac iechyd meddwl sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Nod un o'r ffrydiau gwaith yw mynd i'r afael â'r bwlbch hwn yn y ddarpariaeth.

Mae strategaeth 'Dim Drws Anghywir' Gogledd Cymru wedi'i datblygu trwy broses gydweithredol i nodi beth sy'n gweithio'n dda, datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y dyfodol a dylunio model cyflenwi yn y dyfodol. Mae'r strategaeth yn defnyddio dull rhanbarthol yn seiliedig ar weledigaeth a rennir a set gytûn o egwyddorion cyffredin. Bydd yn berthnasol ledled Gogledd Cymru i wella gwasanaethau iechyd meddwl a lles i blant a phobl ifanc.

Mae'r strategaeth yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol, sy'n deillio eto o'r broses datblygu gydweithredol:

- Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi am bwy ydynt, a'u gwerth

yn cael ei werthfawrogi (Sylwer fod y rhain yn ddau dîm ar wahân).

- Byddwn yn gwranddo ar blant, pobl ifanc, a'u teuluoedd i ddeall eu byd a'u profiadau. Bydd eu barn yn ein helpu i lunio a gwerthuso ein gwasanaethau.
- Byddwn yn lleihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen cymorth wedi'i dargedu drwy fuddsoddi mewn mesurau ataliol.
- Byddwn yn lleihau nifer y plant a phobl ifanc sydd angen cymorth mwy dwys trwy ymyrraeth gynnar, amserol.
- Byddwn yn ei gwneud yn hawdd i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ddod o hyd i wybodaeth am iechyd meddwl ac, os oes angen, i gael cymorth y gellir cael gafael arno trwy drefniadau syml a chyfleus.
- Bydd gwell cefnogaeth i iechyd meddwl mewn ysgolion.
- Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael mynediad at gymorth cydgysylltiedig gan ystod o weithwyr proffesiynol, pan fyddai hyn er eu lles gorau.
- Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y cyfle i ffurfio perthynas ymddiriedus gyda gweithwyr proffesiynol priodol. Bydd ganddynt hwy, a'u teuluoedd, gefnogaeth cydlynedd a fydd yn rheoli eu hachos ac yn eu helpu i lywio'r system.
- Bydd ymyrraeth yn amserol, gan osgoi arosiadau hir am wasanaethau a bydd yn seiliedig ar anghenion nid diagnosis. Bydd gwasanaethau'n canolbwyntio ar y plentyn, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn hyblyg i sicrhau bod anghenion yn cael eu diwallu a'u darparu mewn ffyrdd sy'n addas a chyfleus, gan gynnwys ar-lein.
- Bydd y llwybr yn gweithredu'n ddi-dor ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, addysg, darpariaethau cymunedol a'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol.
- Bydd gennym reolaeth effeithiol o adnoddau system a gweithgaredd proffesiynol.

Mae'r system iechyd meddwl ffurfiol arfaethedig wedi'i chynllunio i ymateb i bedair lefel wahanol o angen:

Anghenion isel: Caiff y rhain eu profi gan blant sydd â phryder meddwl ac sydd wedi gwneud cynnydd cyffredinol da trwy wasanaethau cyffredinol priodol. Nid oes unrhyw anghenion ychwanegol, heb eu diwallu neu mae / bu angen unigol wedi'i nodi y gellir / sydd wedi cael ei ddiwallu gan wasanaeth cyffredinol.

Anghenion ychwanegol: Mae gan blant yn y categori hwn anghenion na all gwasanaethau cyffredinol eu diwallu ac mae angen cymorth amlasiantaethol cydgysylltiedig ychwanegol a chymorth cynnar arnynt. Mae hefyd yn cynnwys plant y mae eu hanghenion presennol yn aneglur.

Anghenion cymhleth: Plant a phobl ifanc sydd â lefel gynyddol o anghenion heb eu diwallu a'r rheini sydd angen cymorth ac ymyriadau mwy cymhleth a chymorth cydgysylltiedig i atal pryderon rhag gwaethygu.

Anghenion aciwt / arbenigol, gan gynnwys diogelu: Mae'r rhain yn digwydd pan fo plant wedi profi niwed sylweddol, neu sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac yn cynnwys plant lle mae pryderon lles sylweddol. Mae gan y plant hyn y lefel uchaf o angen ac efallai y bydd angen ymyriad brys neu arbenigol iawn.

Y pedwar canlyniad allweddol y mae'r strategaeth 'Dim Drws Anghywir' yn anelu at eu cyflawni yw:

- Mynediad hawdd i'r gwasanaethau cywir ar gyfer y plentyn a'r teulu
- Ymyrraeth amserol
- Gwasanaethau ymatebol
- Sefydliadau'n cydweithio

Ymyrraeth gynnar, ataliaeth a chefnogaeth rhianta

Gall y diffiniad o atal ac ymyrraeth gynnar gynnwys:

- Mynediad cyffredinol at wybodaeth a chynghor yn ogystal â 'gwasanaethau cyffredinol', megis addysg, trafndiaeth, cyfleusterau hamdden / ymarfer corff ac ati.
- Ymyriadau unigol ac amlasiantaethol wedi'u targedu, sy'n cyfrannu at atal neu ohirio datblygiad anghenion pobl am ofal a chymorth a reolir neu reoli dibyniaeth lai ar y gofal a'r cymorth hwnnw.

Gall dod i gysylltiad â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) gael effaith ddofn hyd at oedolaeth. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn brofiadau trawmatig sydd yn digwydd fel plant gan effeithio arnynt pan yn oedolyn.

Mae'r profiadau hyn yn amrywio o ddioddef camdriniaeth llafar, meddyliol, rhywiol a chorfforol, i gael eu magu ar aelwyd lle mae trais domestig, camddefnyddio alcohol, rhieni wedi gwahanu neu gamddefnyddio cyffuriau yn bresennol. Mae un o bob saith

o bobl yng Nghymru wedi profi mwy na phedwar ACE ac mae bron i hanner wedi cael ACE. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd canolbwyntio ar y blynyddoedd cynnar a lleihau nifer y plant sy'n byw mewn teuluoedd lle mae cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu fathau eraill o gam-drin neu esgeulustod. Darparu amgylcheddau diogel a meithringar i bob plentyn yng Nghymru yw'r ffordd orau o fagu oedolion iachach a hapusach (Adroddiad Blynyddol 2020 – 2021 Hwb Cyfnogi ACE).

Mae pandemig Covid-19 wedi arwain at heriau newydd i blant a phobl ifanc. Mae tarfu ar eu haddysg, systemau cymorth a gweithgareddau cymdeithasol a chyfyngiadau eraill wedi golygu bod llawer o bobl wedi treulio mwy o amser gartref, a allai gynyddu'r risg o ddod i gysylltiad ag ACE, yn enwedig ymhlith y rhai sydd eisoes yn agored i niwed. Canfu adroddiad ar brofiadau plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig gan yr Uned Atal Trais fod cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n dystion i gam-drin domestig, cynnydd mewn adroddiadau o gam-drin corfforol tuag at blant, iechyd meddwl yn gwaethygu ymhlith plant a phobl ifanc a bod ffactorau risg ar gyfer camfanteisio'n droseddol ar blant a thrais ieuenctid wedi gwaethygu yn ystod y pandemig (Effaith COVID-19 ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, Adroddiad Uned Atal Trais, 2021).

Mae pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a phobl ifanc a chyflawni'r canlyniadau gorau posibl yn elfen allweddol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dechrau'n Deg yw rhaglen Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd sydd â phlant dan 4 oed yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

4.4 Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud

Iechyd meddwl plant a phobl ifanc (arolwg rhanbarthol o anghenion y boblogaeth)

Yr hyn sy'n gweithio'n dda:

Disgrifiodd yr ymatebwyr y canlynol fel rhai sy'n gweithio'n dda:

- Cydweithio â chynghorau lleol i hyrwyddo gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cyrraedd y nifer mwyaf posibl o bobl.
- Cyfathrebu rhwng asiantaethau – yr heddlu, gwasanaethau plant ac addysg.

- Cwnsela mewn ysgolion uwchradd.
- Apiau iechyd meddwl a llesiant.
- Llinellau ffôn fel y Samariaid a Mind.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod eraill yn meddwl nad yw'r gwasanaethau hyn yn gweithio'n dda o gwbl, gan "ei bod yn amhosibl cael apwyntiad ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cysylltiedig â phlant".

Yr hyn sydd angen ei wella:

Neges gyson gan lawer o ymatebwyr oedd bod bwlch sylweddol yn y gwasanaethau iechyd meddwl plant, bod rhestrau aros yn rhy hir a theuluoedd yn cael trafferth.

Roedd argymhellion penodol ar gyfer gwelliannau fel a ganlyn:

- Gwell mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a'r tîm niwroddatblygiadol ar gyfer pobl ifanc.
- Integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl mewn ysgolion, yn enwedig cwnsela i blant ysgol gynradd a chodi ymwybyddiaeth o drawma ymhlith staff.
- Cynyddu nifer y nyrsys Plant sy'n Derbyng Gofal.
- Cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau plant eraill i symleiddio gofal.
- Cynyddu cefnogaeth seicolegol i blant, yn enwedig y rhai mewn gofal a llai o ddibyniaeth ar feddyginiaeth fel ymyriad.
- Mwy o gwrselwyr, yn enwedig cwnselwyr gwrywaidd a chwrselwyr sy'n siarad Cymraeg, Pwyleg ac ieithoedd eraill.
- Siopau un alwad i gael gwybodaeth am yr holl wasanaethau mewn ardal leol a chael mynediad iddynt.
- Gwneud y pontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn haws ei ddefnyddio i bobl ifanc ac wedi'i deilwra i anghenion datblygiadol yr unigolyn.

4.5 Canfyddiadau ymgysylltu

Fe wnaethom goladu canfyddiadau o weithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd gan bartneriaid lleol gyda phlant a phobl ifanc i lywio'r bennod hon. Roedd hyn yn cynnwys llawer o enghreifftiau o gyfranogiad â phlant a phobl ifanc â chynllunio a datblygu gwasanaethau penodol. Yn yr adran hon, fe wnaethom ganolbwyntio ar y

negeseuon allweddol a fydd yn helpu i gynllunio gwasanaethau gofal a chymorth ar draws y rhanbarth. Mae rhagor o wybodaeth hefyd am les yr holl blant a phobl ifanc yn yr Aseidiadau Llesiant sy'n cael eu paratoi gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Iechyd meddwl ac emosiynol

Mae Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc yn datblygu fframwaith i gefnogi iechyd emosiynol, lles a gwytnwch plant. Bu iddynt gomisiynu arolwg o rieni i rai 8 i 11 oed i ganfod mwy am y gefnogaeth sydd ei hangen. Yna cyflwynwyd yr arolwg peilot hwn i rieni rhai 0-7 a 12-18 oed.

Gofynnodd yr arolwg gwestiynau am y 'Pum awgrym llesol' sef cysylltu, bod yn actif, cymryd sylw, rhoi a parhau i ddysgu.

Roedd dros 5,500 o ymatebion o ledled Gogledd Cymru. Canfyddwyd:

- Hoffai rhieni/gofalwyr ystod o gefnogaeth gan gynnwys cefnogaeth yn yr ysgol, cefnogaeth gan y Nyrs Ysgol/meddyg teulu neu wefannau neu bodlediadau a argymhellir.
- Y ffynonellau o gefnogaeth oedd bwysicaf i rieni/gofalwyr oedd; yr ysgol, ffrindiau/teulu a gwasanaethau gofal iechyd.
- Dywedodd 75% o rieni/gofalwyr y byddant yn defnyddio 'adnoddau digidol' i'w helpu nhw a'u plant gydag arferion da, roedd y rhai gyda phlant 8-18 oed yn fwyaf tebygol o ddefnyddio neu annog hyn.
- Dywedodd y rhan fwyaf o rieni eu bod yn hapus neu'n hapus iawn i gefnogi eu plentyn gyda'r pum awgrym llesol. Yr un a sgoriodd uchaf oedd 'Rhoi', ble roedd 93% o rieni/gofalwyr yn teimlo'n hapus/hapus iawn i gefnogi eu plentyn yn hyderus.
- Nododd rhieni/gofalwyr mai 'cysylltu' oedd yr agwedd bwysicaf o'r pum awgrym llesol i blant 4-15 oed, 'bod yn actif' oedd bwysicaf i rai 0-3 oed a 'dysgu' oedd bwysicaf i rai 16-18 oed.
- Dywedodd rhieni/gofalwyr eu bod fwyaf hyderus wrth gefnogi eu plentyn gyda 'theimlo'n drist/isel (87%) a lleiaf hyderus wrth gefnogi eu plentyn gyda cholled neu wahanu posib (71%).
- Dywedodd 80% o rieni eu bod yn hapus/hapus iawn gyda lles eu plentyn.
- Roedd rhieni rhai 0-3 oed hapusaf gyda lles eu plentyn (99%).

Y 5 prif bryder ychwanegol a nodwyd gan rieni ynglŷn â lles eu plentyn oedd: cymdeithasu/cyfeillgarwch, ysgol/dysgu, Covid/ynysu, gweithgaredd ar-lein a gor-bryder.

Wrth ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed ynghylch sut mae gwasanaethau ieuencid yng Ngwynedd yn cefnogi eu lles emosiynol a meddyliol, gwelwyd bod diffyg ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl pobl ifanc yn gyffredinol. Roedd y gwasanaethau ieuencid yn darparu cymorth gwerthfawr i'r rhai a oedd wedi cymryd rhan, ond roedd angen ei hyrwyddo'n well.

Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal

Canfu arolwg Mannau Disglair a gynhaliwyd yn Sir y Fflint yn 2018 gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal y canlynol.

Beth oedd yn dda?

- Roedd bron pob un yn teimlo'n ddiogel lle maent yn byw a bod gofalwyr wedi sylwi ar sut roeddent yn teimlo.
- Roedd bron pob un yn meddwl bod gan eu gofalwyr ddiddordeb yn yr hyn yr oeddent yn ei wneud yn yr ysgol neu'r coleg.
- Dywedodd yr holl gyfranogwyr a roddodd ateb eu bod yn ymddiried yn eu gofalwyr.
- Dywedodd y rhan fwyaf fod ganddyn nhw ffrind da iawn.
- Roedd y rhan fwyaf, gan gynnwys y merched i gyd, yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wneir am eu bywydau.

Beth oedd yn ddrwg?

- Dywedodd sawl cyfranogwr eu bod eisiau mwy o gysylltiad â'u teulu, yn enwedig eu mam, eu brodyr a'u chwiorydd.
- Roedd mwy na thraean wedi cael tri gweithiwr cymdeithasol neu fwy yn y 12 mis diwethaf.
- Gallai'r ysgol fod yn well i lawer o'r cyfranogwyr.
- Dywedodd mwy na thraean nad oedd neb wedi egluro pam eu bod mewn gofal neu eu bod eisiau gwybod mwy.
- Roedd bron i draean yn teimlo'n anhapus a rhai'n poeni am y dyfodol.
- Roedd traean o fechgyn yn teimlo bod gweithwyr cymdeithasol yn gwneud penderfyniadau heb eu cynnwys.

Nododd yr arolwg fod plant a phobl ifanc yn Sir y Fflint yn teimlo embaras wrth i oedolion dynnu sylw at eu statws gofal yn amlach na phobl ifanc (14%) mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Er bod gan hanner y bobl ifanc lesiant uchel ym mhob ardal, roedd mwy o bobl ifanc sy'n derbyn gofal (11-18 oed) yn anfodlon â'u bywydau ac nid oeddent mor hapus nac mor optimistaidd am eu dyfodol â phobl ifanc eraill sy'n byw yng Nghymru.

Roedd rhai o'r 'mannau disglair' a nodwyd yn cynnwys cael caniatâd a chefnogaeth i gael anifeiliaid anwes, bod gan blant berthnasoedd o ymddiriedaeth â'u gofaluwr a bod mwy o bobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael dysgu sgiliau annibyniaeth: 96% yn Sir y Fflint o gymharu ag 86% o Blant sy'n Derbyn Gofal mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a gymerodd ran yn y peilot. Mae adborth gan grŵp cyfranogiad Plant sy'n Derbyn Gofal Sir y Fflint yn dangos bod plant yn gallu gofyn cwestiynau i'w gweithiwr cymdeithasol a'u bod yn gyffredinol yn cael eu hysbysu a'u diweddarau gyda gwybodaeth am eu lleoliad. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith o hyd i hysbysu'r plant sut y daethpwyd o hyd i'w lleoliad a sut y gwnaed y penderfyniad mai eu lleoliad sydd fwyaf addas i ddiwallu eu hanghenion.

Yr Hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc

Y tri phwnc y siaradwyd amdanynt fwyaf a nodwyd gan y rhaglen beilot Effaith trwy Straeon yn Sir y Fflint oedd:

- Angerdd i warchod amgylcheddau lleol a byd-eang.
- Iechyd meddwl ac angen am fwy o gefnogaeth pan fydd ei angen ar bobl ifanc a'u teuluoedd.
- Tegwch, cydraddoldeb a sefyll dros eraill. Rhannwyd straeon am hawliau merched i beidio â chael eu trin yn wahanol, mewn chwaraeon, mewn ysgolion, yn y gwaith ac i deimlo'n ddiogel yn eu cymuned. Bu pobl ifanc yn rhannu straeon am fwlio, digartrefedd a thlodi, cydraddoldeb mewn dysgu ac addysg ac am sut beth yw bod yn berson ifanc o wlad wahanol sy'n byw yng Nghymru. Gofynnodd rhai y cwestiwn beth mae'r oedolion yn ei wneud am y pethau hyn?

Roedd straeon eraill yn cynnwys trais domestig, iechyd meddwl oedolion, anghenion dysgu ychwanegol a dyslecsia, asthma, chwaraeon, gwisg ysgol, cymorth gan gymheiriaid, troseddau cyllyll, cyfryngau cymdeithasol, y celfyddydau a materion byd-eang gan gynnwys rhyfel, troseddau casineb a thorri hawliau dynol.

Digartrefedd ieuenctid

Canfu adborth o sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc 11 i 25 oed yng Ngwynedd y canlynol:

- Roedd iechyd meddwl ac iselder yn cael eu codi'n gyffredin trwy ymarferion ymgysylltu. Roedd cael cefnogaeth teulu a ffrindiau, a lle diogel i ffrindiau gyfarfod yn allweddol i ddatrys problemau. I rai, roedd peidio â chael neb maent yn ymddiried ynddynt i siarad â nhw yn fater penodol. Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r ymarferion ymgysylltu oedd pwysigrwydd cael mynediad at rwydweithiau cymorth 'normal', a'i fod yr un mor bwysig â chael mynediad at wasanaethau.
- Codwyd diflastod gan bobl ifanc ar draws yr ymarferion ymgysylltu. Gan gyfeirio'n bennaf at y diffyg gweithgareddau y gallent gymryd rhan ynddynt, neu nad oedd gwybodaeth am yr hyn a oedd ar gael ar gael yn hawdd.
- Roedd anawsterau dysgu / niwroamrywiaeth yn fater amlwg. Roedd y bobl ifanc y siaradwyd â nhw â'r cyflyrau hyn yn teimlo bod y profiad o waharddiad a'r stigma sy'n gysylltiedig â chyflyrau fel awtistiaeth neu ADHD neu gael trafferth gyda gwaith academaidd wedi cael effaith ar hunan-barch, ac iechyd meddwl.
- Codwyd camddefnyddio sylweddau fel mater risg ar draws yr holl ymarferion ymgysylltu. Roedd pobl ifanc yn gweld camddefnyddio sylweddau fel symptom o ddigartrefedd, yn ogystal â ffactor cyfrannol.
- Roedd heriau o amgylch deinameg y teulu yn cael eu crybwyll yn aml fel ffactorau pwysig yn hapusrwydd a chanlyniadau bywyd pobl ifanc yn y dyfodol.

Canfyddiadau arolwg anghenion poblogaeth rhanbarthol

Ar draws y sector cyfan, dywedodd ymatebwyr fod y canlynol yn gweithio'n dda:

- Perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedus gyda rheolwyr awdurdodau lleol, gweithwyr cymdeithasol a chydweithwyr iechyd i gefnogi cydweithio.
- Cyfathrebu da rhwng darparwyr cymorth.
- Hyblygrwydd o ran arferion gwaith, yn enwedig yn ystod y pandemig.
- Sicrhau bod ystod eang o wasanaethau ar gael.
- Cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r blynyddoedd cynnar.
- Angerdd, gwydnwch ac ymrwymiad staff yn y sector hwn.

- Cysylltiadau rhwng gwasanaethau gofal ac ysgolion. Mae gweithwyr ieuenctid ysgol wedi gwella nifer y bobl ifanc sy'n cael mynediad at wasanaethau.
- Mae Hybiau Llesiant Ôl-16 wedi ymgysylltu â'r rhai sydd wedi bod yn NEET ers tro ac wedi eu helpu i gael hyfforddiant.

Soniwyd yn benodol am y gwasanaethau a ddarperir gan Teulu Môn, y credir eu bod yn “gyfeillgar ac effeithlon”, y tîm o amgylch y denantiaeth yn TGP Cymru, sy'n “mynd gam ymhellach i helpu i ddatrys pethau” a'r sector blynyddoedd cynnar yn Sir y Fflint.

Disgrifiwyd gwasanaeth Dychwelyd ac Ataliol Wrecsam fel un sy'n gweithio'n dda i gynyddu sefydlogrwydd lleoliadau i blant a phobl ifanc mewn gofal maeth, mewn gofal preswyl neu'n mynd trwy'r system fabwysiadu. Mae'n helpu gofaluwr i weithio mewn ffordd fwy gwybodus gyda phlant sydd wedi profi trawma ac yn helpu'r plant i brosesu eu profiadau trawmatig cynnar. Yn fwy cyffredinol, credir bod y prosesau sydd ar waith i gymeradwyo a chefnogi gofaluwr maeth yn effeithiol.

Roedd y dulliau cyffredinol o ddarparu gwasanaethau i blant a'u teuluoedd y credir eu bod yn gweithio'n dda yn cynnwys:

- Gweithio gyda'r teulu cyfan yn gyfannol, a bod yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion pob aelod o'r teulu ar unrhyw un adeg.
- Teilwra cynllun gofal unrhyw unigolyn i'w anghenion penodol.
- Canolbwyntio ar adferiad i alluogi pobl i gyflawni canlyniadau personol a dod yn llai dibynnol ar wasanaethau.
- Defnyddio taliadau uniongyrchol, gan gynnwys taliadau grŵp gan fod hyn yn darparu ffordd gost-effeithiol o gefnogi pobl.
- Darparu cefnogaeth i deuluoedd yn y blynyddoedd cynnar, trwy'r Canolbwynt Blynyddoedd Cynnar neu'r Tîm o Amgylch y Teulu.
- Gwneud defnydd da o adnoddau yn y gymuned.
- Gwneud defnydd da o wirfoddolwyr, gan eu bod yn cael eu derbyn fel “ffrindiau” yn hytrach na “rhywun o asiantaeth benodol yn dweud wrthynt beth i'w wneud”.

Yr hyn sydd angen ei wella:

Codwyd lefel y staffio unwaith eto fel pryder difrifol:

“Mae'r awdurdod lleol yn ei chael hi'n anodd iawn, ac ar adegau maen nhw wedi eu llethu. Maen nhw'n cael trafferth llenwi swyddi,

mae gan lawer o'r gweithwyr cymdeithasol lwythi achosion uchel ac mae trosiant staff uchel."

Mae hyn yn niweidiol i'r plant sy'n derbyn gofal, gan fod angen cysondeb a pherthnasoedd cadarnhaol. Mae angen gwell cynllunio gweithlu er mwyn darparu gwasanaethau o safon ac osgoi argyfwng gofal cymdeithasol. Mae hyn yn debygol o olygu bod angen cynyddu cyflogau a buddion swyddi, cynyddu parch at y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gwaith hwn a dod o hyd i ffyrdd o gadw staff presennol.

Dyweddod llawer o ymatebwyr fod angen mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r materion staffio ac i sicrhau bod ystod lawn o wasanaethau ar gael. Nid yw llawer o wasanaethau'n cael eu hariannu'n llawn. Mae angen cyllid tymor hwy i ddarparu cefnogaeth barhaus i bobl ifanc. Byddai pob plentyn yn elwa o gael gweithiwr allweddol i helpu i gydlynu gwasanaethau a chyfarfodydd, ac i'w cefnogi i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed drwy gydol yr amser. Mae hyn yn golygu symud i ffwrdd o waith prosiect tymor byr:

"Ar hyn o bryd mae'r cyllid yn rhedeg o flwyddyn i flwyddyn, nid yw hyn yn rhoi digon o amser i'r prosiect roi'r gefnogaeth gywir i rai pobl ifanc ac mae angen dros chwe mis o gefnogaeth ar rai ohonyn nhw."

"Mae gweithio ar gyllideb ceiniog a dimai yn gosod mwy o heriau nag atebion ... byddai dyfarniadau grant tymor hwy yn sicrhau gwell cynllunio a gwerth am arian, a gwella prosesau mewnol e.e. prosesau caffael/cyfreithiol."

Roedd rhai'n meddwl bod angen i ymyrraeth gynnar, yn enwedig pan fydd ACE yn cael eu nodi yn y teulu, ddigwydd yn amlach. Yn yr un modd, mae angen ymyrraeth therapiwtig gynnar ar gyfer plant sydd mewn gofal i'w helpu i ymdrin â'r ACE y maent wedi'u profi.

Gallai ysgolion wneud mwy i nodi ac atgyfeirio plant sydd mewn perygl cyn gwaethygu, yn enwedig gan fod rhai pobl ifanc yn eu harddegau yn cwmpo drwy'r bylchau. Mae angen mwy o ddarpariaeth o wasanaethau ar ffiniau gofal, gyda staff sydd â chymwysterau a phrofiad priodol. Mae angen mwy o leoliadau lleol i ddarparu cymorth therapiwtig i deuluoedd.

Mae problemau'n ailymddangos pan fydd pobl ifanc yn gadael yr ysgol, wrth i'w systemau cymorth ddod i ben oni bai eu bod yn parhau mewn addysg bellach. Yn aml mae angen cymorth parhaus arnynt wrth iddynt drosglwyddo i wasanaethau

oedolion, nad yw ar gael yn aml. Mae hyn yn bryder arbennig i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Un ateb ymarferol fyddai cynyddu'r stoc tai un ystafell wely sydd ar gael, er mwyn galluogi pobl ifanc sy'n gadael llety â chymorth i symud i denantiaeth a chael cymorth dwys.

Un grŵp o blant y credir bod gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ei golli'n aml yw'r rhai â chlefydau prin. Dim ond os yw eu cyflwr yn ymwneud ag anabledd neu os oes gan eu teulu broblemau gofal cymdeithasol eraill y gellir eu hadnabod. Nid yw'n ymddangos bod llwybrau gofal cymdeithasol wedi'u haddasu ar gyfer y teuluoedd hyn, ac nid ydynt yn ddigon sensitif i'r heriau, gan adael ymyrraeth yn rhy hwyr neu neilltuo materion i rianta gwael yn rhy gyflym. Gellid mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy greu cofrestr o deuluoedd yr effeithir arnynt a chynyddu dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o'r cyflyrau.

Mae angen niferoedd uwch o ofalwyr maeth i gadw i fyny â'r gofynion ar y gwasanaeth, yn enwedig pan fo teuluoedd mewn argyfwng. Ymhlith yr atebion mae cynyddu'r pecyn cymorth i ofalwyr maeth yn ogystal â recriwtio a hyfforddi mwy o ofalwyr. Bydd hyn yn gost-effeithiol os yw'n atal nifer o leoliadau rhag methu ac yn lleihau nifer y plant mewn lleoliadau y tu allan i'r sir a lleoliadau preswyl drud iawn.

O ystyried maint y pryderon am wasanaethau plant, awgrymodd rhai bod angen dull meddwl trwy systemau o ddarparu gwasanaethau ar draws yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd, a'r trydydd sector, i gael gwared ar wastraff mewn systemau a sicrhau nad oes rhaid i ddefnyddwyr gwasanaethau aros yn hir ar gyfer gofal. Mae angen buddsoddiad sylweddol yn y seilwaith i gefnogi ffordd fwy cydweithredol o weithio, megis systemau TG. Mae angen mwy o gydweithio ar y broses gofal iechyd parhaus a chynlluniau cydweithredol gofal cymunedol i blant.

4.6 Adolygiad o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd

Ymyrraeth gynnar integredig ranbarthol a chefnogaeth ddwys i blant a phobl ifanc

Mae rhaglen trawsnewid plant a phobl ifanc yn seiliedig ar amcan cyffredinol i gyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc ar draws Gogledd Cymru. Mae tair rhan i'r rhaglen, sef:

- Ymgyrch aml-asiantaeth i wella iechyd emosiynol, lles a gwytnwch plant a

phobl ifanc drwy ymyrraeth gynnar ac atal integredig ar y cyd.

- Ymchwilio a datblygu ymyriadau ‘ymateb cyflym’ (allgymorth argyfwng) yn seiliedig ar dystiolaeth i blant a theuluoedd ar ffiniau gofal.
- Datblygu gwasanaethau preswyl tymor byr.

Mae'r rhaglen wedi gweld creu dau dîm amlddisgyblaethol (MDT) isranbarthol newydd yn cael eu sefydlu i ddarparu gwasanaethau i 36 o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Yn ogystal, mae dwy ddarpariaeth breswyl tymor byr ar wahân wedi'u sefydlu i gefnogi'r timau amlddisgyblaethol.

Mae'r prosiect iechyd emosiynol, lles a gwytnwch wedi creu fframwaith peilot rhanbarthol i blant 8-11 oed, gan lunio egwyddorion arweiniol ar gyfer cynnal datblygiad iach o ran iechyd emosiynol plant a phobl ifanc, eu lles a'u gwytnwch, gan gwmpasu'r pum ffordd at lesiant. Mae ffrwd waith arall wedi sefydlu tîm ymyrraeth gynnar i ganolbwyntio ar roi cymorth yn gynnar i blant a phobl ifanc ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, a mabwysiadu dull 'Dim Drws Anghywir' yn hynny o beth.

Wrth ymateb yn uniongyrchol i'r pandemig llwyddodd y rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc i gefnogi prosiectau gwytnwch cymunedol a fu'n gymorth i blant a phobl ifanc yn y cyfnod anodd hwn, yn ogystal â chyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer y rhaglen.

4.7 Covid-19

Mae plant a phobl ifanc, sydd ag anghenion gofal a chymorth a hebddynt, wedi cael eu heffeithio'n gyffredinol gan bandemig Covid-19. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru yn Adroddiad Dim Drws Anghywir 2020:

“Nid yw'n hawdd dweud yn union sut y bydd yr argyfwng hwn wedi effeithio ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc. Yr hyn rydyn ni'n ei wybod yw bod pandemig y coronafeirws wedi effeithio mewn rhyw ffordd ar fywydau pob plentyn a pherson ifanc.”

Mae'r cyfyngiadau sydd wedi'u rhoi ar waith i reoli'r pandemig wedi effeithio ar allu plant i gael mynediad at eu hawliau dynol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys yr hawl i addysg, mynediad i chwarae, safon byw digonol, mynediad i ofal iechyd a llai o amddiffyniad rhag trais, cam-drin ac esgeulustod.

Mae asesiad cyflym gan Unicef (2020) yn nodi sut y cyfyngwyd ar wasanaethau iechyd pediatrig o ganlyniad i bandemig Covid-19, gyda llawer o glinigau a gwasanaethau wedi'u trefnu fel llawdriniaeth yn cael eu canslo i ailgyfeirio cymorth tuag at gefnogi cleifion Covid. Gallai hyn waethgu iechyd plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth ymhellach. Cododd adroddiad gan Goleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (2020) bryderon tebyg am blant a phobl ifanc â chyflyrau hirdymor, a allai wynebu mwy o amseroedd aros ar gyfer atgyfeiriadau, asesiadau gohiriedig a chlinigau therapi a gollwyd. Nododd *Special Needs Jungle* (2020) fod gwasanaethau therapi, megis lleferydd ac iaith a ffisiotherapi, wedi'u colli am gyfnodau hir, gan arwain at lawer o blant angen cymorth mwy dwys yn y dyfodol.

Effeithiwyd yn andwyol hefyd ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn ystod y pandemig. Dywedodd tri chwarter y bobl ifanc (74% o'r rhai 13-24 oed) fod eu hiechyd meddwl wedi gwaethgu yn ystod y cyfnodau clo. Nid oedd traean y bobl ifanc a geisiodd gael cymorth iechyd meddwl yn gallu gwneud hynny (Yr Argyfwng Iechyd Meddwl, Mind 2020). Y pum pryder sy'n gwaethgu iechyd meddwl pobl ifanc yw:

- Teimlo'n ddiflas / aflonydd.
- Peidio â gweld ffrindiau, teulu a phartneriaid.
- Methu mynd allan.
- Teimlo'n unig.
- Teimlo'n bryderus am deulu a ffrindiau yn cael y coronafeirws.

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg adroddiad ar effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae canfyddiadau allweddol yr adroddiad yn nodi materion y credir y bydd angen eu blaenoriaethu ar gyfer plant a phobl ifanc wrth i'r adferiad o'r pandemig ddechrau. Mae'r meysydd a nodwyd yn cynnwys:

- Addysg statudol
- Iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc
- Addysg bellach ac uwch
- Plant a phobl ifanc diamddiffyn

Mae ffocws penodol ar ddiogelu, cymorth i deuluoedd, rhianta corfforaethol, profiad gofal a'r rhai sy'n gadael gofal a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sydd angen cymorth na fyddent o reidrwydd

wedi bod yn hysbys oni bai am effaith y pandemig. Ceir rhagor o fanylion ac asesiad o bandemig Covid-19 yn yr [Adolygiad Cyflym](#).

Effaith Covid-19

Canfu ymgynghoriad am effaith Covid-19 ar blant a phobl ifanc yn Wrecsam a Sir y Fflint mai addysg oedd y pryder mwyaf a gafodd pobl ifanc am effaith coronafeirws ar eu dyfodol. Dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn poeni am eu graddau, y gwaith a gollwyd, y blynyddoedd ysgol a gollwyd, eu hopsiynau, dysgu yn y cartref, dyled o'r brifysgol heb yr un profiad dysgu, dal i fyny, diffyg trefn a pheidio â dysgu'r holl gynnwys sydd ei angen.

Y pethau a gollodd pobl ifanc fwyaf oedd teulu a ffrindiau, cymdeithasu a mynd allan. Dywedodd rhai hefyd fod eu perthynas wedi gwella, megis bod yn agosach at y teulu a'i chael yn haws siarad â ffrindiau mewn gwahanol ysgolion.

Dywedodd llawer o'r cyfranogwyr fod eu hiechyd meddwl wedi newid mewn ffordd negyddol a bod rhai wedi bod angen cymorth gydag iechyd meddwl a lles yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. I nifer fach o gyfranogwyr roedd eu hiechyd meddwl wedi gwella. Dywedodd nifer fach o gyfranogwyr fod y pandemig wedi effeithio ar eu hiechyd corfforol, gan gynnwys arferion bwyta a chysgu, colli apwyntiadau iechyd a ffitrwydd.

Canfu ymgynghoriad arall gyda phobl ifanc a theuluoedd sy'n rhan o Dîm Plant i Oedolion Sir y Fflint fod y cymorth yr oedd ei angen arnynt yn cynnwys: parhau â galwadau Zoom hyd yn oed ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi a gwybodaeth am gymorth rhent a budd-daliadau.

Mae Adroddiad Cynnydd Grant Teuluoedd yn Gyntaf Ebrill 2021 Sir Flint yn nodi ei bod yn amlwg bod teuluoedd yn wynebu ystod eang o faterion yn gynyddol, sy'n dod yn fwy heriol wrth i'r pandemig ddod i mewn i'w ail flwyddyn. Mae'r materion yn cynnwys:

- Gorbryder: Mae teuluoedd yn teimlo allan o reolaeth ac maent yn gyson mewn cyflwr uchel o straen wrth iddynt aros am gyhoeddiadau newydd a phrosesu beth mae hyn yn ei olygu iddynt hwy a'u teulu. Mae teuluoedd yn ynysu fwyfwy ac yn cilio o bob agwedd ar fywyd, mae hunan-barch yn isel, ac mae rhwydweithiau cymorth cymheiriaid yn isel wrth i bawb wynebu eu brwydrau eu hunain. Mae iechyd meddwl yn dod yn bryder cynyddol.

- Ymddygiad: I ddechrau, roedd teuluoedd yn cael trafferth gyda'r addasiad i'w bywydau, roedd rhai teuluoedd yn cael trafferth gweithredu'r canllawiau newydd ond yn gyffredinol roedd plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â'r rheolau cenedlaethol. Mae ymddygiad plant wedi bod yn gwaethygu wrth i arferion, ffiniau a chysondeb gael eu rhoi o'r neilltu i raddau helaeth. Yn y dechrau, roedd teuluoedd yn ymlacio ac yn cyd-dynnu, daeth arferion y cartref yn wahanol ac mae'r plant wedi cymryd rhan mewn sgysiau / penderfyniadau / teuluoedd fel na fuon nhw erioed o'r blaen. Mae bondiau wedi'u cryfhau mewn llawer o achosion, ond bydd hyn yn dod â mwy o heriau wrth i deuluoedd gael trafferth ag ailosod ffiniau, rheolau a chanfod eu bod yn gorfod negodi ac esbonio llawer mwy, rhywbeth y mae llawer o deuluoedd wedi cael trafferth ag ef.
- Cyllid: Mae teuluoedd yn poeni am y dyfodol gan fod nifer uchel wedi newid eu hincwm. Mae rhai wedi colli swyddi, wedi bod ar ffyrlo, yn cael trafferthion ariannol ac yn ansicr a fydd hyn yn gwella ar ôl cyfnodau clo.
- Heriau heb ddiagnosis: Mae teuluoedd gyda phlentyn sy'n aros am asesiad wedi cael trafferth gydag ymddygiad eu plentyn ac yn gallu delio ac ymdopi â hyn yn gymwys pan mae'n 24 awr y dydd, heb unrhyw allfa gorfforol a dim cymorth o ffynonellau eraill. Mae wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl rhieni.
- Dysgu o gartref: Bu cynnydd amlwg yn nifer y plant sy'n cael eu tynnu'n ôl o addysg i'w haddysgu o gartref, yn ogystal â nifer o deuluoedd sydd am archwilio'r opsiwn hwn. Yn bennaf oherwydd ofnau ynghylch trosglwyddo'r firws, ond hefyd fel ffordd i beidio â mynd i'r afael â materion a oedd yn anodd o'r blaen.

4.8 Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'r asesiad hwn yn cynnwys anghenion penodol plant a phobl ifanc gan gynnwys plant anabl. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd hawliau plant. Mae Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytundeb rhyngwladol sy'n nodi hawliau plant. Y rhesymeg dros CCUHP yw bod angen rhoi ystyriaeth benodol i hawliau plant oherwydd y gofal arbennig a'r amddiffyniad sydd eu hangen yn aml ar blant a phobl ifanc.

Mae hawliau plant eisoes wedi'u hymgorffori yng nghyfraith Cymru o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 – sy'n tanlinellu ymrwymiad Cymru i

hawliau plant a CCUHP. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi tynnu sylw at y ffaith ei bod yn bosibl bod gallu plant i gael mynediad at eu hawliau wedi'i lesteirio o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Dywedodd adroddiad Dim Drws Anghywir 2020:

“Bydd llawer (o blant a phobl ifanc) wedi gweld newidiadau i'w gallu i gael mynediad at eu hawliau dynol o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, fel yr hawl i ymlacio a chwarae, a'r hawl i safon byw digonol sy'n bodloni eu hanghenion corfforol a chymdeithasol. Rwyf hefyd yn bryderus y gallai rhai plant fod wedi cael eu hamddifadu o'r hawl i'r gofal iechyd gorau posibl neu heb gael eu hamddiffyn cystal rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod yn ystod y cyfnod hwn.”

Ystyrir effaith hyn drwy gydol y bennod hon wrth i'r rhanbarth ddechrau dod allan o'r pandemig a lliniaru'r profiadau negyddol posibl ar blant a phobl ifanc. Mae dadansoddiad pellach o hyn ar gael yn adran Covid-19 yr adroddiad hwn ac yn yr [adolygiad cyflym](#) a gynhaliwyd ym mis Hydref 2020.

Mae'n rhaid i wasanaethau i blant a phobl ifanc ddilyn ymagwedd sydd yn canolbwyntio ar blant a theuluoedd sydd yn ystyried anghenion gwahanol bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, a bydd hwn yn ddull parhaus yn ystod y broses o ddatblygu cynlluniau gweithredu yn y dyfodol ac yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau.

Byddem yn croesawu unrhyw dystiolaeth benodol bellach. .

4.9 Diogelu

Mae rheoliadau diogelu wedi'u cynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn rhoi fframwaith cyfreithiol i Fyrddau Diogelu Gogledd Cymru i Blant ac Oedolion. Amcanion allweddol Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant Gogledd Cymru yw:

- Diogelu oedolion / plant o fewn ei ardal sydd ag anghenion gofal a/neu gymorth ac sy'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod.
- Atal yr oedolion / plant hynny yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Tabl 29: Nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth yng Ngogledd Cymru.

Cyngor lleol	Nifer 2016-17	Nifer 2017-18	Nifer 2018-19	Cyfradd fesul 10,000 o'r boblogaeth dan 18 yn 2018-19
Ynys Môn	100	45	80	59
Gwynedd	80	90	55	24
Conwy	35	65	70	32
Sir Ddinbych	80	100	90	47
Sir y Fflint	165	145	110	34
Wrecsam	130	130	170	59
Gogledd Cymru	595	575	575	41
Cymru	2,805	2,960	2,820	45

Mae niferoedd wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgeliad.

Ffynhonnell: Cyfrifiad Plant sy'n Derbyng Gofal a Chymorth, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae Covid-19 wedi cael effaith andwyol ar brofiad plant a phobl ifanc o drais ac ACEs. Asesodd yr Uned Atal Trais effaith Covid-19 ar brofiadau plant a phobl ifanc a chanfuwyd bod llawer o blant a phobl ifanc wedi profi cysylltiad â thrais, gan gynnwys cam-drin domestig, cam-drin corfforol, hunan-niweidio, cam-drin rhywiol a chamfanteisio, a thrais ieuenctid difrifol, yn enwedig yn ystod y cyfnodau clo (Asesiad o anghenion ieuchyd – effaith COVID-19 ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentynod, 2021). Ar adeg cyhoeddi mae'r effaith hysbys yn dal i ddod i'r amlwg.

Addysg ddewisol yn y cartref

Mae angen am ddiwygiad o ran addysg ddewisol yn y cartref wedi'i nodi gan Gomisiynydd Plant Cymru. Mae'r angen yn awr yn fwy dybryd am ddeddfwriaeth sylfaenol ynghylch addysg ddewisol yn y cartref, gan fod nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref wedi cynyddu'n sylweddol ledled Cymru yn ystod pandemig Covid-19. Mewn [datganiad ar y cyd](#) rhwng Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, dywedasant fod angen gosod rhwymedigaethau statudol ar awdurdodau lleol i ymweld â phlant, cadw llygad a chyfathrebu â phlant sy'n cael eu haddysgu yn y cartref fel cam diogelu, yn ogystal â chefnogi canlyniadau addysgol a llesiant. Ategwyd y datganiad

hwn gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru gan gynnwys awdurdodau Gogledd Cymru.

4.10 Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yn cynnwys 'unrhyw achos neu batrwm o achosion o ymddygiad rheolaethol, gorfodol neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rhai sy'n 16 oed neu hŷn neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau'r teulu waeth beth yw eu rhyw neu rywioldeb' (Y Swyddfa Gartref: 2016).

Gall yr ymddygiadau a restrir uchod gwmpasu ystod eang o droseddau. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae rhiant yn cael ei gam-drin gan blentyn ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol, rhaid i ymarferwyr ystyried y ffaith, oherwydd dynameg teulu cymhleth, y gall rhieni fod yn gyndyn o geisio cymorth oherwydd ofn cynnwys yr Heddlu a / neu asiantaethau cyfreithiol. Felly, lle mae anghenion ymddygiadol ac emosiynol a cham-drin domestig yn ffactor, mae'n debygol y bydd angen gofal a chymorth arbenigol ar y rhieni a'r plentyn.

Rhaid i ymarferwyr gydnabod, yn ogystal â bod yn gam-drin a/neu esgeulustod o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), y gall plant hefyd gael eu hystyried yn ddioddefwyr VAWDASV yn eu rhinwedd eu hunain o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021.

Mae VAWDASV ymhlith plant yn broblem sylweddol. Dangosodd data MARAC rhanbarthol treigl 12 mis, hyd at 16 Medi 2021, fod 2,354 o blant yn ardal Heddlu Gogledd Cymru yn byw ymhlith aelwydydd yr effeithiwyd arnynt gan gam-drin domestig.

Gan fod data MARAC yn ymwneud ag achosion risg uchel a cham-drin domestig yn parhau i fod yn drosedd nad yw'n cael ei hadrodd yn ddigonol, mae'n debygol bod nifer y plant yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig yn debygol o fod yn uwch.

Mae gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae VAWDASV yn effeithio arnynt ar draws y rhanbarth yn cynnwys y canlynol:

- Gweithiwr plant a / neu allgymorth sy'n darparu'r rhaglen STAR.
- Cefnogaeth unigol ac emosiynol sy'n briodol i'w hoedran.

- Cefnogaeth therapiwtig.
- Sesiynau gweithgareddau.
- Mentora grŵp cymorth cymheiriaid.
- Rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf yn darparu cefnogaeth gyfannol i'r teulu cyfan.
- Darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc.
- Rhaglenni i geisio lleihau effeithiau andwyol ar blant ac oedolion ifanc oherwydd cam-drin domestig.
- Cefnogaeth arbenigol, cwnsela ac ymyriadau therapiwtig ar gyfer y rhai o dair mlwydd oed ymlaen sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol fel plant.

4.11 Eiriolaeth

Yn ôl y gyfraith rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc eu defnyddio, a bod yn rhaid gwneud Cynnig Gweithredol ar gyfer eiriolaeth. Gall gwasanaethau eiriolaeth helpu drwy siarad ar ran plant a phobl ifanc, gan wneud yn siŵr bod hawliau'r plentyn neu'r person ifanc yn cael eu parchu.

Pan fydd angen gwasanaethau ar blant a phobl ifanc, weithiau mae angen i eiriolwr gwrdd â nhw i egluro beth yw'r gwasanaethau hyn. Mae hyn yn eu helpu i ddeall beth sydd ar gael a sut y gall y gwasanaeth eu helpu. Gelwir hyn yn gynnig gweithredol.

Rhaid gwneud cynnig gweithredol i:

- Plant mewn gofal.
- Pobl ifanc sy'n gadael gofal.
- Plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae contract rhanbarthol ar gyfer comisiynu eisoes yn ei le ac mae Tros Gynnal Plant yn darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc.

Mae gwasanaethau eiriolaeth eraill ar gael mewn awdurdod lleol, er enghraifft Eiriolaeth Ail Lais ar gyfer pobl ifanc 11-25 oed sy'n byw neu'n cael eu haddysgu yn Wrecsam. Mae'r Gwasanaeth yn seiliedig ar fodel cyffredinol integredig o eiriolaeth ac mae wedi'i leoli yn y Siop Wybodaeth. Nod y gwasanaeth yw mynd i'r afael â nodau craidd cymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd ac mae wedi'i gynllunio gyda ffocws amddiffynnol ac ataliol wedi'i anelu at y canlynol:

- Grymuso pobl ifanc i ddod yn gyfranogwyr gweithredol a chynhyrchiol mewn cymdeithas.
- Cynyddu hyder a gwydnwch.
- Gwella lles cymdeithasol ac emosiynol.
- Gwella cyfleoedd bywyd pobl ifanc trwy eu hannog i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu datblygiad eu hunain gyda chefnogaeth ymagwedd seiliedig ar gryfderau sy'n cyd-fynd â nodau craidd y rhaglen.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl ifanc sydd â pherthnasoedd teuluol gwael a diffyg cymorth teuluol, rhwydweithiau cymorth gwael y tu allan i'r teulu, tlodi, beichiogrwydd yn yr ardeggau a rhieni yn eu harddegau. Maent yn nodi'r grwpiau hyn ac yn ymateb iddynt a'u nod yw atal problemau ymddygiad, iechyd meddwl gwael, presenoldeb a chyrhaeddiad gwael yn yr ysgol, a llesiant cymdeithasol ac emosiynol gwael. Bydd yr eiriolwr yn anelu at adeiladu gwytnwch i helpu i gyflawni nifer o ganlyniadau cadarnhaol hirdymor, sy'n cynnwys lleihau achosion o gamddefnyddio cyffuriau / alcohol, cyflawniad addysgol isel, iechyd meddwl gwael, beichiogrwydd yn yr ardeggau, anawsterau ariannol a throseddau ieuenctid.

4.12 Ystyriaethau'r iaith Gymraeg

Mae Erthygl 30 CCUHP yn datgan bod gan blentyn yr hawl i siarad ei iaith ei hun. Mae hyn yn arbennig o bwysig i blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth.

Ar draws Gogledd Cymru mae 24,332 o blant yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (ysgolion Categori 1). Bu cynnydd yn nifer y plant mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg ers nifer o flynyddoedd. O ganlyniad i'r cynnydd hwn, efallai y bydd mwy o blant a phobl ifanc yn dymuno derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir am blant ifanc sydd ond efallai yn siarad Cymraeg.

Oherwydd y newidiadau i addysg plant yn ystod pandemig Covid-19, roedd pryder am yr effaith ar blant yn defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'w lleoliadau addysgol. Dangosodd y rhai a oedd yn mynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg a gwblhaodd yr arolwg 7-11 oed ar gyfer yr ymgynghoriad y Coronafeirws a Fi (Llywodraeth Cymru, 2020) fod y mwyafrif yn parhau i ddefnyddio'r Gymraeg. Dywedodd 86% o'r ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r Gymraeg i wneud gwaith a gweithgareddau o'r ysgol, roedd 59% yn darllen llyfrau Cymraeg a 55% yn defnyddio'r Gymraeg gyda'u

teuluoedd. Dywedodd 8%, fodd bynnag, nad oeddent yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg fel y byddent yn yr ysgol.

Yn yr ymatebion i'r arolwg rhanbarthol, amlygwyd gan ymatebwyr bod angen mwy o gwrselwyr ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg.

4.13 Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol a brofir gan blant a phobl ifanc yn cael effaith uniongyrchol ar agweddau eraill ar eu bywydau, gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau iechyd. Mae hyn yn wir am bob plentyn sy'n profi tlodi, ond gall gael ei waethygu ymhellach i blant sydd angen gofal a chymorth. Mae plant o gefndiroedd incwm is yn cael eu gadael ar ôl (eto yn gwaethygu ymhellach gan effaith pandemig Covid-19, gyda symud i ddysgu gartref ar-lein yn ystod cyfnodau clo). Yn yr adroddiad 'Into Sharp Relief' 2020, argymhellir, oherwydd cau ysgolion sy'n ehangu anghydraddoldebau presennol, fod yn rhaid cael camau gweithredu wedi'u targedu i helpu'r rhai sydd wedi profi'r golled fwyaf difrifol mewn dysgu.

Er bod gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol wedi'u gwireddu, mae plant o gefndiroedd incwm is yn dal i fod dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion. Mae plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fod â chyfraddau gwahardd uwch na'u cyfoedion. Yng Nghymru bydd un o bob pump o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni pum TGAU gradd A*-C, o gymharu â dwy ran o dair o ddisgyblion heb angen dysgu ychwanegol. Mae cyfraddau gwahardd uwch hefyd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (A yw Cymru'n Decach? 2018).

Canfu ymchwil a gynhaliwyd gan Gymdeithas y Plant yn 2011 fod plant anabl sy'n byw yn y DU yn anghymesur yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi. Gall plant anabl sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel fod heb yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gymryd rhan yn y mathau o weithgareddau cymdeithasol arferol y mae plant eraill yn eu cymryd yn ganiataol.

Mae materion economaidd-gymdeithasol ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu harchwilio ymhellach yn asesiadau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

4.14 Casgliadau ac argymhellion

Thema a blaenoriaeth allweddol yn yr asesiad hwn yw iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc. Mae hwn wedi'i amlygu fel maes blaenoriaeth allweddol ar draws y rhanbarth ac yng ngoleuni'r pandemig Covid-19, mae hyn yn bwysicach fyth. Bydd gweithredu strategaeth ranbarthol Dim Drws Anghywir yn ceisio trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl a lles i blant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn gynnar yn 2022.

Fel yr amlygwyd yn yr asesiad mae pwyslais ar ymyrraeth gynnar ac atal i deuluoedd a phwysigrwydd hyn o fewn y continwrm cymorth. Mae'r asesiad hwn wedi ceisio darparu dealltwriaeth o anghenion presennol plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru i gynorthwyo gyda dylunio a darparu gwasanaethau lle bynnag y bo modd

Mae is-grŵp Plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i ddatblygu gyda chynrychiolaeth o bob rhan o iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Bydd y grŵp yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer cefnogi teuluoedd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru a sicrhau bod plant a theuluoedd ag anghenion gofal cymhleth yn derbyn gofal a chymorth integredig di-dor sy'n eu helpu i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Bydd y grŵp yn adolygu'r bennod hon ac yn cytuno ar feysydd blaenoriaeth fel rhan o'u cynllun gwaith.

5. Pobl hŷn

5.1 Ynglŷn â'r bennod hon

Mae'r bennod hon yn ymdrin ag anghenion y boblogaeth o bobl hŷn yn rhanbarth gogledd Cymru. Trefnwyd y bennod ar sail y themâu canlynol:

- Trosolwg o'r boblogaeth
- Cefnogaeth i fyw gartref a chadw'n annibynnol
- Heneiddio'n iach
- Dementia
- Cartrefi gofal.

Ceir ychwaneg o wybodaeth ynglŷn ag anghenion pobl hŷn mewn penodau eraill o'r asesiad o anghenion hwn, gan gynnwys Iechyd Meddwl, Anabledau Dysgu a Gofalwyr Di-dâl.

5.2 Diffiniadau

Nid oes unrhyw ddiffiniad pendant o beth yw unigolyn hŷn. Mae'n dibynnu ar y cyd-destun; er enghraifft, gall olygu pobl hŷn na 50 oed wrth ystyried materion cyflogaeth neu gynllunio ar gyfer ymddeol, pobl hŷn na 65 yn ôl llawer o ystadegau'r llywodraeth, a phobl hŷn na 75 neu 85 wrth ystyried cynnydd yn y tebygolrwydd o fod angen gofal a chymorth.

5.3 Polisi a deddfwriaeth

Mae Heneiddio'n Dda yng Nghymru'n bartneriaeth rhwng asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau trydydd sector, sy'n cael ei chynnal a'i chadeirio gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae pob awdurdod lleol yng ngogledd Cymru wedi llunio cynllun ar gyfer y camau gweithredu y byddant yn eu cymryd ar sail y blaenoriaethau, gan gynnwys:

- Gwneud Cymru'n genedl o gymunedau oed-gyfeillgar.
- Gwneud Cymru'n genedl o gymunedau sy'n cefnogi pobl â dementia.
- Lleihau nifer yr achosion o bobl yn syrthio.
- Lleihau unigedd ac arwahanrwydd nad oes ei eisiau.

- Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a chael gwaith.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio, Cymru o Blaid Pobl Hŷn, ym mis Hydref 2021 ac mae iddi bedwar o nodau:

- Gwella lles.
- Gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol.
- Adeiladu a chynnal galluogrwydd pobl.
- Mynd i'r afael â thlodi sy'n gysylltiedig ag oedran.

Nod yr asesiad o'r boblogaeth yw cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer pobl hŷn mewn cyd-destun lleol. Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd wrth integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yw pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, gan gynnwys dementia.

5.4 Yr hyn a wyddom am y boblogaeth

Roedd yno oddeutu 164,700 o bobl 65 oed a hŷn yng ngogledd Cymru yn 2020. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu y gallai'r nifer godi i 207,600 erbyn 2040 os yw'r gyfran o bobl 65 oed a hŷn yn dal i gynyddu fel y dangosir yn y tabl isod. Rhagwelir y bydd y gyfran o'r boblogaeth dros 65 yn cynyddu o 23% yn 2020 i 29% yn 2040. Mae'r gyfran yn amrywio ledled gogledd Cymru, gyda'r gyfran fwyaf yng Nghonwy a'r gyfran leiaf yn Wrecsam.


Tabl 30: Amcangyfrif o nifer y bobl dros 65 yn 2020 a'r nifer rhagamcanol yn 2040

Cyngor lleol	2020 Nifer	2020 Canran	2040 Nifer	2040 Canran	Newid Nifer	Newid Canran
Ynys Môn	18,650	26.5%	22,500	32.4%	3,850	17.2%
Gwynedd	28,550	22.8%	34,300	26.1%	5,700	16.7%
Conwy	2,950	27.9%	43,500	35.4%	10,550	24.3%
Sir Ddinbych	23,500	24.3%	30,400	30.9%	6,900	22.6%
Sir y Fflint	33,300	21.2%	42,400	26.3%	9,150	21.5%
Wrecsam	27,750	20.4%	34,500	26.0%	6,750	19.6%
Gogledd Cymru	164,700	23.4%	207,600	29.0%	42,900	20.7%
Cymru	668,600	21.1%	850,750	25.9%	182,150	21.4%

Ffynhonnell: Rhagamcanion poblogaeth canol blwyddyn 2020, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; ac amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru ar sail 2018.

Rhagwelir y bydd y gyfran o bobl hŷn yn y boblogaeth yn dal i gynyddu tan 2040. Ar yr un pryd disgwylir y bydd y gyfran o bobl 16 i 64, sef y gweithlu sydd ar gael, yn dal i ostwng. Rhagwelir y bydd y newidiadau'n sefydlogi erbyn 2040. Bydd y newid hwn yn strwythur y boblogaeth yn creu cyfleoedd a heriau wrth ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth.


Siart 8: Newid yn y boblogaeth yn ôl grŵp oedran yng ngogledd Cymru 2020-2040



Ffynhonnell: Rhagamcanion poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru ar sail 2018.

Mae'r newid yn strwythur y boblogaeth yn dilyn yr un patrwm ymhob sir yng ngogledd Cymru, ond disgwylir mai'r siroedd â'r gyfran fwyaf o bobl 65 oed a hŷn fydd Conwy, Ynys Môn a Sir Ddinbych, fel y dangosir isod.

Siart 9: Rhagamcan o'r ganran o'r boblogaeth 65 oed a hŷn yn 2040, gogledd Cymru



Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru

Mae ymchwil yn awgrymu bod byw gyda chyflwr hirdymor yn rhagfynegydd cryfach o'r angen ar gyfer gofal a chefnogaeth nag oedran (Institute of Public Care (IPC), 2016).

Mae nifer y bobl 65 oed a hŷn ar gynydd

Mae pobl dros 65 yn fwy tebygol o fod ag angen gwasanaethau. Cynyddodd nifer y bobl dros 65 16.9% ledled gogledd Cymru rhwng 2010 a 2020 fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 31: Nifer y bobl 65 oed a hŷn yng ngogledd Cymru rhwng 2010 a 2020

Cyngor lleol	2010	2010	2020	2020	Newid	Newid
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ynys Môn	15,450	22.1%	18,650	26.5%	3,200	17.2%
Gwynedd	24,800	20.5%	28,550	22.8%	3,750	13.1%
Conwy	27,900	24.3%	32,950	27.9%	5,050	15.3%
Sir Ddinbych	19,700	20.9%	23,500	24.3%	3,800	16.2%
Sir y Fflint	26,450	17.4%	33,300	21.2%	6,850	20.5%
Wrecsam	22,550	16.8%	27,750	20.4%	5,200	18.7%
Gogledd Cymru	136,900	20.0%	164,700	23.4%	27,800	16.9%
Cymru	557,250	18.3%	668,600	21.1%	111,350	16.7%

Talgrynnwyd y rhifau felly efallai na fyddant yn symio.

Ffynhonnell: Rhagamcanion poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cynyddodd nifer y bobl 85 oed a hŷn 15.6% yn yr un cyfnod fel y dangosir isod. Mae hynny'n bennaf oherwydd newidiadau mewn demograffeg fel y genhedlaeth a aned wedi'r Ail Ryfel Byd yn heneiddio a disgwyliad oes yn cynyddu. Mae'r arfordir a chefn gwlad yng ngogledd Cymru hefyd yn fannau poblogaidd i bobl symud i fyw wedi ymdeol.

Tabl 32: Nifer y bobl 85 oed a hŷn yng ngogledd Cymru rhwng 2010 a 2020

Cyngor lleol	2010	2010	2020	2020	Newid	Newid
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ynys Môn	2,000	2.9%	2,400	3.4%	400	16.4%
Gwynedd	3,350	2.8%	4,200	3.3%	850	19.9%
Conwy	4,200	3.7%	5,150	4.4%	950	18.8%
Sir Ddinbych	2,650	2.8%	2,650	2.8%	-	-0.1%
Sir y Fflint	3,150	2.1%	3,700	2.4%	600	15.7%
Wrecsam	2,850	2.1%	3,450	2.5%	600	16.9%
Gogledd Cymru	18,200	2.7%	21,550	3.1%	3,350	15.6%
Cymru	73,750	2.4%	85,150	2.7%	11,450	13.4%


Talgrynnwyd y ffigyrau felly efallai na fyddant yn symio.

Ffynhonnell: Rhagamcanion poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Bydd nifer y bobl 65 a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau'n dal i gynyddu

Disgwylir y bydd nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau cymunedol yng ngogledd Cymru'n cynyddu o 7,800 yn 2015 i 13,300 yn 2035 fel y dangosir isod. Ar yr un pryd mae'r gyfran o bobl 16 i 64, sef y gweithlu sydd ar gael, yn dal i ostwng. Mae'r nifer yr amcangyfrifir a fydd yn derbyn gofal yn y dyfodol yn gysylltiedig ag iechyd ac nid oedran yn unig. Mae gan Gonwy gyfran fwy o bobl hŷn, ond gan eu bod yn iachach nid oes ganddynt gymaint o anghenion gofal.

Siart 10: Nifer y bobl 65 oed a hŷn y rhagwelir y byddant yn derbyn cymorth cymunedol



Ffynhonnell: Daffodil

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y bobl dros 65 sy'n cael trafferth â gweithgareddau bywyd beunyddiol. Mae hynny'n cynnwys gofal personol a symud o amgylch y cartref a phethau sy'n hanfodol i fywyd beunyddiol fel cymryd moddion, bwyta, ymolchi, gwisgo, mynd i'r toiled ac ati. Rhagwelir y bydd y gyfran o bobl sy'n cael trafferth â gweithgareddau fel hyn yn cynyddu ychydig. Bydd y nifer yn cynyddu'n sylweddol, fodd bynnag, oherwydd y newidiadau yn strwythur y boblogaeth a'r cynnydd yn nifer y bobl 65 oed a hŷn.

Tabl 33: Rhagamcan o nifer y bobl dros 65 sy'n cael trafferth â gweithgareddau bywyd beunyddiol

Cyngor lleol	2020	2020	2040	2040	Newid	Newid
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Ynys Môn	5,100	27%	6,550	29%	1,500	23%
Gwynedd	8,000	28%	10,050	29%	2,050	20%
Conwy	9,450	29%	13,050	30%	3,600	27%
Sir Ddinbych	6,450	27%	8,800	29%	2,400	27%
Sir y Fflint	9,150	27%	12,350	29%	3,250	26%
Wrecsam	7,550	27%	10,000	29%	2,450	24%
Gogledd Cymru	45,700	28%	60,900	29%	15,150	25%
Cymru	185,300	28%	248,900	29%	63,600	26%

Talgrynnwyd y rhifau felly efallai na fyddant yn symio.

Ffynhonnell: Daffodil, Rhagamcanion poblogaeth canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru ar sail 2018.

Mae llawer o bobl hŷn yn darparu gofal di-dâl i ffrindiau a pherthnasau

Yng ngogledd Cymru mae oddeutu 14% o bobl 65 oed a hŷn yn darparu gofal di-dâl.

Gweler y [bennod ynglŷn â gofalwyr](#) am ragor o wybodaeth am anghenion cymorth gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr hŷn.

Bydd yno fwy o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pennau'u hunain

Gall cyfansoddiad aelwydydd hefyd effeithio ar y galw am wasanaethau i gynnal annibyniaeth. Mae data Cyfrifiad 2011 yn dangos fod yno 44,000 o bobl 65 oed a hŷn yn byw ar eu pennau'u hunain, sy'n 59% o'r holl aelwydydd 65 oed a hŷn. Mae ymchwil gan Gyngor Gwynedd wedi canfod cydberthynas gref rhwng nifer y bobl 65 oed a hŷn sy'n byw ar eu pennau'u hunain a nifer y cleientiaid sy'n derbyn pecynnau gofal cartref mewn ardal benodol.

Y bwch rhwng disgwyliad oes a disgwyliad oes iach


Disgwyliad oes yw'r hyd o amser ar gyfartaledd y gall baban sy'n cael ei eni heddiw ddisgwyl byw. Disgwyliad oes yn 2017-2019 yng ngogledd Cymru oedd 79 o flynyddoedd i ddynion ac 82 o flynyddoedd i fenywod. Mae disgwyliad oes iach yn rhywbeth gwahanol, sef amcangyfrif o'r hyd o amser y bydd rhywun yn ei dreulio

mewn iechyd “da iawn” neu “dda”, yn seiliedig ar ganfyddiad unigolion o’u hiechyd cyffredinol eu hunain. Disgwyliad oes iach yn 2017-2019 yng ngogledd Cymru oedd 64 o flynyddoedd i ddyinion a 65 o flynyddoedd i fenywod (y Swyddfa Ystadegau Gwladol). Ar gyfartaledd bydd menywod yng ngogledd Cymru’n treulio 78% o’u bywydau mewn iechyd da, o gymharu ag 82% i ddyinion. Mae cyfartaledd disgwyliad oes a disgwyliad oes iach ill dau’n llinynnau mesur arwyddocaol wrth ystyried statws iechyd y boblogaeth. Mae mesur disgwyliad oes iach yn ychwanegu elfen ‘ansawdd bywyd’ at yr amcangyfrifon o ddisgwyliad oes drwy rannu’r cyfnod yn ôl amser a dreuliwyd mewn gwahanol gyflyrau iechyd.

Mae disgwyliad oes iach hefyd yn amrywio’n fawr ledled gogledd Cymru. Mae’r siart isod yn dangos yr amrywiant rhwng siroedd yng ngogledd Cymru. Gwynedd sydd â’r disgwyliad oes iach uchaf, sef 68 o flynyddoedd i fenywod. Mae Conwy a Sir Ddinbych hefyd uwchlaw’r cyfartaledd yng ngogledd Cymru. Sir y Fflint sydd â’r disgwyliad oes iach isaf, sef 62.6 o flynyddoedd i ddyinion, ond mae hynny uwchlaw’r cyfartaledd yng Nghymru.

Nid yw’r data’n rhoi cyfrif am anghydraddoldeb mewn ardaloedd awdurdod lleol lle mae gan bobl mewn cymunedau mwy difreintiedig ddisgwyliad oes iach llai na’r bobl hynny sy’n byw mewn ardaloedd mwy llewyrchus.

Siart 11: Disgwyliad oes iach 2017-19



Ffynhonnell: Disgwyliad oes mewn cyflwr iach, pob oedran, y Deyrnas Gyfunol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae llai o oedolion 65 oed a hŷn yn derbyn gwasanaethau gan gynghorau lleol yng ngogledd Cymru, ond disgwylir i'r nifer gynyddu

Mae cynghorau lleol yn darparu neu'n trefnu gwasanaethau cymdeithasol fel gofal cartref i bobl hyn y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Yng ngogledd Cymru, mae nifer y bobl 54 oed a hŷn wedi cynyddu 27,800 rhwng 2010 a 2020, ond mae nifer y bobl yn y grŵp oedran hwn sy'n derbyn gwasanaethau wedi gostwng oddeutu 1,100 fel y nodir isod. Wrth gymryd golwg ar gynghorau lleol unigol, mae'r nifer wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd a gostwng mewn rhai eraill.

Tabl 34: Nifer y bobl 65 oed a hŷn yng ngogledd Cymru a dderbynai wasanaethau yng ngogledd Cymru rhwng 2016-17 a 2018-19

Cyngor lleol	2016-17	2016-17	2018-19	2018-19	Newid
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	
Ynys Môn	2,690	15%	2,350	13%	-340
Gwynedd	6,855	25%	7,220	26%	365
Conwy	5,090	16%	5,750	18%	655
Sir Ddinbych	2,960	13%	2,080	9%	-880
Sir y Fflint	5,120	16%	5,655	17%	535
Wrecsam	8,385	32%	6,920	26%	-1,465
Gogledd Cymru	31,100	20%	29,970	19%	-1,130
Cymru	114,195	18%	94,585	15%	-19,610

Talgrynnwyd y rhifau felly efallai na fyddant yn symio.

Ffynhonnell: Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran, tabl CARE0118, Ystadegau Cymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r ffigurau uchod yn dangos amrywiaeth helaeth ymysg cynghorau gogledd Cymru. Mae yno nifer o resymau am hyn, gan gynnwys:

- Cyfeirio mwy o bobl at wasanaethau yn y gymuned. Er enghraifft, siopau sy'n gwerthu cymhorthion symudedd bychain a rhad fel canllawiau neu ffyn cerdded.
- Llwyddiant gwasanaethau gofal canolraddol ac ailalluogi sy'n cynorthwyo pobl i adennill eu hannibyniaeth wedi argyfwng iechyd fel cael codwm neu strôc. Ledled Cymru mae 71% o'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth ailalluogi ag angen

llai o gymorth i fyw'n annibynnol yn sgil hynny, neu ddim cymorth o gwbl. Mae'r rhan helaeth o wasanaethau'n canolbwyntio ar ailalluogi corfforol neu weithredol, gan gynnwys tasgau bywyd beunyddiol fel gofal personol wedi i rywun dorri asgwrn neu gael strôc, er enghraifft. Nid yw gwasanaethau i gyfrannu at ailalluogi pobl â dementia a phobl sy'n ddryslyd neu'n anghofus wedi datblygu cystal (Wentworth, 2014).

- Gall newid mewn statws gwybyddol neu gorfforol gael effaith fawr ar allu pobl i reoli eu meddyginiaeth ac mae'n gallu bod yn gysylltiedig â syrthio a bod ag angen ymyrraeth therapi galwedigaethol.
- Mae nifer y bobl 65 oed a hŷn mewn tloidi'n amrywio o un cyngor lleol i'r llall, ac felly mae nifer y bobl sy'n gymwys am bolisiau codi tâl ar sail prawf moddion yn amrywio hefyd.
- Mae oddeutu 28% o bobl Cymru'n derbyn incwm mor isel fel nad ydynt yn cyfrannu at gostau eu gofal cartref (AGGCC 2016). Rhagwelir y bydd gan 30% ddigon o gyfalaf i fedru talu holl gostau eu gofal boed hynny gartref neu mewn cartref gofal (AGGCC 2016 a Chydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Lles Gogledd Cymru 2016).
- Newid yn y meini prawf cymhwyso ar gyfer derbyn gwasanaethau.
- Angen heb ei fodloni, o bosib oherwydd diffyg gallu i gyflawni yn y gwasanaeth, neu anghenion heb eu hadnabod.

5.5 Anghenion iechyd a lles cyffredinol pobl hŷn

Atal

Nid yw'n anochel bod ein hiechyd yn dirywio wrth inni fynd yn hŷn. Drwy ganolbwyntio ar atal gellir sicrhau bod pobl yn byw mewn iechyd da am gynifer o flynyddoedd â phosib. Mae ymddwyn mewn ffyrdd iach yn hanfodol i'n hiechyd wrth fynd yn hŷn; mae bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol rheolaidd, defnyddio alcohol yn ddiogel ac osgoi defnyddio tybaco oll yn cyfrannu at leihau'r perygl o fynd yn wael wrth inni heneiddio. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn dal ati â'r ymddygiad cadarnhaol

yn ein henaint. Mae'n hollbwysig i bobl fedru cael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau sy'n eu cynorthwyo i ymddwyn yn gadarnhaol.

Heneiddio'n iach

Pan mae pobl yn byw'n hwy mae cyfleoedd yn codi i bobl hŷn, teuluoedd a chymdeithas yn gyffredinol. Mae gan bobl hŷn lawer iawn i'w gyfrannu i gymdeithas, gan gynnwys gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd. Gall heneiddio ddod â llawer o gyfleoedd i ddysgu pethau newydd, newid gyrfa neu gynnig gofal di-dâl i bobl hŷn neu aelodau iau o'r teulu. I wneud hynny'n llwyddiannus, fodd bynnag, mae gofyn i bobl fod mewn iechyd da.

Ni allwn ystyried ein hiechyd a'n lles pan rydym yn hŷn heb ystyried pethau eraill hefyd. Mae nifer o ffactorau yn ystod oes rhywun yn dylanwadu'n gryf ar waeledd eu hiechyd pan maent yn hŷn. Mae ymyriadau wedi'u targedu pan mae pobl yn feichiog, yn y blynyddoedd cynnar, yn ystod plentyndod a blaenlencyndod yn hollbwysig i'n hiechyd.

Anghydraddoldeb iechyd a disgwyliad oes iach

Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn fwy tebygol o fod mewn iechyd gwael o gymharu â'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd mwy llewyrchus.

Yng ngogledd Cymru mae 7.0 o flynyddoedd o wahaniaeth mewn disgwyliad oes dynion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, a 5.1 o flynyddoedd i fenywod.

Yng ngogledd Cymru yn ystod 2010-2014 roedd yno 11.6 o flynyddoedd o wahaniaeth yn nisgwyliad oes iach dynion oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o gymharu â'r rheiny oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. I fenywod, roedd gwahaniaeth o 12.1 o flynyddoedd rhwng y rheiny oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016).

Gweithgarwch corfforol


Mae un o bob pedwar o bobl 55-64 oed yn gorfforol anweithgar, sy'n golygu eu bod yn gwneud llai na hanner awr o weithgarwch corfforol bob wythnos. Mae'r gyfran yn cynyddu wrth i bobl heneiddio, ac mae'r gyfran fwyaf ymysg pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae gweithgarwch corfforol yn fuddiol mewn sawl ffordd, gan gynnwys gwella iechyd meddwl a lles, lleihau'r perygl o ddementia

(gweler isod) a lleihau'r perygl o fod dros bwysau neu'n ordew, ac os yw'r gweithgarwch corfforol yn cynnwys dulliau i hybu nerth a chydbwysedd bydd hefyd yn lleihau'r perygl o syrthio. Er mwyn cynorthwyo mwy o bobl i fod yn gorfforol weithgar ar ganol eu bywydau a phan maent yn hŷn mae gofyn buddsoddi mewn rhaglenni i hybu nerth a chydbwysedd; hyrwyddo teithio llesol a seilwaith ar gyfer cerdded a beicio; ac annog y sector ffitrwydd a hamdden i fod yn fwy cadarnhaol ynglŷn â phobl hŷn a chynnig mwy iddynt.

Codymau ac atal codymau

Mae nifer y bobl a gaiff eu derbyn i'r ysbyty ar ôl cael codwn yn debygol o gynyddu. Mae cael codwm yn berygl arwyddocaol i bobl hŷn ac mae'r anafiadau y mae pobl yn eu cael yn destun pryder yn enwedig, gan gynnwys torri clun. Ar ôl i rywun hŷn gael codwm mae arnynt fwy o angen am wasanaethau i'w helpu i adennill eu hannibyniaeth ac adfer eu hyder a'u sgiliau, yn enwedig felly ar ôl bod yn yr ysbyty. Gall colli hyder, sgiliau ac annibyniaeth gyfrannu at unigrwydd ac arwahanrwydd. Dengys y siart isod sut mae nifer y bobl a gaiff eu derbyn i'r ysbyty ar ôl cael codwn yn debygol o gynyddu.

Siart 12: Nifer y bobl 60 oed a hŷn y rhagwelir a gaiff eu derbyn i'r ysbyty oherwydd cael codwm



Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru, Daffodil Cymru

Mae lleihau achosion o gael codwm a thorri asgwrn yn bwysig er mwyn cynnal iechyd pobl hŷn, eu lles a'u hannibyniaeth. Amcangyfrifir bod rhwng 230,000 a 460,000 o bobl dros 60 yn cael codwm yng Nghymru bob blwyddyn (Heneiddio'n Dda yng Nghymru). Amcangyfrifir bod codymau'n costio mwy na £2.3 biliwn y flwyddyn i'r GIG yn y Deyrnas Gyfunol. Mae llawer o bethau'n medru peri i rywun gael codwm ac mae'r ffactorau sy'n creu risg yn cynnwys gwendid yn y cyhyrau, diffyg cydbwysedd, nam ar y golwg, amlygyffuriaeth, peryglon amgylcheddol a rhai cyflyrau meddygol penodol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall gweithio i atal codymau leihau nifer yr achosion rhwng 15% a 30%. Er mwyn mynd i'r afael â'r perygl o godymau, mae'n ofynnol mabwysiadu dull system gyfan i leihau'r risgiau gydol oes pobl, drwy adnabod achosion ac asesu risgiau, darparu rhaglenni ymarfer corff i hybu nerth a chydbwysedd, cartrefi iach, lleihau amgylcheddau gofal â risgiau mawr, gwasanaethau cyswllt i bobl sydd wedi torri asgwrn, a gofal cydweithredol ar gyfer anafiadau difrifol.

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dîm atal codymau ymhob un o'r tair ardal (Dwyrain, Canol a Gorllewin). Mae yno brif swyddog atal codymau sy'n arwain y gwaith cymunedol ymhob ardal, ac mae'r Gronfa Gofal Integredig yn ariannu timau'r Canol a'r Gorllewin, a hefyd yn darparu rhywfaint o gyllid tîm y Dwyrain. Gellir atgyfeirio pobl at y timau os canfyddir eu bod mewn perygl neu wedi cael codwm, ac mae'r tîm atal codymau'n darparu dosbarthiadau nerth a chydbwysedd, er bod Covid-19 wedi cael effaith ar hynny.

Mae'r timau'n medru asesu pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain a'u cynorthwyo i leihau'r perygl o gael codwm drwy wneud asesiad risg ar sail amrywiaeth o ffactorau. Gellir darparu ymyriadau ar sail asesiad, gan gynnwys asesu'r amgylchedd, darparu cyfarpar, asesu symudedd a darparu cymhorthion symudedd, rhoi cyngor, dosbarthiadau nerth a chydbwysedd, rhaglenni ymarfer corff gartref, atgyfeirio at y Tîm Aml-ddisgyblaethol ac unrhyw wasanaethau eraill ar sail yr anghenion. Mae'r tîm hefyd yn hyrwyddo negeseuon a digwyddiadau cenedlaethol a lleol ynglŷn ag atal codymau. Mae hynny'n cynnwys ymweld ag ysgolion i ddarparu gwybodaeth am iechyd esgyrn pan mae plant yn ifanc.

Darperir hyfforddiant a chefnogaeth hefyd i gartrefi gofal ledled y rhanbarth. Ceir grŵp gweithredol ymhob ardal sy'n cwrdd yn gyson â budd-ddeiliaid. Mae prosiectau peilot hefyd ar waith yn y Timau Adnoddau Cymunedol, Gartref yn Gyntaf, timau nyrsys ardal, ysbytai cymunedol a wardiau adsefydlu er mwyn helpu i gynyddu gwybodaeth a rhoi'r grym i bobl asesu risg yn gymwys. Rhwng 01/01/2021 a 22/11/2021, gwnaed 690 o atgyfeiriadau at y tîm atal codymau. Crëwyd cronfa ddata i olrhain yr ymyriadau a chadw golwg ar y canlyniadau i'r bobl sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth.

Mae nifer yr atgyfeiriadau'n dal yn llai na chyn y pandemig. Mae'r timau'n darparu rhaglenni ymarfer corff gartref ond yn gweld bod y galw'n cynyddu oherwydd y cyngor i bobl warchod eu hunain a'r ffaith bod y cyfnodau clo wedi cyfyngu pobl i'w cartrefi. Ar ôl y cyfnodau clo roedd pobl yn dal yn debygol o fod yn gyndyn o fynd allan i siopa, dilyn diddordebau ac ati a sylwodd y gwasanaeth ar gynnydd mewn achosion o gyflwr corfforol pobl yn dirywio.

Cymunedau oed-gyfeillgar

Mae cymunedau oed-gyfeillgar yn fannau ble gall pobl o bob oed fyw bywydau iach a gweithgar. Mae'r ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd yn aml yn bethau pwysig sy'n medru effeithio ar oed-gyfeillgarwch ein cymunedau. Mae tai, yr amgylchedd, gwaith ac incwm oll yn ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar ein hiechyd a'n lles ac sy'n medru cael effaith arwyddocaol ar heneiddio'n iach.

Tai

Gall tai gael effaith arwyddocaol ar heneiddio'n iach. Mae'r rhan helaeth o bobl hŷn yn byw mewn tai prif ffrwd yn hytrach na thai arbenigol. Mae llawer o'r cartrefi prif ffrwd hynny'n cyfrannu at iechyd gwael ymysg pobl hŷn gan eu bod yn oer ac yn llaith a bod yno berygl o faglu a chael codwm. Mae perchnogion tai hŷn yn aml iawn yn gyfoethog o ran asedau ond yn dlawd o ran arian parod, hynny yw bod ganddynt eiddo gwerthfawr ond incymau isel. Byddai gwella ac adnewyddu tai, a buddsoddi mwy mewn tai arbenigol ar gyfer pobl hŷn, yn lleihau'r peryglon yn sylweddol (drwy leihau peryglon baglu, er enghraifft) ac arbed llawer iawn o arian i'r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Yr amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn dylanwadu ar ba mor egniol y gall pobl hŷn fod mewn cymdeithas. Gall yr amgylchedd adeiledig a mannau yn yr awyr agored ddylanwadu ar iechyd a lles hirdymor y rhai hynny ohonom sy'n eu defnyddio'n gyson, lleihau'r perygl o godymau, hybu gweithgarwch corfforol a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol. Mae hynny'n medru cynnwys mynediad at fannau gwyrdd, dyluniad adeiladau a mannau cyhoeddus (gan gynnwys canol ein trefi) a chludiant. Wrth wneud y rhain yn hygyrch i bobl hŷn gellir sicrhau eu bod yn dal i gymryd rhan mewn cymdeithas. Gellir gwneud newidiadau allweddol er mwyn gwneud yr amgylchedd yn fwy oed-gyfeillgar, gan gynnwys pethau fel:

- Cynnal a chadw palmentydd.
- Darparu meinciau cyhoeddus.
- Gwella diogelwch ar y ffyrdd drwy ostwng terfynau cyflymder.
- Gosod amseriadau priodol ar oleuadau traffig i gerddwyr a cheir.
- Croesfannau wedi'u rheoli gan oleuadau traffig.
- Ynsoedd croesi i gerddwyr.

- Cludiant cyhoeddus mwy hygyrch gyda llai o bellter rhwng safleoedd, arosfannau cysgodol, arwyddion a seddi o ansawdd da mewn ardaloedd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Sicrhau bod cymunedau'n deall dementia a chynnwys elfennau sy'n gyfeillgar i ddementia mewn datblygiadau newydd.

Mae gofyn i bartneriaid gydweithio wrth gyd-gynhyrchu'r amgylcheddau hyn gyda phobl hŷn.

Cynhwysiad digidol

Wrth i fwy o wybodaeth a gwasanaethau fynd ar-lein, mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn medru elwa ar y cyfleoedd sy'n codi o ran cael mynediad at wasanaethau a lleihau unigedd. Mae yno 4.8 miliwn o bobl hŷn na 55 sy'n dal ddim ar y rhyngwrwd, ac maent yn ffurfio 91% o'r holl boblogaeth nad ydynt ar-lein (5.3 miliwn o bobl) (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2018). Mae 87% o'r holl bobl 65 i 74 oed yn defnyddio'r rhyngwrwd o gymharu â 99% o'r holl bobl 16 i 44 oed. Mae llai o bobl yng Nghymru'n defnyddio'r rhyngwrwd i reoli eu hanghenion iechyd o gymharu â'r Deyrnas Gyfunol yn gyffredinol. Dim ond 36% o bobl dros 75 sydd â sgiliau digidol sylfaenol. Mae rhai o'r carfannau sydd wedi'u heithrio fwyaf o'r byd digidol hefyd yn fwy tebygol o fod yn defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (Cymunedau Digidol Cymru, 2021).

Heb fynd i'r afael â'r gagendor ar-lein mae pobl hŷn, ac yn enwedig felly'r rhai hynny sy'n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig, mewn mwy o berygl o iechyd gwael. Un o'r rhwystrau cyffredin rhag defnyddio'r rhyngwrwd yw diffyg sgiliau digidol, yn ogystal â diffyg ymddiriedaeth a bod heb gyfarpar addas neu gysylltiad band eang (Age UK, 2021).

Un ffordd o ddatrys hynny yw darparu cymorth amrywiol i bobl hŷn fel y gallant fagu sgiliau digidol, gan gynnwys darparu cefnogaeth dros y ffôn a galwadau fideo. Mae angen amser a buddsoddiad er mwyn sicrhau bod gan bobl hyn y cyfle i ddysgu ymddiried yn y dechnoleg. Dylai hefyd fod dewis ar gael er mwyn sicrhau y gall y rheiny nad ydynt yn dymuno defnyddio'r rhyngwrwd yn dal yn medru cael mynediad at wasanaethau.

Unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol

Mae oddeutu 10% o bobl dros 65 yn sôn eu bod yn profi unigrwydd cronig ar ryw adeg (Victor, C, 2011). Wrth i niferoedd pobl hyn gynyddu mae'n debygol y bydd cynnydd hefyd yn nifer y bobl sy'n teimlo'n unig. Canfuwyd hefyd bod carfannau penodol o bobl hŷn mewn mwy o berygl o unigrwydd ac arwahanrwydd. Mae arolygon yn awgrymu fod pobl hŷn sy'n lesbiaidd neu'n hoyw hefyd yn profi lefelau uwch o unigrwydd. Mae unigrwydd yn gysylltiedig ag amrywiaeth o beryglon iechyd, gan gynnwys clefyd coronaidd y galon, iselder, dirywiad gwybyddol a marwolaeth gynamserol (Valtorta et al., 2016). Mae'n hanfodol datblygu ymatebion i fynd i'r afael ag unigrwydd ymysg pobl hŷn er mwyn atal yr effeithiau andwyol.

Ceir cydnabyddiaeth fod yno nifer o heriau allweddol wrth fynd i'r afael ag unigrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys cyrraedd unigolion sy'n unig, deall natur yr unigrwydd a ffurfio ymateb sy'n addas i'r unigolyn, a chefnogi pobl sy'n unig i gael mynediad at y gwasanaethau priodol. Wrth ystyried unigrwydd yn y fframwaith hwn gellir sicrhau bod yr ymyriadau a gynigir yn cyrraedd y bobl hynny sydd arnynt angen y gwasanaethau, a bod y gwasanaethau wedi'u haddasu yn ôl eu hanghenion.

5.6 Dementia

Diffiniad

Daw'r diffiniad o ddementia o Strategaeth Dementia Gogledd Cymru a gyhoeddwyd fis Mawrth 2020. Mae'r term 'dementia' yn disgrifio symptomau a fedr gynnwys colli cof ac anawsterau gyda meddwl, datrys problemau neu iaith. Mae yno lawer o wahanol fathau o ddementia. Yr un mwyaf cyffredin yw clefyd Alzheimer, ond mae yno rai eraill hefyd fel dementia fasgwlaidd neu ddementia cyrff Lewy.

Dementia cynnar yw dementia sy'n cychwyn pan mae rhywun o dan 65 oed ar adeg y diagnosis ac mae'n effeithio ar oddeutu 5% o bobl â dementia.

Mae **nam gwybyddol ysgafn** yn ddirywiad mewn galluoedd meddyliol sy'n fwy na heneiddio arferol ond nid yw'n ddigon difrifol i ymyrryd yn sylweddol â bywyd bob dydd, felly ni chaiff ei ddiffinio fel dementia. Mae'n effeithio ar amcangyfrif o 5% i 20% o bobl dros 65 oed. Mae bod â nam gwybyddol ysgafn yn cynyddu risg unigolyn o ddatblygu dementia ond ni fydd pawb â nam gwybyddol ysgafn yn datblygu dementia.

Yr hyn a wyddom am y boblogaeth

Amcangyfrifir bod rhwng 10,000 a 11,000 o bobl yn byw gyda dementia yng ngogledd Cymru. Cyhoeddwyd yr amcangyfrif lleiaf yn Ystadegau'r Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau (Welsh Government, 2018a) ac mae'r amcangyfrif mwyaf yn dod o amcanestyniadau Daffodil (Institute of Public Care, 2017).

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y bobl yng ngogledd Cymru sy'n byw â dementia.

Tabl 35: Nifer y bobl yng ngogledd Cymru â dementia, fesul sir, 2017

Cyngor lleol	Cyfanswm y boblogaeth 30-64 oed â dementia cynnar	Cyfanswm y boblogaeth 65 oed a hŷn â dementia	Cyfanswm
Ynys Môn	20	1,200	1,200
Gwynedd	30	2,000	2,000
Conwy	35	2,400	2,400
Sir Ddinbych	25	1,500	1,600
Sir y Fflint	40	2,100	2,200
Wrecsam	35	1,800	1,900
Gogledd Cymru	190	11,100	11,200

Ffynhonnell: Daffodil Cymru


Mae proffil oedran gogledd Cymru'n hŷn na'r cyfartaledd yng Nghymru a cheir cyfran fwy o bobl hŷn a chyfran lai o bobl iau yn y rhanbarth o gymharu â Chymru gyfan. Rhagwelir y bydd y tueddiad hwnnw'n parhau yn ôl amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru. Yn 2018 amcangyfrifwyd fod yno 160,900 o bobl dros 65 yn byw yng ngogledd Cymru. Rhagwelir y bydd hynny'n cynyddu i 206,900 erbyn 2038 (Llywodraeth Cymru, 2020). Bydd hynny oherwydd gostyngiad mewn cyfraddau marwolaeth a fydd yn golygu fod pobl yn byw'n hwy, yn ogystal â'r ffaith bod y garfan fawr o fabanod a anwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn heneiddio. Bu yno gyfnod arall pan aned nifer fawr o fabanod ddechrau'r 1960au, sydd wedi'u cynnwys yn y band oedran hwn tua diwedd y cyfnod rhagamcanol.

Wrth i bobl fyw'n hwy, amcangyfrifir y bydd nifer yr achosion o ddementia yn cynyddu gan mai oedran yw'r ffactor risg mwyaf hysbys. Mae **Error! Reference source not found.** yn dangos y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl hŷn â dementia

yng ngogledd Cymru ar sail y dybiaeth hon. Mae cynnydd o 64% rhwng 2017 a 2035, a fyddai'n golygu bod oddeutu 7,000 yn fwy o bobl yn byw â dementia yng ngogledd Cymru. Rhagwelir y bydd Sir y Fflint yn gweld y cynnydd mwyaf yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia.

Mae astudiaeth yn awgrymu nad yw'r twf aruthrol a ragwelwyd mewn achosion o ddementia wedi digwydd, a bod y gyfradd o achosion mewn oedrannau penodol wedi gostwng oddeutu 20%, yn bennaf ymysg dynion gyda chyfraddau menywod heb ostwng cymaint (Matthews *et al.*, 2016). Mae hynny'n golygu, wrth i nifer y bobl 65 oed a hŷn gynyddu yn y Deyrnas Gyfunol, bod nifer y bobl sy'n datblygu dementia bob blwyddyn wedi aros yn gymharol sefydlog. Gallai hynny fod oherwydd gwell iechyd a threulio mwy o flynyddoedd mewn addysg er enghraifft, yn ogystal â llai o ddynion yn ysmegu, pobl yn bwyta llai o halen ac yn gwneud mwy o ymarfer corff. Mae ymchwilwyr wedi rhybuddio, serch hynny, y gallai cynnydd mewn ffyrdd llai iach o fyw wrthdroi'r tueddiad hwn yn y dyfodol.

Siart 13: Nifer y bobl 65 oed a hŷn y rhagwelir a fydd â dementia rhwng 2017 a 2035



Ffynhonnell: Daffodil

Mae nam gwybyddol ysgafn yn ddirywiad mewn galluoedd meddyliol sy'n fwy na heneiddio arferol ond nid yw'n ddigon difrifol i ymyrryd yn sylweddol â bywyd bob dydd, felly ni chaiff ei ddiffinio fel dementia. Amcangyfrifir ei fod yn effeithio ar 5% i 20% o bobl dros 65 oed. Mae bod â nam gwybyddol ysgafn yn cynyddu risg unigolyn o ddatblygu dementia. Ceir gwahanol amcangyfrifon o nifer y bobl â namau gwybyddol ysgafn sydd wedyn yn datblygu dementia bob blwyddyn, gan amrywio o

tua 5% i 15% bob blwyddyn (Alzheimer's Society, 2019). Nid yw pawb sydd â nam gwybyddol ysgafn yn datblygu dementia.

Atal dementia

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gellid atal traean o'r achosion o ddementia ymysg pobl hŷn drwy newid ffyrdd o fyw pan mae pobl ar ganol eu hoes (40-64 oed). Ceir dystiolaeth fod anweithgarwch corfforol, bod yn ysmygwr, diabetes, pwysedd gwaed uchel mewn canol oed, gordewdra mewn canol oed ac iselder yn cynyddu'r perygl o ddementia, a bod gweithgarwch meddyliol yn medru lleihau'r perygl. Mae'r ymchwil yn dangos mai anweithgarwch corfforol ar ganol oes yw'r peth sydd fwyaf yn creu risg o ddementia. Mae pobl sy'n gorfforol anweithgar ar ganol eu hoes fwy na dwywaith yn fwy tebygol o gael dementia pan fyddant yn hŷn na phobl sy'n gorfforol weithgar. Mae hynny'n tanlinellu mor bwysig yw ystyried pa newidiadau cadarnhaol y gall unigolyn eu gwneud, gan fod yno ddigonedd o dystiolaeth i ddangos bod amryw ffyrdd o ymddwyn ar ganol oes yn medru effeithio ar y perygl o ddementia yn nes ymlaen.

Sut allwn ni leihau'r risgiau?

Bydd ymddygiad iach yn cyfrannu at leihau'r perygl o ddatblygu dementia. Mae dewisiadau iach ynglŷn â ffordd o fyw hefyd yn medru gwella iechyd a lles a helpu i gynnal symudedd rhywun ar ôl cael diagnosis. Dylai cynlluniau i gefnogi pobl i wneud dewisiadau iach ystyried amrywiaeth o wahanol weithgareddau a fedrai fynd i'r afal â mwy nag un ffactor risg ar yr un pryd. Er enghraifft, pe byddai rhywun yn dymuno colli pwysau gellid darparu gwybodaeth iddynt am bwysau iach a'u hannog i fod yn fwy gweithgar. Mae Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Dementia yng Nghymru, 2018-2022, yn datgan nad yw hi byth yn rhy gynnar nac yn hwyr i wneud newidiadau yn eich ffordd o fyw, a bod modd gwneud hynny drwy ddilyn chwech o gamau syml a fedrai leihau'r perygl o ddementia.

Yr hyn a ddywed pobl wrthym

Mae tîm Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint yn datblygu'r Strategaeth Dementia gyda chymorth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, darparwyr gofal annibynnol, sefydliadau yn y trydydd sector a grwpiau cymunedol. Mae hynny'n adlewyrchu dull cydgynhyrchiol o ddatblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig.

Dyma grynodeb o'r prif ganfyddiadau, ar sail yr hyn a ddywedodd pobl yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Dementia Sir y Fflint, a cheir rhagor o sylwadau yn yr Adroddiad Ymgysylltu.

- Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad yn Sir y Fflint yr un fath i raddau helaeth â'r themâu a champau blaenoriaethol a nodwyd yn Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Dementia.
- Yn ogystal â chadarnhau ac ategu'r strategaeth ranbarthol, mae'r ymgynghoriad yn Sir y Fflint wedi darparu gwybodaeth bwysig am yr anghenion a'r rhwystrau lleol ar hyn o bryd, ac yn rhoi rhywbeth i ganolbwyntio arno wrth gynllunio camau gweithredu penodol yn y tymor byr a'r tymor hir.
- Mae dementia yn cael ei weld fel clefyd sy'n dod yn fwyfwy cyffredin yn Sir y Fflint bob blwyddyn. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl o ddementia wedi gwella, ond nid da lle gellir gwell ac mae yna le i gynyddu gwybodaeth a threchu camdybiaethau, yn enwedig ymhlith pobl ifanc.
- Mae yna ofn a stigma yn ymwneud â dementia, ac mae cael diagnosis yn gallu atal pobl neu'u hanwyliaid rhag byw'n dda. Mae cysylltu pobl a rhannu straeon cadarnhaol yn gallu helpu.
- Mae'r broses asesu a derbyn diagnosis i'w gweld yn cymryd yn rhy hir i rai pobl, gydag amseroedd aros maith, ansicrwydd ynghylch y camau nesaf a chymorth cyfyngedig gydol y profiad.
- Mae llawer o brofiadau cadarnhaol o ran gweithredu ac ymgysylltu yn y gymuned, gyda galw mawr am grwpiau, caffis a gweithgareddau newydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae cyfyngiadau Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned. Bydd angen cymorth sefydliadol ac ariannol ychwanegol i alluogi pethau i ailgychwyn ac i gynnal pethau newydd.
- Mae mynediad at wasanaethau gofal a seibiant hyblyg a gweithgareddau cymunedol yn gallu bod yn gyfyngedig, gyda heriau cludiant lleol yn ychwanegu at hynny.
- Mae rhywfaint o flinder mewn perthynas ag ymgynghoriadau, strategaethau a chynlluniau gweithredu.

5.7 Yr hyn a ddywed pobl wrthym

Mewn ymateb i'r arolwg ymgysylltu rhanbarthol, dywedodd pobl fod enghreifftiau yma ac acw o wasanaethau oedd yn gweithio'n dda. Mae timau sy'n pontio gwahanol sectorau a sefydliadau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd er mwyn bodloni anghenion pobl hyn, ac mae ynddynt staff ymroddedig a chymwys sydd oll yn gweithio'n galed mewn sefyllfaoedd anodd. Roedd yr enghreifftiau penodol a roddwyd yn cynnwys:

- Asesiadau cyflym i bobl hyn yn Sir y Fflint.
- Gwasanaethau Cymdeithasol rhagweithiol a dynamig yn Sir y Fflint.
- Cynlluniau gofal a chymorth integredig Sir Ddinbych wedi gwella.
- Gofal ardderchog gan aelodau unigol o staff yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam.
- Cefnogaeth gan Gorwel gydag anghenion tai.

Ym marn yr ymatebwyr roedd y dulliau canlynol o ddarparu gofal i bobl hyn ymysg y rhai oedd yn gweithio'n dda:

- Cynnig amrywiaeth o gymorth i bobl fedru dewis.
- Dewisiadau ar gyfer meithrin cyswllt â gwasanaethau a chymunedau ar-lein ac all-lein.
- Darparu gwasanaethau dwyieithog.
- Cartrefi gofal sy'n sicrhau y cyflawnir canlyniadau lles ac annibyniaeth, ac yn rhoi'r sicrwydd o ofal dros nos pan mae angen.
- Gwasanaethau cefnogi yng nghartrefi pobl.
- Darparu cefnogaeth i bobl hyn ar ffurf mân bethau fel gwybodaeth a rhifau ffôn, fel bod modd iddynt helpu eu hunain a chadw'n annibynnol.

Roedd gan rai pobl farn fwy negyddol ynglŷn ag anghenion gofal a chymorth pobl hyn. Un peth a ddaeth i'r amlwg oedd diffyg cymorth i bobl hyn oedd yn gadael yr ysbyty. Câi pobl eu rhyddhau o'r ysbyty heb unrhyw ofal wedi'i drefnu, ac yn dychwelyd i'r ysbyty gan na fedrant ymdopi.

Anelir gwasanaethau at reoli argyfyngau yn hytrach na chanolbwyntio ar gefnogaeth ataliol. O ganlyniad i hynny roedd pobl yn gorfod mynd i leoliadau'n bell o gartref, ac yn groes i ddymuniadau'r teuluoedd. Mae angen buddsoddi mwy mewn

gwasanaethau arbenigol er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt cyn i bethau fynd yn argyfwng.

Pryderai rhai pobl nad oedd pobl hŷn ag anghenion dwys, gan gynnwys anghenion nyrso a gofal dementia, yn cael gofal digonol gan nad oedd gofal ar gael ond ar lefel isel. Darperir gofal mewn argyfwng i bobl hŷn sy'n cael codwm a chael anaf, ond mae angen gwasanaeth i ymateb i bobl sy'n cael codwm heb gael anaf, a gofal cartref y tu allan i oriau. Ar hyn o bryd, os oes ar rywun hŷn angen cymorth ychwanegol oherwydd digwyddiad annisgwyl fel gofalwr yn mynd yn sâl, nid oes ganddynt unrhyw fynediad at gefnogaeth.

Mae hefyd angen amrywiaeth fwy helaeth o ddewisiadau tai addas er mwyn diwallu'r gwahanol anghenion a darparu'r gwahanol lefelau o ofal a chymorth i bobl hŷn. Ym marn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, wrth ddiwallu anghenion gofal pobl hŷn mae angen:

- Symleiddio pethau fel y gall un unigolyn ddarparu amrywiaeth o gymorth yn hytrach na bod llawer o wahanol bobl yn darparu tameidiau o gymorth fesul un.
- Trefnu pethau'n well, fel y gellir bodloni anghenion unigolion yn iawn.
- Bod yr un aelod o staff yn darparu'r holl gymorth, fel bod dim angen 'ailadrodd eich hun bob tro' a bod y staff yn dod i adnabod yr unigolion a'u hanghenion.
- Monitro'r drefn yn well er mwyn sicrhau y darperir y nifer iawn o oriau.
- Bod yn fwy hyblyg fel bod modd darparu gwasanaethau dim ond pan gyfyd angen, ar adeg sy'n gyfleus i'r cleient ac y gellir ei newid mewn ymateb i newid yn yr anghenion.
- Bod pethau'n para'n hwy, gyda chyfnodau hwy ar gyfer adolygiadau, yn hytrach na chau achosion 'pan ddaw'r cyfle cyntaf'.
- Hysbysebu gwasanaethau'n well fel bod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o leoedd a chyfryngau, yn hytrach na dibynnu ar y rhyngwyd.
- Bod yr anghenion yn llywio'r gofal yn hytrach na bod defnyddiwr y gwasanaeth yn gorfod addasu i'r hyn a gynigir.
- Cefnogaeth drwy daliadau uniongyrchol fel y gall pobl hŷn reoli eu gofal eu hunain a / neu gyflogi staff eu hunain.

Roedd rhai pobl o'r farn y gellid gwella gwasanaethau drwy sicrhau cydweithio mwy helaeth ac effeithiol rhwng awdurdodau a darparwyr gofal preifat, a rhwng y

gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Y ddau bryder pennaf oedd cyfathrebu ynglŷn â rhyddhau pobl o'r ysbyty, a chydlynu pecynnau gofal ar y cyd.

“Does dim math o gydgyllunio na chydlynu'n digwydd rhwng iechyd, gofal cymdeithasol, elusennau a chwmnïau gofal dan gontractau. Mae hynny'n gorfodi gofalwyr i gydlynu'r holl wasanaethau, sy'n faich ar ben popeth arall.”

Dywedodd y rhan helaeth o'r ymatebwyr mai prinder staff oedd un o'r problemau mwyaf mewn gwasanaethau i bobl hŷn. Ychydig iawn o bobl sy'n dymuno gweithio yn y sector gofal ac mae'r cyflogau'n rhy isel, gan ystyried fod anghenion pobl hŷn yn llawer dwysach nag oeddent flynyddoedd yn ôl.

“Mae'r prinder staff aruthrol yn effeithio ar ddefnyddwyr y gwasanaethau, sy'n bobl fregus ac oeddrannus, gyda galwadau o ansawdd gwael, rhai galwadau ddim yn digwydd o gwbl, a staff yn methu â darparu'r amser llawn a gytunwyd ar gyfer pecynnau gofal.”

Awgrymwyd ffyrdd o ddatrys hynny, gan gynnwys:

- Codi cyflogau staff uwchlaw'r isafswm cyflog a gwella amodau gwaith er mwyn denu gweithwyr newydd a chadw'r rhai presennol.
- Buddsoddi mewn hyfforddiant a chreu gwell fframwaith o yrfaeodd i staff gofal, a rhoi gwobrau ariannol am ddatblygu sgiliau a phrofiad fel bod gweithwyr proffesiynol cymwys yn darparu'r gwasanaethau, yn hytrach na phobl ifanc dibrofiad.
- Gwneud swyddi'n rhai parhaol yn hytrach na'u cynnig am gyfnodau penodol, neu'u bod yn ddibynnol ar gyllid.
- Sefydlu amodau a thelerau safonol i staff gydol y sector er mwyn hybu sefydlogrwydd y gweithlu.
- Cefnogi asiantaethau gofal a'u cymell i ddanfôn gweithwyr fesul i ddarparu gofal a gwella sgiliau'r staff ar gyfer hynny, yn hytrach na thybio bob amser fod angen dau weithiwr i ddarparu gofal.

Mae'n amlwg fod angen mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno newidiadau o'r fath fel bod gwasanaethau'n medru gweithredu cystal ag y medrant, a bod defnyddwyr gwasanaethau'n derbyn gofal o ansawdd uchel ar yr adegau iawn.

Awgrym arall oedd mabwysiadu'r dull a ddilynir gan ddarparwyr gofal yn yr Eidal, lle mae busnesau bach yn gweithio gyda'i gilydd i rannu costau prynu a hyfforddi ac yn rhannu'r elw drwy fentrau bach ychwanegol.

Derbyniwyd ymatebion penodol hefyd ynglŷn â phobl hŷn ag anableddau dysgu. Roedd taliadau uniongyrchol yn gweithio'n dda, ond gellid gwella pethau eraill fel cynyddu nifer y gweithwyr cymorth a dyrannu mwy o oriau gofal. Ceir rhagor o wybodaeth am bobl hŷn ag anableddau dysgu yn y bennod ar y pwnc hwnnw.

Ychydig iawn o'r ymatebwyr a soniodd am agweddau ar wasanaethau i bobl hŷn â namau corfforol / synhwyraidd a oedd yn gweithio'n dda. Dyma'r hyn a ddywedwyd:

- Mae staff iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn gweithio'n agosach nad oeddent o'r blaen, yn rhannol oherwydd cyflwyno'r Timau Adnoddau Cymunedol.
- Mae Prif Swyddog newydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn annog gwell cysylltiadau rhwng y trydydd sector a sefydliadau gwerth cymdeithasol.
- Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru yn darparu gofal seibiant gwerthfawr (er bod hynny'n gyfyngedig).

Amlygodd rhai ymatebwyr faterion fel y prinder dybryd o dai hygrych a fforddiadwy, sy'n cael effaith ar wasanaethau gan fod angen mwy o gefnogaeth ar bobl. Ni ddylunnir llawer o dai newydd i fod yn hygrych. Mae hynny'n cael effaith andwyol ar y ffordd y mae pobl anabl a phobl hŷn yn byw. Gofal preswyl yw'r unig ddewis iddynt oherwydd prinder dewisiadau hyblyg a chreadigol.

Ychydig iawn o gefnogaeth, cwnsela a chyngor sydd ar gael i bobl sy'n ei chael yn anodd ymdopi â cholli clyw ac yn teimlo'n unig neu'n ofnus. Mae'n anodd, er enghraifft, dod o hyd i gyrsiau dysgu iaith arwyddion. Mae gwasanaethau'n bytiog ac nid oes unrhyw fan canolog i gael cefnogaeth a gwybodaeth. Byddai'n fuddiol cael gweithwyr cymdeithasol i helpu pobl ag anawsterau clyw.

Dywedodd staff mewn cartref gofal eu bod yn ei chael yn anodd cael mynediad at wasanaethau cymdeithasol ar gyfer eu preswylwyr gan fod gweithwyr cymdeithasol yn cau achosion unwaith y derbynir pobl i gartref gofal. Dywedant fod y drefn o wneud atgyfeiriadau drwy'r Un Pwynt Mynediad yn llafurus, ac roeddent yn pryderu ynglŷn â diffyg parhad gofal.

Gwnaed awgrymiadau penodol ar gyfer gwella gwasanaethau, gan gynnwys:

- Bod yn fwy prydlon
- Cyflogi mwy o staff fel nad yw gofalmwyr yn gorfod brysio, a bod dau weithiwr yn dod pan mae angen
- Gwell cyswllt rhwng aelodau o staff er mwyn sicrhau y bodlonir anghenion y cleient bob amser
- Adolygu anghenion gofal yn amlach
- Gweithredu i sicrhau yr eir i'r afael â materion a godir mewn adolygiadau.

Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn

Soniodd defnyddwyr gwasanaethau a gofalmwyr am y gwasanaethau penodol isod sy'n darparu cyngor a chymorth gwerth chweil:

- Cymdeithas Alzheimer's
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalmwyr y Gogledd Ddwyrain
- Gofalmwyr 24/7 Plas Cnigyll
- Gofal Seibiant Crossroads
- y gwasanaeth Trio
- y cynllun Pontio'r Bwlch ar gyfer gofalmwyr
- Ymarferwyr gofal cymdeithasol dementia
- Canolfan Ddydd yr Hafan.

Mae gwasanaethau'n gweithio'n dda pan maent yn darparu seibiant a chefnogaeth i'r unigolyn â dementia yn ogystal â'r sawl sy'n gofalu amdanynt, fel bod modd iddynt gael '*seibiant byr oddi wrth ei gilydd, ond yn yr un adeilad*'. Mae ymweliadau â chartrefi pobl yn gweithio'n dda hefyd, yn enwedig wrth helpu gofalmwyr i addasu i fyw â dementia. Soniodd rhai gofalmwyr y gallent ddod o hyd i ofal yn sydyn pan oedd angen, a'u bod yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth dda:

“Pan ffoniais i'r 'un pwynt mynediad' allwn i heb fod wedi siarad efo neb mor glên, ac roeddwn i mewn stad ofnadwy ar y pryd. Roedd hi'n braf medru cael gafael ar rywun – mi fydd angen eu cymorth eto, dwi'n siŵr.”

Soniodd darparwyr gwasanaethau bod y gefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n dda, ac yn enwedig felly'r cyfarfodydd wythnosol â'r

staff, y cymorth ariannol a'r Cyfarpar Diogelu Personol a ddarparwyd, yn ogystal â'r cyfathrebu effeithiol ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn y sector gofal. Amlygodd un ymatebydd y gefnogaeth ardderchog a gafwyd gan AGC a Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint.

Dyweddodd un gweithiwr cymdeithasol â blynyddoedd lawer o brofiad, serch hynny: 'Does dim llawer o bethau'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, a dweud y gwir.' Dim ond y gwasanaethau Teleofal, ynghyd â'r gwasanaeth tân, y soniwyd amdanynt fel pethau oedd yn gweithio'n dda i gadw pobl hŷn yn ddiogel.

Ar y cyfan, roedd angen darparu rhagor o wasanaethau er mwyn cwtdogi ar restrau aros, a gwella'r drefn atgyfeirio er mwyn hwyluso mynediad. Roedd yr argymhellion penodol ar gyfer gwella'n cynnwys:

- Llunio rhestr gynhwysfawr o'r gwasanaethau presennol oedd ar gael yn gyffredinol er mwyn bodloni anghenion darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth cyn iddi fynd yn argyfwng.
- Agor canolfannau dydd ar fwy o ddiwrnodau bob wythnos, gan gynnwys gwyliau banc a phenwythnosau.
- Rhoi diwedd ar unrhyw 'lotri cod post' ar gyfer gwasanaethau fel y gwasanaeth gwarchod am ddim i bobl â dementia a gynigir yn Sir Ddinbych, ond nid yn Sir y Fflint.

I gyflawni hyn mae'n rhaid bod y cyllid ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn yn gyfartal â'r hyn a ddosrennir i wasanaethau eraill. Mae hefyd angen symleiddio'r ffordd yr ariennir gofal unigolion a sicrhau cysondeb. Er enghraifft, sonnir bod cyllid Gofal Iechyd Parhaus yn arwain at wahanol ganlyniadau mewn sefyllfaoedd cyffelyb. Mae'n anodd recriwtio staff gofal ar gyfer gwasanaethau dementia:

"Mae'r straen ar y staff yn y pandemig wedi bod yn ormod; does dim ots faint rydyn ni'n ei dalu iddyn nhw, maen nhw wedi ymlâdd yn llwyr. Mae'n gwneud i bobl eraill feddwl ddwywaith cyn dod i weithio mewn gofal."

Mae prinder staff yn golygu bod gofal yn dod yn rhywbeth sy'n troi o amgylch tasgau, yn hytrach na thrin defnyddwyr gwasanaethau '*fel bodau dynol*'. Oherwydd prinder staff mewn cartrefi gofal nid oes cymaint o gyfathrebu â theuluoedd ac nid yw galwadau ffôn yn cael eu hateb bob tro.

Gellid gwella'r gofal a ddarperir gan ofalwyr cartref drwy sicrhau yr anogir staff i weithio yn y maes lle mae ganddynt y mwyaf o allu; naill ai iechyd meddwl neu iechyd corfforol. Mae angen hyfforddiant arbenigol ar y rheiny sy'n gweithio â phobl sy'n byw â dementia, yn ogystal ag amser ychwanegol i gyflawni tasgau. Nid oes digon o weithwyr sydd wedi'u hyfforddi ar gyfer dementia, a dylai'r awdurdodau lleol fynd i'r afael â hynny. Mae ar y Gwasanaethau Cymdeithasol angen sicrhau bod yr asiantaethau maent yn eu cyflogi i ddarparu gofal dementia'n cyflawni eu hymrwymadau ac yn dilyn cynlluniau gofal yn ofalus. Mae angen codi proffil y proffesiwn er mwyn denu staff o safon uchel.

Ceir bwlch mewn gwasanaethau o ran galwadau byr â chartrefi pobl i'w helpu â meddyginiaeth. Nid yw'r gwasanaeth iechyd na'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ymweld â phobl i roi moddion yn unig, ond mae ar bobl hŷn angen y gofal hanfodol hwn os ydynt yn ffwdrus.

Ar lefel systemaidd, mae angen i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol. Un awgrym ar gyfer cydweithio fyddai datblygu Canolfan Dementia Gogledd Cymru a fyddai'n medru darparu cefnogaeth i bawb cyn diagnosis ac wedi hynny. Mae Safonau Dementia Cymru Gyfan yn cefnogi hynny.

5.8 Adolygu gwasanaethau

Ceir ymrwymiad yng ngogledd Cymru i sicrhau fod pobl yn cael gofal a chymorth didor, wedi'i ddarparu'n nes at eu cartrefi. Er mwyn gwneud hynny mae gofyn atgyfnerthu'r modd y darperir gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn cymunedau. Mae amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol, iechyd cymunedol, gofal cymdeithasol a gwasanaethau yn y trydydd sector a'r sector annibynnol yn cael eu cyfuno er mwyn datblygu ardaloedd lle caiff iechyd a gofal cymdeithasol eu hintegreiddio, yn seiliedig i raddau helaeth ar ffiniau'r clystyrau gofal sylfaenol. Ategir hyn gan drefn gomisiynu fwy integredig a gwell cynllunio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel sirol.

Bydd integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn yr un lle'n golygu bod modd inni ddod â gwasanaethau ynghyd yng nghymunedau pobl a sicrhau eu bod wedi'u cydlynu, yn haws cael mynediad atynt ac yn medru darparu'r hyn sydd o bwys i bobl yn well.

Mae integreiddio iechyd a gofal yn yr un lle'n golygu hefyd y bydd y modd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu yn seiliedig ar anghenion penodol cymunedau

unigol, fel y'u pennir drwy gynnal Aseidiadau o Anghenion Ardaloedd. Bydd y Timau Adnoddau Cymunedol cryfach yn darparu gofal a chymorth mewn cymunedau ac yn cyfuno amrywiaeth o broffesiynau ac asiantaethau, gan gynnwys:

- Nyrsio cymunedol
- Meddygon teulu
- Gwaith cymdeithasol
- Fferyllwyr
- Ffisiotherapi
- Therapi galwedigaethol
- Staff cymdeithasau tai
- Asiantau / llyw-wyr / cysylltwyr cymunedol

Mae pobl gogledd Cymru wedi datgan yn bendant eu bod yn dymuno cael gwell mynediad at wasanaethau yn eu cymunedau eu hunain, a'u bod yn dymuno dal i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyhyd ag sy'n bosibl.

Bydd yr ardaloedd iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd yn gwella'r gefnogaeth sydd ar gael mewn cymunedau, sy'n golygu y gall pobl aros yn eu cartrefi eu hunain yn hwy, gyda gwell mynediad at amrywiaeth o wasanaethau i ddiwallu eu hanghenion. Yng ngogledd Cymru mae'r gwaith o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol wedi dechrau. Mae cynrychiolwyr o bob sector gan gynnwys Cyngorau, y GIG a'r trydydd sector wedi dod ynghyd i ffurfio Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal.

Y bwriad wrth gynllunio gwasanaethau ar lefel ardaloedd lleol yw gwella'r berthynas rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol statudol a chymunedau. Bydd timau Arweinyddiaeth Ardaloedd Lleol yn darparu cefnogaeth i wasanaethau a gweithgareddau cymunedol presennol yn ogystal â datblygu cyfleoedd newydd lle nad oes rhai'n bodoli eisoes.

Byddwn yn canolbwyntio ar wella iechyd a lles pobl yng ngogledd Cymru. Bydd pobl yn gallu cael gwell mynediad at ystod gyfan o gefnogaeth yn eu cymunedau eu hunain yn gynharach a byddwn yn ceisio osgoi darparu gwasanaethau arbenigol, megis gwasanaethau dydd traddodiadol, ac yn hytrach yn cysylltu pobl â gweithgareddau bob dydd yn eu cymunedau lleol.

Trwy ddarparu gofal yn nes at y cartref gallwn gefnogi mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hwy, gan arwain at lai o dderbyniadau i'r ysbyty a llai o bobl yn gorfod symud i ofal hirdymor.

Cymunedau digidol

Dechreuodd y cynllun Cymunedau Digidol Gogledd Cymru mewn ymateb i'r pandemig Covid-19. Prynwyd mwy na 350 o iPads drwy arian Trawsnewid Cymunedol, y Gronfa Gofal Integredig, arian gan Macmillan a chyllid craidd. Dosbarthwyd y rhain i ysbytai, hosbisau, cartrefi gofal ac unigolion mewn llety byw â chymorth er mwyn hwyluso ymweliadau rhithiol a galluogi pobl i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau ar-lein gyda meddygon teulu yn ystod y cyfnodau clo.

Bu'r prosiect mor llwyddiannus fel y gellid prynu rhagor o iPads, llechi a phethau fel Amazon Echo ac Amazon Show, yn ogystal â phlygiau clyfar ac amrywiaeth o ddyfeisiau digidol eraill. Rhannwyd y dyfeisiau ychwanegol hynny â chartrefi gofal hefyd ac fe'u defnyddir i hybu annibyniaeth ac fel rhan o amrywiaeth o weithgareddau lles. Fe'u defnyddir hefyd i ategu trefn gadarnhaol o reoli risg yn y gymuned.

Rydym wedi cydweithio â Chymunedau Digidol Cymru i hyfforddi gwirfoddolwyr cymunedol, a elwir yn Gyfeillion Digidol, i roi cyngor a chymorth i gynorthwyo pobl sydd erioed wedi defnyddio iPad o'r blaen i fynd ar-lein.

Cymunedau sy'n Deall Dementia

Mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru, mae Cyngor Sir y Fflint yn cyflogi tîm bach sy'n arwain datblygiad Cymunedau sy'n Deall Dementia, prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau, Caffis Cofio, gwaith ymchwil a rhaglenni sydd wedi'u hanelu at gefnogi pobl sy'n byw â dementia.

Seibiant dementia

Comisiynir Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i weinyddu a hyrwyddo cynllun seibiant i ofalwy pobl sy'n byw gyda dementia yng Nghanolfan Ddydd y Cyngor ym Marleyfield ar dydd Sadwrn am gyfnod o ddeuddeg wythnos.

Mae'r gwasanaeth hwn yn seiliedig ar atgyfeiriadau, lle caiff Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i weithio mewn partneriaeth â

Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint i ddarparu seibiant i ofalwr i berson sy'n byw gyda dementia o fewn Gwasanaeth Dydd Marleyfield y cyngor ar ddydd Sadwrn am gyfnod o 12 wythnos. Darperir manylion y gofalwyr i Wasanaeth Dydd Marleyfield ar gyfer asesiad o'r unigolyn sy'n byw gyda dementia i gael mynediad i'r gwasanaeth. Cwblheir yr asesiad gan uwch weithiwr gofal sy'n rheoli'r gwasanaeth seibiant.

5.9 Covid-19

Cyhoeddodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru adroddiad ynglŷn ag effaith Covid-19 ar bobl hŷn yng Nghymru (Gadael Neb ar Ôl: Camau Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn, 2020). Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr ystadegau allweddol canlynol ar gyfer Cymru:

- Roedd 94% o'r bobl a fu farw o Covid-19 yn hŷn na 60.
- Bu farw 694 o breswylwyr cartrefi gofal oherwydd Covid-19.
- Bu'n rhaid i 53,430 o bobl dros 70 warchod eu hunain yng Nghymru.
- Mae mwy na 50% o bobl dros 70 yn dweud bod Covid-19 wedi effeithio ar fynediad at siopau, meddyginiaeth a hanfodion eraill.
- Nid oes gan 41% o bobl dros 75 fynediad at y rhyngwrdd, ac wrth i lawer o wasanaethau fynd ar-lein yn ystod y pandemig, daeth allgáu digidol yn broblem fawr.

Er bod yr ystadegau hyn ar gyfer Cymru gyfan, byddant yn adlewyrchu'r sefyllfa i bobl hŷn yn rhanbarth gogledd Cymru. Yn ôl ystadegau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer gogledd Cymru, yr hyn a gafodd yr effaith fwyaf ar les oedd arwahanrwydd cymdeithasol oherwydd y cyfarwyddyd i warchod. Mae traean o bobl hŷn wedi dweud fod ganddynt lai o egni. Mae chwarter o bobl hŷn yn methu â cherddeu mor bell ag y gallent cyn y pandemig, ac mae un o bob pump yn teimlo'n llai cadarn ar eu traed (Ffeithlun Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, 2021).

Canfu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol fod mwy na 50% o bobl dros 60 yn gofidio am eu lles. O blith y rhain roedd 70% yn pryderu ynghylch y dyfodol, 54% o dan straen neu'n orbryderus, a 43% wedi diflasu. Canfuwyd bod pobl dros 60 yn ymdopi drwy gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, garddio, darllen ac ymarfer corff. Mae'r data'n dangos eu bod yn fwy tebygol o helpu eu cymdogion, yn poeni llai am arian, yn pryderu mwy am gael gafael ar hanfodion ac yn teimlo'n llai ffyddiog ynglŷn â gweld pen draw'r pandemig. Mae Banerjee (2020) hefyd yn honni fod pobl hŷn yn

fwy agored i broblemau iechyd meddwl yn ystod pandemig ac mae'n argymhell y dylid ystyried iechyd meddwl y garfan hon, sy'n medru cynyddu'r risg o orbryder ynglŷn ag iechyd, panig, iselder a theimlo'n unig, yn enwedig i bobl sy'n byw mewn sefydliadau.

Mae Hoffman, Webster a Bynum (2020) yn trafod goblygiadau unigrwydd i'r boblogaeth hŷn. Maent yn honni bod llai o weithgareddau corfforol, diffyg cyswllt cymdeithasol a chanslo apwyntiadau'n medru arwain at gynnydd mewn anabledau, perygl o anafiadau, llai o weithrediad gwybyddol a phroblemau iechyd meddwl. Mae Campbell (2020) hefyd yn dod i'r casgliad y gall arwahanrwydd cymdeithasol effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol, gan arwain at lai o weithgarwch corfforol, mynediad cyfyngedig at adnoddau, unigrwydd a hyd yn oed galar. Mae Cox (2020) yn honni bod y peryglon mwy i bobl hŷn yn waeth fyth oherwydd anghydraddoldeb, gan gynnwys salwch cronig, tlodi a hil, sy'n golygu fod pobl â chyflyrau hirdymor, statws economaidd-gymdeithasol isel a chefnidir Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig hyd yn oed yn fwy diamddiffyn.

Yn ôl y Ganolfan ar gyfer Heneiddio'n Well (2020), er bod llawer mwy o bobl dros 55 wedi mynd ar-lein, nid yw'r gagendor digidol ond wedi lledu yn ystod y pandemig wrth i fwy o wasanaethau fynd ar-lein yn unig. Mae'n bwysig sicrhau na chaiff pobl hŷn eu heithrio'n ddigidol wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Wrth adolygu ymyriadau o bell ar gyfer unigrwydd, amlygodd Boulton *et al* (2020) ddulliau sy'n medru lleihau unigrwydd, gan gynnwys cynlluniau cyfeillio dros y ffôn, cyfathrebu drwy fideo, grwpiau trafod ar-lein a chymysgedd o wahanol ddulliau. Maent yn honni mai'r dull mwyaf llwyddiannus oedd meithrin perthnasau agos, rhannu profiadau neu nodweddion, a rhywfaint o ofal bugeiliol. Cynhaliodd Noone *et al* (2020) adolygiad cyflym a oedd yn gwrthddweud hynny, gan awgrymu nad oedd tystiolaeth bendant i ddangos bod ymgynoriadau drwy fideo'n lleihau unigrwydd, symptomau iselder a/neu amhariadau ar ansawdd bywydau pobl, ac roedd angen casglu mwy o dystiolaeth o ansawdd uchel.

Mae sefydliadau trydydd sector sy'n cefnogi pobl hŷn ledled y rhanbarth wedi codi dau o bryderon mawr; yn gyntaf oll, allgáu digidol a'r angen i ddod o hyd i ddulliau gwahanol ar gyfer pobl heb y gallu na'r ewyllys i fynd i wneud pethau ar-lein. Mae'r ail bryder yn un a fynegwyd yn fynych gan bobl hŷn, sef gosod hysbysiadau DNR yn awtomatig ar bobl hŷn yn yr ysbyty yn ystod y pandemig.

Cynhaliodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru adolygiad cyflym ym mis Hydref 2020. Mae'r adolygiad cyflym yn crynhoi ymchwil sydd ar gael ynglŷn ag

effaith Covid-19 ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, gan gynnwys adran benodol ynghylch pobl hŷn. Mae [Adolygiad Cyflym o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth](#) yn cynnwys rhagor o wybodaeth am effaith Covid-19 ar y boblogaeth.

5.10 Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae rhagfarn ar sail oedran yn golygu stereoteipio pobl, rhagfarnu a/neu wahaniaethu yn eu herbyn ar sail eu hoedran neu ganfyddiad o'u hoedran (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Oedraniaeth 2019). Gall hyn gael effaith mewn sawl ffordd, gan gynnwys colli rhwydweithiau cymdeithasol, lleihad mewn gweithgarwch corfforol, effeithiau andwyol ar iechyd corfforol a meddyliol, colli sicrwydd ariannol a cholli dylanwad neu hunan-barch (Taflen Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ynglŷn â Rhagfarn ar sail Oedran, 2019).

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn datgan bod yn rhaid i ddarparwyr nwyddau a gwasanaethau (er enghraifft, siopau, meddygon teulu, deintyddion, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau cludiant fel bysus, gwasanaethau awdurdod lleol gan gynnwys mynediad at doiledau cyhoeddus) a chyflogwyr beidio â gwahaniaethu - na chynnig gwasanaethau neu driniaeth israddol – ar sail unrhyw nodwedd a ddiogelir, sy'n cynnwys oedran.

5.11 Diogelu

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio oedolyn mewn perygl fel rhywun sy'n profi camdriniaeth neu esgeulustod neu mewn perygl o hynny, sydd ag anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio) ac, o ganlyniad i'r anghenion hynny, sy'n methu ag amddiffyn eu hunain rhag y gamdriniaeth neu esgeulustod neu'r perygl o hynny. Ffurfiwyd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 er mwyn:

- Amddiffyn oedolion yn yr ardal sydd ag anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw cyngor lleol yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac yn cael eu cam-drin neu'u hesgeuluso, neu mewn perygl o hynny.
- Atal yr oedolion hynny yn yr ardal rhag bod mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod (Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, 2016).

Gall camdriniaeth fod yn gorfforol, ariannol, emosiynol, seicolegol, rhywiol a sefydliadol, ac mae'n cynnwys esgeulustod hefyd. Gall ddigwydd yng nghartref yr unigolyn, cartrefi gofal, ysbytai, canolfannau gofal dydd a sefydliadau preswyl eraill (Age Cymru, 2016). Mae adroddiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n amlygu'r angen am ragor o wasanaethau a chymorth wedi'u haddasu yn ôl anghenion pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin neu mewn perygl o hynny, er mwyn sicrhau y gallant gael mynediad at y cymorth a chefnogaeth angenrheidiol i'w cadw'n ddiogel neu'u helpu i ymadael â pherthynas gamdriniol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi amryw faterion sy'n medru atal pobl hŷn rhag cael mynediad at wasanaethau a chymorth. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg ymwybyddiaeth ymysg ymarferwyr a gwneuthurwyr polisïau ynglŷn â'r mathau penodol o gamdriniaeth a fedr effeithio ar bobl hŷn, a'r mathau o gefnogaeth a fyddai fwyaf o fudd iddynt. Ym mis Rhagfyr 2021 bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi strategaeth newydd, 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Atal Camdriniaeth Pobl Hŷn'.

Canfu Age UK fod mwy na hanner y bobl 65 oed a hŷn o'r farn bod twyllwyr wedi'u targedu (Age UK, 2015). Dywedodd un o bob deuddeg eu bod wedi ymateb i'r sgam ac o blith y rheiny, dywedodd 70% eu bod wedi colli arian eu hunain. Er bod twyll yn medru effeithio ar unrhyw un, efallai bod pobl hŷn yn cael eu targedu'n benodol oherwydd y dybiaeth y bydd ganddynt fwy o arian na phobl iau a'u bod efallai'n fwy diamddiffyn oherwydd amgylchiadau personol fel arwahanwydd cymdeithasol, nam gwybyddol, profedigaeth a gwasgafeydd ariannol. Gallant hefyd fod yn agored i fathau penodol o dwyll fel troseddau ar garreg y drws, meddiannu cyfrifon a chardiau banc, sgamiau rhyddhau pensiwn a buddsoddiadau twyllodrus. Mae'r cyfnodau clo yn ystod y pandemig Covid-19 wedi gwaethygu pethau, gan y darperir llai o wasanaethau wyneb yn wyneb. Bu camdriniaeth gudd yn digwydd lle'r arferai fod trefniadau diogelu ar waith. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru yn unol ag adran 126 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.

5.12 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Efallai bod pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan ddiffyg symudedd, nam ar y synhwyrau a chyflyrau fel clefyd Alzheimer a dementia, a allai olygu eu bod yn arbennig o ddiamddiffyn rhag camfanteisio a chamdriniaeth. Dengys ymchwil fod

pobl dros 60 yn fwy tebygol o brofi camdriniaeth gan oedolyn yn y teulu neu gymar na phobl dan 60. Mae Safe Lives yn darparu [llwybr gofal i Bobl Hŷn](#) .

Yn ogystal â hynny, gall cyflyrau felly olygu bod rhywun yn dibynnu ar bobl eraill am eu gofal, ac mewn rhai achosion penodol gall hynny eu gwneud yn fwy diamddiffyn rhag camdriniaeth ac/neu esgeulustod fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cynnwys 'unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o reoli, rheolaeth drwy orfodaeth, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng unigolion 16 mlwydd oed a hŷn sydd, neu wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau o deulu, ni waeth y rhyw neu'r rhywioldeb' (y Swyddfa Gartref, 2016). Yn ôl pob tebyg, mewn rhai sefyllfaoedd o leiaf, gallai pobl hŷn fod dan fygythiad o gamdriniaeth ddomestig neu'n cael eu cam-drin. Yn ogystal â hynny gallant hwythau fod yn cam-drin eu gofalwyr yn anfwriadol.

Gall hynny greu heriau unigryw i weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio â phobl hŷn. Efallai y bydd angen mabwysiadu dull holistig gyda phobl hŷn, sydd nid yn unig yn diwallu eu hangen i fod yn ddiogel ond hefyd yn eu galluogi i fyw mor annibynnol â phosib, ar yr un pryd ag y diwallir unrhyw anghenion iechyd eraill.

5.13 Eiriolaeth

Ariannwyd Rhaglen Eiriolaeth y Llinyn Aur gan Lywodraeth Cymru am bedair blynedd rhwng 2016 a 2020 fel cynllun ychwanegol ac ategol wrth weithredu Rhan 10 (Eiriolaeth) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r rhaglen bellach wedi dod i ben, ond mae Age Cymru'n dal i ymrwymo i eiriolaeth yng Nghymru drwy'r cynllun [HOPE](#).

Ynys Môn, Gwynedd a Wrecsam: - Cymdeithas Cyngori ac Adfocatiaeth Gogledd Cymru, sy'n cynnig gwasanaethau eirioli i bobl dros 65.

Conwy a Sir Ddinbych: Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis, sy'n cynnig gwasanaethau eirioli i bawb dros 65 a gofalwyr o bob oed.

Pobl sy'n byw â Dementia (pob sir): Mae Cymdeithas Alzheimer's yn cynnig cymorth i unrhyw un sy'n byw â dementia, boed ganddynt alluedd a'r gallu i gyfathrebu neu beidio.

5.14 Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg

Mae'n rhaid darparu 'cynnig gweithredol' i bobl sy'n derbyn neu'n defnyddio gwasanaethau i bobl hŷn. Mae fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, 'Mwy na Geiriau', â'r nod o sicrhau y bodlonir anghenion iaith defnyddwyr ein gwasanaethau ac y darperir gwasanaethau Cymraeg i'r rhai hynny sy'n gofyn amdanynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu pump o grwpiau blaenoriaethol y mae gwasanaethau Cymraeg yn enwedig o bwysig iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys pobl hŷn a phobl sy'n byw â dementia.

Amcangyfrifir bod oddeutu 2,700 o'r bobl sy'n byw â dementia yng ngogledd Cymru yn siaradwyr Cymraeg (Strategaeth Dementia Gogledd Cymru, 2020). Mae'n hollbwysig fod gwasanaethau a phrofion diagnostig ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i bobl sy'n byw a dementia. Os mai Cymraeg yw mamiaith rhywun, gallant gollir gallu i gyfathrebu yn Saesneg pan maent yn byw â dementia (Cymdeithas Alzheimer's, 2020).

Un o flaenoriaethau Strategaeth Dementia Gogledd Cymru yw dal i hyrwyddo'r cynnig gweithredol o wasanaethau Cymraeg a gweithredu'r fframwaith strategol ledled gogledd Cymru, yn ogystal â'r argymhellion sy'n deillio o waith ymchwil Comisiynydd y Gymraeg a Chymdeithas Alzheimer's Cymru, er mwyn goresgyn rhwystrau.

5.15 Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol

Amcangyfrifir y bu oddeutu 18% o bensiynwyr yng Nghymru yn byw mewn tldi incwm cymharol rhwng 2017 a 2020 (Llywodraeth Cymru 2020). Mae'r nifer wedi bod ar gynydd mewn blynyddoedd diweddar. Bydd y pandemig wedi bod yn amser arbennig o anodd i'r un o bob pump o bobl hŷn yng Nghymru sy'n byw mewn tldi incwm cymharol gan mai hwy a fyddai wedi teimlo'r effaith fwyaf wrth i gostau byw gynyddu (Gadael Neb ar Ôl: Camau Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn, 2020).

Bob blwyddyn mae miloedd o bobl hŷn yng Nghymru sydd mewn trafferthion ariannol ar eu colled o filiynau o bunnau o fudd-daliadau a chymorth ariannol. Aeth gwerth £214 miliwn o'r Credyd Pensiwn heb ei hawlio yn 2018/19, a dim ond un budd-dal yw hwnnw. Mae tldi tanwydd yn broblem fawr i bobl hŷn. Eto, mae'r pandemig Covid-

19 wedi gwaethygu'r sefyllfa wrth i bobl hŷn hunan-ynysu neu warchod eu hunain yn ystod y cyfnodau clo (Gadael Neb ar Ôl: Camau Gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn, 2020).

Mewn adroddiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Gadael neb ar ôl, 2020) amlygwyd y dylid cymryd nifer o gamau gweithredu hirdymor er mwyn cynorthwyo pobl hŷn sydd efallai'n wynebu cyni ariannol ac economaidd. Mae'r camau gweithredu hynny'n cynnwys:

- Ymyriadau lleol wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pobl yn hawlio budd-daliadau.
- Adolygu'r gefnogaeth a ddarperir i weithwyr hŷn ac ymchwilio i ffyrdd y gellid gwella ymyriadau er mwyn cefnogi pobl i aros mewn gwaith neu ddychwelyd i fyd gwaith.
- Ymestyn y rhaglenni presennol ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi er mwyn lleihau tlodi tanwydd.

5.16 Casgliadau ac argymhellion

Argymhellir, yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, polisiau a chanllawiau, gweithredu'r argymhellion a'r blaenoriaethau canlynol er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer pobl hŷn yn rhanbarth gogledd Cymru:

- **Gweithlu:** Mae gwasanaethau cymdeithasol i bobl hŷn yn wynebu gwasgfydd taer. Mae'r pandemig wedi gwaethygu hynny. Mae'n flaenoriaeth enbyd i sicrhau fod yno weithlu digonol i ddiwallu anghenion y boblogaeth hŷn yng ngogledd Cymru, yn enwedig felly'r rhai hynny sydd ag anghenion cymhleth. Bydd yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ymdrin ymhellach â'r flaenoriaeth hon.
- **Cefnogi pobl gartref:** Bydd darparu gofal yn nes at y cartref yn canolbwyntio ar wella iechyd a lles pobl yng ngogledd Cymru. Bydd pobl yn medru cael gwell mynediad at ofal a chymorth yn eu cymunedau eu hunain. Mae hynny'n golygu bod pobl yn medru aros yn eu cartrefi eu hunain yn hwy. Bydd integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn y Timau Adnoddau Cymunedol, yn cynorthwyo gyda hyn, ynghyd â gwella gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau trydydd sector.
- **Cydgynhyrchu a gwerth cymdeithasol:** Wrth ddarparu gwasanaethau ar

gyfer pobl hŷn mae'n rhaid ystyried barn y boblogaeth. Dylai fod gan bobl hŷn lais i ddylanwadu ar y gwasanaethau y gallant eu defnyddio. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cyhoeddi papur sy'n esbonio sut ellid comisiynu gwasanaethau, fel gofal cartref, drwy fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau'r ddarpariaeth ac yn canolbwyntio ar les yn ogystal ag unrhyw angen brys.

- **Cynhwysiad digidol:** Mae pobl hŷn yn debygol o fod ymysg y grwpiau sydd wedi'u hallgau fwyaf yn ddigidol. Mae'r cynnydd diweddar mewn defnyddio technoleg ddigidol i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a'u rheoli'n golygu fod perygl y gellid gadael pobl hŷn ar ôl. Dylai'r bartneriaeth gyfan ymchwilio i sefydlu blaenoriaeth ranbarthol ar sail canllawiau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ar gyfer sicrhau cydraddoldeb wrth gael mynediad at wasanaethau digidol. Byddai hynny'n sicrhau fod pobl hŷn yn medru cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn ffordd sy'n diogelu eu hawliau. Mae hyn yn ymestyn y gwaith sy'n mynd rhagddo fel rhan o gymunedau digidol ledled gogledd Cymru.
- **Cefnogi pobl i fod yn fwy egnïol ar ganol eu bywydau a phan maent yn hŷn:** Mae sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys llwybrau Teithio Llesol oddi mewn ac oddi amgylch, a darparu seilwaith ar gyfer cerdded a beicio yn cyfrannu at gyflawni hyn. Bydd darparu gwasanaethau mwy cynhwysol yn y sector ffitrwydd a hamdden, gan gynnwys rhaglenni nerth a chydbwysedd, o fudd hefyd.
- **Sicrhau bod datblygiadau tai newydd yn hygyrch i bawb**, er enghraifft, drwy gynnwys elfennau sy'n gyfeillgar i ddementia a chreu cartrefi a datblygiadau hygyrch. Parhau i ariannu tai cymdeithasol hygyrch ar gyfer pobl hŷn, yn ogystal ag ariannu addasiadau i gartrefi i'w gwneud nhw'n fwy addas i anghenion iechyd sy'n newid.

Dylid nodi y daw rhagor o argymhellion yn yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn fel cartrefi gofal, gofal cartref ac yn y blaen. Cyhoeddir yr adroddiad ar [wefan](#) y Gydweithredfa yn 2022.

6. Anghenion iechyd cyffredinol, nam corfforol a nam ar y synhwyrau

6.1 Gwybodaeth am y bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am anghenion y boblogaeth sy'n ymwneud ag iechyd cyffredinol, ffordd o fyw, cyflyrau tymor hir. Mae'r bennod hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth i grwpiau gyda nam corfforol a/neu ar y synhwyrau. Mae anghenion iechyd a lles cyffredinol grwpiau penodol hefyd i'w gweld ym mhob un o'r penodau eraill o asesiad o anghenion y boblogaeth.

Mae data a ddefnyddiwyd o fewn y bennod hon o arolygon ac mae'r maint sampl yn golygu nad yw'n gwbl gywir ac felly mae angen ei drin yn ofalus.

6.2 Diffiniadau

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn disgrifio iechyd da fel:

“Cyflwr lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn ac nid absenoldeb clefyd neu lesgedd yn unig.”

Maent yn disgrifio anabledd fel;

“Term ymbarél sy'n cynnwys nam, cyfyngiadau gweithgaredd a chyfyngiadau cyfranogiad. Mae nam yn broblem mewn swyddogaeth neu strwythur corfforol; mae cyfyngiad ar weithgaredd yn anhawster a brofwyd gan unigolyn wrth wneud tasg neu weithred; tra bod cyfyngiad cyfranogi yn broblem a brofwyd gan unigolyn wrth gyfrannu at sefyllfaoedd bywyd. Mae hyn yn golygu nad yw anabledd yn broblem iechyd yn unig. Mae yn ymwneud â'r rhyngweithio rhwng nodweddion o gorff unigolyn a nodweddion y gymdeithas ble mae ef neu hi yn byw. Mae angen ymyrraeth i gael gwared ar rwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i oresgyn anawsterau a wynebir gan bobl anabl.”

6.3 Polisi a deddfwriaeth

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu asesiad ar y cyd o anghenion ar gyfer y boblogaeth. Mae'r asesiad o anghenion poblogaeth hwn yn gynnyrch gofyniad y ddyletswydd i asesu iechyd cyffredinol y boblogaeth sy'n sail i flaenoriaethau deddfwriaethol allweddol eraill, fel 'Cymru Iachach' sy'n anelu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach o fewn Cymru a llunio fframwaith cefnogaeth sy'n barod at y dyfodol.

6.4 Statws iechyd cyffredinol

Mae Gogledd Cymru yn cymharu'n dda o safbwynt iechyd o'i gymharu â Chymru yn gyffredinol, mae cyfran is o oedolion Gogledd Cymru yn dweud bod statws eu hiechyd cyffredinol yn weddol, a gwael neu wael iawn, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae Sir Ddinbych yn cynnwys y gyfran isaf mewn cyflwr iechyd da neu dda iawn, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Mae gan gynghorau eraill yng Ngogledd Cymru gyfrannau tebyg.

Tabl 36: Iechyd cyffredinol oedolion (16 oed a drosodd) 2018-19 a 2019-20 cyfunol, oed safonol

Cyngor lleol	Iechyd yn gyffredinol Da neu dda iawn	Iechyd yn gyffredinol Gweddol	Iechyd yn gyffredinol Gwael neu wael lawn
Ynys Môn	76%	18%	6%
Gwynedd	75%	18%	6%
Conwy	76%	16%	8%
Sir Ddinbych	70%	20%	10%
Sir y Fflint	76%	17%	7%
Wrecsam	74%	18%	8%
Gogledd Cymru	75%	18%	8%
Cymru	72%	20%	9%

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, tabl iechyd 5052, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos y gyfran gyda salwch, a faint o bobl sydd wedi eu cyfyngu gan salwch hirsefydlog. Mae Gogledd Cymru yn gyffredinol yn cynnwys cyfran is gyda salwch hirsefydlog na chyfartaledd Cymru. Mae Sir Ddinbych yn debyg i rannau eraill o Ogledd Cymru ar gyfer y gyfran gyda salwch hirsefydlog, nad yw'n cyfateb i'r tabl uchod ar gyfer iechyd cyffredinol.

Tabl 37: Canran o oedolion (16 oed a drosodd) a gyfyngwyd gan salwch 2018-19 a 2019-20, oed safonol


Cyngor lleol	Unrhyw salwch hirsefydlog	Cyfyngwyd o gwbl gan salwch hirsefydlog	Cyfyngwyd yn fawr gan salwch hirsefydlog
Ynys Môn	48%	30%	17%
Gwynedd	44%	32%	17%
Conwy	41%	29%	15%
Sir Ddinbych	41%	32%	16%
Sir y Fflint	42%	30%	13%
Wrecsam	44%	30%	19%
Gogledd Cymru	43%	31%	15%
Cymru	47%	34%	18%

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, tabl iechyd 5052, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Bydd data ased iechyd o Gyfrifiad 2021 yn cael ei adolygu pan fydd y data hwn ar gael yn 2022. Mae gwybodaeth Cyfrifiad 2011 wedi'i darparu isod, gan ei bod yn parhau'n ffynhonnell o wybodaeth berthnasol.


Mae'r siart isod yn dangos bod oddeutu 80% o bobl yng Ngogledd Cymru yn dweud bod eu hiechyd yn dda ac nad yw eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi eu cyfyngu (Jones et al., 2016). Mae Gwynedd yn cynnwys y gyfran uchaf o bobl sy'n dweud bod eu hiechyd yn dda a heb eu cyfyngu gan iechyd gwael.

Siart 14: Dangosyddion ased iechyd gweithgareddau o ddydd i ddydd heb eu cyfyngu, canran yn ôl oed safonedig 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (ONS), cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

Siart 15: Dangosyddion ased iechyd da, canran yn ôl oed safonedig 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 (ONS), cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r cyfraddau cyffredinol yn nodi gwahaniaethau mewn iechyd ar draws y rhanbarth. Mae rhai rhannau o'n poblogaeth yn profi mwy o amddifadedd a iechyd salach; ac mae rhai grwpiau yn y boblogaeth yn tueddu i gael iechyd gwaeth neu yn profi mwy o rwystrau i gael mynediad i ofal iechyd a chefnogaeth.

6.5 Ffactorau ffordd o fyw

Ysmygu

Mae ysmygu yn brif achos marw cyn pryd a bydd un mewn dau o ysmygwyr hirdymor yn marw o glefydau sy'n gysylltiedig ag ysmygu. Roedd adroddiad diweddar i'r bwrdd merched BIPBC yn nodi bod cyfran o ferched oedd yn ysmygu yn ystod beichiogrwydd yn 18.7% am y flwyddyn hyd at Medi 2020. Roedd cyfraddau yn amrywio o 17% yn y Dwyrain i 22% yn y Canol ac 19% yn y Gorllewin. Wrth gymharu gyda blynyddoedd blaenorol, mae ardal y Canol wedi gweld cynnydd yn y gyfran o ferched oedd yn ysmygu yn ystod beichiogrwydd.

Tabl 38: Cyfran sy'n ysmygu yn ystod beichiogrwydd (12 mis cyfartaledd treigl i fis Medi ar gyfer pob blwyddyn)

Cyngor lleol	2017	2018	2019	2020
Gorllewin (Ynys Môn a Gwynedd)	18.1%	20.0%	18.1%	16.9%
Canol (Conwy a Sir Ddinbych)	20.5%	19.8%	17.4%	22.1%
Dwyrain (Sir y Fflint a Wrecsam)	16.5%	13.9%	17.4%	17.2%
Gogledd Cymru	18.1%	17.4%	17.6%	18.7%
Cymru	-	-	17%	-

Ffynhonnell: BIPBC / Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn genedlaethol, roedd canran merched beichiog, a gofnodwyd yn ysmygu yn eu hasesiad cychwynnol, wedi gostwng ychydig rhwng 2018 a 2019. Roedd canran y merched (pob genedigaeth) oedd wedi rhoi'r gorau i ysmygu yn ystod beichiogrwydd yn 13.6% ar gyfer y flwyddyn hyd at Medi 2020. Cynnydd o flynyddoedd blaenorol. Cyfraddau yn amrywio o 12% yn y Dwyrain i 17% yn y Gorllewin. Mae cyfraddau wedi cynyddu yn ardaloedd y Gorllewin a'r Dwyrain pan gymharwyd â'r ddwy flynedd flaenorol. Gwelwyd gostyngiad ar gyfer ardal y Canol.

Yng Ngogledd Cymru, mae 17.6% o oedolion 16 oed a drosodd yn dweud eu bod yn ysmygwr a 5.7% yn dweud eu bod yn defnyddio E-sigaret, o'i gymharu â 17.4% a 6.4% ar draws Cymru. Mae cyffredinolrwydd ysmegu uchaf Conwy yn 24.9%, gyda Wrecsam i ddilyn yn 20%. Gwynedd sydd â'r isaf yn 10.8%. Mae cyfraddau ysmegu yn amrywio'n sylweddol fesul ardal gydag ardaloedd o amddifadedd Gogledd Cymru â lefelau uwch o ysmygwyr.

Tabl 39: Canran o oedolion (16 oed a drosodd) sy'n ysmygwr neu'n defnyddio e-sigaret 2018-19 a 2019-20 wedi eu cyfuno, yn ôl oed safonedig.

Cyngor lleol	Ysmygwr	Defnyddiwr e-sigaret
Ynys Môn	18%	4%
Gwynedd	11%	4%
Conwy	25%	6%
Sir Ddinbych	14%	5%
Sir y Fflint	17%	6%
Wrecsam	20%	9%
Gogledd Cymru	18%	6%
Cymru	17%	6%

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, tabl iechyd 5002, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Dros bwysau a gordew

Mae gordewdra yn brif ffactor sy'n cyfrannu at farw cyn pryd ac mae'n gysylltiedig â chyflyrau meddygol difrifol a chronig, gan gynnwys clefyd coronaidd y galon, diabetes, strôc, pwysedd gwaed uchel, osteoarthritis, cymhlethdodau mewn beichiogrwydd a rhai canserau. Gall pobl sy'n ordew hefyd brofi problemau iechyd meddwl, bwlio neu wahaniaethu yn y gweithle (Public Health Wales, 2016a).

Mae bod dros bwysau a gordewdra yn ymwneud ag anfantais gymdeithasol, gyda lefelau uwch yn y boblogaeth fwyaf difreintiedig. Yng Ngogledd Cymru, mae ychydig dros hanner y boblogaeth oedolion (55%) dros bwysau neu yn ordew, sydd ychydig llai na chyfartaledd Cymru, sef 60%. Ar draws y rhanbarth, mae Sir y Fflint a Wrecsam yn cynnwys y gyfran uchaf o oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew sef 58%, gyda Gwynedd i ddilyn (57%) ac Ynys Môn (56%). Mae Conwy a Sir Ddinbych â'r cyfrannau isaf.

Tabl 40: Canran o oedolion (16 oed a drosodd) a ystyrir dros bwysau neu'n ordew 2018-19 a 2019-20 wedi eu cyfuno, yn ôl oed safonedig

Cyngor lleol	Dan bwysau (BMI o dan 18.5)	Pwysau iach (BMI 18.5-25)	Dros bwysau (BMI 25-30)	Gordew (BMI 30+)
Ynys Môn	0.9%	42.4%	37.4%	19.4%
Gwynedd	3.9%	38.9%	39.0%	18.1%
Conwy	7.0%	43.1%	30.1%	19.8%
Sir Ddinbych	4.2%	43.6%	30.6%	21.6%
Sir y Fflint	3.7%	38.3%	39.3%	18.8%
Wrecsam	3.2%	38.6%	31.5%	26.7%
Gogledd Cymru	4.0%	40.6%	35.8%	24.1%
Cymru	1.9%	38.2%	35.8%	24.1%

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, tabl iechyd 5002, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Ymarfer corff

Mae pobl â ffordd o fyw sy'n gorfforol weithgar yn gallu gwella eu lles corfforol a meddyliol yn sylweddol, helpu i atal a rheoli llawer o gyflyrau fel clefyd coronaidd y galon, rhai canserau a diabetes a lleihau eu risg o farw'n fuan (Public Health Wales, 2016a).

Yng Ngogledd Cymru, mae 55% o oedolion yn dweud eu bod yn gorfforol egniol am o leiaf 150 munud yn yr wythnos ddiwethaf, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru sef 53%. Ar draws y rhanbarth, roedd 63% o oedolion yng Nghonwy yn gorfforol egniol, sef y gyfran uchaf. Roedd Wrecsam yn cynnwys y gyfran isaf sef 49%.

Tabl 41: Canran o oedolion (16 oed a drosodd) yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol 2018-19 a 2019-20 wedi eu cyfuno, yn ôl oed safonedig

Cyngor lleol	Actif llai na 30 munud yn yr wythnos flaenorol	Actif 30-149 munud yn yr wythnos flaenorol	Actif o leiaf 150 munud yn yr wythnos flaenorol
Ynys Môn	29%	15%	56%
Gwynedd	32%	14%	54%
Conwy	28%	9%	63%
Sir Ddinbych	37%	12%	52%
Sir y Fflint	30%	12%	57%
Wrecsam	29%	21%	49%
Gogledd Cymru	31%	14%	55%
Cymru	33%	14%	53%

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, tabl iechyd 5002, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Alcohol

Mae alcohol yn brif ffactor sy'n cyfrannu at farw cynamserol ac yn achos uniongyrchol o 5% o bob marwolaeth yng Nghymru (Betsi Cadwaladr University Health Board, 2015). Mae yfed alcohol yn gysylltiedig â nifer o broblemau iechyd cronig gan gynnwys: salwch meddwl; cyflyrau'r iau, niwrolegol, gastroberfeddol a chardiofasgwlaidd; a sawl math o ganser. Mae hefyd yn gysylltiedig ag anafiadau a gwenwyno a phroblemau cymdeithasol, gan gynnwys trosedd a thrais domestig (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016a).

Alcohol sydd â'r effaith fwyaf ar y mwyaf dan anfantais gymdeithasol mewn cymdeithas, gyda marwolaeth sy'n gysylltiedig ag alcohol yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf llawer uwch nag yn y lleiaf difreintiedig. Er bod yfed alcohol yn gostwng yn raddol, mae mwy nag 18% o oedolion yng Ngogledd Cymru yn dweud eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau mewn wythnos arferol. Mae gan Wrecsam y gyfran uchaf o oedolion 16 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau, 22%, gyda Sir y Fflint i ddilyn, 21% sydd ychydig dros y cyfartaledd i Ogledd Cymru, a Chymru (19%). Ynys Môn a Sir Ddinbych sydd â'r cyfraddau isaf ar draws y rhanbarth, 14%.

Tabl 42: Faint o alcohol mae oedolion yn ei yfed mewn wythnos ar gyfartaledd (16 oed a hŷn) 2018-19 a 2019-20 cyfunol, yn ôl oed safonedig

Cyngor lleol	Dim*	Rhai, hyd at 14 uned (yfwyr cymhedrol)	Dros 14 uned (dros y canllawiau)
Ynys Môn	22%	64%	14%
Gwynedd	22%	61%	16%
Conwy	18%	67%	15%
Sir Ddinbych	35%	51%	14%
Sir y Fflint	15%	65%	21%
Wrecsam	18%	61%	22%
Gogledd Cymru	21%	61%	18%
Cymru	21%	60%	19%

*gall gynnwys rhai pobl sy'n yfed weithiau

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, tabl iechyd 5002, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

6.6 Cyflyrau cronig

Mae cyflyrau cronig yn gyffredinol y rhai na ellir eu gwella, ond eu rheoli. Maent yn cael effaith sylweddol ar unigolion, teuluoedd a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (Jones et al., 2016). Amcangyfrifir bod tua trydedd rhan o oedolion yng Nghymru yn byw gydag o leiaf un cyflwr cronig ar hyn o bryd. Mae tystiolaeth o gofrestr meddyg teulu yng Ngogledd Cymru yn cadarnhau ffigur ychydig uwch na hyn.

Tabl 43: Canran o gleifion meddyg teulu a gofrestrwyd gyda chyflwr cronig 2020

Cyngor lleol	Asthma	Ffibriliad atrial	COPD*	Clefyd Coronaid y Galon	Methiant y galon	Gor-bwysedd	Strôc ***
Ynys Môn	8.5%	2.8%	3.1%	4.0%	1.2%	17.9%	2.6%
Gwynedd	7.2%	2.5%	2.8%	3.3%	1.1%	16.1%	2.0%
Conwy	7.6%	2.9%	2.7%	4.4%	1.3%	18.1%	2.5%
Sir Ddinbych	7.8%	2.7%	3.2%	4.2%	1.2%	17.3%	2.2%
Sir y Fflint	7.4%	2.4%	2.4%	3.6%	1.0%	16.2%	1.9%
Wrecsam	7.5%	2.3%	2.5%	3.5%	1.1%	16.8%	2.0%
Gogledd Cymru	7.6%	2.6%	2.7%	3.8%	1.1%	16.9%	2.2%
Cymru	7.4%	2.4%	2.4%	3.6%	1.1%	15.9%	2.2%

Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint: grŵp o gyflyrau'r ysgyfaint sy'n ei gwneud yn anodd gwacau aer o'r ysgyfaint gan fod y llwybrau anadlu wedi culhau

** Cymorth ataliol eilaidd o glefyd coronaidd y galon


*** Strôc a phwl o isgemia dros dro

Ffynhonnell: Cofrestrau clefyd Fframwaith Gwella a Sicrwydd Ansawdd, StatsCymru, Llywodraeth Cymru

Er bod y rhain yn gyflyrau cyffredin, mae yna lawer o gyflyrau hirdymor eraill, sy'n gallu cael effaith sylweddol ar allu unigolyn i gymryd rhan mewn cymdeithas ac ar eu lles yn gyffredinol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflyrau niwrolegol, canser ac effaith clefydau fel strôc. Gellir cael mwy o ddata manwl ar gyflyrau penodol gan gynghorau lleol neu'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, at ddibenion y bennod hon, rydym wedi canolbwyntio ar grynodedb o'r materion cyffredinol sy'n effeithio ar les. Dylid cymryd i ystyriaeth yr hyn sydd o bwys i'r unigolyn.

Rhagwelir y bydd nifer y bobl â salwch cyfyngus hirdymor yn cynyddu 22% dros y cyfnod o 20 mlynedd at 2035. Gweler siart 16 isod. Bydd llawer o'r cynnydd yn codi gyda phobl yn byw yn hŷn.

Siart 16: Nifer o bobl 18 oed a hŷn gyda salwch hirdymor cyfyngol, 2014 i 2035



Ffynhonnell: Daffodil

6.7 Anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau

Anabledd corfforol


Mae yna amcangyfrif o 14.1 miliwn o bobl anabl yn y DU. Mae 8% o blant yn anabl; 19% o oedolion sy'n gweithio yn anabl a 46% o oedolion oed pensiwn yn anabl (Scope, 2019/2020). Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod yna bron 700,000 o unigolion yng Nghymru gyda rhyw fath o salwch cyfyngus hirdymor neu 'anabledd'. Mae hyn yn 22.7% o'r boblogaeth. Roedd 10.8% yn dweud bod eu gweithgareddau beunyddiol wedi eu cyfyngu ychydig, a'r 11.9% sy'n weddill wedi eu cyfyngu lawer. Bydd data Cyfrifiad 2021 ar gael yn 2022. Yna bydd data cyfrifiad o fewn yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau.

Mae amcangyfrifon mwy diweddar o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) (diwedd blwyddyn Medi 2020) yn dangos bod yna 415,600 o bobl anabl (diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010) 16 i 64 oed yng Nghymru, yn cynrychioli 21.9% o boblogaeth 16 i 64 oed (Adroddiad Locked Out, 2021).

Nam ar y synhwyrâu

Mae rhywfaint o wybodaeth sy'n ymwneud â nam ar y synhwyrâu neu gorfforol (ond heb nam ar y golwg) yn cael ei gynnal ar gofrestrau cyngor lleol fel y dangosir isod. Mae'r amrywiad eang mewn nifer yn awgrymu bod y data yn anghyflawn.

Siart 17: Pobl anabl yn gorfforol / synhwyrâidd heb nam ar y golwg



Ffynhonnell: Cofrestr Awdurdod Lleol o bobl â nam corfforol neu synhwyrâidd (tabl StatsCymru care0016) casglu data, Llywodraeth Cymru

Mae'r cofrestrau o bobl ag anableddau corfforol neu ar y synhwyrâu yn cynnwys pawb a gofrestrwyd o dan Adran 29 o Ddeddf Cymorth Gwladol 1948. Fodd bynnag, mae cofrestru yn wirfoddol a gall ffigyrau felly fod yn danamcangyfrif o'r nifer o bobl ag anableddau corfforol neu ar y synhwyrâu. Mae cofrestru ar gyfer nam difrifol ar y golwg fodd bynnag, yn rhagamod ar gyfer derbyn rhai budd-daliadau ariannol ac felly gall y bobl yn y categori hwn fod yn fwy dibynnol na'r rhai sy'n rhannol ddall neu ag anableddau eraill. Mae'r ffactorau hyn ynghyd â'r ansicrwydd pa mor rheolaidd mae'r cynghorau yn adolygu ac yn diweddarau eu cofnodion, yn golygu bod y wybodaeth hon yn anodd i benderfynu ac felly ni ellir ei ystyried fel nifer pendant o bobl ag anableddau.

Mae pobl â nam ar y golwg yn cael eu cofrestru gan awdurdodau lleol ar ôl i offthalmolegydd ymgynghorol ardystio eu nam ar y golwg. Mae'r Dystysgrif Nam ar y Golwg (Cymru) yn ardystio'n ffurfiol rhywun yn rhannol ddall neu'n ddall (nawr yn defnyddio'r derminoleg a ffefrir 'nam ar y golwg' neu 'â nam difrifol ar y golwg') fel y gall yr Awdurdod Lleol ei ch/gofrestru. Mae cofrestru yn wirfoddol ac nid yw mynediad i amrywiol neu i rai budd-daliadau a gwasanaethau cymdeithasol yn

dibynnu ar gofrestrriad. Os nad yw'r unigolyn yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol fel rhywun ag anghenion sy'n codi o'u nam ar y golwg, mae cofrestru hefyd yn gam ar gyfer atgyfeirio am asesiad gofal cymdeithasol.

Nam ar y golwg, dallineb a nam ar y golwg rhannol

Nam ar y golwg yw pan mae unigolyn â nam golwg na ellir ei gywiro yn defnyddio sbectol neu lensys cyswllt (Jones and Atenstaedt, 2015). Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm a chyfradd a ragwelir sy'n byw gyda nam ar y golwg. Mae'r gyfradd fesul 1,000 o bobl yng Ngogledd Cymru yn uwch na chyfradd Cymru. Mae Conwy yn cynnwys y gyfradd uchaf i Ogledd Cymru gyda 48 o bobl fesul 1,000. Wrecsam a Sir y Fflint sydd â'r isaf sef 34 a 35 fesul 1,000 o bobl.

Mae'r nifer a gofrestrwyd yn ddall neu'n rhannol ddall yn llawer is. Mae cyfraddau fesul 100,000 o bobl i Ogledd Cymru yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae Conwy yn cynnwys y gyfradd uchaf gyda 586 fesul 100,000. Sir Ddinbych sydd â'r isaf yn 424 fesul 100,000 o bobl.


Tabl 44: Amcangyfrif o'r nifer a chyfradd o bobl sy'n byw â nam ar y golwg (2021) ac sydd wedi cofrestru'n ddall neu'n rhannol ddall (2018-19)

Cyngor lleol	Amcangyfrif o'r nifer sy'n byw gyda nam ar y golwg	Cyfradd sy'n byw gyda nam ar y golwg fesul 1,000	Cyfanswm sydd wedi cofrestru'n ddall	Cyfanswm a gofrestrwyd yn rhannol ddall	Cyfradd fesul 100,000 a gofrestrwyd yn ddall neu'n rhannol ddall
Ynys Môn	2,960	42	200	228	576
Gwynedd	4,820	39	289	331	523
Conwy	5,660	48	168	111	586
Sir Ddinbych	3,750	39	147	93	424
Sir y Fflint	5,460	35	375	430	512
Wrecsam	4,580	34	282	349	440
Gogledd Cymru	27,230	39	1,461	1,542	429
Cymru	111,000	35	6,484	6,653	417

Ffynhonnell: RNIB 4.3.1. Adnodd Data Colli Golwg.

Gellir amcangyfrif y nifer o bobl â nam ar y golwg neu nam difrifol ar y golwg o'r cofrestr a gynhelir gan y gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r ffigyrau hyn yn debyg o fod yn danamcangyfrif gan eu bod yn dibynnu ar hunanatgyfeiriad.

Siart 18: Nifer o bobl â nam ar y golwg



Ffynhonnell: Cofrestr Awdurdod Lleol o bobl â nam corfforol neu synhwyraidd (SSDA900) casglu data, Llywodraeth Cymru

Tabl 45: Nifer a chyfradd pobl â nam ar y golwg fesul 100,000 o'r boblogaeth

Cyngor lleol	Nifer â nam ar y golwg 2013/14	Cyfradd nam ar y golwg 2013/14	Nifer â nam ar y golwg 2018/19	Cyfradd nam ar y golwg 2018/19
Ynys Môn	313	447	228	326
Gwynedd	370	304	331	267
Conwy	126	109	111	95
Sir Ddinbych	101	107	93	98
Sir y Fflint	213	139	430	276
Wreccsam	392	289	349	256
Gogledd Cymru	1,515	219	1,542	221
Cymru	8,676	281	6,653	212

Ffynhonnell: Cofrestr Awdurdod Lleol o bobl â nam corfforol neu synhwyraidd (SSDA900) casglu data, Llywodraeth Cymru

Rhagwelir y bydd y ganran o bobl sy'n byw gyda nam ar y golwg yn cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol yn cynyddu o tua 3.73% yn 2016 i 4.92% erbyn 2030 (Llywodraeth Cymru, 2016).

Mae'r tabl isod yn dangos bod cyfraddau uwch o gataract, glawcoma a dirywiad y macwla yng Ngogledd Cymru na Chymru yn gyffredinol. Mae'r cyfraddau yn amrywio rhwng awdurdodau lleol. Ar gyfer cataractau, mae Conwy yn cynnwys y gyfradd uchaf yng Ngogledd Cymru yn 1,638 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â'r uchaf yn Wrecsam sef 1,118 fesul 100,000. Mae Conwy hefyd yn cynnwys y gyfradd uchaf ar gyfer glawcoma sef 1,493 fesul y boblogaeth, o'i gymharu â'r isaf yn Wrecsam sef 1,103 fesul 100,000. Mae Conwy eto yn cynnwys y gyfradd uchaf ar gyfer dirywiad y maciwl sef 7,807 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â 5,627 yn Wrecsam. Mae'r gyfradd ar gyfer retinopathi diabetig yng Ngogledd Cymru yn debyg i gyfradd Cymru.

Tabl 46: Cyfradd fesul 100,000 o bobl a amcangyfrifir sy'n byw gyda chyflyrau cysylltiedig â'r llygaid, 2021

Cyngor lleol	Cataractau	Glawcoma	Diabetig retinopathi	Dirywiad macwlar*
Ynys Môn	1,442	1,356	1,999	7,096
Gwynedd	1,285	1,212	2,023	6,294
Conwy	1,638	1,493	2,039	7,807
Sir Ddinbych	1,348	1,285	1,985	6,688
Sir y Fflint	1,179	1,160	1,986	5,932
Wrecsam	1,118	1,103	1,957	5,627
Gogledd Cymru	1,312	1,251	1,997	6,471
Cymru	1,174	1,145	1,992	5,871

*cynnwys pobl sy'n byw gyda Drusen, dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint cam cynnar, a dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint cam hwyr. Ffynhonnell: RNIB 4.3.1. Adnodd Data Colli Golwg.

Byddardod â thrwm eu clyw

Mae nam ar y clyw yn gallu bod yn ysgafn, cymedrol, difrifol neu ddifrifol. Mae'n gallu effeithio ar un neu'r ddwy glust. Mae nam ar y clyw fel arfer yn cael ei ddefnyddio i bobl â nam ysgafn i ddifrifol ar y clyw. Mae'r term Byddar fel arfer yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pobl gyda nam difrifol ar y clyw. Mae yna amrywiol ffyrdd i

gyfathrebu, gan gynnwys Iaith Arwyddion, darllen gwefusau, sillafiad bysedd, sillafiad bysedd byddar ddall a geiriau ysgrifenedig.

Mae'r RNID yn amcangyfrif bod un mewn pump o oedolion yn y DU yn Fyddar neu â nam ar y clyw. I bobl dros 50, mae gan tua 40% rhyw fath o nam ar y clyw, mae hyn yn codi i 71% o bobl dros 70 oed. Mae hyd at 75% o bobl mewn cartrefi gofal yn cael eu heffeithio (Sefydliad Cenedlaethol Iechyd a Rhagoriaeth Gofal, 2019).

Mae nam ar y clyw yn gallu arwain at dynnu allan o sefyllfaoedd cymdeithasol, gofid emosiynol ac iselder. Mae ymchwil yn dangos ei fod yn cynyddu'r risg o unigrwydd. Mae nam ar y clyw yn gallu cynyddu'r risg o dementia hyd at bump gwaith, ond mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu y gall cymhorthion clyw leihau'r risg yma.

Tabl 47: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o bobl a amcangyfrifir sy'n byw gyda nam ar y clyw, 2021

Cyngor lleol	Nifer amcangyfrifedig â nam ar eu clyw cymedrol neu ddifrifol	Cyfradd nam ar y clyw cymedrol neu ddifrifol	Nifer amcangyfrife dig nam difrifol iawn	Cyfradd nam difrifol iawn
Ynys Môn	9,580	13,677	210	300
Gwynedd	15,300	12,283	350	281
Conwy	17,700	15,102	420	358
Sir Ddinbych	12,300	12,853	270	282
Sir y Fflint	17,900	11,467	380	243
Wrecsam	15,000	11,033	320	235
Gogledd Cymru	87,780	12,548	1,740	249
Cymru	360,000	11,418	7,940	252

Ffynhonnell: RNIB Adnodd Data Colli Golwg fersiwn 4.3.1

Byddardod-dallineb

Mae'r term byddar a dall yn cynnwys ystod eang o wahanol amodau a sefyllfaoedd. Rydym yn defnyddio'r term hwn at ddibenion yr asesiad hwn i olygu bod gan 'bobl sydd â "nam golwg a chlyw sydd, wedi eu cyfuno, yn cael effaith sylweddol ar eu bywydau bob dydd." Mae oddeutu dros 390,000 o bobl yn y DU sy'n ddall-fyddar,

gyda'r ffigwr hwn yn cynyddu i dros 600,000 erbyn 2035. Os hoffech fwy o amcangyfrifon manwl [cysylltwch â Chyngor Gwybodaeth Synhwyrau](#).

Mae dall-fyddar hefyd yn cael ei alw'n nam ar y synhwyrau deuol neu aml nam ar y synhwyrau. Mae bobl sy'n ddall-fyddar, yn cynnwys y sawl sy'n ddall-fyddar o'i geni a'r sawl sydd wedi caffael nam ar y synhwyrau. Yr achos mwyaf cyffredin fodd bynnag yw henaint. Mae dall-fyddar yn gallu achosi problemau gyda chyfathrebu, mynediad at wybodaeth a symudedd. Mae ymyrraeth fuan a chefnogaeth yn darparu'r cyfle gorau i wella lles unigolyn (Sense, 2016).

Mae amcangyfrif o'r nifer o bobl gyda nam ar y golwg a'r clyw sy'n cyd-ddigwydd yn awgrymu erbyn 2030, bydd oddeutu 1% o boblogaeth Gogledd Cymru yn ddall-fyddar. Mae'r gyfran o bobl fyddar a dall yn cynyddu'n sylweddol gydag oed.

Tabl 48: Nifer a chyfradd fesul 100,000 o bobl a amcangyfrifir sy'n byw gydag unrhyw nam ar y synhwyrau deuol, 2021

Cyngor lleol	Nifer amcangyfrifedig gyda nam ar y synhwyrau deuol	Cyfradd gyda nam ar y synhwyrau deuol
Ynys Môn	560	800
Gwynedd	910	731
Conwy	1,070	913
Sir Ddinbych	710	742
Sir y Fflint	1,040	666
Wrecsam	880	647
Gogledd Cymru	5,170	739
Cymru	21,300	676

Ffynhonnell: RNIB Adnodd Data Colli Golwg fersiwn 4.3.1

Iechyd meddwl a llesiant

Roedd Shoham et al (2019) wedi ymchwilio pa un a oes gan bobl â nam ar y synhwyrau fwy o symptomau iselder a gorbryder na phobl heb nam ar y synhwyrau. Mae'r astudiaeth a ddefnyddiwyd wedi defnyddio data a ddadansoddwyd o Arolwg Afiachusrwydd Seiciatreg Oedolion (2014) a chanfod bod 19% o bobl gyda nam ar y clyw, 31% gyda nam gweld yn bell a 25% â nam gweld yn agos ag Afiachusrwydd seicolegol sylweddol clinigol. Roedd yr awduron wedi canfod bod gweithredu

cymdeithasol yn cyfrif am tua 50% o'r perthnasoedd hyn rhwng nam ar y synhwyrau ac afiachusrwydd seicolegol (Shoham et al). 2019).

Mae pobl fyddar yn fwy tebyg o gael iechyd meddwl gwael – hyd at 50%, o'i gymharu â 25% ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol (Deall anabledau a nam, Llywodraeth y DU, 2017). Mae iselder mewn oedolion gyda phroblem iechyd corfforol cronig yn cael ei gydnabod yn dda ac mae yna lawer o dystiolaeth o ofal a chefnogaeth effeithiol. Yn ogystal â rheolaeth a thriniaeth, mae'r dystiolaeth yn cefnogi effaith gadarnhaol darpariaeth gwybodaeth, gweithgareddau corfforol grŵp a rhaglenni cefnogi (NICE, 2012).

Anghenion tai a digartrefedd

Mae gan bobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig lefelau uwch o nam ar y clyw a'r golwg, a phroblemau iechyd hirdymor hefyd, yn arbennig cyflyrau resbiradol cronig, clefyd cardiofasgwlar ac arthritis (Public Health Wales, 2016b). Mae'n bosibl bod pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn hefyd yn byw mewn amodau gwael.

Mae tai yn cael effaith bwysig ar iechyd, addysg, gwaith a'r cymunedau ble rydym yn byw. Tai o ansawdd gwael, gan gynnwys materion fel llwydni, gwres gwael ac effeithlonrwydd ynni, pla, mwg ail law, gorlenwi, sŵn, diffyg lle gwyrdd a gwenwyn, wedi'i gysylltu â salwch meddwl a chorfforol yn ogystal â chostau i'r unigolyn, cymdeithas a'r GIG o ran trosedd uwch cysylltiedig, diweithdra a chostau triniaeth (Public Health Wales, 2015). Mae problemau iechyd sy'n gysylltiedig â'r materion hyn yn cynnwys problemau resbiradol, iselder, gorbryder, niwrolegol, gwybyddol, datblygiadol, cardiofasgwlaidd a chyflyrau ymddygiad, canserau, gwenwyn a marwolaeth (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016a).

Delio gyda pheryglon, fel grisiau a stepiau anniogel, peryglon trydanol, lleithder a llwydni, oerni gormodol a gorlenwi, cost o tua £67 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru (Public Health Wales, 2015). Roedd y gost ehangach i'r gymdeithas, fel cyrhaeddiad addysg gwael a newidiadau bywyd yn amcangyfrif o tua £168 miliwn y flwyddyn. Amcangyfrifir y gall cyfanswm costau i gymdeithas gael ei adfer mewn naw mlynedd os buddsoddir i fynd i'r afael â'r problemau hyn (Iechyd Cyhoeddus Cymru 2016).

Mae gofyn i bob cyngor lleol greu Aseiad o'r Farchnad Dai Leol, sy'n rhoi gwybodaeth a thystiolaeth o'r angen o ran tai. Mae'n cael ei ddefnyddio i lywio'r Strategaeth Tai Lleol a'r Cynllun Datblygu Lleol, drwy osod yr angen cyffredinol am

dai fforddiadwy mewn ardal. Mae cynghorau lleol hefyd wedi creu Prosbectws Tai Lleol, sy'n amlinellu eu blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol.

Mae ymagwedd y Cyngor tuag at atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai wedi'i osod yn eu Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai. Mae'n cynnwys y swyddogaethau digartrefedd statudol ag ariennir drwy'r setliad refeniw a gwasanaethau ataliol anstatudol ag ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai.

Mae addasiadau i dai yn gallu helpu i gynnal neu adennill annibyniaeth i bobl gydag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau. Mae yna ystod o fentrau sy'n gallu cynorthwyo gydag addasiadau tai, rhai wedi eu darparu drwy gynghorau lleol a rhai drwy asiantaethau cymorth trydydd sector.

Mae cynlluniau tai gofal ychwanegol yn gallu rhoi cydbwysedd rhwng byw yng nghartref yr unigolyn ei hun a chael gofal a chefnogaeth ymroddedig ar y safle os bydd angen. Mae gofal nyrsio a phreswyl yn darparu llety gyda staff hyfforddedig wrth law dydd a nos i ofalu am anghenion unigolyn. Mae gwasanaethau seibiant yn aml iawn ar gael yn y cynlluniau hyn, wedi'u darparu mewn partneriaeth â BIPBC.

Gofynion dylunio a chynllunio cynhwysol

Mae dylunio cynhwysol yn anelu i gael gwared ar y rhwystrau sy'n creu ymdrech a gwahanu gormodol. Mae'n galluogi pawb i gyfrannu'n gyfartal, hyderus ac annibynnol mewn gweithgareddau beunyddiol. Mae pawb yn gyfrifol am ddylunio cynhwysol. Mae hyn yn ystyriaeth bwysig wrth ddatblygu neu ailddylunio cyfleusterau a gwasanaethau.

Dylai diwallu anghenion mynediad fod yn rhan gyfannol o'r hyn rydym yn ei wneud pob dydd. Dylem ddefnyddio ein creadigrwydd a meddwl yn ochrol i ganfod atebion arloesol ac unigol, gan ddylunio ar gyfer pobl real. Drwy ddylunio a rheoli ein hamgylchedd yn gynhwysol, anawsterau a brofir gan lawer – gan gynnwys pobl ag anabledd neu nam ar y synhwyrau, ond hefyd pobl hŷn a theuluoedd gyda phlant bach – yn cael ei ostwng.

Mae'r amgylchedd adeiledig a naturiol yn benderfynydd allweddol iechyd a lles. Y ffordd mae mannau yn gallu effeithio ar y dewisiadau a wneir fel teithio, dewisiadau hamdden a pha mor hawdd yw cymdeithasu gydag eraill. Mae'r system gynllunio angen nodi mesurau rhagweithiol ac ataliol i leihau anghydraddoldebau iechyd. Er enghraifft, drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer gweithgaredd awyr agored a hamdden, dewisiadau teithio llesol, galluogi cysylltiadau i weithgaredd cymdeithasol, lleihau

llygredd aer a sŵn a dod i gysylltiad ag ef, a cheisio gwelliannau amgylcheddol a chorfforol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod pum egwyddor cynllunio allweddol, sy'n hanfodol i gyflawni'r datblygiad cywir yn y lle cywir. Mae hwyluso amgylchedd hygyrch ac iach yn un. Dylai cynllunio defnydd tir a'r mannau a grëwyd fod yn hygyrch i bawb a chefnogi bywydau iach. Dylent fod yn ddirwysr ac yn gynhwysol i bawb. Dylai amgylchedd adeiledig a naturiol gael eu cynllunio i hybu lles meddwl a chorfforol. Mae creu a chynnal cymunedau yn egwyddor cynllunio arall ac mae'n ceisio gweithio mewn ffordd integredig i wella lles.

Mae hyn yn cysylltu â deilliannau creu lle cynaliadwy cenedlaethol, gan gynnwys hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach, sy'n darparu cydraddoldeb mynediad ac yn cefnogi poblogaeth amrywiol. Dylai amgylcheddau hybu iechyd meddwl a chorfforol a lles. Dylai datblygiadau fod yn hygyrch drwy Deithio Llesol. Dylai cynigion datblygu roi pobl yn ganolbwynt i'r broses ddylunio. Mae sicrhau mynediad rhwydd i bawb hefyd yn cael ei restru fel nod ar gyfer dylunio da. Mae'n rhaid i gynigion fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys darparu i fodloni anghenion pobl gyda nam synhwyraidd, cof, dysgu a symudedd, pobl hŷn a phobl gyda phlant bach.

Canfuwyd y gall tai o ansawdd da a datblygiadau wedi eu cynllunio'n dda gydag amgylchedd sy'n galluogi cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd pobl sy'n byw gyda dementia. Os yw datblygiad wedi'i gynllunio'n dda i bobl sy'n byw gyda dementia, mae hefyd wedi'i gynllunio'n dda i bawb, gan gynnwys pobl hŷn, pobl anabl a phlant.

Mae datblygiadau wedi eu cynllunio'n dda a chymunedau hefyd yn gallu cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl, drwy ffactorau fel sŵn, llygredd, mynediad i fannau gwyrdd, gwasanaethau ac ymddangosiad ardal leol. Mae amgylchedd hygyrch a chynhwysol, ble mae pawb yn gallu cyfrannu at gymdeithas yn bwysig i wella a diogelu lles ac iechyd meddwl.

Mae Sefydliad Brenhinol Cynllunio Tref wedi llunio canllawiau ymarfer ar iechyd meddwl a chynllunio a dementia.

6.8 Cyflyrau niwrolegol

Mae yna fwy na 250 o gyflyrau niwrolegol cydnabyddedig. Yng Nghymru, mae yna oddeutu 100,000 o bobl yn byw gyda chyflwr niwrolegol sy'n cael effaith sylweddol ar eu bywydau. Bob blwyddyn mae oddeutu 2,500 o bobl yn derbyn diagnosis cyflwr niwrolegol, gan gynnwys clefyd Parkinson, epilepsi, sglerosis ymledol neu glefyd motor newron (Cynllun Cyflawni Ar Gyfer Cyflyrau Niwrolegol 2017). Mae anghenion gofal a chefnogaeth pobl gyda chyflyrau niwrolegol yn gallu amrywio o fyw gyda chyflwr i fod angen cymorth ar gyfer y rhan fwyaf o dasgau beunyddiol.

Mae Cynllun Cyflawni Ar Gyfer Cyflyrau Niwrolegol 2017 yn nodi yn y dyfodol agos, mae'r nifer o bobl gyda chyflyrau niwrolegol yn debyg o gynyddu oherwydd disgwyliad oes cynyddol, cyfraddau goroesi gwell a gofal iechyd cyffredinol gwell. Prif argymhelliad o'r cynllun cyflawni yw i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ddatblygu fframweithiau addysg niwrolegol i gefnogi hyfforddiant i staff ddeall anghenion y sawl gyda chyflyrau niwrolegol a'u gofalwyr yn well.

6.9 Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Gwasanaethau anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau

Beth sy'n gweithio'n dda?

Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth eu bod yn "ei chael hi'n anodd derbyn y gefnogaeth maent ei hangen."

Roedd eraill yn meddwl bod y Gwasanaeth Iechyd Hygyrch a gwaith amrywiaeth BIPBC yn gweithio'n dda, yn ogystal â darparu cymhorthion, addasiadau a'r gwasanaeth bod yn gyfaill gan y prosiect Byw yn Dda gyda Nam ar y Clyw.

Dywedodd darparwr gwasanaeth bod gwaith partneriaeth gydag adrannau gwasanaeth cymdeithasol lleol a sefydliadau trydydd sector yn gadarn, sy'n cefnogi darparu ystod eang o wasanaethau ansawdd, rhwydweithio a rhannu arferion da.

Beth sydd angen gwella?

Mae Mynediad at Wybodaeth a chynghor mewn fformat amgen yn her fawr i ddefnyddwyr gwasanaeth gydag anableddau ar y synhwyrau a chorfforol, yn arbennig gwybodaeth gan awdurdodau lleol a'r GIG. Nid yw deunydd wedi'i argraffu

yn addas i lawer, tra bod cynnydd mewn mynediad ar-lein yn unig i wasanaethau a gwybodaeth yn brif rwystr i eraill.

Ar gyfer pobl fyddar yng Ngogledd Cymru, mae darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael ei ddisgrifio fel “loteri cod post” ble mae rhai pobl yn gallu cael mynediad i gefnogaeth dydd Llun i ddydd Gwener, 9am tan 5pm, tra bod eraill wedi eu cyfyngu i rai dyddiau o'r wythnos. Yn fwy cyffredinol, mae pobl fyddar yn ei chael hi'n anodd cael mynediad i lawer o weithgareddau, gan nad oes yna ddarpariaeth gyfathrebu.

Mae gan bobl ag anableddau, yn arbennig oedolion ifanc gydag anableddau fynediad cyfyngedig i ofal a chefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae pobl yn gorfod aros yn rhy hir ar gyfer asesiadau a chefnogaeth, ac mae angen gwella cyfathrebu gyda gweithwyr cymdeithasol.

Mae'r sawl ag anableddau sy'n anweladwy, sydd i fyny ac i lawr neu'n brin, yn gallu gweld eu hunain wedi eu heithrio o wasanaethau oherwydd eu bod yn methu bodloni meini prawf penodol, fel “defnydd o gadair olwyn llawn amser.” Mewn gwirionedd, mae gan lawer o bobl sy'n defnyddio cadair olwyn rywfaint o symudedd. Felly, mae gwasanaethau yn creu “hierarchaeth anabledd”, yn hytrach ag ymateb i anghenion unigol.

Mae diffyg staff gofal yn bryder, sy'n golygu bod gofal yn cael ei ddarparu ar adeg sy'n addas i'r asiantaeth gofal, yn hytrach na phan mae'r cleient ei angen. Nid oes yna oruchwyliaeth yn ystod salwch a gwylliau staff bob amser.

Mae Fforwm Anabledd Sir y Fflint wedi nodi tri phrif fater. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau toiledau hygyrch, cludiant a thechnoleg. Mae materion cludiant a godwyd yn cynnwys:

- Er gwaethaf cyllid i sefydliadau cymunedol, mae cludiant hygyrch yn gyfyngedig.
- Mae Trafnidiaeth Cymru yn argymhell bod unigolion sydd angen cymorth i gael mynediad ar drên, yn archebu o leiaf 6 awr ymlaen llaw.
- Mewn perthynas â bysus, nid yw pob llawr yn ddigon isel ar gyfer cadair olwyn/mynediad i sgwter. Mae angen gwirio hyn cyn cynllunio siwrnai.
- Cynghorir unigolion i ffonio 24 awr cyn eu siwrnai os ydynt angen cymorth.
- Mae Cludiant Cymunedol yn rhedeg rhwng dydd Llun a dydd Gwener yn unig, 9am-5pm.

Gwasanaethau GIG (gwasanaethau iechyd cyffredinol)

Beth sy'n gweithio'n dda?

Roedd ambell ymatebwr wedi sôn am wasanaethau iechyd sy'n gweithio'n dda.

Roeddent wedi amlygu'r canlynol:

- Mae'r gwasanaeth a dderbynnir yng Nghanolfan Iechyd Bron Ffynnon, Dinbych yn ganmoladwy, ac mae'r gofal a dderbynnir yn adran Gardioleg, Ysbyty Glan Clwyd yn amhrisiadwy.
- Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn gwerthfawrogi cydweithio agos gyda gweithwyr gofal iechyd sylfaenol proffesiynol.
- Roedd llawer yn ddiolchgar am y gefnogaeth gan iechyd yr amgylchedd a'r GIG yn ystod y pandemig.
- Dywedodd gweithwyr gofal bod gwasanaethau iechyd i bobl ifanc yn gweithio'n dda i sicrhau eu bod yn derbyn y gefnogaeth a chynghor iechyd cywir, yn arbennig o amgylch cynghor iechyd rhywiol, cofrestru gyda meddyg teulu ac atgyfeirio i Wasanaethau Deintyddol yn y Gymuned.

Beth sydd angen ei wella?

Soniwyd am ystod o wasanaethau oedd angen eu gwella gan gynnwys:

- Cefnogaeth diwedd oes gwell, yn arbennig fin nos.
- Mae cynnyrch ymataliaeth o ansawdd gwael iawn ac mae pobl yn aml yn defnyddio mwy nag y rhagwelir.
- Dylai therapyddion lleferydd ac iaith roi mwy o amser i blant dieiriol.
- Gwella mynediad pobl hŷn i ofal deintyddol i osgoi effaith cyflwr geneuol a materion deintyddol. Mae hyn yn cynnwys preswylwyr cartref gofal sy'n derbyn gofal deintyddol yn eu cartref gofal.

6.10 Gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Gweithredu i Gymru, 2017-2020, Fframwaith gofal a chefnogaeth integredig i bobl sy'n fyddar neu'n byw gyda cholli clyw. Mae Grŵp Gofal Clinigol Gogledd Cymru ar gyfer Colli Clyw yn gweithio ar flaenoriaethau a nodwyd gan bobl yn byw yng Ngogledd Cymru, sydd â nam ar eu clyw. Mae Cynghor Conwy, ynghyd â'r trydydd sector ac iechyd yn cymryd rhan yn y

gwaith hwn. Dwy flynedd yn ôl roedd Conwy wedi cyflwyno Sign Live i bob ardal derbynfa gyhoeddus y Cyngor i alluogi pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel eu hiaith gyntaf i gyfathrebu gyda'r Cyngor drwy gyfieithydd ar-lein.

Roedd Canolfan Cydweithredol Cymru, drwy 'Cydweithredu i Ofalu, ei brosiect datblygu cydweithredol blaenorol, yn cefnogi grŵp o bobl fyddar i lenwi'r bwlch mewn gwasanaethau, tra roedd Cyngor Conwy yn buddsoddi yn Sign Live. Drwy gefnogi'r gymuned i reoli a defnyddio eu lleisiau eu hunain, roedd gwasanaeth newydd wedi codi oedd yn ymateb yn llwyr i'w gofynion a dyheadau, sy'n gallu datblygu a thyfu gyda buddsoddiad pellach gan gomisiynwyr o fewn modelau gwerth cymdeithasol. Dyma ddarn o'r astudiaeth achos:

'Mae Gwasanaeth Cyfieithu a Chefnogi Pobl Fyddar Conwy, cyd-fenter gan Bobl Fyddar i Bobl Fyddar, yn cwrdd yn rheolaidd i helpu i ddatrys trafferthion yn eu cymuned. Mae'n fwy na gwasanaeth cyfieithu hefyd – mae pobl yn dod i gael cymorth gyda llawer o bethau, gallai fod yn gwestiynau ar gyfryngau cymdeithasol, neu gyngor ar faterion preifat. Mae'r cyd-fenter wedi creu lle ble mae'r Gymuned Fyddar yn teimlo'n gyfforddus i gael y cymorth maent ei angen. Mae hyn mor bwysig, gan fod gan 40% o Bobl Fyddar gyflwr iechyd meddwl, ac mae'r gwasanaethau a gynigir yn gwneud gwahaniaeth mawr i les eu haelodau. Mae Gwasanaeth Cyfieithu a Chefnogaeth i Bobl Fyddar Conwy wedi gwneud bywyd bob dydd yn fwy hygyrch i'w cymuned – y ffordd y dylai fod bawb!'

Menter Cefnogaeth Gymunedol

Yn Hydref 2018, roedd sefydliadau wedi eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned i ddinasyddion yn Sir y Fflint sy'n byw gydag anabledd. Roedd pob contract wedi'i ddyfarnu i sefydliad trydydd sector gwahanol yn dilyn proses dendro.

Roedd pob gwasanaeth wedi'i ddylunio i gefnogi unigolion yn y gymuned sy'n byw gydag anabledd, gan alluogi a chefnogi eu hannibyniaeth a chynnal eu lles. Roedd y gwasanaethau wedi eu dylunio i gael unigolion yn y gymuned nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau statudol eto, eu cefnogi i gynnal eu hannibyniaeth a dim angen ymyrraeth statudol yn ddiangen, ac eithrio Gwasanaeth Nam ar y Synhwyrau sy'n rhwymedigaeth statudol yr Awdurdod Lleol.

Yng nghamau cychwynnol y contractau, roedd y pedwar sefydliad, yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi cytuno i gydweithio

i gefnogi'r naill a'r llall i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Roeddent yn galw'r bartneriaeth hon yn 'Fenter Cefnogaeth Gymunedol'.

Cyfoethogi'r Gymuned a Chludiant – Cynllun KeyRing:

- Galluogi oedolion a phlant ag anableddau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i gyfrannu a chyfranogi.
- Cynnwys oedolion a phlant ag anableddau, gweithio gyda nhw i gydnabod a rheoli eu cryfderau, adnoddau a sgiliau.
- Darparu gwybodaeth a chynghor ynglŷn â chludiant lleol a hwyluso hyfforddiant ar gyfer mynediad diogel a chyfartal i gludiant.
- Darparu cynghor, adnoddau, hyfforddiant a chefnogaeth ymarferol i helpu pobl ag anableddau i sefydlu a chynnal prosiectau a mentrau.
- Cefnogi twf cymunedau gweithredol a chynaliadwy a datblygu mentrau mewn cymunedau lleol.
- Cynnig mynediad i arbenigedd a chefnogaeth dechnegol i sefydlu prosiectau a chaniatáu i gymunedau barhau i'w cefnogi i dyfu.
- Darparu gwybodaeth a chanllawiau yn ymwneud â ffrydiau cyllid a chyfleoedd codi arian.

Nam ar y Synhwyrâu – Rhwydwaith Cefnogi Byddardod:

- Adsefydlu, sefydlu ac ail-alluogi pobl gyda nam ar y synhwyrâu.
- Datblygu ansawdd bywyd, hybu annibyniaeth barhaus a chodi ymwybyddiaeth am nam ar y synhwyrâu mewn cymunedau.
- Canolfan ar ail-alluogi, galluogi pobl i wneud pethau dros eu hunain (yn wahanol i'r modelau gwasanaeth traddodiadol) i fwyhau eu gallu i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl.
- Galluogi plant ac oedolion gyda nam ar y synhwyrâu i fyw yn fwy annibynnol a datblygu sgiliau a fyddai fel arall wedi eu dysgu fel mae'n digwydd. Mae hyn yn hanfodol ble mae unigolyn wedi colli, wedi methu, neu ag oedi o ran datblygu'r sgiliau hynny o ganlyniad i'w nam ar y synhwyrâu.
- Cefnogi unigolion drwy brosesau cofrestru gofynnol, ble bo'n briodol.

Technoleg ac Offer – Canolfan Golwg a Sain:

- Rhoi'r sgiliau a'r hyder i bobl ddefnyddio adnoddau lleol ac ar-lein.
- Ymchwilio a gwerthuso atebion offer a thechnoleg newydd.
- Nodi anghenion cefnogaeth ychwanegol i unigolion i'w galluogi i gael

mynediad i wybodaeth a chyngor.

- Cynnal gweithdai hyfforddiant cymunedol i bobl sydd angen cefnogaeth ychwanegol.
- Bydd y gwasanaeth yn cydnabod yr angen am ddarpariaeth arbenigol i atgyfeirio i ddarparwyr eraill, timau gwasanaeth cymdeithasol, cyrff iechyd a grwpiau perthnasol eraill.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Wrecsam gontract gyda Rhwydwaith Cefnogi Golwg a Chefnogi Byddardod ar hyn o bryd sy'n ffurfio rhan o'r Cynnig Un Pwynt Mynediad. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd gydag argymhellion i ddilyn. Canfyddiadau cychwynnol yw bod yna fwch mewn darpariaeth ar gyfer asesiad i bobl â nam ar y synhwyrâu deuol a bod yna brinder o aseswyr sydd wedi eu hyfforddi i'r safon hwn. Byddwn yn ystyried sut i addasu'r gwasanaethau hyn i gefnogi dinasyddion yn well gyda nam ar y synhwyrâu deuol o fewn datblygiad gwasanaeth a chynlluniau comisiynu yn y dyfodol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Wrecsam hefyd yn ymwneud â Phrosiect Nam ar y Clyw Rhanbarthol BIPBC, sy'n anelu i gefnogi dinasyddion gyda nam ar y clyw ar lefel ataliol gyda llai o ymyrraeth glinigol. Mae staff gofal ar draws Wrecsam yn cael eu hyfforddi sut i gefnogi atgyweirio a chynnal cymhorthion clyw lefel isel.

Swyddogion adsefydlu ar gyfer pobl â nam ar eu golwg

Rôl y Swyddog Adsefydlu ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg yw magu hyder; darparu cymorth emosiynol; adennill sgiliau a gollwyd a dysgu sgiliau newydd; a chynnal a hyrwyddo annibyniaeth a dewis. Bydd y sgiliau hyn yn galluogi pobl sy'n colli eu golwg i fyw yn ddiogel a chyfrannu at y gymdeithas fel dinasyddion gweithredol. Y Swyddog Adsefydlu ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg yw'r unig weithiwr cymwysedig i wneud asesiad o angen yn achos pobl sy'n colli eu golwg ac i ddarparu ymyriadau penodol. Nid oes gan bob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru'r lleiafswm ag argymhellwyd o Swyddogion Adsefydlu ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg mewn swydd.

Mae Cyngor Cymru i'r Deillion wedi tynnu sylw at yr argymhellion canlynol yn eu hadroddiad Swyddog Adsefydlu ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg: Mynd i'r afael ag argyfwng yn y gweithlu yng Nghymru.

- Prinder swyddogion adsefydlu hyfforddedig yng Nghymru a chynllunio'r gweithlu;

- Datblygiad Proffesiynol Parhaus;
- Gradd adsefydlu wedi'i seilio ar Gymru;
- Sgrinio defnyddwyr gwasanaeth yn gyson;
- Mesurau canlyniad a phrofiad i ddefnyddwyr gwasanaeth;
- Adnabod pwysigrwydd cymorth y Swyddog Adsefydlu ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg;
- Cefnogaeth i'r gweithlu.

6.11 Covid-19

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o Covid-19 yn ardal Gogledd Cymru gan gynnwys cyfanswm achosion, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaeth yn yr ysbyty fesul ardal awdurdod lleol.

Tabl 49: Derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau Covid-19 hyd at fis Hydref 2021

Cyngor lleol	Cyfanswm achosion	Derbyniadau i'r ysbyty	Marwolaethau (mewn ysbytai)
Ynys Môn	4,883	202	81
Gwynedd	8,650	287	122
Conwy	10,434	498	181
Sir Ddinbych	10,428	387	164
Sir y Fflint	17,213	475	204
Wrecsam	17,771	711	269
Gogledd Cymru	69,379	2,560	1,021


Ffynhonnell: Data Dangosfwrdd Covid-19, BIPBC, Hydref 2021

Prif fater sy'n codi o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, yw rheoli pobl gyda symptomau 'covid-hir'. Mae'r Swyddfa Ystadegau Statudol wedi gosod 15% o ragdybiaeth o achosion covid-hir ymhlith y sawl sydd wedi cael prawf positif ar gyfer y feirws. Yn seiliedig ar y dybiaeth hon, mae BIPBC wedi dangos llwyth achos covid-hir rhagweledig fel y senario gwaethaf rhesymol fel rhan o Raglen Adfer Covid-hir BIPBC.

Mae'n amcangyfrif bod tua 700 o gleifion eisoes yn y system yn aros i wasanaethau covid-hir ddechrau. Mae'r modelu yn amcangyfrif y gallai fod yna 7,000 o gleifion yn cael covid-hir dros y cyfnod o 12-18 mis i ddod. Mae'r data sy'n sail i'r modelau hyn

yn cael ei ddiweddarau yn fisol ac mae'n destun newid mewn llwyth achos. Darparwyd yr amcangyfrif hwn ym mis Medi 2021.

Siart 19: Llwyth achosion Covid-hir BIPBC a ragwelir o fis Medi 2021



Ffynhonnell: BIPBC

Effaith ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau ar draws Cymru. Mae llawer o hyn wedi'i adlewyrchu yng Ngogledd Cymru hefyd ac mae'n cynnwys:

- Llai o allu mewn adrannau brys ac ysbytai cyfan.
- Amharu ar wasanaethau clinigol yn arwain at ôl-groniad sylweddol.
- Mae'r nifer o bobl sy'n aros dros 52 wythnos ar ei uchaf erioed.
- Mae pobl yn gohirio cysylltu â'u meddyg teulu am symptomau, a allai effeithio ar driniaeth a chanlyniadau.
- Cynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys amcangyfrif o 25% o gynnydd yn y galw am wasanaethau ysbyty.

Mae effaith Covid-19 yn fwy nag effaith ar iechyd y cyhoedd. Mae hyn yn cael ei archwilio yn fwy manwl ar gyfer pob pennod ac mae dogfen adolygiad cyflym ar gael gyda dadansoddiad manwl o effaith Covid-19 ar y sawl ag anghenion gofal a chefnogaeth.

6.12 Cydraddoldeb a hawliau dynol

Ym mis Mai 2013 ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at holl fyrddau iechyd yn cyflwyno Safonau Cyfathrebu Hygyrch a Gwybodaeth i Bobl â Nam ar y Synhwyrâu Cymru gyfan. Diben y safonau yw sicrhau bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth pobl â nam ar y synhwyrâu yn cael eu bodloni wrth gael mynediad i wasanaethau gofal iechyd. Mae cyfathrebu effeithiol a phriodol yn hanfodol i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n hybu parch ac urddas. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dangos bod cyfathrebu aneffeithiol yn fater diogelwch cleifion ac mae'n gallu arwain at ddeilliannau iechyd gwaeth. Mae'r safonau wedi hwyluso amcanion y bwrdd iechyd o fewn Cynllun Strategol Hawliau Dynol a Chydraddoldeb (BCUHB, 2016).

O ganlyniad i'r pandemig Covid-19, roedd pobl â nam ar y synhwyrâu dan anfantais yn arbennig gan y canllawiau a chyfyngiadau gan gynnwys mesurau yn ymwneud â chadw pellter cymdeithasol, masgiau wyneb a sgrinio perspex. Fel y manylir yn yr adroddiad Cloi Allan, mae pobl anabl wedi profi'r gwaharddiadau ychwanegol hyn o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r adroddiad yn nodi bod hyn wedi'i achosi gan ddiffyg cydgynhyrchu gyda phobl anabl.

6.13 Diogelu

Mae diogelu rhag cam-drin ac esgeulustod yn cael ei nodi fel un o'r prif agweddau o les a ddisgrifir uchod. Gall pobl ag anghenion iechyd hirdymor, anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrâu ddod o fewn y diffiniad o oedolyn mewn perygl. Gall pobl ag anawsterau cyfathrebu, o ganlyniad i anawsterau clyw, golwg neu leferydd fod mewn perygl, ac yn methu datgelu ar lafar (Ffora Amddiffyn Oedolion 2013). Ni ddylem gymryd bod pob Oedolyn ag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrâu yn ddi-amddiffyn, fodd bynnag, ond dylid bod yn ymwybodol o fwy o ffactorau risg posibl.

6.14 Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Fel gyda phobl hŷn, ac unrhyw oedolyn ag anghenion gofal a chefnogaeth, gall y sawl ag anghenion iechyd a chorfforol, gan gynnwys nam ar y synhwyrâu fod yn arbennig o ddi-amddiffyn, oherwydd eu cyflyrau iechyd ac felly yn dibynnu ar bobl eraill ar gyfer eu hanghenion gofal, felly yn cynyddu'r teimlad o ynysu.

Mae astudiaethau wedi dangos bod merched anabl dwywaith yn debygol o brofi cam-drin domestig a hefyd dwywaith yn fwy tebygol o ddioddef ymosodiad a thrais (Bywydau Diogel 2017).

Gall hyn olygu bod yr unigolion hyn mewn perygl o, neu'n byw gyda chamdriniaeth a/neu esgeulustod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae hyn yn golygu eu bod yn aml angen dull cyfannol sy'n ymdrechu i'w cadw'n ddiogel, tra'n hybu byw'n annibynnol a mynd i'r afael ag anghenion gofal parhaus.

Eto, nid oes data penodol ar gyfer y sawl â nam ar y synhwyrâu sy'n byw gyda cham-drin domestig ar draws y rhanbarth, fodd bynnag, mae'n bosibl y byddai'r rhan fwyaf o asiantaethau yn ystyried y cyflyrau hyn fel anabled. Felly, o ran anabled ar draws y rhanbarth, amcangyfrifir o 16 Medi 2021, roedd data MARAC treigl 12 mis yn dangos bod rhwng 0-2.3% o achosion yn cael eu hystyried fel "risg uchel" yn cynnwys anabled wedi eu clywed yn MARAC.

Gan fod data MARAC yn cynnwys achosion risg uchel a cham-drin domestig yn drosedd na adroddir cymaint amdano, mae'n rhesymol tybio bod y ffigwr hwn yn tangynrychioli'r darlun cywir. Unwaith eto, dylai awdurdodau lleol gael gweithdrefnau ar waith ar gyfer nodi cam-drin domestig ac arwyddbostio i'r arweinydd penodedig perthnasol ar gyfer diogelu. Gellir ystyried atgyfeiriad i MARAC ar y cyd â gofal cynbresennol mae unigolion yn eu derbyn eisoes.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gwneud adrodd am blentyn neu oedolyn sydd mewn perygl yn ddyletswydd statudol ac mae ganddo hefyd rwymedigaeth i gynnal asesiad o anghenion yr unigolyn a'r gofalwyr. Gall asesiad gynnwys ystyried anghenion tai'r unigolyn ac anghenion cymorth eraill.

Ar draws y rhanbarth, mae gwasanaethau arbenigol ar gael i gefnogi'r sawl sy'n profi cam-drin domestig yn cynnwys cefnogaeth ymgynghorydd annibynnol ar drais domestig, cefnogaeth yn ôl yr angen, cefnogaeth mewn argyfwng, rhaglenni grŵp, cefnogaeth eiriolaeth ar gyfer cam-drin presennol a hanesyddol a cham-drin rhywiol a chanolfan atgyfeirio.

6.15 Ystyriaethau'r iaith Gymraeg

Yn unol â'r Fframwaith a Chynllun Gweithredu Mwy Na Geiriau, mae'n rhaid i holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu'r cynnig gweithredol i'r sawl sy'n dymuno cael cefnogaeth yn y Gymraeg. Mae BIPBC yn [cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol Gwasanaethau Cymraeg](#) sydd yn cynnwys y gwaith a wneir i fodloni gofynion Safonau'r Gymraeg.

Roedd Mawrth 2019 yn nodi diwedd y cyfnod tair blynedd yn Adroddiad Llywodraeth Cymru. Cafodd Cynllun Gweithredu 2019-2020 ei ddatblygu i ddarparu strwythur ar gyfer cynnydd parhaus mewn perthynas â hybu a darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg o fewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wneud cynnydd yn erbyn y cynllun ac mae'n rhagweithiol ym mhob maes thema.

Thema 1 - cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg

Thema 2 - cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg

Thema 3 - Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn elfen allweddol i gyflawni Mwy Na Geiriau, gyda gwaith integredig hyd yn oed yn fwy amlwg. Roedd y Bwrdd Iechyd yn bennaf gyfrifol am sefydlu Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru. Mae hwn yn grŵp amlasiantaeth a sefydlwyd i hwyluso gweithrediad rhanbarthol parhaus. Nid oedd y Fforwm wedi cwrdd yn ystod y flwyddyn adrodd flaenorol oherwydd ymrwymiadau traws-sector yn delio gyda'r pandemig Covid-19. Roedd rhwydweithio wedi parhau, fodd bynnag, gyda chefnogaeth a gwybodaeth yn cael ei dosbarthu ymhlith aelodau i gefnogi'r naill a'r llall yn ystod yr adegau heriol hyn.

Bydd y Fforwm yn ailddechrau cyfarfodydd yn ystod ail hanner 2021-2022. Un o brif egwyddorion Mwy Na Geiriau yw'r 'Cynnig Gweithredol' gyda blaenoriaeth yn canolbwyntio ar ddod â'r "Cynnig Gweithredol" i'r rheng flaen. Roedd y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at ddatblygu dull allweddol i nodi dewis iaith drwy ei Gynllun Dewis Iaith a enillodd wobr, sy'n darparu cefnlen ar gyfer cynnig y "Cynnig Gweithredol" yn llwyddiannus.

6.16 Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol

Yn y DU mae'r ganran o bobl anabl oed gwaith sy'n byw mewn tlodi yn 27%. Mae hyn yn uwch na'r ganran o bobl oed gwaith nad ydynt yn anabl sef 19% (Scope 2018/2019). Mae ymchwil diweddar wedi ailgadarnhau tystiolaeth gynharach o'r cyswllt rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau iechyd. Rydym yn gwybod, er enghraifft, bod yna wahaniaethau mawr mewn disgwyliad oes a chyffredinolrwydd salwch hirdymor sy'n cyfyngu, anabledd ac iechyd gwael rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016a).

Mae pobl sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yn profi mwy o flynyddoedd o iechyd gwael ac yn fwy tebyg o gael ymddygiad a ffordd o fyw afiach na phobl yn y cymunedau llai difreintiedig. O ganlyniad, mae'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn profi lefelau uwch o anabledd, salwch, colli bywydau, colli cynhyrchedd a mwy o ddibyniaeth lles (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016a)

Mae diwygiadau a wnaed i'r gyfundrefn les yn cael mwy o effaith ar draws pob grŵp yng Nghymru (A Yw Cymru'n Decach? 2018), fodd bynnag, mae'n denu mwy o bobl o grwpiau penodol, fel y sawl ag anableddau, i dlodi. Mae'r adroddiad 'A Yw Cymru'n Decach?' yn nodi bod pobl anabl yn cael eu gadael ar ôl ymhellach. Yng Nghymru, bydd un mewn pump disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn ennill pump TGAU gradd A* - C o'i gymharu gyda dwy ran o dair o ddisgyblion heb ADY.

Mae nifer o astudiaethau ac adroddiadau yn nodi bod y sawl â nam ar y synhwyrau, fel nam ar y golwg a nam ar y clyw, yn wynebu mwy o anghyfartaleddau economaidd-gymdeithasol. Roedd dadansoddiad eang o amlastudiaethau ar gyfer nam ar y clyw wedi'i gynnal gan Brifysgol Manceinion (2021), oedd yn amlygu pedwar maes eang o anghydraddoldeb:

- a. Mae'n bosibl bod yna gylch diefflig rhwng nam ar y clyw ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a ffactorau ffordd o fyw.
- b. Mae sefyllfa economaidd-gymdeithasol yn gallu rhyngweithio gyda ffyrdd o fyw llai iach, sy'n niweidiol i allu clywed.
- c. Mae cynyddu gwybodaeth iechyd yn gallu gwella'r diagnosis a phrognosis nam ar y clyw ac atal canlyniadau difrifol nam ar y clyw pobl iach.
- d. Mae pobl â nam ar y clyw yn gallu bod yn ddi-amddiffyn i dderbyn gofal iechyd o ansawdd isel a llai diogel.

Mae byw gydag unigolyn sydd ag anabledd yn gwneud tlodi incwm cymharol yn fwy tebygol i blant ac oedolion oed gwaith. Yn y cyfnod diwethaf 2017-18 i 2019-20 (Llywodraeth Cymru, Tlodi Incwm Cymharol, 2021):

- Roedd 38% o blant oedd yn byw mewn teulu ble roedd yna rywun gydag anabledd mewn tlodi incwm cymharol yn cymharu gyda 26% o'r sawl mewn teuluoedd ble nad oedd unrhyw un yn anabl.
- Roedd 31% o blant oedd yn byw mewn teulu ble roedd yna rywun gydag anabledd mewn tlodi incwm cymharol yn cymharu gyda 18% o'r sawl mewn teuluoedd ble nad oedd unrhyw un yn anabl.

6.17 Casgliadau ac argymhellion

Argymhellir yn unol â phob deddfwriaeth, polisi a chanllawiau, mae'r argymhellion a blaenoriaethau canlynol yn cael eu datblygu i fodloni gweledigaeth i'r sawl gydag anghenion iechyd cyffredinol neu gronig, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau o fewn Rhanbarth Gogledd Cymru.

- **Atal ac ymyrryd yn fuan:** mae ymddygiad afiach yn cynyddu'r risg i iechyd cyffredinol gwaeth. Mae canolbwynt ar atal ac ymyrryd yn fuan yn cynyddu ymddygiad iach, fel rhoi'r gorau i ysmegu, teithio llesol, gweithgarwch corfforol, manau awyr agored ac amgylchedd hygyrch, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, yn cael effaith hirdymor ar iechyd a lles cyffredinol preswylwyr yng Ngogledd Cymru. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu harchwilio ymhellach yn yr asesiadau lles ar draws y rhanbarth.
- **Hygyrchedd gwasanaethau/gofod cyhoeddus:** ymatebwyr wedi codi materion gyda mynediad (gan gynnwys cysylltiadau cludiant a mynediad arall i fannau cyhoeddus fel toiledau) i fannau cyhoeddus, gan gynnwys materion gyda chludiant a mynediad i gyfleusterau fel toiledau. Roedd cysylltiadau trafndiaeth yn broblem yn arbennig mewn ardaloedd mwy gwledig, ble mae arwahanrwydd cymdeithasol yn gallu bod yn waeth oherwydd diffyg isadeiledd cludiant cyhoeddus. Fel rhanbarth, dylai darparwyr gwasanaeth ystyried hygyrchedd i'r sawl â nam corfforol neu nam ar y synhwyrau. Mae hyn wedi bod yn waeth yn ystod y pandemig Covid-19. Bydd ffrydiau gwaith ar gyfer gofal yn nes at y cartref ac yn y gymuned yn cynorthwyo i danseilio'r argymhelliad hwn.

- **Gwybodaeth Hygyrch:** roedd ymatebwyr wedi nodi eu bod yn gweld nad yw deunydd gwybodaeth maent yn ei derbyn ar gael yn hygyrch yn aml. Mae'n orfodol bod gwasanaethau yn sicrhau bod eu holl ddeunyddiau yn darparu gwybodaeth neu ganllawiau, ar gael yn hygyrch mewn fformat i holl ddefnyddwyr. Nid yw deunydd wedi'i argraffu bob amser yn addas i bobl â nam ar y synhwyrau ac mae symud i wasanaethau digidol/ar-lein hefyd wedi gwaethygu mynediad i lawer. Dylai gwasanaethau ystyried bod yn rhaid i wybodaeth fod ar gael mewn fformatau hygyrch.
- **Model Cymdeithasol o Anabledd:** parhau â'r ffordd mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru yn adlewyrchu'r model hwn wrth gynllunio a darparu gwasanaeth yn ail-gadarnhau eu hymrwymiad i'w egwyddorion.
- **Cydgynhyrchu gwasanaethau:** cysylltu'n gryf gyda'r ymrwymiad uchod i'r model cymdeithasol o anabledd, mae cydgynhyrchiad yn brif egwyddor i sicrhau bod pobl anabl yn cyfrannu at wneud penderfyniadau am wasanaethau sydd ganddynt fynediad iddynt. Dylid canolbwyntio hefyd ar fodelau darparu gwerth cymdeithasol yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

7. Anableddau dysgu

7.1 Gwybodaeth am y bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys asesiad o anghenion oedolion ag anableddau dysgu ac oedolion awtistig sydd hefyd ag anableddau dysgu. Mae pobl ifanc rhwng 16 a 25 oed sy'n derbyn gwasanaethau trosiannol hefyd wedi'u cynnwys yn yr adran hon. Er y gwneir rhai cyfeiriadau at bobl o bob oedran, mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar oedolion a phobl hŷn yn bennaf.

Gellir dod o hyd i asesiad manwl a rhagor o wybodaeth am blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, oedolion awtistig nad oes ganddynt anableddau dysgu a gofalwyr pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth yn y penodau canlynol:

- [Plant a phobl ifanc](#)
- [Gofalwyr](#)

- [Awtistiaeth](#)

Beth ydym ni'n ei olygu wrth anableddau dysgu?

Defnyddir y term anabledd dysgu i ddisgrifio unigolyn sydd â:

- Gallu llawer is i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, neu ddysgu sgiliau newydd (deallusrwydd â nam sylweddol); a / neu
- Llai o allu i ddygymod yn annibynnol, (nam ar weithredu yn gymdeithasol/y gallu i addasu) a ddechreuodd cyn bod yn oedolyn gydag effaith barhaol ar ddatblygiad (Yr Adran Iechyd, 2001).

Beth ydym ni'n ei olygu wrth anableddau dysgu amryfal a dwys?

Defnyddir y term anableddau dysgu amryfal a dwys i ddisgrifio pobl sydd â mwy nag un nam gan gynnwys nam deallusol dwys (Doukas et al., 2017). Mae'n ddisgrifiad yn hytrach na diagnosis clinigol o unigolion sy'n cael trafferth gyda chyfathrebu ac sy'n aml angen pobl sy'n eu hadnabod yn dda i ddehongli eu hymatebion a'u bwriad. Mae'r term yn cyfeirio at grŵp amrywiol o bobl sy'n aml â chyflyrau eraill gan gynnwys nam corfforol neu synhwyrdd neu anghenion iechyd cymhleth.

Beth ydym ni'n ei olygu wrth awtistiaeth?

Defnyddir y term awtistiaeth i ddisgrifio cyflwr datblygu sy'n para am oes ac yn cael effaith ar y ffordd mae unigolyn yn cyfathrebu gyda, neu'n cysylltu â phobl eraill. Mae awtistiaeth hefyd yn effeithio ar ddealltwriaeth unigolyn o'r byd o'u hamgylch. Mae'n gyflwr sbectwm sy'n golygu, er bod pawb sydd ag awtistiaeth yn rhannu'r un anawsterau, mae'r cyflwr yn eu heffeithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae oddeutu 50% o bobl awtistig hefyd ag anabledd dysgu, gellir dod o hyd i ragor o fanylion am anghenion pobl awtistig yn y [bennod Awtistiaeth](#).

7.2 Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth

Mae'r data isod yn seiliedig ar gofrestrau anableddau dysgu'r cynghorau lleol, sydd ond yn cynnwys yr unigolion y mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ymwybodol ohonynt. Mae'n debyg bod nifer gwirioneddol y bobl gydag anableddau dysgu yn uwch. Mae Better Health Care for All yn amcangyfrif bod gan 2% o bobl anabledd dysgu. Mae amcangyfrifon Daffodil yn nodi bod 13,000 o bobl ag anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y bobl sydd wedi'u nodi fel bod ganddynt anabledd dysgu ar gofrestrau Meddygon Teulu Gogledd Cymru. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu ar draws pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Chymru gyfan rhwng 2015 a 2020. Mae'r gyfradd fesul 100,000 o bobl yng Ngogledd Cymru ychydig yn uwch na'r gyfradd yng Nghymru, 516 o'i gymharu â 487. Sir y Fflint oedd â'r gyfradd isaf yng Ngogledd Cymru, gyda 390 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Sir Ddinbych oedd â'r nifer uchaf gyda 756.

Tabl 50: Nifer a chyfradd fesul 100,000 sydd ag anabledd dysgu ar gofrestr Meddygon Teulu yng Ngogledd Cymru

Cyngor lleol	Nifer 2015	Cyfradd 2015	Nifer 2020	Cyfradd 2020	Gwahaniaeth mewn nifer
Ynys Môn	320	455	340	478	20
Gwynedd	630	511	720	577	100
Conwy	530	452	590	496	60
Sir Ddinbych	710	749	730	756	20
Sir y Fflint	580	378	610	390	30
Wrecsam	600	445	640	470	40
Gogledd Cymru	3,370	485	3,630	516	260
Cymru	14,180	458	15,450	487	1,270

Talgrynnwyd y niferoedd felly mae'n bosibl na fydd yn symio
 Ffynhonnell: Contract gwasanaethau meddygol cyffredinol: fframwaith ansawdd a chanlyniadau, Llywodraeth Cymru, ac Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r tabl isod yn dangos data ar gyfer 2019 – 2020 a 2020 – 2021, casglwyd y data hwn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o gofrestrau gwasanaethau cymdeithasol.

Tabl 51: Y nifer sydd ag anabledd dysgu ar gofrestr y gwasanaethau cymdeithasol

Cyngor lleol	Nifer	
	2019-20	2020-21
Ynys Môn	327	312
Gwynedd	572	603
Conwy	493	512
Sir Ddinbych	426	424
Sir y Fflint	538	489
Wrecsam	557	526
Gogledd Cymru	2,882	2,866

Talgrynwyd y niferoedd felly mae'n bosibl na fydd yn symio

Ffynhonnell: cofrestrau gwasanaethau cymdeithasol cyngorau lleol, casglwyd gan BIPBC

Plant a phobl ifanc gydag anableddau dysgu

Yn 2018-19, roedd 770 o blant (rhwng 0 ac 16 oed) ar y gofrestr anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu o 680 yn 2014-15. Mae'r duedd hon yn wahanol i duedd Cymru gyfan, sydd wedi gostwng. Roedd cyfraddau Gogledd Cymru'n llawer uwch gyda 618 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2018-19, o'i gymharu â'r ffigwr ar gyfer gweddill Cymru, sef 416. Roedd cynnydd yn nifer y plant ar y gofrestr yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Roedd gan Wrecsam y gyfradd isaf o blant ar y gofrestr yng Ngogledd Cymru o 328 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o gymharu â'r uchaf yn Sir y Fflint, ar 1,218 fesul 100,000. Gellir egluro'r gwahaniaethau yn y data trwy wahanol feini prawf a ddefnyddir i gasglu data ar lefel leol. Er enghraifft, ble dangosir fod gan Gwynedd ostyngiad efallai mai nid dyma'r achos. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi fod angen trin y data gyda gofal.

Tabl 52: Nifer a chyfradd y plant fesul 100,000 sydd ag anabledd dysgu ar gofrestr Meddygon Teulu yng Ngogledd Cymru

Cyngor lleol	Nifer 2014-15	Cyfradd 2014-15	Nifer 2018-19	Cyfradd 2018-19	Gwahaniaeth mewn nifer
Ynys Môn	-	-	-	-	-
Gwynedd	130	627	80	388	20
Conwy	120	639	140	721	30
Sir Ddinbych	80	467	110	654	70
Sir y Fflint	280	978	350	1,218	20
Wrecsam	70	251	90	328	-50
Gogledd Cymru	680	546	770	618	90
Cymru	2,840	512	2,340	416	-500

Talgrynnwyd y niferoedd felly mae'n bosibl na fydd yn symio Nid yw cyfanswm Cymru a Gogledd Cymru'n cynnwys Ynys Môn. Ffynhonnell: Casgliad data am gofrestr awdurdodau lleol o bobl anableddau dysgu (SSDA901), Llywodraeth Cymru ac Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae datblygiadau meddygol wedi cael effaith gadarnhaol, gyda rhagor o bobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn yn goroesi i fod yn oedolion (Emerson a Hatton, 2008). Bydd rhaid i wasanaethau addasu i sicrhau eu bod yn gallu bodloni anghenion y bobl ifanc hyn wrth iddynt symud i'r gwasanaethau oedolion.

Mae gwasanaethau statudol yn ymateb i'r newidiadau demograffig hyn. Er enghraifft, mae Cyngor Sir y Fflint wedi sefydlu Tîm Plentyn i Oedolyn i helpu i baratoi pobl ifanc ag anableddau dysgu ar gyfer bod yn oedolion. Mae'r tîm wedi buddsoddi mewn hyfforddiant i sefydlu'r egwyddorion a'r camau sy'n ofynnol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â phlant ag anableddau dysgu. Mae hyn yn cynnwys canolbwyntio ar wrando ar lais y plentyn, profiadau'r plentyn a gweithio tuag at gyflawni canlyniadau personol.

Daeth Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a gyhoeddwyd ar 24 Ionawr 2018 i rym ym mis Medi 2021. Mae'r Ddeddf a'r cod perthnasol yn creu'r fframwaith deddfwriaethol i wella'r broses o gynllunio a chyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol, drwy ddull sy'n canolbwyntio ar unigolion er mwyn nodi anghenion yn fuan, rhoi system gymorth a monitro effeithiol ar waith, ac addasu ymyriadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r deilliannau a ddymunir.

Gweler y bennod plant a phobl ifanc am ragor o wybodaeth gan gynnwys effaith y pandemig COVID-19 ar blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu.

Oedolion gydag anableddau dysgu

Yn 2018-19, roedd oddeutu 2,630 o oedolion rhwng 16 a 64 oed yn derbyn gwasanaethau anableddau dysgu wedi'u trefnu gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru. Mae cynnydd cyffredinol wedi bod yn nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaethau ar draws Gogledd Cymru yn y pum mlynedd diwethaf fel y gwelir yn y tabl isod. Mae hyn eto'n wahanol i'r duedd gyffredinol yng Nghymru, sydd wedi gweld gostyngiad yn y nifer ar y gofrestr. Roedd y cynnydd uchaf yn nifer y bobl sydd ar y gofrestr yn Sir y Fflint, gyda chynnydd o 120 o bobl. Gwelodd Wrecsam, Gwynedd a Chonwy ostyngiad o 20 o bobl ar y gofrestr.

Tabl 53: Nifer a chyfradd yr oedolion fesul 100,000 o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed oedd yn derbyn gwasanaethau anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru rhwng 2014-15 a 2018-19

Cyngor lleol	Nifer 2014-15	Cyfradd 2014-15	Nifer 2018-19	Cyfradd 2018-19	Gwahaniaeth mewn nifer
Ynys Môn	270	659	290	724	20
Gwynedd	530	718	510	684	-20
Conwy	450	671	430	651	-20
Sir Ddinbych	380	681	400	722	20
Sir y Fflint	440	462	550	588	120
Wrecsam	470	552	440	533	-20
Gogledd Cymru	2,540	608	2,630	636	90
Cymru	11,040	574	9,520	495	-1,520


Talgrynnwyd y niferoedd felly mae'n bosibl na fydd yn symio

Ffynhonnell: Casgliad data am gofrestr awdurdodau lleol o bobl anableddau dysgu (SSDA901), Llywodraeth Cymru ac Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r siart isod yn dangos y gwahaniaeth yng nghyfradd yr oedolion rhwng 16 a 64 oed sydd ag anableddau dysgu ac yn derbyn gwasanaethau yng Ngogledd Cymru. Mae 636 fesul pob 100,000 o bobl rhwng 16 a 64 oed yng Ngogledd Cymru ag anabledd dysgu. Mae hyn yn uwch na'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan, sef 495 fesul 100,000 o bobl. Yn 2014-15, roedd y cyfraddau ar gyfer Gogledd Cymru a Chymru yn debyg, 608 o'i gymharu â 574 fesul 100,000 o bobl. Ynys Môn a Sir Ddinbych

sydd â'r cyfraddau uchaf, gyda 724 a 722 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Wrecsam oedd â'r gyfradd isaf, gyda 533 fesul 100,000 o bobl.

Siart 20: Cyfradd yr oedolion rhwng 16 a 64 oed gydag anableddau dysgu oedd yn derbyn gwasanaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2018-2019



Ffynhonnell: Casgliad data am gofrestr awdurdodau lleol o bobl anableddau dysgu (SSDA901), Llywodraeth Cymru ac Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Pobl hŷn gydag anableddau dysgu

Yn 2018-19, roedd y gwasanaethau'n ymwybodol o 300 o bobl 65 oed neu'n hŷn yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn gyfradd o 185 fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru, o'i gymharu â chyfradd llawer uwch o 359 fesul 100,000 ar gyfer Cymru gyfan. Mae Gogledd Cymru wedi gweld cynnydd bychan yn nifer y bobl ar y gofrestr, mae Cymru ar y llaw arall wedi gweld gostyngiad. Sir y Fflint sydd â'r gyfradd isaf, gyda 119 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â Gwynedd sydd â'r gyfradd uchaf gyda 252.

Tabl 54: Nifer a chyfradd yr oedolion fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed+ ac wedi derbyn gwasanaethau anabledd dysgu yng Ngogledd Cymru rhwng 2014-15 a 2018-19

Cyngor lleol	Nifer 2014-15	Cyfradd 2014-15	Nifer 2018-19	Cyfradd 2018-19	Gwahaniaeth mewn nifer
Ynys Môn	30	189	30	183	0
Gwynedd	60	235	70	252	10
Conwy	60	181	50	165	0
Sir Ddinbych	50	226	50	218	0
Sir y Fflint	40	119	40	119	0
Wrecsam	40	153	50	189	10
Gogledd Cymru	280	181	300	185	20
Cymru	2,840	462	2,340	359	-500

Talgrynnwyd y niferoedd felly efallai na fydd yn symio
Ffynhonnell: Casgliad data am gofrestr awdurdodau lleol o bobl anableddau dysgu (SSDA901), Llywodraeth Cymru ac Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae tueddiadau presennol yng Ngogledd Cymru yn dangos cynnydd cyffredinol o oddeutu 20 yn nifer y bobl 65 oed neu'n hŷn a oedd yn derbyn gwasanaethau anableddau dysgu rhwng 2014-15 a 2018-19, fodd bynnag, mae'r nifer wedi amrywio yn y cyfnod hwn.

Mae pobl ag anableddau dysgu'n byw yn hirach. Mae hyn yn rhywbeth i'w ddathlu fel llwyddiant o ran gwelliannau mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Y disgwyliad oes canolrifol yn y DU ar gyfer pobl â Syndrom Down yw 58 oed, mae hyn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r disgwyliad oes canolrifol o 12 oed yn y 1940au. Mae afiachusrwydd a marwolaeth yn parhau i fod yn uwch ar gyfer pobl ag anableddau o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol a'r rheiny sydd ag anableddau eraill o bob oedran.

Mae pobl ag anableddau dysgu'n fwy tueddol o ddiodeff problemau iechyd cronig. Mae pobl â Syndrom Down yn fwy agored i afiechydon resbiradol a gastroberfeddol yn ogystal â chyflyrau ar y galon (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, 2018). Mae pobl ag anableddau dysgu'n wynebu risg uwch o ddatblygu dementia wrth iddynt fynd yn hŷn (Ward, 2012). Credir bod 13% o bobl dros 50 oed sydd ag anabledd dysgu hefyd yn diodeff â dementia, a 6% o'r bobl dros 65 oed, o'i gymharu â 6% yn y boblogaeth oedolion hŷn cyffredinol (Kerr, 2007). Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Iechyd i Bobl ag

Anableddau Dysgu yng Ngogledd Cymru yn nodi bod pobl ag anableddau dysgu bedair gwaith yn fwy tebygol o brofi dementia'n gynnar yn eu bywydau.

Mae ystadegau wedi dangos y bydd un o bob deg o bobl sydd ag anabledd dysgu yn datblygu dementia yn gynnar (Dementia UK, 2021). Mae nifer y bobl â Syndrom Down sy'n mynd ymlaen i ddatblygu dementia hyd yn oed yn uwch gydag:

- Un ym mhob hanner cant yn datblygu'r cyflwr rhwng 30 a 39 oed.
- Un ym mhob deg rhwng 40 a 49 oed.
- Bydd un ym mhob tri o bobl â Syndrom Down yn dioddef â dementia yn eu 50au.

Mae'r nifer cynyddol o bobl sy'n byw ag anabledd dysgu a dementia yn peri heriau sylweddol i wasanaethau gofal a'r staff sy'n gweithio gyda nhw, i ddarparu'r gefnogaeth gywir. Mae pobl hŷn ag anableddau dysgu'n datblygu anghenion ac ymddygiadau cymhleth iawn wrth iddynt fynd yn hŷn, sy'n gallu cyflwyno heriau sylweddol i'r gwasanaeth gofal. Mae angen dylunio a darparu gwasanaethau mewn modd creadigol ac arloesol i sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu'n cyflawni lles.

Mae yna nifer gynyddol o ofalwyr hŷn hefyd (gan gynnwys rhieni a theuluoedd) sy'n darparu gofal a chefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn ceisiadau am gefnogaeth gan ofalwyr hŷn nad ydynt yn gallu parhau yn eu rôl gofalu. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau lleol gynnig asesiad o anghenion i ofalwyr. Mae'n bwysig ystyried y canlyniadau i'w cyflawni ar gyfer gofalwyr ynghyd â'r unigolyn sy'n derbyn gofal, a chefnogi gofalwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Gweler y [bennod gofalwr di-dâl](#) am ragor o wybodaeth.

Anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu

Mae pobl ag anableddau dysgu'n dueddol o ddiodeff iechyd gwaeth, rhagor o angen am ofal iechyd a risg uwch o farw'n gynnar o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (Mencap, 2022). Mae'r Pandemig COVID-19 wedi gwaethygu hyn, mae adroddiad Gwelliant Cymru (2020) wedi darganfod bod y gyfradd farwolaethau Covid-19 yn uwch ymhlith y rheiny ag anableddau dysgu o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru.

Mae data gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (2020) hefyd wedi dangos bod y gyfradd farwolaethau'n uwch ymhlith pobl ag anableddau dysgu o'i gymharu â'r un pwynt yn

2019. Mae Courtenay a Perera (2020) wedi honni bod pobl ag anabledd dysgu'n wynebu risg uwch o haint COVID-19 a symptomau mwy difrifol.

Mae data a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 gan yr ONS yn dangos, rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, bod 68% neu bron i 7 ym mhob 10 o'r bobl a fu farw yn sgil COVID yng Nghymru yn anabl. Roedd pobl ag anableddau dysgu'n fwy tebygol o farw yn sgil COVID-19 (AWPF, 2020). Mae tystiolaeth o fewn yr Adroddiad Drws ar Glo hefyd yn awgrymu nad oedd y gyfradd farwolaethau hon yn un o'r goblygiadau anochel sydd ynghlwm ag anawsterau, gan fod nifer o farwolaethau wedi'u gwreiddio mewn ffactorau economaidd-gymdeithasol (2021).

Yn fwy cyffredinol, mae'r ffactorau iechyd a lles canlynol hefyd yn cael effaith ar y rheiny ag anableddau dysgu:

- Mae unigolyn ag anabledd dysgu 50 i 58 gwaith yn fwy tebygol o farw cyn cyrraedd 50 oed, a phedair gwaith yn fwy tebygol o farw o achosion y gellid bod wedi'u hatal, o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.
- Mae llai na 10% o oedolion ag anableddau dysgu mewn llety â chymorth yn bwyta deiet cytbwys, gyda diffyg ffrwythau a llysiau (Anghydraddoldebau Iechyd a Phobl ag Anableddau Dysgu yn y DU: 2012 Eric Emerson, Susannah Baines, Lindsay Allerton a Vicki Welch)
- Mae rhwng 40 a 60% o bobl ag anableddau dysgu yn dioddef iechyd meddwl gwael heb ddiagnosis.
- Mae anhwylderau gorbryder, iselder a sgitsoffrenia ymhlith y problemau iechyd meddwl mwy cyffredin a brofir gan bobl ag anableddau dysgu.
- Mae sgitsoffrenia, er enghraifft, dair gwaith yn fwy cyffredin mewn pobl ag anableddau dysgu o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.
- Mae cyfraddau uwch o ganserau gastroberfeddol a cerfigol ymhlith pobl ag anableddau dysgu.
- Mae gan tua 80% o bobl â Syndrom Down iechyd y geg gwael.
- Mae gan tua thraean o bobl ag anabledd dysgu epilepsi (o leiaf 20 gwaith yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol), ac mae gan fwy ohonynt epilepsi sy'n anodd ei reoli.
- Mae pobl ag anableddau dysgu'n llai tebygol o gael gofal lliniarol (Michael, 2008).
- Mae pobl ag anableddau dysgu'n fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty fel achos brys, o'i gymharu â'r rheiny heb anabledd dysgu (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Lerpwl, 2013). Efallai bod hyn oherwydd problemau o ran cael

mynediad at ofal a diffyg cynllunio ymlaen llaw.

- Mae llai o oedolion ag anableddau dysgu sy'n defnyddio gwasanaethau anableddau dysgu yn ysmegu tybaco neu'n yfed alcohol o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, mae cyfraddau ysmegu'n llawer uwch ymhlith y glasoed ag anableddau dysgu ysgafn (Anghydraddoldebau Iechyd a Phobl ag Anableddau Dysgu yn y DU: 2012 Eric Emerson, Susannah Baines, Lindsay Allerton a Vicki Welch)

Mae pobl ag anableddau dysgu yn aml yn cael profiadau gwaeth yn defnyddio gwasanaethau iechyd oherwydd problemau o ran cyfathrebu. Mae rhwng 50% a 90% o bobl ag anableddau dysgu'n cael trafferth â chyfathrebu ac mae sgiliau cyfathrebu nifer o bobl ag anableddau dysgu amryfal a dwys yn gyfyngedig iawn.

Fe allai hyn arwain at weithwyr iechyd proffesiynol yn taflu diagnosis i'r cysgod, gan briodoli symptomau ymddygiad yr unigolyn i'w anabledd dysgu yn hytrach nag i salwch. Gall hyn fod yn broblem benodol pan nad yw'r anghenion am gefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu bodloni (MENCAP, 2007; Llywodraeth Cymru, 2016). Mae cynghorau lleol ac BIPBC yn mynd i'r afael â'r materion hyn trwy ddatblygu gwybodaeth hygyrch i bobl ag anableddau dysgu i wella cyfathrebu, gan gynnwys pasbortau ysbyty a system goleuadau traffig.

Yn aml, nid oes gan bobl ag anableddau dysgu gystal mynediad at ddeunydd hybu iechyd a gwasanaethau triniaeth gynnar; er enghraifft gwasanaethau sgrinio am ganser, adolygiadau diabetes blynyddol, cyngor ar ryw a pherthnasoedd, a chymorth o ran atal cenhedlu (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Lerpwl, 2013). Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Iechyd ar gyfer Anabledd Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio ar hyd a lled Gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys hyrwyddo archwiliadau iechyd blynyddol a chynlluniau gweithredu iechyd i gefnogi pobl i fod yn gyfrifol am eu hanghenion iechyd eu hunain, ac i ddweud sut y maent yn dymuno i'r anghenion hyn gael eu diwallu. Mae gan y tri ysbyty cyffredinol rhanbarthol yng Ngogledd Cymru nyrsys cyswllt aciwt sy'n darparu cymorth i bobl ag anableddau dysgu, staff ysbytai a gofalwyr pan fydd unigolyn yn cael mynediad at wasanaethau'r ysbyty.

Mae gwasanaeth Gwiriadau Iechyd Gogledd Cymru yn anelu at wella ei wiriadau iechyd a'i sgriniau iechyd yng Ngogledd Cymru, yn arbennig drwy godi ymwybyddiaeth am iechyd a lles pobl ag anableddau dysgu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cyfleodd cyflogaeth ar gyfer 14 o bobl o Ogledd Cymru gyda phrofiad bywyd.

Fel sefydliad, mae Cyswllt Conwy'n darparu a hyrwyddo dull integredig i wiriadau a sgrinio iechyd. Maent wedi sefydlu tîm addysg a gaiff ei arwain gan aelodau, a fydd, yn y pen draw, yn darparu gweithdai ar-lein ac wyneb yn wyneb. Bydd sesiynau galw heibio iechyd a lles hefyd yn cael eu cynnal mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd unwaith y bydd gwaith recriwtio wedi'i gwblhau.

O ganlyniad i'r prosiect, dylid gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n derbyn gwiriadau iechyd ar draws y rhanbarth a nifer y bobl sy'n derbyn sgriniadau iechyd, a bydd gan bobl ag anableddau dysgu well ymwybyddiaeth o'u hanghenion iechyd a lles eu hunain. Yn gyffredinol, dylid gweld gwelliant yn y ddarpariaeth gofal iechyd i bobl ag anableddau dysgu ar draws y gweithlu.

Yn ogystal â hynny, mae Swyddog Hunaneiriolaeth Rhanbarthol newydd wedi cael ei benodi yn sgil yr angen am leisiau newydd mewn grwpiau hunaneiriolaeth ar draws Gogledd Cymru. Mae hyn yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Cyswllt Conwy, NWAAA a Phobl yn Gyntaf Cymru. Yy Swyddog Hunaneiriolaeth yw person gyda anabledd dysgu, ac maent yn cael eu cyflogi gan Cyswllt Conwy. Eu rôl yw cysylltu gyda sefydliadau a grwpiau lleol ar draws Gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth am, a hyrwyddo'r buddion o hunaneiriolaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Mae hyn wedi arwain at aelodau newydd o Wrecsam a Sir y Fflint yn ymuno â'r grŵp cyfranogiad anableddau dysgu. Mae pobl ag anableddau dysgu angen cefnogaeth i ddeall beth yw hunaneiriolaeth, a gan ei fod yn cael ei arwain gan gyfoedion, mae'r rôl yn helpu i wella mynediad at wasanaethau hunaneiriolaeth lleol.

Ariennir y prosiectau hyn gan Raglen Drawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru gyda'n Gilydd, mae'r prosiect gwirio iechyd wedi'i foddelu ar brosiect addysg a gaiff ei arwain gan gyfoedion, Ace Anglia. Mae Ace Anglia hefyd wedi darparu cefnogaeth fentora i Cyswllt Conwy er mwyn addasu a gweithredu'r prosiect.

Tueddiadau i'r dyfodol

Yn seiliedig ar dueddiadau cyffredinol y boblogaeth, disgwylir y bydd nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n ymofyn cymorth yn cynyddu, disgwylir y bydd nifer yr oedolion sy'n 18 oed neu'n hŷn gydag anabledd dysgu cymedrol yn cynyddu o oddeutu 6% erbyn 2035 a disgwylir i bobl sydd ag anabledd cymedrol neu ddifrifol gynyddu o oddeutu 3% erbyn 2035. Mae'r cynnydd yn fwy amlwg yn y grŵp 65 oed+ yn sgil disgwyliad oes uwch.

Disgwylir y bydd cynnydd o 20-30% yn nifer y bobl 65 oed neu hŷn yng Ngogledd Cymru erbyn 2035. O ganlyniad i hynny, mae nifer y gofalwr hŷn sy'n darparu cymorth i bobl ag anableddau dysgu hefyd yn cynyddu. Mae disgwyliadau o ran Plant a Phobl Ifanc yn nodi bod nifer y plant ag anableddau dysgu'n debygol o gynyddu ychydig dros y 5 – 10 mlynedd nesaf, a gostwng ychydig erbyn 2035.

7.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym

Beth sy'n gweithio'n dda

Mewn ymateb i'r arolwg ymgysylltu rhanbarthol, derbyniwyd 110 o ymatebion mewn perthynas â gwasanaethau a chymorth anableddau dysgu. Nododd yr ymatebwyr bod gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu'n gweithio'n dda pan maent yn:

- Defnyddio dull hyblyg.
- Darparu cyfleoedd gwahanol i bobl gael amrywiaeth o ddewis o weithgareddau neu leoliadau gwaith.
- Gwneud defnydd da o gyfleusterau a / neu grwpiau cymunedol.
- Cynnwys gweithgareddau ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Cefnogi pobl i ddysgu sgiliau newydd.

Nododd unigolion eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn yn ystod y pandemig gan "staff da a chefnogol". Fe wnaeth un defnyddiwr gwasanaeth ganmol eu profiad gwaith gydag Abbey Upcycling, a dywedodd eraill:

"Rwy'n derbyn cefnogaeth gan Livability ar hyn o bryd. Maent wedi rhoi llawer o gymorth i mi yn arbennig yn ystod y cyfnod clo. Rwyf wedi cael llawer o hwyl, roeddent yn ffonio, a byddem yn chwarae gemau, a sgwrsio ar y grŵp What's App. Mae fy ngweithwyr cymorth i gyd wedi bod yn hyfryd."

"Mae Byddin yr Iachawdwriaeth (Wreccsam) yn darparu Sgiliau Hyfforddiant Til i'm mab gyda'r gobaithe y bydd yn gallu gwirfoddoli mewn siop rhyw ddiwrnod. Mae wedi cael ei wrthod ar gyfer y math yma o waith yn y gorffennol gan nad oes ganddo'r sgiliau priodol. Mae'r hyfforddiant yn rhagorol. Mae'n ennill profiad gwaith gyda'r Groes Goch – mae hyn yn wych."

Nododd darparwyr gwasanaeth eu bod yn gweithio'n dda iawn gydag asiantaethau eraill a'u bod yn ddiolchgar am y cymorth y maent wedi'i dderbyn gan wasanaethau cymdeithasol yn ddiweddar, gan grybwyll yr Awdurdod Lleol yng Ngwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae BIPBC yn gweithredu fel y corff sy'n cyflogi ar gyfer prosiect sy'n helpu pobl ag anableddau dysgu i ganfod cyflogaeth, ac mae hefyd wedi datblygu llwybr recriwtio 'hygyrch' at y diben hwn.

Beth sydd angen gwella

Yn yr un modd â gwasanaethau gofal eraill, nododd rhai ymatebwyr bod llawer o bethau angen gwella. Disgrifiwyd gwasanaethau'r Cyngor fel "gwael a rhy gyffredinol" a nodwyd bod angen eu "trawsnewid yn llwyr". Argymhellwyd eto y dylid cynyddu cyllid, a gwella cyflog staff i adlewyrchu eu lefel o gyfrifoldeb a'u hannog i aros yn y swydd. Mae angen gostwng amseroedd aros ar gyfer asesiadau hefyd.

Gallai Gweithwyr Cefnogi elwa o ddatblygu eu sgiliau digidol er mwyn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth i fod yn gysylltiedig yn ddigidol. Yn ogystal â hynny, mae angen llawer mwy o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill gyda sgiliau arbenigol i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth, er enghraifft:

"Mae arnom ni wirioneddol angen rhagor o Weithwyr Cymdeithasol Gofal Oedolion i helpu pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth, megis fy mab. Mae angen brys hefyd am seicolegydd arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth. Nid oes neb yn Wreccsam yn gymwys i wneud y gwaith hwn. Gan bod ein mab yn teimlo'n hunanladdol, fe wnaethom dalu seicolegydd arbenigol gan ein bod ni wirioneddol angen rhywun i'w helpu."

Dywedodd pobl ag anableddau dysgu y byddent yn awyddus i gael "Mwy o oriau i gael taliadau uniongyrchol er mwyn i mi fedru mynd i lefydd eraill ac yn fwy aml" a "chanolfan gymorth anfeirniadol er mwyn ein galluogi i gael mynediad at wybodaeth, gofyn cwestiynau, cymdeithasu a rhannu/siarad".

Mae oedolion ag anableddau dysgu angen rhagor o gyfleoedd ar gyfer profiad gwaith a hyfforddiant i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau. Er bod bylchau mewn argaeledd gwasanaethau Mynediad at Waith, mae diffyg atgyfeiriadau at wasanaethau presennol, ac mae angen canolbwyntio ar bobl sy'n gadael y coleg a hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i unigolion. Mae angen herio'r diwylliant o ddisgwyliadau isel a chanfyddiadau gwael ymhlith cyflogwyr a chreu llwybrau clir at

waith i bobl ag anableddau. Gallai awdurdodau lleol chwarae rôl allweddol, ond ychydig iawn o bobl ag anableddau dysgu sy'n cael eu cyflogi ganddynt ar hyn o bryd.

Mae angen tai mwy pwrpasol i ddarparu ar gyfer anghenion unigol, yn arbennig oedolion ag anableddau dysgu ac eraill ag anableddau cymhleth. Mae angen gwasanaethau camu ymlaen / camu i lawr, mewn achosion o leoliadau'n chwalu er mwyn cynnig cefnogaeth mwy dwys i unigolion am gyfnod, yn hytrach na'u derbyn i'r ysbyty.

Mae cyfranogiad pobl yn y gwaith o gyd-gynllunio gwasanaethau gofal a chymorth yn parhau i fod yn faes i'w wella, yn ogystal â dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gryfhau llais y defnyddiwr gwasanaeth a'u rheolaeth dros eu bywydau. Gellir helpu hyn drwy ddarparu hyfforddiant hanfodol am y gwerthoedd a'r egwyddorion o gyd-gynhyrchiant staff, wedi'u darparu ar y cyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

Ar lefel systemau, mae angen integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well, gan nad yw hyn wedi datblygu ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu, gan fod "dulliau gwahanol yn parhau i gael eu defnyddio ar draws y rhanbarth a llawer o anghytuno ac anghydfod yn parhau i fod mewn perthynas â chyllid ar y cyd."

Gellir gweld yr [adroddiad llawn ar ymgynghoriad](#) yr asesiad o anghenion y boblogaeth ar ein gwefan.

Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym am wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu

Beth sy'n gweithio'n dda:

Gwnaethpwyd rhai sylwadau gan ymatebwyr am wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu. Roedd rhai wedi crybwyll cefnogaeth dda gan ysgolion a chydweithio llwyddiannus ar draws sefydliadau gofal.

Beth sydd angen gwella:

Roedd yr argymhellion ar gyfer gwelliant yn cynnwys:

- Rhagor o gyllid a staff.
- Cyfathrebu gwell rhwng gwasanaethau.
- Rhagor o weithgareddau ar gael.

- Rhagor o gefnogaeth i deuluoedd â phlant ag anghenion ychwanegol, sy'n dreisgar.

Ymgynghoriad ynghylch Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru 2018

Cyn yr asesiad o anghenion y boblogaeth ranbarthol, cynhaliwyd ymgynghoriad manwl i ddatblygiad Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru 2018 - 2023, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys holiadur ar-lein, grwpiau trafod, cyfweiliadau a digwyddiadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a staff yr awdurdod lleol ac iechyd. Y prif negeseuon a'r themâu allweddol a oedd yn codi o'r ymgynghoriad hwn oedd:

- Yr angen am gael dewis a rheolaeth, gan ganolbwyntio ar hawliau a chydraddoldeb i bobl ag anableddau dysgu. Y pwysigrwydd o ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Cynnwys ac integreiddio pobl ag anableddau dysgu i'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys yr angen i hyfforddi staff am anawsterau dysgu penodol ac ymwybyddiaeth nad yw pob anabledd yn weladwy.
- Mae'r gefnogaeth mae pobl yn ei chael gan deulu a darparwyr yn aml yn gweithio'n dda, a chanmolwyd staff ymroddedig ac ymroddgar.
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod cydweithio rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd yn rhywbeth sy'n gweithio'n dda mewn rhai meysydd ond bod modd ei wella mewn meysydd eraill, gan gynnwys systemau rhannu gwybodaeth gwell.
- Roedd yna hefyd safbwyntiau cymysg ynghylch pa mor dda roedd taliadau uniongyrchol a chyllidebau cefnogi'n gweithio i bobl. Dywedodd rhai eu bod yn gweithio'n dda iddyn nhw a dywedodd eraill eu bod nhw angen llawer mwy o gefnogaeth i' defnyddio nhw, a'u bod yn cael trafferth dod o hyd i weithiwr taliadau uniongyrchol.

Tynnwyd sylw hefyd at faterion a allai atal pobl rhag cyflawni canlyniadau da, gan gynnwys:

- Cefnogaeth i ofalwyr, yn arbennig y diffyg gwyliau byr i deuluoedd, a darpariaeth ar gyfer pobl ag anghenion mwy cymhleth fel ymddygiad heriol. Soniodd pobl am y pwysigrwydd o ystyried yr effaith ar deuluoedd, yn cynnwys anghenion brodyr a chwiorydd ag anableddau dysgu (gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar blant ag anableddau dysgu yn y [bennod Plant a Phobl Ifanc](#)).

- Fe wnaeth pobl hefyd sôn am anghenion gofalmwr hŷn a chynllunio ar gyfer y dyfodol, pan na fydd modd iddynt ddarparu'r gofal eu hunain mwyach o bosibl.
- Roedd pryderon mewn perthynas ag ariannu gwasanaethau. Soniodd rhai ymatebwyr am yr angen i gydweithio ac ystyried cyfuno cyllidebau i geisio rhoi sylw i'r materion hyn, a'r angen i wneud gwell defnydd o dechnoleg.
- Soniodd rhai am ba mor bwysig oedd cludiant iddyn nhw o ran cael eu cynnwys mewn gweithgareddau, gan gynnwys cael rhywun sy'n gallu eu gyrru nhw, tocynnau bws a chludiant â chymhorthdal.
- Hawl i wybodaeth a mwy o wybodaeth am wasanaethau. Fe wnaeth yr ymgynghoriad staff dynnu sylw at y pwysigrwydd o hyrwyddo a datblygu Dewis Cymru fel ffynhonnell wybodaeth am y gwasanaethau a chymorth sydd ar gael yn y gymuned leol.
- Datblygu gweithlu a phwysigrwydd hyfforddiant a chefnogi staff, yn arbennig gweithwyr cefnogi. Soniwyd hefyd am y gweithlu ehangach, megis Meddygon Teulu a allai elwa o hyfforddiant ychwanegol am anghenion pobl ag anableddau dysgu.

7.4 Gwasanaethau a gaiff eu darparu ar hyn o bryd

Mae pobl ag anableddau yn aml angen cymorth ar draws sawl agwedd o'u bywydau. Gall teulu, ffrindiau, y gymuned leol, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector ddarparu'r gefnogaeth hon.

Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru Gyda'i Gilydd

Mae'r Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu yn rhan o ymateb Gogledd Cymru i gynllun Llywodraeth Cymru i wella iechyd a gofal cymdeithasol 'Cymru Iachach 2018'. Cynhaliodd partneriaid yng Ngogledd Cymru ymgynghoriad ac ymgysylltiad manwl i lywio datblygiad Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru 2018-2023. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar beth mae pobl wedi'i ddweud sy'n bwysig iddyn nhw:

- Rhywle da i fyw.
- Rhywbeth ystyrlon i'w wneud
- Ffrindiau, teulu a pherthnasau.
- Diogelwch.

- Iechyd da.
- Y gefnogaeth gywir.

Y Rhaglen Drawsnewid yw elfen weithredol y strategaeth. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a datblygu dulliau yn seiliedig ar beth sy'n bwysig i bobl, mae pum ffrwd gwaith:

- Strwythurau integredig.
- Datblygu'r gweithlu.
- Comisiynu a chaffael.
- Newid cymunedol a diwylliannol.
- Technoleg gynorthwyol.

Bydd pob ffrwd gwaith yn cymryd ymagwedd seiliedig ar asedau i adeiladu ar y sgiliau, y rhwydweithiau a'r adnoddau cymunedol sydd gan bobl ag anableddau dysgu eisoes. Yr uchelgais yw cyd-cynhyrchu'r dulliau a modelau gwasanaeth newydd gyda phobl ag anableddau dysgu a'u rhieni / gofalwyr, felly rydyn ni'n rhannu pŵer a chyfrifoldeb dros wneud y newidiadau.

Mae'r rhaglen wedi gweithredu nifer o brosiectau gan gynnwys:

- Dull cyllideb gyfun peilot i asesiadau, cynlluniau, adolygiadau a dyraniadau cyllid iechyd a gofal cymdeithasol rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer oedolion mewn tai â chymorth sy'n ymofyn cyllid ar y cyd.
- Sefydlu swyddi newydd i gefnogi pontio drwy gyllid i Wasanaethau Anabledd Dysgu Cyswllt Conwy a Chyngor Gwynedd.
- Mae Grŵp Llwybr Pontio Rhanbarthol Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn datblygu llwybr pontio rhanbarthol newydd o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Y nod yw cytuno ar ddull cyson, nid yn unig rhwng gwasanaethau anableddau dysgu ond hefyd rhwng gwasanaethau eraill allai gefnogi anableddau dysgu, er enghraifft Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc.
- Mae'r Swyddog Cynllunio a Datblygu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn nodi tueddiadau presennol mewn perthynas â chanlyniadau ôl-ysgol ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu sy'n mynychu ysgolion arbenigol er mwyn deall yr ysgogwyr a'r rhwystrau a gwneud argymhellion ar sut i ehangu cyfleoedd.

Mae'r rhaglen wedi sefydlu Cronfa Drawsnewid Anableddau Dysgu i ddarparu grantiau bychain i sefydliadau trydydd sector er mwyn datblygu prosiectau newydd i fodloni'r anghenion hyn. Mae dros 50 o grantiau wedi cael eu dyrannu. Mae'r grantiau wedi cefnogi gweithgareddau megis:

- Cyfleodd newydd i bobl ag anableddau dysgu wneud ffrindiau a chynnal perthnasoedd drwy'r asiantaeth cyfeillgarwch â chariad Luv2MeetU, Gig Buddies, Media Club a Social Screen.
- Prosiect 'I Team' sy'n cefnogi datblygiad cylchoedd cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth.
- Côr Makaton a gaiff ei arwain gan Gyswllt Conwy.
- Outside Lives sy'n cynnal gweithgorau amrywiol sy'n trefnu gweithgareddau a digwyddiadau ar y cyd (e.e. theatr a'r celfyddydau, tyfu bwyd, bywyd gwyllt, cadwraeth ac ati). yn seiliedig ar themâu arbennig.
- Bocsys gwneud synnwyr gartref a luniwyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu dwys ac amryfal a'u gofalwyr.

Cyflogaeth, cyfleoedd dydd a gwirfoddoli

Mae'r cyfle am gyflogaeth â thâl a chyfleoedd dydd i bobl ag anableddau dysgu yn bwysig, mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y strategaeth anableddau dysgu yn 2018, amlygodd nifer o ymatebwyr gyfleoedd cyflogaeth a gwaith fel ffactor sylweddol iddyn nhw. Mae gwasanaethau sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu i ddatblygu sgiliau a phrofiad gwaith ar gael ar draws y rhanbarth. Mae'r Tîm Trawsnewid Anableddau Dysgu'n canolbwyntio ar gyflogaeth fel blaenoriaeth, ac mae strategaeth gyflogaeth yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i gael ei chyhoeddi yn gynnar yn 2022.

Er enghraifft, mewn partneriaeth â'r Tîm Tai yn Gyntaf a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn, mae Cyngor Sir y Fflint wedi dylunio rhaglen interniaeth 9 mis di-dâl o'r enw 'Prosiect SEARCH' lle gall unigolion rhwng 18 a 24 oed ennill profiad mewn gweithle gyda'r gobaith o sicrhau cyflogaeth hirdymor. Mae interniaid Prosiect SEARCH 19/20 wedi graddio o'r rhaglen, gyda phedwar o bobl ifanc bellach yn gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos, ac mae dau ohonynt wedi cael swyddi gyda'r Cyngor, a 2 arall mewn rolau gwirfoddol. Mae hyfforddiant swyddi dilynol yn parhau i gael ei gynnal drwy glwb swyddi ar gyfer y rheiny nad ydynt mewn cyflogaeth ar hyn o bryd.

Mae'r Tîm Trawsnewid Anableddau Dysgu wedi amlygu cyflogaeth fel ffrwd gwaith blaenoriaethol o 2021. Mae'r rhaglen waith yn cynnwys:

- Cefnogi Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru i gyd-gynhyrchu strategaeth gyflogaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Gwneir hyn er mwyn mynd i'r afael â'r niferoedd isel iawn o bobl mewn cyflogaeth â thâl, sef oddeutu 6%, er bod pobl ag Anableddau Dysgu wedi nodi cyflogaeth fel ffactor pwysig iddyn nhw.
- Mae'r tîm yn cefnogi Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Conwy i sefydlu safle Prosiect 'SEARCH' mewn partneriaeth â'r Prosiect SEARCH, Ymgysylltu i Newid, Uned Reoli Sylfaenol Glan Clwyd (y corff sy'n cyflogi) ac Agoriad Cyf.
- Drwy ein cronfa drawsnewid, rydym wedi creu, mewn partneriaeth â'r trydydd sector, 15 o swyddi newydd i bobl ag anableddau dysgu.
- Mae **Gweithgor Ymgysylltu â Chyflogwyr** wedi cael ei sefydlu gan y rhaglen i ddatblygu rhaglen waith i godi ymwybyddiaeth gyda chyflogwyr lleol am y buddion busnes gwirioneddol o gyflogi pobl ag anableddau dysgu a chynyddu eu hyder i recriwtio a chyflogi pobl.

Tai a Llety

Yng ngogledd Cymru, y trefniant byw mwyaf cyffredin ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yw gyda rhieni neu aelodau eraill o'r teulu (oddeutu 1,200 o bobl), mae llai na 800 o bobl mewn llety byw â chymorth, oddeutu 400 yn eu cartref eu hunain, oddeutu 380 mewn llety preswyl. Mae'n rhaid i opsiynau tai ar gyfer pobl ag anableddau ganolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae data ar draws Gogledd Cymru yn awgrymu bod 274 o bobl yn aros am ryw fath o lety, h.y. unigolion sy'n byw â rhieni hŷn ar hyn o bryd a fydd yn ymofyn cefnogaeth yn fuan, mae'r anghenion yn amrywio o lety preswyl, byw â chymorth 24 awr, byw â chymorth nad yw'n 24 awr, drws ffrynt eich hun a gofal ychwanegol.

Mae'r gwaith a gwblhawyd yn y ffrwd hwn yn cynnwys

- Cynyddu'r ystod o opsiynau llety a chymorth sydd ar gael i bobl i'w hatal rhag mynd i ofal preswyl. Mae dau gynllun peilot yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd yn y broses o gynllunio llety unigryw sy'n hyrwyddo annibyniaeth ac sy'n agos at gartrefi pobl ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth.
- Sefydlu protocolau a chytundebau sy'n dehongli meini prawf 'preswyliaeth gyffredin' mewn modd sy'n caniatáu i bobl symud rhwng siroedd.
- Codi ymwybyddiaeth am Daliadau Uniongyrchol (TU), cefnogi datblygiad portholion recriwtio TU awdurdodau lleol /cronfeydd data Cynorthwywyr

Personol, gwasanaethau ac opsiynau.

- Datblygu broceriaeth a chefnogaeth i alluogi pobl i wneud y mwyaf o'u Taliadau Uniongyrchol, er enghraifft, cynnwys eu Taliadau Uniongyrchol mewn cronfa gyda phobl eraill i gael gwasanaethau gwell.
- Mapio a pheilota gweithgareddau i roi seibiant byr i blant ifanc ag anghenion cymhleth yng Nghonwy, gan gynnwys prosiectau peilot y Blynyddoedd Cynnar, grwpiau canu a dawnsio Makaton a rhaglen o weithgareddau synhwyraidd.

Mae Wreccsam wedi bod yn datblygu eu cynlluniau byw â chymorth ac ail-drefnu'r Cynllun Byw â Chymorth Heddwch, mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Clwyd Alyn, a fydd yn helpu pobl i fwynhau bywydau gwell o fewn eu cymunedau lleol. Gydag arian y Gronfa Gofal Integredig, gellir bodloni anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth unigolion drwy ddarparu tai a chymorth arbenigol priodol – gan ddarparu cyfleoedd, lles a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr. Mae'r amgylchedd pwrpasol yn lleihau risgiau drwy ddarparu gofod ac amgylcheddau byw a ddyluniwyd mewn modd creadigol i ddatblygu cyfleoedd i unigolion ymgysylltu a bod yn annibynnol mewn modd diogel.

Mae Wreccsam, mewn partneriaeth â Thai Dewis Cyntaf, wedi uwchraddio ein cynlluniau tai â chymorth gyda'r technolegau cynorthwyol diweddaraf er mwyn galluogi mwy o bobl nag erioed i fyw'n annibynnol, ac yn nes i'w cartrefi.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru (2018) yn rhagweld y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gynyddu eu buddsoddiad o oddeutu £365 miliwn dros yr ugain mlynedd nesaf i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y bobl ag anableddau dysgu fydd angen tai. Fel rhan o'r ymholiad 'A yw Cymru'n Decach?' 2018, amlygwyd y sefyllfa tai fel mater allweddol, canfuwyd bod pobl anabl, gan gynnwys y rheiny ag anableddau dysgu, yn ddigalon ac yn byw mewn cartrefi nad ydynt yn bodloni eu hawl i fyw'n annibynnol.

Chwaraeon, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol

Mae pobl ag anableddau dysgu'n aml yn wynebu rhwystrau wrth geisio cael mynediad at weithgareddau hamdden neu gymdeithasol, mae hyn yn fwy o broblem mewn ardaloedd gwledig lle nad yw'r trefniadau cludiant cyhoeddus o bosibl yr un mor gadarn o'i gymharu ag ardaloedd mwy poblog. Lansiodd y fenter 'Luv2MeetU' yn Sir y Fflint sy'n canolbwyntio ar gefnogi pobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd i ddatblygu a chynnal perthnasoedd. Mae hyn yn hollbwysig ar gyfer lles, yn arbennig

yn yr hinsawdd sydd ohoni â chysylltiadau cymdeithasol mor hanfodol. Gall sgiliau digidol, yn arbennig allgáu digidol fod yn rhwystr, yn arbennig o ystyried bod nifer o wasanaethau wedi trosglwyddo i gyfryngau ar-lein yn ystod y panedmig COVID-19. Archwilir hyn ymhellach yn yr adran ar effaith COVID-19 ac fe'i argymhellir fel maes i ganolbwyntio arno yn y dyfodol.

Mae Cyngor Wrecsam wedi comisiynu'r Canolbwynt Cyfeillgarwch gyda'r partner trydydd sector newydd, Yellow and Blue, fel dewis arall i ddarpariaeth canolfan sy'n canolbwyntio ar anabledau. Mae'r Canolbwynt Cyfeillgarwch yn galluogi pobl ag Anabledau Dysgu i arwain datblygiad gweithgarwch cymunedol cynhwysol. Yn ystod Covid, parhaodd y Canolbwynt Cymunedol i ddatblygu ei ddarpariaeth ar-lein, gan gynnig gweithgareddau cynhwysol i unrhyw un oedd angen cymorth. Gan gydweithio gyda Grŵp Safonau Gwasanaethau Wrecsam (SWS), rydym wedi datblygu nifer o weithgareddau ar-lein sy'n darparu cefnogaeth, cyfeillgarwch, gwybodaeth a chyngor.

Gan ddefnyddio rhwydwaith ar-lein i bobl ag anabledau dysgu, maent wedi gallu hyrwyddo cyfarfodydd a gweithgareddau ar draws Bwrdeistref Sirol Wrecsam a thu hwnt, gan gysylltu â phobl na fyddem wedi gallu cysylltu â nhw fel arall o bosibl.

Technoleg gynorthwyol

Bu'n rhaid datblygu'r ffrwd gwaith hwn yn gynt yn sgil Covid ac effaith hynny oedd bod rhagor o bobl ag anabledau dysgu a'u rhieni/gofalwyr yn defnyddio technoleg i wneud ffrindiau, cynnal perthnasoedd a chanfod pethau ystyrion i'w gwneud er mwyn cadw'n ddiogel ac yn iach. Mae cyflwyno technoleg i bobl yn Sir y Fflint, Sir Ddinbych ac Wrecsam wedi hwyluso mynediad at weithgareddau ar-lein a chefnogaeth yn y gymuned, ac wedi bod achubiaeth i nifer o bobl ag anabledau dysgu sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain ac wedi eu galluogi i gysylltu gyda phobl eraill, lleihau unigedd ac arwahanrwydd a chynnal lles. Mae darpariaeth ar-lein gan ddarparwyr yn y sector cymunedol a gwirfoddol wedi golygu nad yw ffiniau sirol a meini prawf cymhwyso wedi cyfyngu arnynt.

Cyflawnwyd y canlynol:

- Codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd technoleg ar gyfer y grŵp yma o bobl, a chysylltu gyda phartneriaid, er enghraifft, Cymunedau Digidol Cymru.
- Sicrhau fod gan bobl ag anabledau dysgu a'u gofalwyr fynediad at galedwedd, ffonau, llechi digidol, gliniaduron a meddalwedd, gan gynnwys

plattfformau cyfathrebu, y cyfryngau cymdeithasol, apiau ac offer eraill a'u bod yn derbyn cefnogaeth i ddysgu sut i'w defnyddio nhw.

- Darparu offer/pecynnau TG i staff gwasanaethau anabledau dysgu a'u hyfforddi i'w defnyddio yn eu gwaith fel offer sy'n cefnogi annibyniaeth, dewis a rheolaeth. Er enghraifft, i'w defnyddio yn ystod prosesau asesu a chynllunio gofal, yn ogystal â hyrwyddo hunan-reolaeth (mewn perthynas â chyflyrau hirdymor, er enghraifft).
- Prosiect peilot yn Wrecsam i brofi'r defnydd o apiau sy'n annog datblygiad ac annibyniaeth gan gynnwys Multi-Me a here2there.
- Strategaeth dechnoleg newydd sy'n amlinellu gweledigaeth ar gyfer sut y gellir defnyddio technoleg yn fwy effeithiol gyda phobl ag anabledau dysgu ar draws Gogledd Cymru, i'w helpu i gyflawni canlyniadau gwell yn eu bywydau.

Rhaglenni gwella a gynlluniwyd

Dylid sicrhau bod Rhaglenni Gwella Iechyd ar gael i bobl ag anabledau dysgu o'r blynyddoedd cynnar, drwy gydol eu plentynod ac wedi iddynt dyfu'n oedolion gan gynnwys digwyddiadau pontio mewn bywyd, a symud o addysg gynradd i addysg uwchradd ac o fyd addysg i fyd gwaith. Gall ymyrraeth gynnar gyda phlant a phobl ifanc ag anabledau dysgu helpu i gefnogi teuluoedd diamddiffyn sy'n gofalu am bobl ag anabledau dysgu ac atal unrhyw ddirywiad yn eu statws iechyd. Dylai Rhaglenni Gwella Iechyd a luniwyd i fynd i'r afael â materion megis ysmegu, cyffuriau anghyfreithlon, iechyd rhywiol, alcohol, iechyd a lles meddyliol, diet a gweithgarwch corfforol ganolbwyntio ar ganlyniadau, fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac adlewyrchu effeithiau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Dylid gwneud addasiadau rhesymol i alluogi pobl ag anabledau dysgu i gael mynediad at wasanaethau megis colli pwysau, rhoi'r gorau i ysmegu ac iechyd rhywiol. Dylid annog cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol, yn ogystal â mynediad gwell at gefnogaeth dietegol briodol a chynghor bwyta'n iach. Dylai rhaglenni gwella iechyd meddwl hefyd fynd i'r afael ag anghenion yr unigolion hynny ag anabledau dysgu.

Rhaglen drawsnewid a gaiff ei chynnal gan [Gwelliant Cymru](#) yw Rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anabledau Dysgu Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen wedi nodi pum maes blaenoriaeth i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella bywydau pobl ag anabledau dysgu yng Nghymru.

Mae'r tîm yn cefnogi darpariaeth amcanion iechyd o fewn y rhaglen. Mae ganddynt bedair ffrwd gwaith sy'n rhyng-gysylltiedig:

- Iechyd corfforol
- Fframwaith cydraddoldeb iechyd
- Plant a phobl ifanc
- Gwasanaethau arbenigol

Mae'r tîm yn gweithio ar y canlynol ar hyn o bryd:

- Cyhoeddi Proffil Iechyd Unwaith i Gymru gydag addasiad ar gyfer hyd oes, a pharhau i'w hyrwyddo fel offeryn diogelwch cleifion.
- Cwblhau'r adnodd Darparu Gofal Iechyd ac archwilio cyfleoedd i amrywio'r defnydd o Archwiliadau Iechyd.
- Cymorth a chyfathrebu parhaus mewn perthynas â'r Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd fel casgliad data yn ystod Covid-19.
- Bwrw ymlaen â datblygiad y Fframwaith Cydraddoldebau Iechyd Plant a Phobl Ifanc.
- Cefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu'r ymgyrch frechu eang ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Datblygu a lansio pecyn cymorth i deuluoedd mewn perthynas â Chymorth Ymddygiad Cadarnhaol.
- Adnoddau hunangymorth hygyrch a dwyieithog yn seiliedig ar dystiolaeth yn ystod Covid-19.
- Cefnogi casglu data mewn perthynas ag Arferion Cyfyngol ledled Cymru.
- Sicrhau bod negeseuon iechyd cyhoeddus cenedlaethol mewn perthynas â Covid-19 wedi'u cynhyrchu mewn fformat hygyrch.

Cwblhau a lansio'r Fframwaith Addysg Anabledd Dysgu ar gyfer Staff Gofal Iechyd yng Nghymru.

7.5 Effaith Covid-19

O ganlyniad i'r pandemig, codwyd pryderon, gan gynnwys gan Raglen Drawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru, mewn perthynas â'r anghydraddoldeb iechyd a brofir gan y rhai ag anableddau dysgu. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cael rhagor o effaith ar bobl ag anableddau dysgu sydd wedi arwain at heriau newydd. Bu'n rhaid i wasanaethau cymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu addasu i gyfyngiadau'r cyfnod clo, mae rhywfaint o'r gefnogaeth wedi symud ar-lein ac er bod

rhywfaint o fuddion wedi bod yn gysylltiedig â'r gwaith arloesol hwn, mae rhai pobl wedi cael eu heithrio'n ddigidol ac mae defnyddio gwasanaethau ar-lein neu dros y ffôn yn hytrach na chyswllt wyneb yn wyneb wedi bod yn heriol.

Defnyddiwyd cyllid gan y Gronfa Gofal integredig i gynnig offer TG i ddinasyddion mewn gofal preswyl a llety byw â chymorth, ac mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol iawn. Mae gweithgareddau cymdeithasol hefyd wedi cael eu cynnal ar-lein sydd wedi bod yn hanfodol i leihau teimladau o unigedd ac effaith y cyfnod clo ar les y rheiny ag anableddau dysgu a'u gofalwyr. Mae Cyngor Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn datblygu Strategaeth Ddigidol ar y cyd i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

Benthyciwyd dyfeisiau technoleg i aelodau Canolbwynt Cyfeillgarwch Cyngor Wrecsam i'w galluogi i ymuno â gweithgareddau ar-lein sydd wedi eu helpu i deimlo'n llai ynysig a datblygu cyfeillgarwch. Mae'r dyfeisiau technoleg hyn wedi helpu pobl drwy gydol y pandemig i gadw mewn cysylltiad gyda ffrindiau a theulu, siopa ar-lein a chymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu lles.

Mae Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru wedi argymhell ei fod yn hollbwysig bod y gweithlu hefyd yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i ddefnyddio apiau technolegol i gefnogi ffyrdd newydd o weithio a darparu gwasanaethau. Mae'n rhaid hefyd ymestyn cefnogaeth dechnolegol i ddinasyddion sy'n derbyn gwasanaethau a chefnogaeth drwy dechnoleg gan y gallai greu rhwystrau at fynediad os nad yw'n cael ei gefnogi'n llwyr.

Rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, casglodd Tîm Trawsnewid Anableddau Dysgu Gogledd Cymru adborth gan y bobl y maent yn gweithio gyda hwy ynglŷn â'u profiadau yn ystod y pandemig. Roedd effaith gychwynnol y cyfyngiadau megis cyfnodau clo yn golygu bod rhaid cau lleoliadau gwasanaethau dydd, fodd bynnag, llwyddodd rhai gwasanaethau i addasu'n gyflym a chynnig gwasanaethau ar-lein. Nododd eraill eu bod wedi colli cyfleodd cyflogaeth a gwirfoddoli ac nad oeddent yn teimlo'n gysylltiedig mwyach, sydd wedi cael effaith niweidiol ar eu lles.

Yn ogystal â hynny, fe wnaeth llacio'r cyfyngiadau wneud i rai pobl deimlo'n ddiameddiffyn yn sgil bregusrwydd eu hiechyd corfforol. Nodwyd bod cynhwysiant digidol yn broblem hefyd, ac roedd diffyg sgiliau a gwybodaeth ymhlith y rheiny sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu yn ogystal â diffyg mynediad at y we neu offer TGCh hefyd yn rhai o'r prif rwystrau at gynhwysiant digidol.

7.6 Diogelu

Mae gan bobl ag anableddau dysgu hawl i fyw eu bywydau yn rhydd o gamdriniaeth, esgeulustod a gwahaniaethu. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio bod oedolyn mewn perygl: os yw'n cael ei gam-drin, neu os yw mewn perygl o gael ei gam-drin; os oes ganddo anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio) ac, o ganlyniad i'r anghenion hynny, nid yw'n gallu ei amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Yn 2015/16, gwnaethpwyd 4,000 o atgyfeiriadau ar gyfer oedolion mewn perygl yng Nghymru. O'r rhain, roedd 15% o'r atgyfeiriadau ar gyfer oedolion rhwng 8 a 65 oed ag anabledd dysgu, ac roedd 1% o'r atgyfeiriadau ar gyfer oedolion 65 oed a hŷn ag anabledd dysgu. Nid oes data cymharol ar gael ar gyfer 2019 / 2020, fodd bynnag, mae nifer y troseddau casineb a gofnodwyd wedi cynyddu ar gyfer pob un o'r grwpiau nodweddion a ddiogelir yng Nghymru, yn arbennig ar gyfer troseddau casineb anableddau (A yw Cymru'n Decach? 2018).

Mae'r tabl isod yn darparu data ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau diogelu a dderbyniwyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ers 2018.

Tabl 55: Atgyfeiriadau diogelu a dderbyniwyd gan awdurdod lleol

Sir	Nifer y bobl ag AD 2018/19	% y bobl ag AD 2018/19	Nifer y bobl ag AD 2019/20	% y bobl ag AD 2019/20*	Nifer y bobl ag AD 2020/21	% y bobl ag AD 2020/21
Ynys Môn	25	9%	36	9%	25	8%
Gwynedd	50	10%	31	6%	11	2%
Conwy**	125	23%	108	19%	66	14%
Sir Ddinbych	94	15%	80	13%	43	12%
Sir y Fflint	42	7%	112	16%	80	12%
Wrecsam	54	6%	-	-	61	8%
Gogledd Cymru	350	-	367	-	286	-

*O'r holl atgyfeiriadau a gafwyd

** Mae ffigyrau 2020/21 yn is oherwydd problemau cofnodi ar system newydd

Ffynhonnell: awdurdodau lleol

7.7 Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Yn yr un modd â phobl hŷn, mae'n bosibl y bydd y rhai ag anawsterau iechyd a chorfforol, y rheiny ag anawsterau dysgu a'r rheiny â nam synhwyrdd, yn arbennig o agored i niwed, trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan eu bod yn cael trafferth nodi beth sy'n digwydd iddynt, a sut i egluro hyn i weithwyr proffesiynol. Yn yr un modd â phobl eraill ag anghenion gofal a chymorth, maent yn debygol o fod yn ddibynnol ar bobl eraill i fodloni eu hanghenion gofal.

Yn 2016, dangosodd astudiaeth bod y rheiny ag anabledau dysgu neu anabledau yn fwy agored i gamdriniaeth ddomestig (McCarthy: Hunt: Milne-Skillman: 2016), fodd bynnag, mae'n anodd nodi graddau gwirioneddol y broblem gan nad oes digon o ymchwil wedi'i wneud yn y maes hwn.

Eto, fe allai hyn olygu bod yr unigolion hynny mewn perygl o, neu'n byw gyda, camdriniaeth a/neu esgeulustod, a'u bod yn destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, a byddant yn aml yn ymofyn dull cyfannol i'w cadw'n ddiogel, a hyrwyddo bywyd annibynnol a mynd i'r afael ag anghenion gofal parhaus. Mae ymchwilwyr yn awgrymu y dylid darparu hyfforddiant arbenigol i weithwyr proffesiynol i'w helpu i adnabod yr arwyddion a'r symptomau o gamdriniaeth ddomestig yn y grŵp hwn.

Ymddengys nad oes gwahaniaeth ffurfiol rhwng anabledau dysgu ac anabledau corfforol o ran casglu data am gamdriniaeth ddomestig. Yn yr un modd â phobl hŷn, iechyd meddwl, awtistiaeth, namau synhwyrdd ac anabledau corfforol, mae'r bwlch hwn mewn data yn dangos bod angen cadarnhau graddau gwirioneddol y broblem, er mwyn blaenoriaethau cefnogaeth, yn arbennig o ystyried y risg uwch o gamdriniaeth ymhlith y grŵp hwn o bobl.

O ran anabledau ar draws y rhanbarth, yn ei synnwyr ehangaf, amcangyfrifwyd ar 16 Medi 2021, yn ôl data MARAC dros gyfnod treigl o 12 mis, bod rhwng 0 a 2.3% o achosion a nodwyd fel rhai "risg uchel" yn gysylltiedig ag anabledau. Gan bod data MARAC yn ymwneud ag achosion risg uchel a gan oes digon yn adrodd am gamdriniaeth ddomestig, mae'n rhesymol cymryd nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r darlun llawn.

7.8 Eiriolaeth

Rhoddodd Wreccsam gontract newydd ar gyfer darpariaeth eiriolaeth ar waith ym mis Ionawr 2019. Mae'r gwasanaeth newydd yn rhoi rhagor o bwyslais ar hunaniaeth, cymuned a chyd-eiriolaeth, gyda gwaith achosion yn canolbwyntio ar y rheiny sydd angen eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Mae Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru yn hwyluso grŵp Hunanreolaeth Wreccsam, sy'n parhau i fod yn wasanaeth pwysig sy'n datblygu'n dragwyddol. Mae'n rhoi cyfle i bobl drafod, dadlau a herio newidiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cael effaith arnyn nhw. Mae Cyngor Wreccsam hefyd yn ceisio datblygu eu gwasanaethau eirioli i sicrhau ein bod yn gallu cefnogi pobl gydag anghenion cymhleth iawn. Mae gan Gyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru hefyd brosiectau eiriolaeth ar draws Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Mae gwasanaeth eiriolaeth Dewis CIL yn darparu gwasanaeth i oedolion bregys rhwng 18 a 64 oed, gan gynnwys pobl gyda anabeddu dysgu, yn ardal Cyngor Conwy.

7.9 Ffactorau economaidd-gymdeithasol

Gall pobl ag anableddau brofi anghydraddoldebau o ran canlyniadau, yr amlycaf o'r rhain yw nad yw eu hiechyd cystal â'r boblogaeth ehangach. Fodd bynnag, cydnabyddir bod hyn yn rhannol yn sgil risg uwch o ganlyniad i ffactorau sydd ynghlwm ag anabledd dysgu (Emerson a Baines 2011). Mae pobl ag anableddau dysgu'n fwy tebygol na phobl nad ydynt yn anabl o fod yn agored i dlodi, diweithdra, cyflyrau tai gwael, eithrio cymdeithasol, camdriniaeth, erledigaeth a gwahaniaethu (Anghydraddoldebau Iechyd a Phobl ag Anableddau Dysgu yn y DU. 2012 Eric Emerson, Susannah Baines, Lindsay Allerton a Vicki Welch).

Fel blaenoriaeth ar gyfer y rhaglen ranbarthol, mae ffocws ar gefnogi pobl i fyw'n annibynnol a sicrhau fod gan bobl ag anableddau dysgu rywle da i fyw. Y drefniant byw mwyaf cyffredin ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu yw gyda'u rhieni/teulu. Mae'r amgylchedd corfforol yn ogystal â'r lleoliad yn ddau faes hanfodol ar gyfer sicrhau bod gan bobl rywle da i fyw.

Yn yr adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?' mae'n nodi bod pobl ag anableddau corfforol ac anableddau dysgu'n syrthio ymhellach ar ei hôl hi ac yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol fwy. Yng Nghymru, bydd un o bob pum disgybl

ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn ennill pump TGAU gradd A*–C o'i gymharu â dwy ran o dair o ddisgyblion heb ADY. Mae anfantais mewn bywyd cynnar yn parhau yn hwyrach mewn bywyd, mae pobl ag anableddau dysgu'n cael eu tangynrychioli yn ddifrifol mewn prentisiaethau, mae cyfraddau cyflogaeth pobl anabl yng Nghymru yn llai na hanner y rheini ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl (A yw Cymru'n Decach?, 2018). Mae newidiadau i'r gyfundrefn les wedi cael effaith anghymesur ar bobl anabl, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi.

7.10 Cydraddoldeb a hawliau dynol

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd sector cyhoeddus newydd sy'n gofyn i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys y cynghorau, drechu rhagfarn a symud cydraddoldeb cyfleoedd yn ei flaen. Yn y bennod hon, nodir y problemau a'r heriau sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu, a fydd o bosibl â nodweddion eraill a ddiogelir megis oedran, ac efallai eu bod dan anfantais oherwydd y rhain.

Ar adeg cyhoeddi'r asesiad o anghenion hwn, roedd y pandemig COVID-19 parhaus wedi amlygu'r anghydraddoldeb a wynebir gan y rheiny ag anableddau dysgu. Yn yr adroddiad 'Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19' (2021) cydnabyddir bod y pandemig wedi cael effaith niweidiol ar sawl agwedd o fywyd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Nododd 'Amlygu'r Materion' bod pobl ag anableddau dysgu a oedd yn byw'n annibynnol yn ei chael hi'n anodd deall y cyfyngiadau, nid oedd gwybodaeth megis canllawiau / llythyrau gwarchod ar gael mewn fformatau hygyrch.

Mae partneriaid sector cyhoeddus Gogledd Cymru yn ymrwmo i'r [model cymdeithasol o anabledd](#). Gall defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd fel theori yn hytrach na'r model meddygol helpu i newid safbwynt pobl ar beth mae pobl eraill yn gallu ei gyflawni, a sut y dylid strwythuro ein hamgylcheddau. Bydd pobl sy'n dilyn y dull hwn o feddwl yn gallu gweld heibio'r hen bolisiau a gweithdrefnau sy'n gallu rhwystro pobl ag anableddau dysgu rhag byw bywydau llawn ac egnïol.

Er gwaethaf datblygiadau o ran safbwynt y cyhoedd o bobl ag anableddau dysgu, mae rhywfaint o stigma yn parhau i fodoli am beth mae pobl ag anableddau dysgu'n gallu a ddim yn gallu ei wneud. Gan ddefnyddio'r model cymdeithasol o anabledd, ni ddylid gosod cyfyngiad ar beth all pobl ag anableddau dysgu ei gyflawni; yr allwedd

yw dod o hyd i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i'w galluogi i gyflawni'r pethau hyn.

7.11 Ystyriaethau'r iaith Gymraeg

Mae pobl ag anableddau dysgu wedi'u nodi fel grŵp blaenoriaeth ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg (Mwy Na Geiriau, 2012). Mae grwpiau blaenoriaeth yn arbennig o agored niwed os na fyddan nhw'n derbyn gofal yn yr iaith o'u dewis. Mae amrywiaeth ar draws Gogledd Cymru yng nghyfran y bobl sydd wedi nodi Cymraeg fel eu hiaith ddewisol. Golyga hyn bod yr anghenion yn amrywio ar draws Gogledd Cymru ar gyfer staff cymorth cyfrwng Cymraeg a chefnogaeth i anghenion ieithyddol a diwylliannol siaradwyr Cymraeg ag anableddau dysgu. Mae'r angen yn tueddu i gael ei fodloni mewn ardaloedd lle mae nifer uwch o siaradwyr Cymraeg, megis Gwynedd, o'i gymharu ag ardaloedd fel Sir Ddinbych a Chonwy lle mae recriwtio staff cymorth cyfrwng Cymraeg wedi bod yn anodd (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 2016). Mae problemau recriwtio a chadw staff ar draws y sector gofal yn gwaethygu'r broblem hon.

7.12 Casgliad ac argymhellion

Argymhellir, yn unol â phob deddfwriaeth, polisi a chanllawiau, bod yr argymhellion a'r blaenoriaethau canlynol yn cael eu datblygu i fodloni'r weledigaeth ar gyfer y rheiny ag anableddau dysgu o fewn rhanbarth Gogledd Cymru.

- **Cyfleoedd cyflogaeth:** Mae hyn wedi cael ei amlygu fel blaenoriaeth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu mewn ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae hyn hefyd wedi cael ei amlygu fel blaenoriaeth ar gyfer partneriaid. Bydd y Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu'n cynhyrchu Strategaeth Gyflogaeth Anableddau Dysgu yn 2022 i ymgymryd â chymau gweithredu i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth am dâl.
- **Cyd-gynhyrchu:** Mae'n bwysig cyd-gynhyrchu gwasanaethau er mwyn bodloni anghenion pobl ag anableddau dysgu a datblygu'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo ar draws y rhanbarth.
- **Tai a llety:** Sicrhau bod cyflenwad llety priodol i bobl ag anableddau dysgu yng Ngogledd Cymru. Argymhellir hefyd y dylid canolbwyntio ar dai ar gyfer

pobl ag anghenion cymhleth.

- **Cynhwysiant digidol a thechnoleg gynorthwyol:** Sicrhau bod gan bobl ag anableddau dysgu y sgiliau a'r offer sydd eu hangen i gael eu cynnwys yn ddigidol. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Mae hefyd yn bwysig bod gan ofalwyr a gweithwyr cefnogi'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.
- **Gweithlu:** Canolbwyntio ar recriwtio a chadw'r gweithlu sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu. Yn ogystal â hyfforddi ac uwchsgilio'r gweithlu presennol i'w galluogi i reoli anghenion mwy cymhleth o fewn cymunedau.

8. Awtistiaeth

8.1 Ynglyn â'r bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys asesiad o anghenion y bobl hynny yng ngogledd Cymru sydd ag awtistiaeth. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod rhai pobl ag awtistiaeth yn diffinio'u hunain yn niwrowahanol.

Diffiniad

Cyflyrau niwroddatblygiadol yw awtistiaeth ac maent fel arfer yn dod i'r amlwg mewn plant pan maent yn ifanc. Mae'r cyflyrau'n para gydol oes, ond gall y nodweddion craidd newid wrth i'r unigolyn ddatblygu. Mae Awtistiaeth yn cael effaith mewn tri o feysydd gweithredu:

- Dealltwriaeth gymdeithasol a rhyngweithio cymdeithasol cilyddol.
- Cyfathrebu – yn enwedig cyfathrebu cilyddol mewn cyd-destun cymdeithasol.
- Anawsterau sy'n gysylltiedig â diddordebau cul, ymddygiad ailadroddus ac anawsterau synhwyraidd arwyddocaol.

Mae diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o awtistiaeth (yr un y mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ei ddefnyddio) yn dweud:

“Defnyddir y term ‘anhwylderau’r sbectrwm awtistig’ i ddisgrifio casgliad o anhwylderau datblygiadol hollbresennol a nodweddir gan annormaledd ansoddol yng nghyswllt rhyngweithio cymdeithasol ag eraill ac mewn patrymau cyfathrebu, a thrwy amrywiaeth gul, ystrydebol ac ailadroddus o ddiddordebau a gweithgareddau.”

Mae awtistiaeth yn gyflyrau sy'n amrywio'n helaeth o ran eu difrifoldeb a'u heffaith ar allu gwybyddol. Efallai bod rhai pobl ag awtistiaeth ag amryw broblemau iechyd ac iechyd meddwl. Gallai awtistiaeth hefyd fodoli ochr yn ochr â chyflyrau niwroddatblygiadol eraill fel Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd.

8.2 Beth a wyddom am y boblogaeth?

Amcangyfrifir bod 1.1% o'r boblogaeth yn y sbectrwm awtistiaeth (Burgha *et al*, 2012). Mae hynny'n gyfystyr â 6,160 o bobl dros ddeunaw yng ngogledd Cymru. Canfuwyd bod y gyfradd yn uwch ymysg dynion (2%) na menywod (0.3%).

Gwneir diagnosis o awtistiaeth ar gyfer plant oedran ysgol yn amlach nag oedolion. Ceir arwyddion cryf fod yno achosion o oedolion ag awtistiaeth sydd heb eu hadnabod. Nid oedd asesiadau ar gyfer awtistiaeth ar gael yn helaeth nes dechrau'r 1990au ac ers hynny fe ganolbwyntiwyd yn bennaf ar blant a'r rhai hynny oedd â'r symptomau mwyaf dwys.


Gweler isod y ffigyrau sy'n dangos amcangyfrif o gyfanswm y bobl ddeunaw oed â hyn sydd ag awtistiaeth yng ngogledd Cymru, ynghyd ag amcangyfrifon ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain yn dangos cynnydd yn nifer y bobl ddeunaw oed a hŷn ag awtistiaeth yng ngogledd Cymru.

Tabl 56: Amcangyfrif o gyfanswm y boblogaeth ddeunaw oed a hŷn ag awtistiaeth yng ngogledd Cymru

Cyngor lleol	2020	2025	2030	2035	2040	Newid
Ynys Môn	620	620	630	630	630	10
Gwynedd	1,110	1,130	1,160	1,170	1,180	70
Conwy	1,060	1,070	1,100	1,120	1,130	75
Sir Ddinbych	840	850	860	880	880	45
Sir y Fflint	1,360	1,380	1,400	1,420	1,430	65
Wrecsam	1,170	1,170	1,180	1,180	1,170	0
Gogledd Cymru	6,160	6,220	6,320	6,390	6,430	265

Talgrynnwyd y rhifau felly efallai na fyddant yn symio.
Ffynhonnell: Daffodil

Siart 21: Amcangyfrif o gyfanswm y boblogaeth ddeunaw oed a hŷn ag awtistiaeth yng ngogledd Cymru yn 2020 a 2040



Ffynhonnell: Daffodil

Mae'r tabl isod yn dangos sut ragwelir y bydd nifer y plant 0-17 oed ag awtistiaeth yn newid dros yr ugain mlynedd nesaf. Ar y cyfan bydd y nifer ag awtistiaeth yn gostwng. Mae'n debygol y bydd hynny oherwydd y gostyngiad cyffredinol a ragwelir yn nifer y bobl 0-17 oed, yn hytrach na bod y gyfradd o bobl ag awtistiaeth yn gostwng. At ddibenion y dadansoddiad hwn tybir fod y cyfraddau'r un fath ymysg cynghorau gogledd Cymru. Dylid nodi y gellid disgwyl cynnydd pe byddai unrhyw newid mewn diffiniadau, cydnabyddiaeth a/neu weithdrefnau asesu.


Tabl 57: Amcangyfrif o gyfanswm y plant rhwng 0 a 17 oed ag awtistiaeth yng ngogledd Cymru erbyn 2040

Cyngor lleol	2020	2025	2030	2035	2040	Newid
Ynys Môn	250	240	230	220	220	-25
Gwynedd	430	430	420	420	430	5
Conwy	390	390	380	370	370	-25
Sir Ddinbych	360	360	340	330	330	-25
Sir y Fflint	590	590	570	570	570	-25
Wrecsam	530	520	490	470	470	-60
Gogledd Cymru	2,540	2,530	2,430	2,380	2,390	-25

Talgrynwyd y rhifau felly efallai na fyddant yn symio.

Ffynhonnell: Daffodil

Siart 22: Amcangyfrif o gyfanswm y plant rhwng 0 a 17 oed ag awtistiaeth yng ngogledd Cymru yn 2020 a 2040



Ffynhonnell: Daffodil

8.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Gwasanaethau oedolion

Beth sy'n gweithio'n dda

Ni soniodd llawer o'r ymatebwyr am bethau sy'n gweithio'n dda, a dywedodd un neu ddau ohonynt fod y gwasanaethau'n rhy araf a bod fawr ddim cymorth ar gael.

Credir bod y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn gweithio'n dda, yn ogystal â defnyddio taliadau uniongyrchol. Efallai y bydd cleientiaid sydd wedi'u hasesu ar gyfer gwasanaethau statudol yn medru cael mynediad at daliadau uniongyrchol os oes ganddynt anghenion asesedig. Yna gellir defnyddio taliadau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol i hwyluso penderfyniadau cadarnhaol sy'n newid bywydau pobl ac yn medru arwain at well ansawdd bywyd yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) sy'n canolbwyntio ar roi grym a dewis i bobl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen gwella "popeth". Roedd yr argymhellion penodol yn cynnwys:

- Dylai gwasanaethau fod yn fwy seiliedig ar yr unigolyn.
- Dylai staff dderbyn hyfforddiant arbenigol.

- Dylid lleihau'r amseroedd aros ar gyfer asesiadau.
- Dylid gwella'r modd y cyfathrebir â gwasanaethau.
- Dylai staff yn yr holl wasanaethau fod yn fwy agored a gonest.
- Dylid sefydlu Canolbwynt y Bwrdd Partneriaeth fel y gall yr holl ddarparwyr gwrdd a rhannu gwybodaeth.

Gwasanaethau awtistiaeth i blant a phobl ifanc

Beth sy'n gweithio'n dda

Ni soniodd llawer o'r ymatebwyr am wasanaethau i blant ag oedolion ag awtistiaeth sy'n gweithio'n dda, ond cafwyd canmoliaeth i'r rhain:

- Seicolegwyr addysg unigol.
- Sefydliadau sy'n darparu cefnogaeth o ansawdd da: STAND Gogledd Cymru, Canolfan Datblygiad Plant Conwy ac Ysgol y Gogarth.
- Y gefnogaeth wedi'i theilwra a gynigir i bob teulu/unigolyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen gwella "*popeth*" er mwyn rhoi mwy o sylw, gofal a chymorth i rieni a'u plant awtistig. Mae'r rhestrau aros i gael asesiadau awtistiaeth yn "*aruthrol o hir*" ac mae'r gwasanaethau'n brin. Dywedodd rhieni yr hoffent gael mwy o wybodaeth am gynnydd eu hachosion ar y rhestr a chael rhywfaint o gyngor wrth iddynt aros.

Roedd y bylchau a nodwyd mewn gwasanaethau'n cynnwys:

- Gwasanaethau i blant ar ben uchaf y sbectrwm.
- Gofal seibiant pan mae plant yn troi'n 11 oed.
- Cyfleusterau ar ôl ysgol gyda staff wedi'u hyfforddi'n iawn.
- Gwasanaethau i blant awtistig sydd â gorbryder a phroblemau cyfathrebu.

Lleisiodd rhieni bryderon nad yw'r holl athrawon mewn ysgolion arbenigol wedi cymhwyso a'u hachredu i weithio â phlant awtistig. Credant mai athrawon sydd wedi cael hyfforddiant mewn dyslecsia, anghenion synhwyraidd, anawsterau â gweithredu goruchwyliol, prosesu araf ac yn y blaen a ddylai ddarparu'r holl wersi. Mae'n arbennig o bwysig bod athrawon yn cael eu hyfforddi i adnabod plant awtistig sy'n cymdeithasu'n iawn ac yn medru cuddio'u problemau'n dda, a'u cynorthwyo ag

anghenion cymhleth. Nid yw ugain munud yr wythnos o addysgu unigol gan y cydlynedd anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon da.

Soniodd rhieni a gofawyr am “gael ei gadael â chanlyniadau'r trawma sydd wedi'i achosi gan athrawon nad ydynt yn deall anghenion y disgybl. Felly, ar ben gofalu am ein plentyn mae'n rhaid inni frwydro i geisio gorfodi'r ysgol i gynnig darpariaeth i'n plant. Mae gofyn inni ysgwyddo baich ychwanegol aruthrol ar ben ein gwaith gofalu.”

Mae ar rieni a gofawyr angen mwy o ofal seibiant eu hunain, a soniodd un rhiant, “Rydw i wedi mynd y tu hwnt i fod wedi ymlâdd. Bu'n rhaid imi adael fy swydd fel nyrs arbenigol ar ôl 23 o flynyddoedd i ofalu am fy merch yn llawn amser, gan nad oes unrhyw gefnogaeth iddi.”

Gallai grwpiau cymdeithasol i rieni roi cyfleoedd i drafod anawsterau cyffredin a rhannu gwybodaeth am sut i'w datrys. Mae angen mwy o gefnogaeth a hyfforddiant er mwyn helpu rhieni i ymdopi ag awtistiaeth eu plant.

Ar lefel systemaidd, byddai darparwyr gwasanaethau'n elwa ar:

- Fforymau gwell ar gyfer rhwydweithio.
- Cyllid sefydlog gan awdurdodau lleol.
- Cydlynu a chydweithio er mwyn atal darparwyr rhag cystadlu yn erbyn ei gilydd am yr un grantiau ac osgoi gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau.
- Hoffai rieni bod staff mewn gwahanol rannau o sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd “fel nad oes raid ichi roi'r un wybodaeth bob tro a dod i arfer â rhywun newydd.”

8.4 Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Mae Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu Gwasanaethau Awtistiaeth bellach wedi'i gyhoeddi a bydd yn rhaid ei weithredu o fis Medi 2021 ymlaen. Yn y Cod Ymarfer pennir y dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrrff iechyd yng nghyswllt amrywiaeth ac ansawdd a ddylai fod ar gael yn lleol i bobl ag awtistiaeth. Mae'r Cod yn atgyfnerthu'r fframweithiau cyfreithiol a sefydlwyd eisoes drwy bennu darpariaethau ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth.

Mae'r holl bartneriaid wedi cwblhau asesiad sylfaenol o'r dyletswyddau yn y Cod Ymarfer er mwyn asesu cydymffurfiaeth ac adnabod ble mae angen gwella pethau.

Mae cynlluniau gweithredu lleol yn cael eu llunio ar sail yr asesiadau sylfaenol hynny. Bydd monitro ac adrodd ynghylch y cynlluniau gweithredu'n digwydd drwy strwythur llywodraethu rhanbarthol gogledd Cymru.

Mae Grŵp Budd-ddeiliaid Awtistiaeth Conwy a Sir Ddinbych wedi llunio cynllun gweithredu lleol drafft mewn ymateb i'r Cod a bydd yn ymgynghori yn ei gylch yn fuan. Mae Conwy a Sir Ddinbych yn neilltuo cyllid bob blwyddyn i'r trydydd sector ar gyfer darparu ymyriadau cynnar a gwasanaethau ataliol i bobl ag awtistiaeth. Yng Nghonwy, sefydlir llwybrau priodol ar gyfer asesiadau, a phan asesir fod gan unigolion anghenion cymorth, cynigir gofal a chymorth wedi'i reoli er mwyn sicrhau fod pobl ag awtistiaeth yn cael y gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn.

Mae gwasanaethau a chymorth i blant ag awtistiaeth yn amrywio o un sir i'r llall ac mae gwahanol sefydliadau'n eu darparu gan ddibynnu ar oedran yr unigolyn. Yng Ngwynedd, er enghraifft, Tîm Integredig Plant Anabl Derwen sy'n asesu plant dan 5 ar hyn o bryd, a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn asesu plant dros 5. Comisiynwyd arbenigwr ar awtistiaeth i ddarparu cymorth wrth ddatblygu Cynllun Gweithredu Awtistiaeth mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae a wnelo hynny ag awtistiaeth gydol oes, gan gynnwys plant ac oedolion felly.

Mae Adran Plant a Theuluoedd Gwynedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Lles bellach yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig. Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn gweithio gydag unigolion nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer derbyn gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn cynorthwyo gyda diagnosis ac yn darparu cymorth staff, teuluoedd a gweithwyr cymdeithasol ac ati ynghlŷn â chefnogi unigolion ag awtistiaeth. Mae'r rhestrau aros am ddiagnosis yn hir dros ben, ond mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd i weld pa gymorth y gellir ei ddarparu yn y cyfamser. Caiff yr holl unigolion yn y sbectrwm awtistig sy'n destun atgyfeiriad at fforwm oedolion bregus Gwynedd (gan nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i fynd ar y gofrestr Anabledau Dysgu) eu dogfennu'n ffurfiol fel y gellir cynllunio gwasanaethau a hyfforddiant ar gyfer y dyfodol.

Yn Wrecsam, Tîm Datblygu Cyn Ysgol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n ymdrin â'r llwybrau atgyfeirio ar gyfer Asesu a Diagnosis i blant 0-5 oed. Tîm Niwroddatblygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sy'n gwneud yr asesiadau a diagnosis ar gyfer plant rhwng 5 a 18 oed. Caiff oedolion hŷn na deunaw oed eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

Sefydliadau yn y trydydd sector sy'n darparu'r rhan helaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ag awtistiaeth. Mae yno sefydliadau cenedlaethol sy'n darparu gwasanaethau yng ngogledd Cymru, gan gynnwys Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru a weithredir gan y Bwrdd Iechyd a'r awdurdodau lleol ar y cyd. Mae yno hefyd grwpiau cymorth mwy lleol megis Grŵp Cymorth Asperger / Awtistiaeth Gwynedd a Môn. Mae'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol hefyd yn darparu gwasanaeth gofal cartref.

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru

Mae llawer o bobl awtistig yn syrthio rhwng dwy stôl o ran bod yn gymwys am wasanaethau iechyd meddwl ac anabledau dysgu, sy'n golygu na fedrant gael mynediad at gefnogaeth emosiynol, ymddygiadol a chymorth gyda phroblemau iechyd meddwl ysgafn a sgiliau byw. Yn ogystal â hynny, mae diffyg hyder gan lawer o ddarparwyr i gynnig gwasanaethau a fedr fodloni anghenion yr unigolyn. Mewn ymateb i hynny mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i ddatblygu Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ledled Cymru.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu:

- Gwasanaethau diagnostig i oedolion.
- Cefnogaeth i oedolion awtistig gyflawni canlyniadau penodol.
- Cefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr.
- Hyfforddiant a chynghor i weithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau eraill sy'n cefnogi pobl awtistig.

Nod y gwasanaeth yw sicrhau fod pobl awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn medru cael mynediad at y cynghor, cymorth ac ymyriadau angenrheidiol er mwyn iddynt fedru cyflawni eu llawn botensial, lle nad yw'r rheiny ar gael fel arall (Canllaw Cefnogi'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig, Llywodraeth Cymru, 2017).

Cynghor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar y cyd sy'n cynnal Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru ar ran y rhanbarth. Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru'n cynnig cefnogaeth ddi-dor i bobl awtistig drwy'r gwahanol gyfnodau pontio yn eu bywydau, ac yn helpu pobl i gyflawni'r pethau hynny sydd o bwys iddynt. Darperir y gwasanaeth i bobl heb anhawster iechyd meddwl neu anabledau dysgu cymedrol i ddifrifol.

Cynhaliwyd cynhadledd lansio Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru ar 27 Mehefin 2018. Mae'r Gwasanaeth wedi addasu ei weithdrefnau ymgynghori ar gyfer cleientiaid a staff fel y gallai pawb gadw'n ddiogel yn ystod y pandemig. Mae pob cais y mae'r gwasanaeth yn ei dderbyn bellach yn mynd drwy broses brysbennu wythnosol y Tîm Amlddisgyblaethol ac ymdrinnir â hwy'n unol â'r polisi iaith Gymraeg. Cynghorir y sawl sy'n atgyfeirio ynglŷn ag unrhyw gymorth arall y gallai fod ei angen ar y cleientiaid, gan gynnwys cefnogaeth iechyd meddwl, ac fe gynigir hynny'n gynnar yn y broses. Mae hynny'n golygu bod modd gwneud asesiad cynnar a gweld yr unigolyn mewn amgylchedd clinigol diogel a'u bod yn derbyn unrhyw wasanaethau eraill sydd eu hangen ar yr un pryd, gan atal oedi clinigol. Cwblheir y Seren Ganlyniadau gyda'r cleientiaid, gan amlygu'r anghenion y dymunant ganolbwyntio arnynt a rhoi'r grym iddynt gyflawni newidiadau. Mae Clinigwyr a Gweithwyr Cyswllt yn medru defnyddio'r Seren Ganlyniadau.

Nid oes rhestr aros am gefnogaeth gan y neilltuir pob cais o'r fath a dderbynnir gan y tîm i weithwyr cyswllt a fydd yn cysylltu drwy e-bost, dros y ffôn ac yn bwysicaf oll, lle bo modd, drwy Gynadledda Fideo (os oes gan y cleient fynediad at offer TG). Deallwn na fedr pob cleient ddefnyddio offer TG i feithrin cyswllt ac rydym yn gweithio â hwy i ganfod ffyrdd dyfeisgar o'u cefnogi.

Darperir cymorth am hyd at chwech o sesiynau, ond gellir ymestyn hynny gan ddibynnu ar yr angen. Ni all y gwasanaeth gynnig cymorth mewn argyfwng. Os yw'n ymddangos bod iechyd meddwl y cleient yn dirywio fe gânt eu cyfeirio ar unwaith at eu meddyg teulu, y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a/neu at yr awdurdod lleol drwy'r gwasanaeth Un Pwynt Mynediad i gael rhagor o gymorth ar sail cais am asesiad o anghenion.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu hyfforddiant mewn Sgiliau Ymddygiad Dialectig (cwrs 13 wythnos) i grwpiau gydol y Dwyrain (Wrecsam/Sir y Fflint), Canol (Sir Ddinbych/Conwy) a'r Gorllewin (Gwynedd ac Ynys Môn). Dechreuodd y grŵp cyntaf yn 2020 gyda phymtheg o bobl yn cwrdd wyneb yn wyneb, ond mae Covid-19 wedi effeithio ar y ddarpariaeth.

Cynhaliwyd pump o gyfarfodydd grŵp wyneb yn wyneb ar ôl diagnosis. Roedd yno uchelgais i ehangu'r gwasanaeth i bob sir wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, ond oherwydd Covid-19 bu'n rhaid addasu 'Deall Awtistiaeth' i'w ddarparu ar-lein. Darperir llyfryn gwaith i bobl sydd wedi cael diagnosis yn ddiweddar neu sy'n ceisio eglurder ynglŷn â'u hasesiadau, a chynhelir y cwrs chwe wythnos unwaith bob tri mis. Caiff y cwrs ei arfarnu a'i adolygu'n gyson gyda phob grŵp o gyfranogwyr fel

bod modd ei addasu yn ôl anghenion unigol pobl awtistig. Cynhaliwyd dau grŵp arall ochr yn ochr ym mis Ionawr a mis Mai 2021. Datblygwyd hyfforddiant i gefnogi rhieni hefyd.

Mae'r cyrsiau hyn hefyd ar gael i bobl sy'n derbyn cefnogaeth gan wasanaethau statudol, gan gynnwys y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Gall pobl sy'n dal mewn gwasanaethau eilaidd ar ôl cael diagnosis o awtistiaeth hefyd elwa ar y cyrsiau 'Deall Awtistiaeth' a Sgiliau Ymddygiad Dialectig.

Bydd yr asesiad fel arfer yn cynnwys o leiaf tri neu bedwar o apwyntiadau oddeutu dwy awr yr un. Bydd apwyntiadau fideo'n dal yn rhan o'r drefn asesu oherwydd yr heriau daearyddol ledled gogledd Cymru. Fel hyn gellir darparu asesiadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar ffurf fideogynadleda a/neu apwyntiadau wyneb yn wyneb er mwyn cydymffurfio â chanllawiau NICE a'r arfer orau.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu adroddiad manwl 15 tudalen ar gyfer pob unigolyn, gan gynnwys argymhellion ac efallai pasbort cyfathrebu unigol i gynorthwyo gyda phethau sy'n peri cymhlethdod fel gwaith, apwyntiadau iechyd ac anawsterau cyfathrebu. Disgwylir bod adroddiad yn cael ei gwblhau mewn chwe wythnos lle bo modd, ond mae hynny'n dibynnu ar gymhlethdod yr achos.

Gall seicolegwyr hefyd ddarparu asesiadau eraill os ydynt o'r farn y bodlonir y meini prawf ar gyfer Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd a / neu unrhyw drawma iechyd meddwl sylfaenol y mae angen ymyrraeth therapiwtig ar ei gyfer gan y gwasanaethau a chlinigwyr perthnasol. Caiff cleientiaid eu cyfeirio at wasanaethau eraill a chyflwynir gohebiaeth wedi'i phersonoli er mwyn hwyluso'r drefn o bontio i'r gwasanaethau hynny.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig hefyd yn cefnogi cyplau i gyfathrebu'n effeithiol lle mae un ohonynt wedi cael diagnosis o awtistiaeth. Mae'r gwasanaeth yn dal i gael clod am y gwaith y mae wedi'i gyflawni yn ogystal â'r amrywiaeth o ganlyniadau 'hanes bywyd' rhagorol a gyflwynwyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dangos y gwahaniaeth a wnaed ym mywydau beunyddiol oedolion awtistig.

Dywedodd un defnyddiwr gwasanaeth:

“Heb fynd dros ben llestri, rydych chi wedi rhoi imi'r cam cyntaf ar lwybr hollol newydd yn fy mywyd, ac rwy'n siŵr y byddaf yn diolch ichi eto yn y dyfodol am y llwyddiant rwy'n ffyddiog y gallaf ei

gyflawni'n awr, a minnau'n deall yn well pwy ydw i, a phwy fues i erioed.”

I roi mwy o gymorth i bobl awtistig, mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol wedi lansio gwefan AwtistiaethCymru.org (ASDinfoWales gynt).

8.5 Effaith Covid-19

Yn yr adroddiad '*Left Stranded*' (2020) mae'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol yn honni bod y pandemig wedi cael effaith anghymesur ar bobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd. Canfu'r ymchwilyr fod pobl ag awtistiaeth yn saith gwaith mwy unig na'r boblogaeth gyffredinol ach yn chwe gwaith mwy tebygol o fod yn anfodlon â'u bywydau. Roedd naw o bob deg ohonynt yn pryderu ynghylch eu lles meddyliol.

Cyhoeddodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion adroddiad ym mis Mai 2021 ynglŷn ag effaith y pandemig Covid-19 ar bobl awtistig neu bobl ag anableddau dysgu, ac mae'n dweud:

“Yn unol â'r pwyslais cenedlaethol hwn, ni roddwyd ystyriaeth briodol i anghenion pobl ag anableddau dysgu neu awtistiaeth yn ystod y cyfnodau clo, gan gynnwys ymarferoldeb y cyfyngiadau a'r effaith fwy y byddai'r rhain yn eu cael ar eu bywydau.”

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y cwtogwyd yn llym ar weithgareddau hunangymorth pobl awtistig, pobl â chyflyrau iechyd meddwl a phobl â namau dysgu (fel grwpiau cymunedol wyneb yn wyneb) yn ystod y cyfnod hwn. Mae llawer o bobl bellach yn unig iawn ac yn methu â chyfleu eu trafferthion drwy'r dulliau cyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd (Adroddiad Drws ar Glo, 2021).

Yn adroddiad Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion amlygir rhai o'r materion allweddol y mae pobl awtistig yn eu hwynebu, gan gynnwys:

- Mae colli cyswllt â ffrindiau, gweithgareddau ac arferion beunyddiol wedi gwaethygu'r heriau iechyd a lles oedd yn bodoli cyn y pandemig i bobl awtistig a phobl ag anableddau dysgu.
- Bu'n anodd i bobl addasu i'r newidiadau rheolaidd yn y canllawiau.
- Un pryder penodol a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfweiliadau a gynhaliodd y Gymdeithas oedd cyfleoedd am waith.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r pandemig Covid-19 ar gael yn yr [adolygiad cyflym o'r asesiad](#).

8.6 Eiriolaeth

Mae eirioli ar ran oedolion a phlant awtistig a'u gofalwyr yn sicrhau y diogelir hawliau unigolion, a gall eiriolaeth fod o gymorth mewn amryw ffyrdd, gan gynnwys cynorthwyo pobl i geisio diagnosis, goresgyn rhwystrau a chael mynediad at wasanaethau.

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol Gogledd Cymru'n hwyluso grŵp Hunaneiriolaeth yn Wrecsam, sy'n dal yn wasanaeth pwysig sy'n datblygu o hyd. Mae'n rhoi'r cyfle i bobl drafod y newidiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n effeithio arnynt, dadlau yn eu cylch a'u herio. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gweithredu cynlluniau eiriolaeth ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Mae Canolfan Byw'n Annibynnol Dewis yn darparu gwasanaethau eirioli ar gyfer oedolion diamddiffyn rhwng 18 a 64 oed, gan gynnwys oedolion awtistig ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

8.7 Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae menywod a genethod yn aml yn cael trafferth cael eu hatgyfeirio at wasanaethau diagnostig, ac mae'n rhaid i lawer ohonynt geisio diagnosis preifat. Mae perygl mawr hefyd bod menywod yn 'cuddio' neu'n 'cuddliwio' eu niwrowahaniaeth, a chredir nid yn unig bod hynny'n cyfrannu at anghyfartaledd mewn diagnosis, ond ei fod hefyd yn rhoi menywod mewn mwy o berygl o gael canlyniadau anffafriol (Ffeithlun Gofal Iechyd i Fenywod ar gyfer Pobl ag Awtistiaeth ac Anableddau Dysgu).

Mae hyn yn effeithio ar fenywod niwrowahanol mewn amrywiaeth o ffyrdd. Rydym eisoes wedi sôn am yr anghydraddoldeb y mae pobl awtistig yn ei wynebu wrth gael mynediad at ofal iechyd, ond gallai hyn fod yn cael effaith anghymesur ar fenywod gan eu bod mewn mwy o berygl o fod â mwy nag un cyflwr iechyd corfforol a meddyliol ar yr un pryd. Roedd gorgynrychiolaeth o fenywod awtistig yn y ffigyrau ar anorecsia nerfosa, er enghraifft, ond mae diffyg dealltwriaeth yn golygu bod y canlyniadau a'r cyfraddau adfer i fenywod awtistig yn llawer gwaeth nag i bobl eraill

ag anorecsia. Mae rhai astudiaethau hefyd yn awgrymu fod cyfraddau marwolaeth yn uwch ymysg menywod awtistig o gymharu â dynion awtistig, gan gynnwys mwy o berygl o hunanladdiad. Mae'n waeth fyth i fenywod awtistig sydd hefyd ag anabledd dysgu, gan eu bod mewn mwy o berygl o farw'n ifanc. Ni fydd y ffigwr ond yn cynyddu gan nad yw 75% o fenywod ag anabledd dysgu'n cael gwahoddiad am sgriniadau serfigol arferol ("peidio â galw'n ôl").

Mae Autism UK wedi amlygu bod menywod awtistig yn wynebu cryn unigrwydd ac arwahanrwydd, yn enwedig felly yn yr ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru. Mae stigma'n elfen fawr o hynny. Mae stigma hefyd yn cyfrannu at gynnydd yn y perygl na fydd menywod awtistig yn troi at wasanaethau cymorth, yn enwedig os ydynt yn rhiant, oherwydd ofn y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn craffu'n fanylach arnynt, a'r perygl o'u plant yn cael eu derbyn i ofal.

Yn fwy cyffredinol, mae'r hyn y mae menywod awtistig yn ei adrodd yn dangos bod ansawdd eu bywydau yn salach na dynion awtistig mewn llawer o feysydd, i'r fath raddau fel bod rhai astudiaethau'n cynnwys "bod yn fenyw" fel rhagfynegydd o ansawdd bywyd salach mewn poblogaethau awtistig. Mae hynny'n awgrymu bod y materion sy'n gysylltiedig â bod yn niwrowahanol, gan gynnwys stigma, anghyfartaledd mewn diagnosis, ac anghydraddoldeb wrth gael mynediad at ofal iechyd, yn cael effaith anghymesur ar fenywod.

Mae prinder gwaith ymchwil ynglŷn â phrofiadau pobl o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Oherwydd hynny gall fod yn anos fyth iddynt gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Mae arnom angen deall profiadau pobl awtistig a'u teuluoedd o wahanol gefndiroedd a diwylliannau a helpu i greu cymdeithas sy'n gweithio i bawb sy'n awtistig.

8.8 Diogelu

Mae'n hysbys fod oedolion ag anableddau dysgu dan fygythiad o gamdriniaeth a cham-fanteisio, sy'n gallu digwydd yn y gymuned ac mewn lleoliadau preswyl (NICE, 2015). Mae hynny hefyd yn cynnwys pobl awtistig. Yn ôl staff mae yno broblemau diogelu mawr yn deillio o bobl awtistig yn defnyddio'r rhyngwrwd, a phryderon ynglŷn â radicaleiddio. Mae bwlio hefyd yn broblem i bobl awtistig, yn enwedig pobl ifanc mewn ysgolion prif ffrwd..

8.9 Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Fel unrhyw un arall ag anghenion gofal a chymorth, gall pobl ag awtistiaeth fod dan fwy o fygythiad, efallai gan ei bod yn anodd iddynt esbonio i weithwyr proffesiynol beth sy'n digwydd iddynt. Mae'n bosib eu bod yn dibynnu ar bobl eraill i fodloni rhai o'u hanghenion gofal.

Mae'n bwysig darparu cyfleoedd hyfforddiant i weithwyr proffesiynol er mwyn iddynt gael gwell dealltwriaeth o arwyddion a symptomau awtistiaeth, a hefyd i'w helpu i adnabod arwyddion posib o gamdriniaeth ddomestig ymysg y garfan hon o'r boblogaeth, a sut y gall effeithio ar eu cyflwr a'u lles.

Mae'n rhaid sicrhau na chaiff ymddygiadau eu cam-nodweddu a bod unigolion sydd dan fygythiad o niwed a/neu esgeulustod yn cael y cymorth angenrheidiol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid oes data penodol ar gael ar gyfer pobl awtistig sy'n wynebu camdriniaeth ddomestig, boed hynny'n genedlaethol neu'n rhanbarthol.

Serch hynny, dylai awdurdodau lleol fod wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer adnabod cam-drin domestig a chyfeirio unrhyw achosion at y swyddog arweiniol dynodedig sy'n gydrifol am ddiogelu fel y gellir ystyried gwneud atgyfeiriad at Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) yn ogystal ag unrhyw wasanaethau gofal a chymorth y mae'r unigolyn eisoes yn eu derbyn. O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mae'n ddyletswydd statudol i adrodd ynghylch plentyn neu oedolyn mewn perygl, ac mae rhwymedigaeth i asesu anghenion unigolion a gofalwyr.

Wrth wneud asesiad o'r fath gellid ystyried anghenion tai'r unigolyn ynghyd ag unrhyw anghenion cymorth eraill. Mae gwasanaethau arbenigol ar gael ledled y rhanbarth i gynorthwyo pobl sy'n wynebu camdriniaeth ddomestig, gan gynnwys Cyngor Annibynnol ar Drais Domestig, cefnogaeth yn ôl yr angen, cymorth mewn argyfwng, rhaglenni grŵp, eiriolaeth mewn cysylltiad â chamdriniaeth bresennol ac yn y gorffennol, a chanolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol.

8.10 Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg

Mae'r gyfradd o bobl sy'n dewis cyfathrebu â gwasanaethau yn Gymraeg yn amrywio ledled gogledd Cymru. Oherwydd hynny mae'r anghenion yn amrywio o ran cael gweithwyr cymorth sy'n medru'r Gymraeg a bodloni anghenion ieithyddol a diwylliannol siaradwyr Cymraeg awtistig. Tueddir i fodloni'r anghenion hynny'n well mewn ardaloedd â mwy o siaradwyr Cymraeg, fel Gwynedd, nag mewn ardaloedd fel Sir Ddinbych a Sir y Fflint, lle bu'n anodd recriwtio gweithwyr cymorth sy'n medru'r Gymraeg (AGGCC, 2016). Mae rhagor o wybodaeth yn y proffil iaith Gymraeg a luniwyd ar gyfer yr asesiad o'r boblogaeth.

8.11 Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol

Mae'r bwlch swyddi ar sail anabledd yn dal yn llawer rhy fawr, ac oddeutu hanner o bobl anabl sydd mewn gwaith o gymharu â 80% o bobl nad ydynt yn anabl. I bobl awtistig mae'r bwlch yn fwy fyth, a dim ond 22% o bobl awtistig sy'n gweithio am gyflog. Pryderwn yn fawr mai cyfraddau cyflogaeth pobl awtistig yw'r rhai gwaethaf o blith yr holl bobl anabl. Er nad yw pawb sy'n awtistig yn medru gweithio, gwyddom fod y rhan helaeth ohonynt yn dymuno gwneud. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth feithrin gwell dealltwriaeth o bobl awtistig a'u cefnogi i ddod o hyd i waith a'i gadw (y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, 2021).

Mae tai a llety addas yn bwysig, ac o blith yr holl oedolion awtistig a ymatebodd roedd 75% yn byw â'u rhieni, o gymharu ag 16% o bobl anabl yn gyffredinol. Gallai fod nifer o wahanol resymau am hyn, gan gynnwys oedran yr ymatebwyr, neu'r ffaith eu bod yn dal yn yr ysgol neu'r coleg. Ffigyrau newydd yw'r rhain a byddwn yn cadw golwg ar y rhai eraill a gyhoeddir yn y dyfodol. Mae'r data'n cynnwys mwy o ffigyrau sydd a wnelont ag awtistiaeth, ond gan fod y rheiny'n seiliedig ar nifer fechan o ymatebion dylid bod yn fwy pwylllog wrth eu hystyried (y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, 2021).

8.12 Casgliadau ac argymhellion

Argymhellir, yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, polisiau a chanllawiau, gweithredu'r argymhellion a'r blaenoriaethau canlynol er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer pobl ag anhwylderau sbectrwm awtistiaeth yn rhanbarth gogledd Cymru:

- **Y Cod Ymarfer ar gyfer gwasanaethau awtistiaeth:** dal ati i weithredu'r Cod

Ymarfer newydd ledled y rhanbarth. Mae asesiadau sylfaenol yn cael eu gwneud a chynlluniau gweithredu lleol yn cael eu llunio i ategu'r gwelliant parhaus yn natblygiad a darpariaeth gwasanaethau awtistiaeth yng ngogledd Cymru.

- **Cyd-gynhyrchu gwasanaethau:** mae hyn yn elfen arwyddocaol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn thema allweddol a nodwyd ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae adran 16 o'r Ddeddf yn datgan y dylai awdurdodau lleol hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Bydd yn ategu'r gofyniad i adnabod y gofal a chymorth a'r gwasanaethau ataliol y gallai'r dulliau amgen hyn eu darparu. Yn ymarferol, nod cyd-gynhyrchu yw sicrhau mwy o werth cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau i bobl awtistig a'u teuluoedd.
- **Iechyd meddwl a lles:** sicrhau cefnogaeth seicolegol a ffisiolegol ddigonol i bobl awtistig, gan fod y problemau a amlygwyd wedi mynd yn waeth fyth o ganlyniad i Covid-19. Argymhellir canolbwyntio ar iechyd cyffredinol pobl awtistig, eu hiechyd meddwl a'u lles.
- **Codi ymwybyddiaeth:** er mwyn hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth yn fwy helaeth yn y gymuned a sicrhau bod y gweithlu wedi'i hyfforddi'n ddigonol i fedru ystyried anghenion pobl awtistig wrth gael mynediad at wasanaethau.
- **Addysg a gwaith:** dywedodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yr hoffent weld mwy o hyfforddiant ar awtistiaeth i staff mewn sefydliadau addysg a chodi eu hymwybyddiaeth er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc awtistig. Mae pontio rhwng addysg a gwaith yn fwch arall a nodwyd i bobl awtistig.

9. Iechyd meddwl (oedolion)

9.1 Gwybodaeth am y bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion iechyd meddwl y boblogaeth ar gyfer oedolion. Gellir canfod gwybodaeth am grwpiau poblogaeth eraill yn y penodau canlynol:

- [Plant a phobl ifanc \(adran ar gyfer iechyd meddwl a lles\)](#)
- [Pobl hŷn \(adran ar gyfer dementia\)](#)
- [Anableddau dysgu](#)
- [Awtistiaeth](#)
- [Gofalwyr di-dâl](#)

Beth yw ystyr y term iechyd meddwl?

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (2014) yn diffinio iechyd meddwl fel:

“Cyflwr o les lle mae pob unigolyn yn gwireddu ei botensial ei hun, yn gallu ymdopi â phwysau arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn llwyddiannus, ac yn gallu gwneud cyfraniad i'w gymuned.”

Mae iechyd meddwl cyhoeddus yn cynnwys dull poblogaeth i ymdrin ag iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo lles meddyliol, atal anhwylderau meddyliol, trin anhwylderau meddyliol ac atal effeithiau cysylltiol. Gall yr ymyraethau hyn arwain at ystod eang o effeithiau cadarnhaol ac arbedion economaidd cysylltiol, hyd yn oed yn fyr dymor.

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn cynnwys pedair ffordd y gall pobl fod angen cymorth:

- a) Gwasanaethau gofal sylfaenol i gefnogi iechyd meddwl (mynediad drwy atgyfeiriad gan Feddyg Teulu).
- b) Cydlynu gofal a chynllunio gofal a thriniaeth: ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl sydd angen cefnogaeth sy'n fwy arbenigol (yn yr ysbyty neu


yn y gymuned), wedi'i oruchwylio gan gydlynnydd gofal proffesiynol, fel seiciatrydd, seicolegydd, nyrs neu weithiwr cymdeithasol.

- c) Pobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol: yn gallu gofyn am ailasesiad gan wasanaeth iechyd meddwl.
- d) Eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol: ar gyfer pobl sy'n derbyn gofal eilaidd.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn berthnasol i bobl yng Nghymru a Lloegr sy'n methu gwneud rhai, neu'r holl, benderfyniadau drostynt eu hunain. Y gallu i ddeall a gwneud penderfyniad yw 'galluedd meddyliol'. Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ei gwneud yn ofynnol i gydlynwyr dybio fod *gan* y person allu. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a /neu Aseswyr Lles Gorau i gefnogi gwneud penderfyniadau ar gyfer pobl sydd heb allu meddyliol.

Beth yw ystyr y term lles meddyliol?

Gellir disgrifio lles meddyliol fel teimlo'n dda a gweithredu'n dda. Gellir ei ddehongli fel rhywbeth sy'n gysylltiedig gydag iechyd meddwl / salwch, ond yn gysyniad ar wahân, fel y nodir yn y model continwwm isod (a addaswyd gan Tudor, K 1996: Mental Health Promotion Paradigms and Practice Routledge, London .)



Mae'r model yn dangos sut y bo'n bosibl i rywun sy'n byw gyda salwch meddwl brofi lefelau uchel o les meddyliol ac fel arall. Mae'r sylfaen dystiolaeth yn disgrifio tri ffactor amddiffynnol craidd ar gyfer lles meddyliol, yn bennaf fod gan bobl:

- Ymdeimlad o reolaeth dros eu bywydau,
- Teimlo eu bod wedi'u cynnwys ac yn gallu cyfranogi, a
- Chael mynediad at adnoddau ymdopi os / pan fydd eu hangen arnynt, er mwyn cefnogi eu gwydnwch.

Mae deall sut y gall gwasanaethau ac asedau cymunedol hyrwyddo ac atgyfnerthu'r ffactorau amddiffynnol craidd hyn yn hanfodol er mwyn gwneud y gorau o les meddyliol y boblogaeth. Cysyniad arall sy'n uno gweithredoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i hyrwyddo lles meddyliol yw '5 Awgrym Llesol'. Mae'n disgrifio pum cam dyddiol y gall unigolion, teuluoedd a chymunedau eu cyflawni i gynnal a gwella eu lles. Gellir eu cynnwys yn nyluniad a darpariaeth gwasanaethau ac ymyraethau presennol:

1. Cymryd sylw
2. Cysylltu
3. Bod yn egniol
4. Parhau i ddysgu
5. Rhoi


9.2 Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth?

Bydd oddeutu 1 ym mhob 4 person yn y DU yn profi problem iechyd meddwl bob blwyddyn (Mind, 2016), a allai gynnwys gorbryder neu iselder. Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, roedd 9% o'r ymatebwyr oedd yn byw yng Ngogledd Cymru yn nodi eu bod yn cael eu trin ar gyfer salwch meddwl (2018-19 a 2019-20).

Mae pobl yng Ngogledd Cymru yn nodi iechyd meddwl sydd ychydig yn well na Chymru gyfan

Mae'r siart isod yn dangos sut yr adroddodd yr ymatebwyr eu hiechyd meddwl gan ddefnyddio sgôr y crynodeb o'r elfen feddyliol, lle bo'r sgoriau uwch yn nodi gwell iechyd. Mae hyn yn dangos fod pobl yng Ngogledd Cymru yn nodi iechyd meddwl ychydig yn well na Chymru gyfan.

Siart 23: Sgôr Crynodeb o'r Elfen Feddyliol (2018-19 a 2019-20)



Ffynhonnell: tabl StatsCymru hlth5012, Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos sgôr crynodeb o'r elfen feddyliol ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r gwahaniaethau rhwng y siroedd yn eithaf bychan. Ar y cyfan, Wrecsam sydd â'r sgoriau isaf a Chonwy a Sir y Fflint sydd â'r uchaf, gyda gwahaniaeth o ddau bwynt rhwng y sgoriau.

Tabl 58: Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Edinburgh (WEMWBS) (2018-19 a 2019-20)

Cyngor Lleol	Sgôr Lles meddyliol
Ynys Môn	51.8
Gwynedd	52.9
Conwy	53.3
Sir Ddinbych	51.6
Sir y Fflint	53.5
Wrecsam	50.9
Gogledd Cymru	52.4
Cymru	51.4

Ffynhonnell: tabl StatsCymru hlth5012, Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Mae tabl 59 yn dangos canran yr oedolion sy'n nodi eu bod yn derbyn triniaeth ar gyfer salwch meddwl. Mae ychydig o wahaniaeth yn y gyfran ar draws pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, ond maent yn gymharol â chyfrannau Gogledd Cymru a Chymru.

Tabl 59: Canran yr oedolion (16 oed a throsodd) sy'n nodi eu bod yn derbyn triniaeth ar gyfer salwch meddwl, 2018-19 a 2019-20 gyda'i gilydd, yn ôl oed safonedig


Cyngor Lleol	Triniaeth ar gyfer salwch meddwl
Ynys Môn	10%
Gwynedd	8%
Conwy	7%
Sir Ddinbych	11%
Sir y Fflint	9%
Wrecsam	11%
Gogledd Cymru	9%
Cymru	10%

Ffynhonnell: tabl StatsCymru hlth5052, Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru

Mae nifer yr unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl yn debygol o aros yn sefydlog

Gellir defnyddio cyfraddau nifer achosion o Arolwg Morbidrwydd Seiciatrig Oedolion 2014 i amcangyfrif nifer yr oedolion gydag anhwylderau iechyd meddwl cyffredin. Rhagwelir y bydd cynnydd bychan ar draws Gogledd Cymru o oddeutu 400 o bobl. Mae'r siart isod yn dangos y gwahaniaeth ar gyfer pob awdurdod lleol. Efallai bydd y niferoedd yn cynyddu ymhellach os bydd cynnydd yn y ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael fel diweithdra; incwm is; dyled; trais; digwyddiadau anodd bywyd; a thai annigonol. Ni fydd y rhagamcanion ar gyfer iechyd meddwl yn y dyfodol wedi cynnwys effaith pandemig Covid-19 ac felly dylid eu trin gyda gofal.

Siart 24: Nifer yr unigolion 16 oed a throsodd a ragwelwyd i gael problem iechyd meddwl cyffredin, Gogledd Cymru, 2020 i 2040



Ffynhonnell: Daffodil

Tabl 60: Nifer yr unigolion 16 oed a throsodd a ragwelwyd i gael problem iechyd meddwl cyffredin, Gogledd Cymru, 2020 i 2040

Cyngor lleol	2020 nifer	2020 canran	2040 nifer	2040 canran	Newid nifer
Ynys Môn	9,300	13%	9,000	13%	-250
Gwynedd	17,000	14%	17,700	13%	650
Conwy	15,600	13%	15,900	13%	250
Sir Ddinbych	12,600	13%	12,800	13%	150
Sir y Fflint	21,100	13%	21,400	13%	300
Wrecsam	18,200	13%	17,500	13%	-700
Gogledd Cymru	93,800	13%	94,200	13%	400
Cymru	429,100	14%	441,800	13%	12,700

Mae'n bosib na fydd y rhain yn symio gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Daffodil

Y salwch meddwl mwyaf cyffredin yw gorbryder ac iselder

Mae'r timau iechyd meddwl yn cefnogi pobl gydag ystod eang o salwch meddwl ynghyd â phobl gyda materion seicolegol, emosiynol a chymdeithasol cymhleth fel celcio, anhwylderau bwyta ac Anhwylder Straen Wedi Trawma (PTSD).

Gall Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Gwella (QAIF) - gwybodaeth o gofnodion meddygon teulu -ddarparu amcangyfrifon bras iawn o nifer achosion rhai anhwylderau seiciatrig. Nid yw'r data'n debygol o gynrychioli gwir nifer yr achosion gan ei fod yn dibynnu ar glaf yn cysylltu â'r meddyg teulu i gael triniaeth, derbyn diagnosis gan y Meddyg Teulu, a'u cofnodi ar gofrestr clefyd. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y cleifion yng Ngogledd Cymru ar gofrestrau clefydau QAIF. Mae iechyd meddwl yn cynnwys sgitsoffrenia, anhwylder deubegynol, seicosis arall a chyflyrau iechyd meddwl eraill.

Tabl 61: Nifer yr unigolion ar gofrestrau clefyd QAIF yng Ngogledd Cymru

Cyngor lleol	Iechyd meddwl Nifer	Iechyd meddwl canran	Dementia Nifer	Dementia canran
Ynys Môn	639	0.97%	559	0.85%
Gwynedd	1,135	0.89%	784	0.62%
Conwy	1,213	1.04%	1,101	0.94%
Sir Ddinbych	1,232	1.20%	1,012	0.98%
Sir y Fflint	1,196	0.78%	914	0.60%
Wrecsam	1,655	1.13%	1,061	0.72%
Gogledd Cymru	7,070	0.99%	5,431	0.76%
Cymru	32,917	1.02%	22,686	0.70%

Mae'n bosib na fydd y rhain yn symio gan eu bod wedi'u talgrynnu.

Ffynhonnell: Cofrestrau clefydau Fframwaith Sicrwydd Ansawdd a Gwella (QAIF) gan y bwrdd iechyd lleol, clystyrau a meddygon teulu, StatsCymru, Llywodraeth Cymru.

Gellir defnyddio'r cyfraddau achosion o Arolwg Morbidrwydd Seiciatrig Oedolion 2014 ar gyfer problemau iechyd meddwl penodol. Mae'r tabl isod yn dangos nifer amcangyfrifedig o'r oedolion yng Ngogledd Cymru sy'n byw gyda phob cyflwr.

Tabl 62: Nifer amcangyfrifedig o oedolion yng Ngogledd Cymru yr effeithiwyd arnynt gan broblemau iechyd meddwl (2020)

Cyngor lleol	Anhwyllder meddyliol cyffredin	Anhwyllder meddyliol gwrthgymd eithasol	Anhwyllder Deubegyn ol	Anhwyllder personolia eth ffiniol	Anhwyllder seicotig
Ynys Môn	9,300	1,200	900	800	300
Gwynedd	17,000	2,600	1,900	1,900	500
Conwy	15,600	2,000	1,500	1,400	500
Sir Ddinbych	12,600	1,700	1,300	1,200	400
Sir y Fflint	21,100	3,000	2,200	2,000	600
Wrecsam	18,200	2,700	2,000	1,800	600
Gogledd Cymru	93,800	13,200	9,800	9,100	2,800

Mae'n bosib na fydd y rhain yn symio gan eu bod wedi'u talgrynnu.
Ffynhonnell: Daffodil.

Mae hefyd yn bosibl defnyddio'r amcangyfrifon hyn i ragweld y nifer gyda chyflyrau iechyd meddwl yn y dyfodol. Mae'r tabl isod yn dangos hyn ar gyfer Gogledd Cymru. Rhagwelir cynnydd yn nifer yr unigolion gydag anhwylderau meddyliol cyffredin. Rhagwelir bydd y cyflyrau eraill yn gostwng.

Tabl 63: Nifer amcangyfrifedig o oedolion yng Ngogledd Cymru yr effeithiwyd arnynt gan broblemau iechyd meddwl (2020 a 2040)

Cyflwr iechyd meddwl	Nifer yr achosion amcangyfrifedig.	2020 (nifer)	2040 (nifer)	Newid
Anhwylder meddyliol cyffredin	13.3%	93,800	94,200	400
Anhwylder meddyliol gwrthgymdeithasol	1.9%	13,200	12,800	-400
Anhwylder Deubegynol	1.4%	9,800	9,600	-250
Anhwylder personoliaeth ffiniol	1.3%	9,100	8,900	-200
Anhwylder seicotig	0.4%	2,800	2,800	-100

Mae'n bosibl na fydd y rhain yn symio gan eu bod wedi cael eu talgrynnu.
Ffynhonnell: Daffodil.

Dementia cynnar

Mae gwasanaethau ar gyfer pobl gyda dementia yn tueddu i gael eu darparu fel rhan o wasanaethau pobl hŷn (gweler Pennod Pobl Hŷn i gael rhagor o wybodaeth). Efallai na fydd hyn yn diwallu anghenion pobl ieuengach sydd â dementia cynnar. Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn aml yn cefnogi pobl gyda Syndrom Korsakoff, math o ddementia a achosir gan fwyaf gan gamddefnydd o alcohol. Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn debyg o ymwneud â phobl gyda Syndrom Korsakoff, gan ganolbwyntio ar faterion cyffuriau ac alcohol, tra gall gwasanaethau iechyd meddwl ddarparu cefnogaeth ar gyfer symptomau.


Dengys ymchwil nad yw niferoedd helaeth gyda phroblemau iechyd meddwl yn gofyn am gymorth.

Mae'r amcangyfrif o achosion problemau iechyd meddwl a gynhyrchwyd gan Arolwg Morbidrwydd Seiciatrig Oedolion ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn sylweddol uwch na'r amcangyfrifiad o bobl sy'n nodi eu bod yn cael eu trin ar gyfer problem iechyd meddwl. Mae hyn yn awgrymu ei bod yn debygol bod nifer o bobl yn y boblogaeth nad ydynt yn ceisio cymorth am sawl rheswm.

Mae nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yn gostwng.

Mae'r ffigur isod yn dangos y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl. Mae hyn yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y derbyniadau yng Ngogledd Cymru. Nid yw'n bosibl dweud o'r data a yw'r gostyngiad oherwydd gostyngiad mewn galw neu ostyngiad yn argaeledd y gwelyau iechyd meddwl aciwt. Mae'r model ar gyfer gofal iechyd meddwl wedi newid yn ddiweddar ac mae mwy o ddewisiadau gofal ar wahân i ofal yn seiliedig ar welyau yn enwedig ar gyfer pobl hŷn. Mae'r derbyniadau yn lleihau ond dylid nodi nad yw'r galw yn lleihau ond ei fod yn cael ei gyfeirio i fannau eraill fel yn y gymuned.

Siart 25: Nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, derbyniadau, newidiadau mewn statws a chadw'n ffurfiol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 casgliad data (KP90), StatsCymru, Tabl HLTH0712

Mae pobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol o gael iechyd corfforol gwael.

Mae salwch meddwl yn gysylltiedig â salwch corfforol, disgwyliad oes llai ac fel arall hefyd (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2010). Mae iechyd meddwl gwael hefyd yn gysylltiedig â mwy o weithredoedd sy'n cymryd risg a ffyrdd o fyw nad yw'n iach fel ysmegu, yfed alcohol i lefelau peryglus, camddefnyddio cyffuriau a lefelau is o weithgarwch corfforol (Llywodraeth Cymru, 2012).

Er enghraifft, mae ymchwil cyfredol yn awgrymu y gall ysmegu 20 o sigarennau'r dydd leihau disgwyliad oes o gyfartaledd o ddeng mlynedd. Er bod nifer y rhai sy'n ysmegu yn y boblogaeth gyffredinol oddeutu 25 i 30 y cant, mae niferoedd ymysg pobl gyda sgitsoffrenia oddeutu teirgwaith hynny - neu bron yn 90%, ac oddeutu

60% i 70% ar gyfer pobl gydag anhwylder deubegynol. Mae cyfradd marwolaethau ar gyfer pobl gyda Sgitsoffrenia ac anhwylder deubegynol yn dangos gostyngiad mewn disgwyliad oes o 25 mlynedd, yn bennaf oherwydd problemau iechyd corfforol (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2010) . Mae gordewdra, diet gwael, a ffordd o fyw anweithgar a defnydd hir dymor o feddyginiaeth oll yn ffactorau cyfrannol yn gysylltiedig â salwch meddwl difrifol ac iechyd corfforol gwael.

Hunanladdiad

Mae'n anodd llunio casgliadau o'r data sydd ar gael ar hunanladdiad yng Ngogledd Cymru gan nad oes niferoedd uchel o achosion ac elfennau eraill. Nid oes gan unrhyw un o'r ardaloedd cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru gyfraddau hunanladdiad ar gyfer rhai 10 oed a throsodd sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (Jones *et al.*, 2021) Mae oddeutu tri chwarter y marwolaethau hunanladdiad a gofrestrwyd yn 2020 ar gyfer dynion, sy'n dilyn tuedd cyson yn ôl i ganol y 1990au (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020) .

Mae achosion yr hunanladdiad yn gymhleth (Jones *et al.*, 2021). Mae nifer o ffactorau yn gysylltiedig â risg uwch o hunanladdiad gan gynnwys rhyw (gwryw); oed (15 i 44 oed); amddifadedd economaidd-gymdeithasol; salwch seiciatrig gan gynnwys iselder dwys; anhwylder deubegynol, anhwylder gorbryder; salwch corfforol fel cancr; hanes o hunan-niweidio a hanes teuluol o hunanladdiad (Price *et al.* , 2010) . Mae nifer o ffyrdd lle bo gofal iechyd meddwl yn fwy diogel ar gyfer cleifion, ac y gall gwasanaethau leihau'r risg gyda: wardiau sy'n fwy diogel; cyswllt cynnar ar ôl gadael ysbyty, dim derbyniadau y tu allan i'r dalgylch; timau argyfwng 24 awr; gwasanaeth diagnosis deuol; ymgysylltiad teuluol i 'ddysgu gwersi'; canllawiau ar iselder; rheoli risg personol; trosiant isel o ran staff (Canolfan Iechyd a Diogelwch Meddyliol, 2016) . Mae nifer sy'n marw drwy hunanladdiad â hanes o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ond ychydig ohonynt oedd mewn cysylltiad â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol. Dylai bod mynediad at y gwasanaethau arbenigol hyn yn haws, a dylent weithio'n agos gyda gwasanaethau iechyd meddwl (Canolfan Iechyd a Diogelwch Meddyliol, 2016).

Nodwyd ffermwyr fel grŵp galwedigaethol risg uchel, gyda mwy o wybodaeth a mynediad at fodd (hefyd doctoriaid, nyrsys a gweithwyr amaethyddol eraill). Mae ffactorau penodol wedi'u nodi sy'n creu risg a phwysau ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn ogystal â ffactorau risg hunanladdiad sy'n effeithio ar y boblogaeth yn gyffredinol: unigrwydd, incwm yn gostwng, bod yn wahanol o fewn y cyd-destun gwledig, mwy o stigma o ran materion iechyd meddwl; rhwystrau sy'n

atal pobl rhag derbyn mynediad at ofal priodol (diwylliant o hunan-ddibyniaeth, darpariaeth gwasanaeth gwael), rhwydweithiau cymdeithasol gwael, chwalfa gymdeithasol; argaeledd rhai dulliau hunanladdiad (perchnogaeth gynau); a grwpiau risg uchel o ran galwedigaeth fel ffermwyr a milfeddygon (Llywodraeth Cymru, 2015a) . Mae [cefnogaeth benodol ar gyfer ffermwyr](#) wedi'i lansio,

Strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niwed Llywodraeth Cymru yw Beth am Siarad â Fi? (Llywodraeth Cymru, 2015a) ac mae Gweithgor Hunanladdiad a Hunan-Niwed Gogledd Cymru sy'n cydlynu gwaith ar atal hunanladdiad ar gyfer y rhanbarth.

9.3 Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Beth sy'n gweithio'n dda?

Nododd nifer o'r ymatebwyr nad oes "unrhyw beth" yn gweithio'n dda yn y gwasanaethau iechyd meddwl, gan nodi "bod y system wedi malu".

Roedd defnyddiwr gwasanaeth yn pryderu bod gwasanaethau yn tueddu i ganolbwyntio ar atal neu argyfwng, gan fethu â rhoi cefnogaeth i bobl "ar yr holl gamau rhwng y ddau begwn". At hynny, yn ystod argyfyngau, gall pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, gan arwain at gael eu "troi'n droseddwyr oherwydd eu salwch". Nid yw'r system yn gallu cefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl o ganlyniad i drawma yn y gorffennol. Mae angen i'r gwasanaethau dderbyn mwy o wybodaeth am drawma.

Soniwyd am rai gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth gadarnhaol gan gynnwys:

- Tîm Dyffryn Clwyd.
- Tîm gwasanaethau Cefnogi Iechyd Meddwl yng Nghyngor Sir y Fflint.
- Gwasanaeth ymyrraeth gynnar, Monitro Gweithredol Mind.
- Gwasanaethau elusennol fel y Samariaid, CRUSE, Relate.
- Cefnogaeth grŵp parhaus gan elusennau (KIM, Advance Brighter Futures, Mind, ASNEW).
- Unedau adsefydlu i ddarparu cefnogaeth i ddychwelyd i fyw yn y gymuned.

Beth sydd angen ei wella

O ystyried y pryderon difrifol am wasanaethau iechyd meddwl, nid yw'n syndod bod nifer wedi nod bod angen gwella "popeth", gan gynnwys:

- Mwy o ddarpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl.
- Mwy o gyllid i sicrhau cyflog digonol ar gyfer staff a darpariaeth gwasanaeth digonol ar gyfer pob cleient unigol.
- Gwella mynediad ar gyfer cymunedau BME.
- Mwy o gyllid hirdymor er mwyn ymgorffori prosiectau a chadw staff.
- Mwy o hyblygrwydd - sesiynau un i un ynghyd â rhai grŵp.
- Lefelau staffio uwch ym mhob gwasanaeth er mwyn osgoi bylchau mewn gofal a darparu cefnogaeth pan fo staff yn sâl.
- Mwy o wasanaethau cwnsela lleol.
- Cefnogaeth well ar gyfer camddefnyddio sylweddau
- Gwella cefnogaeth ar gyfer pobl gydag Anhwylder Sbectrum Awtistig, yn enwedig gweithrediad uwch neu sy'n cyd-fodoli gyda materion iechyd meddwl.
- Gwella mynediad at ymyraethau heblaw meddyginiaeth.
- Mwy o wasanaethau y tu hwnt i oriau lle y gellir "cadw" pobl pan fo gwasanaethau iechyd meddwl ynghau.
- Gwella atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl i symleiddio'r broses, lleihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol a chaniatáu i eraill e.e. rheolwyr tai, atgyfeirio tenantiaid ar gyfer cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol.
- Mwy o wasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned leol.
- Unedau adsefydlu llai ar gyfer hyd at chwe pherson gyda chefnogaeth 24 awr.
- Mwy o argaeledd llety parhaol a thai â chymorth ar gyfer pobl sy'n ddiartref.
- Mae angen cwblhau adolygiadau achos yn brydlon, a rheoli achosion yn fwy effeithlon.

Pwysleisiodd y defnyddwyr gwasanaeth bod angen mwy o wasanaethau ymyrraeth gynnar, er mwyn iddynt gael cefnogaeth iechyd meddwl pan fo'r angen a chyn iddynt gyrraedd pwynt argyfwng. Roedd amseroedd aros yn hir iawn ac maent yn hirach fyth ers dechrau'r pandemig. Ar hyn o bryd, mae pobl yn profi mwy o straen gyda'r oedi ac mae eu symptomau yn gwaethygu yn fwy na'r angen:

"Byddai'n well gen i beidio â chyrraedd pwynt argyfwng. Ni ddylwn orfod wynebu argyfwng i dderbyn cefnogaeth a dylid canolbwyntio

mwy ar ymagwedd sy'n atal er mwyn i mi aros yn iach yn fy nghartref".

Gellir gweld adroddiad ymgynghori asesiad anghenion y boblogaeth yn llawn ar [wefan Cydweithredfa Gogledd Cymru](#).

9.4 Adolygiad o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd

Mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu darparu drwy wasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol, timau iechyd meddwl cymunedol a chyfleusterau cleifion sy'n cefnogi cleifion y tu allan i amgylchedd yr ysbyty. Mae cynghorau lleol a'r bwrdd iechyd yn darparu gofal a chefnogaeth i bobl gyda salwch meddwl yn y gymuned. Mae gofal preswyl, gwasanaethau dydd a thimau allgymorth oll yn rhan bwysig o ofal seiciatrig.

Mae pumed o wariant y GIG yng Nghymru ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae nifer o wasanaethau yn ymwneud â thrin cleifion gyda salwch meddwl. Mae cyfran uchel o'r rhai sy'n mynychu Adran Damweiniau ac Achosion Brys a derbyniadau cyffredinol i'r ysbyty yn ymwneud â phroblemau iechyd meddwl.

Yn BIPBC, mae cyfran uchaf y gwariant ar broblemau iechyd meddwl ar salwch meddwl cyffredinol, gyda salwch meddwl yr henoed yn ail. Mae gwariant y pen yn BIPBC (247.4) ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (240.8). Mae gwariant y pen ar salwch meddwl wedi cynyddu ers 2016-17, gyda newidiadau bychan o ran salwch meddwl yr henoed a CAMHS dros gyfnod o dair blynedd. Mae cyfran y gwariant ar salwch iechyd meddwl yn BIPBC (11.2%) yn debyg i Gymru (11.1%), ac mae wedi aros yn eithaf sefydlog rhwng 2016-17 a 2018-19 (Proffil Iechyd Meddwl, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021).

Mae Fedra-I (I-CAN) yn wasanaeth cefnogi iechyd a lles meddyliol sy'n cael ei ddarparu gan BIPBC ar draws Gogledd Cymru. Mae rhaglen Fedra-I (I-CAN) BIPBC yn rhan o Strategaeth ehangach Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Y nod cyffredinol yw gweithredu system ofal sy'n arloesol ac yn fwy integredig a diwylliant sy'n atal, ond lle bo'r angen, yn ymateb yn effeithiol i achosion o anghenion iechyd meddwl aciwt ac argyfyngau. Mae'r rhaglen yn ceisio gwella'r hyn sy'n gweithio a chyflymu cyflymder trawsnewid ar draws Gogledd Cymru i greu system ofal frys integredig. Yn sail i hyn mae creu llwybr integredig Fedra i sy'n gwella gwaith ar y cyd, o fewn a

rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, partneriaid statudol a sefydliadau'r trydydd sector.

Mae'r model yn dechrau gyda darparu cefnogaeth lefel isel a gweithgareddau iechyd a lles wedi'u datblygu a'u darparu o fewn cymunedau lleol sy'n gynhwysol ac yn helpu pobl i gynnal iechyd a lles meddyliol cadarnhaol, ynghyd â lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a chreu gwydnwch cymunedol. Trwy fuddsoddi, a chefnogi datblygiad grwpiau o'r fath, mae partneriaid yn gallu dangos effaith hir dymor ar les, sy'n lleihau'r galw am wasanaethau statudol.

Mae'r gwasanaeth wedi'i ymestyn i feddygon teulu a chymunedau ar draws y rhanbarth i sicrhau bod mwy o bobl yn derbyn cefnogaeth iechyd meddwl prydlon. Mae dros 2,500 o bobl wedi derbyn cymorth a chefnogaeth drwy ganolfannau Fedra i ers iddynt gael eu cyflwyno yn 2019. Mae Fedra-I (I-CAN) yn darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer materion amrywiol sy'n effeithio ar iechyd a lles meddyliol, gan gynnwys perthnasau yn dod i ben, anawsterau cyflogaeth, gorbryder cymdeithasol, galar, dyledion a phryderon ariannol ac unigrwydd. Gellir canfod rhagor o wybodaeth am raglen Fedra-I (I-CAN) ar [safle we y Bwrdd Iechyd](#).

Mae BIPBC hefyd yn hyrwyddo rhaglen 5 Ffordd at Les. Mae'r rhain yn gyfres ymarferol o weithredoedd sy'n ceisio gwella iechyd a lles meddyliol preswylwyr Gogledd Cymru. Gellir canfod rhagor o wybodaeth ar [safle we y Bwrdd Iechyd](#)

Bydd y Prosiect Gwydnwch Cymunedol yn cefnogi darpariaeth Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru. Roedd gwella gwydnwch cymunedol wedi'i ddewis fel blaenoriaeth ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru oherwydd bod mwy o dystiolaeth bod cysylltiad cryf rhwng gwydnwch a chanlyniadau iechyd corfforol a meddyliol cadarnhaol.

Mae "*Do-Well*" a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn treialu ymagwedd newydd drwy ddatblygu sgiliau pobl mewn arweinyddiaeth systemau a naratif cyhoeddus i wella gwydnwch cymunedol. Mae tair cymuned yn rhan o'r peilot: Holway yn Nhreffynnon, canol tref y Fflint a Gwersyllt yn Wrecsam.

Mae'r prosiect yn mabwysiadu ymagwedd profi a dysgu. Bydd yn nodi meysydd lle y gellir gwella gwydnwch cymunedol yn lleol, gan ddefnyddio profiad pobl sy'n byw ac yn gweithio ym mhob cymuned. Bydd yn cynhyrchu dysgu ar sail dystiolaeth ar gyfer yr holl ardaloedd eraill yng Ngogledd Cymru.

9.5 Effaith Covid-19

Mae'n awr yn eglur bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl y boblogaeth yn ei gyfanrwydd. Ar gyfer rhai gyda chyflyrau iechyd meddwl eisoes, maent yn fwy tebygol o fod wedi wynebu dirywiad yn eu lles. Nododd arolwg gan Mind Cymru (Argyfwng Iechyd Meddwl: Beth yw effaith pandemig y coronafeirws ar ein hiechyd meddwl? Mehefin 2020) bod dros hanner yr oedolion a thri chwarter y bobl ifanc wedi nodi bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y cyfnodau clo.

Y grwpiau a wynebodd effaith anghymesur oedd:

- Pobl ag anghenion cefnogaeth iechyd meddwl.
- Pobl gydag incwm isel, pobl y mae eu statws cyflogaeth wedi newid neu sy'n hunan-gyflogedig.
- Gweithwyr y GIG a gweithwyr gofal, a staff eraill y rheng flaen.
- Cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
- Oedolion hŷn.
- Plant a phobl ifanc.

Nododd adroddiad gan y Senedd ym mis Rhagfyr bod effaith hir dymor cynllunio i ddiwallu cynnydd posibl mewn galw ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn anodd ei ragweld. Mae'r Ganolfan ar gyfer Iechyd Meddwl wedi rhagweld y bydd 20% o'r boblogaeth (dadansoddiad mewn perthynas â Lloegr, ond yn debygol o fod yn berthnasol i Gymru), angen cefnogaeth iechyd meddwl newydd neu ychwanegol.

Er bod gwasanaethau iechyd meddwl wedi'u cyfrif fel rhai hanfodol yn ystod y pandemig, mae nifer wedi nodi nad oeddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau neu fod oedi o ran ceisio cymorth a chefnogaeth.

Y cymhellion allweddol a oedd yn gwaethygu iechyd a lles meddyliol o ganlyniad i'r pandemig oedd (ffeithlun Covid-19 BIPBC):

- Colli swydd ac arian
- Arwahanrwydd cymdeithasol
- Ansicrwydd o ran tai ac ansawdd tai.
- Gweithio i wasanaeth rheng flaen.
- Colli dulliau ymdopi.
- Llai o fynediad at wasanaethau iechyd meddwl

Nododd Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) cyn Covid-19 (yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2019), y gyfradd gyfartalog ar gyfer gorbryder oedd 4.3 o bob 10 person anabl. Cynyddodd cyfradd gyfartalog gorbryder pobl anabl yn dilyn pandemig Covid-19 i 5.5 o bob 10 ym mis Ebrill 2020, cyn gostwng i 4.7 o bob 10 ym mis Mai 2020. Roedd 41.6% o bobl anabl, o gymharu â 29.2% o bobl nad ydynt yn anabl, yn nodi lefelau uchel o orbryder (sgôr o 6 i 10) ym mis Mai 2020.

Effaith ar bobl hŷn

Mae un o bob tri o bobl hŷn yn nodi bod eu gorbryder yn awr yn waeth neu'n llawer gwaeth na chyn dechrau'r pandemig. Mae cyfran y rhai dros 70 sydd ag iselder wedi dyblu ers dechrau'r pandemig.

9.6 Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae'r ffactorau amddiffynnol craidd sy'n dylanwadu ar les meddyliol yn cynnwys hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae'n hysbys bod grwpiau sy'n rhannu'r nodweddion a ddiogelir yn fwy tebygol o brofi arwahanrwydd cymdeithasol a bydd angen cynnwys hyn yn yr asesiadau ar gyfer unigolion. Mae gan iechyd meddwl gyfran uchel o groestoriad gyda'r nodweddion eraill a ddiogelir. Er enghraifft, mae pobl o grwpiau lleiafrifol ethnig yn fwy tebygol o gael eu hanfon i'r ysbty meddwl o dan Ddeddf Iechyd Meddwl (Race and Mental Health - Tipping the Scale, Mind, 2019). Mae gan oddeutu 30% o bobl gyda chyflwr iechyd corfforol hirdymor gyflwr iechyd meddwl hefyd, yn bennaf iselder neu orbryder (Kings Fund, 2020).

Mae'n rhaid i wasanaethau ar gyfer pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl gymryd ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n ystyried anghenion gwahanol yr unigolion gyda nodweddion a ddiogelir. Bydd symud tuag at y model adfer, sy'n symud o ganolbwyntio ar drin y salwch i hyrwyddo lles, yn cefnogi nodi, ac ymateb priodol i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae unigolyn yn eu hwynebu.

O ganlyniad i'r mesurau a weithredwyd yn ystod pandemig Covid-19, nododd Sefydliad Prydeinig Hawliau Dynol (BIHR) a Sefydliadau Ymbarél Anabledd Cenedlaethol Cymru, bryder y byddai hawliau'r rhai a gadwyd mewn ysbytai iechyd meddwl yn cael eu torri pe bai Bil y Coronafeirws yn cael ei gymeradwyo.

9.7 Diogelu

Mae materion diogelu ar gyfer oedolion gydag anghenion iechyd meddwl yn debyg i rai'r boblogaeth gyffredinol o oedolion. Mae angen i bobl sydd heb allu i wneud penderfyniad o ran lle i fyw ac am eu trefniadau cynllunio gofal gael asesiad ar gyfer Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS). Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau bod y bobl fwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas yn cael 'llais' er mwyn i'w hanghenion, dymuniadau a theimladau gael eu hystyried, ac y gwrandewir arnynt, pan wneir penderfyniadau pwysig amdanynt.

Mae diffiniad newydd o 'oedolyn mewn perygl', dyletswydd i bartneriaid perthnasol i adrodd am oedolion mewn perygl a dyletswydd i awdurdodau lleol wneud ymholiadau, a ddylai gynorthwyo i ddiogelu oedolion mewn perygl, gan gynnwys gydag anghenion cefnogaeth iechyd meddwl.

9.8 Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae perthynas arwyddocaol rhwng iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig. Mae'r Sefydliad Iechyd Meddwl yn rhagweld bod cam-drin domestig wedi achosi cost gyffredinol amcangyfrifedig o £176m i ofal iechyd meddwl (Walby: 2014).

At hynny, mae ymchwil yn awgrymu bod merched sy'n profi cam-drin domestig yn fwy tebygol o brofi cyflwr iechyd meddwl, tra bo merched gyda chyflyrau iechyd meddwl yn fwy tebygol o wynebu cam-drin domestig. Mae 30-60% o ferched gyda chyflwr iechyd meddwl wedi profi trais domestig (Howard et al: 2009).

Oherwydd y cysylltiadau rhwng cam-drin domestig ac iechyd meddwl, mae'n allweddol bod gweithwyr proffesiynol yn derbyn hyfforddiant i'w galluogi i adnabod arwyddion o gam-drin domestig o fewn y grwp poblogaeth.

Er gwaethaf y cysylltiadau cryf rhwng cam-drin domestig ac iechyd meddwl gwael, nid oes cyfres ddata penodol yn bodoli ar gyfer cam-drin domestig yn genedlaethol nac yn rhanbarthol, i archwilio nifer achosion cam-drin domestig ymysg y rhai ag iechyd meddwl gwael. Unwaith eto, mae hyn yn nodi bwlch data arwyddocaol sydd angen ei ddatrys.

Gellir cyfrif anabledd fel unrhyw gyflwr parhaus sydd â'r potensial i gael effaith ar weithgareddau dydd i ddydd unigolyn am o leiaf 12 mis neu fwy. Efallai bydd rhai

asiantaethau yn nodi iechyd meddwl fel anabledd, ac o ran anabledd ar draws y rhanbarth yn yr ystyr ehangaf, amcangyfrifir o'r 16 Medi 2021, roedd data treigl MARAC am 12 mis yn dangos bod rhwng 0-2.3% o achosion "risg uchel" yn ymwneud ag anabledd wedi bod gerbron MARAC.

Gan fod data MARAC yn ymwneud â'r achosion risg uchel a bod cam-drin domestig yn drosedd nad yw bob tro yn cael ei adrodd, mae'n rhesymol tybio nad yw'r ffigyrau hyn yn cynrychioli'r darlun llawn.

9.9 Eiriolaeth

Efallai bydd pobl gyda chyflyrau iechyd meddwl eisiau cefnogaeth gan rywun arall wrth fynegi eu safbwyntiau, neu i geisio cyngor am benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Iechyd Meddwl Conwy a Sir Ddinbych (CADMHAS) yn darparu cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. ASNEW yw'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru gan gynnwys Sir y Fflint, Wrecsam a'r ardaloedd cyfagos. Mae Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru yn darparu cefnogaeth ar gyfer pobl ifanc ac oedolion ar draws Gogledd Cymru.

Mae Dewis, Canolfan ar gyfer Byw'n Annibynnol, yn darparu cefnogaeth eiriolaeth ar gyfer rhai dros 18 yn Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer pobl gyda materion iechyd meddwl (maent hefyd yn darparu eiriolaeth ar gyfer ystod ehangach o grwpiau).

9.10 Ystyriaethau'r iaith Gymraeg

Mae gan ardal Gogledd Cymru gyfradd uwch na rhannau eraill o Gymru o ran nifer y siaradwyr Gymraeg, er bod hyn yn amrywio ar draws y rhanbarth. Mae gan Ogledd Orllewin Cymru gyfran uchel iawn o siaradwyr Gymraeg. Gweler yr adran ar broffil y Gymraeg yng Ngogledd Cymru ar gyfer y data. Mae'n bwysig bod pobl gyda materion iechyd meddwl yn derbyn cefnogaeth drwy dderbyn gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn eu dewis iaith.

Mae'n rhaid i wasanaethau, gan gynnwys iechyd meddwl, ddarparu cynnig gweithredol, sy'n golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb fod gofod gofyn am hynny. Mae Mind Cymru yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth ar gyfer pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cynnig

gwersi Cymraeg i staff sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl. Mae dewis ar gyfer y gweithlu drwy'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol hefyd. Mae Meddwl.org yn elusen sy'n darparu gwybodaeth am wasanaethau iechyd meddwl. Rhennir gwybodaeth yn Gymraeg.

9.11 Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol

Mae amddifadedd economaidd- gymdeithasol yn gysylltiedig â nifer o effeithiau negyddol, sy'n cynnwys iechyd meddwl a lles. Mae adolygiad Llywodraeth Cymru o dystiolaeth o anfantais economaidd-gymdeithasol yn nodi bod "iechyd meddwl yn waeth yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ac mae amddifadedd yn gysylltiedig â mwy o straen, problemau iechyd meddwl a hunanladdiad. Gall byw mewn ardaloedd sy'n fwy difreintiedig gael effaith ar les meddyliol. Mae lles meddyliol gwael yn gysylltiedig ag ystod o ffactorau gan gynnwys straen economaidd ac yn ymwneud â gwaith, problemau strwythurol o ran cyfranogiad a themlo'n rhan o gymuned, sy'n gallu cynyddu unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol".

Nododd 20% o oedolion Cymru yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig eu bod yn cael eu trin ar gyfer cyflwr iechyd meddwl o gymharu ag 8% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (Cymru sy'n iach yn Feddyliol, Ymchwil y Senedd).

Anghydraddoldeb yw un o brif achosion iechyd meddwl ac mae salwch meddwl yn arwain at fwy o anghydraddoldeb.

Gall problemau iechyd meddwl ddechrau'n gynnar mewn bywyd, yn aml o ganlyniad i amddifadedd, tloedi, ymlyniad ansicr, trawma, colled neu gam-driniaeth (Llywodraeth Cymru, 2012). Mae ffactorau risg iechyd meddwl gwael pan yn oedolyn yn cynnwys diweithdra, incwm is, dyled, trais, digwyddiadau bywyd anodd a thai annigonol (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, 2010).

Yng Nghymru, mae 24% o'r rhai sy'n ddi-waith yn hirdymor neu sydd erioed wedi gweithio yn nodi cyflwr iechyd meddwl, o gymharu â 9% o oedolion mewn grwpiau rheoli a phroffesiynol. Dengys astudiaeth ddiweddar fod mwy o gleifion a fu farw drwy hunanladdiad yn unigolion â phroblemau economaidd, gan gynnwys digartrefedd, diweithdra a dyled (Canolfan Iechyd a Diogelwch Meddyliol, 2016) .

Mae ffactorau risg ar gyfer anghenion iechyd meddwl yn effeithio'n anghyfartal ar bobl o grwpiau risg uwch ac ar y cyrion. Mae'r grwpiau risg uwch yn cynnwys, plant sy'n derbyn gofal; plant sydd wedi'u cam-drin; unigolion du a lleiafrifol ethnig; rhai

gydag anabledd deallusol; pobl ddigartref; mamau newydd; pobl Lesbiaid, Hoyw, Deurywiol a thrawsryweddol; ffoaduriaid a cheiswyr lloches a charcharorion (Cydbanel comisiynu ar gyfer iechyd meddwl, 2013) .

Gall rhwydwaith o gefnogaeth eang, tai da, safon uchel o fyw, ysgolion da, cyfleoedd ar gyfer rolau cymdeithasol a werthfawrogir ac ystod o weithgareddau chwaraeon a hamdden amddiffyn iechyd meddwl pobl (Adran Addysg, 2016) .

9.12 Casgliad ac argymhellion

Argymhellir, yn unol â'r holl ddeddfwriaethau, polisïau a chanllawiau, bod yr argymhellion a'r blaenoriaethau canlynol yn cael eu symud ymlaen i ddiwallu'r weledigaeth ar gyfer iechyd a lles meddyliol yn ardal Gogledd Cymru.

- **Adfer ar ôl pandemig Covid-19** : mae effaith lawn y pandemig ar iechyd meddwl a lles pobl yn parhau i ddod i'r amlwg. Fel y nodir yn y PNA, mae nifer wedi wynebu lefelau uwch o ran gorbryder am amrywiaeth o resymau ers mis Mawrth 2020. Mae briff gan Ganolfan Iechyd Meddwl (2020) yn argymhell cefnogaeth gydag ansefydlogrwydd ariannol, sy'n gallu achosi problemau iechyd meddwl, cefnogaeth iechyd meddwl rhagweithiol ar gyfer rhai sydd wedi dioddef Covid-19 a staff iechyd a gofal cymdeithasol, a'r defnydd o ymagweddau sy'n canolbwyntio ar drawma i gefnogi ysgolion, iechyd a gofal cymdeithasol a busnesau. Dylai'r ymagwedd hon ffurfio'r sylfaen ar gyfer cynlluniau adfer ar gyfer iechyd a lles meddyliol.
- **Ymyrraeth gynnar**: nododd y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad eu bod yn teimlo bod mwy o ymyrraeth gynnar yn fuddiol ac y dylai fod ar gael yn eang er mwyn osgoi argyfwng. Mae gwaith ar y gweill yn y rhanbarth gyda phrosiectau fel Fedra i, sy'n darparu cefnogaeth a chyngor i'r rhai gyda phroblemau iechyd meddwl.
- **Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau**: mae iechyd meddwl a lles gwael yn fwy cyffredin mewn ardaloedd gyda lefelau uwch o amddifadedd. Yng Ngogledd Cymru, mae 12% o'r boblogaeth yn byw yn yr ardaloedd cynnyrch ehangach isaf mwyaf difreintiedig. Mae diweithdra, cyrhaeddiad addysgol is, ansefydlogrwydd gyda thai ac arian yn cyfrannu at broblemau iechyd meddwl. Mae angen mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol fel rhan arwyddocaol o gynllunio gwasanaethau iechyd meddwl.
- **Cyd-gynhyrchu**: Cam gweithredu o fewn Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 gan Lywodraeth Cymru yw cefnogi a datblygu

canllawiau cenedlaethol i geisio cynyddu cyd-gynhyrchu ac ymagweddau a arweinir gan gyfoedion ar gyfer darpariaeth gwasanaeth. Bydd hyn yn arwain at fwy o wasanaethau ataliol yn y gymuned i fynd i'r afael â'r bwch rhwng atal ac argyfwng. Mae cyd-gynhyrchu yn gymhellant allweddol ar gyfer canlyniadau. Mae'n cynyddu lles ac yn ychwanegu gwerth cymdeithasol, gan gyd-fynd ag egwyddorion Deddf SSWB.

10. Gofalwyr di-dâl

10.1 Gwybodaeth am y bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion poblogaeth yr holl ofalwyr di-dâl, yn cynnwys gofalwyr ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc a rhieni ofalwyr yng Ngogledd Cymru.

Diffiniadau

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn diffinio gofalwr fel "person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn".

Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan "yn gyffredinol, at ddibenion y ddeddf, ni ddylai gofalwyr proffesiynol sy'n derbyn tâl gael eu hystyried fel gofalwyr, nac ychwaith bobl sy'n darparu gofal fel gwaith gwirfoddol. Serch hynny, gall awdurdod lleol drin rhywun fel gofalwr hyd yn oed os na fydden nhw'n cael eu hystyried fel gofalwr fel arall os ydyn nhw'n credu y byddai'n briodol i wneud hynny yng nghyd-destun y berthynas ofal. Gall awdurdod lleol drin person fel gofalwr mewn achosion lle nad yw'r berthynas ofalu'n un fasnachol yn bennaf".

Mae'r diffiniad hwn yn cynnwys gofalwyr o bob oed, gofalwyr ifanc yw gofalwyr sy'n iau nag 18 oed ac mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc rhwng 18 a 25 oed. Yn aml nid yw gofalwyr di-dâl yn gweld eu hunain fel gofalwyr. Byddan nhw'n disgrifio'u hunain fel rhiant, gŵr, gwraig, partner, mab, merch, brawd, chwaer, ffrind neu gymydog, ond nid bob amser fel gofalwr. Gofalwr yw rhywun sy'n cynnig cymorth di-dâl a/neu ofal i un neu ragor o bobl oherwydd eu bod yn hŷn, yn sâl, yn ddi-amddiffyn neu am fod ganddyn nhw anabledd. Yn aml iawn, aelodau'r teulu, ffrindiau neu gymdogion sy'n darparu gofal di-dâl, gellir ei ddarparu gartref, yng nghartref rhywun arall neu o bell. Gall gofalwyr di-dâl gynnig gofal dros dro neu ofal parhaol a gall gofalu gynnwys cymorth corfforol, ymarferol, emosiynol a chymorth sy'n ymwneud ag iechyd meddwl.

Rhiant ofalwr yw rhywun sy'n rhiant neu'n warcheidwad ac sydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol tuag at eu plentyn oherwydd salwch neu anabledd y plentyn. Yn aml bydd rhiant ofalwr yn ystyried eu hunain yn rhieni yn hytrach na gofalwyr, ond mae'n bosibl y bydd angen gwasanaethau a chymorth ychwanegol arnyn nhw er mwyn diwallu anghenion eu plentyn.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

O dan y Ddeddf mae gan ofalwyr yr un hawliau â'r rhai maen nhw'n gofalu amdany'n nhw, diddymwyd hefyd yr angen i ofalwyr fod yn darparu gofal sylweddol. O dan ran 2 y Ddeddf, mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Rhaid i Awdurdodau Lleol gynnig gwasanaeth er mwyn darparu a) gwybodaeth a chynghor yn ymwneud â gofal a chymorth b) cefnogaeth i gael mynediad at ofal a chymorth (adran 17). Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i gynnig asesiad o anghenion i unrhyw ofalwr di-dâl os yw'n ymddangos i'r awdurdod fel pe bai angen cymorth ar y gofalwr.

Yn y gorffennol, cyfrifoldeb y gofalwr oedd gofyn am asesiad o anghenion. Mae anghenion gofalwr yn cwrdd â'r meini prawf cymhwys ar gyfer cymorth os:

- a) Yw'r angen yn codi o ganlyniad i ddarparu gofal naill ai ar gyfer oedolyn neu ar gyfer plentyn.
- b) Nid yw'r gofalwr yn gallu diwallu'r angen, boed hynny
 - Ar ei ben ei hun
 - Gyda chymorth pobl eraill sy'n barod i gynnig y cymorth hwnnw, neu
 - Gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan y gofalwr fynediad atyn nhw, a
- c) Nid yw'r gofalwr yn debygol o gyflawni un neu ragor o'i ganlyniadau personol sy'n ymwneud â'r canlyniadau penodol yn rhan 3 y Ddeddf.

Gall y cynghor lleol nawr gynnal asesiad ar y cyd, pan gynhelir asesiad o'r person y gofelir amdano a'r gofalwr ar yr un pryd, os bydd y ddau barti'n fodlon ac os byddai'n fuddiol gwneud hynny. Mae hyn yn arfer dda er fod pryderon y gellir peryglu asesiad y gofalwr drwy ganolbwyntio ar yr hyn y gall y gofalwr ei wneud a beth na all ei wneud i'r person mae'n gofalu amdano, yn hytrach nag edrych ar y canlyniadau maen nhw'n dymuno'u gweld ar gyfer eu hunain.

Rhaid i asesiadau o anghenion gofalwyr gynnwys a yw'r gofalwr di-dâl yn gallu/yn barod i ofalu, y canlyniadau yr hoffi'r gofalwr di-dâl eu gweld yn eu bywyd o ddydd i ddydd, a yw'r gofalwr di-dâl yn gweithio neu'n dymuno gweithio a/neu gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden.

Rhaid i'r cynghor lleol gynnwys y gofalwr yn yr asesiad a chynnwys:

- I ba raddau mae'r gofalwr di-dâl yn gallu ac yn barod i ddarparu'r gofal ac i

barhau i ddarparu'r gofal.

- Y canlyniadau mae'r gofalwr di-dâl yn dymuno'u gweld

Rhaid i'r asesiad o anghenion gofalwr di-dâl hefyd ystyried a yw'r gofalwr yn dymuno gweithio ac a ydyn nhw'n cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden.

Dylai gofalwyr di-dâl fod yn eglur iawn am yr hyn y gallan nhw ei wneud a'r hyn na allan nhw ei wneud ac unrhyw wahaniaeth rhwng eu disgwyliadau nhw a disgwyliadau'r person maen nhw'n gofalu amdano. Dylai'r bobl sy'n cynnal yr asesiadau fod â'r sgiliau i allu casglu'r wybodaeth hon. Dywed y ddeddf fod angen gofyn i ofalwyr beth maen nhw'n gallu ei wneud, felly dylai awdurdodau lleol fonitro hyn i wneud yn siŵr ei fod yn digwydd mewn gwirionedd a'i fod yn cael ei gynnwys yn yr asesiad. Mae'n bwysig fod y gofalwr di-dâl yn teimlo'i fod yn bartner cyfartal yn ei berthynas gyda'r gweithwyr proffesiynol.

Mae'r Ddeddf yn cydnabod bod gan ofalwyr ran allweddol i'w chwarae yn y dull gwasanaeth ataliol mewn ardal awdurdod lleol, a bod y gofalwyr eu hunain yn darparu math o wasanaeth ataliol. Mae cefnogi gofalwyr di-dâl yn fesur ataliol ar gyfer y gofalwr unigol a chynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal. Rhaid i Awdurdodau Lleol nawr ddarparu amryw o wasanaethau ataliol a hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a'r Trydydd Sector. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod rhagor o ddyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i ymgorffori 'dull gweithredu ataliol' drwy ystyried effaith hirdymor eu gweithredoedd.

Mae'r pwyslais ar y defnydd cynyddol o daliadau uniongyrchol yn newid arwyddocaol ar gyfer gofalwyr di-dâl. Rhaid i Awdurdodau Lleol nawr gynnig taliadau uniongyrchol er mai dewis y gofalwr yw manteisio ar hyn neu beidio. Rhaid i awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth a chymorth priodol er mwyn galluogi gofalwr di-dâl i benderfynu a ydyn nhw'n dymuno derbyn taliad uniongyrchol am unrhyw gymorth. Mae Taliadau Uniongyrchol yn rhoi annibyniaeth i'r gofalwr di-dâl benderfynu pa wasanaethau sy'n iawn ar eu cyfer nhw. Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod taliad uniongyrchol ar gael lle bydd gofalwr di-dâl yn mynegi yr hoffai eu derbyn a lle byddan nhw'n galluogi gofalwr di-dâl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Maen nhw'n rhoi rheolaeth i unigolion, ac yn cynnig dewis amgen i wasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan gyngor lleol. Mae hyn yn helpu i gynyddu cyfleoedd ar gyfer annibyniaeth, cynhwysiad cymdeithasol a mwy o hunan-barch.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu 'fframwaith cymhwysra' cenedlaethol i benderfynu a fydd gofalwr sydd wedi cael ei asesu, ac sydd ag anghenion cymorth, yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau. Bydd gan ofalwyr di-dâl sydd ag anghenion cymwys gynllun cymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau maen nhw wedi eu nodi eu hunain. Bydd hefyd yn amlinellu'r cymorth a fydd ar gael er mwyn eu helpu nhw i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Bydd cynghorau lleol yn adolygu cynlluniau cymorth yn rheolaidd, a chynhelir ailasesiad o anghenion os bydd amgylchiadau pobl yn newid (Cyngor Gofal Cymru, 2016).

Fe lwyddodd y Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr i ddechrau newid y diwylliant ynghylch canfod a chynnig cymorth cynnar i ofalwyr, yn enwedig ar gyfer y bwrdd iechyd. Mae rhai'n pryderu bod y dyletswyddau a'r rhwymedigaethau'n fwy gwanedig yn y Ddeddf newydd. Mae angen gwneud mwy o waith i wneud yn siŵr fod staff iechyd yn canfod pwy sy'n ofalwyr, yn enwedig Meddygon Teulu a staff gofal iechyd sylfaenol eraill (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), 2015).

Mae Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru 2018 yn canolbwyntio ar wella safonau a datblygu dull cyson i ymdrin â darparu gwasanaethau a chanlyniadau ar draws Gogledd Cymru, ac mae pob un o'r 6 Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi helpu i ddatblygu'r strategaeth hon ac wedi ymrwymo iddi. Comisiynwyd contract rhanbarthol cyfredol y Gwasanaeth Hwyluso ar gyfer Meddygon Teulu ac Ysbytai er mwyn gwella'r modd yr ymgysylltir â gwasanaethau gofal sylfaenol ac ysbytai cymunedol ac mae'r ddau ddarparwr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynllun achrededig sy'n debyg i wasanaeth llwyddiannus Hywel Dda sydd ar dair haen, sef Buddsoddwyr mewn Gofalwyr.

Ar ben hynny, mae'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 2021 yn cynnwys 4 blaenoriaeth weinidogaethol:

- 1) Adnabod a chydabod gofalwyr
- 2) Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- 3) Helpu i fyw yn ogystal â gofalu
- 4) Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

10.2 Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth

Mae Gofalwyr Cymru yn nodi bod mwy na 370,000 o ofalwyr di-dâl o bob oedran yng Nghymru yn darparu gofal sy'n gyfwerth â thua £8.1 biliwn bob blwyddyn. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn amcangyfrif bod 12% o boblogaeth Cymru'n ofalwyr di-dâl a gallai'r ffigur hwn godi i 16% erbyn 2037 (Strategaeth Gofalwyr Di-dâl, 2021).

Mae tua 79,000 o bobl yn darparu gofal di-dâl yng Ngogledd Cymru yn ôl cyfrifiad 2011, sef tua 11% o'r boblogaeth. Mae hyn ychydig yn is na ffigur Cymru gyfan sef 12% a fymryn yn uwch na ffigur Cymru a Lloegr sef 10%. Er nad yw canlyniadau Cyfrifiad 2011 bellach yn gyfredol, nid yw canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gael eto. Defnyddiwyd ffynonellau data eraill isod, serch hynny, nid yw'r rhain yn rhoi darlun mor gyflawn â'r Cyfrifiad, gan nad yw'r holl ofalwyr yn gymwys i dderbyn budd-daliadau, ac ni fydd pawb yn gofyn i'r gwasanaethau am gymorth. Bydd yr adran hon yn cael ei diweddarau pan fydd canlyniadau Cyfrifiad 2021 ar gael.

Mae nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru wedi bod yn cynyddu, yn enwedig yng ngogledd orllewin Cymru. Roedd 6,000 yn fwy o ofalwyr yng Ngogledd Cymru yn 2011 nag yng nghyfrifiad 2001, sy'n gynnydd o 8%. Ar y cyfan, mae mwy o ferched yn darparu gofal di-dâl na dynion. Mae 57% o ofalwyr yng Ngogledd Cymru yn ferched, a 42% yn ddynion, sy'n debyg i'r gyfran ar draws Cymru ac yn ardal pob cyngor lleol. Mae'r bwlch hwn un pwynt canran yn llai ers cyfrifiad 2001 gan fod mwy o gynnydd yn nifer y dynion sy'n darparu gofal di-dâl.

Dengys y tabl isod mai Sir y Fflint sydd â'r nifer fwyaf o ofalwyr yng Ngogledd Cymru ac Ynys Môn sydd â'r isaf, sy'n adlewyrchu maint y boblogaeth yn gyffredinol.

Tabl 64: Nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn ôl awdurdod lleol, 2001 a 2011


Cyngor lleol	Ebrill 2001	Ebrill 2011	% newid
Ynys Môn	7,200	8,000	11
Gwynedd	11,000	12,000	11
Conwy	12,000	14,000	11
Sir Ddinbych	11,000	12,000	9
Sir y Fflint	16,000	18,000	7
Wrecsam	15,000	15,000	2
Gogledd Cymru	73,000	79,000	8

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y swm cywir
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r cynnydd yn yr angen am ofal cymdeithasol a nodwyd ym mhenodau eraill yr adroddiad hwn am yr asesiad o'r boblogaeth yn debygol o arwain at fwy o bobl yn darparu gofal di-dâl a'u bod yn darparu gofal am gyfnodau hirach. Gall newidiadau mewn patrymau gwaith a'r cynnydd mewn oedran ymddeol leihau gallu pobl i ddarparu gofal di-dâl. Efallai y bydd pobl sydd wedi symud i'r ardal i ymddeol hefyd wedi symud oddi wrth eu teuluoedd a'u rhwydweithiau cymdeithasol a allai fod wedi cynnig cymorth iddyn nhw.

Mae'r siart isod yn dangos nifer y gofalwyr fel cyfran o gyfanswm y boblogaeth yn y sir: Sir Ddinbych sydd â'r gyfran uchaf o bobl yn darparu gofal di-dâl a Gwynedd sydd â'r isaf. Er mai Sir y Fflint sydd â'r nifer fwyaf o ofalwyr, nid yw hyn lawer yn uwch na'r cyfartaledd yng Ngogledd Cymru fel cyfran o'r boblogaeth.

Siart 26: Canran o gyfanswm y boblogaeth sy'n darparu gofal di-dâl, 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Pobl rhwng 50 a 64 oed yw'r rhai mwyaf tebygol o ddarparu gofal di-dâl

Yng Ngogledd Cymru, mae tua 20% o bobl rhwng 50 a 64 oed yn darparu gofal di-dâl o'i gymharu ag 11% o gyfanswm y boblogaeth. Yn gyffredinol, mae cyfran y bobl sy'n darparu gofal di-dâl yn cynyddu gydag oedran, tan y grŵp 65 oed a hŷn. Yn y grŵp 65 oed a hŷn, mae 14% o bobl yn darparu gofal di-dâl, sydd yr un gyfran ag yn y grŵp 35 i 49 oed. Mae'r cyfrannau hyn yn dilyn patrwm syml ym mhob awdurdod lleol.


Tabl 65: Nifer y gofalwyr yng Ngogledd Cymru yn ôl oedran ac awdurdod lleol, 2011

Cyngor lleol	Oedran 0 i 15	Oedran 16 i 24	Oedran 25 i 34	Oedran 35 i 49	Oedran 50 i 64	65 oed a hŷn
Ynys Môn	140	360	520	1,800	3,000	2,200
Gwynedd	250	620	780	3,000	4,500	3,300
Conwy	260	550	750	3,200	4,800	4,100
Sir Ddinbych	260	640	740	2,800	4,100	3,100
Sir y Fflint	340	920	1,200	4,500	6,600	4,100
Wrecsam	290	860	1,300	4,000	5,400	3,200
Gogledd Cymru	1,500	4,000	5,300	19,000	28,000	20,000

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y swm cywir
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae mwyafrif y 50% o ofalwyr sydd â swydd yn gweithio'n llawn amser fel y dangosir
yn **Error! Reference source not found.** isod. Mae tua 30% o ofalwyr wedi ymddeol.

Siart 27: Canran y gofalwyr yng Ngogledd Cymru sy'n 16 oed a hŷn, yn ôl
gweithgarwch economaidd, 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol

O'r 39,000 o ofalwyr sydd mewn cyflogaeth ar draws Gogledd Cymru, mae 5,800 yn darparu mwy na 50 awr o ofal bob wythnos ac mae 1,600 yn gweithio'n llawn amser ac yn darparu mwy na 50 awr o ofal bob wythnos. Mae 3,500 o ofalwyr yng


Ngogledd Cymru sy'n disgrifio'u hunain fel rhywun sydd ag anabledd neu afiechyd hirdymor, ac mae 1,500 ohonyn nhw'n darparu 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos. I ofalwyr sy'n gweithio, mae cefnogaeth eu cyflogwr a'u cydweithwyr yn hanfodol er mwyn eu helpu i barhau i ddarparu gofal. Mae'n bwysig ystyried hyn wrth gynllunio gwasanaethau, yn enwedig gan fod y Ddedd Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn canolbwyntio ar gefnogi gofalwyr i barhau i weithio os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Lwfans gofalwyr

Ym mis Tachwedd 2020, roedd 18,250 o bobl yng Ngogledd Cymru yn hawlio Lwfans Gofalwyr. Mae hyn wedi cynyddu o 15,750 ym mis Chwefror 2011. Mae'r rhif hwn yn llawer is na'r amcangyfrif o 73,000 sy'n darparu gofal di-dâl, a adroddwyd yng Nghyfrifiad 2011. Er hyn, mae'r lwfans hwn ar gael dim ond ar gyfer y rhai sy'n iau nag oedran pensiwn, gall gofalwyr di-dâl fod yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn pan fyddan nhw'n derbyn Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth.

Ni fydd ar gael i'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio, sef tua 50% o ofalwyr di-dâl. Mae'n debyg y gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n ei hawlio oherwydd cyfuniad o'r cynnydd yng nghyfanswm nifer y gofalwyr a gwell ymwybyddiaeth o'r lwfans. Mae'r niferoedd hyn yn dal i awgrymu nad yw gofalwyr yn hawlio'r budd-daliadau mae ganddyn nhw hawl iddyn nhw ac mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw gwasanaethau hawliau lles ar gyfer gofalwyr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn awyddus i ofalwyr gofrestru gyda'u hawdurdodau lleol. Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn gweithio'n agos gyda Chyngor ar Bopeth a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i gefnogi gofalwyr di-dâl, yn enwedig rhai mewn ardaloedd gwledig a all fod yn fwy ynysig, er mwyn iddyn nhw gael gymaint o incwm â phosibl a gwirio'u hawliau lles.

Siart 28: Nifer y bobl a all hawlio lwfans gofalwyr yng Ngogledd Cymru, 2011 i 2020



Ffynhonnell: yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y gofalwyr a oedd wedi cael eu hasesu ac yn cael eu hystyried yn gymwys i hawlio Lwfans Gofalwyr. Wrth eu cymharu gyda chyfradd Cymru, roedd cyfraddau pob cyngor yng Ngogledd Cymru yn is. Mae'r cyfraddau hefyd yn amrywio ar draws pob Cyngor, a'r rhai yn y dwyrain yn uwch na'r rhai yn y gorllewin.

Tabl 66: Cyfanswm y rhai a all hawlio Lwfans Gofalwyr yng Ngogledd Cymru (Tachwedd 2020)

Cyngor lleol	Rhai sydd â hawl i'r lwfans gofalwyr (nifer)	Rhai sydd â hawl i'r lwfans gofalwyr (cyfradd)
Ynys Môn	1,852	2.15%
Gwynedd	2,490	2.89%
Conwy	3,254	3.78%
Sir Ddinbych	3,304	3.84%
Sir y Fflint	3,584	4.16%
Wrecsam	3,787	4.40%
Cymru	86,122	6.63%

Ffynhonnell: yr Adran Gwaith a Phensiynau

Tai a llety

Mae materion yn ymwneud â thai'n chwarae rhan bwysig o ran lles gofalwyr di-dâl ac mae gwasanaethau tai'n bartner allweddol wrth gefnogi gofalwyr. Gall gofalwyr wynebu problemau tai megis tloedi tanwydd oherwydd incwm isel, er enghraifft, os ydyn nhw wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio. Gall tai anaddas neu rai sydd angen eu haddasu wneud gwaith gofal yn anoddach a gall fod yn anoddach i bobl sy'n byw mewn eiddo wedi'i rentu i wneud addasiadau.

Mae lleoliad hefyd yn broblem i ofalwyr di-dâl sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Mae Ymddiriedolaeth y Gofalwyr wedi amlygu anghenion penodol gofalwyr di-dâl sy'n byw mewn cymunedau anghysbell neu wledig yng Nghymru, lle mae arwahanrwydd cymdeithasol, tloedi, amddifadedd, diffyg cludiant a phellteroedd teithio pell i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofalwyr yn golygu bod gofalwyr di-dâl mewn ardaloedd gwledig yn wynebu heriau ychwanegol er mwyn gallu defnyddio gwasanaethau.

Gall gofalwyr di-dâl hefyd bryderu y gallen nhw fod yn ddigartref pe bai'r person maen nhw'n gofalu amdano'n marw neu'n symud i lety preswyl.

Tabl 67: Nifer yr asesiadau o anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr a gynhaliwyd yn ystod 2019 - 2020

Cyngor lleol	Nifer yr asesiadau	Y nifer a arweiniodd at gynllun gofal	Y % a arweiniodd at gynllun gofal
Ynys Môn	563	186	33%
Gwynedd	25	3	12%
Conwy	350	199	57%
Sir Ddinbych	234	35	15%
Sir y Fflint	498	478	96%
Wrecsam	108	52	48%
Gogledd Cymru	1,778	953	54%
Cymru	7,261	2,748	38%

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y swm cywir Ffynhonnell: Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, Llywodraeth Cymru, tabl StatsCymru CARE0121

Mae data ar gael am nifer yr asesiadau o ofalwyr a gynhaliwyd ar draws Gogledd Cymru. Nid ydym wedi eu cynnwys yma gan eu bod yn rhoi darlun camarweiniol gan fod y rhifau wedi cael eu cyfrif yn wahanol ym mhob sir. Roedd hefyd yn seiliedig ar asesiad o'r person a oedd yn derbyn gofal felly nid oedd yn cynnwys asesiadau o ofalwyr a oedd wedi cyfeirio'u hunain. Mae angen dull cyson i gynnal asesiadau a chofnodi data.

Lles corfforol a meddyliol gofalwyr di-dâl

Un o flaenoriaethau'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl (Llywodraeth Cymru, 2021) yw lles corfforol a meddyliol gofalwyr. Rhoddir pwyslais ar wella mynediad at ofal seibiant er mwyn caniatáu i ofalwyr di-dâl gymryd seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu. Yn ogystal â hyn, bydd cymorth seicolegol yn cael ei ymestyn a dylid ei nodi yn ystod asesiad o anghenion gofalwyr. Mewn gwaith ymchwil gan Ofalwyr Cymru, gwelwyd bod 74% o ofalwyr yng Nghymru yn dweud eu bod wedi dioddef salwch meddwl a dywedodd 61% fod eu hiechyd corfforol wedi gwaethygu o ganlyniad i'w cyfrifoldebau gofalu. Mae hyn wedi gwaethygu oherwydd y pandemig coronafeirws.

Astudiaeth Achos o Weithwyr Gofalwyr Iach Sir Ddinbych – Gweithio gyda Gofalwyr yn 2021

“Fy nod yw grymuso'r bobl sy'n cael eu cyfeirio ataf i wella a/neu gynnal eu hiechyd a'u lles, yn cynnwys cynhwysiad cymdeithasol. Er fy mod yn cynnig cyngor ac arweiniad ar faterion megis codi a symud yn gorfforol, gofalu am y cefn a chael mynediad at weithwyr proffesiynol i ymdrin â materion iechyd eraill, mae'n dod yn fwyfwy cyffredin i mi ymdrin ag atgyfeiriadau mewn argyfwng, lle bydd pecynnau gofal yn methu, neu nid ydyn nhw ar gael neu bydd pobl yn gwrthod cymorth sydd wir ei angen arnyn nhw, oherwydd ofn, patrymau meddwl negyddol ac ymwithiol ac effaith ehangach straen drwy'r amser.

Mae llawer o dystiolaeth i brofi y gall straen a lefelau cortisol uchel effeithio'n ddifrifol ar iechyd ffisiolegol, yn ogystal â seicolegol, a dyma rai o'r prif effeithiau:

- Blinder llethol
- Pwysau gwaed uchel
- Mwy o duedd i gael clefyd siwgr
- Cur pen

- Natur flin
- Iselder a gorbryder
- System imiwnedd wan

Cyn pandemig Covid, roedd gofalwyr wedi eu hymestyn i'r eithaf, yn aml ar alwad rownd y cloc a heb fawr ddim seibiant, boed hwnnw'n ofal gan aelodau'r teulu, gwasanaethau eistedd gyda phobl, gweithgareddau grŵp neu ddulliau eraill. Yn ystod y cyfnodau clo, ac wedi hynny, cafwyd llawer llai o gyswllt wyneb yn wyneb gyda'r teulu a'r byd ehangach. I lawer o ofalwyr, fe arweiniodd hyn at deimlad o fod wedi eu caethiwo, wedi cael eu gadael neu o fod dan warchae ac mae eu gwytnwch yn is nag erioed.

Mae llawer o'r gofalwyr sydd nawr yn cael eu cyfeirio ataf angen cymorth ar unwaith gyda'u hiechyd meddwl, naill ai oherwydd blinder llwyr, trawma neu alar (naill ai colli un o'u hanwyliaid neu siom, a'u disgwyliadau mewn bywyd wedi eu chwalu).

Yn aml, nes bydda' i wedi dechrau ymdrin â'r materion dyfnach hyn, ni allwn ni ddisgwyl i'r person hwnnw ymgysylltu'n well gyda'r cymorth a gynigir, gwneud dewisiadau iach yn eu bywydau neu gyflwyno'u hunain i unrhyw beth sydd y tu hwnt i'w byd cyfarwydd.

Drwy feithrin ymddiriedaeth, gwneud heriau'n dasgau bach, hylaw ac yn aml cryn dipyn o gyfryngu rhwng y gofalwr a phobl eraill sydd o'u cwmpas, rwy'n gweithio er mwyn eu galluogi nhw i fagu gwytnwch a rheolaeth dros y ffactorau sy'n dylanwadu ar eu bywydau dyddiol. Yna, rhoddir y broses gyfeirio ar waith a gellir ymestyn y rhwydwaith cefnogi".

10.3 Yr hyn mae pobl yn ei ddweud wrthym

Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd nifer fechan o ofalwyr fod y gwasanaethau canlynol yn gweithio'n dda:

- Cwmsela ar gyfer gofalwyr.
- Asesiadau cyflym o ofalwyr a'u hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion, yn ogystal â'u cymorth o ansawdd uchel.
- Cymorth i ofalwyr gan Hafal.
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru / Cynnal

Gofalwyr.

Er hyn, nododd nifer tebyg “Nad oes unrhyw beth wedi gweithio’n dda” yn seiliedig ar eu profiad nhw o wasanaethau gofal cymdeithasol.

“O fy nghyswllt cyntaf gyda’r gwasanaethau cymdeithasol, dydyn nhw heb gymryd sylw ohona i bum gwaith...pan oeddwn i wir yn methu fel gofalwr, rhwng dementia fy nhad, gweithio’n llawn amser a chysgodi rhag y feirws. Does dim byd wedi gwella ac mae gen i restr o gamwybodaeth, gwybodaeth sy’n gwrthdaro, gwrthdaro o fewn y tîm ei hun ayb, ayb”

Beth sydd angen ei wella:

Gwnaed nifer o argymhellion ar gyfer gwella gwasanaethau i ofalwyr, yn cynnwys:

- Sicrhau bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnal gan bobl sy’n deall sefyllfa’r gofalwr.
- Cynyddu darpariaeth gwasanaethau gofal seibiant, gwasanaethau eistedd gyda phobl, cymorth nos a chanolfannau dydd.
- Sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn cynnwys gofal seibiant mewn cynlluniau gofal a chynyddu faint o ofal seibiant a ganiateir – “mae pedair awr y mis yn hurt”.
- Cynyddu’r cyllid ar gyfer gwasanaethau i wella iechyd meddwl gofalwyr
- Rhoi hyfforddiant a chymorth i ofalwyr gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein.
- Creu grwpiau cefnogaeth gan gyfoedion i ofalwyr sydd â phrofiadau gwahanol, er enghraifft grŵp i rieni plant anabl.
- Cynnwys gofalwyr wrth ysgrifennu cynlluniau gofal.
- Cynnwys cynlluniau wrth gefn mewn cynlluniau gofal, yn barod at yr amser pan na fydd y gofalwr yn gallu ymdopi mwyach a/neu pan fydd iechyd y person sy’n derbyn gofal yn dirywio.

Teimlai rhai gofalwyr eu bod bron â chyrraedd pen eu tennyn, ac yn y pen draw bydd hyn yn costio mwy na darparu mwy o gymorth ar eu cyfer.

“Nid oes unrhyw gymorth iechyd meddwl dibynadwy ar gael ar gyfer gofalwyr. Mae hi’n argyfwng ar ofalwyr di-dâl a bydd hyn bob amser yn cael effaith ar y rhai sy’n derbyn gofal. Gyda chefnogaeth well,

mae'n debyg y gallwn i gadw Mam yn ei chartref ei hun, fel rydw i wedi ei wneud am ddeng mlynedd, ond os bydd lefel y gefnogaeth yn parhau i ddirywio, yn erbyn ein hewyllys ni'n dwy, bydd rhaid i mi ei symud i gartref nyrsio. Mae hyn yn cael effaith gymdeithasol ac economaidd ar bawb."

Cyngor Sir y Fflint – Adolygu Ymgysylltiad â Gwasanaethau Seibiant

Casglwyd adborth gan ofalwyr, pobl sy'n byw gyda dementia, staff o'r trydydd sector a staff gofal cymdeithasol ynghylch y gwasanaethau seibiant a gomisiynwyd sydd ar gael i rai sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia yn Sir y Fflint.

Mae'r adolygiad wedi casglu safbwyntiau, profiadau, disgwyliadau a dewisiadau seibiant delfrydol gan 44 o ofalwyr, 6 pherson sy'n byw gyda dementia a 9 staff o'r trydydd sector a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn 2019.

Wrth drafod cyfnodau seibiant gyda'r gofalwyr, roedd nifer ohonyn nhw'n ansicr o'r union wasanaethau a ddefnyddir a sut mae'r rhain yn cael eu nodi o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru, yn enwedig pan fo gwasanaethau niferus yn cael eu darparu.

Mae'r adborth canlynol yn rhannu'r prif themâu a gasglwyd yn yr ymgynghoriad.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru - Pontio'r Bwlch

- Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda ar gyfer pob gofalwr yr ymgysylltwyd â nhw, ac roedd pob gofalwr yn hoffi'r hyblygrwydd i ddefnyddio'r gwasanaeth seibiant pan fo angen, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau wedi'u cynllunio, er enghraifft gwyliau, tripiâu dydd, digwyddiadau cymdeithasol a digwyddiadau teuluol.
- Dywedodd y gofalwyr fod cael dewis o ddarparwyr gofal yn fuddiol gan eu bod naill ai'n gallu defnyddio'r un darparwr ag sydd ganddyn nhw'n barod, neu gallan nhw ddewis un newydd os ydyn nhw'n cael problemau gyda'r darparwr.
- Teimlai rhai gofalwyr fod dewis darparwr yn broses hynod anodd, a bydden nhw wedi hoffi cael arweiniad pellach er mwyn gwneud y dewis gorau.

GOGDdC – Seibiant i Ofalwyr

- Dywedodd yr holl Ofalwyr mor bleserus oedd y seibiant iddyn nhw, yn

enwedig gyda'r gefnogaeth a gawson nhw gan ofalwyr eraill

- Roedd y gefnogaeth gan y staff a'r gwirfoddolwyr ar gael pan fo angen
- Roedd y wybodaeth a'r cyngor a gafwyd yn ystod y seibiant yn amhrisiadwy
- Esboniodd y gofalwyr fod eu lles wedi gwella drwy gael y seibiant ac roedd gallu mynychu gyda'r person maen nhw'n gofalu amdano wedi eu helpu i ailgysylltu
- Teimlai'r gofalwyr fod y cyfle i gael swper gyda'r grŵp yn hynod o fuddiol, ac yn eu galluogi i gymdeithasu gyda phobl eraill.

Seibiant Sadwrn Dementia yng nghanolfan Maryfield

- Dywedodd y gofalwyr fod hwn yn wasanaeth da, mae'r staff yn gefnogol, ac mae'r sawl sy'n derbyn gofal yn mwynhau'r rhan fwyaf o'u hamser yn y ganolfan.
- Soniodd un gofalwr fod cludiant yn broblem, yn enwedig i'r rhai sy'n byw ymhellach i ffwrdd o dref Bwcle.
- Teimlai rhai gofalwyr fod ganddyn nhw fwy o gyfrifoldebau ar fore Sadwrn gan eu bod yn cael y sawl maen nhw'n gofalu amdany'n nhw'n barod ac yn eu cludo i'r ganolfan. Byddai Sadyrnau arferol yn fwy hamddenol gyda llai o bwysau.
- Teimlai gofalwyr y byddai seibiant mwy hyblyg yn fuddiol iddyn nhw gyda gwahanol ddyddiadau, amseroedd, lleoliadau a dewisiadau.
- Teimlai gofalwyr y gellid cynnig mwy o amrywiaeth i'r sawl maen nhw'n gofalu amdany'n nhw, o ran gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar y person.
- Dywedodd pobl sy'n byw gyda dementia eu bod yn mwynhau'r cwmni a'u bod yn hoffi'r bobl o'u cwmpas. Roedd nhw'n hoffi'r bwyd yn arbennig.
- Roedd y bobl sy'n byw gyda dementia yn rhannu llawer am eu presennol a'u gorffennol wedi'u cymysgu â'i gilydd, gofynnais a hoffen nhw wneud gweithgareddau penodol o'u gorffennol, neu bethau newydd y gwnaethon nhw sôn amdany'n nhw. Cytunodd rhai drwy ddweud "ie", atebodd eraill gyda "na rydw i'n rhy hen".

10.4 Adolygu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd

Yn hanesyddol, gellir darparu llawer o'r cymorth sydd ei angen ar ofalwyr di-dâl drwy gynnal asesiad statudol o'r person sy'n derbyn gofal. Wrth gyflwyno'r Ddeddf, rhaid ystyried darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth neu wasanaethau ataliol ac adsefydlol ar gyfer y person sy'n derbyn gofal. Bydd yr asesiad hwn, ynghyd â'r cynllun gofal a chymorth yn canolbwyntio ar ganlyniadau i'w cyflawni a ffyrdd arloesol i'w cyflawni, megis mynychu grwpiau lleol sy'n darparu cyfleoedd yn ystod y dydd – wedi dweud hynny, os nad oes ffordd arall, yna bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn darparu gwasanaethau fel gofal cartref.

Yn ogystal â hyn, gellir darparu gwasanaethau seibiant ar ffurf gofal byrdymor mewn cyd-destun preswyl, a gwasanaethau eistedd gyda phobl i'r person sy'n derbyn gofal er mwyn rhoi seibiant i ofalwyr di-dâl o'u cyfrifoldebau gofal. Mae Ymddiriedolwyr Cymru wedi lansio gweledigaeth newydd ar gyfer gofal seibiant yng Nghymru er mwyn ymateb i anghenion gofalwyr sydd wedi dweud nad yw'n hawdd cael mynediad at ofal seibiant. Mae'r adroddiad yn galw am bedwar cam gweithredu allweddol sy'n cynnwys datblygu datganiadau cenedlaethol a rhanbarthol am seibiannau byr, creu canolfan genedlaethol i gynnig gwybodaeth ac arweiniad am seibiannau byr, cynllun seibiant cenedlaethol i Gymru a chronfa genedlaethol ar gyfer seibiannau byr (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, 2021).

Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint a BIPBC yn comisiynu gwasanaeth seibiant i ofalwyr. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gwasanaeth eistedd gyda phobl a gofal cartref yn Sir y Fflint. Gellir manteisio ar y gwasanaeth hwn drwy ddefnyddio gwasanaeth Croesffyrdd. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth ar gael i rai sydd â chyfrifoldebau gofal dwys, ac mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gofalu am bobl sy'n byw gyda dementia. Cynigir y gwasanaeth hwn am gyfnod o 12 wythnos ac yna cyfeirir pobl at yr Un Pwynt Mynediad er mwyn ymchwilio i'r dewisiadau o ran seibiannau parhaus.

Mae'r gwasanaeth yn gysylltiedig â dewisiadau seibiant eraill megis Pontio'r Bwlch (GOGDdC/NEWCIS) er mwyn sicrhau dilyniant o ran y sawl sy'n darparu'r gofal. Mae Croesffyrdd yn cael eu comisiynu gan BIPBC i ddarparu gwasanaethau Seibiant Iechyd i ofalwyr er mwyn ei gwneud yn bosibl iddyn nhw fynychu apwyntiadau iechyd a gellir eu defnyddio yn ystod cyfnodau argyfwng sy'n ymwneud

ag iselder. Gellir cael mynediad at y gwasanaeth Iechyd dim ond drwy gael atgyfeiriad gan weithiwr iechyd proffesiynol, er enghraifft meddyg teulu.

Mae ystod eang o gymorth ar gyfer gofalwyr di-dâl yng Ngogledd Cymru yn cael ei ariannu drwy grant neu'n cael ei gomisiynu i sefydliadau trydydd sector sydd â hanes hir a gwerthfawr o gefnogi gofalwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ataliol sy'n gallu cefnogi gofalwyr drwy gydol eu taith ofal, a gwasanaethau a gomisiynwyd sy'n cwrdd â rhwymedigaethau statudol megis asesiadau o anghenion gofalwyr.

Gall grantiau gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd naill ai ariannu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl yn rhannol neu'n llawn, ac mewn rhai achosion bydd y cyllid yn cyfrannu tuag at y costau craidd. Mae rhai gwasanaethau yn y trydydd sector yn derbyn cyllid gan gynghorau lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er nad yw hynny o reidrwydd o dan yr un contract. Mae gwasanaeth Gofalwyr Ifanc WCD (sy'n gwasanaethu Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych) yn enghraifft dda o sut y gall cydweithio arwain at ddull comisiynu rhanbarthol ochr yn ochr â BIPBC i gefnogi gofalwyr ifanc.

Yn Ebrill 2021, drwy Grant Blynyddol Gofalwyr Llywodraeth Cymru, cafodd Cynnal Gofalwyr a GOGDdC eu comisiynu gan BIPBC, fel partneriaeth ar y cyd, i lenwi'r swyddi Hwyluswyr ar gyfer Meddygon Teulu ac Ysbytai ar draws y rhanbarth er mwyn cefnogi gofalwyr di-dâl a gafodd eu canfod drwy'r gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal eilaidd. Ym Mawrth 2021, gwnaeth pob un o'r 6 Awdurdod Lleol, BIPBC a darparwyr a gomisiynwyd ar gyfer gofalwyr ifanc lansio Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru fel cynllun ar y cyd, i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn derbyn yr un gefnogaeth gan weithwyr proffesiynol yn y gymuned, lle bynnag maen nhw'n byw yng Ngogledd Cymru.

Dylid nodi hefyd y gall y trydydd sector ddenu cyllid allanol yn effeithiol i ddatblygu gwasanaethau er mwyn i ofalwyr di-dâl ychwanegu gwerth ychwanegol at ddarpariaeth y gwasanaethau.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r math o wasanaethau sy'n cael eu darparu i ofalwyr drwy Ogledd Cymru, ac maen nhw'n amrywio ar draws y rhanbarth. Dylid nodi, er fod rhai o'r gwasanaethau hyn yn rhai generig, mae rhai eraill yn wasanaethau arbenigol, er enghraifft, darparu cymorth i ofalwyr unigolion sydd â dementia neu gyflyrau iechyd meddwl. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys gwasanaethau sy'n codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â gofalwyr di-dâl:

- Gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Mae angen aseswyr ar gyfer gofalwyr ymroddgar (yn fewnol ac wedi eu comisiynu'n allanol)
- Cymorth un i un
- Clust i wrando / cefnogaeth emosiynol
- Cwnsela
- Gweithiwr gofalwyr iach
- Grwpiau cefnogi/fforymau/caffis/sesiynau galw heibio
- Hwyluswyr ar gyfer Gofalwyr a Meddygon Teulu ym maes gofal sylfaenol i godi ymwybyddiaeth am ofalwyr a chynnig cymorth i feddygfeydd
- Hwyluswyr Gofalwyr mewn Ysbytai – cefnogi'r 3 Ysbyty Gyffredin a'r ysbytai cymunedol ar draws Gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth am ofalwyr a'u canfod yn gynnar mewn cyd-destunau iechyd
- Hyfforddiant ar gyfer gofalwyr, er enghraifft dementia, cymorth cyntaf, symud a lleoli, ymlacio, gosod nodau
- Hyfforddiant ar gyfer staff – i godi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â gofalwyr a'r cymorth sydd ar gael
- Taliadau uniongyrchol / cyllidebau cymorth / grantiau untro
- Cymorth i gael mynediad at ddysgu gydol oes, cyflogaeth, cyfleoedd gwirfoddoli
- Cymorth a gweithgareddau ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc

Mae cynghorau lleol a BIPBC hefyd yn buddsoddi'n sylweddol mewn gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n cynnig seibiannau byrdymor ar ffurf gwasanaethau eistedd gyda phobl neu ofal amgen. Er mai gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer y person sy'n derbyn gofal yw'r rhain, maen nhw hefyd yn cael eu hystyried yn fath o seibiannau ar gyfer y gofalwr di-dâl. Mae'r trefniadau contract a'r meini prawf ar gyfer y gwasanaethau hyn yn amrywio ar draws y rhanbarth ond ar hyn o bryd ni chodir tâl ar y gofalwyr am unrhyw un o'r gwasanaethau hyn. Mae rhai sefydliadau yn y trydydd sector hefyd yn denu cyllid allanol ar gyfer y mathau hyn o wasanaethau.

Mae'r Rheolwr Prosiect Rhanbarthol sy'n arwain ar ofalwyr o fewn NWSCWIC yn mapio'r ystod llawn o wasanaethau sydd ar gael i ofalwyr ar draws Gogledd Cymru yn rheolaidd, gan nodi unrhyw feysydd sy'n cael eu dyblygu, yn ogystal â chyfleoedd cydweithredol ar draws pob un o'r 6 Awdurdod Lleol a BIPBC.

Mae Porth Dinasyddion Cymru Gyfan, [DEWIS](#), yn darparu gwybodaeth am ofal cymdeithasol a lles, yn cynnwys gwasanaethau a chymorth ar gyfer gofalwyr.

Ar Ddiwrnod Hawliau Gofalwyr 2020, lansiodd Sir Ddinbych y Siarter Gofalwyr a ddatblygwyd gyda chymorth Grŵp Strategaeth y Gofalwyr a rhwydweithiau gofalwyr lleol. Diben y Siarter yw gwella cydnabyddiaeth a chodi ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned ehangach.

Creu gwerth cymdeithasol y bydd gofalwyr di-dâl yn elwa ohono drwy ganolbwyntio ar fodolau cyflenwi gwerth cymdeithasol sy'n 'sefydliadau a threfniadau cydweithredol' (Rhan 2, Adran 16 1) b) y Ddeddf) ac sy'n cynnwys 'pobl y bydd gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol yn cael eu darparu ar eu cyfer yn y modd y caiff y ddarpariaeth honno ei dylunio a'i rhoi ar waith' (Rhan 2, Adran 16 1) c) y Ddeddf). Gellir sicrhau modelau cyflenwi gwerth cymdeithasol a gwerth cymdeithasol ychwanegol drwy'r profiad a rennir gyda chyd-ofalwyr, cefnogi'r naill a'r llall a chydgyfnewid.

Bydd angen cymorth ar ofalwyr i greu trefniadau cydweithredol a bydd angen strategaeth fuddsoddi ar gomisiynwyr sy'n creu 'capasiti'r tu hwnt i'r farchnad'. Mae amcanion polisi'r dyfodol a fydd yn ymateb i ganfyddiadau'r bennod i greu mwy o werth cymdeithasol yn cynnwys:

- Bydd mwy o ofalwyr yn gallu cael gafael ar “yr hyn sy'n bwysig” iddyn nhw heb ofyn am gymorth (uniongyrchol) gan y gwasanaethau cyhoeddus.
- Bydd mwy o ofalwyr yn ymwneud â helpu ei gilydd ar lefel y teulu a'r gymuned.
- Bydd mwy o ofalwyr yn gallu dewis a chael mynediad at ystod eang o weithgareddau lles.
- Bydd mwy o ofalwyr yn cael eu grymuso drwy grwpiau cyfoedion a thrwy weithredu ar y cyd.
- Bydd mwy o ofalwyr yn gallu defnyddio gwasanaethau cyhoeddus fel dinasyddion hyderus (ac adeiladol).
- Bydd mwy o ofalwyr yn diogelu eu lles a'u hannibyniaeth am gyfnod hirach.
- Bydd yna sefydliadau gwerthfawr sy'n cael eu harwain gan ofalwyr ym mhob cymuned gweddol ei maint.

10.5 Gofalwyr Ifanc

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio gofalwyr ifanc fel gofalwyr sy'n iau na 18 oed. Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 3 yn diffinio gofalwyr sy'n oedolion ifanc fel person rhwng 16 a 25 oed.

Mae gofyn i Awdurdodau Lleol gynnig asesiad o anghenion gofalwyr i unrhyw ofalwr sydd ag angen amlwg. Mae Atodiad A y Cod Ymarfer yn cynnwys amryw o enghreifftiau sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc, yn cynnwys:

- Nid yw'r plentyn yn debygol o gyflawni ei nodau datblygu.
- Nid yw/ni fydd yr unigolyn yn gallu cael mynediad at, ac ymgysylltu mewn gwaith, hyfforddiant, addysg, gwaith gwirfoddol neu weithgareddau hamdden.

Wrth asesu, rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried mor bwysig yw hyrwyddo bod y plentyn yn cael ei fagu gan ei deulu, cyn belled â bod gwneud hynny'n gyson â hyrwyddo lles y plentyn.

Pan fo'r gofalwr ei hun yn blentyn, rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried ei anghenion datblygu ef/hi ac i ba raddau mae'n addas i'r plentyn ddarparu'r gofal. Yn sgil hyn, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried a yw'r plentyn sy'n gofalu'n blentyn sydd ag anghenion gofal a chymorth ei hun.

Beth ydym ni'n ei wybod am boblogaeth y gofalwyr ifanc

Mae nifer y gofalwyr ifanc sydd wedi eu nodi yng Ngogledd Cymru wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd cynnydd mewn atgyfeiriadau drwy ymgyrchoedd llwyddiannus i godi ymwybyddiaeth a pherthnasoedd cadarnhaol gydag asiantaethau partner. Pan ysgrifennwyd y ddogfen hon, roedd 1,752 o ofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi ar draws Gogledd Cymru (Tachwedd 2021) fel a ddangosir yn y tabl isod. Dangosodd cyfrifiad 2011 bod yna 1,500 o ofalwyr ifanc rhwng 0 a 15 oed a 4,000 rhwng 16 a 24 oed yng Ngogledd Cymru. Cyhoeddir data cyfrifiad 2021 yn 2022/23 a'i adolygu.

Tabl 68: Nifer y gofalwyr ifanc a gofrestrwyd â chynghorau lleol (2021)

Cyngor lleol	Nifer y Gofalwyr Ifanc Cofrestredig 2021
Ynys Môn	92
Gwynedd	81
Conwy	423
Sir Ddinbych	578
Sir y Fflint	202
Wrecsam	376
Gogledd Cymru	1752

Ffynhonnell: cofrestrau awdurdodau lleol

Mae cyllid ar gyfer gofalwyr ifanc yn galluogi sefydliadau fel Gweithredu dros Blant i gefnogi gofalwyr ifanc sydd â rôl gofalu / effaith gofalu cymhedrol i uchel yn unig. Mae hyn yn golygu na fydd nifer o ofalwyr ifanc yn Ngogledd Cymru wedi eu cynnwys yn y data uchod ac felly dylid trin y data fel amcangyfrif ceidwadol.

Adolygu'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer gofalwyr ifanc

Comisiynwyd cymorth penodol ar gyfer gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc ar draws Gogledd Cymru gan y trydydd sector. Mae Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych/Credu wedi eu comisiynu i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn Wrecsam, Sir Ddinbych a Chonwy, mae GOGDdC yn darparu'r gwasanaeth yn Sir y Fflint a Gweithredu dros Blant sy'n darparu'r gwasanaeth ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Cafodd Gwasanaeth newydd Cymorth i Ofalwyr Ifanc Sir y Fflint ei lansio ar 1 Gorffennaf 2020 a bydd yn cael ei ddarparu gan Ofalwyr Ifanc GOGDdC. Nod y gwasanaeth yw darparu un pwynt mynediad agored ar gyfer pob gofalwr ifanc hyd at 25 oed, eu teuluoedd, gweithwyr proffesiynol a sefydliadau partner. Mae'r gwasanaeth yn siop un alwad ar gyfer amrywiaeth o wybodaeth gyffredinol, cyngor, gwasanaeth atgyfeirio, mynediad at asesiadau, cymorth un i un (a fydd yn canolbwyntio ar y person a'r canlyniadau, ac a fydd yn gymesur) a chymorth lles.

Gall Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc rhwng 17 a 25 oed ac sy'n byw ar Ynys Môn neu yng Nghonwy gael eu cefnogi gan brosiect Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd Gogledd Cymru Ymddiriedolaeth y Gofalwyr a Gwasanaeth i Ofalwyr sy'n Oedolion Ifanc.

Gallant gynnig gwybodaeth a chymorth ymarferol ac emosiynol, seibiannau o ofal a sesiynau un i un a grŵp unwaith y bydd cyfyngiadau'n cael eu codi a bod cyfarfodydd yn cael eu caniatáu.

Maen nhw hefyd yn cynnig hyfforddiant yn rhad ac am ddim sy'n cynnwys cyrsiau ymarferol ar godi a symud yn gorfforol, cymorth cyntaf, coginio, cyllid a chyllidebu, gweithdai gwytnwch a sesiynau cerddoriaeth. Gellir trefnu cludiant ar gyfer unrhyw ofalwyr sy'n oedolion ifanc a hoffai fynychu.

Mae rhiant ofalwyr yn Sir y Fflint yn cael eu cefnogi gan Daffodils, sef elusen leol sy'n cynnig cymorth a gweithgareddau i deuluoedd sydd â phlant ag anghenion ychwanegol, drwy gynnig gweithgareddau cymdeithasol i ofalwyr a'u hanwlyiaid.

Mae'r sefydliadau hyn i gyd yn darparu lefelau tebyg o gymorth, yn cynnwys gwybodaeth a chyngor, digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, cymorth gyda lles a gwytnwch personol, cludiant, cwnsela, eiriolaeth a chynnal trafodaethau gyda'r ysgol, y coleg, gwasanaethau cymdeithasol neu weithwyr iechyd proffesiynol. Nid yw'r gwasanaethau hyn yn ymyrryd yn uniongyrchol i ymdrin ag anghenion yr unigolyn mae'r person ifanc yn gofalu amdano, ond maen nhw'n bodoli er mwyn lliniaru effaith y cyfrifoldebau gofalu ar y person ifanc.

Dyma'r anghenion mwyaf cyffredin ymhlith gofalwyr ifanc a nodwyd gan ddarparwyr y gwasanaethau hyn: yr angen i gael seibiant a chyfleoedd i gymdeithasu (rhoi cyfle iddyn nhw fod yn blentyn); adeiladu gwytnwch, lles emosiynol a hunan-barch; yr angen i gael rhwydweithiau cefnogi cyfoedion gyda gofalwyr ifanc eraill sy'n deall; cymorth gydag addysg a dysgu; a chymorth eiriolaeth i roi llwyfan i glywed eu lleisiau.

Daw'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau arbenigol i blant, Teuluoedd yn Gyntaf a swyddogion lles addysg ar ran yr ysgolion. Mae Gogledd Orllewin Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan y gwasanaeth iechyd, yn bennaf gan nyrsus ysgol, ymwelwyr iechyd ac ymgynghorwyr yn y ddwy flynedd ddiwethaf, yn dilyn prosiect peilot sydd wedi'i anelu at wella iechyd a lles emosiynol gofalwyr ifanc.

Tueddiadau newydd ymhlith gofalwyr ifanc

Mae angen canfod gofalwyr ifanc cyn gynted â phosibl fel y gallan nhw gael y cymorth sydd ei angen arny'n nhw. Bydd cyflwyno'r Cerdyn Adnabod i Ofalwyr Ifanc yn helpu gyda hyn. Mae hefyd angen canolbwyntio ar iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc sydd â chyfrifoldebau gofal o ganlyniad i'r pandemig. Mae llawer o ofalwyr ifanc yn poeni am gymdeithasu rhag ofn iddyn nhw gludo a throsglwyddo COVID-19 i'r person maen nhw'n gofalu amdano.

Mae hyn yn golygu eu bod yn colli cyfleoedd ac mae'n effeithio'n negyddol ar eu lles. Cynhaliodd Ymddiriedolaeth y Gofalwyr arolwg ymhlith gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, sy'n cyfeirio at ddirywiad yn iechyd meddwl a lles cannoedd o filoedd o bobl ifanc sy'n darparu gofal i aelodau'r teulu. Dywedodd 40% o ofalwyr ifanc a 59% o ofalwyr sy'n oedolion ifanc fod eu hiechyd meddwl yn waeth ers y pandemig (Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, 2020).

Diogelu gofalwyr ifanc

Gall nifer o ffactorau olygu bod materion diogelu'n codi i ofalwyr ifanc. Mae gofalwyr ifanc yn aml yn anodd eu canfod ac mae hyn yn golygu mai dim ond os bydd argyfwng y daw eu hanghenion i'r amlwg. Gall maint y cyfrifoldebau gofal sydd gan y plentyn a'r effaith mae hyn yn ei gael ar ei ddatblygiad fod yn bryder diogelu ynddo'i hun, a dyma pam mae'n hanfodol fod y gwasanaethau'n canfod ac yn cynnal asesiad llawn o'u hanghenion er mwyn sicrhau bod y cymorth cywir yn ei le ar yr adeg iawn.

Mae gofalwyr ifanc yn agored i'r effaith y gall cyfrifoldebau gofal ei chael ar eu datblygiad emosiynol a chorfforol, eu haddysg a'u rhwydweithiau cymdeithasol a'u cyfeillgarwch (Becker *et al.*, 2000). Mae gofalwyr ifanc iawn, y rhai o dan wyth oed, mewn perygl arbennig ac nid ydyn nhw wedi cael eu cynnwys mewn rhai gwasanaethau ac asesiadau o ofalwyr ifanc yn y gorffennol, ar y sail na ddylai plentyn o dan wyth oed gael cyfrifoldebau gofal. Mae angen i gomisiynwyr wneud yn siŵr fod cymorth ar gael ar gyfer y bobl ifanc hyn, boed hynny drwy wasanaethau i ofalwyr ifanc neu drwy wasanaethau eraill i blant sy'n agored i niwed.

Gwelir gwahaniaeth hefyd rhwng safbwyntiau plant a rhieni ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn lefelau priodol o ofal, a gall rhieni weithiau fod yn amharod i ymgysylltu â gwasanaethau oherwydd agweddau negyddol neu ofnau'n ymwneud â'r camau y gallai'r gwasanaethau gofal cymdeithasol eu cymryd.

Yn yr un modd, mae gofalwyr sy'n oedolion ifanc hefyd yn wynebu materion diogelu tebyg i ofalwyr ifanc. Gall cyfrifoldebau gofal osod straen sylweddol ar bobl ifanc, a all effeithio ar eu cyrhaeddiad addysgol, mynediad at hyfforddiant a chyflogaeth a'u hiechyd a'u lles cyffredinol.

Nid yw bod yn ofalwr ifanc yn golygu'n awtomatig bod plentyn neu berson ifanc angen ei ddiogelu. Er hyn, mae'n pwysleisio bod rhaid i wasanaethau osod prosesau ataliol yn eu lle i sicrhau nad yw teuluoedd yn wynebu argyfwng, a allai arwain at roi gweithdrefnau amddiffyn plant ar waith.

10.6 Effaith Covid-19

Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar ofalwyr, a gwelir hyn yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Un o'r effeithiau mwyaf arwyddocaol yw'r effaith ar iechyd meddwl a lles gofalwyr di-dâl. Cafodd gwasanaethau eu cau'n gyfan gwbl neu cynigiwyd gwasanaethau ar raddfa lai, gan adael gofalwyr di-dâl i orfod ymdopi â'r sefyllfa. Mae gofalwyr di-dâl wedi dweud wrthym cymaint o straen roedden nhw'n ei deimlo wrth geisio sicrhau bod y person roedden nhw'n gofalu amdano'n aros yn ddiogel, yn ogystal â phoeni beth fyddai'n digwydd os na fydden nhw'n gallu parhau i gynnis gofal. Fe wnaeth ffrindiau, cymdogion a'r Trydydd Sector eu helpu i osgoi argyfwng. Rhai o'r prif faterion y soniwyd amdany'n nhw ar draws y rhanbarth oedd cael digon o Gyfarpar Diogelu Personol, mynediad at feddyg teulu ac apwyntiadau meddygol, gweithdrefnau gadael yr ysbyty, a phobl yn cael eu gwahanu oddi wrth eu teulu a'u ffrindiau.

Ers dechrau'r pandemig, gwelwyd cynnydd yn nifer y gofalwyr yng Nghymru. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, erbyn Mehefin 2020, roedd 35% o bobl yn edrych ar ôl neu'n darparu cymorth a chefnogaeth ar gyfer teulu, ffrindiau neu gymdogion. Roedd hyn wedi cynyddu o 29% yn arolwg blwyddyn lawn 2019 -2020 (Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl Cymru, 2021). Casglodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ystadegau allweddol yn ymwneud â'r effaith mae pandemig y coronafeirws wedi'i gael ar ofalwyr di-dâl:

- Roedd nifer fwy o ofalwyr di-dâl na rhai nad oedd yn gofalu yn poeni am yr effaith mae pandemig y coronafeirws yn ei gael ar eu bywydau (63% o ofalwyr di-dâl o'i gymharu â 56% o rai nad oedd yn gofalu).
- Roedd gofalwyr di-dâl yn fwy tebygol o osgoi cyswllt corfforol gyda phobl eraill pan fydden nhw'r tu allan i'w cartrefi (92% o'i gymharu ag 88%).

- Nododd gofalwyr di-dâl fod y pandemig wedi effeithio ar ddigwyddiadau bywyd fel gwaith, mynediad at ofal iechyd a thriniaethau, eu hiechyd yn gyffredinol, mynediad at fwyd, meddyginiaethau a hanfodion.

10.7 Cydraddoldeb a hawliau dynol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu gofalwyr di-dâl o ran gwahaniaethu ar sail anabledd. Er enghraifft, mae unigolion sy'n gofalu am berson anabl wedi eu diogelu gan eu bod yn gysylltiedig â pherson anabl. Maen nhw hefyd wedi eu diogelu o dan y Ddeddf os ydyn nhw'n dioddef ymddygiad gwaharddedig megis erledigaeth. Gall gofalwyr hefyd wynebu anfanteision arwyddocaol ar sawl lefel oherwydd croestoriadedd (hunaniaethau cymdeithasol yn gorgyffwrdd megis statws y gofalwr, hil, rhyw a statws economaidd-gymdeithasol). Gall hyn effeithio ar hyder pobl i gael gafael ar wasanaethau lles a gall effeithio ar ganlyniadau gofalwyr a'r rhai maen nhw'n gofalu amdany nhw.

Hyd heddiw, mae yna ddisgwyliad mewn cymdeithas mai merched sy'n darparu gofal. Yng nghyfrifiad 2011 gwelwyd mai merched oedd mwyafrif y gofalwyr di-dâl – mae 57% o ofalwyr yng Nghymru yn ferched ac mae merched oedran gweithio (25 i 64) yn llawer mwy tebygol na dynion i gynnig gofal di-dâl i rywun sydd ag anabledd neu salwch, neu rywun sydd mewn oed. Dywedodd canran uwch o ofalwyr di-dâl na rhai sydd ddim yn gofalu eu bod yn anabl (32%), o'i gymharu â 23%, gyda gofalwyr di-dâl rhwng 16 a 34 oed a rhwng 45 a 54 oed yn fwy tebygol o fod yn anabl na rhai sydd ddim yn gofalu yn yr un grwpiau oedran (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021).

Wrth i'n cymdeithas heneiddio, mae nifer y bobl sy'n byw gydag anghenion cymhleth yn cynyddu. Mae'n anochel felly y bydd pobl hŷn yn gyfrifol am ofalu am berson arall. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr hŷn yn byw ar eu pen eu hunain gyda'r person maen nhw'n gofalu amdano ac mae llawer hefyd yn byw gyda chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywydau. Mae'n debyg y bydd cynnydd hefyd yn nifer y gofalwyr sy'n gofalu am y naill a'r llall wrth i gyplau hŷn ddarparu gofal a chymoth i'w gilydd.

10.8 Diogelu

Gall y straen o ofalu am rywun greu problemau diogelu ar gyfer y gofalwr a'r sawl maen nhw'n gofalu amdano. Ceir achosion pan fo gofalwyr yn cael eu cam-drin gan y person maen nhw'n cynnig gofal a chymorth ar ei gyfer, neu gan y gymuned leol maen nhw'n byw ynddi. Gall y person sy'n cael ei gefnogi hefyd fod mewn perygl o

niwed oherwydd straen ar y gofalwr, blinder, diffyg gwybodaeth, sgiliau neu gefnogaeth. Mae angen i ddarparwyr gwasanaethau asesu'n ofalus beth yw capasiti pobl i ofalu er mwyn atal peryglon rhag codi a sicrhau bod y gofalwyr yn cael eu cefnogi er mwyn cynnal eu lles eu hunain a lleihau ffactorau sy'n gosod straen emosiynol neu gorfforol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnwys diffiniad newydd o 'blentyn mewn perygl' ac 'oedolyn mewn perygl', dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i adrodd am blant ac oedolion sydd mewn perygl a dyletswyddau cynghorau lleol i wneud ymholiadau (Cyngor Gofal Cymru, 2015).

10.9 Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Yn unol â Rhan III, Adran 24 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gall Gofalwyr gael eu hasesu gan yr Awdurdod Lleol er mwyn gwerthuso'u hanghenion cymorth. Fel gyda phobl hŷn a phobl eraill sydd ag anghenion gofal a chymorth, gall gofalwyr fod yn agored i niwed o ganlyniad i amryw o amgylchiadau yn cynnwys pwysau amser a phwysau ariannol ac emosiynol. Mewn nifer o achosion, efallai mai nhw yw'r unig un sy'n darparu gofal i aelod bregus o'r teulu, sydd efallai'n dioddef gydag afiechyd, anabledd neu anawsterau dysgu.

Fel yr esboniwyd eisoes, mae diffiniad VAWDASV yn cynnwys 'Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, rheolaeth drwy orfodaeth, ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng unigolion 16 mlwydd oed a hŷn sydd yn, neu sydd wedi bod yn, bartneriaid agos neu aelodau o deulu, waeth beth fo'u rhyw neu eu rhywioldeb' (Y Swyddfa Gartref: 2016).

Mae'n bosibl hefyd y bydd rhai o'r gofalwyr eu hunain mewn perygl o gamdriniaeth ddomestig, neu hyd yn oed yn byw gyda chamdriniaeth o'r fath. Gallen nhw fod wedi goroesi camdriniaeth ddomestig yn y gorffennol, a gyflawnwyd yn eu herbyn gan eu priod, neu gallai'r rhai sy'n dibynnu ar eu gofal hefyd fod yn cam-drin y rhai sy'n gofalu amdanynt nhw'n anfwriadol, yn rhannol oherwydd salwch a gwendid.

Beth bynnag fo'r sefyllfa, mae'n hanfodol fod hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn galluogi darparwyr gofal i adnabod arwyddion a symptomau camdriniaeth ddomestig ymhlith Gofalwyr, cynnal asesiad pan fo angen a chynnig digon o ofal a chymorth er mwyn galluogi Gofalwyr i reoli eu sefyllfa'n well. Nid oes set ddata

benodol ar gael yn genedlaethol nac yn rhanbarthol sy'n edrych ar ofalwyr fel grŵp poblogaeth penodol, o ran nifer achosion o gam-drin domestig.

Gan fod llawer o ofalwyr yn gallu bod yn bobl hŷn sy'n gofalu am eu priod, ac aelodau eraill o'r teulu, gwelir rhywfaint o gynrychiolaeth o'r grŵp hwn o fewn grŵp poblogaeth pobl hŷn. Er hyn, fel gyda grwpiau poblogaeth bregus eraill, mae'n amlwg fod yna fwch sylweddol yn y data sydd angen mynd i'r afael ag ef er mwyn edrych ar faint gwirioneddol y broblem.

O ran y gwasanaethau sydd ar gael, dylai Awdurdodau Lleol gael gweithdrefnau yn eu lle i adnabod achosion o gam-drin domestig a'u cyfeirio at yr arweinydd dynodedig perthnasol ar gyfer diogelu, fel y gellir ystyried atgyfeiriad at Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC), mewn cydweithrediad â chymorth gofal sydd eisoes yn bodoli a chymorth y gallai oedolion fod yn ei dderbyn yn barod.

Gellir hefyd adnabod unigolion sydd â chyfrifoldebau gofal drwy'r cynllun Un Pwynt Mynediad a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol er mwyn helpu i benderfynu ar anghenion cymorth.

10.10 Eiriolaeth

Mae eiriolaeth yn golygu cael cefnogaeth gan unigolyn arall er mwyn eich helpu i fynegi eich safbwyntiau a'ch dymuniadau, a'ch helpu i wneud safiad dros eich hawliau. Eiriolwr yw'r enw ar rywun sy'n eich helpu fel hyn. Cynigir gwasanaethau eiriolaeth lefel isel gan wasanaethau cefnogi gofalwyr ar draws Gogledd Cymru fel bo'r angen. Byddan nhw'n cysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol, gwasanaethau arbennig, neu unrhyw asiantaethau allanol ar ran y gofalwr os nad ydyn nhw'n teimlo y gallwn nhw wneud hynny.

Mae Gwasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych wedi gweithio mewn partneriaeth â Chonwy a Wrecsam i gomisiynu gwasanaethau cefnogi ar gyfer gofalwyr ifanc ers 2013. Gofalwyr Ifanc Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych yw enw'r gwasanaeth ac mae'n cael ei ddarparu gan Ofalwyr Credu. Mae gan Credu hanes hir o ddarparu cymorth ac eiriolaeth ar gyfer gofalwyr o bob oed.

10.11 Ystyriaethau'r Gymraeg

Mae gan Ogledd Cymru fwy o siaradwyr Cymraeg na rhannau eraill o Gymru (gweler yr adran ar broffil y Gymraeg yng Ngogledd Cymru yn y data) er bod hyn yn amrywio ar draws y rhanbarth. Mae gan Ogledd Orllewin Cymru, er enghraifft, gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ac mae'n bwysig fod gofalwyr yn cael eu cefnogi drwy dderbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth yn eu dewis iaith. Mae hyn hefyd yn wir pan roddir llwyfan i glywed lleisiau'r gofalwyr.

Dylid darparu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl a Gofalwyr Ifanc yn unol ag egwyddorion y fframwaith Mwy Na Geiriau, yn benodol yn ymwneud â'r cynnig gweithredol.

10.12 Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol

Gwyddom o Gyfrifiad 2011 fod y rhan fwyaf o ofalwyr di-dâl mewn oedran gweithio a dengys arolygon ac ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan sefydliadau gofal yn y trydydd sector fod y mwyafrif ohonyn nhw'n dymuno gweithio, ond fod llawer yn methu â gwneud hynny oherwydd eu cyfrifoldebau gofal. Gall caledi ariannol hefyd effeithio'n anghyfartal ar ferched gan eu bod yn fwy tebygol o ddarparu gofal a rhoi mwy o oriau o ofal, a'r angen hefyd i gydbwyso'u gwaith neu eu cyflyrau iechyd eu hunain ar yr un pryd.

Mae adroddiad gan Oxfam yn datgan bod mwy nag un ymhob tri pherson a oedd yn gofalu'n ddi-dâl am bobl ag anghenion ychwanegol cyn y pandemig, ac a oedd yn darparu dros 20 awr o ofal bob wythnos, yn byw mewn tloidi (Gofal, Tloidi a'r Coronafeirws dros Brydain, 2020). Mae'r adroddiad yn datgan y gall gofalwyr di-dâl yn aml golli incwm gan eu bod yn gorfod gadael neu leihau eu horiau gwaith am dâl er mwyn ymgymryd â'u dyletswyddau gofal. Dengys ymchwil gan elusen Gofalwyr y DU (*State of Caring*, 2019) fod 12% o ofalwyr di-dâl wedi cymryd rôl a oedd angen llai o gymwysterau neu roedden nhw wedi gwrthod dyrchafiad yn eu gwaith. Fe wnaeth 11% o ofalwyr ymddeol yn gynnar i fod yn ofalwyr.

Dywed yr adroddiad hefyd fod 21% o ofalwyr di-dâl mewn dyled, neu wedi bod mewn dyled o ganlyniad i'w cyfrifoldebau gofalu, nid yw 8% yn gallu fforddio costau cyfleustodau ac mae 4% yn cael trafferthion gyda thaliadau eu cartrefi.

Yn ôl ymchwil gan Ysgol Economeg Llundain yn 2018, gan fod gofalwyr di-dâl yn gadael eu swyddi, roedd hyn yn costio dros £2.9 biliwn y flwyddyn i lywodraeth y DU.

Fe wnaeth yr adroddiad 'Caring for Carers' gan y *Social Market Foundation 2018* hefyd amlygu fod hyn yn broblem ac mae'n nodi fod gofalwyr mewn perygl o adael cyflogaeth am dâl pan fyddan nhw'n darparu deg awr neu fwy o ofal. Dengys ymchwil pellach fod gofalwyr sy'n darparu deg awr neu fwy o ofal wedi cynyddu o 39% i 43% rhwng 2005 a 2015.

Bwriad y Blaenoriaeth 4 newydd yn y Strategaeth i Ofalwyr Di-dâl, sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl yn y byd addysg ac yn y gweithle, yw cael effaith gadarnhaol ar ofalwyr sydd mewn oedran gweithio drwy sicrhau bod mwy o gymorth ar gael i ofalwyr yn y gweithle, a dylai lywio polisiau lleol a rhanbarthol ar gyfer gofalwyr di-dâl.

10.13 Casgliadau ac argymhellion

Yn unol â phob deddfwriaeth, polisi ac arweiniad, argymhellir y dylid bwrw ymlaen â'r argymhellion a'r blaenoriaethau canlynol er mwyn cwrdd â'r weledigaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl ar draws rhanbarth Gogledd Cymru:

- Canfod y rhai sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau gofalwyr di-dâl yn gynnar (yn cynnwys gofalwyr ifanc) fel y gellir cynnig cefnogaeth iddyn nhw cyn gynted â phosibl, a'u galluogi i gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw. Mae hyn hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth am waith gofalwyr di-dâl.
- Mae gofal seibiant yn fater allweddol i ofalwyr di-dâl. Fel rhanbarth, mae angen ffurfio cyswllt gyda'r weledigaeth newydd ar gyfer gofal seibiant a seibiannau byr yng Nghymru. Mae hyn yn hynod o wir ar gyfer plant ac oedolion sydd ag anghenion cymhleth.
- Gwella asesiadau o ofalwyr di-dâl er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y rhanbarth wrth nodi angenhion gofal a chymorth gofalwyr di-dâl, a hynny'n benodol ynghylch iechyd meddwl a lles y gofalwr di-dâl.
- Mae problemau ehangach o ran recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol yn arwain at ofynion ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Yn benodol, mae hyn yn effeithio ar gymhlethdodau gofal, a gofalwyr di-dâl yn ymdrin â chyfrifoldebau gofal sydd ag anghenion gofal uwch.
- Mae cynhwysiant digidol hefyd yn faes allweddol, gan fod nifer o wasanaethau wedi symud ar-lein ac mae hyn wedi effeithio ar grwpiau sydd wedi eu heithrio'n ddigidol, yn cynnwys gofalwyr di-dâl.

11. Cyn-filwyr

Diffinnir cyn-filwr fel rhywun sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi (Arferol neu Wrth Gefn) neu'r Llynges Fasnachol, sydd wedi gweld dyletswydd ar weithrediadau milwrol cyfreithiol diffiniedig (Gwefan y Weinyddiaeth Amddiffyn, 2019).

Ychydig iawn o ddata sydd ar gael i roi trosolwg cywir o'r grŵp poblogaeth penodol hwn o fewn Gogledd Cymru, mae hyn yn wir nid yn unig ar gyfer Gogledd Cymru, ond ar gyfer Cymru gyfan ac yn fwy eang y DU. Fodd bynnag, amcangyfrifir mai poblogaeth cyn-filwyr, 16 oed a throsodd, ar gyfer Gogledd Cymru yw 39,110 (Anghenion Iechyd a Lles Cyn-Filwyr y Lluoedd Arfog, Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda ac Iechyd Cyhoeddus Cymru 2020). Roedd Cyfrifiad 2021 yn cynnwys cwestiwn mewn perthynas â chyn-filwyr, unwaith i ddata cyfrifiad 2021 gael ei gyhoeddi, dylai hyn ddarparu darlun mwy eglur o'r boblogaeth.

Mae'r Adran Iechyd (2008) wedi rhagweld yn gyffredinol fod iechyd a lles cyn-filwyr yn eithaf tebyg i rai'r boblogaeth sifil. Fodd bynnag, o ganlyniad i'w galwedigaeth, mae gwahaniaethau yn digwydd o ganlyniad i anafiadau galwedigaethol ac effaith seicolegol ymfyddino.

Mae asesiad llawn o anghenion cyn-filwyr wedi'i gynnwys o fewn Anghenion Iechyd a Lles Cyn-Filwyr y Lluoedd Arfog a gyhoeddwyd gan Hywel Dda ac Iechyd Cyhoeddus Cymru 2020.

12. Ffoaduriaid a Cheiswyr

Lloches

Mae ystadegau'r Swyddfa Gartref yn nodi bod oddeutu 2,300 o geiswyr lloches yng Nghymru. Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru'n amcangyfrif bod oddeutu 10,000 o ffoaduriaid yng Nghymru. Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cynrychioli oddeutu 0.5% o'r boblogaeth yng Nghymru.

Rhwng 2017 a 2021, mae 241 o geiswyr lloches wedi cael eu hadsefydlu ar draws awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Yng Ngogledd Cymru, mae canolfannau lleoli yn Wrecsam a Chonwy. Cymerodd bob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ran yn Rhaglen Adsefydlu Unigolion Agored i Niwed o Syria y Swyddfa Gartref, gyda phob awdurdod yn ymrwmo i gefnogi nifer penodol o deuluoedd neu unigolion. Er bod y rhaglen honno wedi dod i ben, mae rhai awdurdodau lleol hefyd wedi cofrestru ar gyfer Cynllun Adsefydlu newydd y DU. Mae pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru hefyd wedi ymrwmo i gefnogi Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Unigolion o Affganistan y Swyddfa Gartref. Mae cynlluniau eraill a gaiff eu cefnogi, megis y Rhaglen Adsefydlu Unigolion Agored i Niwed o Syria.

Mae Wrecsam wedi bod yn ardal leoli ar gyfer ceiswyr lloches am oddeutu 20 mlynedd. Tan yn ddiweddar, roedd hon yn un o ddim ond pedair ardal leoli, ond mae ardaloedd newydd wedi ymuno yn ddiweddar. Yng Ngogledd Cymru, mae Conwy bellach yn ardal lleoli ceiswyr lloches hefyd.

Yn sgil y niferoedd bychan, mae'r ystadegau a gyhoeddwyd ar gyfer plant sy'n ceisio lloches ar eu pennau eu hunain yn gyfyngedig ar gyfer Gogledd Cymru. Disgwylir y bydd nifer fechan yn cael eu dyrannu i Ogledd Cymru oherwydd polisi adleoli'r Swyddfa Gartref. Bydd angen gwasanaethau i gefnogi eu hanghenion. Yn aml, ychydig iawn a wyddom am eu hanghenion iechyd a lles pan fyddant yn cyrraedd.

Mae ceiswyr lloches mewn llety lleoli'n derbyn cefnogaeth uniongyrchol gan wasanaethau a gomisiynir gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, megis Clearsprings Ready Homes, Migrant Help a Chyngor Ffoaduriaid Cymru. Fodd bynnag, mae ystod eang o bartneriaid yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth ychwanegol i geiswyr lloches a ffoaduriaid, gan gynnwys y bwrdd iechyd, sefydliadau trydydd sector eraill, adrannau amrywiol o fewn y cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Mater allweddol a nodwyd ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid yw'r angen am gefnogaeth iechyd meddwl gwell. Cydnabyddir yn eang bod gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches a rhai mewnfudwyr anghenion iechyd meddwl sylweddol nad ydynt yn cael eu bodloni. Bydd gwaith i ymgysylltu â'r rheiny â phrofiad bywyd yn cael ei ystyried ymhellach unwaith y bydd y Cynllun Ardal rhanbarthol wedi cael ei ddatblygu yn 2023.



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**
NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Aseiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru

Ebrill 2022 Drafft



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL



Cyngor
denbighshire
County Council



CYNGOR
Sir y Fflint
Flintshire
COUNTY COUNCIL



wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Atodiad 1 - Cyfeiriadau

Cynnwys

1.	Y Dull o Ymdrin â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.....	4
2.	Trosolwg Gogledd Cymru	5
3.	Plant a Phobl Ifanc.....	5
4.	Pobl Hŷn	7
5.	Iechyd, Anableddau Corfforol a Nam ar y Synhwyrâu.....	10
6.	Anableddau Dysgu.....	11
7.	Awtistiaeth.....	12
8.	Iechyd Meddwl (Oedolion)	13
9.	Gofalwyr Di-dâl.....	15
10.	Cyn-filwyr.....	Error! Bookmark not defined.

2. Y dull o ymdrin â'r asesiad o anghenion y boblogaeth

Datganiad Ysgrifenedig: Cryfhau gwasanaethau Cymraeg yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, Hydref 2021, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cryfhau-gwasanaethau-cymraeg-yn-y-maes-iechyd-gofal-cymdeithasol-0>

Cymru Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, Llywodraeth Cymru 2021

<https://llyw.cymru/cymru-fwy-cyfartal-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol>

Prosiect Deall Materion Diogelu Oedolion yng nghyd-destun COVID-19, Cymdeithas Llywodraeth Leol Rhagfyr 2021

<https://www.local.gov.uk/publications/covid-19-adult-safeguarding-insight-project-findings-and-discussion>

A Telling Experience: Deall effaith Covid-19 ar bobl sy'n cael gofal a chymorth – adolygiad cyflym o dystiolaeth gydag argymhellion

<https://www.thinklocalactpersonal.org.uk/covid-19/tlap-insight-group/TIG-report/>

Amlygu'r Materion: Anghydraddoldeb a'r pandemig, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru, Awst 2020

Canolfannau Covid yng Ngogledd Cymru yn cynnig cymorth i'r rhai sydd wedi'u taro waethaf, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/canolfannau-covid-yng-ngogledd-cymru-yn-cynnig-cymorth-ir-rhai-sydd-wediu-taro-waethaf>

3. Trosolwg Gogledd Cymru

Ystadegau Cryno fesul rhanbarth yng Nghymru 2020, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020>

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

<https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018>

Llesiant Cymru 2021, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/llesiant-cymru-2021>

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru, StatsCymru, 2019

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation>

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2020 – 2021, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

<https://bipbc.gig.cymru/use-of-site/cynllun-cyhoeddi/class-five-our-policies-and-procedures/cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/adroddiadau-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol/>

Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ardaloedd Lleol yng Ngogledd Cymru 2021, Tîm Trawsnewid Cymunedau, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Arolwg Cenedlaethol Cymru (Data Unigrwydd a themlo'n ynysig)

<https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru>

4. Plant a phobl ifanc

Asesiad o Anghenion Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ardaloedd Lleol, Gogledd Cymru, Dr Ellie Messham, Cofrestrydd Arbenigol, Tîm Iechyd Cyhoeddus Betsi Cadwaladr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol, 2021

Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2020, [Ysmygu yng Nghymru \(2020\) - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](#)

Adolygiad Cyflym Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru, 2020, Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru <https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/adolygiad-cyflym/>

Harold, G., Acquah, D., Sellers, R. a Chowdry, H. (2016) *What works to enhance inter-parental relationships and improve outcomes for children*. Prifysgol Sussex: Early Intervention Foundation. [Ar-lein]. Ar gael yma:

<https://www.eif.org.uk/report/what-works-to-enhance-interparental-relationships-and-improve-outcomes-for-children>

Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, (2010). *No health without public mental health, the case for action*. Coleg Brenhinol y Seiciatryddion: Llundain. 2010.

Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2019

<https://www.cardiff.ac.uk/cy/news/view/2509156-fifth-of-young-people-in-wales-were-experiencing-poor-mental-health-prior-to-covid-19,-report-shows>

Adroddiad Lles Meddyliol Plant a Phobl Ifanc yn ystod pandemig Covid-19 2021, Iechyd Cyhoeddus Cymru

<https://phw.nhs.wales/news/coping-strategies-made-a-difference-to-young-peoples-mental-well-being-during-pandemic/>

Iechyd meddwl, pobl ifanc a'r pandemig, Ymchwil y Senedd, 2020

<https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/iechyd-meddwl-pobl-ifanc-a-r-pandemig/>

Adroddiad Blynyddol Canolfan Gymorth ar gyfer Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod 2020-2021

Asesiad o Anghenion Iechyd: Effaith COVID-19 ar brofiadau plant a phobl ifanc o drais a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, Adroddiad Uned Atal Trais, 2021

Dim Drws Anghywir: dod â gwasanaethau ynghyd i ddiwallu anghenion plant, Comisiynydd Plant Cymru, Mehefin 2020

<https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/dim-drws-anghywir-dod-a-gwasanaethau-yng-hyd-i-ddiwallu-anghenion-plant/>

Yr Argyfwng Iechyd Meddwl: Sut mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar ein hiechyd meddwl? Mehefin 2020, Mind Cymru

Coronafeirws a Fi, Comisiynydd Plant Cymru, 2020

<https://www.complantcymru.org.uk/coronafeirws-ein-gwaith/coronafeirws-a-fi-canlyniadau/>

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

<https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018>

5. Pobl hŷn

Cymru o blaid pobl hŷn: Ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio, Llywodraeth Cymru, 2021

<https://llyw.cymru/cymru-o-blaid-pobl-hyn-ein-strategaeth-ar-gyfer-cymdeithas-syn-heneiddio>

Amcangyfrifon disgwyliad oes ar gyfer pob oedran, Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2021

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/datasets/lifeexpectancyestimatesallagesuk>

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2016) 'Uwchben a Thu Hwnt: Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref' 2016

<http://cssiw.org.uk/docs/cssiw/report/161027aboveandbeyonden.pdf>

Mesur anghydraddoldebau disgwyliad oes yng Ngogledd Cymru, Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd 2016

<https://phw.nhs.wales/services-and-teams/observatory/data-and-analysis/measuring-inequalities-2016/>

Heneiddio'n Dda yng Nghymru - Cynllun Atal Codymau

<https://www.ageingwellinwales.com/cy/themes/falls-prevention>

Cynhwysiant Digidol, Cymunedau Digidol Cymru

<https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/cynhwysiant-digidol-ym-maes-iechyd-a-gofal/>

<https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/cynhwysiant-digidol-ym-maes-iechyd-a-gofal/>

Cynhwysiant Digidol yn y Pandemig, Age UK 2021

<https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-uk/documents/reports-and-publications/reports-and-briefings/active-communities/digital-inclusion-in-the-pandemic-final-march-2021.pdf>

Victor, C. (2011). Loneliness in old age: the UK perspective.

Valtorta, N.K., Kanaan, M., Gilbody, S., Ronzi, S. a Hanratty, B., 2016.

<http://www.ageingwellinwales.com/Libraries/Documents/Promising-Approaches-to-Reducing-Loneliness-and-Isolation-in-Later-Life.pdf>

Strategaeth Dementia Gogledd Cymru 2020,

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/blaenoriaethau-rhanbarthol/strategaeth-dementia-gogledd-cymru/>

Cymdeithas Alzheimer's, *About Dementia*, 2019

<https://www.alzheimers.org.uk/about-dementia>

Atal dementia - Cyf Iechyd Cyhoeddus Lloegr [2017], Effaith ffactorau risg canol oed ar ddementia mewn oedrannau hŷn; negeseuon allweddol. Cyhoeddiadau Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Llundain, Y DU

Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018 – 2022, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-dementia-2018-i-2022>

Gadael Neb Ar Ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn, 2020, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

https://www.olderpeoplewales.com/cy/news/news/20-08-18/Leave_no-one_behind_Action_for_an_age-friendly_recovery.aspx

Fframwaith ar gyfer gwasanaethau a chymorth sydd o blaid pobl hŷn yn oes Covid-19, Hoffman, Webster a Bynum, 2020

<https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/32441572/>

Effaith pandemig Covid-19 ar iechyd meddwl yr henoed, Banerjee, 2020

<https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1002/gps.5320>

Arwahanrwydd cymdeithasol, unigrwydd ac iechyd yn oes Covid, Campbell, 2020

The Centre for Better Ageing, Cynhwysiant Digidol

<https://ageing-better.org.uk/digital-inclusion>

Gweithredu yn Erbyn Gwahaniaethu ar sail Oedran, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2019

<https://www.olderpeoplewales.com/cy/ageism/action.aspx>

Gwasanaethau Cynnal ar gyfer Pobl Hŷn sy'n cael eu Cam-Drin yng Nghymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, 2021

https://www.olderpeoplewales.com/cy/Publications/pub-story/21-06-15/More_tailored_support_services_needed_to_ensure_older_people_being_abused_can_get_the_help_and_support_they_need.aspx

Tlodi Incwm Cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebryll-2019-i-fawrth-2020-html>

Cefnogi Comisiynwyr a Chaffaelwyr Gofal i Hyrwyddo Modelau Darparu "Gwerth Cymdeithasol", Prosiect Canolfan Cydweithredol Cymru

<https://wales.coop/wp-content/uploads/2021/10/WCC-Think-Piece-Soical-Value-0621.pdf>

Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol: Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

<https://www.olderpeoplewales.com/cy/Publications/digitalguidance.aspx>

Amlygu'r Materion: Anghydraddoldeb a'r pandemig, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru, Awst 2020

6. Iechyd, anabledau corfforol a nam ar y synhwyrau

Scope UK, Ffeithiau a Ffigyrau am Anabledau, casglwyd 2021

<https://www.scope.org.uk/media/disability-facts-figures/>

Pobl Anabl mewn Oedran Gweithio, StatsCymru, casglwyd 2021

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Disability/DisabledPeopleOfWorkingAge-by-MainHealthProblem-LocalAuthority>

Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19, 2021, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/drws-ar-glo-datgloi-bywydau-hawliau-pobl-anabl-yng-nghymru-ar-ol-covid-19>

Pa mor gyffredin yw nam ar y clyw? Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal, 2019

<https://cks.nice.org.uk/topics/hearing-loss-in-adults/background-information/prevalence/>

Iechyd meddwl cyffredin mewn pobl sydd â nam ar y synhwyrau: canlyniadau o arolwg morbidrwydd seiciatrig ymhlith oedolion 2014, N. Shoham et al, 2019

<https://pubmed.ncbi.nlm.nih.gov/31685070/>

Deall anabledau ac amhariadau, cyhoeddiad Llywodraeth y DU, 2017

<https://www.gov.uk/government/publications/understanding-disabilities-and-impairments-user-profiles/saleem-profoundly-deaf-user>

Conceptual Model of Hearing Health Inequalities: Critical Interpretive Synthesis,
Tsimpida et al, 2021

<https://journals.sagepub.com/doi/full/10.1177/23312165211002963>

Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020

<https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebryll-2019-i-fawrth-2020-html>

7. Anabledau dysgu

Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Adroddiad Cryno Ystadegau NCARDRS 2018 (wedi'i ddiweddarau yn 2020)

<https://www.gov.uk/government/publications/ncardrs-congenital-anomaly-annual-data/ncardrs-statistics-2018-summary-report>

Anabledau dysgu a dementia, Dementia UK

<https://www.dementiauk.org/get-support/maintaining-health-in-dementia/learning-disability-and-dementia/>

Adolygiad Cyflym Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru, 2020,
Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/adolygiad-cyflym/>

Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19,
2021, Llywodraeth Cymru

<https://gov.wales/locked-out-liberating-disabled-peoples-lives-and-rights-wales-beyond-covid-19>

Blair, *British Journal of Family Medicine* 2015 –

<https://www.bjfm.co.uk/blog/common-health-problems-of-people-with-learning-disabilities>

Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru 2018, Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru/asesiad-poblogaeth-gogledd-cymru-2017/>

Effaith Covid-19 ar bobl gydag anableddau dysgu (Gwybodaeth wedi'i chasglu gan Dîm Trawsnewid Anableddau Gogledd Cymru)

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/engagement/effaith-covid-19-ar-bobl-gydag-anableddau-dysgu/>

A yw Cymru'n Decach? Cyflwr Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Anghydraddoldebau Iechyd a Phobl gydag Anableddau Dysgu yn y DU: 2012 Eric Emerson, Susannah Baines, Lindsay Allerton a Vicki Welch

Amlygu'r Materion: Anghydraddoldeb a'r pandemig, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru, Awst 2020

Model Cymdeithasol o Anabledd, Sefydliad ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu

<https://www.learningdisabilities.org.uk/learning-disabilities/a-to-z/s/social-model-disability>

'I Know it was Every Week, but I Can't be Sure if it was Every Day': Trais Domestig a Merched gydag Anableddau Dysgu: Wiley Journal of Applied Research in Intellectual Disabilities

8. Awtistiaeth

Left Stranded – Adroddiad i effaith y coronafeirws, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, 2020

<https://www.autism.org.uk/what-we-do/news/coronavirus-report>

Effaith pandemig COVID ar oedolion ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth, eu gofalwyr yn y teulu a pha wasanaethau sy'n cael eu darparu, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, 2021

<https://www.adass.org.uk/covid-learning-disabilities-autism-carers-impact>

Gofal Iechyd i Ferched ar gyfer Pobl ag Awtistiaeth ac Anableddau Dysgu

<https://livingautism.com/womens-health-care-people-autism-learning-disabilities/>

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, Canlyniadau ar gyfer Pobl Anabl yn y DU, ONS, 2020

<https://www.autism.org.uk/what-we-do/news/new-data-on-the-autism-employment-gap>

Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19, 2021, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/drws-ar-glo-datgloi-bywydau-hawliau-pobl-anabl-yng-nghymru-ar-ol-covid-19>

Bwlch Swyddi i bobl ag Awtistiaeth, Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth, 2021

<https://www.autism.org.uk/what-we-do/news/new-data-on-the-autism-employment-gap>

9. Iechyd meddwl (oedolion)

Optimal Mental Wellbeing, Tudor, K. 1996: Mental Health Promotion Paradigms and Practice Routledge, London

Asesiad o'r Effaith ar Les Meddyliol: *Cydweithredfa Genedlaethol MWIA* (Lloegr) Mai 2011

[Pum Ffordd at Les - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr \(gig.cymru\)](http://gig.cymru)

Gwasanaeth MI FEDRAF BIPBC <https://bcuhb.nhs.wales/news/health-board-news/life-changing-i-can-mental-health-support-service-to-be-extended/>

Cynllun Cyflawni ar gyfer Iechyd Meddwl 2019 – 2022, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/cynllun-cyflawni-ar-gyfer-iechyd-meddwl-2019-i-2022>

Argyfwng Iechyd Meddwl: Sut mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar ein hiechyd meddwl? Mind, Mehefin 2020

Cymru sy'n iach yn Feddyliol, 2021, Ymchwil y Senedd

<https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/cymru-sy-n-iach-yn-feddyliol/>

Drws ar glo: datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19, 2021, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/drws-ar-glo-datgloi-bywydau-hawliau-pobl-anabl-yng-nghymru-ar-ol-covid-19>

Hil ac Iechyd Meddwl – *Tipping the Scale*, Mind, 2019

<https://www.mind.org.uk/about-us/our-policy-work/mental-health-act-review/independent-review-of-the-mental-health-act-faqs/mental-health-act-blog-series/race-and-mental-health-tipping-the-scale/>

Nam corfforol ac iechyd meddwl, The Kings Fund, 2020

<https://www.kingsfund.org.uk/projects/time-think-differently/trends-disease-and-disability-mental-physical-health>

Walby, S. (2004). *The Cost of Domestic Violence. Research Summary: Women & Equality Unit*

Howard, L.M., Trevillion, K., Khalifeh, H., Woodall, A., Agnew Davies, R., & Feder, G. (2009): *Domestic violence and severe psychiatric disorders: Prevalence and interventions. Psychological Medicine*, 40(6), 881–893.

Mind a'r Gymraeg, Mind

<https://www.mind.org.uk/cy/ein-cynnig-cymraeg/>

Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau, Llywodraeth Cymru, 2021

<https://llyw.cymru/adolygiad-o-dystiolaeth-am-anfantais-economaidd-gymdeithasol-ac-anghydraddoldebau-canlyniadau-html>

Swyddfa Ystadegau Gwladol – Hunanladdiad, 2020

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/suicidesintheunitedkingdom/2020registrations>

Jones, C., Andrew, R. ac Atenstaedt, R. (2016) '*Population Health Profile of North Wales, to support needs assessment for Social Services and Wellbeing Act and wellbeing assessment for Future Generations Act*'. Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016a) 'Gwneud gwahaniaeth: Buddsoddi mewn iechyd a lles cynaliadwy ar gyfer pobl Cymru'.

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016b) 'Mesur anghydraddoldebau 2016'. Ar gael yma <http://www.publichealthwalesobservatory.org/inequalities2016> (Casglwyd: 8 Awst 2016).

10. Gofalwyr di-dâl

Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru 2018, Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru

<https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/gofalwyr/>

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-Dâl 2021, Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-gofalwyr-di-dal-html>

Data Gofalwyr Cymru

<https://www.carersuk.org/wales/about-us>

Gofalwyr Cymru – Straen Corfforol a Meddyliol yn sgil dyletswyddau gofal

<https://www.carersuk.org/wales/news-campaigns/news/the-physical-and-mental-strain-of-caring-jeopardising-unpaid-carers-ability-to-care-in-the-future-in-wales>

Gweledigaeth Newydd ar gyfer Seibiannau a Gwyliau Byr yng Nghymru, Ymddiriedolaeth y Gofalwyr

<https://carers.org/policy-and-influence/a-new-vision-for-respite-and-short-breaks-in-wales->

Canlyniadau Arolwg Ymddiriedolaeth y Gofalwyr, Effaith y Coronafeirws ar ofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc, Gorffennaf 2020

<https://carers.org/what-we-do/our-survey-on-the-impact-of-coronavirus-on-young-carers-and-young-adult-carers->

Becker, S., Dearden, C. ac Aldridge, J. (2000) 'Young carers in the UK: research, policy and practice', *Research, Policy and Planning*, 8(2), tt. 13-22.

Coronafeirws a'r Effaith Gymdeithasol ar Ofalwyr Di-dâl yng ngwledydd Prydain, Ebrill 2021, ONS

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/socialcare/articles/coronavirusandthesocialimpactsonunpaidcarersingreatbritain/april2021>

Gofal, Tlodi a'r Coronafeirws ar draws Prydain, 2020, Oxfam

<https://policy-practice.oxfam.org/resources/care-poverty-and-coronavirus-across-britain-620980/>

Adroddiad Cyflwr Gofal, 2019, Gofalwyr y DU

<https://www.carersuk.org/news-and-campaigns/news-rss/6161-state-of-caring-report-2019>

Gofalu am Ofalwyr, 2018, Sefydliad y Farchnad Gymdeithasol

<https://www.smf.co.uk/publications/caring-for-carers/>

Atodiad 2: Map o dystiolaeth a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer atal ac ymyrryd yn fuan yng Ngogledd Cymru (gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant)

Pwrpas: Pwrpas y map hwn yw helpu i lunio'r asesiad o anghenion y boblogaeth yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'n ddiweddariad o'r map o dystiolaeth a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth a gynhyrchwyd yn wreiddiol yn 2016. Bydd y map o gymorth wrth ddatblygu fframwaith o swyddogaethau craidd a fydd yn cyfrannu at ohirio neu atal yr angen am ofal a reolir. Er bod y map wedi'i gynhyrchu mewn ymateb i gais gan Dîm Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), gall fod o ddiddordeb hefyd i dimau iechyd y cyhoedd lleol eraill ledled Cymru.

Dull: Datblygwyd y map hwn (y ffynonellau) drwy wneud chwiliadau am lenyddiaeth er mwyn dod o hyd i ffynonellau lefel uchel fel adolygiadau systematig cyhoeddedig neu gyfosodiadau/datganiadau/canllawiau tystiolaeth o ffynonellau cydnabyddedig (er enghraifft, cyrff arbenigol) sy'n darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr ymyriadau a nodwyd. Lle nad oedd adolygiadau systematig diweddar ar gael, mae astudiaethau cynradd wedi'u cynnwys. Cynhwyswyd rhai cyhoeddiadau ac adroddiadau cynhadledd o'r sector gwirfoddol sy'n berthnasol iawn i'r ymyriad a/neu yn gymwysadwy i Gymru. Dylid nodi bod yr adroddiadau hyn yn adlewyrchu barn yr awduron ac nad ydynt wedi bod yn destun adolygiad gan gymheiriaid. Mae'r map hwn yn ddiweddariad o chwiliad cychwynol a gynhaliwyd yn 2016.

Nodyn ar ddehongli/defnyddio ffynonellau: Bydd y rhan fwyaf o'r ffynonellau wedi ystyried effeithiolrwydd yr ymyriad dan sylw. Fodd bynnag, dylid edrych ym mhob ffynhonnell am fanylion y boblogaeth a'r canlyniadau penodol a ystyriwyd. Mae mapiau tystiolaeth yn cynnig strwythur hwylus i gael at dystiolaeth, yn enwedig lle mae nifer mawr o ffynonellau eilaidd dibynadwy ar bwnc penodol. Nid yw'r ffynonellau sydd yn y map hwn wedi'u dewis ar sail adolygiad o dystiolaeth sy'n dilyn egwyddorion adolygu systematig a methodoleg benodol, a nodwyd ar sail ddamcaniaethol mewn protocol, sy'n dryloyw, yn ailadroddadwy ac yn ceisio lleihau tuedd. Felly ni ddylid ystyried bod y ffynonellau hyn yn darparu cyfosodiad gwrthrychol, dibynadwy o'r holl dystiolaeth sydd ar gael. Ni wnaed arfarniad beirniadol o'r ffynonellau sydd wedi'u cynnwys; fel arfer, byddai adolygiadau systematig neu adolygiadau o dystiolaeth ar sail egwyddorion adolygu systematig yn cynnwys arfarniad beirniadol

o'u ffynonellau cynradd ond, lle mae ffynonellau eraill ar gael, nid yw'r rhain wedi'u gwirio am eu dibynadwyedd. Mae ffynonellau cynradd yn ogystal â rhai eilaidd wedi'u cynnwys. Nodwyd unrhyw gyfyngiadau sydd yn yr astudiaethau ac yng nghynllun yr astudiaethau eu hunain lle'r oedd y rhain wedi'u canfod.

Diolchiadau: Mae'r map hwn yn ddiweddariad o fap o dystiolaeth a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth a luniwyd yn 2016. Mae unrhyw ymyriadau ychwanegol sydd yn y map tystiolaeth hwn (2021) wedi'u cynnwys drwy ymgynghori ag aelodau Grŵp Llywio PNA / MSR Gogledd Cymru. Cydnabyddir y rhan a gymerwyd gan y Grŵp Llywio, Alwen Salisbury, Siwan Jones a'r Athro Robert Atenstaedt yn Nhîm Iechyd y Cyhoedd BIPBC wrth gynhyrchu'r map hwn.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Eiriolaeth Tud. 361	Petri, G. et al. (2020). <i>Redefining Self-Advocacy: A Practice Theory-Based Approach</i> . <i>Journal of Policy and Practice in Intellectual Disabilities</i> . Volume 17, Issue 3. DOI: 10.1111/jppi.12343. Ar gael yma	<p>Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar "ddamcaniaeth ymarfer" drwy ddadansoddi cyfweiliadau ag eiriolwyr a hunaneiriolwyr yn y mudiadau eiriolaeth awtistiaeth ac anabledd deallusol. Astudiaeth ansoddol, empeiraidd yw hon wedi'i seilio ar gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda 43 o gyfranogwyr mewn dwy wlad (y DU a Hwngari). Casglwyd y data yn 2016–17. Defnyddiwyd dull dadansoddi cynnwys i adnabod themâu.</p> <p>Mae data yn dangos bod arferion pob dydd hunaneiriolwyr ac eiriolwyr, fel rhiant-eiriolwyr ac eiriolwyr proffesiynol, yn gorgyffwrdd i raddau helaeth. Mae pum prif fath o ymarfer a gyflawnir gan bron pob un eiriolwr: "hysbysu a chael ei hysbysu," "defnyddio cyfryngau," "cefnogi ei gilydd," "codi llais," a "dyletswyddau biwrocraidd." Yn groes i nifer o astudiaethau blaenorol ar hunaneiriolaeth a bwysleisiai mai "codi llais" oedd y prif weithgarwch mewn eiriolaeth, cafodd yr astudiaeth hon fod y rhan fwyaf o arferion eiriolwyr a hunaneiriolwyr yn arferion "para-eirioli" a all arwain neu beidio ag arwain yn uniongyrchol at</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<p>“godi llais.” Yn aml, bydd arferion hunaneiriolwyr yn rhan annatod o weithgareddau pob dydd eraill a gyflawnir gan bobl.</p> <p>Dylid nodi mai astudiaeth ansoddol yw hon, cynllun sy'n edrych ar gredoau, profiadau ac ymagweddau a gall fod yn fuddiol o ran creu damcaniaethau, yn hytrach nag asesu effeithiolrwydd ymyriadau.</p>
Tud. 362	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (Yn cael ei ddatblygu. Dyddiad cyhoeddi disgwylidig: 26 Gorffennaf 2022). <i>Advocacy services for adults with health and social care needs. Yn cael ei ddatblygu</i> [GID-NG10156]. London: NICE.</p> <p>Dyddiad cyhoeddi disgwylidig: 26 Gorffennaf 2022</p>	<p>Dyddiad cyhoeddi disgwylidig: 26 Gorffennaf 2022</p>
Tai fforddiadwy / cymdeithasol	<p>Chambers D et al. (2018). <i>Housing for vulnerable people. Systematic review of the evidence for 'housing vulnerable' adults and its relationship</i></p>	<p>Mae'r adolygiad systematig hwn yn ceisio ymateb i'r diffyg tystiolaeth ar lefel adolygiadau am yr effaith o ymyriadau tai ar les pobl sy'n agored i wahaniaethu neu allgáu mewn perthynas â thai.</p> <p>Prif ganfyddiadau:</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 363	<p><i>to wellbeing</i>. London. What Works Centre for Wellbeing. Ar gael yma</p>	<p>Mae Tai yn Gyntaf yn darparu mynediad at dai ar unwaith heb osod rhagamodau, gyda chymorth gan dimau teithiol neu wasanaethau ar y safle. Gwerthuswyd Tai yn Gyntaf yn y DU, mewn hap-dreial mawr yng Nghanada (AH/CS), yn UDA ac mewn mannau eraill. Ar sail canfyddiadau'r awduron, mae tystiolaeth gryf bod Tai yn Gyntaf yn gallu gwella sefydlogrwydd o ran tai a mesurau o iechyd corfforol yn y tymor byr.</p> <p>Nodwyd bod ansawdd y dystiolaeth ar lefel gymedrol ar gyfer effeithiau cadarnhaol ar les personol, iechyd meddwl a lles cysylltiedig ag ardal leol ('lle rydyn ni'n byw') ac ar gyfer diffyg effaith ar gyllid personol a lles cymunedol.</p> <p>Barnwyd bod cryfder y dystiolaeth dros ganlyniadau eraill yn isel neu'n isel iawn. Roedd ymchwil wedi dangos nifer o wahanol ffactorau a all ddylanwadu ar effeithiolrwydd Tai yn Gyntaf, yn cynnwys cydymffurfiaeth â'r elfennau craidd ac a yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn un man neu a yw'r defnyddwyr gwasanaethau ar wasgar mewn fflatiau ar wahân.</p>
	<p>Sefydliad Joseph Rowntree. (2021). <i>We can't allow renters to be locked out of our post-pandemic recovery</i>. York: JRF. Ar gael yma.</p>	<p>Mae'r papur briffio hwn gan Sefydliad Joseph Rowntree yn trafod yr anawsterau a wynebir o hyd gan rentwyr a theuluoedd incwm isel yn dilyn y pandemig. Mae ei ymchwil yn dangos bod 1.7 miliwn o deuluoedd sy'n rhentu tai yn poeni ynghylch talu eu rhent, a bod bron 1 miliwn o deuluoedd sy'n rhentu tai yn poeni am gael eu troi allan ar ôl y pandemig. Profir mwy o anawsterau ar gyfartaledd</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 364		<p>gan rentwyr Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig, rhentwyr â phlant, rhentwyr ar incwm is, a rhentwyr sydd wedi colli incwm yn ystod y pandemig.</p> <p><u>Rhai o brif argymhellion yr adroddiad yw:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu cymorth ar unwaith i rentwyr sydd mewn ôl-ddyled yn Lloegr drwy ddarparu mwy o gyllid ar gyfer Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, a diwygio'r ffordd o'u gweinyddu. • Diogelu pobl rhag niwed: ailgysoni cyfraddau Lwfans Tai Lleol â rhenti lleol a pheidio â thynnu'r ychwanegiad o £20 yr wythnos o Gredyd Cynhwysol (a ddaeth i ben yn Hydref 2021). Rhaid i'r Llywodraeth sicrhau hefyd na fydd pobl sy'n parhau i dderbyn budd-daliadau 'etifeddol', nifer ohonynt yn bobl anabl neu'n ofalwyr, yn cael eu cau allan bellach rhag cael yr ychwanegiad hanfodol hwn mewn cymorth. • Codi mwy o dai rhent cymdeithasol. <p>Dylid nodi mai adroddiad a gomisiynwyd gan elusen yw hwn. Nid yw wedi bod yn destun adolygiad gan gymheiriaid ac ni ystyriwyd y posibilrwydd o duedd.</p>
	<p>Smith, B. (2019). <i>Delivering Affordable Housing in Wales in Challenging Times</i>. Welsh Policy and Politics in Unprecedented Times. Cynhadledd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru/WISERD. 24 Mai 2019: Abertawe. Ar gael yma.</p>	<p>Rhodddwyd y cyflwyniad cynhadledd hwn gan Bob Smith, Uwch Gymrawd Ymchwil Mygedol, Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio, Prifysgol Caerdydd. Fe'i rhodddwyd yng Nghynhadledd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru /WISERD ym Mai 2019. Mae'r cyflwyniad yn tynnu sylw at faterion allweddol o ran fforddiadwyedd tai yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys: problemau o ganlyniad i'r gymhareb gynyddol rhwng prisiau tai ac enillion; y galw amrywiol mewn</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 365		<p>gwahanol ardaloedd; newidiadau hirdymor yn naliadaethau tai; cynnydd mewn rhenti a materion eraill.</p> <p>Mae'r cyflwyniad yn ymdrin â rhai ymatebion polisi yng Nghymru, fel Bond Tai Cymru a'r cynllun Cymorth i Brynu.</p> <p>Mae'r cyflwyniad yn cynnwys argymhellion allweddol ar gyfer adolygiad annibynnol o'r cyflenwad o dai fforddiadwy. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu polisi rhent sector cymdeithasol (2020-21 ymlaen) • Gwell dealltwriaeth o anghenion tai (ar wahanol raddfeydd gofodol) • Cydgrynhoi/symleiddio safonau ar gyfer yr holl dai fforddiadwy a adeiledir o'r newydd. <p>Dylid nodi mai anerchiad mewn cynhadledd yw hwn, a allai gael ei ystyried yn farn arbenigol, yn hytrach nag adolygiad systematig yn rhoi prawf ar ymyriadau, lle byddai tystiolaeth yn cael ei graddio.</p>
<p>Grwpiau cymorth a grwpiau cymdeithasol ar gyfer heneiddio'n dda</p> <p>(Yn cynnwys tystiolaeth</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2015). <i>Older people independence and mental wellbeing</i>. NG32. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd 2018).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn un ar gyfer awdurdodau lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol ac ar gyfer y GIG a darparwyd gwasanaethau eraill sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys pobl hŷn. Mae'n ymdrin ag ymyriadau i gynnal a gwella lles meddyliol ac annibyniaeth pobl 65 oed neu'n hŷn a sut i adnabod y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 366</p> <p>ynghylch Dementia)</p>		<p>Mae'r canllaw yn cynnwys argymhellion ynghylch egwyddorion arfer da; gweithgareddau seiliedig ar grŵp; gweithgareddau un-i-un; gwirfoddoli ac adnabod y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2015). <i>Dementia, disability and frailty in later life – mid-life approaches to delay or prevent onset</i>. NG16. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn un ar gyfer comisiynwyr, rheolwyr ac ymarferwyr sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys iechyd y cyhoedd, sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, ac ar gyfer y cyhoedd.</p> <p>Mae'r canllaw yn ymdrin â dulliau i'w defnyddio ymysg y canol oed i ohirio neu atal datblygiad dementia, anabledd ac eiddilwch wrth fynd yn hŷn. Nod yr argymhellion yw ymestyn y cyfnod y bydd pobl yn gallu bod yn annibynnol, yn iach ac egniol pan fyddant yn hŷn.</p> <p>Y prif argymhellion ar hybu ffordd iach o fyw i ohirio neu leihau'r risg o ddatblygu anabledd, dementia ac eiddilwch drwy helpu pobl yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> •rhoi'r gorau i ysmegu •bod yn fwy egniol •yfed llai o alcohol •gwella deiet •colli pwysau a chadw pwysau iach os oes angen.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2018). <i>Dementia: assessment, management and support for people</i></p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â diagnosis a rheoli dementia (yn cynnwys clefyd Alzheimer). Ei nod yw gwella gofal drwy wneud argymhellion ynghylch hyfforddi staff a helpu gofalmwyr i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia.</p> <p><u>Ymyriadau i hybu gwybyddiaeth, annibyniaeth a lles</u></p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 367	<p><i>living with dementia and their carers.</i> NG97. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> •Cynnig amrywiaeth o weithgareddau i hybu lles wedi'u haddasu yn ôl dewisiadau'r person. •Cynnig therapi ysgogi gwybyddol i grwpiau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia ysgafn neu gymedrol. •Ystyried cynnig therapi atgofion i grwpiau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia ysgafn neu gymedrol. • Ystyried cynnig therapi adsefydlu gwybyddol neu therapi galwedigaethol i hybu gallu gweithredol pobl sy'n byw gyda dementia ysgafn neu gymedrol. •Peidio â chynnig aciwbigo i drin dementia. •Peidio â chynnig ginseng, atchwanegiadau fitamin E, neu fformiwleiddiadau llysiuol i drin dementia. •Peidio â chynnig hyfforddiant gwybyddol i drin clefyd Alzheimer ysgafn neu gymedrol. •Peidio â chynnig therapi rhyngpersonol i drin symptomau gwybyddol clefyd Alzheimer ysgafn neu gymedrol. •Peidio â chynnig dulliau anfewnwithiol i symbylu'r ymennydd (yn cynnwys symbylu magnetig trawsgreuanol) i drin clefyd Alzheimer ysgafn neu gymedrol, heblaw'n rhan o hap-dreial rheoledig.
	<p>Comisiynau Lancet. (2020). <i>Dementia prevention, intervention, and care: 2020 report of the Lancet</i></p>	<p>Adroddiad o gyfnodolyn <i>The Lancet</i> yn 2020 yw hwn sy'n trafod y dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd am atal, ymyrryd, a gofalu mewn perthynas â dementia.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 368	<p><i>Commission</i>. Volume 396, Issue 10248, P413-446. Ar gael yma</p>	<p><u>Rhai negeseuon allweddol:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> •Mae'r <i>Lancet</i> wedi ychwanegu tri ffactor risg pellach ar gyfer dementia. Y rhain yw: yfed gormod o alcohol, anaf trawmatig i'r ymennydd, a llygredd aer. •Mae 12 ffactor risg addasadwy yn gyfrifol am tua 40% o'r achosion o ddementia drwy'r byd, sy'n golygu mewn egwyddor fod modd atal neu arafu'r rhain. •Dylid ceisio cynnal pwysedd gwaed systolig o 130 mm Hg neu lai ymysg y canol oed o tua 40 mlwydd oed ymlaen (triniaeth wrthorbwysol am bwysedd gwaed uchel yw'r unig feddyginiaeth ataliol effeithiol y gwyddys amdani ar gyfer dementia). •Annog defnyddio cymhorthion clyw os collwyd clyw a lleihau'r risg o golli clyw drwy ddiogelu'r clustiau rhag sŵn gormodol. •Lleihau'r cysylltiad â llygredd aer a mwg tybaco ail-law. •Atal anafiadau i'r pen. •Cyfyngu'r defnydd o alcohol, gan fod camddefnydd o alcohol ac yfed mwy nag 21 uned yr wythnos yn cynyddu'r risg o gael dementia. •Osgoi dechrau ysmegu a rhoi help i roi'r gorau i ysmegu, gan fod hyn yn lleihau'r risg o gael dementia hyd yn oed pan fydd rhywun yn hŷn. <p><u>Ar gyfer y rheini sydd â dementia, yr argymhellion yw:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> •Darparu gofal cyfannol ar ôl cael y diagnosis •Mewn gofal ar gyfer pobl a gafodd ddiagnosis o ddementia, dylid rhoi sylw i iechyd corfforol a meddyliol, gofal cymdeithasol, a chymorth. Mae clefydau eraill gan y rhan fwyaf o bobl sydd â dementia a byddent yn gallu ei chael yn anodd

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 369		<p>gofalu am eu hiechyd a gallai hyn arwain at eu derbyn i ysbyty lle y gellid bod wedi atal hynny.</p> <ul style="list-style-type: none"> •Rheoli symptomau niwroseiciatryddol <p>Dylid nodi bod yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar wahanol gynlluniau astudiaeth, yn cynnwys adolygiadau systematig, yn hytrach nag un adolygiad systematig. Dylid nodi'r cyfyngiadau a drafodir yn yr adroddiad, fel y defnydd o ffigurau byd-eang ar gyfer y risg o gael dementia.</p>
	<p>Canadian Agency for Drugs and Technologies in Health. (2018). <i>Sensory Rooms for Patients with Dementia in Long-Term Care: Clinical and Cost-Effectiveness, and Guidelines</i>. Ottawa: CADTH; 2018 Jul. (CADTH rapid response report: summary with critical appraisal). Ar gael yma</p>	<p>Mae'r adroddiad hwn yn adolygu effeithiolrwydd clinigol a chosteffeithiolrwydd ystafelloedd synhwyraidd ar gyfer cleifion â dementia mewn gofal tymor hir.</p> <p><u>Prif ganfyddiadau</u></p> <ul style="list-style-type: none"> •Ar sail y dystiolaeth a nodwyd yn yr adolygiad hwn, ni ellir dod i gasgliad pendant ynghylch effeithiolrwydd ystafelloedd synhwyraidd o'u cymharu â dulliau triniaeth eraill ar gyfer gwella symptomau mewn unigolion sydd â dementia. Yn gyffredinol, yn y tymor byr, roedd yn ymddangos bod rhai gwelliannau gyda therapi sy'n defnyddio amgylchedd ysgogi amlsynhwyraidd fel ystafell Snoezelen. Fodd bynnag, nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y gwelliannau hyn a'r rhai mewn dulliau triniaeth eraill. •Ni nodwyd unrhyw astudiaeth sydd wedi asesu costeffeithiolrwydd ystafelloedd synhwyraidd ar gyfer cleifion â dementia mewn gofal tymor hir.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 370		<p>•Roedd dau ganllaw seiliedig ar dystiolaeth yn argymhell nifer o ymyriadau anffarmacolegol ar gyfer unigolion sydd â dementia, yn cynnwys amgylcheddau ysgogi amlsynhwyraidd.</p> <p>Mae nifer o gyfyngiadau ar yr adolygiad hwn, yn enwedig y gorgyffwrdd rhwng astudiaethau a'r ffaith bod mwyafrif yr astudiaethau'n ymwneud ag oedolion hŷn (≥ 80 mlwydd oed), felly mae'n bosibl na fydd yn briodol cymhwyso'r canfyddiadau'n gyffredinol at grwpiau oedran eraill.</p>
	<p>Livingston, G. et al. <i>A systematic review of the effectiveness and cost-effectiveness of sensory, psychological and behavioural interventions for managing agitation in older adults with dementia</i>. Health Technology Assessment 2014;18(39). Ar gael yma</p>	<p>Mae'r adolygiad hwn yn cyfodod y dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd ymyriadau anffarmacolegol ar gyfer lleihau aflonyddwch meddwl mewn rhai sydd â dementia.</p> <p><u>Casgliadau'r awdur</u></p> <p>Mae gofal sy'n canolbwyntio ar y person, sgiliau cyfathrebu a DCM (i gyd o dan oruchwyliaeth), gweithgareddau therapi synhwyraidd, a therapiau cerddoriaeth strwythuredig yn lleihau aflonyddwch meddwl mewn preswylwyr cartrefi gofal sydd â dementia. Ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol, dylid newid y diwylliant mewn cartrefi gofal drwy hyfforddi staff a defnyddio triniaethau seiliedig ar dystiolaeth bob amser, a gwerthuso economeg iechyd. Mae angen gwneud rhagor o waith ar ymyriadau i leihau aflonyddwch meddwl mewn pobl sydd â dementia sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 371		Y prif gyfyngiad ar yr adolygiad hwn oedd y niferoedd mewn rhai o'r astudiaethau a adolygwyd: nid oedd ond 33 o hap-dreialon rheoledig o faint rhesymol (> 45 o gyfranogwyr), ac mae'r diffyg tystiolaeth yn golygu na all yr awduron wneud sylw am effeithiolrwydd nifer o ymyriadau. Nid oedd astudiaethau mewn ysbytai a phrin oedd yr astudiaethau yng nghartrefi pobl.
	Lai NM, et al. <i>Animal-assisted therapy for dementia</i> . Cochrane Database of Systematic Reviews 2019, Issue 11. Art. No.: CD013243. DOI: 10.1002/14651858.CD013243.pub2. Ar gael yma	Nod yr adolygiad hwn oedd gwerthuso effeithiolrwydd a diogelwch therapi gyda chymorth anifeiliaid ar gyfer pobl sydd â dementia. <u>Casgliadau'r awduron</u> Cafodd yr awduron dystiolaeth ar lefel isel o sicrwydd fod therapi gyda chymorth anifeiliaid yn gallu lleihau symptomau iselder ychydig mewn pobl sydd â dementia. Ni chawsant dystiolaeth glir bod therapi o'r fath yn effeithio ar ganlyniadau eraill yn y boblogaeth hon, ac roedd sicrwydd y dystiolaeth yn amrywio rhwng yr isel iawn a'r cymedrol yn ôl y canlyniad. Ni chafodd yr awduron dystiolaeth am ddiogelwch neu effeithiau ar yr anifeiliaid. Felly, ni ellir dod i gasgliadau pendant eto ynghylch y buddion a'r risgiau cyffredinol i bobl â dementia sy'n derbyn y therapi hwn. Mae angen cynnal rhagor o hap-dreialon rheoledig o ansawdd da i wella sicrwydd y dystiolaeth.
	Fernandez, et al. <i>Effect of doll therapy in managing challenging behaviors in people with dementia: a</i>	Roedd yr adolygiad hwn yn gwerthuso effeithiau therapi doliau ar ymddygiadau heriol (yn cynnwys aflonyddwch meddwl ac ymosodedd geiriol neu gorfforol) mewn pobl sydd â dementia.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 372	<p><i>systematic review</i>. JBI Database of Systematic Reviews and Implementation Reports: August 2014 - Volume 12 - Issue 8 - p 330-363 doi: 10.11124/jbisrir-2014-1646. Ar gael yma</p>	<p><u>Canlyniadau</u></p> <p>Roedd chwe astudiaeth wedi'u cynnwys yn yr adolygiad. O'r tair astudiaeth a ymchwiliodd i effaith therapi doliau ar aflonyddwch meddwl ac ymddygiadau ymosodol ymysg pobl sydd â dementia, roedd dwy wedi cofnodi gwelliant o ran aflonyddwch meddwl ac ymddygiadau ymosodol ac un wedi cofnodi nad oedd gostyngiad ystadegol arwyddocaol ($p=0.07$) mewn ymddygiadau ymosodol ymysg preswylwyr a ddefnyddiodd y doliau. Yn yr unig astudiaeth a ymchwiliodd i ymddygiadau cadarnhaol, gwelwyd gwelliannau ystadegol arwyddocaol ($p < 0.005$) mewn ymddygiadau cadarnhaol rhwng y gwaelodlin (6.32 ± 4.13) a'r ymchwil ar ôl tri mis (14.21 ± 9.86) ymysg preswylwyr a oedd wedi defnyddio'r doliau. Yn ogystal â hyn, cofnodwyd lefelau uwch o weithgarwch cadarnhaol ymysg preswylwyr a ddefnyddiodd y doliau mewn dwy astudiaeth arall.</p> <p><u>Casgliadau'r awduron</u></p> <p>Mae tystiolaeth gyfyngedig o blaid defnyddio therapi doliau i reoli aflonyddwch meddwl ac ymddygiadau ymosodol ymysg pobl sydd â dementia. Fodd bynnag, nid oes sgil-ffeithiau o'r dull triniaeth hwn ac mae'n darparu mesur cysur diogel ar gyfer pobl sydd â dementia.</p>
	<p>Noone, C, et al. (2020). <i>Video calls for reducing social isolation and loneliness in older people: a rapid review</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 5. Art.</p>	<p>Mae'r adolygiad cyflym hwn yn asesu effeithiolrwydd galwadau fideo ar gyfer lleihau ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd ymysg oedolion hŷn. Oed cyfartalog y cyfranogwyr yn yr adolygiad oedd 65 mlwydd oed. Roedd awduron yr adolygiad hwn wedi cynnwys unrhyw ymyriad lle'r oedd elfen graidd yn ymwneud â defnyddio'r rhyngwryd i hwyluso galwadau fideo neu gynadledda fideo drwy</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 373	No.: CD013632. DOI: 10.1002/14651858.CD013632. Ar gael yma	gyfrifiaduron, ffonau clyfar neu lechi gyda'r bwriad o leihau unigrwydd neu ynysigrwydd cymdeithasol, neu'r ddau, ymysg oedolion hŷn. Ar sail canfyddiadau'r adolygiad hwn, mae tystiolaeth ansicr iawn ar hyn o bryd ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau drwy alwadau fideo o ran lleihau unigrwydd ymysg oedolion hŷn. Roedd y dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd galwadau fideo mewn perthynas â chanlyniadau i symptomau iselder yn ansicr iawn.
	Age UK (2018) <i>All the Lonely People: Loneliness in Later Life</i> . London: Age UK. Ar gael yma	Mae'r adroddiad hwn gan Age UK yn ceisio deall rhagor am unigrwydd ymysg pobl 50 oed a hŷn. Mae'n cynnwys ffynonellau o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Astudiaeth Hydredol o Heneiddio yn Lloegr. <u>Rhai o brif bwytiau'r adroddiad yw:</u> <ul style="list-style-type: none"> • Mae gweithgareddau cymdeithasol yn elfen hanfodol mewn dulliau llwyddiannus o ddelio ag unigrwydd ond, i nifer mawr o bobl unig, ni fydd gweithgareddau o'r fath yn effeithiol oni bai fod cymorth emosiynol ac ymarferol ar gael i gymryd rhan ynddynt. Mewn llawer o gymdogaethau, ceir amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol nad yw pobl yn gwybod amdanynt neu nad ydynt yn gallu cael atynt, ac sy'n cystadlu â'i gilydd yn hytrach nag ategu ei gilydd.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 37		<ul style="list-style-type: none"> • Os yw cymdogaethau'n groesawgar, yn ddeniadol, yn ymddangos yn ddiogel ac yn cynnwys amwynderau i'r holl breswylwyr, gallant helpu i atal unigrwydd ymysg eu preswylwyr. • Er mwyn mesur unigrwydd, mae angen cynnwys cwestiwn uniongyrchol un eitem am unigrwydd a graddfa anuniongyrchol: os defnyddir cwestiwn uniongyrchol neu raddfa anuniongyrchol yn unig, bydd yr amcangyfrif o gyffredinrwydd unigrwydd yn rhy isel. <p>Dylid nodi mai adroddiad a gomisiynwyd gan elusen yw hwn. Nid yw wedi bod yn destun adolygu gan gymheiriaid ac nid yw cryfder ei dystiolaeth wedi'i ystyried, ac ni ystyriwyd y posibilrwydd o duedd.</p>
<p>Datblygu Cymunedol ar Sail Asedau / Cynnwys y Gymuned, yn cynnwys hyfforddi a hwyluso</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2016). <i>Community engagement: improving health and wellbeing and reducing inequalities</i>. NG44. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â dulliau o gynnwys y gymuned er mwyn lleihau anghydraddoldebau iechyd, sicrhau bod mentrau iechyd a lles yn effeithiol a helpu awdurdodau lleol a chyrrff iechyd i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu ar gyfer y rheini sy'n cynllunio, yn comisiynu, yn craffu ar neu'n darparu mentrau iechyd a lles lleol drwy gydweithio â chymunedau lleol. Mae'r canllaw hwn yn cynnig argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Egwyddorion cyffredinol arfer da – beth sy'n gwneud ymgysylltu'n fwy effeithiol? • Datblygu cydweithrediadau a phartneriaethau, ffyrdd i hybu a chefnogi cynghreiriaid rhwng aelodau o'r gymuned a sefydliadau statudol, cymunedol a gwirfoddol er mwyn cwrdd ag anghenion a blaenoriaethau lleol

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 375		<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys pobl yn rolau cymheiriaid a lleygwyr – sut i ddod o hyd i bobl a'u recriwtio i gynrychioli anghenion a blaenoriaethau lleol • Sicrhau bod mesurau i gynnwys y gymuned yn rhan annatod o fentrau iechyd a lles • Ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl gymryd rhan.
	<p>Brunton G et al. (2015). Review 2: <i>Community engagement for health via coalitions, collaborations and partnerships. A systematic review and meta-analysis</i>. London: EPPI-Centre. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig a metaddadansoddiad hwn a gwblhawyd i helpu i ddatblygu canllaw 44 NICE wedi rhoi sylw i gynghreiriau, cydweithrediadau a phartneriaethau. Roedd yn ymdrin â'r cwestiynau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pa mor effeithiol yw dulliau o gynnwys y gymuned o ran gwella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau iechyd? • Yn y gwahanol grwpiau difreintiedig, pa mor effeithiol yw dulliau o gynnwys y gymuned o ran cymell pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu hiechyd a lles a gwredu eu galluoedd? • Pa brosesau a dulliau sy'n hwyluso'r modd i wireddu galluoedd ac asedau cymunedau ac unigolion ymysg grwpiau difreintiedig? • A geir canlyniadau anfwriadol ar ôl mabwysiadu dulliau cynnwys y gymuned? • Pa brosesau a nodwyd yn y llenyddiaeth sy'n fwy cyson ag ymyriadau effeithiol a pha brosesau (os oes rhai) sy'n fwy cyson ag ymyriadau aneffeithiol? <p>Roedd awduron yr adolygiad wedi dod i'r casgliad bod y canfyddiadau, at ei gilydd, yn awgrymu bod prosiectau dan arweiniad y gymuned neu brosiectau sy'n cydweithio â'r gymuned a fydd yn cynllunio, yn darparu ac</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 376		<p>yn gwerthuso ymyriadau iechyd, yn cael eu cysylltu â chanlyniadau ymddygiadol mwy. Lle'r oedd cynghreiriau, cydweithrediadau a phartneriaethau ag aelodau o'r gymuned yn cynnwys y defnydd o gyfathrebu dwyffordd, penderfynu ar y cyd a chymorth hyfforddi i aelodau o'r gymuned neu weithwyr proffesiynol er mwyn darparu'r ymyriad, cafwyd hefyd fod mwy o ymgysylltu â'r gymuned wrth gynllunio, darparu a gwerthuso'r prosiect. Dull ymgysylltu effeithiol a geir fel arfer mewn cydweithrediadau a chynghreiriau yw darparu gan gymheiriaid neu leygwyr, ac roedd prosiectau lle nad oedd ond ychydig o ymgysylltu yn debygol o fod yn llai effeithiol.</p>
	<p>Harrison, R et al. (2019). <i>Asset-Based Community Development: Narratives, Practice, and Conditions of Possibility—A Qualitative Study With Community Practitioners</i>. SAGE Open. Volume: 9 issue: 1, DOI:/10.1177/2158244018823081. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr ymchwil gynradd hon, sef astudiaeth ansoddol gan ymchwilyr mewn pedair prifysgol yn y DU, yn ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r mecanweithiau sy'n gyfrwng i Ddatblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau (DCSA), a'r amodau amgylcheddol a chydgyssylltiol lle mae'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol, er mwyn ei wneud yn fwy effeithiol wrth wella iechyd a lles a lleihau anghydraddoldebau. Cynhaliwyd cyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda 25 o bobl sy'n gweithio yn sefydliadau'r trydydd sector ac mewn sefydliadau gwirfoddol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ddulliau DCSA, sut maent yn cael eu rhoi ar waith, a sut maent yn cwrdd ag anghenion poblogaethau difreintiedig. Roedd yr unigolion hyn yn gyfarwydd â rhaglenni mewn ardaloedd lleol sy'n dilyn dull DCSA ac sydd ar waith ar hyn o bryd yng ngogledd-orllewin Lloegr.</p> <p>Roedd pedair thema gyffredinol yn taflu goleuni ar egwyddorion ac arferion DCSA: Perthnasoedd ac ymddiriedaeth yn fecanweithiau ar gyfer newid;</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 377		<p>Dwyochredd a chysylltedd: “pobl nid gwasanaethau”; Atebolrwydd a lleihau dibyniaeth; a Model cymdeithasol gynaliadwy.</p> <p>Mae DCSA yn debygol o fod yn fwyaf effeithiol wrth helpu pobl agored i niwed lle mae camau i feithrin ymddiriedaeth wedi'u hadlewyrchu gan amgylchedd sefydliadol a chydgyssylltiol sy'n ddibynadwy ac yn hwyluso'r modd i ddatblygu galluedd pobl.</p> <p>Dylid nodi mai cynllun ansoddol sydd i'r astudiaeth hon, sef cynllun sy'n ymchwilio i greddau, profiadau ac ymagweddau, a all fod yn fuddiol o ran creu damcaniaethau, yn hytrach nag asesu effeithiolrwydd ymyriadau.</p>
	<p>Cyfeillio er mwyn rhoi cymorth i gael mynediad at gymorth arbenigol / grwpiau cymheiriaid</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2015). <i>Older people independence and mental wellbeing</i>. NG32. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd 2018).</p> <p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2011). <i>Common mental health</i></p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 378	<p><i>problems: identification and pathways to care.</i> CG123. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2018).</p>	
	<p>Scottish Intercollegiate Guidelines Network. (2010). <i>Management of patients with stroke: Rehabilitation, prevention and management of complications, and discharge planning. A national clinical guideline.</i> 118. Edinburgh: SIGN. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan SIGN yn argymhell defnyddio gwasanaethau cyfeillio cymunedol fel ffynhonnell gymorth gymunedol i bobl sydd wedi cael strôc.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2009). <i>Depression in adults, recognition and management.</i> CG90. London: NICE. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn argymhell cyfeillio gan wirfoddolwyr hyfforddedig, i ategu triniaethau ffarmacolegol neu seicolegol ar gyfer pobl sydd ag iselder cymedrol neu ddifrifol hirsefydlog. Mae'n argymhell cyswllt wythnosol am gyfnod o ddau i chwe mis.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 379	<p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2021).</p>	
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2012). <i>Spasticity in under 19s: management</i>. CG145. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2018).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn cynnig cyngor ar yr arferion gorau ar gyfer rheoli sbastigedd ac anhwylderau echddygol cydfodol a'r cymhlethdodau cyhyrsgerbydol cynnar sy'n codi ohonynt mewn plant a phobl ifanc sydd ag anhwylderau ymennydd nad ydynt yn gwaethygu. Mae'n argymhell cyfeillio fel ffordd i gynorthwyo'r plentyn neu berson ifanc neu ei rieni.</p>
	<p>Newbigging, K et al. (2020). <i>The contribution of the voluntary sector to mental health crisis care: a mixed-methods study</i>. Health Service Delivery Research; 8(29). Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr ymchwil gynradd hon. a gynhaliwyd gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Birmingham yn bennaf, yn ceisio ymchwilio i'r cyfraniad gan sefydliadau'r Sector Gwirfoddol (SG) at ofal argyfwng iechyd meddwl yn Lloegr.</p> <p>Syniwyd am y SG fel trydedd 'dirwedd' o sefydliadau rhwng y wladwriaeth a'r farchnad, yn cynnwys elusennau a grwpiau cymunedol, wedi'i seilio ar ethos sector sydd fel arfer yn gweld gwerth mewn hygyrchedd, hunandrefnu, canlyniadau a ddiffinnir gan y defnyddiwr gwasanaethau, anffurfioldeb a dulliau seiliedig ar berthnasoedd. Ar draws yr ystod amrywiol hon o sefydliadau, mae amrywiaeth fawr o ddulliau a gweithgareddau, yn cynnwys cyfeillio.</p> <p>Mae argyfwng iechyd meddwl yn cael ei ystyried yn amhariad bywgraffyddol. Mae sefydliadau'r sector gwirfoddol yn gallu gwneud cyfraniad pwysig, wedi'i nodweddu gan ymagwedd seiliedig ar gymdeithas a pherthnasoedd.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 380		<p>Nodwyd pum math o sefydliad perthnasol yn y sector gwirfoddol: (1) argyfwng-benodol, (2) iechyd meddwl cyffredinol, (3) canolbwyntio ar boblogaeth, (4) canolbwyntio ar ddigwyddiadau bywyd a (5) sefydliadau cymdeithasol a chymunedol cyffredinol yn y sector gwirfoddol. Mae'r sefydliadau sector gwirfoddol hyn yn darparu gwahanol fathau o gymorth ac mae ganddynt arbenigedd penodol. Mae argaeledd a hygyrchedd sefydliadau sector gwirfoddol yn amrywio ac roedd anghydraddoldebau wedi'u nodi mewn perthynas â chymunedau gwledig; cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.</p> <p>Un cyfyngiad ar yr astudiaeth hon oedd bod y gyfradd ymateb i'r arolwg yn isel, a hynny'n adlewyrchu natur sefydliadau'r sector gwirfoddol a'r galwadau ar eu hamser.</p> <p>Dylid nodi mai astudiaeth ddisgrifiadol yw hon, felly nid oedd gwerthuso'r canlyniadau i gymorth gan sefydliadau'r sector gwirfoddol yn rhan o gwmpas yr astudiaeth.</p>
	<p>Burroughs, H et al. (2019). <i>Non-traditional support workers delivering a brief psychosocial intervention for older people with anxiety and depression: the NOTEPAD feasibility study</i>. Health Service Delivery Research 2019; 7(25). Ar gael yma</p>	<p>Pwrpas yr astudiaeth ddichonoldeb hon oedd canfod a ellir hyfforddi gweithwyr cymorth i ddarparu ymyriad seicogymdeithasol yn y gymuned i bobl hŷn sy'n profi gorbryder a/neu iselder.</p> <p>Canlyniadau: Roedd yn bosibl recriwtio (a chadw) y gweithwyr cymorth; roedd yr hyfforddiant, y deunyddiau cymorth a'r llawlyfr yn dderbyniol ganddynt, ac roeddent wedi darparu'r ymyriad fel y bwriadwyd. Roedd yn bosibl recriwtio practisau i recriwtio</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 381		<p>cleifion ohonynt, ond ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer recriwtio (100 o gleifion), ac roedd 38 o oedolion hŷn wedi'u recriwtio ar hap. Y ganran oedd wedi'i chadw ar ôl 4 mis oedd 86%. Nid oedd dangos gwahaniaethau rhwng canlyniadau yn rhan o gwmpas yr astudiaeth.</p> <p>Roedd pobl hŷn a gymerodd ran yn yr ymyriad wedi cael bod y sesiynau gyda gweithwyr cymorth yn dderbyniol, er nad oedd yr holl gyfranogwyr yn gweld gwerth yn eu cyfeirio at grwpiau a chymryd rhan ynddynt. Roedd meddygon teulu yn cydnabod yr angen am ofal ychwanegol am bobl hŷn sy'n profi gorbryder ac iselder, lle nad oedden nhw'n gallu ei ddarparu. Nid oedd cymryd rhan yn yr astudiaeth yn cael effaith ar ofal arferol, heblaw am ymateb i'r galwadau gan dîm yr astudiaeth ynghylch y risg o hunan-niweidio. Nid oedd meddygon teulu yn ymwybodol o'r gwaith a wnaed gan weithwyr cymorth gyda chleifion.</p> <p><u>Casgliadau:</u></p> <p>Mae modd recriwtio a hyfforddi gweithwyr cymorth a recriwtiwyd o blith cyflogeion Age UK i ddarparu ymyriad wedi'i seilio ar egwyddorion ysgogi ymddygiadol i bobl hŷn sy'n profi gorbryder a/neu iselder. Roedd y model hyfforddi a goruchwylio a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth yn un derbyniol i weithwyr cymorth, ac roedd yr ymyriad yn dderbyniol i bobl hŷn.</p> <p>Dylid nodi mai astudiaeth ddichonoldeb yw hon sydd â'r bwriad o asesu ymarferoldeb cynllun neu ddull a gynigiwyd. Un cyfyngiad pwysig yw na chyrhaeddwyd y targed recriwtio. Mae'r awduron yn nodi bod angen datblygu</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 382		strategaethau recriwtio ymhellach cyn y bydd modd rhoi prawf ar yr ymyriad hwn drwy hap-dreial cynhwysfawr wedi'i reoli.
	<p>Jopling, K a Jones, D. (2021). <i>Lessons from befriending in the time of Covid-19</i>. The Mercer's Company ac Independent Age. Ar gael yma</p>	<p>Comisiynwyd yr adroddiad hwn ar y cyd gan The Mercer's Company ac Independent Age, dwy elusen.</p> <p><u>Mae'r adroddiad yn argymhell bod sefydliadau sy'n ymwneud â chyfeillio yn gwneud y canlynol:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio'n ofalus a rheoli'r broses o bontio i fodel cyfunol • Trefnu bod cymorth iechyd meddwl priodol ar gael i wirfoddolwyr a staff • Adeiladu ar sail eu hymdrechion o ran cynhwysiant a'r gwersi a ddysgwyd yn y cyfnod hwn <p>Mae'n bwysig bod sefydliadau sy'n ariannu gwaith cyfeillio yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu adnoddau i sicrhau lefelau digonol o staffio a chymorth i wirfoddolwyr • Cydnabod y bydd sefydliadau'n 'rhedeg yn ddwbl' am gyfnod hir, ac ariannu'r broses bontio hon yn unol â hynny • Helpu'r sefydliadau y maent yn eu hariannu i ddelio â heriau cyffredin fel pontio, iechyd meddwl a chynhwysiant. <p>Dylid nodi mai adroddiad a gomisiynwyd gan elusennau yw hwn. Rhai o'r dulliau a ddefnyddiwyd i'w gynhyrchu oedd cyfweiliadau, digwyddiadau ar-lein ac arolwg. Nid yw ei ddulliau'n dryloyw nac yn ailadroddadwy. Nid yw wedi'i adolygu gan gymheiriaid ac ni ystyriwyd y posibilrwydd o duedd.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 383</p> <p>Cefnogi bwydo ar y fron gan gymheiriaid</p>	<p>McFadden, A et al. (2017). <i>Support for healthy breastfeeding mothers with healthy term babies</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 2. Art. No: CD001141. DOI: 10.1002/14651858.CD001141.pub5. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r adolygiad systematig hwn yn disgrifio mathau o gefnogaeth ar gyfer bwydo ar y fron a werthuswyd mewn astudiaethau wedi'u rheoli, amseriad yr ymyriadau a'r lleoliadau lle cawsant eu defnyddio, ac mae'n edrych ar effeithiolrwydd y gwahanol ffyrdd o gynnig ymyriadau cefnogol tebyg.</p> <p>Mae canlyniadau'r dadansoddiadau'n cadarnhau eto fod yr holl fathau o gefnogaeth ychwanegol a ddadansoddiwyd gyda'i gilydd yn dangos gostyngiad yn y graddau y rhoddir y gorau i 'unrhyw fwydo ar y fron', sy'n cynnwys bwydo ar y fron yn rhannol neu'n gyfan gwbl (tystiolaeth o ansawdd cymedrol) ac ar gyfer rhoi'r gorau i fwydo ar y fron cyn pedair i chwe wythnos (tystiolaeth o ansawdd cymedrol).</p> <p><u>Casgliadau'r awduron:</u></p> <p>Pan gynigir cefnogaeth i fwydo ar y fron i fenywod, bydd yn parhau'n hirach a bydd mwy o fwydo ar y fron yn unig. Rhai o nodweddion cefnogaeth effeithiol yw: y caiff ei chynnig fel mater o drefn gan bersonél hyfforddedig yn ystod gofal cyn neu ar ôl y geni; y bydd yn cynnwys ymweliadau dilynol a drefnwyd fel y gall menywod rag-weld pryd y bydd cefnogaeth ar gael; a'i bod wedi'i haddasu i leoliad ac anghenion y grŵp poblogaeth. Mae cefnogaeth yn debygol o fod yn fwy effeithiol mewn lleoliadau lle mae cyfraddau cychwyn uchel.</p> <p>Gellir cynnig cefnogaeth gan gefnogwyr proffesiynol a/neu gefnogwyr lleyg/cymheiriaid.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		Mae strategaethau sy'n dibynnu'n bennaf ar gefnogaeth wyneb yn wyneb yn fwy tebygol o lwyddo gyda menywod sy'n bwydo ar y fron yn unig.
<p>Cymorth i ofalwyr (seibiant)</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 384</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2020). <i>Supporting adult carers</i>. NG150. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â chymorth i oedolion (18 oed a hŷn) sy'n darparu gofal di-dâl i rywun 16 oed neu hŷn sydd ag anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol.</p> <p><u>Mae'r prif argymhellion/ egwyddorion cyffredinol yn cynnwys:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr hawl i gael gwybodaeth a chymorth • Dylid cymryd camau i ganfod pwy yw'r gofalwyr er mwyn iddynt gael gwybodaeth am eu hawlau • Dylai asesiadau gofalwyr gael eu gwneud gan awdurdodau lleol a sefydliadau gofal cymdeithasol • Helpu gofalwyr i ddechrau neu aros mewn gwaith, addysg a hyfforddiant neu ddychweyd iddynt • Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hysbysu'n rheolaidd am wasanaethau cymunedol a ffynonellau eraill o gyngor a chymorth sydd ar gael a sut i gael gafael arnynt • Dylid darparu hyfforddiant i alluogi gofalwyr i ddarparu gofal yn ddiogel • Ystyried darparu cymorth seicogymdeithasol a seico-addysgol i ofalwyr • Darparu cymorth yn ystod newidiadau yn y rôl gofalu • Darparu cymorth i ofalwyr yn ystod gofal diwedd oes ac wedi i'r person farw

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 385	<p>Liu Z, Sun YY, Zhong BL. (2018). <i>Mindfulness-based stress reduction for family carers of people with dementia</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 8. Art. No.: CD012791. DOI: 10.1002/14651858.CD012791.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r adolygiad systematig hwn yn ceisio asesu effeithiolrwydd dulliau lleihau straen seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar (MBSR) wrth leihau straen ymysg gofalwyr teuluol sy'n gofalu am bobl sydd â dementia.</p> <p>Cymharwyd rhaglenni lleihau straen seiliedig ar ymwybyddiaeth ofalgar un ai â rheolyddion gweithredol (rhai cyffelyb i MBSR o ran yr amser a'r sylw a roddir, h.y. addysg, cefnogaeth gymdeithasol, neu lacio cyhyrau'n gynyddol), neu reolyddion anweithredol (rhai anghyffelyb i MBSR o ran yr amser a'r sylw a roddir, h.y. addysg hunangymorth neu ofal seibiant).</p> <p>O'i gymharu â rheolyddion gweithredol, gall MBSR leihau symptomau iselder ymysg gofalwyr ar ddiwedd yr ymyriad (tystiolaeth o ansawdd isel). O'i gymharu â rheolyddion anweithredol, nid oedd MBSR yn dangos dystiolaeth glir o unrhyw effaith ar symptomau iselder (tystiolaeth o ansawdd isel).</p> <p>Y casgliad yw bod dystiolaeth o ansawdd isel yn awgrymu y gall MBSR leihau gorbryder a symptomau iselder ymysg gofalwyr, yn y tymor byr o leiaf.</p>
Gofal plant (clybiau brecwast)	<p>Christensen, CB et al. (2019). <i>The effect of introducing a free breakfast club on eating habits among students at vocational schools</i>. BMC Public Health. Volume 19, Article number: 369. Ar gael yma</p>	<p>Amcan yr astudiaeth hon o glystyrau a ddewiswyd ar hap gyda rheolydd oedd asesu effaith ymyriad ar ffurf clybiau brecwast am ddim ar arferion deietegol ymysg myfyrwyr mewn ysgolion galwedigaethol.</p> <p>Roedd yr astudiaeth yn cynnwys myfyrwyr (n = 318) o bedair ysgol alwedigaethol yn Nenmarc. Defnyddiwyd holiaduron am amllder cymryd bwyd i fesur arferion bwyta ar y gwaelodlin, ar ôl 7 wythnos ac wedyn ar ôl 14 wythnos, yn ystod ymyriad â rheolydd pedwar mis o hyd ymysg clystyrau a ddewiswyd ar hap.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 386		<p>Daeth yr awduron i'r casgliad bod darparu brecwast am ddim mewn ysgolion galwedigaethol yn gallu gwella ansawdd deietegol brecwastau a lleihau'r nifer sy'n colli brecwast. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd yr ymyriad yn ystyriaeth hanfodol sydd angen ei hastudio a'i thrafod ymhellach.</p> <p>Cyfyngiadau: Oherwydd cyfyngiadau amser a chyllid, nid oedd yr holiadur wedi'i ddilysu ac mae perygl, yn sgil hynny, nad oedd yr holiadur yn mesur yr hyn a fwriadwyd. Yn gyffredinol, mae rhaglenni addysgol a galwedigaethol yn Nenmarc yn cael eu gwahanu ar sail rhywedd. Mae'r gwahanu ar sail rhywedd wedi'i ddangos yn yr astudiaeth hon, lle'r oedd mwyafrif y cyfranogwyr yn wrywaidd (95.6%). Gan nad yw'r sampl yn debyg i'r boblogaeth gyffredinol neu i fathau eraill o raglenni addysgol (e.e., gofal iechyd ac addysgeg), mae hyn yn cyfyngu ar ddilysrwydd yr astudiaeth o ran ei chymhwyso'n gyffredinol.</p>
	<p>Franklin, J et al. (2021). <i>The economic cost-effectiveness of the Magic Breakfast model of school breakfast provision</i>. London: Pro Bono Economics. Ar gael yma</p>	<p>Mae Magic Breakfast yn elusen gofrestrdig sy'n darparu brecwastau iach gan dargedu ysgolion lle mae cyfran fawr o blant difreintiedig, ac mae'n darparu cymorth i'r ysgolion hyn.</p> <p>Nod Pro Bono Economics yw cynorthwyo elusennau drwy eu helpu i fesur, deall a chyfleu eu heffaith a'u dylanwad yn well a chyfrannu at lunio polisi a gwneud y defnydd gorau o'u data.</p> <p>Mae'r astudiaeth hon yn edrych ar fuddion economaidd tymor hwy, a chanlyniadau'r effeithiau academaidd hyn o ran lleihau costau a ysgwyddir am</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 387		<p>anghenion addysgol arbennig, triwantiaeth a gwaharddiadau yn ogystal â gwelliannau mewn enillion o gyflogaeth hyd at 60 oed.</p> <p>Mae'r astudiaeth wedi canfod y byddai darparu brecwast yn yr ysgol am un flwyddyn i ddisgyblion difreintiedig sy'n cwblhau Cyfnod Allweddol 1 yn Lloegr/Cyfnod Cynradd 3 yn yr Alban, yn gallu creu buddion economaidd hirdymor o fwy na £9,000 am bob plentyn.</p> <p>Un cyfyngiad ar yr astudiaeth hon yw bod ei hasesiad wedi'i seilio ar werthusiad o effaith y rhaglen dros un flwyddyn, yn benodol ar gyfer y plant hynny sy'n cwblhau Cyfnod Allweddol 1 yn yr ysgol gynradd. Felly, mae'n bosibl nad yw'r dadansoddiad yn rhoi asesiad cywir o gosteffeithiolrwydd y rhaglen dros nifer o flynyddoedd neu ar gyfer plant mewn grwpiau oedran gwahanol.</p> <p>Dylid nodi mai adroddiad a gomisiynwyd gan elusen yw hwn. Nid yw wedi bod yn destun adolygu gan gymheiriaid ac ni ystyriwyd y posibilrwydd o duedd.</p>
<p>Gofal plant</p>	<p>Melhuish, E. (2016). <i>Longitudinal research and early years policy development in the UK</i>. ICEP 10, 3. https://doi.org/10.1186/s40723-016-0019-1. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r erthygl hon yn asesu data hydredol er mwyn ystyried sut mae tystiolaeth o ymchwil wedi cyfrannu at newid ym mholisi'r blynyddoedd cynnar yn y ddau ddegawd diwethaf.</p> <p>Mae addysg a gofal plentyndod cynnar yn y DU yn economi gymysg, gan ei fod yn cael ei ariannu a'i drefnu'n rhannol gan lywodraeth ganolog a lleol, yn rhannol gan unigolion a sefydliadau preifat, ac yn rhannol gan sefydliadau gwirfoddol (e.e., grwpiau cymunedol, elusennau).</p> <p><u>Rhai o'r prif ganfyddiadau yw:</u></p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 388		<p>Pan oedd plant yn dechrau mewn ysgol gynradd, roedd astudiaeth EPPSE (Sammons et al. 2002, 2003) yn dangos bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dwy i dair blynedd o addysg blynyddoedd cynnar o ansawdd da yn gallu rhoi mantais ddatblygiadol o hyd at 8 mis o ran deilliannau cysylltiedig â llythrennedd o'i gymharu â phlant sy'n dechrau yn yr ysgol heb brofiad cyn ysgol, a bod effeithiau tebyg ar ddeilliannau gwybyddol a chymdeithasol eraill. • Er bod profiad o ansawdd da mewn addysg a gofal plentyndod cynnar yn rhoi hwb, mai'r rhagfynegydd mwyaf ar gyfer llwyddiant oedd yr amgylchedd dysgu yn y cartref, h.y., y cyfleoedd dysgu a ddarparwyd gartref a gafodd yr effaith fwyaf ar ddeilliannau plant. • Bod cydberthynas rhwng ansawdd addysg a gofal plentyndod cynnar a chymwysterau staff, a bod ansawdd gwell yn cael ei gysylltu â gwell deilliannau i blant. <p>Dylid nodi mai astudiaeth arsylwadol yw hon, yn hytrach na hap-dreial rheoledig. Nid yw'n ceisio darganfod perthnasoedd rhwng achos ac effaith ond yn hytrach canfod cydberthyniadau a chysylltiadau posibl rhwng data a deilliannau. Un awdur sydd i'r astudiaeth hon. Ni ystyriwyd cyfyngiadau ar yr astudiaeth na'r posibilrwydd o duedd.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 389	<p>Er, V. (2018). <i>Association of diet in nurseries and physical activity with zBMI in 2-4-year olds in England: a cross-sectional study</i>. BMC public health 18.1: 1262. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr astudiaeth hon wedi archwilio'r perthnasoedd rhwng deiet mewn lleoliadau gofal plant a gweithgarwch corfforol dyddiol plant cyn oed ysgol a oedd â sgôr sero ar fynegai màs y corff (z-BMI).</p> <p>Roedd wedi edrych ar 150 o blant 2-4 blwydd oed a oedd yn cymryd rhan yn yr Hunanasesiad Maethiad a Gweithgarwch Corfforol ar gyfer Gofal Plant (NAP SACC), astudiaeth yn y DU a oedd yn edrych ar y cysylltiadau rhwng eu deiet mewn lleoliadau gofal plant a gweithgarwch corfforol dyddiol a z-BMI.</p> <p>Prif ganlyniadau:</p> <p>Ymysg plant a oedd yn cymryd un prif bryd bwyd neu fyrbryd mewn lleoliad gofal plant, roedd 34.4% yn cwrdd â'r safonau ar ffrwythau a llysiau a 74.3% yn cwrdd â'r safonau ar fyrbrydau sy'n cynnwys llawer o siwgr neu fraster. Nid oedd cydymffurfiaeth â chanllawiau'r Children's Food Trust (CFT) yn cael ei chysylltu â zBMI. Dim ond 11.4% o blant a oedd yn cwrdd â'r canllaw ar gyfer cyflawni tair awr o weithgarwch corfforol y diwrnod sydd wedi'i argymhell yn y DU.</p> <p>Daeth yr awduron i'r casgliad bod cyfran fach y plant sy'n cyrraedd y safonau ar ffrwythau a llysiau a byrbrydau sy'n cynnwys llawer o siwgr neu fraster a'r lefelau o weithgarwch corfforol sydd wedi'u hargymhell yn dangos bod angen gwneud mwy i gynorthwyo meithrinfeydd a rhieni i wella deiet a gweithgarwch ymysg plant cyn oed ysgol.</p> <p>Cyfyngiadau'r astudiaeth:</p> <p>Gofynnwyd i rieni gofnodi cymeriant bwyd eu plant mewn dyddiadur bwyd cartref ond roedd y gyfradd ymateb yn isel ac roedd nifer ohonynt wedi llenwi'r dyddiadur ar ddiwrnod gwahanol i'r arsylwi yn y feithrinfa. Felly, nid oedd yr</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 39		<p>awduron yn gallu amcangyfrif cymeriant bwyd dyddiol y plant a chymharu eu cymeriant bwyd ar sail lleoliad (meithrinfa vs. cartref).</p> <p>Yn wahanol i fynegeion deietegol fel y Fynegai Bwyta'n Iach (HEI), y Fynegai Ansawdd Deiet (DQI) neu Sgôr Deiet y Canoldir (MDS), nid yw Safon Arfer Gorau NAP SACC UK Nutrition wedi'i dilysu ac mae'n bosibl nad yw'n addas ar gyfer asesu'r berthynas rhwng ansawdd deiet a zBMI.</p> <p>Dylid nodi mai astudiaeth drawstoriadol yw hon: gellir meddwl am gysylltiadau rhwng canlyniad a ffactorau a bennwyd drwy astudiaethau o'r fath fel cydberthyniadau dichonol. Fodd bynnag, byddai angen gwneud rhagor o ymchwil i ganfod natur unrhyw berthynas.</p>
Cymorth addysg (Therapi Lleferydd ac Iaith)	<p>Morgan, AT, Murray, E, Liégeois, FJ. (2018). <i>Interventions for childhood apraxia of speech</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 5. Art. No.: CD006278. DOI: 10.1002/14651858.CD006278.pub3. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn yn ceisio asesu effeithiolrwydd ymyriadau mewn perthynas â lleferydd ac iaith ymysg plant a'r glasoed sydd ag Apracsia Lleferydd mewn Plentyndod (CAS) a ddarparwyd gan batholegwyr/therapyddion lleferydd ac iaith.</p> <p>Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys dim ond un hap-dreial rheoledig. Roedd yr astudiaeth hon wedi recriwtio 26 o blant 4 i 12 mlwydd oed, â CAS ysgafn neu gymedrol heb achos hysbys, ac wedi cymharu dau ymyriad: Nuffield Dyspraxia Programme-3 (NDP-3); a Rapid Syllable Transitions Treatment (ReST).</p> <p>Roedd y therapi NDP-3 a'r therapi ReST yn dangos gwelliant ar ôl un mis o driniaeth. Yn achos tri chanlyniad, roedd yr effaith ychydig yn fwy ar ôl NDP-3 na ReST: cywirdeb cynhyrchu geiriau a oedd wedi'u trin; cysondeb wrth gynhyrchu lleferydd, a chywirdeb lleferydd cysylltiedig.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 391		<p>Daeth yr awduron i'r casgliad bod tystiolaeth gyfyngedig bod NDP-3 a ReST, o'u darparu'n ddwys, yn gallu arwain at welliant yng nghywirdeb geiriau ymysg plant 4 i 12 mlwydd oed sydd â CAS, o'i fesur yn ôl cywirdeb cynhyrchu geiriau a oedd wedi'u trin a heb eu trin, cysondeb wrth gynhyrchu lleferydd, a chywirdeb lleferydd cysylltiedig.</p> <p>Roedd yr awduron o'r farn bod risg fach o duedd ym mhob un o'r prif feysydd canlyniad. Roeddent wedi gostwng ansawdd y dystiolaeth o un lefel i'r gymedrol oherwydd diffyg manwl gywirdeb, am mai dim ond un hap-dreial rheoledig a nodwyd.</p>
	<p>Brignell, A et al. (2018). <i>Communication interventions for autism spectrum disorder in minimally verbal children</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 11. Art. No.: CD012324. DOI: 10.1002/14651858.CD012324.pub2. Ar gael yma.</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn yn ceisio asesu effeithiau ymyriadau cyfathrebu ar gyfer anhwylder sbectrwm awtistiaeth mewn plant sydd heb ond ychydig o allu geiriol.</p> <p>Mae'r adolygiad hwn yn cynnwys dau hap-dreial rheoledig (154 o blant 32 mis i 11 mlwydd oed) o ymyriadau cyfathrebu ar gyfer Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth mewn plant sydd heb ond ychydig o allu geiriol o'u cymharu â grŵp rheolydd (triniaeth arferol).</p> <p>Mae'r awduron yn dod i'r casgliad bod tystiolaeth gyfyngedig bod ymyriadau seiliedig ar eiriau ac ymyriadau Cyfathrebu Cynyddol (ACC) yn gwella cyfathrebu llafar a dieiriau mewn plant sydd heb ond ychydig o allu geiriol sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Mae nifer sylweddol o astudiaethau wedi ymchwilio i ymyriadau cyfathrebu ar gyfer plant sydd heb ond ychydig o allu geiriol sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth. Er hynny, dim</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 392	<p>Pennington, L et al. (2016). <i>Speech therapy for children with dysarthria acquired before three years of age</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 7. Art. No.: CD006937. DOI: 10.1002/14651858.CD006937.pub3. Ar gael yma</p>	<p>ond dwy astudiaeth a oedd yn cwrdd â meini prawf cynhwysiant ar gyfer yr adolygiad hwn, ac roedd yr awduron o'r farn bod ansawdd cyffredinol y dystiolaeth yn isel iawn.</p> <p>Yn yr adolygiad systematig hwn, aseswyd a oedd unrhyw ymyriad therapi lleferydd ac iaith i wella lleferydd plant â dysarthria yn fwy effeithiol o ran gwneud lleferydd plant yn fwy dealladwy neu gynyddu eu cyfranogiad mewn cyfathrebu na pheidio ag ymyrryd o gwbl, a chymharwyd effeithiolrwydd mathau penodol o therapi lleferydd ac iaith o ran gwneud y lleferydd yn fwy dealladwy neu gynyddu cyfranogiad mewn cyfathrebu mewn plant sydd â dysarthria.</p> <p>Ni chanfuwyd unrhyw hap-dreialon rheoledig nac astudiaethau grŵp.</p> <p>Nid oedd yr adolygiad hwn wedi dod o hyd i dystiolaeth o hap-dreialon am effeithiolrwydd ymyriadau therapi lleferydd ac iaith i wella lleferydd plant sydd â dysarthria a gafwyd yn gynnar. Mae angen cynnal hap-dreialon rheoledig sy'n drwyadl a chynhwysfawr er mwyn canfod a yw'r newidiadau cadarnhaol yn lleferydd plant a arsylwyd mewn astudiaethau cam I a cham II yn rhai y gellir eu cymhwyso'n gyffredinol at y boblogaeth o blant sydd â dysarthria a gafwyd yn gynnar sy'n derbyn gwasanaethau therapi lleferydd ac iaith.</p>
	<p>Cyflogaeth dan gymorth</p>	<p>Suijkerbuijk, YB et al. (2017). <i>Interventions for obtaining and maintaining employment in adults with severe mental illness, a network</i></p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 393	<p><i>meta-analysis</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 9. Art. No.: CD011867. DOI: 10.1002/14651858.CD011867.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Daeth yr awduron i'r casgliad mai cyflogaeth dan gymorth a chyflogaeth dan gymorth cynyddol oedd yr ymyriadau mwyaf effeithiol ar gyfer pobl â salwch meddwl difrifol o ran cael a chadw cyflogaeth, ar sail y dadansoddiad cymharu uniongyrchol a'r metaddadansoddiad rhwydwaith, heb gynyddu'r risg o gael digwyddiadau anffafriol. Mae'r canlyniadau hyn wedi'u seilio ar dystiolaeth gymedrol i isel ei hansawdd, felly mae'n bosibl y byddai astudiaethau yn y dyfodol lle mae llai o risg o duedd yn gallu rhoi canlyniadau gwahanol.</p> <p>Gall cyflogaeth dan gymorth cynyddol fod ychydig yn fwy effeithiol o'i chymharu â chyflogaeth dan gymorth yn unig. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaeth hwn yn fach, ar sail y dadansoddiad cymharu uniongyrchol, ac yn llai byth ar sail y metaddadansoddiad rhwydwaith, felly dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r gwahaniaeth hwn.</p>
	<p>Fong, C.J. et al. (2021). <i>Interventions for improving employment outcomes for persons with autism spectrum disorders: a systematic review update</i>. Campbell Systematic Reviews. Volume 17, Issue 3. DOI:10.1002/cl2.1185. Ar gael yma</p>	<p>Amcan yr adolygiad hwn oedd canfod effeithiolrwydd ymyriadau cyflogaeth o ran sicrhau a chadw cyflogaeth ar gyfer oedolion a phobl ifanc o oed pontio sydd ag Anhwylder Sbectrum Awtistiaeth (ASA), gan ddiweddarau dau adolygiad gan Westbrook et al.</p> <p>Roedd y diweddariad o'r adolygiad systematig wedi canfod tair astudiaeth a oedd yn gwerthuso canlyniadau cyflogaeth o ymyriadau ar gyfer unigolion sydd ag ASA. Mae pob un o'r tair astudiaeth a nodwyd yn yr adolygiad yn awgrymu bod rhaglenni sy'n canolbwyntio ar alwedigaeth yn gallu cael effeithiau cadarnhaol ar ganlyniadau cyflogaeth ar gyfer unigolion sydd ag ASA. Roedd Wehman et al.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 394		<p>wedi nodi bod y cyfraddau cyflogaeth ymysg cyfranogwyr ym Mhrosiect SEARCH yn uwch na'r rheini ymysg cyfranogwyr mewn grŵp rheolydd ar ôl 9 mis ac ar ôl 1 flwyddyn. Nodwyd hefyd yn astudiaeth Wehman et al. fod cyfraddau cyflogaeth uwch ymysg cyfranogwyr yn y driniaeth ar ôl ychwanegu cymorth ar gyfer anhwylderau sbectrwm awtistiaeth ym Mhrosiect SEARCH nag ymysg cyfranogwyr y grŵp rheolydd, ar ôl graddio, ar ôl 3 mis ac ar ôl 12 mis. Cafodd Smith et al. fod hyfforddiant realiti rhithwir ar gyfer cyfweiliadau swydd yn gallu cynyddu nifer y cynigion swydd a gâi cyfranogwyr yn y driniaeth o'i gymharu â chyfranogwyr y grŵp rheolydd.</p> <p>Daeth yr awduron i'r casgliad, o ystyried nad oedd adolygiadau blaenorol wedi canfod ymyriadau lle'r oedd canlyniadau gwirioneddol o ran cyflogaeth, fod y ffaith bod gwerthusiadau mwy diweddar wedi dangos bod rhaglenni o'r fath yn bodoli yn fater calonogol. Mae hyn yn awgrymu bod corff cynyddol o dystiolaeth ynghylch ymyriadau i wella canlyniadau cyflogaeth unigolion sydd ag ASA ond hefyd fod mwy o angen i gynnal treialon trwyadl o ymyriadau seiliedig ar alwedigaeth ar gyfer unigolion sydd ag ASA sy'n mesur canlyniadau cyflogaeth.</p> <p>Mae'r awduron yn nodi bod y ffaith bod nifer yr astudiaethau yn yr adolygiad yn fach a bod y samplau'n gymharol fach yn golygu na ddylai darllenwyr gymhwyso'r canfyddiadau o'r adolygiad yn rhy gyffredinol.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
<p>Cyflogaeth (NEET)</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 395</p>	<p>Price, S a Shaw, H. (2020). <i>Beth sy'n gweithio i wella cyfranogiad mewn gwaith?</i> Crynodeb o fapio tystiolaeth systematig. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r crynodeb hwn yn darparu trosolwg ar gyfeiriad y dystiolaeth wrth ateb y cwestiwn "Beth sy'n gweithio o ran gwella cyfranogiad mewn gwaith er mwyn gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd?"</p> <p>Roedd y crynodeb mapio systematig wedi cael bod nifer o ymyriadau a allai helpu pobl i gael gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prentisiaethau • Rhaglenni o Fudd-dal i Waith • Rhaglenni Marchnad Lafur Weithgar • Derbyn yr holl fudd-daliadau diweithdra priodol sydd ar gael • Polisiâu i'w gwneud yn haws cael gafael ar gyllid e.e. cymorthdaliadau neu warantau ar gyfer benthyciadau • Ymyriadau cyflogaeth i rai sy'n goroesi canser • Cyflogaeth dan gymorth i'r rheini sydd â salwch meddwl difrifol • Y gallu i gael grantiau, benthyciadau neu gymorthdaliadau ar gyfer arloesi • Ymyriadau iechyd meddwl ar gyfer y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl. <p>Mae nifer o ymyriadau a all helpu i gadw pobl mewn gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ar gyfer pobl sydd ag anhwylderau cyhyrsgerbydol, ymyriadau sy'n canolbwytio ar yr unigolyn i'w helpu i ddychwelyd i weithio, ac ymyriadau seiliedig ar y gweithle fel y gall ddychwelyd i weithio'n gynt • Ymyriadau cyflogaeth i helpu'r rheini sydd wedi goroesi canser i aros yn y gwaith ac ymyriadau amlddisgyblaethol

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 396		<ul style="list-style-type: none"> • Therapïau sy'n datrys problemau er mwyn lleihau absenoldeb oherwydd salwch ymysg pobl sydd ag anhwylder addasu • Ymyriadau cysylltiedig â gwaith ar ben ymyriadau clinigol ar gyfer pobl sydd ag iselder er mwyn lleihau absenoldeb oherwydd salwch. <p>Dylid nodi nad adolygiad systematig yw hwn ac nad yw'n ystyried ansawdd y dystiolaeth. Dylid astudio'r mapiau tystiolaeth llawn (sydd ar gael yma) a darllen yr adolygiadau llawn o'r dystiolaeth wrth ddod i benderfyniadau. Dylid cofio ei bod yn bosibl na fydd yr ymyriadau'n berthnasol i bob lleoliad neu boblogaeth.</p>
	<p>Learning and Work Institute. (2020). <i>Evidence review: What works to support 15 to 24-year olds at risk of becoming NEET?</i> Leicester: Learning and Work Institute. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad hwn yn ymwneud yn bennaf ag ymyriadau a gyflwynwyd rhwng 2010 a 2020 i geisio gwella cyrhaeddiad a chyflogaeth, cynnydd ac ymgysylltu.</p> <p>Yn yr adolygiad hwn, ystyriwyd ansawdd a natur y dystiolaeth, ac mae'r awduron yn cyflwyno astudiaethau lle mae tystiolaeth gadarn am achos er mwyn canfod dulliau o weithredu a fu'n effeithiol wrth helpu pobl ifanc mewn cysylltiad â chanlyniadau o ran cyrhaeddiad a chyflogaeth, cynnydd ac ymgysylltu.</p> <p>Mae'r rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymyriadau lluosog a dulliau 'cofleidiol' sy'n effeithiol o ran gwella cyrhaeddiad a rhagolygon am waith ymysg dysgwyr difreintiedig. • Hyfforddeiaethau, iterniaethau â chymorth a rhaglenni prentisiaeth sy'n gallu sicrhau canlyniadau cadarnhaol o ran cyflogaeth ac enillion i bobl ifanc sy'n wynebu'r risg o fod yn NEET.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 397		<ul style="list-style-type: none"> • Cymorth sgiliau sylfaenol sy'n gallu gwella cynnydd a lleihau'r risg o ddod yn NEET. • Y gallu i gael profiad gwaith sy'n gallu arwain at gyflogaeth a manteision o ran enillion yn y tymor hir. • Mentora a chwmsela sy'n gallu rhoi cymorth effeithiol i ddisgyblion sy'n wynebu'r risg o fod yn NEET. • Ymyriadau lluosog i feithrin sgiliau ysgogiadol a hyder sy'n gallu gwella ymgysylltu, ond lle mae hyblygrwydd wrth ddarparu'r ymyriad yn hanfodol. • Ymgysylltu un-i-un a theilwredig sy'n gallu helpu pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio i ddychwelyd i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. • Cymunedau Dysgu sy'n gallu helpu rhai 16-18 mlwydd oed ar bwyntiau pontio allweddol i gynyddu eu hymgysylltu addysgol. • Cymelldaliadau sy'n gallu hyrwyddo cynnydd addysgol, ond bod angen mwy o brofion yng nghyd-destun y DU.
Cyfarpar - teleofal	<p>Gathercole, R et al. (2021). <i>Assistive technology and telecare to maintain independent living at home for people with dementia: the ATTILA RCT</i>. Health Technology Assessment, 25(19). Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr hap-dreial rheoledig hwn yn ceisio canfod a yw technoleg gynorthwyol ac asesiadau ac ymyriadau teleofal yn ymestyn y cyfnod y mae pobl sydd â dementia yn gallu parhau i fyw'n annibynnol gartref, ac a yw'r rhain yn gosteffeithiol. Ymchwiliwyd hefyd i'r baich ar y gofalwr, i ansawdd bywyd gofalywr a phobl sydd â dementia ac a yw technoleg gynorthwyol a theleofal yn lleihau risgiau i ddiogelwch neu beidio.</p> <p>Daeth yr awduron i'r casgliadau hyn:</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 398		<p>Nid oedd pecyn llawn o dechnoleg gynorthwyol a theleofal yn ymestyn y cyfnod yr oedd cyfranogwyr â dementia yn aros yn y gymuned, nac yn lleihau'r baich ar y gofalwr, iselder neu orbryder, o'i gymharu â phecyn sylfaenol o dechnoleg gynorthwyol a theleofal.</p> <p>Nid oedd y defnydd o becyn llawn o dechnoleg gynorthwyol a theleofal yn cynyddu costau iechyd a gofal cymdeithasol neu gostau cymdeithasol y cyfranogwyr.</p> <p>Roedd blynyddoedd bywyd y cyfranogwyr, ar ôl eu haddasu yn ôl ansawdd ar sail ymatebion i'r holiadur Dimensiynau EuroQol-5, yn llai yng ngrŵp yr ymyriad nag yn y grŵp rheolydd; nid oedd gwahaniaeth rhwng y grwpiau o ran blynyddoedd bywyd wedi'u haddasu yn ôl ansawdd ar sail ymatebion i'r holiadur Dimensiynau EuroQol-5 yn ôl mesurau procsi.</p> <p>Cyfyngiadau:</p> <p>Oherwydd nifer y data coll yn yr holiaduron dilynol, nid oedd modd ymchwilio i effeithiau tymor hwy y dechnoleg ar ganlyniadau gofalwyr. Hefyd, nid oedd y data am ofalwyr a gollwyd yn yr holiaduron dilynol wedi'u colli ar hap, fel bod rhywfaint o duedd yn y canlyniadau. Y rheswm am hyn ymysg rhai gofalwyr a oedd heb gymryd rhan oedd bod derbynnydd y gofal wedi symud i leoliad gofal preswyl neu wedi marw. Yn ogystal â hyn, dadansoddwyd cryfder ystadegol prif ganlyniad yr astudiaeth (y cyfnod cyn derbyn y cyfranogwyr i sefydliad), yn hytrach na'r canlyniadau i ofalwyr. Felly, mae'n bosibl bod sail ystadegol y dadansoddiadau yn wan.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
<p>Cyfarpar (diogelwch plant)</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 399</p>	<p>Stewart, TC et al. (2016). <i>Home safe home: Evaluation of a childhood home safety program</i>. The journal of trauma and acute care surgery, Vol.81 (3), p.533-540. Ar gael yma</p>	<p>Mae Rhaglen Diogelwch Cartref Canolfan Gwyddorau Iechyd Llundain yn darparu dyfeisiau diogelwch, addysg, fideo ar ddiogelwch, a rhestr wirio diogelwch y cartref i'r holl rieni tro cyntaf er mwyn lleihau nifer yr anafiadau yn y cartref ymysg plant. Amcan yr astudiaeth hon oedd gwerthuso'r Rhaglen Diogelwch Cartref o ran atal anafiadau yn y cartref ymysg plant hyd at 2 flwydd oed.</p> <p>Gwerthuswyd y Rhaglen Diogelwch Cartref drwy arolwg dulliau cymysg gan ddefnyddio arolygon dros y Rhyngwyd a'r ffôn.</p> <p>Mae camau i ddileu peryglon, goruchwyllo, a gosod dyfeisiau diogelwch yn ffactorau hwyluso allweddol wrth leihau anafiadau yn y cartref. Roedd rhieni wedi cael bod y Rhaglen Diogelwch Cartref yn ddefnyddiol ar gyfer adnabod peryglon, dysgu strategaethau newydd, meithrin hyder, a darparu nwyddau diogelwch. Mae'r canfyddiad dechreuol yn awgrymu bod y rhaglen yn effeithiol o ran lleihau anafiadau yn y cartref ymysg plant hyd at 2 flwydd oed.</p> <p>Ymchwil gynradd sy'n defnyddio dulliau cymysg yw hon, yn cynnwys dulliau ansoddol (arolygon) a meintiol (dadansoddi ystadegau).</p> <p>Mae'r awduron yn nodi nifer o gyfyngiadau ar yr astudiaeth, yn enwedig mai dim ond 20% o rieni tro cyntaf a oedd wedi ymateb, a allai gyfyngu ar y gallu i gymhwyso canlyniadau'r arolwg yn gyffredinol, gan ei fod yn ffafrio grŵp o rieni sy'n fwy ymwybodol o ddiogelwch.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 400	<p>Wang, Y et al. (2020). <i>Varying Effect of a Randomized Toddler Home Safety Promotion Intervention Trial by Initial Home Safety Problems</i>. Maternal & Child Health Journal, Apr2020; 24(4): 432-438. DOI: 10.1007/s10995-019-02845-x. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr astudiaeth hon wedi ystyried a oedd ymyriadau diogelwch effeithiol sy'n targedu teuluoedd ar incwm isel sy'n cynnwys plant bach yn amrywio yn ôl y problemau diogelwch cychwynnol yn y cartref.</p> <p>Cafodd yr astudiaeth hon fod effeithiau'r ymyriad i hybu diogelwch ymysg teuluoedd ar incwm isel lle mae plant bach yn amrywio yn ôl y problemau diogelwch cychwynnol yn y cartref. Ymysg teuluoedd lle'r oedd problemau diogelwch lluosog yn y cartref, roedd yr ymyriad wedi arwain at effeithiau cymharol fawr, tra oedd yr effeithiau ymysg teuluoedd heb ddim neu nemor ddim problemau diogelwch yn y cartref yn fach a heb fod yn arwyddocaol.</p> <p>Un cyfyngiad allweddol ar yr astudiaeth hon oedd bod yr ymyriad diogelwch yn canolbwyntio ar blant bach mewn teuluoedd ar incwm isel, poblogaeth sy'n wynebu risg fawr o anafiadau anfwriadol. Dylid bod yn ofalus wrth gymhwyso'r canfyddiadau'n gyffredinol at blant bach sydd â statws economaidd-gymdeithasol gwahanol.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ratoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2010). <i>Unintentional injuries: prevention strategies for under 15s</i>. PH29. London: NICE. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymwneud ag atal anafiadau anfwriadol ymysg rhai dan 15 mlwydd oed ac mae'n argymhell gosod y cyfarpar diogelwch canlynol yn y cartref:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Larymau mwg gwifredig neu rai sy'n rhedeg ar fatri 10 mlynedd • Falfiau cymysgu thermostatig ar gyfer baddonau • Cyfyngwyr ffenestr

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 401	<p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2019).</p>	<ul style="list-style-type: none"> Larymau carbon monocsid.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2010). <i>Unintentional injuries in the home: interventions for under 15s</i>. PH30. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2019).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymwneud ag atal anafiadau ymysg rhai dan 15 mlwydd oed. Mae'r argymhellion yn rhoi sylw i asesiadau diogelwch cartref, cyflenwi a gosod cyfarpar diogelwch yn y cartref a darparu addysg wrth gyflawni'r gweithgareddau hyn. Mae'r canllaw hwn yn argymhell cynnig cyfarpar diogelwch yn y cartref, yn cynnwys gardiau drws, cloeon ar gypyrddau, gatau diogelwch, larymau mwg a charbon monocsid, falfiau cymysgu thermostatig a chyfyngwyr ffenestr.</p>
Atal syrthio	<p>Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol. (2020). <i>Occupational therapy in the prevention and management of falls in adults</i>. Practice Guideline, Second Edition. London: Royal College of Occupational Therapists Ltd. Ar gael yma</p>	<p>Nod y canllaw ymarfer hwn yw darparu argymhellion penodol ar sail tystiolaeth sy'n disgrifio'r camau gofalu a gweithredu mwyaf priodol i'w cymryd gan therapyddion galwedigaethol wrth weithio gydag oedolion sydd wedi syrthio, sy'n wynebu risg o syrthio neu sy'n ofni syrthio. Y bwriad yw y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu i gyd-fynd ag arbenigedd clinigol y therapydd wrth asesu anghenion a chyflawni ymyriadau.</p> <p>Mae 17 o argymhellion mewn pedwar maes allweddol:</p> <ol style="list-style-type: none"> Cadw'n ddiogel gartref: lleihau'r risg o syrthio. Cadw'n weithgar: lleihau'r ofn o syrthio. Rheoli cwmpadau: ei wneud yn ystyrlon. Ymyriad therapi galwedigaethol: effaith a chosteffeithiolrwydd.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 402	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2013). <i>Falls in older people: assessing risk and prevention</i>. CG161. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2019 a bydd yn cael ei ddiweddarau).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn cynnwys argymhellion ar gyfer atal cwmpadau ymysg pobl 65 mlwydd oed a hŷn. Mae'n gwneud argymhellion ar asesu ac ymyriadau.</p>
	<p>Guirguis-Blake, J.M MD. (2018). <i>Interventions to Prevent Falls in Older Adults</i>. Updated Evidence Report and Systematic Review for the US Preventive Services Task Force. Ar gael yma</p>	<p>Nod yr adolygiad systematig hwn yw asesu effeithiolrwydd a mathau o nived mewn ymyriadau atal syrthio ymysg oedolion hŷn sy'n byw yn y gymuned. Roedd yn canolbwyntio ar dri phrif ymyriad: amlffactorol, ymarfer corff ac atchwanegiadau fitamin D.</p> <p>Daeth yr awduron i'r casgliad bod ymyriadau amlffactorol ac ymarfer corff yn cael eu cysylltu â budd yn ymwneud â chwmpadau, ond roedd y dystiolaeth yn fwyaf cyson ar gyfer ymarfer corff mewn nifer o ganlyniadau cysylltiedig â syrthio. Roedd ymyriadau atchwanegu fitamin D yn arwain at ganlyniadau cymysg, lle'r oedd dos mwy yn cael ei gysylltu â chyfraddau uwch o ganlyniadau cysylltiedig â syrthio.</p> <p>Roedd yr adolygiad hwn wedi'i gyfyngu i oedolion hŷn sy'n byw yn y gymuned ac ymyriadau y gellid eu cyflawni neu atgyfeirio ar eu cyfer mewn gofal sylfaenol. Nid oedd treialon wedi'u cynnwys os oeddent wedi mynd ati'n benodol i recriwtio cyfranogwyr a gafodd ddiagnosis am anhwylder niwrolegol neu anhwylder</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		penodol arall, fel diffyg fitamin D ac osteoporosis. Felly mae'n bosibl na fydd y casgliadau'n gymwysadwy i'r poblogaethau hynny.
<p>Hybu ffyrdd iach o fyw (rhoi'r gorau i ysmegu)</p> <p>Tud. 403</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2018). <i>Stop smoking interventions and services</i>. NG92. London: NICE.</p> <p>Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn ymdrin ag ymyriadau a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu a ddarperir mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol i bawb dros 12 oed.</p> <p><u>Mae'r canllaw hwn yn cynnwys argymhellion ar y canlynol:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Comisiynu a darparu ymyriadau a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu • Monitro gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu • Ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu seiliedig ar dystiolaeth • Ymgysylltu â phobl sy'n ysmegu • Cyngor ar e-sigaréts • Pobl sydd am roi'r gorau i ysmegu • Pobl sydd heb fod yn barod i roi'r gorau i ysmegu • Llinellau ffôn rhoi'r gorau i ysmegu • Addysg a hyfforddiant • Ymgyrchoedd i hybu ymwybyddiaeth o wasanaethau lleol ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu • Sefydliadau caeedig • Cyflogwyr
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymwneud â lleihau niwed ac mae ar gyfer pobl a allent fod heb y gallu (neu'r dymuniad) i roi'r gorau i ysmegu ar un cam. Mae hyn</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 404	<p>(2013). <i>Smoking: harm reduction</i>. PH45. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017).</p>	<p>yn cynnwys y rheini a allai fod am roi'r gorau i ysmegu, heb roi'r gorau i nicotin o reidrwydd, a'r rheini a allai fod yn amharod i roi'r gorau i ysmegu ond sydd am ysmegu llai. Mae'n gwneud argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hybu ymwybyddiaeth o gynhyrchion sy'n cynnwys nicotin a drwyddedwyd • Deunyddiau hunangymorth • Dewis dull o leihau niwed • Cymorth ymddygiadol • Cyngori ar gynhyrchion sy'n cynnwys nicotin a drwyddedwyd • Cyflenwi cynhyrchion sy'n cynnwys nicotin a drwyddedwyd • Apwyntiadau dilynol • Cymorth i ymwrthod ag ysmegu dros dro • Pobl mewn sefydliadau caeedig • Comisiynu gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu • Addysg a hyfforddiant i ymarferwyr • Hyrwyddo cynhyrchion sy'n cynnwys nicotin a drwyddedwyd yn y man gwerthu • Gwybodaeth gan weithgynhyrchwyr am gynhyrchion sy'n cynnwys nicotin a drwyddedwyd.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2013). <i>Smoking: acute, maternity</i></p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ceisio rhoi cymorth i roi'r gorau i ysmegu, i ymwrthod ag ysmegu dros dro ac yn cefnogi polisïau di-fwg yn yr holl leoliadau gofal eilaidd. Mae'n argymhell:</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 405	<p><i>and mental health services</i>. PH48. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Arweinyddiaeth a rheolaeth gryf i sicrhau bod mangreoedd yn aros yn ddi-fwg. • Bod pob ysbyty yn rhedeg gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu ar y safle. • Adnabod pobl sy'n ysmegu, cynnig cyngor a chymorth i roi'r gorau iddo. • Darparu cymorth ymddygiadol dwys a ffarmacotherapi yn rhan annatod o ofal eilaidd. • Integreiddio cymorth i roi'r gorau i ysmegu mewn gofal eilaidd â chymorth a ddarperir gan wasanaethau yn y gymuned. • Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi i gynorthwyo pobl i roi'r gorau i ysmegu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal eilaidd. • Helpu staff i roi'r gorau i ysmegu neu ymwrthod tra byddant yn y gwaith. • Sicrhau nad oes manau ysmegu dynodedig neu egwylion ysmegu a hwyluswyd gan staff ar gyfer unrhyw un sy'n defnyddio gwasanaethau gofal eilaidd.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2010). <i>Smoking: stopping in pregnancy and after childbirth</i>. PH26. London: NICE. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn canolbwyntio ar roi'r gorau i ysmegu yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl geni plentyn. Mae'r wyth argymhelliad yn cynnwys cyngor ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut mae gweithwyr proffesiynol y GIG ac eraill sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus, cymunedol a gwirfoddol yn gallu adnabod menywod (yn cynnwys rhai yn eu harddegau) sy'n ysmegu pan fyddant yn dod i apwyntiad neu gyfarfod.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 406	<p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (wedi'i ddiweddarau'n rhannol yn 2018).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sut i'w hatgyfeirio i Wasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu y GIG (neu rai cyfatebol). • Sut y dylai staff Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmygu y GIG (a staff mewn gwasanaethau cyfatebol nad ydynt yn y GIG) gysylltu a chynorthwyo'r holl fenywod a atgyfeiriwyd i gael cymorth. • Sut i helpu partneriaid neu bobl eraill sy'n bwysig iddynt sy'n ysmegu. • Pa bryd ac ym mha ffordd y dylid cynnig therapi disodli nicotin a mathau eraill o gymorth ffarmacolegol. • Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2010). <i>Smoking prevention in schools</i>. PH23. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2013 a bydd yn cael ei ddiweddarau'n rhannol).</p>	<p>Mae'r ffynhonnell hon yn rhoi sylw i'r camau y gellir eu cymryd mewn ysgolion i atal plant a phobl ifanc rhag dechrau ysmegu. Mae'r pum argymhelliad yn y canllaw hwn gan NICE yn cynnwys y cyngor canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n bwysig bod y polisi ysmegu yn cefnogi gweithgareddau i atal ac i roi'r gorau i ysmegu a dylai fod yn gymwys i bawb sy'n defnyddio'r safle (yn cynnwys y tiroedd). • Dylai gwybodaeth am ysmegu gael ei hintegreiddio â'r cwricwlwm. Er enghraifft, gallai fod yn berthnasol ei drafod yn yr ystafell ddosbarth wrth addysgu bioleg, cemeg, dinasyddiaeth a mathemateg. • Dylid darparu gweithgareddau atal ysmegu yn rhan o addysg bersonol, gymdeithasol, iechyd ac economaidd a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â statws Ysgolion Iach neu Addysg Bellach Iach.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 407		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n bwysig bod gweithgareddau atal ysmegu yn ceisio meithrin sgiliau penderfynu a'u bod yn cynnwys strategaethau i hybu hunan-barch. Dylid annog rhieni a gofalwyr i gymryd rhan a gellid hyfforddi myfyrwyr i arwain rhai o'r rhaglenni hyn. • Dylai'r holl staff sy'n ymwneud ag atal ysmegu gael eu hyfforddi i wneud hynny. • Dylai sefydliadau addysgol weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol i gynllunio, darparu, monitro a gwerthuso gweithgareddau atal ysmegu.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2008). <i>Smoking preventing uptake in children and young people</i>. PH14. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2014 a bydd yn cael ei ddiweddarau).</p>	<p>Mae'r argymhellion yn y canllaw hwn gan NICE yn rhoi sylw i argymhellion ar gyfer y cyfryngau torfol a manau gwerthu a allai helpu i atal plant a phobl ifanc rhag dechrau ysmegu.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2007). <i>Smoking workplace interventions</i>. PH5. London: NICE. Ar gael yma.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymdrin â hybu iechyd yn y gweithle gan gyfeirio at ysmegu a beth sy'n llwyddo i ysgogi cyflogeion a newid eu hymddygiad. Mae'r argymhellion yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai cyflogwyr ddatblygu polisi rhoi'r gorau i ysmegu, darparu gwybodaeth i gyflogeion am wasanaethau cymorth lleol i roi'r gorau i ysmegu, hysbysebu'r

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 408	<p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2014).</p>	<p>ymyriadau uchod a chaniatáu i'r staff gael amser o'r gwaith i dderbyn gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylai cyflogeion a'u cynrychiolwyr roi anogaeth i gyflogwyr ddarparu cyngor, cyfarwyddyd a chymorth i staff sy'n ysmegu i roi'r gorau iddo. • Os yw cyflogeion am gael gwybodaeth, cyngor neu gymorth i roi'r gorau i ysmegu, dylent gysylltu â gwasanaeth lleol fel Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Ysmegu y GIG. • Dylai gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu gynnig un neu ragor o'r gwasanaethau a argymhellir sydd wedi'u rhestru uchod, wedi'u darparu gan staff hyfforddedig a'u haddasu yn ôl anghenion yr unigolyn. Dylent hefyd gynnig cymorth i gyflogwyr i helpu eu cyflogeion i roi'r gorau i ysmegu. Os bydd y galw'n fwy na'r adnoddau sydd ar gael, dylai gwasanaethau ganolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig eu maint.
	<p>Hartmann-Boyce, J et al. (2021). <i>Behavioural interventions for smoking cessation: an overview and network meta-analysis</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 1. Art. No.: CD013229. DOI: 10.1002/14651858.CD013229.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Yn yr adolygiad hwn o adolygiadau, rhoddir crynodeb o'r dystiolaeth yn Adolygiadau Cochrane a oedd wedi asesu effaith ymyriadau ymddygiadol a oedd â'r bwriad o hybu ymdrechion i roi'r gorau i ysmegu a chynnal metaddadansoddiad rhwydwaith i bennu sut mae dulliau darparu; y person sy'n darparu'r ymyriad; natur, ffocws, a dwysedd ymyriadau ymddygiadol yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o allu ymwrthod chwe mis ar ôl ceisio rhoi'r gorau i ysmegu; ac a yw effeithiau ymyriadau ymddygiadol yn dibynnu ar nodweddion eraill, yn cynnwys poblogaeth, lleoliad, a darparu ffarmacotherapi.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 409		<p>Mae'r awduron yn dod i'r casgliad bod cymorth ymddygiadol i roi'r gorau i ysmegu yn gallu cynyddu cyfraddau rhoi'r gorau i ysmegu ar ôl chwe mis neu'n hirach, ac nad oes tystiolaeth bod cymorth yn cynyddu niweidiau. Mae hyn yn wir pa un a yw ffarmacotherapi i roi'r gorau i ysmegu yn cael ei ddarparu neu beidio, ond mae'r effaith ychydig yn fwy amlwg lle na ddarperir ffarmacotherapi. Ceir y dystiolaeth fwyaf o fudd pan ddarperir unrhyw fath o gwnsela, a chymhellion ariannol gwarantedig. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod budd dichonol ond bod angen rhagor o astudiaethau i werthuso'r canlynol: teilwra ar gyfer yr unigolyn; darparu drwy negeseuon testun, e-bost, a recordio clywedol; darparu gan gynghorydd iechyd lleig; ac ymyriadau sy'n cynnwys elfennau ysgogiadol a ffocws ar sut i roi'r gorau i ysmegu.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 410</p> <p>Hybu ffyrdd iach o fyw (bwyta'n iach/cymorth i golli pwysau)</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2015). <i>Preventing excess weight gain</i>. NG7. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017 a bydd yn cael ei ddiweddarau).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â phlant (ar ôl diddyfnu) ac oedolion ac mae'n ymwneud â chadw pwysau iach ac atal ennill gormod o bwysau. Nod yr argymhellion yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Annog pobl i wneud newidiadau'n unol â chynghor sydd wedi'i ddarparu • Annog pobl i ddatblygu arferion gweithgarwch corfforol a deietegol a fydd yn eu helpu i gadw pwysau iach ac yn atal ennill gormod o bwysau • Annog pobl i fonitro eu pwysau ac ymddygiadau cysylltiedig • Hyrwyddo negeseuon clir am y buddion o gadw pwysau iach a gwneud newidiadau graddol mewn gweithgarwch corfforol a deiet • Sicrhau bod negeseuon wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau penodol • Sicrhau bod gweithgareddau wedi'u hintegreiddio â'r dull strategol lleol o drafod gordewdra.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2010). <i>Weight management before, during and after pregnancy</i>. PH27. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017 a</p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn ymdrin ag ymyriadau gweithgarwch corfforol a deietegol i reoli pwysau cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Mae'r chwe argymhelliad yn y canllaw hwn gan NICE yn seiliedig ar ddulliau o weithredu y dangoswyd eu bod yn effeithiol ar gyfer y boblogaeth gyfan. Maent yn cynnwys cyngor ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut i helpu menywod sydd â BMI o 30 neu fwy i golli pwysau cyn ac ar ôl beichiogrwydd – a sut i'w helpu i fwyta'n iach ac aros yn gorfforol weithgar yn ystod beichiogrwydd. • Sut i helpu'r holl fenywod beichiog i fwyta'n iach ac aros yn gorfforol weithgar.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 411	<p>bydd yn cael ei gyfuno â chanllawiau eraill).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rôl gwasanaethau yn y gymuned. • Y sgiliau proffesiynol sydd eu hangen i gyflawni'r uchod.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2013). <i>Weight management: lifestyle services for overweight or obese children and young people</i>. PH47. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017 a bydd yn cael ei ddiweddarau'n rhannol).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn gwneud argymhellion ar wasanaethau rheoli pwysau ar sail ffordd o fyw ar gyfer plant a phobl ifanc sydd dros eu pwysau neu'n ordew. Mae'r argymhellion yn cwmpasu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio gwasanaethau • Comisiynu rhaglenni • Elfennau craidd rhaglenni rheoli pwysau ar sail ffordd o fyw • Datblygu cynllun rhaglen teilwredig i gwrdd ag anghenion yr unigolyn • Hyrwyddo cydymffurfiaeth • Hybu ymwybyddiaeth o raglenni • Atgyfeirio'n ffurfiol i raglenni • Darparu cymorth parhaus • Staff rhaglenni: hyfforddiant, gwybodaeth a sgiliau • Hyfforddiant ar sut i atgyfeirio i raglenni • Cynorthwyo staff rhaglenni a'r rheini sy'n atgyfeirio i raglenni • Monitro a gwerthuso rhaglenni.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2014). <i>Weight management: lifestyle services for overweight or obese</i></p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn canolbwyntio ar raglenni rheoli pwysau ar sail ffordd o fyw ar gyfer oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sy'n derbyn hunanatgyfeiriadau neu atgyfeiriadau gan ymarferwyr iechyd neu ofal cymdeithasol

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 412	<p><i>adults</i>. PH53. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017 a bydd yn cael ei gyfuno â chanllawiau eraill).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sy'n cael eu darparu gan y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol • Sydd wedi'u lleoli yn y gymuned, mewn gweithleoedd, mewn gofal sylfaenol neu ar-lein <p>Mae'r argymhellion yn cynnwys cynllunio gwasanaethau a chomisiynu rhaglenni; elfennau craidd rhaglenni rheoli pwysau ar sail ffordd o fyw; datblygu cynllun rhaglen teilwredig i gwrdd ag anghenion yr unigolyn; hyrwyddo cydymffurfiaeth a hybu ymwybyddiaeth o raglenni.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2012). <i>Obesity working with local communities</i>. PH42. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymdrin â chamau gweithredu ar draws y gymuned i atal gordewdra a phwysau gormodol ymysg oedolion a phlant. Mae'r 14 argymhelliad yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu dull cynaliadwy o ddelio â gordewdra ar draws y gymuned • Arweinyddiaeth strategol • Hybu arweinyddiaeth ar bob lefel • Cydgysylltu camau gweithredu lleol • Cyfathrebu • Cynnwys y gymuned • Comisiynu integredig • Cynnwys busnesau a mentrau cymdeithasol lleol sy'n gweithredu yn yr ardal leol • Awdurdodau lleol a'r GIG yn gosod esiampl drwy arferion da • Cynllunio systemau ar gyfer monitro a gwerthuso • Cyflawni swyddogaethau monitro a gwerthuso • Costeffeithiolrwydd

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<ul style="list-style-type: none"> • Datblygiad a hyfforddiant sefydliadol • Craffu ac atebolrwydd.
<p>Hybu ffyrdd iach o fyw ("Health at Every Size®")</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 413</p>	<p>Ulian, R (2018). <i>Effects of health at every size® interventions on health-related outcomes of people with overweight and obesity: a systematic review</i>. Obesity Reviews, Vol 19 (12), Doi.org/10.1111/obr.12749. Ar gael yma</p>	<p>Nod yr astudiaeth hon oedd crynhoi'r effeithiau cysylltiedig ag iechyd o ymyriadau seiliedig ar raglen Health at Every Size® (HAES®) ar bobl sy'n ordev a dros eu pwysau.</p> <p>Dangosodd yr adolygiad hwn fod ymyriadau seiliedig ar raglen HAES® yn effeithiol wrth wella rhai canlyniadau cardiofasgwlaidd, e.e. cyfanswm y colesterol a cholesterol lipoproteinau dwysedd isel. Er hynny, mae angen rhagor o dystiolaeth ar gyfer canlyniadau eraill fel triglyceridau, lefelau glwcos ar stumog wag a phwysedd gwaed. Byddai'r dull hwn yn gallu gwella ymddygiad bwyta, cymeriant egni ac ansawdd deiet y cyfranogwyr. Yn ogystal â hyn, cafwyd newidiadau seicolegol cadarnhaol fel cynnydd yn y defnydd o ocsigen a lefel y gweithgarwch corfforol. Yn y diwedd, gwelwyd gwelliannau mawr hefyd o ran ansawdd bywyd, y canfyddiad o straen a lefel iselder.</p> <p>Er hynny, roedd yr astudiaethau a adolygwyd yma yn amrywio'n fawr o ran dilyniant, natur yr ymyriad, maint y sampl, ansawdd y fethodoleg a chanlyniadau. Gan ei bod yn ymddangos bod rhaglen HAES® yn ddull addawol ar gyfer rheoli gordewdra, dylid cyflawni rhagor o astudiaethau cynhwysfawr o dan reolaeth dda i gymharu ei heffeithiolrwydd â'r hyn a geir drwy ymyriadau mwy traddodiadol (h.y. ymyrryd rhagnodol), y dangoswyd eu bod yn aneffeithiol at ei gilydd yn y tymor hir.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
<p>Hybu ffyrdd iach o fyw (gweithgarwch corfforol)</p> <p>Tud. 414</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2014). <i>Physical activity: exercise referral schemes</i>. PH54. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2018).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn un ar gyfer oedolion ac mae'n ymdrin â chynlluniau atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff sy'n ceisio cynyddu gweithgarwch corfforol ymysg pobl sy'n anweithgar neu'n eisteddog ac sy'n iach fel arall neu sydd ag anhwylder iechyd presennol neu ffactorau eraill sy'n creu risg o afiechyd.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2009). <i>Physical activity for children and young people</i>. PH17. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2018).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymdrin â gweithgarwch corfforol, chwarae actif a chwaraeon ar gyfer plant cyn oed ysgol a phlant a phobl ifanc o oed ysgol mewn lleoliadau teuluol, cyn ysgol, ysgol a chymunedol. Mae'n gwneud argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut i hyrwyddo buddion gweithgarwch corfforol a hybu cyfranogi • Cynllunio strategol lefel uchel • Pa mor bwysig yw ymgynghori â phlant a phobl ifanc a sut i fynd ati i wneud hynny • Cynllunio a darparu manau, cyfleusterau a chyfleoedd • Hyfforddi pobl i redeg rhaglenni a gweithgareddau • Sut i hyrwyddo ffyrdd corfforol weithgar o deithio fel beicio a cherdded.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 415	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2013). <i>Physical activity brief advice for adults in primary care</i>. PH44. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2016).</p>	<p>Yn y canllaw hwn gan NICE, ceir argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnabod oedolion sy'n anweithgar • Darparu cyngor byr a mynd ar ei ôl • Cynnwys cyngor byr wrth gomisiynu • Systemau ar gyfer darparu cyngor byr • Gwybodaeth a hyfforddiant ar gyfer darparu cyngor byr <p>Mae'r canllaw hwn yn cynnig cymorth ar gyfer darparu cyngor byr yn rheolaidd ym maes gofal sylfaenol.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2012). <i>Physical activity walking and cycling</i>. PH41. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2019).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymwneud â chymhell pobl i gerdded neu feicio'n fwy ar gyfer teithio ac i ddibenion hamdden. Mae'r argymhellion yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglenni lleol • Polisi a chynllunio • Ysgolion, gweithleoedd a'r GIG.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2018). <i>Physical activity and the</i></p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn trafod ffyrdd i wella'r amgylchedd ffisegol er mwyn hybu a hyrwyddo gweithgarwch corfforol. Y nod yw cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymysg y boblogaeth gyffredinol.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 416	<p><i>environment</i>. NG90. London: NICE.</p> <p>Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau ac mae'n cymryd lle canllaw PH8 NICE.</p>	<p>Mae'r canllaw yn cynnwys argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Strategaethau, polisiau a chynlluniau i gynyddu gweithgarwch corfforol yn yr amgylchedd lleol • Teithio llesol • Mannau agored cyhoeddus • Adeiladau • Ysgolion
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2008). <i>Physical activity in the workplace</i>. PH13. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2019 ac mae'n cael ei ddiweddarau).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymwneud â gwella iechyd yn y gweithle drwy annog cyflogeion i fod yn gorfforol weithgar. Mae'r argymhellion ar gyfer cyflogwyr yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cynllun i'r sefydliad cyfan a chyflwyno a monitro rhaglen aml-elfen ar draws y sefydliad i gymhellu a chynorthwyo cyflogeion i fod yn fwy corfforol weithgar. (Gallai hyn fod yn rhan o raglen ehangach i wella iechyd.) • Annog cyflogeion i gerdded, beicio neu ddefnyddio modd teithio arall sy'n galw am weithgarwch corfforol i deithio dros ran neu'r cyfan o'r ffordd rhwng y cartref a'r gwaith (er enghraifft, drwy ddatblygu cynllun teithio). • Helpu cyflogeion i fod yn gorfforol weithgar yn ystod y diwrnod gwaith, er enghraifft, drwy eu hannog i ddefnyddio grisiau neu gerdded i gyfarfodydd y tu allan i'r adeilad.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 417	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2008). <i>Mental wellbeing in over 65s: occupational therapy and physical activity interventions</i>. PH16. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2018 a bydd yn cael ei ddiweddarau).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn un ar gyfer gofal sylfaenol a phreswyl ac mae'n canolbwyntio ar y rhan y mae ymyriadau therapi galwedigaethol a gweithgarwch corfforol yn ei chwarae wrth hyrwyddo lles meddyliol pobl hŷn.</p> <p>Mae'r argymhellion yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig rhaglenni gweithgarwch corfforol teilwredig yn y gymuned. Dylai'r rhain gynnwys gweithgareddau cymedrol ddwys (fel nofio, cerdded, dawnsio), hyfforddiant cryfder ac ymwrthiant, ac ymarferiadau ffyrfhau ac ymestyn. • Cynghori pobl hŷn a'u gofaluwr ynghylch sut i ymarfer yn ddiogel am 30 munud y diwrnod neu 5 neu ragor o ddiwrnodau yr wythnos, gan gyfeirio at enghreifftiau o weithgareddau pob dydd fel siopa, gwaith tŷ a garddio. (Gellir rhannu'r 30 munud yn hyrddiau o 10 munud.) • Cymell pobl hŷn i gymryd rhan yn rheolaidd mewn cynlluniau cerdded lleol fel ffordd i wella lles meddyliol. Helpu a chynorthwyo pobl hŷn i gymryd rhan yn llawn yn y cynlluniau hyn, gan ystyried eu hiechyd, eu symudedd a'u dewisiadau personol.
<p>Hybu ffyrdd iach o fyw (cymorth mewn perthynas â cham-ddefnyddio sylweddau)</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2017). <i>Drug misuse prevention: targeted interventions</i>. NG64. London: NICE. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn ymwneud ag ymyriadau wedi'u targedu i atal camddefnydd o gyffuriau, yn cynnwys cyffuriau anghyfreithlon, cyffuriau 'anterth cyfreithlon' a meddyginiaethau a geir ar bresgripsiwn yn unig. Ei nod yw atal neu ohirio defnydd niweidiol o gyffuriau ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n fwyaf tebygol o ddechrau defnyddio cyffuriau neu sydd eisoes yn arbrofi neu'n defnyddio cyffuriau'n achlysurol.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 418	<p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau ac mae'n cymryd lle canllaw PH4 NICE.</p>	<p>Mae'r canllaw yn cynnwys argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu gweithgareddau atal camddefnydd o gyffuriau yn rhan o wasanaethau presennol • Asesu a yw rhywun yn agored i'r perygl o gamddefnyddio cyffuriau • Darparu hyfforddiant sgiliau i blant a phobl ifanc sy'n agored i'r perygl o gamddefnyddio cyffuriau • Darparu gwybodaeth i oedolion sy'n agored i'r perygl o gamddefnyddio cyffuriau • Darparu gwybodaeth am y defnydd o gyffuriau mewn lleoliadau lle mae'n bosibl y bydd pobl sy'n defnyddio cyffuriau neu'n wynebu'r risg o ddefnyddio cyffuriau.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2019). <i>Alcohol interventions in secondary and further education</i>. NG135. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau ac mae'n cymryd lle canllaw PH7 NICE.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn ymdrin ag ymyriadau mewn addysg uwchradd a phellach i atal a lleihau'r defnydd o alcohol ymysg plant a phobl ifanc rhwng 11 oed a hyd at ac yn cynnwys rhai 18 oed. Mae hefyd yn trafod pobl 11 i 25 oed sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledau sydd mewn addysg amser llawn. Bydd yn berthnasol hefyd i blant 11 oed ym mlwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd.</p> <p>Mae'r canllaw yn cynnwys argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio addysg alcohol • Darparu addysg alcohol yn gyffredinol

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 419		<ul style="list-style-type: none"> • Ymyriadau wedi'u targedu.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2010). <i>Alcohol use disorders prevention</i>. PH24. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2019 ac mae'n cael ei ddiweddarau).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn un ar gyfer llywodraeth, diwydiant a masnach, y GIG a phawb y mae eu gweithredoedd yn effeithio ar ymagwedd y boblogaeth at alcohol a'i defnydd ohono. Mae hyn yn cynnwys comisiynwyr, rheolwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio mewn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Awdurdodau lleol • Addysg • Y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol yn gyffredinol. <p>Mae'r canllaw yn cynnwys argymhellion ar bolisi ac ymarfer ac yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trwyddedu. • Adnoddau ar gyfer adnabod a helpu pobl sydd â phroblemau cysylltiedig ag alcohol. • Plant a phobl ifanc 10 i 15 mlwydd oed – asesu eu gallu i gydsynio, mesur eu defnydd o alcohol, trafod ac atgyfeirio i wasanaethau arbenigol. • Pobl ifanc 16 a 17 flwydd oed – eu hadnabod, cynnig cymorth ysgogiadol neu atgyfeirio i wasanaethau arbenigol. • Oedolion – sgrinio, cynnig cyngor byr, cynnig cymorth ysgogiadol neu atgyfeirio.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 420	<p>McGovern, R et al. (2021). <i>Effectiveness of psychosocial interventions for reducing parental substance misuse</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 3. Art. No.: CD012823. DOI: 10.1002/14651858.CD012823.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn wedi asesu pa mor effeithiol oedd ymyriadau seicogymdeithasol o ran lleihau'r defnydd o sylweddau gan rieni (alcohol a/neu gyffuriau anghyfreithlon, heb gynnwys tybaco). Roedd yr awduron wedi dod o hyd i dystiolaeth o ansawdd cymedrol o'r tebygolrwydd bod ymyriadau seicogymdeithasol yn lleihau amllder y defnydd o alcohol a chyffuriau gan rieni. Mae'n bosibl mai'r rhai mwyaf addawol yw ymyriadau seicogymdeithasol integredig sy'n cyfuno ymyriadau sgiliau rhianta ag elfen yn ymwneud â'r defnydd o sylweddau. Er ei bod yn ymddangos bod mamau'n cael llai o fudd o ymyriadau na thadau, cynghorir bod angen arfer pwyll wrth ddehongli'r dystiolaeth hon, gan nad oedd yr ymyriadau a ddarparwyd i famau ar eu pen eu hunain yn ymdrin fel arfer â'u hanghenion o ran defnyddio sylweddau ac anghenion cysylltiedig eraill. Roedd yr awduron wedi cael tystiolaeth isel ei hansawdd o nifer bach o astudiaethau nad yw ymyriadau sy'n cynnwys plant yn rhai buddiol.</p>
	<p>Steele, DW et al. <i>Interventions for Substance Use Disorders in Adolescents: A Systematic Review</i>. Comparative Effectiveness Review No. 225. AHRQ Publication No. 20-EHC014. Rockville, MD: Agency for Healthcare Research and Quality. May 2020. DOI:</p>	<p>Mae'r adolygiad systematig hwn yn cyfodod y llenyddiaeth am ymyriadau ymddygiadol, ffarmacolegol a chyfunol ar gyfer rhai yn eu glasoed rhwng 12 ac 20 mlwydd oed sydd â defnydd problemus o sylweddau neu anhwylder defnyddio sylweddau. Casgliadau: Ymyriadau byr: Mae cyf-weld ysgogiadol yn lleihau defnydd helaeth o alcohol (Cryfder Tystiolaeth (CT) isel), nifer y diwrnodau pan ddefnyddir alcohol (CT cymedrol), a phroblemau cysylltiedig â defnyddio sylweddau</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 421	<p>https://doi.org/10.23970/AHRQEPCCER225. Ar gael yma</p>	<p>(CT isel) ond nid yw'n lleihau nifer y diwrnodau pan ddefnyddir canabis (CT cymedrol).</p> <p>Ymyriadau nad ydynt yn fyr: Gall Therapi sy'n Canolbwyntio ar y Teulu fod yn fwyaf effeithiol wrth leihau'r defnydd o alcohol (CT isel).</p> <p>Mae angen gwneud rhagor o ymchwil i ganfod ymyriadau ymddygiadol dwys eraill sy'n effeithiol wrth drin anhwylder defnyddio alcohol.</p> <p>Roedd yn ymddangos nad oedd ymyriadau dwys yn lleihau'r defnydd o ganabis (CT isel).</p> <p>Roedd rhai ymyriadau (Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT), CBT+MI, a CBT+MI+ Rheoli Hapddigwyddiadau) yn cael eu cysylltu â chynnydd yn y defnydd o ganabis (CT isel).</p> <p>Mae MI a CBT ill dau'n lleihau'r defnydd cyfunol o alcohol a chyffuriau eraill (CT isel).</p> <p>Mae CBT+MI cyfunol yn lleihau'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon (CT isel).</p>
<p>Hybu ffyrdd iach o fyw (iechyd rhywiol)</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2007). <i>Sexually transmitted infections and under 18s conceptions prevention</i>. PH3. London: NICE. Ar gael yma.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn cynnwys yr argymhellion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu'r risg a wynebir gan bobl o gael haint a drosglwyddir yn rhywiol (STI), pan geir cyfle. Er enghraifft, pan fydd rhywun yn dod i apwyntiad ar gyfer atal cenhedlu. • Cynnig cyngor i bobl sy'n wynebu risg fawr o gael STI mewn trafodaeth strwythuredig, neu drefnu iddynt weld rhywun sydd wedi'i hyfforddi i roi cyngor o'r fath. Dylai'r drafodaeth gynnwys ffyrdd i helpu pobl i leihau'r risgiau.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 422	<p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2018 a bydd yn cael ei ddiweddarau).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Helpu pobl a gafodd STI i gael prawf a thriniaeth ar gyfer eu partneriaid. Gallai hyn olygu atgyfeirio'r person at arbenigwr. Mae'n bwysig bod pobl a gafodd STI a'u partneriaid yn cael gwybodaeth am yr haint a gawsant. Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd rhywiol, neu'n gweithio ynddynt, yn cynnwys ymarferwyr cyffredinol a gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau atal cenhedlu, meddygaeth genhedlol-wrinol a chlinigau ysgolion.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2014). <i>Contraceptive services for under 25s</i>. PH51. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn un ar gyfer comisiynwyr, rheolwyr ac ymarferwyr yn y GIG ac mewn sefydliadau eraill sy'n cyflawni rôl uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn gwasanaethau atal cenhedlu, ac yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n gweithio mewn awdurdodau lleol, mewn addysg ac yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol yn gyffredinol. Gall fod o ddiddordeb hefyd i bobl ifanc, eu rhieni a gofalwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Mae'r argymhellion yn cynnwys cyngor ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut i asesu anghenion lleol a chomisiynu gwasanaethau cynhwysfawr. • Cynnig cyngor sy'n ddiwylliannol briodol, yn gyfrinachol, yn anfeirniadol ac yn empathig yn ôl anghenion y person ifanc. • Sicrhau bod pobl ifanc yn deall y bydd eu gwybodaeth bersonol a'u rheswm dros ddefnyddio'r gwasanaeth yn cael eu cadw'n gyfrinachol. • Darparu gwasanaethau atal cenhedlu ar ôl beichiogrwydd ac erthylad.

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 423		<ul style="list-style-type: none"> • Annog pobl ifanc i ddefnyddio condomau yn ogystal â mathau eraill o ddulliau atal cenhedlu. • Sut mae ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn gallu darparu gwasanaethau atal cenhedlu.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2017). <i>Sexually transmitted infections: condom distribution schemes</i>. NG68. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â chynlluniau dosbarthu condomau. Y nod yw lleihau'r risg o gael heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.</p> <p>Mae'r canllaw hwn yn cynnwys argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Targedu gwasanaethau • Cynlluniau dosbarthu condomau aml-elfen ar gyfer pobl ifanc mewn lleoliadau iechyd, addysg, ieuencid ac allgymorth • Cynlluniau ag un elfen.
	<p>Jawad, A et al (2019). <i>Interventions using social networking sites to promote contraception in women of reproductive age</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews.</p>	<p>Mae'r adolygiad systematig hwn yn gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau sy'n defnyddio Gwefannau Rhwydweithio Cymdeithasol (GRhCau) i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau atal cenhedlu a chydymffurfiaeth â dulliau atal cenhedlu ymysg menywod o oed atgenhedlu.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 424	<p>Issue 3. Art. No.: CD012521. DOI: 10.1002/14651858.CD012521.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Er bod GRhCau yn gyffredin, ychydig o dystiolaeth wyddonol a gafodd yr awduron a oedd yn ffafrio defnyddio GRhCau i wella'r defnydd o ddulliau atal cenhedlu, neu gydymffurfiaeth â dulliau atal cenhedlu, ymysg menywod.</p>
	<p>Staley, H et al. (2021). <i>Interventions targeted at women to encourage the uptake of cervical screening</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 9. Art. No.: CD002834. DOI: 10.1002/14651858.CD002834.pub3. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r adolygiad systematig hwn yn asesu effeithiolrwydd ymyriadau a anelwyd at fenywod, i gynyddu'r defnydd o sgrinio serfigol, yn cynnwys defnydd ohono sy'n seiliedig ar wybodaeth.</p> <p>Daeth yr awduron i'r casgliad bod dystiolaeth gymedrol sicr o blaid defnyddio llythyrâu gwahodd i gynyddu'r defnydd o sgrinio serfigol.</p> <p>Roedd dystiolaeth â lefel isel o sicrwydd yn dangos ei bod yn bosibl bod gweithwyr iechyd lleyg sy'n gweithio mewn poblogaethau lleiafrifol ethnig yn cynyddu'r defnydd o sgrinio serfigol, ac roedd dystiolaeth hefyd o blaid ymyriadau addysgol, ond nid yw'n glir pa fformat sydd fwyaf effeithiol.</p> <p>Roedd mwyafrif yr astudiaethau o wledydd datblygedig.</p> <p>Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth isel ei sicrwydd a nodwyd yn ei gwneud yn anodd casglu pa ymyriadau sydd orau, heblaw am ymyriadau drwy wahodd, lle'r oedd yn ymddangos bod dystiolaeth fwy dibynadwy.</p>
Cymorth i ysgolion iach	Langford R et al. (2014). <i>The WHO health promoting school framework</i>	Roedd awduron yr adolygiad hwn wedi cael bod ymyriadau sy'n defnyddio dull Ysgolion Hybu Iechyd (YHI) Sefydliad Iechyd y Byd yn gallu lleihau mynegai màs

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 425	<p><i>for improving the health and well-being of students and their academic achievement.</i> Cochrane Database Systematic Reviews. Issue 4. Art. No: CD008958. doi: 10.1002/14651858.CD008958.pub2. Ar gael yma</p>	<p>y corff (BMI) ymysg myfyrwyr, cynyddu lefelau gweithgarwch a ffitrwydd, gwella cymeriant llysiâu a ffrwythau, lleihau'r defnydd o sigarêts, a lleihau nifer yr adroddiadau am brofi bwlio. Er hynny, ni chawsant nemor ddim tystiolaeth o effaith ar BMI ar ôl ystyried oed a rhywedd nac unrhyw dystiolaeth o effaith ar gymeriant braster, y defnydd o alcohol a chyffuriau, iechyd meddwl, trais, a bwlio pobl eraill.</p> <p>Nid oedd awduron yr adolygiad wedi cael digon o ddata i ddod i gasgliadau ynghylch effeithiolrwydd y dull YHI ar gyfer iechyd rhywiol, golchi dwylo, defnyddio helmedau beicio, anhwylderau bwyta, amddiffyn rhag yr haul, iechyd y geg neu ganlyniadau academiaidd. Ychydig o astudiaethau a oedd wedi trafod a fyddai'r gweithgareddau hybu iechyd, neu gasglu data mewn perthynas â'r rhain, wedi gallu achosi unrhyw niwed i'r myfyrwyr a oedd yn gysylltiedig.</p> <p>Daeth awduron yr adolygiad i'r casgliad bod canlyniadau'r adolygiad hwn yn darparu tystiolaeth o blaid effeithiolrwydd rhai ymyriadau seiliedig ar y fframwaith YHI ar gyfer gwella rhai canlyniadau iechyd ond nid eraill. Mae angen cynnal rhagor o ymchwil bwrpasol i ganfod effeithiolrwydd y dull hwn ar gyfer pynciau iechyd eraill a chyflawniad academiaidd.</p>
	<p>Neil-Sztramko, SE et al. (2021). <i>School-based physical activity programs for promoting physical activity and fitness in children and adolescents aged 6 to 18.</i> Cochrane</p>	<p>Pwrpas y diweddariad hwn o adolygiad systematig yw crynhoi'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd ymyriadau mewn ysgolion o ran cynyddu gweithgarwch corfforol cymedrol i egniol a gwella ffitrwydd ymysg plant a'r glasoed rhwng 6 a 18 mlwydd oed.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 426	<p>Database of Systematic Reviews. Issue 9. Art. No.: CD007651. DOI: 10.1002/14651858.CD007651.pub3. Ar gael yma</p>	<p>Mae canlyniadau'n dangos ei bod yn debygol nad yw ymyriadau gweithgarwch corfforol mewn ysgolion yn arwain at ddim neu nemor ddim cynnydd yn yr amser a dreulir mewn gweithgarwch corfforol cymedrol i egniol ac y gallant arwain at ddim neu nemor ddim gostyngiad mewn ymddygiad eisteddog (tystiolaeth isel ei sicrwydd). Gall ymyriadau gweithgarwch corfforol mewn ysgolion arwain at well ffitrwydd corfforol, wedi'i gofnodi yn ôl y mewnanadlu ocsigen mwyaf (tystiolaeth isel ei sicrwydd). Gall ymyriadau gweithgarwch corfforol mewn ysgolion arwain at ostyngiad bach iawn mewn sgorau gwriad safonol am BMI (tystiolaeth isel ei sicrwydd) ac mae'n bosibl nad ydynt yn effeithio ar BMI wedi'i fynegi fel kg/m² (tystiolaeth isel ei sicrwydd).</p> <p>Oherwydd amrywioldeb y canlyniadau ac am fod yr effeithiau'n fach at ei gilydd, rhaid i staff ysgolion a gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol roi ystyriaeth sylweddol i'r mater cyn cyflwyno ymyriadau gweithgarwch corfforol mewn ysgolion. Oherwydd heterogenedd yr effeithiau, y risg o duedd, a chanfyddiadau bod maint yr effaith yn fach at ei gilydd, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli canlyniadau.</p>
<p>Plant sy'n derbyn gofal/ Cymorth i rai sy'n gadael gofal</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2010). <i>Looked after children and young people</i>. PH28. London: NICE.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn un ar gyfer pawb sydd â rhan mewn hyrwyddo ansawdd bywyd (hynny yw, iechyd corfforol, a lles cymdeithasol, addysgol ac emosiynol) plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Mae'r argymhellion yn ymwneud â strategaethau a chomisiynu lleol, gweithio amlasiantaethol, cynllunio gofal a</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 427	<p>Ar gael yma. (Diweddarwyd fis Mai 2015)</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017 ac mae diweddariad yn yr arfaeth).</p>	<p>Ileoliadau, a mynediad amserol at wasanaethau iechyd ac iechyd meddwl priodol. Yn benodol, mae'r argymhellion yn ceisio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo lleoliadau sefydlog a pherthnasoedd cefnogol • Cynnal yr holl fathau o leoliadau, yn cynnwys rhai gyda'r teulu a ffrindiau • Hybu cyflawniad addysgol • Hwyluso'r pontio i fyw'n annibynnol • Cwrdd ag anghenion penodol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, yn cynnwys y rheini o gefndiroedd du a lleiafrifol ethnig, ceiswyr lloches sydd ar eu pen eu hunain, a'r rheini sydd ag anableddau.
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2016). <i>Transition from children's to adults' services for young people using health or social care services</i>. NG43. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymdrin â'r cyfnod cyn, yn ystod ac ar ôl y pontio gan y person ifanc o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r canllaw yn cynnwys argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Egwyddorion cyffredinol ar gyfer pontio da • Cynllunio pontio • Cymorth cyn ac ar ôl y pontio • Y seilwaith ar gyfer pontio
	<p>What Works for Children's Social Care. (2019). <i>Educational interventions for looked after children and young people</i>. Cardiff: The</p>	<p>Crynodeb o dystiolaeth yw hwn, wedi'i seilio ar adolygiad systematig o ymyriadau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.</p> <p><u>Crynodeb o'r prif bwyntiau:</u></p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 428	<p>Children's Social Care Research and Development Centre (CASCADE). Ar gael yma</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Er bod yr adolygiad systematig wedi cofnodi canfyddiadau o hap-dreialon rheoledig, roedd gwahaniaethau o ran ansawdd y dull o gynnal a chofnodi astudiaethau wedi cyfyngu'r graddau y gellid canfod effeithiolrwydd. • Roedd pum papur yn cofnodi tri hap-dreial rheoledig o'r ymyriad Teach Your Children Well, sy'n cynnwys hyfforddiant uniongyrchol gan diwtor ar sgiliau darllen, iaith a mathemateg a thechnegau rheoli ymddygiad. • Cofnodwyd canfyddiadau cymysg ar gyfer Teach Your Children Well a sgiliau academaidd. • Pan oedd plant yn cael eu haddysgu'n unigol gan ofalwyr maeth, cofnodwyd gwelliannau ar gyfer sgiliau mathemateg a deall brawddegau. Ar lefel grwpiau, nodwyd amrywiad rhwng darparu am 25 wythnos a darparu am 30 wythnos. Ar ôl 25 wythnos, cofnodwyd gwelliannau ar ddarllen a sillafu ac ar ôl 30 wythnos, cofnodwyd gwelliannau ar ddarllen, sillafu a sgiliau mathemateg. • Roedd yn ymddangos bod ymyriadau addysgol a anelwyd at blant cyn oed ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad sgiliau academaidd, yn cynnwys sgiliau llythrennedd cynnar. • Lle nad oedd ymyriadau wedi'u cysylltu â gwelliannau mewn sgiliau academaidd, awgrymwyd ei bod yn bosibl bod ystod o anghenion gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal lle mae angen cyfraniad gan ddarparwyr hyfforddedig arbenigol. • Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at yr angen am ymyriadau addysgol wedi'u seilio ar ddamcaniaeth a gwerthusiadau sy'n ystyried pa ymyriadau sy'n

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<p>gweithio ar gyfer gwahanol amrediadau oedran neu grwpiau penodol o blant sy'n derbyn gofal ac ym mha gyd-destunau.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae angen gwelliannau yn ansawdd cynllun methodolegol yr astudiaethau fel y gellir dod i gasgliadau am effeithiolrwydd ymyriadau addysgol a'u datblygiad.
<p>Cymorth rhianta</p> <p>Tud. 429</p>	<p>Robling, M et al. (2021). <i>The Family Nurse Partnership to reduce maltreatment and improve child health and development in young children: the BB:2 6 routine data-linkage follow-up to earlier RCT</i>. Public Health Research; 9 (2). Ar gael yma</p>	<p>Amcanion yr astudiaeth ddilynol hon oedd canfod effeithiolrwydd tymor canolig y Bartneriaeth Nyrsys Teulu o ran lleihau camdriniaeth a gwella iechyd y fam (ail feichiogrwydd) ac iechyd y plentyn, canlyniadau datblygiadol ac addysgol (e.e. presenoldeb mewn addysg gynnar, parodrwydd ar gyfer yr ysgol).</p> <p>Roedd yr ymyriad yn cynnwys hyd at 64 o ymweliadau â'r cartref gan nyrsys teulu a hyfforddwyd yn arbennig o ddechrau'r beichiogrwydd nes bod y plentyn cyntaf-anedig yn 2 flwydd, ynghyd â'r cymorth iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir fel arfer. Y cymharydd oedd y gofal arferol yn unig.</p> <p>Daeth yr awduron i'r casgliad nad oes budd gweladwy o'r rhaglen o ran camdriniaeth neu ganlyniadau i'r fam, ond ei bod yn creu manteision o ran parodrwydd ar gyfer yr ysgol a chyrhaeddiad yng Nghyfnod Allweddol 1.</p>
	<p>Barlow, J et al (2016). <i>Group-based parent training programmes for improving emotional and behavioural adjustment in young children</i>. Cochrane Database of Systematic</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn wedi asesu a yw rhaglenni rhianta seiliedig ar grwpiau yn effeithiol o ran gwella ymaddasiad emosiynol ac ymddygiadol ymysg plant ifanc (yr oed cymedrig uchaf yn dair blwydd ac 11 mis). Roedd hefyd wedi asesu a yw rhaglenni rhianta yn effeithiol fel dull cynradd o atal problemau emosiynol ac ymddygiadol.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 430	<p>Reviews, Issue 8. Art. No.: CD003680. DOI: 10.1002/14651858.CD003680.pub3. Ar gael yma</p>	<p>Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn, sy'n ymwneud â'r grŵp eang o blant a rhieni cyffredinol a'r rheini sy'n wynebu risg (wedi'u targedu), yn gefnogol i ryw raddau i'r defnydd o raglenni rhianta seiliedig ar grwpiau i wella ymaddasiad emosiynol ac ymddygiadol cyffredinol ymysg plant sydd â'r oed cymedrig uchaf o dair blwydd ac 11 mis, yn y tymor byr.</p> <p>Mae angen rhagor o ymchwil ynghylch y rhan y byddai rhaglenni o'r fath yn gallu ei chwarae fel dull cynradd o atal problemau emosiynol ac ymddygiadol, ac ynghylch eu heffeithiolrwydd tymor hir.</p>
	<p>O'Hara, L et al. (2019). <i>Video feedback for parental sensitivity and attachment security in children under five years</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews, Issue 11. Art. No.: CD012348. DOI: 10.1002/14651858.CD012348.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn wedi asesu'r effeithiau o adborth fideo ar sensitifrwydd rhieni a diogelwch ymlyniad ymysg plant o dan bum mlwydd oed sy'n wynebu'r risg o gael canlyniadau gwael o ran ymlyniad.</p> <p>Daeth yr awduron i'r casgliad bod tystiolaeth o sicrwydd cymedrig y gall adborth fideo wella sensitifrwydd ymysg rhieni i blant sy'n wynebu'r risg o gael canlyniadau gwael o ran ymlyniad oherwydd nifer o wahanol anawsterau.</p> <p>Ar hyn o bryd, nid oes ond ychydig o dystiolaeth ar lefel isel iawn o sicrwydd ynghylch effaith adborth fideo ar ddiogelwch ymlyniad, o'i gymharu â'r rheolydd: roedd canlyniadau'n amrywio yn ôl y math o fesur a ddefnyddiwyd, ac roedd y cyfnod o asesu dilynol yn fyr.</p> <p>Nid oes tystiolaeth bod adborth fideo yn cael effaith ar straen neu orbryder ymysg rhieni (tystiolaeth ar lefel isel a lefel isel iawn o sicrwydd, yn y drefn honno). Mae angen cael rhagor o dystiolaeth ynghylch yr effaith dymor hwy o adborth fideo ar</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<p>ymlyniad a chanlyniadau mwy distal fel ymddygiad plant (tystiolaeth ar lefel isel iawn o sicrwydd).</p> <p>Mae angen rhagor o ymchwil ynghylch effaith adborth fideo ar sensitifrwydd rhieni a gweithrediadau myfyriol rhieni, gan nad oes astudiaeth sydd wedi mesur y canlyniadau hyn.</p> <p>Mae'r adolygiad hwn yn gyfyngedig am fod mwyafrif y rhieni a gymerodd ran yn famau.</p>
<p>Datblygu sgiliau ceginio)</p> <p>Tud. 431</p>	<p>Blamey, A a Gordon, J. (2015). <i>A review of practical cooking skills activities which focus on promoting an affordable healthy balanced diet for adults, young people and their families within low-income communities in Scotland</i>. Edinburgh: NHS Health Scotland. Ar gael yma</p>	<p>Cynhaliwyd yr adolygiad hwn, y dywedir ei fod wedi'i seilio ar ymagwedd realaidd, er mwyn deall sut mae'r cyd-destunau a mecanweithiau mewn gweithgareddau sgiliau ceginio yn y gymuned yn helpu i sicrhau neu wella'r canlyniadau i gyfranogwyr mewn cymunedau incwm isel. Ymysg y canlyniadau a oedd o ddiddordeb oedd: datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder ynghylch paratoi a choginio prydau iach a fforddiadwy, bwriadau i newid ymddygiad, a chanlyniadau heblaw rhai'n ymwneud â maeth.</p> <p>Daeth awduron yr adolygiad i'r casgliad ei bod yn ymddangos ar sail yr adborth arnynt fod y cyrsiau a gweithgareddau sgiliau ceginio a aseswyd yn yr adolygiad (y rhan fwyaf ohonynt wedi'u hariannu drwy Community and Food Health Scotland) wedi cynnig profiadau diddorol a phleserus i'r rheini a gymerodd ran. Er nodi bod y data am ganlyniadau'n gyfyngedig, dywedodd awduron yr adolygiad fod cyfranogwyr a lanwodd ffurflenni adborth a gwerthuso'r cyrsiau wedi rhoi gwybod yn gyson am welliannau byrdymor mewn hyder, gwybodaeth, bwriadau i newid ac, mewn rhai achosion, newid mewn</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 432		<p>ymddygiad. Roedd nifer o'r strategaethau wedi'u hanelu'n bennaf at 'ganlyniadau nad ydynt yn ymwneud â choginio' neu gyfryngwyr i ganlyniadau i goginio yn y dyfodol fel hunaneffeithiolrwydd neu'r rhan sydd i fwyd mewn rhyngweithio cymdeithasol.</p> <p>Mae angen rhagor o waith i asesu'r cysylltiadau achosol rhwng y cyfryngwyr hyn a chanlyniadau o ran coginio. Nododd awduron yr adolygiad fod rhai arferion da o ran gwerthuso a chofnodi ond bod diffyg eglurder a manylder mewn nifer o'r cynlluniau ac adroddiadau am weithredu.</p>
	<p>Segrott, J. et al. (2017). <i>Implementation of a Cooking Bus intervention to support cooking in schools in Wales, UK</i>. Health Education, 117(3), tt. 234-251. Ar gael yma</p>	<p>Pwrpas y papur hwn yw edrych ar y ffordd roedd ystafell ddosbarth deithiol (Y Bws Coginio) wedi ceisio cryfhau'r cysylltiadau rhwng ysgolion a choginio ac, ar sail cysyniad y rhwydwaith technegol-gymdeithasol, gynnig damcaniaeth am y rhyngweithio rhwng y Bws a chyd-destunau'r ysgolion.</p> <p>Cafodd yr awduron fod y Bws Coginio wedi ffurfio cysylltiadau ag ysgolion drwy gysoni'r ymyriad â nodau ysgolion, canolbwyntio ar sgiliau coginio disgyblion, hyfforddi athrawon a chyfrannu at weithgareddau presennol yr ysgolion mewn cysylltiad â choginio. Roedd y Bws wedi ehangu ei rwydwaith technegol-gymdeithasol drwy integreiddio gweithgareddau coginio mewn ysgolion ar ôl yr ymweliad, yn enwedig drwy'r defnydd gan athrawon o becynnau coginio'r ymyriad.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<p>Dylid nodi mai astudiaeth ansoddol yw hon sy'n defnyddio holiaduron. Mae'r cynllun hwn yn un sy'n ymchwilio i gredoau, profiadau ac agweddau meddwl a gall fod o gymorth i ffurfio damcaniaethau, yn hytrach nag asesu effeithiolrwydd ymyriadau.</p>
<p>Datblygu sgiliau (sgiliau bywyd ymysg rhai sydd â salwch meddwl cronig)</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 433</p>	<p>Tungpunkom, P et al. (2012). Life skills programmes for chronic mental illnesses. <i>Cochrane Database Systematic Review</i> Issue 1. Art. No: CD000381. doi: 10.1002/14651858.CD000381.pub3. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn wedi cymharu hyfforddiant sgiliau bywyd â therapi galwedigaethol a chefnogaeth gan gymheiriaid i bobl sydd â salwch meddwl cronig. Ymysg y canlyniadau a fesurwyd roedd sgiliau bywyd, cyflwr meddyliol ac ansawdd bywyd.</p> <p>Daeth awduron yr adolygiad i'r casgliad nad oes tystiolaeth dda ar hyn o bryd i awgrymu bod rhaglenni sgiliau bywyd yn effeithiol ar gyfer pobl sydd â salwch meddwl cronig.</p>
	<p>Lean, M. et al. (2019). <i>Self-management interventions for people with severe mental illness: Systematic review and meta-analysis</i>. The British Journal of Psychiatry, 214 (5), 260-268. doi:10.1192/bjp.2019.54. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn wedi gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau hunanreoli ar gyfer oedolion sydd â salwch meddwl difrifol (SMD).</p> <p>Cafodd yr awduron fod tystiolaeth sy'n dangos bod darparu ymyriadau hunanreoli ochr yn ochr â gofal safonol yn gwella canlyniadau i bobl sydd â SMD. Dylai ymyriadau hunanreoli fod yn rhan o'r pecyn gofal safonol a ddarperir i bobl sydd â SMD a dylid rhoi blaenoriaeth i hyn mewn canllawiau: Mae angen ymchwil i'r dulliau gorau o weithredu ymyriadau o'r fath mewn ymarfer rheolaidd.</p> <p>Un cyfyngiad penodol ar yr adolygiad hwn, er gwaethaf y ffaith bod yr holl astudiaethau a aseswyd ganddo yn hap-dreialon rheoledig, oedd bod</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<p>gwahaniaethau o ran cofnodi'r ffordd o gynhyrchu dilyniannau, celu dyrannu ac nad oedd y dull o 'fygydu' cyfranogwyr a phersonél yn gyson bob amser. Mae hyn yn cynyddu'r risg o duedd.</p>
<p>Cymorth arbenigol (cam-drin domestig)</p> <p>Tud. 434</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoniaeth mewn Iechyd a Gofal. (2014). <i>Domestic violence and abuse: multi-agency working</i>. PH50. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2018).</p>	<p>Nod y canllaw hwn gan NICE yw canfod, atal a lleihau trais a cham-drin domestig. Mae'n cynnwys argymhelliad ar ddarparu gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc a darparu cyngor arbenigol, eiriolaeth a chymorth yn rhan o lwybr atgyfeirio cynhwysfawr.</p>
	<p>Public Health England. (2019). <i>A whole-system multi-agency approach to serious violence prevention</i>. London: Public Health England. Ar gael yma</p>	<p>Nod yr adnodd hwn yw cynnig dull ymarferol o weithredu a fydd yn hwyluso dealltwriaeth gan bartneriaid a'u hymateb i drais difrifol (yn cynnwys trais domestig) fel y mae'n effeithio ar eu cymunedau lleol.</p> <p>Mae'n cynnig enghreifftiau o astudiaethau achos perthnasol a mentrau lleol, fel IRIS: cynllun seiliedig ar dystiolaeth sy'n hyfforddi cydweithwyr gofal sylfaenol ym meddygfeydd meddygon teulu i adnabod arwyddion cynnar o drais domestig ac yn darparu ar gyfer atgyfeirio uniongyrchol at weithiwr trais domestig sy'n gysylltiedig â'r practis.</p> <p>Enghraifft arall yw 'The Intervention Initiative', rhaglen addysg seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael am ddim ac sydd â'r amcan o atal gorfodaeth rywiol a cham-drin domestig mewn lleoliadau prifysgol.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 435		Bwriad yr adnodd yw ysgogi gweithredu lleol drwy gynnwys partneriaid a rhanddeiliaid o bob math mewn systemau iechyd a chyfiawnder lleol, yn cynnwys awdurdodau lleol a gweithwyr iechyd proffesiynol.
	<p>Rivas, C et al. (2019). <i>A realist review of which advocacy interventions work for which abused women under what circumstances</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews, Issue 6. Art. No.: CD013135. DOI: 10.1002/14651858.CD013135.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r adolygiad systematig hwn yn asesu ymyriadau eiriolaeth ar gyfer cam-drin gan bartneriaid agos ymysg menywod, i ganfod pa ymyriadau sy'n gweithio i bwy, pam ac ym mha amgylchiadau.</p> <p>Cafodd yr awduron fod tystiolaeth ar lefel gymedrol ac uchel o sicrwydd o'r pwysigrwydd o ystyried ffactorau sy'n gwneud menywod yn agored i niwed a chroestoriadedd a'r cyfaddawdu mewn penderfyniadau sy'n gysylltiedig â cham-drin yng nghyd-destun bywydau menywod unigol. Wrth wneud penderfyniadau, dylid ystyried y risgiau y mae'r cam-drin yn eu hachosi i ddiogelwch y fenyw. Mae'r graddau y mae camau gweithredu sy'n codi o eiriolaeth yn cynyddu neu'n lleihau cam-drin yn dibynnu ar ffactorau cyd-destunol (e.e. y math o gam-drin a'i ddifrifoldeb), a'r canlyniadau y mae'r ymyriad eirioli penodol yn ceisio ymdrin â nhw (e.e. cynyddu nifer y gorchmynion llys llwyddiannus o'i gymharu â gostwng lefelau iselder).</p> <p>Mae'r awduron yn priodoli lefel isel o sicrwydd i dystiolaeth ynghylch arwyddocâd dibyniaethau corfforol, bod yn feichiog neu bod â phlant. Roedd cysylltiadau rhwng lleoliad (lefel uchel o sicrwydd), a hefyd o bosibl rhwng seiliau damcaniaethol yr ymyriadau, eu math, hyd a dwysedd yr eirioli, disgyblaeth eiriolwyr a chanlyniadau (sicrwydd ar lefel gymedrol ac isel). Roedd cynghreirio therapiwtig da yn bwysig (lefel uchel o sicrwydd); gall y cynghreirio hwn fod yn</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 436		<p>well lle mae eiriolwyr wedi'u paru â menywod a gamdriniwyd ar sail ethnigrwydd neu'r profiad o gam-drin, lle maent yn arfer gostyngedd diwylliannol, a lle maent yn chwalu rhwystrau strwythurol rhag cael gafael ar adnoddau gan fenywod a ymleiddiwyd.</p> <p>Roedd awduron yr adolygiad wedi canfod heriau sylweddol i eiriolwyr yng nghydestun gweithio rhyngsefydliadol, trawmateiddio dirprwyol, a diffyg eglurder ynghylch faint o gymorth i'w roi i fenywod (lefel gymedrol ac uchel o sicrwydd). Er mwyn gweithio'n effeithiol, mae angen i eiriolwyr gael hyfforddiant parhaus, eglurder ynghylch rolau, mynediad at adnoddau, a chymorth gan gymheiriaid a sefydliadau.</p>
	<p>Cymorth arbenigol (iechyd meddwl a lles emosiynol)</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2012). <i>Social and emotional wellbeing: early years</i>. PH40. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2017).</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn un ar gyfer athrawon a llywodraethwyr ysgol, a staff yng ngwasanaethau plant awdurdodau lleol, gofal sylfaenol a gwasanaethau</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 437	<p>(2008). <i>Social and emotional wellbeing: primary education</i>. PH12. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Gwiriwyd y canllaw hwn yn 2017 a bydd yn cael ei ddiweddarau.</p>	<p>iechyd meddwl plant a'r glasoed. Mae'n gwneud argymhellion ar hybu lles cymdeithasol ac emosiynol plant mewn addysg gynradd.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2009). <i>Social and emotional wellbeing in secondary education</i>. PH20. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Gwiriwyd y canllaw hwn yn 2017 a bydd yn cael ei ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymdrin â lles cymdeithasol ac emosiynol plant a phobl ifanc mewn addysg uwchradd. Ymhlith yr argymhellion y mae rhai ar gyfer dulliau gweithredu ar draws y sefydliad a help penodol i'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael problemau, neu'n dangos arwyddion o hynny. Mae'r canllaw yn un ar gyfer y rheini sy'n cyflawni rôl uniongyrchol neu anuniongyrchol wrth ofalu am les cymdeithasol ac emosiynol pobl ifanc mewn addysg uwchradd, neu'n gyfrifol amdano.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2015). <i>Older people: independence and mental wellbeing</i>. NG32. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2018).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn un ar gyfer awdurdodau lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol ac i'r GIG a darparwyr gwasanaethau eraill sydd â chylch gwaith sy'n cynnwys pobl hŷn. Mae'n ymdrin ag ymyriadau i gynnal a gwella lles meddyliol ac annibyniaeth pobl 65 oed neu hŷn a sut i adnabod y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio. Mae'r canllaw yn cynnwys argymhellion ar egwyddorion ymarfer da; gweithgareddau seiliedig ar grwpiau; gweithgareddau un-i-un; gwirfoddoli ac adnabod pobl sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 438	<p>Townshend, K et al. (2016). <i>The effectiveness of mindful parenting programs in promoting parents' and children's wellbeing</i>. JBI Database of Systematic Reviews and Implementation Reports: March 2016 - Volume 14 - Issue 3 - p 139-180 doi: 10.11124/JBISRIR-2016-2314. Ar gael yma</p>	<p>Prif amcan yr adolygiad hwn oedd cyflawni gwerthusiad systematig o effeithiolrwydd rhaglenni rhianta myfyrgar o ran hyrwyddo lles plant, y glasged a rhieni, yn enwedig mewn perthynas â chryfder y symptomau sy'n gysylltiedig ag anhwylderau mewnoli (iselder, gorbryder, straen) ac allanoli (ymddygiad).</p> <p>Daeth yr awduron i'r casgliad nad oes digon o dystiolaeth ar hyn o bryd bod rhaglenni rhianta myfyrgar yn gallu gwella lles rhieni a phlant oherwydd ansawdd methodolegol yr ychydig astudiaethau a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gynhwysiant.</p>
	<p>Mackenzie, K, a Williams, C. (2018). <i>Universal, school-based interventions to promote mental and emotional wellbeing: what is being done in the UK and does it work? A systematic review</i>. BMJ Open 2018; 8:e022560. doi:10.1136/bmjopen-2018-022560. Ar gael yma</p>	<p>Nod yr adolygiad systematig hwn oedd asesu ansawdd, cynnwys a thystiolaeth o effeithiolrwydd ymyriadau iechyd meddwl a ddarperir yn gyffredinol mewn ysgolion (i'r holl ddisgyblion 5–16 blwydd oed) sydd â'r amcan o hybu iechyd/lles a chadernid meddyliol, gan ddefnyddio dull mesur canlyniadau wedi'i ddilysu, ac wedi'u darparu yn y DU er mwyn cyfrannu at weithredu mesurau lles mewn ysgolion yn y DU.</p> <p>Mae'r dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod effeithiau dibwys i fach yn codi o ymyriadau cyffredinol mewn ysgolion yn y DU sy'n ceisio hybu lles emosiynol neu feddyliol neu atal problemau iechyd meddwl. Mae angen dilyn methodolegau cadarn, hirdymor gan sicrhau cofnodi digonol ar gywirdeb, y</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		defnydd o fesurau wedi'u dilysu sy'n sensitif i fecanweithiau newid, adrodd ar y rheini a fethwyd mewn astudiaethau dilynol ac unrhyw effeithiau niweidiol.
<p>Cymorth arbenigol (hunan-niweidio)</p> <p>Tud. 439</p>	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2011). <i>Self harm in over 8s</i>. CG133. London: NICE. Ar gael yma</p> <p>Gwiriwyd y canllaw hwn yn 2019 a bydd yn cael ei ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw clinigol hwn gan NICE yn cynnig cyngor ar reoli tymor hwy ar hunan-niweidio. Mae'n ymwneud â thriniaeth a rheolaeth seicolegol dymor hwy ar gyfer achosion o hunan-niweidio untro neu hunan-niweidio rheolaidd. Mae'n cynnwys argymhellion ar asesu ac ymyriadau. Mae'n berthnasol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.</p>
	<p>Witt, KG et al (2021). <i>Psychosocial interventions for self-harm in adults</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 4. Art. No.: CD013668. DOI: 10.1002/14651858.CD013668.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn wedi asesu effeithiau ymyriadau seicogymdeithasol ar gyfer hunan-niweidio gan eu cymharu â mathau gofal fel cymaryddion (e.e. triniaeth yn ôl yr arfer, gofal seiciatrig rheolaidd, gofal arferol ychwanegol, cymharydd gweithredol) ar gyfer oedolion (18 mlwydd oed neu'n hŷn) sy'n hunan-niweidio.</p> <p>Yn gyffredinol, roedd cyfyngiadau sylweddol ar fethodolegau'r holl dreialon a aseswyd yn yr adolygiad hwn. Gan fod y dystiolaeth a oedd ar gael o ansawdd cymedrol neu isel iawn, nid oes ond tystiolaeth ansicr ynghylch nifer o ymyriadau seicogymdeithasol ar gyfer oedolion sy'n hunan-niweidio. Mae'n bosibl bod therapi seicogymdeithasol seiliedig ar ddulliau Therapi Gwybyddol Ymddygiadol (CBT) yn arwain at ostyngiad yn nifer yr unigolion sy'n hunan-niweidio'n gyson ar bwyntiau amser dilynol pellach,</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 440		<p>er na chafwyd effaith o'r fath yn yr asesiad ôl-ymyrryd ac roedd ansawdd y dystiolaeth yn isel yn ôl y meini prawf GRADE.</p> <p>O ystyried y canfyddiadau mewn treialon penodol, neu dreialon gan yr un grŵp awduron, dylai Therapi Seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar (MBT) a therapi rheoleiddio emosiynau ar sail grŵp gael eu datblygu ymhellach a'u gwerthuso ymysg oedolion. Mae'n bosibl bod Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT) hefyd yn arwain at ostyngiad yn amllder yr achosion o hunan-niweidio. Roedd y rhan fwyaf o'r ymyriadau eraill wedi'u gwerthuso mewn un treial o ansawdd cymedrol neu isel iawn fel bod y dystiolaeth ynghylch defnyddio'r ymyriadau hyn yn amhendant ar hyn o bryd.</p>
	<p>Witt, KG et al (2021). <i>Interventions for self-harm in children and adolescents</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 3. Art. No.: CD013667. DOI: 10.1002/14651858.CD013667.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn wedi asesu'r effeithiau o ymyriadau seicogymdeithasol neu gyfryngau ffarmacolegol neu gynhyrchion naturiol ar gyfer hunan-niweidio o'u cymharu â mathau gofal sy'n gymaryddion (e.e. triniaeth yn ôl yr arfer, gofal seiciatrig rheolaidd, gofal arferol ychwanegol, cymharydd gweithredol, plasebo, triniaeth ffarmacolegol amgen, neu gyfuniad o'r rhain) ar gyfer plant a'r glasoed (hyd at 18 mlwydd oed) sy'n hunan-niweidio.</p> <p>Gan fod y dystiolaeth a oedd ar gael o ansawdd cymedrol neu isel iawn, ac am fod nifer y treialon a ganfuwyd yn fach, nid oes ond tystiolaeth ansicr ynghylch nifer o ymyriadau seicogymdeithasol ymysg plant a'r glasoed sy'n hunan-niweidio. Mae lle i wneud rhagor i werthuso DBT-A.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<p>Oherwydd y dystiolaeth o'i fudd i oedolion sy'n hunan-niweidio, dylai seicotherapi unigol seiliedig ar CBT gael ei ddatblygu ymhellach hefyd a'i werthuso ymysg plant a'r glasoed.</p>
<p>Datblygu sgiliau – cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol</p> <p>Tud. 441</p>	<p>O'Donnell, R et al. (2020). <i>The impact of transition interventions for young people leaving care: a review of the Australian evidence</i>. International Journal of Adolescence and Youth. Vol.25, No 1, 1076-1088. DOI.org/10.1080/02673843.2020.1842216. Ar gael yma</p>	<p>Nod yr adolygiad cwmpasu systematig hwn oedd asesu nodweddion ymyriadau sy'n helpu pobl ifanc i bontio o ofal i fyw'n annibynnol, a ddarperir yn Awstralia, a gwerthuso eu heffaith.</p> <p>Cafodd yr awduron fod rhaglenni pontio sy'n darparu cymorth tymor hir sy'n gyson, yn integredig ac yn gydgysylltiedig, yn unol ag anghenion yr unigolyn, yn gallu creu canlyniadau gwell ar gyfer byw'n annibynnol ar ôl pontio. Fodd bynnag, hyd yma, mae'r ymyriadau presennol yn llai llwyddiannus wrth dargedu a gwella canlyniadau iechyd.</p> <p>O ystyried y canlyniadau niweidiol i iechyd pobl ifanc sy'n pontio o ofal, mae'n hollbwysig bod rhaglenni o'r fath yn cael eu haddasu neu eu datblygu i roi mwy o bwyslais ar hwyluso gwelliannau mewn canlyniadau iechyd (e.e., iechyd meddyliol, corfforol, a chymdeithasol), yn ogystal â meithrin canlyniadau sy'n arwyddion o fyw'n annibynnol (e.e., tai).</p> <p>Mae'r asesiad o ansawdd yr 11 astudiaeth fel a ganlyn: roedd 8 o'r 11 astudiaeth (73%) o ansawdd da, a'r tair astudiaeth sy'n weddill o ansawdd gwael. Roedd pob un o'r tair astudiaeth feintiol o lefel ansawdd isel oherwydd cyfradd uchel o duedd lle na roddwyd ymateb, diffyg mesuriadau dilys, dibynadwy, neu ragbrofedig, a dadansoddiadau ystadegol a oedd heb eu disgrifio na'u cyfiawnhau yn aml. Mewn cyferbyniad â hyn, roedd lefel ansawdd uchel i bob un</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 442		<p>o'r astudiaethau ansoddol am fod y dulliau casglu data yn ddigonol a'r canlyniadau wedi'u dehongli ar sail gadarn. Roedd yr astudiaethau a ddefnyddiodd dulliau cymysg yn uchel eu lefel ansawdd gan eu bod yn darparu sail resymegol ddigonol dros fabwysiadu cynllun dulliau cymysg i ymdrin â'r cwestiwn ymchwil, ac wedi integreiddio eu dehongliad o elfennau ansoddol a meintiol yn y canlyniadau.</p> <p>Mae'r awduron yn nodi bod rhai cyfyngiadau ar yr astudiaeth hon, yn enwedig meintiau bach y samplau a bod astudiaethau wedi'u cyfyngu i un dalaith yn Awstralia.</p> <p>Gan nad oedd yr astudiaeth wedi'i chynnal yn y DU, nid yw'n sicr y gellir ei chymhwyso'n gyffredinol i'r cyd-destun yn y DU/Cymru.</p>
	<p>Everson-Hock, E. et al. (2011). <i>Supporting the transition of looked-after young people to independent living: a systematic review of interventions and adult outcomes</i>. Child: care, health and development, 37(6), tt. 767-79. Ar gael yma</p>	<p>Nod yr adolygiad systematig hwn oedd cyfod tystiolaeth am effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth pontio a ddarperir tua diwedd cyfnod gofal pobl ifanc sy'n derbyn gofal o ran eu canlyniadau fel oedolion, yn cynnwys addysg, cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau, ymddygiad troseddol, rhianta, tai a digartrefedd ac iechyd.</p> <p>At ei gilydd, mae'r llenyddiaeth sydd ar gael yn awgrymu na ellir dod i ganlyniadau pendant ynghylch effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth pontio ar hyn o bryd oherwydd y dystiolaeth gymysg am effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral ar ganlyniadau ac ansawdd amrywiol yr astudiaethau, ac am mai ychydig o werthusiadau ffurfiol sydd wedi'u cynnal o'r gwasanaethau cymorth pontio presennol. Roedd y rhan fwyaf</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<p>ohonynt wedi'u seilio ar raglenni asiantaethau penodol ac felly roeddent ar raddfa fach, yn ymchwiliadol, heb hap-samplau, yn adolygol a heb grwpiau cymharydd. Felly, er eu bod yn fuddiol ar gyfer cynllunio rhaglenni, ychydig iawn o ddefnydd y gellir ei wneud ohonynt i ddangos effeithiolrwydd rhaglenni.</p>
<p>Teleofal a theleiechyd</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 443</p>	<p>Totten, AM et al. (2019). <i>Telehealth for Acute and Chronic Care Consultations</i>. Comparative Effectiveness Review No. 216. AHRQ Publication No. 19-EHC012-EF. Rockville, MD: Agency for Healthcare Research and Quality. Ar gael yma</p>	<p>Nod yr adolygiad systematig hwn oedd canfod a chrynhoi'r dystiolaeth sydd ar gael am effeithiolrwydd ymgynghoriadau teleiechyd, ac ystyried y defnydd o dechnegau modelu penderfyniadau i ategu'r adolygiad.</p> <p>Daeth yr awduron i'r casgliad bod y dystiolaeth yn dangos, at ei gilydd, fod ymgynghoriadau teleiechyd yn effeithiol o ran gwella canlyniadau neu ddarparu gwasanaethau, heb ddim gwahaniaeth o ran canlyniadau; er hynny, mae'r dystiolaeth yn gryfach ar gyfer rhai dibenion, ac yn llai cryf neu'n annigonol ar gyfer eraill. Fodd bynnag, gan mai'n anaml y cofnodwyd manylion penodol am gynnal ymgynghoriadau teleiechyd ac am yr amgylchedd, mae'n anodd asesu'r graddau y gellir cymhwyso hyn yn gyffredinol. Roedd ymchwil i'r defnydd o fodel costau wedi amlygu'r ffaith bod yr effaith economaidd o ddefnyddio ymgynghoriadau teleofal yn dibynnu ar y persbectif yn y dadansoddiad.</p> <p>Mae'r cynnydd yn y diddordeb a'r buddsoddi mewn teleiechyd yn awgrymu bod angen datblygu agenda ymchwil sy'n rhoi pwys ar drylwyredd ac yn canolbwyntio ar gymharu canlyniadau safonol sy'n gallu cyfrannu at benderfyniadau ar bolisi ac ymarfer.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 444	<p>Karlsen, C et al. (2017). <i>Experiences of community-dwelling older adults with the use of telecare in home care services: a qualitative systematic review</i>, JBI Database of Systematic Reviews and Implementation Reports: Volume 15 - Issue 12 - p 2913-2980 doi: 10.11124/JBISRIR-2017-003345. Ar gael yma</p>	<p>Nod yr adolygiad hwn oedd canfod a chyfosod y dystiolaeth ansoddol orau sydd ar gael am brofiad oedolion hŷn sy'n byw yn y gymuned o'r defnydd o delefal mewn gwasanaethau gofal cartref.</p> <p>Cafodd yr awduron fod profiadau o ddefnyddio teleofal yn amrywio. Mae canfyddiadau'n dangos bod systemau teleofal yn gallu hyrwyddo diogelwch a sicrwydd er mwyn heneiddio mewn lle sy'n unol â dymuniad nifer mawr o oedolion hŷn. Er hynny, nid oes yr un ateb yn addas i bawb – rhaid i systemau teleofal gwrdd ag anghenion yr unigolyn, a chael eu cynnal gan ddarparwyr gwasanaethau er mwyn darparu ar gyfer defnydd cynaliadwy dros amser.</p>
Gwirfoddoli	<p>Stuart, J., et al. (2020) <i>The Impacts of Volunteering on the Subjective Wellbeing of Volunteers: A Rapid Evidence Assessment</i>. What Works Centre for Wellbeing and Spirit of 2012. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r asesiad cyflym hwn o'r dystiolaeth (REA) yn edrych ar yr hyn sydd wedi'i ganfod am yr effeithiau o wirfoddoli ar les goddrychol gwirfoddolwyr. Nod yr adolygiad yw helpu ymarferwyr, llunwyr polisi a chyllidwyr yn eu gwaith o gynllunio a darparu cyfleoedd a rhaglenni gwirfoddoli.</p> <p><u>Prif ganfyddiadau:</u></p> <p>Yr effeithiau o wirfoddoli ar les goddrychol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth am yr effeithiau o wirfoddoli ar les goddrychol gwirfoddolwyr yn dangos bod cysylltiad cadarnhaol rhwng y ddau, yn cynnwys gwell boddhad â bywyd, cynnydd mewn hapusrwydd a llai o symptomau iselder. • Er hynny, nid yw'r awduron yn gallu dod i'r casgliad pendant bod gwirfoddoli'n gwella lles goddrychol. Mae nifer bach o astudiaethau'n honni bod achosiaeth o

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<p>chwith – bod cynnydd mewn lles yn peri bod unigolion yn fwy tebygol o wirfoddoli yn hytrach na bod gwirfoddoli'n achosi cynnydd mewn lles.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae nifer o astudiaethau'n defnyddio strategaethau ystadegol uwch a rheolydd ar gyfer gwahanol ffactorau a allai effeithio ar les goddrychol, sy'n rhoi mwy o sicrwydd bod gwirfoddoli'n arwain at well lles goddrychol ymysg gwirfoddolwyr. • Nid yw hyn yn golygu bod gwirfoddoli'n arwain bob tro at well lles. • Mae'r dystiolaeth yn awgrymu i ryw raddau fod rhai mathau o weithgareddau gwirfoddoli yn gallu arwain at orbryder, straen neu chwythu plwc. • Mae bwlch sylweddol yn y dystiolaeth am yr effeithiau negyddol o wirfoddoli ar les gwirfoddolwyr.

Tud. 445

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 446	<p>Husk, K. et al. (2016). <i>Participation in environmental enhancement and conservation activities for health and well-being in adults: a review of quantitative and qualitative evidence</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews. Issue 5. Art. No.: CD010351. DOI: 10.1002/14651858.CD010351.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Mae'r adolygiad systematig hwn yn asesu'r effeithiau ar iechyd a lles oedolion yn dilyn cyfranogi mewn gweithgareddau cadwraeth a gwella'r amgylchedd Daeth yr awduron i'r casgliad mai ychydig o dystiolaeth feintiol sydd ar gael am fuddion cadarnhaol neu negyddol i iechyd a lles o gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath. Er hynny, roedd yr ymchwil ansoddol yn dangos bod lefelau uchel o fudd wedi'u canfod gan gyfranogwyr. Roedd y dystiolaeth feintiol wedi deillio o gynlluniau astudiaethau lle'r oedd risg fawr o duedd ac roedd diffyg manylder yng nghofnodion y dystiolaeth ansoddol. Roedd mwyafrif yr astudiaethau a aseswyd yn werthusiadau o raglenni a gafodd eu hariannu neu eu cynnal yn fewnol gan y darparwr.</p>
	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2015). <i>Older people independence and mental wellbeing</i>. NG32. London: NICE. Ar gael yma Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau (gwiriwyd yn 2018).</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymdrin ag ymyriadau i gynnal a gwella lles meddyliol ac annibyniaeth pobl 65 oed neu'n hŷn a sut i adnabod y rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddirywio. Mae'n cynnwys argymhellion ar wirfoddoli.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
Tud. 447	<p>Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. (2016). <i>Transition from children's to adults' services for young people using health or social care services</i>. NG43. London: NICE. Ar gael yma.</p> <p>Mae'r canllaw hwn wedi'i ddiweddarau.</p>	<p>Mae'r canllaw hwn gan NICE yn ymdrin â'r cyfnod cyn, yn ystod ac ar ôl y pontio gan y person ifanc o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r canllaw yn cynnwys argymhellion ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Egwyddorion cyffredinol ar gyfer pontio da • Cynllunio pontio • Cymorth cyn ac ar ôl y pontio • Y seilwaith ar gyfer pontio.
	<p>Campbell, F et al (2016). <i>Transition of care for adolescents from paediatric services to adult health services</i>. Cochrane Database of Systematic Reviews, Issue 4. Art. No.: CD009794. DOI: 10.1002/14651858.CD009794.pub2. Ar gael yma</p>	<p>Roedd yr adolygiad systematig hwn wedi gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer gwella'r broses o drosglwyddo gofal am y glasoed o wasanaethau iechyd pediatrig i wasanaethau iechyd oedolion.</p> <p>Mae'r dystiolaeth sydd ar gael (pedair astudiaeth fach; N = 238) yn cwmpasu nifer bach o wahanol ymyriadau a ddatblygwyd i hwyluso pontio ar gyfer nifer bach o anhwylderau clinigol, gydag astudiaethau dilynol ar ôl dim ond pedwar i 12 mis. Mae'n bosibl nad yw'r cyfnodau dilynol hyn yn ddigon hir i unrhyw newidiadau ddod i'r golwg, gan fod pontio'n broses hir.</p> <p>Roedd tystiolaeth o welliant yng ngwybodaeth cleifion am eu hanhwylder mewn un astudiaeth, ac o welliannau o ran hunanffeithiolrwydd a hyder mewn un arall, ond gan mai bach oedd nifer yr astudiaethau a oedd yn gymwys i'w hystyried yn yr adolygiad hwn, ac am fod lefel gyffredinol y sicrwydd yn y corff tystiolaeth hwn yn isel, ni ellir dod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch effeithiolrwydd yr ymyriadau a werthuswyd.</p>

Ymyriad	Ffynhonnell	Crynodeb byr o'r ffynhonnell
		<p>Mae cyfle mawr i gynnal gwerthusiadau trwyadl o fodelau eraill o ofal pontio, gan gofnodi canlyniadau clinigol ar ôl cyfnodau dilynol hirach.</p>



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru

Adroddiad arolwg ymgynghori

Hydref 2021



Cysylltwch â ni

Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

E-bost: northwalescollaborative@denbighshire.gov.uk

Rhif ffôn: 01824 712432

[Gwefan: www.northwalescollaborative.wales](http://www.northwalescollaborative.wales)

Cynnwys

Crynodeb	4
Beth sy'n gweithio'n dda	4
Beth y mae angen ei wella	4
Beth newidiodd yn ystod y pandemig COVID-19?	4
Profiad gwasanaethau iaith Gymraeg	5
Rhagarweiniad	6
Cefndir	6
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	7
Egwyddorion ymgynghori	8
Y broses ymgynghori	9
Dulliau Ymgynghori	11
Cynllun Hyrwyddo	11
Adolygiad o ymgynghori ac ymgysylltu.	13
Sefydliadau a gynrychiolir yn yr arolwg ar-lein	16
Casgliadau'r Ymgynghoriad	18
1. Gofal cymdeithasol i bobl o bob oed	18
2. Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc	29
3. Gofal cymdeithasol i bobl hŷn	36
4. Cyrsiau i Ofalwyr	45
5. Beth newidiodd yn ystod y pandemig COVID-19?	47
6. Profiad o ddefnyddio neu o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.	59
7. Gwasanaethau GIG	64
Atodiad 1: Data Monitro Cydraddoldeb	69

Crynodeb

Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth a gofalwyr yn ogystal â staff sy'n gweithio i'r bwrdd iechyd, cynghorau lleol a sefydliadau trydydd sector neu wirfoddol. Fe wnaethom ddefnyddio amrywiaeth eang o wybodaeth gan sefydliadau partner am anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Yn ogystal, fe wnaethom gynnal arolwg y cymerodd tua 350 o bobl ran ynddo yn ystod mis Awst a mis Medi 2021. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi casgliadau'r arolwg hwnnw.

Beth sy'n gweithio'n dda

Mae yna enghreifftiau o wasanaethau gofal a chymorth sy'n gweithio'n dda ar draws Gogledd Cymru, yn enwedig gwasanaethau trydydd sector. Mae yna hefyd enghreifftiau o waith partneriaeth cryf, gwell mynediad at gymorth a phobl yn cael mwy o lais, dewis a rheolaeth dros y ffordd y caiff eu hanghenion eu diwallu.

Beth y mae angen ei wella

Mae enghreifftiau o feysydd ble gellid gwella gwasanaethau yn cynnwys perthnasoedd a chyfathrebu o fewn a rhwng sefydliadau. Roedd llawer yn teimlo bod angen ailwampio'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn llwyr a bod hefyd angen mwy o staff a mwy o gyllid. Wrth geisio dod o hyd i atebion i'r argyfwng hwn mae angen cynnwys y bobl y mae'r polisi presennol yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, er enghraifft darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Gall mwy o wasanaethau ymyrraeth gynnar helpu pobl cyn iddynt gyrraedd y pwynt o fod mewn argyfwng.

Byddai darparwyr gwasanaethau'n hoffi cael cyllid tymor hirach fel bod modd iddynt gynllunio a gwella'u gallu i gadw a datblygu staff, yn ogystal â mwy o eglurder ynglŷn â ffynonellau o gyllid.

Beth newidiodd yn ystod y pandemig COVID-19?

Mae'r pandemig wedi gwaethygu problemau gyda rhestrau aros, diffyg staff a gwasanaethau. Mae wedi gadael llawer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr heb gymorth ac wedi cyfyngu'n ddifrifol ar eu bywydau gan arwain at unigrwydd, arwahanrwydd a dirywiad yn eu hiechyd. Mae'r pwysau y mae staff wedi'i wynebu wedi gwneud niwed i iechyd meddw a iechyd corfforol staff.

Nid oedd yr holl effeithiau'n rhai negyddol. Dywedodd nifer fach o'r ymatebwyr nad oeddent wedi gweld unrhyw newidiadau mewn gwasanaethau. Roedd cyfnodau clo wedi helpu rhai i fod yn fwy annibynnol, i dreulio amser gwerthfawr gyda'u teulu ac roedd rhai disgyblion, yn enwedig rhai sydd â gorbryder cymdeithasol neu broblemau bwlio yn yr ysgol, wedi elwa o beidio â mynd i'r ysgol.

Mae'r pandemig wedi cyflymu datblygiadau i greu dulliau ar-lein o ddarparu rhaglenni ac mae wedi gwneud pobl yn fwy parod i ddefnyddio opsiynau TG. I lawer o bobl mae effaith hyn wedi bod yn gadarnhaol ond nid yw dulliau digidol o ymgysylltu'n siwtio pawb ac mae'n bosibl eu bod yn ei gwneud yn fwy anodd, yn enwedig i bobl hŷn, gael gafael ar, ac ymgysylltu â gwasanaethau.

Roedd yr ymatebwyr yn credu, yn y tymor hir, y bydd yn bwysig:

- Datrys y problemau oedd yn bodoli cyn Covid
- Cefnogi pobl i ailgysylltu â gwasanaethau
- Cefnogi dychwelyd i wasanaethau wyneb yn wyneb
- Paratoi ar gyfer galwadau newydd a chynyddol am wasanaethau
- Cynyddu cefnogaeth ym maes iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc
- Parhau i ddarparu gwasanaethau ar-lein
- Cefnogi staff a hybu recriwtio

Profiad gwasanaethau iaith Gymraeg

Ar y cyfan roedd ymatebwyr o'r farn mai 'tameidiog' yw darpariaeth y Cynnig Gweithredol. Roedd rhai yn dweud eu bod yn gwneud hyn yn effeithiol dros ben. Roedd eraill yn dweud mai dim ond ar y pwynt pan fydd defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu hasesu y gellir gwneud y cynnig, yn hytrach na phan fyddant yn cysylltu am y tro cyntaf. Roedd rhai'n bryderus bod y cynnig, yn ymarferol, yn dal i fod yn un tocenistaidd. Mae llawer o gartrefi gofal a darparwyr gofal yn y cartref yn ei chael yn anodd gwireddu dymuniad defnyddwyr gwasanaethau am siaradwr Cymraeg; roedd ymatebwyr o'r farn bod angen gwneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn ac i gefnogi staff i wella eu Cymraeg. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i ddechreuwr llwyr yn ogystal â'r rhai hynny sydd angen ennill mwy o hyder.

Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y gwnaethom ymgynghori ac ymgysylltu â phobl sy'n darparu neu'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn hysbysu Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru.

Bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol ar gyfer yr Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a fydd yn cael eu cynnal ar benderfyniadau sy'n defnyddio tystiolaeth o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi tystiolaeth o sut yr ydym yn diwallu gofynion dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Cefndir

Yn unol â Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 roedd yn ofynnol i bob rhanbarth, erbyn mis Ebrill 2021, gynhyrchu asesiad o anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal, yn cynnwys anghenion cymorth gofalwyr. Mae chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cynhyrchu asesiad o anghenion poblogaeth Gogledd Cymru. Hwn yw'r ail asesiad a gynhyrchwyd. Cyhoeddwyd y cyntaf ar 1 Ebrill 2017.

Bydd yr adroddiad yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer y cynllun ardal sydd wedi'i baratoi ar y cyd rhwng y bwrdd iechyd a'r cynghorau lleol o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'n rhaid cyhoeddi'r cynllun ardal erbyn mis Ebrill 2022.

Cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru nad oes angen cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod yr asesiad o anghenion yn rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth fel sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ochr yn ochr â'r broses o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd yr asesiad o anghenion yn cynnwys gwybodaeth am anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig, a gesglir drwy ymgynghori ac ymgysylltu, a fydd yn helpu i lunio polisiau a strategaethau newydd ac i wneud newidiadau i wasanaethau a deall eu heffeithiau posibl.

Bydd yn rhaid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gamau gweithredu a chynlluniau a ddatblygir gan ddefnyddio tystiolaeth o'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd sector cyhoeddus newydd sy'n gofyn i bob corff cyhoeddus fynd i'r afael â rhagfarn, hybu cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo perthnasoedd da. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gyrrff cyhoeddus roi'r sylw dyledus i:

- Ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
- Hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt.

Mae rhoi'r sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- Dileu neu leihau'r gwahaniaethu, yr aflonyddu neu'r erledigaeth y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle bo'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
- Cymryd camau i feithrin cymunedau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus eu bod yn perthyn ac gyfforddus wrth gymysgu a rhyngweithio ag eraill.

Mae ar Gynghorau yng Nghymru hefyd ddyletswyddau cyfreithiol penodol yn unol â Rheoliadau 2011 Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010 yn cynnwys asesu effeithiau polisïau a chynlluniau perthnasol - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Er mwyn sefydlu sail gadarn ar gyfer y strategaeth rydym wedi:

- Adolygu data mesur perfformiad a dangosyddion boblogaeth
- Ymgynghori mor eang â phosib ar draws Gogledd Cymru gyda'r cyhoedd, cydweithwyr a phobl â nodweddion gwarchoddedig ymysg eraill.
- Adolygu llenyddiaeth ymchwil ac ymgynghori perthnasol yn cynnwys deddfwriaeth, strategaethau, cynlluniau comisiynu, asesiadau o anghenion ac adroddiadau ymgynghori.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y papur gwybodaeth gefndir.

Mae'r adroddiad yn nodi'r ymgynghori a wnaed ar gyfer y strategaeth:

- pwy yr ydym wedi ymgynghori â nhw;
- sut yr ydym wedi ymgynghori; a
- yr adborth o'r ymgynghoriad

Egwyddorion ymgynghori

Rhan allweddol o'r broses yw ymgynghori â phobl y gallai'r strategaeth effeithio arnynt ac yn arbennig pobl â nodweddion gwarchoddedig. Y nodweddion gwarchoddedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd a Chred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Y Gymraeg

Mae cyfraith achos wedi darparu cyfres o egwyddorion ymgynghori sy'n disgrifio'r disgwyliad cyfreithiol sydd ar gyrff cyhoeddus wrth ddatblygu strategaethau, cynlluniau a gwasanaethau. Yr enw ar y rhain yw Egwyddorion Gunning:

1. Mae'n rhaid i ymgynghori ddigwydd pan fo cynnig yn dal ar y cam cychwynnol
2. Mae'n rhaid cyflwyno digon o resymau dros y cynnig i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallusol.
3. Rhaid caniatáu digon o amser ar gyfer ystyriaeth ac ymateb.
4. Mae'n rhaid ystyried cynnyrch yr ymgynghoriad yn gydwybodol

Mae gan gynghorau lleol yng Ngogledd Cymru bolisi ymgysylltu â dinasyddion rhanbarthol. Mae hwn yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a'r egwyddorion cyd-gynhyrchu a lywiodd ein cynllun ymgynghori.

Ymgynghori ac ymgysylltu

Y broses ymgynghori

Nod yr ymgynghoriad oedd darganfod beth yw anghenion gofal a chymorth pobl yng Ngogledd Cymru a beth yw anghenion cefnogaeth gofalwyr. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mae'n rhaid i'r adroddiad gynnwys y grwpiau poblogaeth canlynol:

- Plant gydag anghenion cymhleth
- Pobl hŷn, yn cynnwys dementia
- Iechyd, anabledd corfforol a nam ar y synhwyrâu
- Anableddau Dysgu
- Awtistiaeth
- Iechyd meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Fe wnaethom weithio gyda'n partneriaid, yn cynnwys y rhai hynny oedd yn gweithio ar Asesiadau Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i gasglu a chrynhoi casgliadau'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Rydym wedi cyhoeddi'r casgliadau hyn yng [Nghyfeirlyfr Ymgynghori Gogledd Cymru](#) i helpu i annog defnydd ehangach o wybodaeth a gesglir yn sgil gweithgaredd ymgysylltu lleol a rhanbarthol. Yn ogystal fe wnaethom gynnal arolwg i ddynodi unrhyw faterion eraill sy'n effeithio ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth y gallem o bosibl fod wedi eu methu. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r arolwg gan mai'r rhain ar y cyd â chanfyddiadau ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu eraill a gynhaliwyd gan gyrff arweiniol lleol eraill a hysbysodd yr asesiad terfynol o anghenion y boblogaeth.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Oherwydd yr amrywiaeth eang o grwpiau a gwasanaethau yr oeddem yn bwriadu ymgysylltu â nhw yn yr arolwg hwn, cytunodd y grŵp ymgysylltu ar nifer fach o gwestiynau pen agored fel y gallai'r rhai oedd yn ymateb rannu beth sy'n bwysig iddyn nhw. Roedd yr ymdriniaeth hon wedi gweithio'n dda mewn ymgynghoriadau

rhanbarthol blaenorol gan ddarparu ffynhonnell gyfoethog o ddata ystyrlon. Y cwestiynau ymgynghori a ofynnwyd oedd:

Gwybodaeth am y gwasanaethau gofal a chymorth

Mae gofal a chymorth yn cynnwys rhoi help i bobl o bob oed sy'n sâl neu ag anabledd corfforol neu feddyliol gyda thasgau byw dydd i ddydd. Mae hefyd yn cynnwys plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal maeth neu fabwysiadu yn ogystal â gofalwyr di-dâl sy'n darparu cymorth i deulu neu ffrindiau.

1. Beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd yn eich barn chi?
2. Beth y gellid ei wella yn eich barn chi?
3. Sut mae'r cymorth wedi newid oherwydd Covid-19 a beth fydd effaith hirdymor hyn yn eich barn chi?

Y Gymraeg

Dylai'r holl wasanaethau gofal a chymorth ddarparu 'Cynnig Gweithredol'. Mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai'r iaith Gymraeg fod yr un mor weledol â'r Saesneg. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i Gofal Cymdeithasol Cymru: Defnyddio gwe-dudalennau Cymraeg Gwaith. Hoffem glywed am eich profiadau o ddefnyddio a / neu ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys:

- y 'Cynnig Gweithredol'
 - cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a
 - peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
4. Dywedwch wrthym beth sy'n gweithio'n dda ar hyn o bryd a beth sydd angen ei wella.

Amserlen y Prosiect:

Roedd yr amserlen ar gyfer datblygu'r asesiad o anghenion fel a ganlyn

Mis cwblhau	Camau Gweithredu
Mehefin 2021	Cynllunio'r prosiect a recriwtio
Hydref 2021	Casglu a dadansoddi data
Hydref 2021	Ymgysylltu â chyd-gynhyrchu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr, darparwyr, staff rheng flaen a rhanddeiliaid eraill
Rhagfyr 2021	Ysgrifennu penodau drafft a'u rhannu er mwyn cael adborth
Mawrth 2022	Cymeradwyaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y chwe awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd
Ebrill 2022	Cyhoeddi

Dulliau Ymgynghori

Y dulliau ymgynghori a ddefnyddiwyd oedd:

- Holiadur ar-lein a ddosbarthwyd yn eang ymysg staff, sefydliadau partner, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr. Roedd fersiynau amgen yn cynnwys fersiwn Hawdd ei Ddarllen, fersiwn Iaith Arwyddion Cymru, fersiwn ar gyfer pobl ifanc a fersiwn wedi'i argraffu.
- Fe wnaethom hefyd hysbysebu'r cyfle i gymryd rhan drwy sgwrs dros y ffôn neu sgwrs ar-lein.
- Cynhaliodd sefydliadau partner ddigwyddiadau ymgynghori.
- Gofynnwyd i bartneriaid anfon atom unrhyw adroddiadau ar ddigwyddiadau ymgynghori neu arolygon cysylltiedig yr oeddent eisoes wedi'u cynnal yng Ngogledd Cymru ar gyfer prosiectau.

Cynllun Hyrwyddo

Roedd yr arolwg ar agor rhwng 2 Awst 2021 ac 1 Hydref 2021, gydag estyniad tan 11 Hydref 2021 ar gyfer yr arolwg pobl ifanc.

Roedd manylion yr ymgynghoriad ar gael ar [ein gwefan](#). Fe wnaethom hyrwyddo'r ddolen drwy aelodau'r grŵp llywio (sy'n cynrychioli'r chwe awdurdod lleol, iechyd a phartneriaid eraill), i bobl ar restrau postio timau cydweithio rhanbarthol yn cynnwys aelodau'r porth darparwyr. Anfonwyd datganiad i'r wasg allan gan y Tîm Cydweithio Rhanbarthol, yr awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd. Rhannwyd amrywiaeth o negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar ffrwd Trydar y Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn

ogystal â thudalennau LinkedIn. Gwnaed galwadau ffôn dilynol i annog pobl i gymryd rhan.

Rhannodd swyddogion arweiniol lleol yr arolwg yn eang drwy amrywiaeth o sianelau. Rhannodd y Tîm Cydweithio Rhanbarthol ddiweddariadau wythnosol ynghylch nifer yr ymatebion a dderbyniwyd o bob ardal a gan bob grŵp poblogaeth er mwyn i swyddogion arweiniol lleol allu mynd ar ôl grwpiau wedi'u tangynyrchioli.

Yn ychwanegol, anfonwyd y ddolen at yr arolwg ar-lein at y cynghorau gwirfoddol sirol isod, yn gofyn iddynt ei ddsbarthu i'w rhwydweithiau.

- Mantell Gwynedd (Gwynedd)
- Medrwn Môn (Ynys Môn)
- Cymorth Gwirfoddol a Chymunedol (Conwy)
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint
- AVOW (Wrecsam)

Anfonwyd gwybodaeth at aelodau'r:

- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol
- Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru
- Penaethiaid Gwasanaethau Oedolion Gogledd Cymru (PGOGC)
- Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru (PGPGC)
- Grŵp Anabledau Dysgu Gogledd Cymru

Rhannwyd manylion gyda chynrychiolwyr trydydd sector ar y rhwydwaith arweinwyr asesiadau poblogaeth rhanbarthol.

Cynhaliwyd digwyddiad ar 5 Hydref 2021 ar gyfer grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a lleiafrifoedd ethnig ar y cyd â Thimau Cydlynid Rhanbarthol y Dwyrain a'r Gorllewin a Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru gyda tua 40 o bobl wedi mynychu. Rhoddwyd yr arolwg i'r grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a lleiafrifol ethnig ynghyd â'r cyflwyniad PowerPoint o'r gweithdy i'w rannu ac ymateb iddo – naill ai gan gynrychiolwyr y grŵp neu aelodau unigol yn uniongyrchol.

Rhannwyd yr arolwg pobl ifanc hefyd gydag leuenctid Pride Cymru, EYST (Lleiafrifoedd Ethnig a Thîm Cymorth leuenctid Cymru) Penaethiaid Addysg a grwpiau pobl ifanc eraill).

Adolygiad o ymgynghori ac ymgysylltu.

Cwblhawyd yr arolwg gan 350 aelod o staff. Roedd tua 61% o'r ymatebion gan bobl oedd yn gweithio i sefydliad sy'n ymwneud â chomisiynu neu ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth. Cymerodd mwy o bobl ran mewn gweithgareddau ymgysylltu blaenorol a'r rhai hynny a drefnwyd gan arweinwyr lleol, ond mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ymatebion i'r arolwg.

Mae Tabl 1 yn dangos y meysydd yr oedd gan gyfranogwyr ddiddordeb ynddynt.

Tabl 1 Nifer o ymatebion y ôl maes diddordeb

Math o ymateb	Nifer	Canran
Pobl hŷn	150	44%
Plant a phobl ifanc	125	35%
Iechyd meddwl	115	33%
Anableddau Dysgu	110	32%
Amhariadau corfforol a/neu synhwyraidd	90	26%
Gofalwyr	90	25%
Pobl awtistig	70	21%
Cyfanswm yr ymatebion	350	100%

Mae'n bosib y bydd rhai pobl wedi rhoi tic mewn mwy nag un bocs Mae'r niferoedd wedi'u rowndio i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth bersonol.

Cyrhaeddodd yr ymgynghoriad bobl o bob rhan o Ogledd Cymru fel y dangosir isod.

Tabl 2 Nifer yr ymatebwyr yn ôl ardal cyngor lleol.

Ardal Cyngor Lleol	Nifer	Canran
Ynys Môn	80	23%
Gwynedd	50	14%
Conwy	60	17%
Sir Ddinbych	75	21%
Sir y Fflint	135	39%
Wrecsam	100	28%
Cyfanswm yr ymatebion	350	100%

Efallai y bydd rhai pobl wedi rhoi tic mewn mwy nag un blwch (er enghraifft os ydynt yn byw ac yn gweithio mewn siroedd gwahanol). Mae'r niferoedd wedi'u rowndio i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth bersonol.

Fe wnaethom hefyd gyrraedd pobl ym mhob grŵp oedran ar wahân i bobl ifanc o dan 16, pobl anabl yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu a phobl â salwch/cyflwr iechyd hirsefydlog, gofawyr, siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Cafwyd llai o ymatebion gan bobl dros 75. Cawsom ymatebion gan ferched a dynion er nad oedd cymaint o ymatebion gan ddynion. Cawsom hefyd nifer fach o ymatebion gan bobl â hunaniaeth ethnig, cenedlaethol a rhywiol gwahanol i'r mwyafrif. Dim ond ychydig o ymatebion a gawsom gan bobl drawsrywiol er y byddwn yn cynnwys casgliadau o ymchwil ac adroddiadau ymgynghori am anghenion gofal a chymorth pobl drawsrywiol yn yr asesiad o anghenion.

Byddwn yn gofalu ein bod yn defnyddio tystiolaeth o ymgynghoriadau lleol a chenedlaethol blaenorol am anghenion plant a phobl ifanc yn yr asesiad o anghenion oherwydd y nifer isel o ymatebion i'r arolwg. Byddwn hefyd yn adolygu sut yr ydym y ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel tîm rhanbarthol oherwydd nad yw arolwg ar-lein i'w weld yn ddull effeithiol o gynnal y math yma o ymgynghoriad.

Rydym yn gwneud y cyfyngiadau hyn yn eglur fel y gall unrhyw un sy'n defnyddio'r asesiad o anghenion fel tystiolaeth gymryd unrhyw gamau ychwanegol angenrheidiol i ddileu gwahaniaethu posibl.

Fe wnaethom ddefnyddio'r data cydraddoldeb i fonitro'r ymatebion pan oedd yr ymgynghoriad ar agor gan annog cynrychiolwyr/aelodau o grwpiau wedi'u tangynrychioli i rannu'r arolwg a chymryd rhan. Estynnwyd dyddiad cau'r ymgynghoriad o bythefnos er mwyn caniatáu mwy o amser i gyrraedd grwpiau

wedi'u tangynrychioli. Fe wnaethom hefyd roi estyniad o bythefnos i ymateb i'r arolwg pobl ifanc. Mae'r rhestr lawn o dablau gwybodaeth sy'n dangos nifer yr ymatebion gan bobl â nodweddion gwarchoddedig wedi'i gynnwys yn [atodiad 1](#).

Fel rhan o'r broses hon fe welsom bod sawl ymgynghoriad tebyg yn cael eu cynnal gan sefydliadau partner a chodwyd pryderon ynghylch syrffed ymgynghori. I helpu i gydlynu hyn fe wnaethom greu gwe dudalen i ddod â'r gwahanol arolygon a digwyddiadau yr oeddem yn ymwybodol ohonynt at ei gilydd ac i roi gwybod i gyfranogwyr ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i rannu'r casgliadau. Fe wnaethom hefyd ddatblygu [Cyfeirlyfr Ymgysylltu Gogledd Cymru](#) er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i gasgliadau'r arolygon hyn. Fodd bynnag, mae'r grŵp ymgysylltu rhanbarthol a oruchwyliodd y gwaith hwn yn cydnabod bod mwy i'w wneud i wella cydlynid ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu. Mae angen i ni leihau dyblygu a gwneud y defnydd gorau o amser ac ymdrechion pobl sy'n rhoi adborth i'n sefydliadau.

Sefydliadau a gynrychiolir yn yr arolwg ar-lein

Isod mae rhestr o sefydliadau y cymerodd eu staff ran yn yr ymgynghoriad ar-lein.

Yr awdurdodau lleol ac iechyd

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Grwpiau a sefydliadau eraill

- Gweithredu dros Blant
- Adferiad
- Cymdeithas Tai Adra
- Age Connects Canol Gogledd Cymru
- Age Cymru Gwynedd a Môn
- Alexander's Pharmacies
- Allied Health Care
- Amber Care Ltd
- Anheddau Cyf
- AVOW (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam)
- Awel Homecare and Support
- Cyngor Cymuned Parc Caia
- Canolfan Felin Fach Centre Limited
- Gwasanaeth Allgymorth Gofalwyr
- Carerstrust Crossroads
- Cartrefi Conwy
- Castell Ventures
- Centre of Sign-Sight-Sound
- Y Ganolfan Datblygiad Plant
- Cyngor ar Bopeth
- Men's Shed Bae Colwyn
- Conwy Connect
- Co-options
- Corwen Family Practice
- Cynllun Gwên
- Digartref
- Doridale Ltd
- Double Click Design & Print CIC
- DSN
- Epilepsy Action Cymru
- Fairways Care Ltd
- Ffrindiau/Teulu
- Swyddfa Sir y Fflint yn Cysylltu
- GISDA
- Cyngor Cymuned Gresfordd
- Grŵp Cynefin
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid Gwynedd ac Ynys Môn
- Cyngor Cymuned Gwersyllt
- Ymddiriedaeth HF
- Hollybank Home Care Ltd
- Home-Start Cymru

- Gwasanaethau Cefnogaeth Integredig i Deuluoedd
- Medrwn Môn
- Mental Health Care Ltd (Avalon)
- Menter Fachwen
- MHC
- Newcross health and social care
- Y Camau Nesaf
- MIND Gogledd Ddwyrain Cymru
- Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol Gogledd Cymru
- Rhaglen Trawsnewid Anabledau Dysgu Gogledd Cymru gyda'i gilydd
- NW Nappy Collaborative CIC (Given To Shine)
- Cyngor Cymuned Offa
- Plas Garnedd Care Ltd
- Premier Care Ltd
- Q care ltd Prestatyn
- QEWC Ltd
- Gwydnwch
- Rhyd y Cleifion Ltd
- Same but Different
- Sanctuary Trust
- Stepping Stones Gogledd Cymru
- STAND NW CIC
- Y Gymdeithas Strôc
- Summit Care Services
- TGP Cymru
- The Wallich
- Total Care North Wales
- Towyn Capel Care Homes
- TRAC (part of North Wales Project)
- Canolfan Teuluoedd Ty Ni – Dechrau'n Deg
- Tyddyn Mon
- Vesta Specialist Family Support
- Vision Support:
- We Care Too Ltd
- Wepre Villa Homecare Ltd
- Whitehouse Residential Home
- Canolfan Sgiliau Coetir
- Y Teulu Cyfan

Casgliadau'r Ymgynghoriad

1. Gofal cymdeithasol i bobl o bob oed

(a) yn gyffredinol

Beth sy'n gweithio'n dda?

Ar lefel strategol, mae llif gwybodaeth a chydweithrediad ar draws Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol wedi bod yn gweithio'n dda.

Credir bod gwasanaethau trydydd sector yn effeithiol dros ben, yn ymestyn dros amrywiaeth eang o feysydd cymorth gan gyflawni rolau llawer o wasanaethau statudol ac yn ymgysylltu ac yn cysylltu'n llwyddiannus â'r rhai sydd mewn angen. Mae sefydliadau trydydd sector a sector statudol yn datblygu partneriaethau cryf, yn enwedig yng Ngogledd Cymru ac wrth i'r ddau gefnogi datblygiad cymunedol. Mae'r symudiad graddol at gontractau cymdeithasol yn caniatáu i sefydliadau trydydd sector fuddsoddi yn natblygiad staff a phrosiectau cyfalaf.

Mae'r ymdriniaeth a amlinellir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei dilyn yn gyffredinol. Mae cyfeirio rhwng gwasanaethau a gwell rhwydweithio wedi arwain at well mynediad at gefnogaeth. Er enghraifft os nad yw rhywun yn gymwys am wasanaeth, byddant yn cael eu cyfeirio at wasanaeth perthnasol arall er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu gadael heb gymorth.

Mae rhwydwaith Iles Ynys Môn yn un enghraifft o rwydwaith effeithiol. Maent yn rhannu gweledigaeth o ddatblygu gwasanaethau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ystyrir bod y cyd-gynllunio a'r cyd-ddarpariaeth rhwng y Bwrdd Iechyd, Clwstwr Meddygon Teulu Ynys Môn, Cyngor Sir Ynys Môn a Medrwn Môn (a'r trydydd sector ehangach) yn hynod o lwyddiannus. Mae'r Cynllun Gofal Integredig 'wedi bod yn fendith' i'r Rhwydwaith gan alluogi cynllunio effeithiol a sicrhau gwasanaethau o ansawdd.

Mae'r Pwynt Mynediad Sengl yn darparu mynediad hawdd at rai gwasanaethau ac fe allai fod yn effeithiol ar gyfer pob asesiad. Credir bod y Canolbwynt Cymunedol (Canolfan Ni) yn rhagorol.

Mae rhai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal yn cael mwy o lais, dewis a rheolaeth dros y ffordd y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu, yn enwedig drwy'r defnydd o daliadau uniongyrchol. Mae pobl yn cael eu cefnogi i wneud y dewisiadau sy'n gywir iddyn nhw, eu teuluoedd, eu blaenoriaethau a'u dyheadau. Mae pobl yn cymryd rhan weithredol mewn adnabod, gweithredu, monitro a rheoli eu cefnogaeth yn hytrach na bod yn dderbynyddion gwasanaeth di-lais. Mae hyn yn creu gwir gyd-gynhyrchiant o fewn y system a gwir gymhellant i drefniadau fod yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy.

Beth y mae angen ei wella?

Mae angen gwella perthnasoedd rhwng y sector gwirfoddol a'r trydydd sector a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd ei bod yn ymddangos yn aml nad yw gwasanaethau trydydd sector yn cael cael eu gwerthfawrogi'n iawn o bell ffordd gan lawer o staff iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n ymddangos nad yw materion sy'n cael eu codi gan sefydliadau trydydd sector yn cael eu cymryd o ddifri gan rai gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, yn enwedig pan fydd methiannau yn y system sy'n achosi cryn bryder i drigolion/cleifion yn cael eu hamglygu. Nid yw staff trydydd sector yn cael eu trin gyda pharch, er bod eu lefelau o ymgysylltiad a'u dealltwriaeth o'r materion yn llawer dyfnach.

Roedd teimlad bod Cydweithredfeydd Gofal Cymdeithasol yn 'rhy fawr ac yn rhoi gwasanaeth gwael iawn ar hyn o bryd'. Mae angen gwella cyfathrebu mewn a rhwng sefydliadau i gefnogi gweithrediad effeithiol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Byddai rhai hefyd yn hoffi mwy o eglurder ynghylch ffrydiau cyllido megis cyllid y Fframwaith Gofal Itegridig (FfGI) a Gofal Iechyd Parhaus. Byddai pobl sy'n gwneud cais am gyllid Gofal Iechyd Parhaus yn hoffi pe bai yna lai o waith papur a bod y cymorth yn y cais yn cael ei ddarparu, er enghraifft, drwy eu gweithiwr cymdeithasol. Yn gyffredinol roedd llawer yn credu bod gwasanaethau gofal cymdeithasol angen mwy o staff a bod y gwasanaethau eu hunain angen eu hailwampio'n llwyr. Mae lefelau o gymorth yn wael, rhestrau aros yn hir ac yn aml nid yw gwasanaethau neu gludiant i gyrraedd atynt ar gael. Wrth geisio dod o hyd i atebion i'r argyfwng hwn mae angen cynnwys y bobl y mae'r polisi presennol yn effeithio arnynt yn uniongyrchol, er enghraifft darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

Un ffordd arwyddocaol o symud ymlaen fyddai gwella tâl ac amodau staff er mwyn denu mwy o bobl i'r mewn i'r proffesiwn. Fel arall bydd yn amhosib cwrdd ag

anghenion cynyddol y gymuned. Yn ogystal ‘â bod heb ddigon o arian o bell ffordd’, mae’n ymddangos ‘nad yw gofal cymdeithasol yn cael ei werthfawrogi gan lawer iawn o gymdeithas’. Mae’n rhaid i bolisi’r dyfodol godi proffil y gwasanaethau hyn a gwella eu delwedd gyhoeddus i adlewyrchu eu pwysigrwydd a’u gwerth i gymdeithas:

“Mae angen anfon negeseuon cadarnhaol sy’n cefnogi dewisiadau pobl i symud i mewn i ofal cymdeithasol. Gwybodaeth gadarnhaol am rôl Cynorthwyr Personol, beth maen nhw’n ei roi, a hefyd beth maen nhw’n ei gael yn ôl.”

Wrth recriwtio staff gofal, awgrymodd un defnyddiwr gwasanaeth y dylai gofalwyr sy’n cael tâl ‘gael eu fetio’n fwy trylwyr’ i osgoi risgiau i bobl agored i niwed. Awgrymodd darparwr gwasanaeth fwy o arbenigo mewn rolau gofalu, er enghraifft drwy ddarparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer gweithio gyda gweithwyr ymfudol. Dylai fod yn bosibl trosglwyddo unrhyw hyfforddiant a gafwyd o fewn 12 neu 24 mis cyn trosglwyddo i weithio â darparwr/i gyflogwr arall yn yr un ffordd â gwiriadau DBS.

Byddai defnyddwyr gwasanaeth yn hoffi cael gwell mynediad at weithwyr cymdeithasol a gallu siarad â nhw pryd bynnag y bo angen. Roedd rhai’n teimlo y dylid rhoi mwy o amser i weithwyr cymdeithasol weithio gyda, a gwrando ar eu cleientiaid ac na ddylid caniatáu iddynt ddal swydd weithredol arall. Hefyd mae angen delio ag atgyfeiriadau i weithwyr cymdeithasol yn gynt.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth eraill yn teimlo bod angen rhoi’r opsiwn o daliadau uniongyrchol am gymorth iechyd a gofal cymdeithasol i fwy o bobl gan mai ychydig iawn sydd â dewis a lefel o reolaeth ar hyn o bryd. Roeddent y pwysleisio bod yn rhaid i becynnau dewis gofal gynnwys y defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr/noddwr a’r gweithiwr cymdeithasol mewn ffordd ystyrlon er mwyn sicrhau gofal sy’n canolbwyntio ar y cleient. Yn ychwanegol, roedd pobl a oedd yn cyfuno’u hadnoddau’n cael deilliannau gwell gyda’i gilydd, gan helpu i adeiladu cymunedau o gefnogaeth, lleihau’r angen am gefnogaeth statudol a sicrhau mwy o effeithlonrwydd o ran costau. Fodd bynnag mae angen newid mewn diwylliant ac ymagwedd i gefnogi cyfleoedd o’r fath.

Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu bod angen gwneud mwy i leihau unrhyw stigma a chywilydd cysylltiedig â gofyn am help, yn enwedig i deuluoedd sy'n profi tlodi mewn gwaith.

“Mae hwn yn wasanaeth sy'n mynd i mewn i gartrefi a theuluoedd pobl. Felly rhaid edrych arno mewn ffordd sensitif, gan ei bod yn cymryd llawer o ddewrder i ofyn am yr help yn y lle cyntaf!”

Gellid gwella mynediad at wasanaethau drwy “ledaenu gwybodaeth yn ehangach ynglŷn â sut y gall pobl heb sgiliau cyfrifiadur gysylltu â gofal cymdeithasol”.

(b) Gwasanaethau Iechyd Meddwl:

Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd sawl ymatebydd nad oes 'unrhyw beth' yn gweithio'n dda yn y gwasanaethau iechyd meddwl, gan ddweud bod 'y system wedi torri i raddau helaeth'.

Roedd defnyddwyr gwasanaeth yn poeni bod gwasanaethau'n dueddol o ganolbwyntio ar ataliaeth neu argyfwng ac nad oedd cefnogaeth ar gael i bobl ar y 'camau yn y canol'. Yn ogystal, mewn argyfyngau, mae pobl â phroblemau iechyd meddwl weithiau yn cael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol gan arwain at 'labelu rhywun yn droseddwr oherwydd eu salwch'. Mae'n ymddangos na all y system gefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl o ganlyniad i drawma'r gorffennol. Mae angen i lawer o wasanaethau fod yn fwy gwybodus am drawma.

Soniwyd fod rhai gwasanaethau'n darparu cefnogaeth gadarnhaol yn cynnwys:

- Tîm Dyffryn Clwyd
- Tîm Cymorth Iechyd Meddwl Cyngor Sir y Fflint
- Monitro Gweithredol Mind, gwasanaeth ymyrraeth gynnar
- Gwasanaethau elusen fel y Samariaid, CRUSE, Relate
- Cefnogaeth grŵp barhaus gan elusennau (KIM, Advance Brighter Futures, Mind, ASNEW)
- Unedau adferiad i roi cymorth i helpu pobl i fynd yn ôl i fyw yn y gymuned

Yn yr un modd soniwyd am rai gweithwyr proffesiynol unigol sy'n rhoi gofal rhagorol, ond yn gyffredinol mae ansawdd y gefnogaeth a roddir yn dipyn o loteri.

Dywedodd un darparwr gwasanaeth ei bod yn bwysig adolygu cynlluniau gofal iechyd meddwl yn rheolaidd er mwyn ystyried unrhyw welliannau neu newidiadau i anghenion unigolyn.

Beth y mae angen ei wella

Yng ngoleuni'r pryderon difrifol am wasanaethau iechyd meddwl, nid yw'n syndod bod llawer wedi dweud bod angen gwella 'popeth', yn cynnwys:

- mwy o wasanaethau iechyd meddwl
- mwy o gyllid i sicrhau cyflog derbyniol ar gyfer staff a gwasanaeth digonol ar gyfer pob cleient unigol.
- gwella mynediad i gymunedau DLIE
- mwy o gyllid hirdymor er mwyn gallu ymwreiddio prosiectau a dal gafael ar staff.
- mwy o hyblygrwydd - sesiynau un i un yn ogystal â sesiynau grŵp
- lefelau staffio uwch ym mhob gwasanaeth i osgoi bylchau mewn gofal ac fel bod cefnogaeth ar gael pan fydd staff i ffwrdd yn sâl.
- mwy o wasanaethau cwnsela lleol
- mwy o gymorth gyda phroblemau chamddefnyddio sylweddau
- cefnogaeth well ar gyfer pobl â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth, yn enwedig awtistiaeth gweithredu lefel uchel neu awtistiaeth ar y cyd â chyflwr iechyd meddwl.
- gwell mynediad at ymyraethau ar wahân i feddyginiaeth
- llawer mwy o wasanaethau y tu allan i oriau arferol lle gellir 'cadw' pobl pan fo'r gwasanaethau iechyd meddwl ar gau.
- gwell atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl i symleiddio'r broses, lleihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol a chaniatáu i reolwyr tai gyfeirio tenantiaid at gymorth iechyd meddwl arbenigol er enghraifft.
- mwy o wasanaethau iechyd meddw yn y gymuned
- unedau adferiad llai ar gyfer hyd at chwech o bobl gyda chefnogaeth 24 awr
- mwy o lety parhaol ar gael a thai â chymorth ar gyfer pobl ddigartref
- mae angen cwblhau astudiaethau achos mewn modd amserol a rheoli llwythi achosion yn fwy effeithiol

Pwysleisiodd defnyddwyr gwasanaethau'r angen am lawer mwy o wasanaethau ymyrraeth gynnar fel bod modd iddynt gael cymorth iechyd meddwl pan fo hynny'n angenrheidiol **a chyn** iddynt gyrraedd y pwynt argyfwng. Mae amseroedd aros hefyd

yn hir dros ben ac yn mynd yn hirach. Ar hyn o bryd mae oedi'n rhoi mwy o bwysau ar bobl ac mae eu symptomau'n aml yn mynd yn waeth nag y mae angen iddynt:

“Byddai'n well gen i beidio cyrraedd y pwynt o fod mewn argyfwng. Ddylai rhywun ddim gorfod bod mewn argyfwng i gael cefnogaeth, yn hytrach byddai'n well rhoi mwy o bwyslais ar fesurau atal a fy nghadw i'n iach yn fy nghartref.”

Mae bylchau mewn gwasanaethau hefyd yn gallu achosi i iechyd meddwl pobl waethygu:

“Ar hyn o bryd rydw i ar restr aros am weithiwr cymorth newydd ac yn teimlo ar fy mhen fy hun yn llwyr ar adeg sy'n hanfodol i'm lles.”

Roedd rhai'n teimlo y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i fuddsoddiad mewn gwasanaethau ar gyfer rhieni ag anawsterau iechyd meddwl oherwydd y perygl o effeithiau hirdymor ar blant a phobl ifanc.

Dau faes a grybwyllwyd fel bod angen mwy o arian oedd y gwasanaethau iechyd meddwl a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a'r system cymorth iechyd meddwl yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Meddai un darparwr gwasanaeth:

“Yn aml daw pobl atom mewn argyfwng oherwydd nad ydynt yn gallu cael cymorth, naill ai gyda'u iechyd meddwl neu gyda'r materion ymarferol sy'n effeithio ar eu hiechyd meddwl (e.e. tai, dyled, tlodi, cludiant, perthnasoedd teuluol ac ati). Er mwyn gwneud newid go iawn mae angen rhoi llawer mwy o arian yn y system (iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â'i gilydd) ac mae angen newid y ffordd y defnyddir cyllid fel bod mwy o ymyrraeth gynnar.’

Un ateb yw gweithio'n agosach â gwasanaethau trydydd sector i ddarparu'r sefydlogrwydd sydd ei angen ar ddefnyddwyr gwasanaethau cyn iddynt allu manteisio ar gefnogaeth seicolegol.

“Gallai cefnogaeth gan gyfoedion, grwpiau gweithgareddau a lles, cyrsiau seiliedig ar hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar a therapi gwybyddol ymddygiadol i gyd helpu i gefnogi pobl wrth iddynt aros a'u 'paratoi' nhw i gael

y mwyaf o'r gwasanaethau proffesiynol. Byddent hefyd yn darparu cam i lawr gwerthfawr ar ôl defnyddio'r gwasanaethau, gan wneud gadael yn haws."

Byddai'r fath ymdriniaeth hefyd yn helpu i atal dibyniaeth ar y tîm ac yn galluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddatblygu sgiliau a strategaethau ymdopi. Dylai hyn helpu i leihau llwythi achos staff a phwysau ariannol.

O ran datblygiad staff, gallai myfyrwyr chwarae mwy o ran er mwyn dod â syniadau a setiau sgiliau newydd i wasanaethau. Fe allai staff cyfredol fanteisio ar hyfforddiant arbenigol a chefnogaeth i ddatblygu eu hymarfer, gan gwblhau adolygiadau perfformiad a datblygiad blynyddol i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth mwy cadarn a chost effeithiol.

(C) Gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

Beth sy'n gweithio'n dda:

Mae gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu'n gweithio'n dda os ydynt:

- yn hyblyg yn eu hymdriniaeth
- rhoi gwahanol gyfleoedd i bobl er mwyn iddynt gael amrywiaeth a dewis o weithgareddau neu leoliadau gwaith.
- gwneud defnydd da o gyfleusterau a/neu grwpiau cymunedol
- cynnwys gweithgareddau ar-lein ac wyneb yn wyneb
- cefnogi pobl i ddysgu sgiliau newydd ac i fod yn fwy annibynnol

Roedd defnyddwyr gwasanaethau'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gawsant yn ystod y pandemig gan 'staff da a chymwynasgar'. Roedd un defnyddiwr gwasanaeth yn canmol eu profiad gwaith yn Abbey Upcycling, a dywedodd eraill:

"Ar hyn o bryd dwi'n cael cefnogaeth gan Livability. Maen nhw wedi fy help'n fawr yn enwedig yn ystod y cyfnod clo. Mi gawson ni gryn dipyn o hwyl - roedden nhw'n ffonio, roedden ni'n chwarae gemau ac yn cael sgysiau ar y grŵp Whatsapp. Mae fy ngweithwyr cymorth i gyd wedi bod yn wych."

"Mae Byddin yr Iachawdwriaeth (Wrecsam) yn rhoi hyfforddiant i fy mab ar sut i ddefnyddio til mwyn iddo allu gwirfoddoli mewn siop un diwrnod. Mae o wedi cael ei wrthod am y math yma o waith yn y gorffennol oherwydd nad oedd y

sgiliau yma ganddo. Mae'r hyfforddiant yn rhagorol. Mae o wedi cael profiad gwaith gyda'r Groes Goch – mae hyn yn wych.”

Soniodd defnyddwyr gwasanaeth am pa mor dda maen nhw'n gweithio gydag asiantaethau eraill ac roedden nhw'n ddiolchgar am y gefnogaeth ddiweddar a gawsant gan y gwasanaethau cymdeithasol, gan grybwyll Awdurdod Lleol Gwynedd a BIPBC. Mae BIPBC yn gweithredu fel cyflogwr lletyol ar gyfer prosiect sy'n helpu pobl ag anawsterau dysgu i gael swyddi, ac wedi datblygu llwybr recriwtio 'hygyrch' i'r diben hwn.

Beth y mae angen ei wella

Yn gyffredin â gwasanaethau gofal eraill, dywedodd rhai ymatebwyr bod angen gwella llawer iawn o bethau. Disgrifiwyd gwasanaethau'r cyngor fel 'gwael a rhy gyffredinol' a bod angen eu hailadeiladu 'o'r top i'r gwaelod'. Eto awgrymwyd bod angen mwy o gyllid a gwella cyflogau staff i adlewyrchu eu lefel o gyfrifoldeb a'u hannog i aros yn eu swyddi. Mae angen hefyd lleihau amseroedd aros am asesiadau.

Gallai gweithwyr cymorth fanteisio o ddatblygu eu sgiliau digidol i allu cefnogi defnyddwyr gwasanaethau i fod yn fwy cysylltiedig yn ddigidol. Hefyd, mae angen mwy o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill gyda sgiliau arbenigol i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth, e.e:

“Yn bendant mae angen mwy o Weithwyr Cymdeithasol Gofal Oedolion i helpu pobl gydag anabledau dysgu ac awtistiaeth, fel fy mab. Mae arnom hefyd angen seicolegydd arbenigol ar gyfer pobl ag anabled dysgu ac awtistiaeth, a hynny ar frys. Nid oes unrhyw un â'r cymwysterau cywir i wneud y gwaith hwn yn Wrecsam. Roedd ein mab ar fin cyflawni hunanladdiad, fe wnaethom dalu am seicolegydd arbenigol am ein bod gymaint o angen rhywun i'w helpu o.”

“Dywedodd pobl ag anawsterau dysgu y byddent yn hoffi “mwy o oriau am daliadau uniongyrchol plŷs er mwyn i mi allu mynd i lefydd eraill ac yn fwy aml” a “chanolfan gymorth anfeiriadol, er mwyn cael gwybodaeth, gofyn cwestiynau, cymdeithasu a rhannu/siarad.”

Dywedodd gofawlyr y byddai adolygiadau rheolaidd gyda darparwyr gwasanaethau'n werthfawr iawn er mwyn gallu trafod a oes angen unrhyw newidiadau i lefelau

cymorth ac i sicrhau bod gofal yn cael ei deilwra ar gyfer yr unigolyn. Er enghraifft roedd un rhiant eisiau rhoi gwybod i weithwyr cymorth bod angen iddyn nhw ddweud wrth eu plentyn am dynnu eu siwmpwr pan mae hi'n boeth, am nad oedd hyn wedi digwydd yn ystod cyfnod pan oedd y tywydd yn gynnes.

Roedd rhai'n pryderu ei bod yn bosibl na fydd gofalmwyr/rhieni'n gofyn am gymorth os ydyn nhw'n teimlo'n ynysig ac 'yn fethiant'. Mae'n bwysig nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn canolbwyntio ar 'y rhai sy'n gweiddi uchaf'.

Mae ar oedolion ag anableddau dysgu angen mwy o gyfleoedd am brofiad gwaith a hyfforddiant i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau. Tra bo argaeledd gwasanaethau Mynediad i Waith yn dameidiog, mae diffyg atgyfeiriadau i'r gwasanaethau presennol a byddent yn hoffi gweld mwy'n cael ei wneud ar y pwynt pan fo pobl yn gadael y coleg, i helpu i gydweddu unigolion â'r cyfleoedd sydd ar gael. Mae angen herio'r diwylliant o ddisgwyliadau a chanfyddiadau gwael ymysg cyflogwyr gan greu llwybrau clir at waith ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Gallai'r awdurdodau lleol chwarae rôl allweddol, ond ar hyn o bryd ychydig iawn o bobl ag anableddau dysgu y maent yn eu cyflogi.

Mae angen mwy o lety wedi'i deilwra'n arbennig i gyd-fynd ag anghenion unigol, yn arbennig oedolion ag anableddau dysgu ac eraill ag anableddau cymhleth. Mae angen gwasanaethau camu i fyny/camu i lawr os bydd lleoliad yn methu a bod unigolyn angen cymorth mwy dwys am gyfnod, yn hytrach na derbyniad i'r ysbyty.

Mae cynnwys pobl yng nghyd-ddyluniad gwasanaethau gofal a chymorth yn faes y mae angen ei wella o hyd, yn ogystal ag ymdriniaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i gynyddu llais defnyddwyr gwasanaethau a'u rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Gallai hyfforddiant gorfodol ar werthoedd ac egwyddorion cyd-gynhyrchu ar gyfer yr holl staff helpu yn hyn o beth, wedi'i gyflwyno ar y cyd gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

Ar lefel system, mae angen integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well, gan nad yw hyn wedi datblygu o gwbl ym maes gwasanaethau anableddau dysgu, oherwydd bod 'modelau gwahanol yn dal i gael eu defnyddio ar draws y rhanbarth a chyd-ariannu'n dal i fod yn faes lle mae anghytuno ac anghydfod parhaus."

(d) Gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau corfforol a/neu nam ar y synhwyrau

Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd un defnyddiwr gwasanaethau eu bod nhw'n 'cael trafferth cael y cymorth maen nhw ei angen'.

Roedd eraill yn meddwl bod y Gwasanaeth Iechyd Hygyrch a gwaith amrywiaeth BIPBC yn gweithio'n dda, yn ogystal â'r cymhorthion, yr addasiadau a'r gwasanaeth cyfeillio a gynigir gan y prosiect Byw'n Dda gyda Cholled Clyw.

Dywedodd y darparwr gwasanaeth bod gwaith partneriaeth gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol lleol a sefydliadau trydydd sector yn gryf, sydd yn cefnogi darpariaeth amrywiaeth eang o wasanaethau o ansawdd, rhwydweithio a rhannu arfer da.

Beth y mae angen ei wella:

Mae mynediad at wybodaeth a chyngor ar fformatau amgen yn her fawr i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd ag anableddau synhwyraidd a chorfforol, yn enwedig gwybodaeth gan awdurdodau lleol a'r GIG. Mae deunyddiau wedi'u hargraffu'n anaddas i lawer o bobl a'r cynnydd mewn mynediad ar-lein yn unig at wasanaethau a gwybodaeth yn rhwystr sylweddol i eraill.

I bobl fyddar yng Ngogledd Cymru, mae darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael ei ddisgrifio fel 'loteri cod post', gyda rhai pobl yn gallu cael mynediad at wybodaeth o 9 tan 5 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eraill wedi'u cyfyngu i ddyddiau penodol o'r wythnos. Yn fwy cyffredinol, mae pobl fyddar yn ei gweld yn anodd cael mynediad at lawer o weithgareddau am nad oes unrhyw ddarpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer cyfathrebu â nhw.

Cyfyngedig yw mynediad pobl ag anableddau at ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn enwedig oedolion iau ag anableddau. Mae'n rhaid i bobl aros yn rhy hir am asesiadau a chefnogaeth, ac mae angen gwella cyfathrebu gyda gweithwyr cymdeithasol.

Gall y rhai hynny ag anableddau anweladwy, cyflyrau sy'n mynd a dod neu gyflyrau prin gael eu cau allan o wasanaethau am nad ydynt yn diwallu rhai meini prawf penodol, e.e. 'defnyddio cadair olwyn yn llawn amser'. Mewn gwirionedd mae gan y

rhan fwyaf o bobl sy'n defnyddio cadair olwyn rywfaint o symudedd. Mae gwasanaethau felly'n creu 'hierarchaeth anabled' yn hytrach nag ymateb i anghenion unigol.

Eto mae diffyg staff gofal yn peri pryder ac yn golygu bod gofal yn cael ei ddarparu ar adeg sy'n siwtio'r asiantaeth ofal yn hytrach na phan fo ar y cleient angen y gwasanaeth, ac mae'n golygu hefyd nad oes unrhyw un i lenwi yn ystod cyfnodau o wyliau a salwch staff.

(e) Gwasanaethau ar gyfer pobl ag awtistiaeth

Beth sy'n gweithio'n dda:

Ychydig o ymatebwyr wnaeth sylwadau ar bethau sy'n gweithio'n dda, a dywedodd un neu ddau fod gwasanaethau'n rhy araf ac nad oes llawer o gefnogaeth ar gael.

Credir bod y Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig yn gadarnhaol iawn, felly hefyd y defnydd o daliadau uniongyrchol.

Beth y mae angen ei wella:

Roedd rhai ymatebwyr yn meddwl bod 'popeth' angen ei wella, gan argymhell yn arbennig:

- y dylai gwasanaethau ganolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn
- y dylai staff gael hyfforddiant arbenigol
- bod angen lleihau amseroedd aros am asesiadau.
- y dylid gwella cyfathrebu â gwasanaethau
- bod angen i staff ym mhob gwasanaeth fod yn fwy gonest ac agored
- y dylid sefydlu canolbwynt ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth lle gall yr holl ddarparwyr gyfarfod a rhannu gwybodaeth.

2. Gofal cymdeithasol i blant a phobl ifanc

(a) yn gyffredinol

Beth sy'n gweithio'n dda:

Ar draws y sector cyfan mae ymatebwyr yn dweud bod y canlynol yn gweithio'n dda:

- perthnasoedd cadarnhaol ac ymddiriedaeth rhwng rheolwyr Awdurdodau Lleol, gweithwyr cymdeithasol a chydweithwyr iechyd i gefnogi cydweithio.
- cyfathrebu da rhwng darparwyr cymorth
- arferion gweithio hyblyg, yn enwedig yn ystod y pandemig
- amrywiaeth eang o wasanaethau ar gael
- cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r blynyddoedd cynnar
- angerdd, gwytnwch ac ymrwymiad staff yn y sector hwn
- cysylltiadau rhwng gwasanaethau gofal a'r ysgolion, mae gweithwyr ieuencid ysgolion yn arbennig wedi cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cael mynediad at wasanaethau.
- Mae Canolbwyntiau Lles ôl-16 wedi ymgysylltu â phobl ifanc sydd ddim wedi bod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) ers tro ac wedi'u helpu nhw i mewn i hyfforddiant.

Cyfeiriwyd yn benodol at wasanaethau a ddarperir gan Deulu Môn, sy'n cael eu hystyried yn dîm 'cyfeillgar ac effeithlon'; tîm o amgylch y denantiaeth yn TGP Cymru sydd yn mynd 'y tu hwnt i'r galw' a sector y blynyddoedd cynnar yn Sir y Fflint.

Dywedwyd bod prosiect WRAP (Wrexham Repatriation and Preventive Project) yn gwneud gwaith da o ran gwella sefydlogrwydd lleoliadau plant a phobl ifanc mewn gofal maeth, gofal preswyl neu sy'n mynd drwy'r broses o gael eu mabwysiadu.

Mae'n helpu gofalwyr i weithio mewn ffordd fwy gwybodus gyda phlant sydd wedi profi trawma, ac yn helpu plant i brosesu eu profiadau trawmatig cynnar. Yn fwy cyffredinol, credir bod y prosesau sydd yn eu lle i gymeradwyo a chefnogi gofalwyr maeth yn effeithiol.

Mae'r dulliau cyffredinol o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd y credir eu bod yn gweithio'n dda yn cynnwys:

- gweithio mewn modd cyfannol gyda'r teulu cyfan, a gallu addasu a bod yn ddigon hyblyg i ymateb i anghenion pob aelod unigol o'r teulu ar unrhyw un adeg.

- teilwra cynlluniau gofal unigol i ddiwallu eu hanghenion penodol
- canolbwyntio ar adferiad i alluogi pobl i wireddu eu deilliannau personol ac i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau.
- defnyddio taliadau uniongyrchol, yn cynnwys taliadau grŵp, am fod hon yn ffordd gost effeithiol o gefnogi pobl.
- darparu cymorth i deuluoedd yn y blynyddoedd cynnar, drwy Ganolbwynt y Blynyddoedd Cynnar neu'r Tîm o Amgylch y Teulu.
- gwneud defnydd llawn o adnoddau sydd ar gael yn y gymuned
- gwneud defnydd da o wirfoddolwyr oherwydd eu bod yn cael eu derbyn fel 'ffrindiau' yn hytrach nag fel 'rhywun o asiantaeth sy'n dweud wrthyn nhw beth i'w wneud'.

Beth y mae angen ei wella:

Codwyd lefelau staffio unwaith eto fel rhywbeth sy'n peri pryder difrifol:

“Mae'r awdurdod lleol yn cael trafferthion go iawn, ac ar adegau maen nhw'n cael eu gorlethu. Maen nhw'n cael problemau mawr llenwi swyddi, mae llwyth achosion llawer o'r gweithwyr cymdeithasol yn drwm dros ben ac mae trosiant staff yn uchel.

Mae hyn yn niweidiol i blant sy'n derbyn gofal am eu bod angen cysondeb a pherthnasoedd cadarnhaol. Mae angen gwell cynllunio gweithlu i ddarparu gwasanaethau o safon ac i osgoi argyfwng gofal cymdeithasol. Mae hyn yn debygol o ofyn am gynnydd mewn cyflogau a buddiannau, cynnydd mewn parch at y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith hwn a dod o hyd i ffyrdd o ddal gafael ar staff.

Dywedodd llawer o ymatebwyr bod angen mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phroblemau staffio ac i sicrhau y gellir cynnig amrywiaeth lawn o wasanaethau. Mae llawer o wasanaethau sydd ddim yn cael eu hariannu'n llawn. Mae cyllid mwy hirdymor yn angenrheidiol i ddarparu cefnogaeth barhaus a chynaliadwy ar gyfer pobl ifanc. Byddai pob plentyn yn manteisio o fod â gweithiwr allweddol i helpu i gydlynu gwasanaethau a chyfarfodydd, ac i'w cefnogi nhw i sicrhau y clywir eu llais drwy gydol yr adeg. Mae hyn yn golygu symud i ffwrdd oddi wrth waith prosiect byrdymor.

“Mae cyllid ar hyn o bryd yn rhedeg o flwyddyn i flwyddyn, dydi hyn ddim yn rhoi digon o amser i brosiect sefydlu'r gefnogaeth gywir i rai pobl ifanc ac mae rhai ohonynt angen dros 6 mis o gefnogaeth.”

“Mae gweithio heb ddigon o gyllid creu mwy o broblemau nag atebion byddai dyfarniadau grant mwy hirdymor yn sicrhau gwell cynllunio a gwerth am arian ac yn gwella prosesau mewnol e.e. caffael/prosesau cyfreithiol.”

Roedd rhai'n teimlo bod angen ymyrraeth gynnar yn fwy aml, yn enwedig lle dynodir profiadau niweidiol mewn plentyndod mewn teulu. Felly hefyd mae angen ymyrraeth therapiwtig ar gyfer plant mewn gofal i'w helpu nhw i ddelio â'r profiadau andwyol y maent wedi'u dioddef

Gallai ysgolion wneud mwy i adnabod ac atgyfeirio plant mewn perygl cyn i'r problemau ddwysau, yn enwedig gan fod rhai pobl ifanc yn eu harddegau yn disgyn drwy'r bylchau. Mae angen mwy o wasanaethau 'ymylon gofal' gyda staff â'r cymwysterau a'r profiad angenrheidiol. Mae angen canolfannau lleol i roi cefnogaeth therapiwtig i deuluoedd

Mae problemau'n ail-godi pan fydd pobl ifanc yn gadael yr ysgol oherwydd bod eu systemau cymorth yn stopio oni ba eu bod yn mynd ymlaen i addysg bellach. Yn aml iawn mae arnynt angen cymorth wrth iddynt bontio i'r gwasanaethau oedolion, sydd yn aml ddim ar gael. Mae hyn yn bryder arbennig o ran pobl ifanc ag anghenion cymhleth. Un ateb ymarferol fyddai cynyddu argaeledd stoc tai un ystafell wely, i alluogi pobl ifanc i adael llety â chymorth a symud i denantiaeth gan dderbyn cymorth dwys.

Un grŵp o blant y teimlir y mae'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn eu methu'n aml yw'r rhai hynny â chlefydau prin, Mae'n bosibl na fyddent yn cael eu hadnabod o gwbl oni bai bod eu cyflwr yn cynnwys anabledd neu os oes materion gofal cymdeithasol eraill cysylltiedig â'r teulu. Mae'n ymddangos nad yw llwybrau gofal cymdeithasol wedi'u haddasu ar gyfer y teuluoedd hyn ac nad ydynt yn ddigon sensitif i'r heriau, gan adael ymyrraeth yn rhy hwyr neu roi'r bai yn rhy fuan ar rianta gwael. Dylid mynd i'r afael â'r pryderon hyn drwy greu cofrestr o deuluoedd wedi'u heffeithio a chynyddu dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o'r cyflyrau.

Mae angen mwy o ofalwyr maeth i gadw i fyny â'r galw ar wasanaethau, yn enwedig pan fo teuluoedd mewn argyfwng. Mae'r atebion yn cynnwys cynyddu pecynnau cymorth ar gyfer gofalwyr maeth yn ogystal â recriwtio a hyfforddi mwy o ofalwyr. Bydd hyn yn gost effeithiol os yw'n atal llawer o leoliadau rhag chwalu ac yn lleihau nifer y plant mewn lleoliadau y tu allan i'r sir neu mewn lleoliadau preswyl drud dros ben.

O ystyried maint y pryderon ynglŷn â'r gwasanaethau plant, awgrymodd rhai bod angen dull 'meddwl trwy systemau' o ddarparu gwasanaethau ar draws yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd a'r Trydydd Sector, i ddileu gwastraff mewn systemau a sicrhau nad os raid i ddefnyddwyr gwasanaethau aros yn hir am ofal. Mae'r seilwaith i gefnogi dull mwy cydweithredol o weithio, megis systemau TG, yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol. Mae angen mwy o waith ar y cyd ar y broses Gofal Iechyd Parhaus a Chydweithredfeydd Gofal Cymunedol ar gyfer plant.

(b) Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag amhariadau corfforol/synhwyraidd

Dim ond ychydig o ymatebwyr wnaeth sylwadau ar y mater hwn ac o'r rhai a wnaeth, sylwadau ar y ddarpariaeth gofal iechyd oedden nhw.

(c) Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu.

Beth sy'n gweithio'n dda:

Ychydig iawn o sylwadau a gafwyd yma. Soniwyd rhywfaint am gefnogaeth dda gan ysgolion a chydweithio llwyddiannus ar draws y sefydliadau gofal.

Beth y mae angen ei wella:

Roedd argymhellion ar gyfer gwella yn cynnwys:

- mwy o gyllid a staff
- gwell cyfathrebu rhwng gwasanaethau
- mwy o weithgareddau
- mwy o gefnogaeth ar gyfer teuluoedd â phlant ag anghenion ychwanegol sy'n dreisgar

(d) Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc

Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd yr ymatebwyr bod y canlynol yn gweithio'n dda:

- cydweithio â chynghorau lleol i hyrwyddo gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cyrraedd y nifer uchaf o bobl.
- cyfathrebu rhwng asiantaethau – yr heddlu, gwasanaethau plant ac addysg
- cwnsela mewn ysgolion uwchradd
- apiau iechyd meddwl a lles
- llinellau ffôn fel y Samariaid a MIND

Roedd eraill yn meddwl nad yw gwasanaethau'n gweithio'n dda o gwbl am ei bod 'yn amhosibl cael apwyntiad am wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cysylltiedig â phlant.”

Beth y mae angen ei wella:

Y neges gyson gan lawer o ymatebwyr oedd bod bwloch anferth yn y gwasanaethau iechyd meddwl plant, bod rhestrau aros yn rhy hir a bod teuluoedd yn cael trafferth ymdopi.

Argymhellion penodol ar gyfer gwelliannau oedd:

- gwell mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r tîm niwroddatblygiad ar gyfer pobl ifanc.
- integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl i'r ysgolion, yn enwedig cwnsela ar gyfer plant ysgol gynradd a chodi ymwybyddiaeth o drawma ymysg staff.
- cynyddu niferoedd nyrsys Plant Sy'n Derbyn Gofal
- cydweithio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau plant eraill er mwyn symleiddio gofal
- cynyddu cefnogaeth seicolegol ar gyfer plant, yn enwedig plant mewn gofal a llai o ddibyniaeth ar feddyginiaeth fel ymyrraeth.
- mwy o gwnsleriaid, yn enwedig cwnsleriaid gwrywaidd a rhai sy'n siarad Cymraeg, Pwyleg ac Ieithoedd eraill.
- siopau un stop i ddysgu am, a chael mynediad at yr holl wasanaethau sydd ar gael mewn ardal

- gwneud y broses o bontio o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion yn haws i bobl ifanc ac wedi'u teilwra'n arbennig i gyd-fynd ag anghenion datblygiadol yr unigolyn.

(e) Gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag awtistiaeth

Beth sy'n gweithio'n dda:

Ychydig o ymatebwyr a ddywedodd bod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag awtistiaeth yn gweithio'n dda, ond roedd y pethau da a gafodd eu nodi yn cynnwys:

- seicolegwyr addysg unigol
- sefydliadau'n darparu cymorth o ansawdd da: STAND NW, Canolfan Datblygiad Plant Conwy ac Ysgol y Gogarth.
- y gefnogaeth wedi'i theilwra'n arbennig a gynigir i bob teulu/unigolyn

Beth y mae angen ei wella:

Dywedodd rhai ymatebwyr bod angen gwella '*popeth*' i roi mwy o sylw, gofal a chymorth i rieni a'u plant awtistig. Mae rhestrau aros am asesiadau awtistiaeth yn '*aruthrol o hir*' ac ychydig iawn o wasanaethau sydd ar gael. Dywedodd rhieni y byddent yn hoffi cael mwy o wybodaeth am sut y mae eu hachos yn symud i fyny'r rhestr, a hefyd byddent yn hoffi cael rhywfaint o gyngor tra maen nhw'n aros.

Mae'r bylchau a ddynodwyd mewn gwasanaethau'n cynnwys:

- gwasanaethau ar gyfer plant ar begwn uchaf y sbectwm
- gofal seibiant unwaith y mae plant yn 11 oed
- cyfleusterau ar ôl ysgol gyda staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol
- gwasanaethau ar gyfer plant awtistig â phroblemau gorbryder a chyfathrebu

Lleisiodd rhieni bryderon nad yw athrawon, yn enwedig mewn ysgolion arbenigol, i gyd yn gymwys ac wedi'u hachredu i weithio â phlant awtistig. Roeddent yn teimlo y dylai gwersi gael eu darparu gan athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn dyslecsia, anghenion synhwyraidd, anawsterau â'r swyddogaethau gweithredol, prosesu araf ac ati. Mae'n arbennig o bwysig bod athrawon yn cael eu hyfforddi i adnabod a chefnogi plant awtistig ag anghenion cymhleth sy'n ymddangos fel pe baent yn iawn yn gymdeithasol ac sy'n gallu cuddio eu problemau'n dda. Nid yw ugain munud yr

wythnos o addysgu un-i-un gan y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn ddigon.

Roedd rhieni a gofalwyr yn disgrifio "cael eu gadael i ddelio â chanlyniadau trawma a achoswyd gan athrawon sydd ddim yn deall anghenion y disgybl, felly yn ogystal â gofalu am ein plentyn, mae'n rhaid i ni frwydro i geisio gorfodi ysgolion i wneud darpariaeth ar eu cyfer. Mae gennym y baich aruthrol ychwanegol yma ar ben ein rôl ofalu ein hunain."

Mae ar rieni a gofalwyr angen mwy o ofal seibiant eu hunain, fel yr eglurodd un rhiant "dw i wedi mwy nag ymlâdd'. Roedd yn rhaid i mi adael fy swydd fel nyrs arbenigol am 23 o flynyddoedd i fod yn ofalwr llawn amser i fy merch, a does 'na ddim cefnogaeth iddi hi."

Gallai grwpiau cymdeithasol ar gyfer rhieni ddarparu cyfleoedd i drafod anawsterau cyffredin a rhannu gwybodaeth am atebion. Mae angen mwy o gefnogaeth a hyfforddiant i helpu rhieni i ymdopi ag awtistiaeth eu plentyn.

Ar lefel system, byddai darparwyr gwasanaeth yn manteisio ar:

- fforymau rhwydweithio gwell
- sicrwydd o gyllid gan yr awdurdod lleol
- cydlynu a chydweithredu i rwystro cyrff/asiantaethau rhag cystadlu a'i gilydd am yr un grantiau ac i osgoi gorgyffwrdd rhwng gwasanaethau.

Byddai rhieni'n hoffi pe bai staff ar draws sefydliadau'n gweithio gyda'i gilydd "fel nad oes angen rhoi'r un wybodaeth bob tro ac nad ydych y gorfod gweld rhywun newydd bob tro."

3. Gofal cymdeithasol i bobl hŷn

(a) Gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol

Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd llawer o ymatebwyr nad oes 'unrhyw beth' yn gweithio'n dda yn y gwasanaethau i bobl hŷn

“Mae pawb yn gwneud eu gorau, ond dydi'r arian ddim yna, ddim ar gyfer staff ychwanegol nac i wneud gwell defnydd o adrannau, ac mae cyfathrebu rhyngddynt yn broblem anferth hefyd.”

Roedd rhai'n meddwl bod pocedi o enghreifftiau lle mae gwasanaethau'n gweithio'n dda, lle mae timau o bob rhan o'r sector a gwahanol asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion pobl hŷn, a lle mae staff ymrwymedig, wedi'u hyfforddi'n dda yn gweithio'n galed iawn mewn sefyllfaoedd anodd.

“Roeddwn angen gofal yn ar frys i fy nhad pan aeth fy mam i'r ysbyty. Er mai dim ond newydd symud yma oedden nhw, cafodd eu hanghenion eu diwallu drwy gyfuniad o Asiant Cymunedol, y Gwasanaethau Cymdeithasol a Homecare Matters. Fe wnaeth cyflymder y trefniadau ar gyfer eu hanghenion gofal argraff fawr arna'i ”

Mae enghreifftiau penodol o wasanaethau lleol yn gweithio'n dda yn cynnwys:

- asesiadau cyflym ar gyfer pobl hŷn yn Sir y Fflint.
- gwasanaethau rhagweithiol a dynamig yn Sir y Fflint.
- gwell cynlluniau gofal a chymorth integredig yn Sir Ddinbych
- gofal ardderchog gan staff unigol yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Wrecsam
- cefnogaeth gan Gorwel gydag anghenion cysylltiedig â thai

Roedd y dulliau o ddarparu gofal ar gyfer pobl hŷn sy'n gweithio'n dda ym marn ymatebwyr yn cynnwys:

- cynnig amrywiaeth o opsiynau cymorth i bobl ddewis o'u plith
- opsiynau i ymgysylltu â gwasanaethau a chymunedau ar-lein a heb fod ar-lein
- darpariaeth gwasanaethau dwyieithog

- cartrefi gofal sy'n sicrhau deilliannau lles ac annibyniaeth, ac yn rhoi'r sicrwydd o ofal dros nos pan fo angen.
- gwasanaethau cymorth yng nghartrefi pobl.
- rhoi cymorth lefel isel i bobl hŷn, er enghraifft gwybodaeth a rhifau cyswllt, er mwyn iddynt allu helpu eu hunain ac aros yn annibynnol.

Beth y mae angen ei wella:

Eto roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen gwella 'popeth' oherwydd bod 'y system lechyd a Gofal Cymdeithasol wedi torri'. Mae gennym boblogaeth gynyddol hŷn a dim darpariaeth ar gyfer hyn."

Mae angen llawer mwy o staff. Un bwlch pwysig yw darpariaeth cymorth ar gyfer pobl hŷn sy'n gadael yr ysbyty. Mae pobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty heb unrhyw ofal yn ei le, ac yna'n gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty oherwydd nad ydynt yn gallu ymdopi.

"Byddai'n bosibl gweld mwy o bobl pe bai yna lai o waith papur. Gellid rhyddhau pobl o'r ysbytai a wardiau iechyd meddwl yn gynt pe bai cydweithwyr yn fwy ymwybodol/cyfarwydd â'r prosesau cysylltiedig. Dim digon o weithwyr cymdeithasol ar gyfer yr atgyfeiriadau sy'n cael eu derbyn. Caiff achosion brys eu delio â nhw gan weithiwr cymdeithasol dyletswydd ar y diwrnod hwnnw. Mae gorfod bod â gweithiwr cymdeithasol dyletswydd bob dydd yn golygu bod gweithwyr cymdeithasol yn colli ryw ddiwrnod o bob wythnos, sy'n effeithio ar eu gallu i oruchwylio'u llwyth achos eu hunain a chymryd achosion newydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn cwestiynu a oes angen ailystyried yr hyn sy'n ddiogel yn y cyd-destun presennol.

"Mae pecynnau o ofal sy'n gofyn am 4 ymweliad y dydd gan ddau unigolyn yn dechrau mynd yn fwy a mwy amhosib i'w darparu. A oes angen ailfeddwl ynglŷn â beth/pwy y gellir delio â nhw'n ddiogel yn eu cartrefi?"

"Dydi fy ngŵr ddim yn gallu dod adref. Mae o wedi bod yn yr ysbyty ers 16 wythnos yn disgwyl i ofal yn y cartref gael ei drefnu. Dydi o ddim yn gallu symud nac yn gallu gwneud unrhyw beth drosto'i hun felly mae o angen gofalwyr bedair gwaith y dydd. Mae 'na achosion o COVID wedi bod ar ei ward ar dri achlysur."

Byddai gweithwyr iechyd proffesiynol yn manteisio o allu cael mynediad at wybodaeth fyw am ba ddarparwyr sydd gan y capasiti ar y pryd i ddarparu'r gofal hwn er mwyn osgoi gwastraffu amser yn cysylltu â sawl sefydliad.

Cwestiynodd un gofalwr y ffocws presennol ar annibyniaeth i bobl hŷn ac a yw mewn gwirionedd yn ddim ond mecanwaith i drosglwyddo'r cyfrifoldebau a'r costau i ofalwyr di-dâl, gan anwybyddu'r realiti bod pobl fregus a hen iawn "yn debygol o wneud dim ond dirywio'n feddyliol ac yn gorfforol."

Mae gwasanaethau'n canolbwyntio ar reoli argyfyngau yn hytrach nag ar ddarparu cymorth ataliol. Mae hyn yn arwain at anfon pobl i leoliadau ymhell o'u cartrefi yn erbyn dymuniadau'r teulu. Mae angen rhagor o fuddsoddi mewn gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael yr help sydd ei angen arnynt **cyn** iddynt gyrraedd y pwynt argyfwng.

Roedd rhai ymatebwyr yn bryderus nad yw pobl hŷn sydd ag anghenion lefel uwch, megis anghenion nyrsio a gofal dementia, yn cael digon o ofal oherwydd mai dim ond gofal lefel isel sydd ar gael. Tra bo gofal brys yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl hŷn sy'n disgyn ac yn cael eu hanafu, mae angen gwasanaeth ymateb ar gyfer pobl sy'n disgyn ond ddim yn dioddef anaf ac ar gyfer gofal yn y cartref y tu allan i oriau arferol. Ar hyn o bryd os yw unigolyn hŷn angen cymorth ychwanegol oherwydd digwyddiad annisgwyl e.e. eu gofalwr yn sâl, ni fydd ganddynt fynediad at unrhyw gymorth o gwbl.

Mae hefyd angen amrywiaeth ehangach o opsiynau tai addas i ddiwallu gwahanol anghenion a lefelau cymorth gofal pobl hŷn.

Roedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'n teimlo y dylai gofal i bobl hŷn fod:

- yn symlach fel y gall un person ddarparu amrywiaeth o gefnogaeth yn hytrach na bod llawer o bobl yn rhoi eu tameidiau bach eu hunain o gymorth.
wedi'u trefnu'n well fel y gellir diwallu anghenion yr unigolyn yn iawn
- wedi'u darparu gan yr un aelod o staff fel nad oes yn rhaid i chi 'ailadrodd eich hun bob tro' a bod y staff yn dechrau dod i adnabod yr unigolyn a'u hanghenion.
- wedi'u monitro'n well i sicrhau y darperir y nifer cywir o oriau.
- yn fwy hyblyg, fel y gellir eu darparu dim ond pan fo'u hangen, ar adeg sy'n siwtio'r cleient, ac fel y gellir eu haddasu mewn ymateb i newid mewn anghenion.

- yn para'n hirach, gyda chyfnodau adolygu hirach, yn hytrach na chau achosion 'ar y cyfle cyntaf'.
- wedi'u hysbysebu'n well fel bod gwybodaeth ar gael mewn sawl lle ac mewn gwahanol gyfryngau, nid dibynnu ar y fewnrwyd yn unigol.
- wedi'u harwain gan angen yn hytrach na disgwyl i'r defnyddiwr gwasanaeth ffitio i mewn a'r hyn sydd ar gael.
- wedi'u cefnogi gan daliadau uniongyrchol fel y gall pobl hŷn reoli eu gofal eu hunain, cyflogi eu staff eu hunain.

“Fel dyn 92 oed roeddwn yn gweld y gwasanaeth cymorth yn y cartref o help ond yn gyfyngedig. Mi nes i ddechrau gallu gwneud pethau fy hun, felly mi nes i ganslo'r gwasanaeth. Rydw i rŵan yn meddwl tybed a allai'r gwasanaeth olchi a glanhau mannau dros uchder y pen ac o dan uchder y ben-glin. Y pwynt ydi bod fy anghenion yn newid ac angen eu hadolygu.”

Roedd rhai'n teimlo y byddai gwelliannau i wasanaethau'n dod o gydweithio mwy effeithiol ac ehangach rhwng awdurdodau lleol a gofal preifat a rhwng ieuchyd a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae cyfathrebu ynglŷn â rhyddhau o'r ysbyty a chydlynu pecynnau gofal ar y cyd yn ddau o'r pethau sy'n peri'r pryder mwyaf.

“nid oes unrhyw feddwl ar y cyd na dull o weithredu ar y cyd rhwng ieuchyd, gofal cymdeithasol a chwmnïau gofal elusennol neu wedi'u contractio. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ofalwr geisio cydlynu'r gwasanaethau hyn i gyd, sy'n ychwanegu at eu baich”.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn dweud bod prinder staff yn un o'r problemau mwyaf i wasanaethau pobl hŷn. Ychydig iawn o bobl sydd eisiau gweithio yn y sector gofal ac mae cyflogau'n rhy isel o ystyried bod anghenion pobl hŷn yn llawer mwy dwys nag yr oeddent flynyddoedd yn ôl.

“Mae prinder recriwtio enfawr yn effeithio ar y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn y pendraw, sydd mewn oed ac yn agored i niwed ac yn cael galwadau o safon wael, galwadau'n cael eu methu neu alwadau sydd ddim yn para'r amser y cytunwyd arno yn y pecynnau gofal.

Mae'r atebion arfaethedig yn cynnwys:

- cynyddu cyflogau staff dros yr isafswm cyfog a gwella amodau gwaith i ddal gafael ar staff a denu mwy o staff newydd.
- buddsoddi mewn hyfforddiant a chreu gwell strwythur gyrfa ar gyfer staff gofal gyda gwobr ariannol am ddatblygu sgiliau a phrofiad fel bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig yn hytrach na phobl ifanc ddibrofiad.
- swyddi i fod yn barhaol yn hytrach nag yn rhai tymor penodedig neu'n ddibynol ar gyllid.
- sefydlu telerau ac amodau ar gyfer staff ar draws y sector i wella sefydlogrwydd y gweithlu.
- cefnogi a chymell asiantaethau gofal i ddarparu gofal diogel, unigol ac i wella sgiliau staff er mwyn iddynt allu gwneud hyn, fel nad yw gofal dau berson yn cael ei ystyried yn angenrheidiol yn awtomatig.

"Dylai'r ymdriniaeth fod yn un Cymru gyfan fel bod yr holl ddarparwyr sector cyhoeddus a phreifat yn talu gwell cyflogau ac ar yr un raddfa i staff. Mae Gwynedd eisiau rhoi mwy o gyfrifoldeb i ofalwyr dros eu gwaith ac yn sgil hynny talu mwy iddynt. Er mwyn hwyluso hyn yn rhannol maent am dalu ffi uwch i'r darparwyr a'u gorfodi i dalu cyfradd fesul awr sefydlog i'r gofalwyr. Pe bai'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu ar draws Cymru byddai'n denu ac yn cadw mwy o ofalwyr ac yn helpu i ddatrys un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu gofal yn y gymuned ar hyn o bryd."

Yn amlwg mae'r fath newidiadau yn gofyn am fwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn i wasanaethau allu gweithredu ar y lefel orau bosibl ac yn sgil hynny bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael gofal o safon uchel mewn modd amserol.

Awgrym arall oedd mabwysiadu'r model Eidalaid o ofalwyr 'llein mefus', lle mae busnesau bach yn gweithio gyda'i gilydd i rannu pryniannau a hyfforddiant ac yna'n eu lledaenu drwy fentrau bach ychwanegol.

(b) Gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag amhariadau corfforol/synhwyrdd

Beth sy'n gweithio'n dda:

Ychydig iawn o ymatebwyr a wnaeth sylwadau ynghylch meysydd lle mae gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag amhariadau corfforol/synhwyraidd yn gweithio'n dda. Eu sylwadau oedd:

- mae staff iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn gweithio'n agosach â'i gilydd nag o'r blaen, yn rhannol oherwydd cyflwyniad timau Adnoddau Cymunedol.
- Mae Prif Swyddog Newydd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn annog gwell cysylltiadau gweithio rhwng sefydliadau trydydd sector a gwerth cymdeithasol.
- Mae NEWCIS yn darparu gofal seibiant gwerthfawr (er bod hwn yn gyfyngedig)

Beth y mae angen ei wella:

Mae tai hygrych a fforddiadwy yn sobor o brin ac mae hyn yn ei dro yn effeithio ar wasanaethau oherwydd bod pobl yn gorfod gwneud cais am fwy o gymorth. Mae llawer o dai newydd yn cael eu dylunio heb fod yn dai hygrych. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar sut y mae pobl anabl a phobl hŷn yn byw. Eu hunig opsiwn yw gofal preswyl gan nad oes opsiynau mwy hyblyg a chreadigol ar gael.

Ychydig iawn o gefnogaeth/cwnsela/cyngor sydd ar gael i bobl sy'n cael trafferth ymdopi â cholled clyw ac sy'n teimlo'n ynysig ac yn ofnus. Mae hi'n anodd er enghraifft dod o hyd i gyrsiau i ddysgu iaith arwyddion. Mae gwasanaethau'n dameidiog ac nid oes pwynt cyswllt canolog ar gyfer cefnogaeth a gwybodaeth. Byddai gweithwyr cymdeithasol sy'n arbenigo mewn helpu pobl â phroblemau â'u clyw yn fuddiol.

Dywedodd staff mewn cartrefi gofal eu bod yn ei chael yn anodd cael mynediad at ofal cymdeithasol ar gyfer eu preswylwyr, oherwydd bod gweithwyr cymdeithasol yn cau achosion unwaith y mae unigolyn yn cael ei dderbyn i gartref gofal. Roeddent yn dweud bod atgyfeiriadau Pwynt Mynediad Sengl yn draul ar amser ac yn poeni am ddiffyg parhad mewn gofal.

Roedd argymhellion penodol i wella gwasanaethau'n cynnwys:

- prydlondeb gwell
- mwy o staff fel nad yw gofalwyr yn gorfod rhuthro a bod y ddau aelod o staff yn troi i fyny pan fo'u hangen.

- gwell cyswllt rhwng staff fel bod anghenion y cleient bob amser yn cael eu diwallu.
- anghenion gofal yn cael eu hadolygu'n fwy aml
- camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y materion sy'n cael eu codi mewn adolygiad yn cael sylw.

(c) Gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn ag anableddau dysgu

Beth sy'n gweithio'n dda:

Credir mai dim ond taliadau uniongyrchol sy'n gweithio'n dda.

Beth y mae angen ei wella:

Roedd argymhellion yn cynnwys clustnodi mwy o oriau o ofal a chynyddu nifer y staff.

(d) Gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pobl hŷn

Beth sy'n gweithio'n dda:

Crybwyllodd defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr y gwasanaethau penodol canlynol fel rhai sy'n darparu cyngor a chymorth gwerthfawr:

- Cymdeithas Alzheimer's
- GOGDdC
- Gofalwyr 24/7 ym Mhlas Cnigyll
- Gofal Iechyd Seibiant Crossroads
- Gwasanaeth Trio
- Cynllun Pontio'r Bwlch ar gyfer gofalwyr
- Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol Dementia
- Canolfan Ddydd Hafan Deg

Mae gwasanaethau'n gweithio'n dda pan maen nhw'n darparu seibiant a chymorth i'r unigolyn â dementia a'u gofalwr, er mwyn eu galluogi i gael seibiant byr oddi wrth ei gilydd ond yn yr un adeilad. Mae ymweliadau â'r cartref hefyd yn gweithio'n dda, yn enwedig o ran helpu'r gofalwr i addasu i fyw â dementia.

Roedd rhai gofalwyr yn dweud eu bod yn gallu dod o hyd i ofal yn sydyn pan oedd ei angen arnynt a'u bod yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi'n dda.

“Pan ffoniais y ‘pwynt mynediad sengl’ allwn i ddim bod wedi siarad ag unigolyn clenïach, ac roeddwn i wedi cynhyrfu’n ofnadwy ar y pryd. Roedd bod â’r mynediad hwnnw’n gysur – a bydd angen eu help eto dwi’n siŵr”

Dywedodd darparwyr gwasanaethau bod cefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio’n dda, yn enwedig cyfarfodydd gyda staff yn ystod yr wythnos, cymorth ariannol a darpariaeth PPE yn ogystal â chyfathrebu da am yr hyn sy’n digwydd yn y sector gofal. Tynnodd un ymatebydd sylw at y gefnogaeth safon uchel a geir gan Arolygiaeth Gofal Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint.

Fodd bynnag, dywedodd gweithiwr cymdeithasol gyda blynyddoedd lawer o brofiad: “ar hyn o bryd rydw’i wirioneddol o’r farn nad oes fawr ddim yn gweithio’n dda.” Teimlwyd mai dim ond y gwasanaethau Teleofal a’r gwasanaeth tân oedd yn gweithio’n dda i gadw pobl hŷn yn ddiogel.

Beth y mae angen ei wella:

Yn gyffredinol mae angen darparu mwy o wasanaethau i leihau rhestrau aros, a gwella atgyfeiriadau i wneud mynediad yn haws. Roedd argymhellion penodol ar gyfer gwella yn cynnwys:

- dosbarthu rhestr gynhwysfawr o’r gwasanaethau presennol yn fwy eang er mwyn cyrraedd defnyddwyr gwasanaeth posibl cyn cyrraedd y pwynt argyfwng.
- canolfannau diwrnod agored am fwy o ddyddiau o’r wythnos, yn cynnwys ar wyliau banc ac ar benwythnosau.
- diwedd ar y lotri cod post mewn gwasanaethau, e.e. y gwasanaeth eistedd gyda phobl â dementia rhad ac am ddim sydd ar gael yn Sir Ddinbych ond nid yn sir y Fflint.

I’r perwyl hwn mae angen i’r cyllid ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn fod gyfwerth â’r cyllid ar gyfer grwpiau gwasanaeth. Mae angen hefyd symleiddio gofal unigol a’i wneud yn fwy cyson. Er enghraifft, dywedir bodd cyllid Gofal Iechyd Parhaus yn arwain at ganlyniadau gwahanol mewn achosion tebyg.

Mae recriwtio staff ar gyfer gwasanaethau dementia yn anodd:

“Mae’r pwysau ar staff yn ystod y pandemig wedi bod yn ormod dim ots faint ‘da ni’n eu talu nhw, maen nhw wedi ymlâdd. Mae’n gwneud i eraill feddwl ddwywaith am ddod i mewn i waith gofal.”

Mae diffyg staff yn golygu bod gofal yn rhywbeth sy'n canolbwyntio ar dasgau yn hytrach na thrin defnyddwyr gwasanaethau fel 'bodau dynol'. Mae diffyg staff mewn cartrefi gofal yn lleihau cyfathrebu gyda theuluoedd ac nid yw galwadau'n cael eu hateb.

Gellid gwella'r gofal a ddarperir gan ofalwyr yn y cartref drwy sicrhau y caiff staff eu hannog i weithio yn y maes y mae ganddynt y mwyaf o dalent ynddo, gan weithio naill ai gydag iechyd meddwl neu iechyd corfforol. Mae pobl sy'n gweithio gydag unigolion â dementia angen hyfforddiant arbenigol ac amser ychwanegol i gwblhau tasgau. Nid oes digon o weithwyr gofal wedi'u hyfforddi ym maes dementia a gallai'r awdurdodau lleol fynd i'r afael â hyn. Mae'n rhaid i'r gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod yr asiantaethau a gyflogir ganddynt i ddarparu gofal dementia yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn dilyn cynlluniau gofal yn ofalus. Mae angen codi proffil y proffesiwn i ddenu staff o safon uchel.

Mae bwlch yn y gwasanaethau o ran galw mewn cartrefi i helpu i roi meddyginiaeth. Nid yw'r gwasanaethau iechyd na gofal cymdeithasol yn gwneud galwadau yn unswydd ar gyfer cynorthwyo â meddyginiaeth, ond mae ar bobl hŷn a phroblemau gyda'u cof angen y gofal hollbwysig hwn.

Ar lefel system, mae angen i iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol. Un awgrym ar gyfer menter ar y cyd fyddai datblygu Canolfan Dementia Gogledd Cymru a fyddai'n gallu darparu cefnogaeth cyn ac ar ôl diagnosis i bawb. Cefnogir hyn gan Safonau Dementia Cymru Gyfan.

4. Cyrsiau i Ofalwyr

Beth sy'n gweithio'n dda:

Dywedodd nifer fach o ofalwyr bod y gwasanaethau canlynol yn gweithio'n dda:

- cwnsela ar gyfer gofalwyr
- asesiadau gofalwyr ac atgyfeiriadau cyflym i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion, yn ogystal â'u safon uchel o gefnogaeth.
- Cymorth i ofalwyr Hafal
- GOGDdC

Fodd bynnag, dywedodd nifer tebyg 'nad oes unrhyw beth wedi gweithio'n dda' yn seiliedig ar eu profiad nhw o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

“O fy nghyswllt cychwynnol â'r gwasanaethau cymdeithasol, cefais fy nhroi i ffwrdd gydag esgusion bum gwaith pan oeddwn yn profi anawsterau gyda gofalwyr, gyda dementia fy nhad, gweithio llawn amser a gwarchod oherwydd Covid. Nid oes unrhyw beth wedi gwella ac mae gen i restr o wybodaeth anghywir, gwybodaeth sy'n gwrth-ddweud ei gilydd, anghydfod yn y tîm ei hun ac ati.

Beth y mae angen ei wella:

Gwnaed sawl argymhelliad ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer gofalwyr yn cynnwys:

- sicrhau bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cwblhau gan bobl sy'n deall sefyllfa'r gofalwr.
- cynyddu darpariaeth gwasanaethau seibiant, gwasanaethau eistedd â phobl, cymorth gyda'r nos a chanolfannau dydd.
- sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn cynnwys gofal seibiant mewn cynlluniau gofal ac yn cynyddu faint o ofal seibiant a ganiateir - *'Mae pedair awr y mis yn wirion bost'*.
- cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau i wella iechyd meddwl gofalwyr
- rhoi hyfforddiant a chymorth i ofalwyr gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau ar-lein.
- creu grŵp cymorth cyfoedion ar gyfer gofalwyr â gwahanol brofiadau, e.e. grŵp ar gyfer rhieni plant anabl.

- cynnwys gofalwyr wrth ysgrifennu cynlluniau gofal.
- cynnwys trefniadau wrth gefn mewn cynlluniau gofal erbyn pan na fydd y gofalwr yn gallu ymdopi mwyach a /neu fod iechyd yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn dirywio.

Roedd rhai gofalwyr yn teimlo eu bod yn agos at ben eu tennyn, a fydd yn y pen draw yn costio mwy na rhoi cefnogaeth ychwanegol iddyn nhw.

“Nid oes unrhyw gymorth iechyd meddwl dibynadwy ar gyfer gofalwyr o gwbl. Mae gofalwyr di-dâl mewn argyfwng a bydd hynny bob amser yn cael effaith ar y rhai sy'n cael eu gofalu amdanynt. Gyda chymorth gwell mae'n bosib y buaswn yn gallu cadw fy mam yn ei chartref ei hun, fel sydd wedi digwydd ers deng mlynedd, ond os bydd lefel y cymorth yn parhau i ddirywio, yn erbyn ei hewyllys hi a minnau, bydd yn rhaid i mi ei rhoi hi mewn cartref gofal. Mae hyn yn cael effaith gymdeithasol ac economaidd ar bawb cysylltiedig.”

5. Beth newidiodd yn ystod y pandemig COVID-19?

(a) Sut yr effeithiwyd ar wasanaethau a beth oedd yr effaith ar staff, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Diffyg gwasanaethau

Ar y cyfan credir bod y pandemig wedi cael yr effaith mwyaf ar y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac wedi amlygu gwendidau oedd eisoes yn bodoli yn y system ofal. Mae'r pandemig wedi gwaethygu problemau gyda rhestrau aros, prinder staff a gwasanaethau ac ofnir ei fod wedi dod yn '*esgus defnyddiol dros fethiant rhai gwasanaethau*'. Mae'r pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol wedi cynyddu ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw gamau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion gwirioneddol ddifrifol hyn.

Mae rhai o'r materion systemig wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod hwn, gydag adroddiadau bod gofal wedi mynd yn fwy datgymalog, diffyg cydlynid ar draws y sector, cynllunio gwael a llinellau cyfrifoldeb aneglur.

“Mae ein cwmni gofal wedi'i gontractio'n profi argyfwng staffio ond mae hynny'n rhannol yn fai arnyn nhw oherwydd diffyg sgiliau trefnu a rheoli dybryd, yn hytrach na Covid”.

Ar ddechrau'r pandemig, stopiodd gwasanaethau. Fe'u hailgyflwynwyd yn raddol gyda hyn yn oed yn llai o staff (a oedd naill ai'n hunanynysu neu i ffwrdd yn sâl) a'r holl gyfyngiadau a grëwyd gan yr angen i leihau cyswllt ag eraill a chynnal pellter cymdeithasol. Fe wnaeth llai o argaeledd gwasanaethau gyfyngu ar fynediad i'r rhai a oedd mewn perygl o gael eu hunain mewn argyfwng.

Yr effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr

Fe wnaeth llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr ddisgrifio cael eu gadael heb gymorth a bod y pandemig wedi cyfyngu'n arw ar eu bywydau:

“Fe stopiodd bob dim, felly mae rhestr aros oedd yn ddwy flynedd bellach bron yn bedair.”

“Aeth gwasanaethau i bobl awtistig neu bobl ag anabledau dysgu o fod yn hynod brin i beidio â bod yno o gwbl.”

“Mae fy ngwasanaethau dydd i wedi cau felly mae'r dyddiau wedi bod yn ddiflas iawn i mi.”

“Allwn i ddim cael unrhyw help yn ystod cyfnod clo. Dim ond ar ôl sawl galwad ffôn ac ymbil arnyn nhw ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio rywfaint y cefais i weithiwr cymdeithasol.”

“Mae 'na ddiffyg gweithgareddau â chymorth i bobl ag anabledd corfforol a diagnosis o ddementia. Mae'n teimlo fel rhan o gymdeithas sydd wedi cael ei anghofio.”

“Llai o bobl yn cael mynd i mewn i'r un cerbyd, sy'n lleihau ein gallu ni i gael pobl sydd ag anawsterau dysgu i ac o'r gwaith.”

Dywedodd rhai defnyddwyr gwasanaethau eu bod yn teimlo'n ynysig iawn o ganlyniad i hyn ac 'wedi colli ffydd yn y gwasanaeth cymdeithasol lleol.” Codwyd pryderon fod hyn wedi arwain at 'gynnydd mewn bywydau anhrefnus' a pherygl o 'gynnydd mewn hunanladdiadau oherwydd diymadferthedd'. Mae'n bosibl bod llai o ymweliadau â chartrefi wedi achosi i fwy o bobl gyrraedd y pwynt argyfwng:

“mae'r pwysau sydd ar y sectorau gofal ar hyn o bryd yn achosi straen na ellir ei ddychmygu. Heb y gefnogaeth briodol gan wasanaethau hanfodol, rwy'n ofni na fydd pobl hŷn yn cael y gofal sydd ei angen arnynt i'w helpu nhw i ffynnu.”

“Yr effaith hirdymor yw y bydd o bosibl yn rhy hwyr i helpu rhai pobl”.

Wrth i amser fynd yn ei flaen mae diffyg cefnogaeth wedi achosi dirywiad yng nghyflwr llawer o ddefnyddwyr gwasanaeth wrth iddynt golli sgiliau a hyder a/neu brofi dirywiad yn eu hiechyd:

Mae o wedi colli ei hyder i gyd, a'r hyder hwnnw wedi cymryd tua 25 o flynyddoedd i'w feithrin. Rŵan dydi o ddim yn gallu defnyddio bysiau na mynd allan ar ei ben ei hun. Mae'n rhaid i mi fynd efo fo achos bod arno gymaint o ofn rhyngweithio cymdeithasol ers Covid-19.

“Mae iechyd meddwl ein mab wedi gwaethygu. Roedd o'n cael ei drin am iselder a phyliau o banig cyn y pandemig Covid-19.

“Mae diffyg cyswllt wyneb yn wyneb a stopio gweithgareddau wedi cael effaith negyddol difrifol a fydd hyn ddim yn gwella rŵan gan fod y dementia wedi gwaethygu.”

Teimlir bod plant ag anableddau dysgu yn arbennig o agored i niwed oherwydd Covid. Fe wnaeth rhieni eu cadw nhw adref i ddiogelu eu hiechyd felly fe wnaethon nhw fethu'r ysgol a cholli apwyntiadau. O ganlyniad i hyn mae problemau ymddygiad yn cynyddu. Mae unrhyw broblemau oedd yn bodoli'n barod wedi gwaethygu, os oedd cartref yn rhy fach neu'n anaddas i'r teulu roedd y sefyllfa'n waeth fyth yn ystod y cyfnod clo.

Roedd llawer o ofalwyr yn teimlo'u bod wedi cael eu gadael i 'godi'r darnau' ac roedd rhai'n teimlo'n agos at dorri. Roedd gofal seibiant wedi'i gyfyngu i argyfyngau ac mae cyfrifoldebau gofalu 24/7 wedi cael effaith negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol gofalwyr.

“Fel gofalwr does unman i fynd am help gyda chyllid, symudedd nac iechyd meddwl, y cwbl gewch chi ydi 'wel does gynnon ni ddim byd ar y funud oherwydd Covid'. Does dim modd i mi weld rhywun i siarad efo nhw, dim seibiant rhag y drefn feunyddiol”.

Disgwylir y bydd hyn yn arwain at i fwy o bobl hŷn fynd i gartrefi gofal.

Mae'r cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal wedi achosi poen meddwl mawr i drigolion a'u teuluoedd ac wedi codi pryderon na fydd pobl hŷn sydd â phroblemau â'u cof yn cofio eu teulu neu eu ffrindiau erbyn pan y bydd yn bosibl iddynt eu gweld nhw'n rheolaidd eto. Roedd rhai staff cartrefi gofal yn bryderus bod y profiad wedi newid diwylliant cartrefi gofal mewn ffyrdd negyddol:

- mae ymagweddau braidd yn awdurdodol/tadol wedi datblygu yn ystod y cyfnod pan nad oedd yn bosibl i deuluoedd ymweld
- mae cartrefi'n debygol o fod wedi teimlo'n llawer mwy fel sefydliad heb gysylltiadau â'r gymuned,
- mae trefniadau profi strwythuredig ar gyfer staff, preswylwyr ac ymwelwyr yn ogystal â chyflwyniad PPE wedi creu rhwystrau rhag cyfathrebu â, a meithrin perthnasoedd gyda thrigolion.

Fodd bynnag nid yw'r effeithiau wedi bod yn negyddol i bawb. I rai defnyddwyr gwasanaeth roedd y cyfnodau clo yn gyfle iddynt ennill mwy o ffydd yn eu galluoedd eu hunain. Mae teuluoedd wedi treulio amser gwerthfawr gyda'i gilydd sydd wedi eu helpu nhw i fod yn fwy gwydn. Mae rhai disgyblion, yn enwedig y rhai hynny â gorbryder cymdeithasol neu broblemau bwlio yn yr ysgol, wedi manteisio o beidio â mynd i'r ysgol ac mae hi'n anodd rwan ennyn eu hail-ymgysylltiad.

Dywedodd nifer fach o'r ymatebwyr nad oeddent wedi gweld unrhyw newidiadau i wasanaethau o ganlyniad i Covid-19 a'u bod wedi parhau i dderbyn gofal gan eu gofalwr neu eu gwasanaethau seibiant arferol heb unrhyw broblemau.

Diffyg gwasanaethau cymunedol

Mae llawer o wasanaethau cymunedol wedi darfod felly mae llai o gefnogaeth ar gael yn y gymuned leol. Er enghraifft:

- mae grwpiau cefnogaeth gan gyfoedion i bobl ag anawsterau iechyd meddwl wedi stopio cyfarfod, sydd wedi gwneud defnyddwyr gwasanaethau'n fwy dibynnol ar y gwasanaethau cymdeithasol.
- mae cau ysgolion a cholled clybiau ar ôl ysgol wedi rhoi straen ar rai aelwydydd maeth, wedi cynyddu tensiwn ac mewn rhai achosion wedi arwain at chwalu lleoliadau.
- nid yw gofalywyr anffurfiol wedi gallu mynd i weld defnyddwyr gwasanaethau mewn ymateb i rybuddion argyfwng Teleofal oherwydd eu bod yn hunanynysu, gan ei gwneud yn anodd iawn i'r gwasanaeth gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar yr un pryd mae pobl wedi dod yn well am gefnogi ei gilydd wrth i gefnogaeth leol leihau yn ystod y cyfnodau clo a niferoedd mwy na'r arfer yn dod ymlaen i wirfoddoli. Gallai hyn wella gwydnwch cymunedol os bydd yn parhau:

"Rydym wedi gweld cynnydd mewn cefnogaeth gymunedol o ganlyniad i COVID ond gallwn weld yn barod bod sefydlu strwythurau i helpu gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol yn hanfodol bwysig os ydynt am allu darparu eu gwasanaethau."

Cynnydd yn y galw am wasanaethau

Mae'r cyfnodau clo wedi creu galwadau newydd a chynyddol am wasanaethau oherwydd:

- lefelau uwch o drais domestig, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
- mwy o bobl ag anawsterau iechyd meddwl lefel isel ddim yn cael cymorth drwy wasanaethau Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol GIG.
- tarfu ar fywyd teuluol a mwy o angen am gymorth gyda rhianta.

Mae'r galw am gefnogaeth felly wedi cynyddu ar union yr un adeg ag y mae'r pwysau mwyaf ar wasanaethau gan adael llawer o bobl mewn trafferthion ac mae hyn yn debygol o barhau am gryn amser eto.

Darparu gwasanaethau ar-lein

Mae'r pandemig wedi cyflymu datblygiadau i greu dulliau ar-lein o ddarparu rhaglenni ac mae wedi gwneud pobl yn fwy parod i ddefnyddio opsiynau TG. Mae enghrefftiau o le mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol yn cynnwys:

- creu dulliau mwy hyblyg o ddarparu gwasanaethau megis gwasanaethau cwnsela ar y ffôn neu drwy fideo.
- cefnogaeth i gymunedau fel siaradwyr Cymraeg lle gallai'r niferoedd fod yn rhy fach mewn ardal leol ond yn ddigon ar draws y rhanbarth.
- cefnogaeth i gymunedau mewn ardaloedd ynysig lle gallai cludiant at wasanaethau fod yn gyfyngedig neu lle na all unigolion adael eu cartrefi oherwydd bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu.
- cefnogaeth ar gyfer pobl sydd ddim yn gallu teithio oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd, gan roi cyfleoedd ar gyfer dysgu o bell.
- dulliau newydd ac arloesol o weithio gyda phlant a phobl ifanc
- defnyddio technoleg fel FaceTime a WhatsApp i wella cyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaethau.

Fodd bynnag nid yw'r dulliau digidol yn siwtio pawb ac fe allent ei gwneud yn fwy anodd i bobl, yn enwedig pobl hŷn, gael gafael ar, ac ymgysylltu â gwasanaethau. Mae yna hefyd bobl sydd ddim yn hoffi defnyddio technoleg neu sydd heb fodd o wneud hynny.

Dywedodd darparwyr gwasanaethau bod cyswllt wyneb yn wyneb yn well dan rai amgylchiadau, yn enwedig wrth wneud asesiadau neu ddarparu cefnogaeth, pan fo pigo i fyny ar gliwiau heb fod yn llafar yn bwysig. Mae llai o gyswllt wedi effeithio ar ddatblygu ffydd yn, a meithrin perthnasoedd gyda defnyddwyr gwasanaethau, yn

enwedig plant a theuluoedd. Mae hyn hefyd i'w weld yn lleihau ysgogiad rhai pobl ymgysylltu â chymorth, os yw'n cael ei ddarparu ar-lein neu dros y ffôn.

“Fe wnaeth llawer o sefydliadau symud eu gwasanaethau wyneb yn wyneb megis cyrsiau rhianta a grwpiau trais domestig i lwyfannau rithiol, sy'n dileu'r 'elfen bersonol' ac mae llawer o rieni wedi dweud eu bod yn cael trafferth cael mynediad at gymorth yn y ffordd yma.”

Mae rhai teuluoedd gyda phlant heb gael bron unrhyw ymgysylltiad â gweithiwr cymdeithasol ac mewn llawer o achosion dim ond cyswllt dros y ffôn, ac nid yw hyn yn rhoi darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd ar aelwyd.”

“Mae hyn yn digwydd yn rhithiol rŵan sy'n golygu bod hanfod fy rôl yn cael ei golli ac rwy'n cael trafferth cadw ymgysylltiad pobl neu ennyn eu hymgysylltiad yn y lle cyntaf’.

Mae ar bobl ifanc sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol angen ymgysylltu â phobl y tu allan i'w cartref a gyda phobl eraill heblaw aelodau o'u teulu er mwyn eu helpu nhw i feithrin hyder a hunan-barch. Efallai bod arnynt angen cefnogaeth wyneb yn wyneb yn hytrach nag ar-lein

Mae diffyg cymorth wyneb yn wyneb wedi peri i rai gofalwyr maeth ailfeddwl am eu sefyllfa a rhoi'r gorau i fod yn ofalwyr.

Grŵp arall sydd wedi gweld y symud i wasanaethau ffôn yn rhwystr yw'r gymuned Fyddar. Mae pobl fyddar wedi mynd yn fwyfwy ynysig heb wybodaeth hygyrch gan awdurdodau lleol a llywodraeth leol. Mae'r ffaith fod pawb fwy neu lai yn gwisgo gorchuddion wyneb hefyd yn achosi problemau i bobl sy'n darllen gwefusau.

Mae defnyddwyr gwasanaethau eraill, yn enwedig pobl ag anableddau dysgu a phobl â dementia wedi cael problemau gyda staff yn gwisgo masgiau a chyfarpar PPE oherwydd bod hynny'n ei gwneud yn anodd iddynt adnabod eu gofalwyr. Mae hyn wedi gwella wrth i bobl arfer â'r sefyllfa ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn awr yn derbyn bod masgiau'n angenrheidiol i aros yn ddiogel.

Yr effaith ar staff gofal cymdeithasol Roedd rhai staff yn croesawu'r cyfle i weithio gartref ac yn gweld ymweliadau o bell yn ddull mwy hyblyg o weithio.

Soniodd sawl un am fanteision cyfarfodydd rhithiol, sef:

- llai o amser yn cael ei wastraffu'n teithio i ac o gyfarfodydd
- gwell mynediad at wybodaeth a chofnodion, er enghraifft pa fo'r holl staff yn eu swyddfa neu mewn cyfarfod gydag ysgolion
- Mae presenoldeb yng nghyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaeth wedi gwella oherwydd bod gweithwyr proffesiynol yn gallu mynychu'n rhithiol.

Maent hefyd wedi manteisio ar well mynediad at hyfforddiant ar lein. Fodd bynnag dywedodd rhai eu bod yn edrych ymlaen at fynd yn ôl i'r swyddfa er mwyn gallu rhannu ddulliau o weithio, cael cefnogaeth eu cyfoedion a mynd yn ôl at ffordd fwy strwythuredig o weithio.

Roedd sawl darparwr yn ddiolchgar am y gefnogaeth yr oeddent wedi'i chael gan awdurdodau lleol i reoli Covid-19, yn arbennig taliadau caledi cartrefi gofal a darpariaeth cyfarpar PPE am ddim, ac roeddent yn gobeithio y byddai hyn yn parhau. Mae hyn wedi cael effaith cadarnhaol ar berthnasoedd gwaith rhwng sefydliadau.

Mae llawer o ddarparwyr trydydd sector wedi stopio darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig sydd eto wedi ychwanegu at y galw ar wasanaethau'r sector statudol. Roedd rhai'n gweld hon yn 'dasg amhosib yng ngoleuni'r gostyngiad mewn lefelau staffio, mwy o alw, achosion mwy cymhleth, llai o gefnogaeth a rhaglenni cymunedol a disgwyliadau uwch gan randdeiliaid.

Mae'r pwysau wedi gwneud niwed i iechyd meddwl a chorfforol staff. Mae llawer yn profi blinder meddyliol a chorfforol llwyr oherwydd galwadau eu gwaith a'u bywydau personol. Mae cael eu profi a threfnu profion i bobl eraill ar ben eu llwyth gwaith dyddiol yn achosi trafferthion iddynt. Mae llawer yn teimlo'n rhwystredig oherwydd eu hanallu i ddarparu gwasanaethau priodol. Mae rhai wedi bod yn sâl gyda Covid-19 eu hunain sydd yn dal i effeithio ar eu hiechyd hirdymor ac a allai effeithio ar eu gallu i weithio yn y dyfodol. Mae eraill yn teimlo 'wedi blino ac wedi'u digalonni' ac yn ystyried gadael y sector gofal.

(b) Effeithiau hirdymor y pandemig

Roedd yr ymatebwyr yn credu, yn y tymor hir, y bydd yn bwysig:

(i) Datrys y problemau oedd yn bodoli cyn Covid

Drwy gydol y pandemig y cwbl yr oedd y rhan fwyaf o wasanaethau'n ei wneud oedd canolbwyntio ar '*oroesi*' ac '*osgoi Covid-19*'. Wrth i wasanaethau ddychwelyd yn araf i'r sefyllfa '*arferol*' mae'r argyfwng cenedlaethol mewn gofal cymdeithasol unwaith eto'n dod yn amlwg.

“Ers Covid, mae system oedd eisoes mewn trafferthion wedi mynd fwy neu lai y tu hwnt i adferiad’

Mae'r galw am gefnogaeth yn cynyddu ar yr un pryd â'r ôl groniat mewn asesiadau o anghenion gofal ac mae lefelau staffio'n isel. Mae staff yn disgwyl y byddant yn aros mewn sefyllfa o 'ymladd tân' am beth amser i ddod, sy'n golygu bod mwy o bobl yn debygol o fod mewn argyfwng cyn iddynt gael cymorth.

“Mae'r pandemig wedi amlygu ymhellach y sefyllfa ddifrifol yr ydym ynddi...yr effaith hirdymor yw y bydd mwy a mwy o aelodau o'n cymdeithas angen help. Rydw i wedi gweld pobl dosbarth gweithiol sydd mewn angen dybryd am help ond mae'r system yn gadael pawb i lawr.”

Mae llawer o ymatebwyr yn teimlo mai'r unig ateb yw cynyddu cyllid gofal cymdeithasol am gyfnodau hirach i gynnal y gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli, datblygu rhai newydd a chyflogi mwy o bobl.

(ii) Cefnogi pobl i ailgysylltu â gwasanaethau

Un o effeithiau disgwylidig hirdymor diffyg cymorth yn ystod y pandemig yw y bydd defnyddwyr wedi colli ffydd yn y gwasanaethau:

“rwy'n teimlo na fydd rhai teuluoedd yn dod yn ôl at y gwasanaethau...oherwydd effaith unigedd a newidiadau mewn ymddygiad ...bydd yn lawer sydd ddim yn dychwelyd yn llwyddiannus i addysg.

Efallai y bydd hyn yn golygu bod pobl yn aros nes eu bod mewn argyfwng cyn gofyn am help yn hytrach na gwneud hynny ar bwynt pan fyddai ymyrraeth gynnar wedi gallu lleihau'r angen am gefnogaeth. Roedd rhai o'r farn:

Bod angen cynllunio i 'ail-ymgysylltu' pobl â chymdeithas ac i'r gwasanaethau sicrhau bod pawb sydd angen help yn cael eu hadnabod ac nad ydynt yn disgyn drwy'r bylchau.'

(iii) Cefnogaeth i ddychwelyd i wasanaethau wyneb yn wyneb

O ganlyniad i fod yn ynysig yn ystod y pandemig, mae llawer o bobl o bob oed wedi colli sgiliau cymdeithasol a'u hyder i fod gydag eraill. Roedd rhai ymatebwyr felly'n argymhell cynllunio er mwyn cefnogi pobl i ddychwelyd at wasanaethau wyneb yn wyneb. Mae grwpiau penodol sydd angen y gefnogaeth hon yn cynnwys:

- pobl sydd defnyddio gwasanaethau seibiant yn ystod y dydd a dros nos.
- pobl hŷn sy'n dychwelyd i weithgareddau cymunedol
- pobl ifanc, yn enwedig blynyddoedd 7 ac 8, i fod y hyderus efo pobl eraill unwaith eto

Ar yr un pryd mae angen i staff fynd yn ôl allan a gweld y bobl sydd angen gofal, gan ei bod yn bosib eu bod wedi 'arfer gormod â sgriniau a'u bod yn bell oddi wrth realiti i asesu ac ymateb i anghenion heb eu datgan." Soniodd rhai eu bod wedi dechrau adfer gwasanaethau wyneb yn wyneb ac yn byddant yn cael eu hailgyflwyno'n raddol drwy gydol 2022.

(iv) Paratoi ar gyfer galwadau newydd a chynyddol am wasanaethau

Mae llawer o ddefnyddwyr gwasanaethau wedi'u 'dadgyflyru' oherwydd effeithiau'r cyfnod clo, sydd yn awr yn effeithio'n arwyddocaol ar eu gweithrediad ac y golygu bod mwy o alw ar wasanaethau cymorth yn y gymuned. Mae effaith economaidd y pandemig hefyd yn debygol o gynyddu'r angen am gefnogaeth yn y dyfodol uniongyrchol.

"Gyda chymaint o fusnesau'n methu, pobl yn colli anwyliaid a chymaint o bobl wedi cronni dyledion anferth wrth geisio goroesi'n ariannol yn ystod y pandemig (cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd), dim ond cynyddu wnaiff y galw am gymorth.

Grŵp allweddol o bobl a allent fod angen cefnogaeth ddwys yw gofawyr mewn teulu sydd wedi ymlâdd ar ôl darparu'r holl ofal pan nad oedd y gwasanaethau statudol ar gael. Yn awr mae angen mwy o seibiant i ofalwyr i'w rhwystro rhag mynd yn gwbl lluddiedig.

Roedd rhai'n meddwl ei bod yn bwysig peidio â dychwelyd i arfer y gorffennol heb feddwl am yr hyn y gellid ei wneud yn wahanol neu ei wella. Hefyd wrth ail-ddylunio unrhyw wasanaeth mae'n rhaid iddo ddiwallu anghenion y dyfodol, nid y gorffennol. Mae'n bosib y bydd angen mathau newydd o wasanaethau i ymateb i wahanol anghenion gofal sy'n dod i'r amlwg ar ôl Covid. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau ar gyfer:

- plant a phobl ifanc gydag anhwylderau gorbryder.
- pobl â Chovid hir
- pobl sydd wedi datblygu OCD neu gyflyrau gorbryder eraill yn ystod y cyfnod clo.
- babanod a phlant y mae eu datblygiad wedi'i oedi o ganlyniad i fod mewn amgylcheddau gwael yn ystod y cyfnod clo - bydd hyn yn cael effaith ar wasanaethau ac ar gymdeithas am flynyddoedd i ddod

(v) Cynyddu cefnogaeth iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc

Mae llawer o ymatebwyr yn disgwyl argyfwng iechyd meddwl yn yr hirdymor o ganlyniad i'r pandemig. Fe allai pobl ddi-amddiffyn sydd wedi'u gadael heb gefnogaeth yn awr fod yn profi effeithiau iechyd meddwl y pwysau hwnnw, ar yr union adeg pan fo amseroedd aros am ofal iechyd meddwl yn waeth nag erioed. Codwyd pryderon penodol am:

- ddirywiad pellach yn iechyd meddwl pobl oedd eisoes yn dioddef problemau
- oedolion ag anawsterau dysgu a'u teuluoedd
- pobl sydd wedi profi trawma/trais domestig yn ystod y cyfnod clo
- mwy o wrthdaro teuluol o ganlyniad i fod yn ynysig a phwysau ariannol
- pobl ifanc sydd heb adael eu tŷ, heb unrhyw le i fynd a heb rwydwaith o gefnogaeth.
- pobl a fydd ofn bod mewn manau cyfyngedig gyda phobl ddieithr
- gofalywyr sydd wedi datblygu problemau iechyd meddwl oherwydd y pwysau
- pobl ifanc sydd wedi methu allan ar eu haddysg ac wedi dechrau yn y brifysgol yn ystod y cyfnod clo

Dywedodd llawer o ymatebwyr bod iechyd meddwl pobl ifanc yn arbennig wedi 'dioddef yn fawr ac mae eu hyder a'u sgiliau i gyfathrebu ar y lefel isaf erioed.' Bydd effaith hyn i'w weld am flynyddoedd i ddod yn eu hiechyd meddwl a'u cyrhaeddiad addysgol.

(vi) Parhau i ddarparu gwasanaethau ar-lein

Credir bod rhai newidiadau mewn darpariaeth wedi cynyddu hyblygrwydd ac argaeledd gwasanaethau ac i'w gweld yn boblogaidd gyda phobl ifanc, rhieni, teuluoedd a gofalywyr sy'n teimlo bod cymorth digidol yn haws i fanteisio arno. Fodd bynnag nid yw'n debygol y bydd hyn yn siwtio pawb felly mae angen 'ymagwedd gyfunol' wrth symud ymlaen.

I sicrhau nad yw'r defnydd o dechnoleg yn cau pobl allan, mae'n bwysig:

- rhoi'r sgiliau angenrheidiol a mynediad at TG i bobl os ydynt eisiau hynny
- sicrhau bod gwybodaeth ar-lein a chyfarfodydd rhithiol ar agor i bawb, er enghraifft cynnwys siaradwyr laith arwyddion Prydain a dehonglwyr mewn cyfarfodydd Zoom.

Roedd rhai ymatebwyr yn awyddus i sicrhau nad yw'r gwasanaethau'n anghofio am bobl sydd ddim yn dymuno mynd yn ddigidol, a bod mwy o ymdrech yn cael ei wneud i gyrraedd y bobl hynny fel nad ydynt yn 'disgyn drwy'r bylchau ac mewn perygl o fod heb unrhyw ofal o gwbl'. Bydd hefyd yn bwysig gofalu nad yw mynd yn ddigidol yn gwneud i bobl ddatgysylltu oddi wrth y gwasanaethau o ystyried y pwysigrwydd y mae defnyddwyr gwasanaethau'n ei roi ar adnabod a meithrin perthnasoedd gyda'r bobl yn eu timau gofal.

Pwysleisiodd staff gofal cymdeithasol eu bod angen hyfforddiant a buddsoddiad y eu systemau TG er mwyn iddynt allu parhau i weithio a rhoi cefnogaeth o bell.

(vii) Cefnogi staff cyfredol a rhoi hwb i recriwtio

Roedd llawer o ymatebwyr yn bryderus bod staff medrus yn cael eu colli o'r sector gofal oherwydd eu bod wedi blino'n lân ar ôl e profiad o'r pandemig ac felly'n penderfynu gadael. Roedd yn profi'n anodd recriwtio staff newydd cyn Covid, ac mae'n bosib y bydd yn fwy anodd byth rwan. Nid yw hyn yn debygol o newid dros nos.

Mae staff cartrefi gofal yn poeni bod eu henw da proffesiynol wedi'i niweidio oherwydd rheolaeth wael Covid mewn cartrefi gofal:

“Dyma'r cyfnod anoddaf i ofal cymdeithasol yn fy oes i, ac rydym yn gobeithio y bydd yna newid yn y ffordd yr ydym yn cael ein gweld fel grŵp

Roeddem yn teimlo mai ni oedd yr olaf ar y rhestr, yn enwedig o ran PPE, a doedden ni ddim yn cael digon o arweiniad neu'n cael gwybodaeth anghyson.”

Oherwydd nad yw'r galw ar wasanaethau'n debygol o leihau yn y dyfodol agos, mae llawer yn disgwyl dros y blynyddoedd nesaf y bydd cynnydd mewn problemau iechyd meddwl ac y bydd staff yn gadael am nad ydynt yn gallu ymdopi. Bydd felly'n bwysig gwella cymorth iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd galwedigaethol ar gyfer staff gofal.

Ar nodyn mwy cadarnhaol roedd rhai staff yn meddwl y byddai gweithio gartref, ble bynnag bosibl, yn gyfle i sefydlu arferion gwaith mwy hyblyg ac yn cynyddu cynhyrchiant.

6. Profiad o ddefnyddio neu o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg.

(a) Profiad o'r Cynnig Gweithredol

.Ar y cyfan roedd ymatebwyr o'r farn mai 'tameidiog' yw darpariaeth y Cynnig Gweithredol. Roedd rhai yn adrodd eu bod yn gwneud hyn yn effeithiol iawn, er enghraifft drwy Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych ac mewn rhai gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn.

“Mae pob unigolyn yr ydw i'n gweithio â nhw'n cael y cynnig gweithredol ac mae aelodau o staff wedi'u dynodi a fydd yn gallu helpu os bydd angen.”

“Mae pob hysbyseb a hysbysiad yn Gymraeg a Saesneg ac rydym hyn yn oed yn ateb y ffôn yn Gymraeg yn gyntaf ac wedyn yn Saesneg.”

Roedd eraill yn dweud mai dim ond ar y pwynt pan fydd defnyddwyr gwasanaethau'n cael eu hasesu y gellir gwneud y cynnig, yn hytrach na phan fyddant yn cysylltu am y tro cyntaf.

“Rydw i'n meddwl y byddai'n fwy priodol pe bai hyn yn cael ei gynnig ar y pwynt cyswllt cyntaf. Fodd bynnag, rwy'n ymwybodol bod gan y swyddog cyswllt cyntaf lefel uchel o ymholiadau ac fel y gweddill ohonom, dim digon o staff i ymdopi.

“Mae ein tîm pwynt mynediad sengl yn cyfarch yn ddwyieithog. Byddai'n well cael system ffôn lle gallwch bwysu 1 am Gymraeg, 2 am Saesneg at ati, ond heb ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg efallai y bydd pobl sydd eisiau gwasanaeth Cymraeg yn gorfod aros yn hirach.”

Roedd rhai'n bryderus bod y cynnig, yn ymarferol, yn dal i fod yn un tocenistaidd. Mae llawer o gartrefi gofal a darparwyr gofal yn y cartref yn ei chael yn anodd gwireddu dymuniad defnyddwyr gwasanaethau am siaradwr Cymraeg;

“Mae staff yn dal i fod ofn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg oherwydd mewn gwirionedd byddai angen cyfieithydd.”

“Cefais gynnig gweithiwr Cymraeg gan yr elusennau yr wyf wedi gweithio â nhw ond mae Cynghorau bob amser yn dweud nad ydi hi mor syml â hynny

cael gweithiwr Cymraeg i mi". Mae'n rhaid iddyn nhw ofyn i'w rheolwr ac mae'n ymddangos fel pe bai'n lot o strach"

Roedd ymatebwyr o'r farn bod angen gwneud mwy i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn ac i gefnogi staff i wella eu Cymraeg. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i ddechreuwr llwyr yn ogystal â'r rhai hynny sydd angen ennill mwy o hyder.

"Oni bai bod mwy o dimau'n cael eu hannog i ddysgu Cymraeg yn ystod amser gwaith, fydd hwn byth yn gynnig gwirioneddol weithredol."

"Ni ddylid ei ystyried yn gyfle i bobl ddefnyddio Cymraeg. Dylai pob gwasanaeth a ddarperir allu dechrau a gorffen sgwrs yn Gymraeg ac annog staff i wneud ymdrech i ddysgu digon o Gymraeg i gynnal gwrs fer."

Dyweddodd rhai ymatebwyr er eu bod yn gwneud y Cynnig Gweithredol, nad oes unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth hyd yma wedi derbyn y cynnig. Roedd un neu ddau o ymatebwyr yn dweud nad oeddent erioed wedi clywed am y Cynnig Gweithredol.

(b) Darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg

Cadarnhaodd llawer o ymatebwyr eu bod yn darparu eu holl wybodaeth ysgrifenedig, cyhoeddiadau, arwyddion, cylchlythyrau, e-byst ac ati yn Gymraeg. Roedd rhai'n dibynnu ar staff i helpu gyda'r cyfieithu ac eraill yn dibynnu ar gyfieithwyr allanol. Roedd rhai'n dweud mai dyma'r cwbl yr oedd yn bosibl iddynt ei wneud am nad oedd unrhyw un o'u staff yn gallu siarad Cymraeg.

Dywedwyd bod gwasanaethau cyfieithu'r awdurdod lleol yn gyflym ac yn effeithiol ond roedd rhai yn dweud bod trefnu i'w holl ddogfennau'n cael eu cyfieithu yn 'gymhleth ac yn cymryd llawer o amser" a'i fod wedi achosi oedi gyda'u gwaith. Mae cost yn rhwystr i ddarparwyr bach nid er elw, a fyddai'n hoffi cefnogaeth ac arian ychwanegol i allu 'cyfieithu popeth, a gwneud hynny'n gyflym'. Roedd pryderon am hawlfraint yn codi wrth gyfieithu adnoddau trydydd parti a'r rhyngrwyd.

Roedd rhai ymatebwyr yn dweud bod cyfieithu gwybodaeth ysgrifenedig i'r Gymraeg yn llai o flaenoriaeth oherwydd bod 'y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn hoffi sgwrsio yn Gymraeg ond nid ydynt yn hoffi ffurflenni a thafllenni yn Gymraeg oherwydd bod yr iaith yn rhy ffurfiol." Roeddent yn argymhell y dylid gwella

cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd rhithiol, webinarau a galwadau fideo.

(c) Staff sy'n siarad Cymraeg

Roedd llawer o ymatebwyr yn dweud bod staff sy'n darparu gofal yn siarad Cymraeg. Fodd bynnag roedd y gwasanaethau'n amrywio o ran capasiti, o wasanaethau llwyr ddwyieithog gyda sawl siaradwr Cymraeg iaith gyntaf ar bob lefel o'r sefydliad, drwodd i drefniadau mwy anffurfiol.

“er nad yw'r holl staff yn siarad Cymraeg yn rhugl, mae yna fel arfer rywun ar gael sydd.”

Roedd rhai gwasanaethau'n gallu darparu hyfforddiant yn Gymraeg, er enghraifft ar gyfer gofalmwyr maeth Cymraeg. Roedd eraill yn dweud er eu bod yn gallu sgwrsio gyda defnyddwyr gwasanaethau yn Gymraeg, mae eu staff yn teimlo'n fwy hyderus yn darparu gofal ac yn gwneud asesiadau ffurfiol yn Saesneg. Yn aml nid yw staff yn teimlo mor hyderus gyda Chymraeg ysgrifenedig.

“Mae gan bob aelod o staff fynediad at ymadroddion Cymraeg a ddefnyddir yn aml mewn amgylcheddau gofal a chymorth, er mwyn i staff allu siarad Cymraeg gydag unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt;

“Nid yw'r asesiad ar gael yn Gymraeg yn ein systemau ni.”

Mae'r gallu i recriwtio siaradwyr Cymraeg yn rhwystr mawr. Mae hyn yn fwy o her wrth geisio penodi staff â sgiliau arbenigol, ac mae'n bosibl y bydd yn dod yn fwy anodd byth wrth i wasanaethau ddechrau dibynnu fwy a mwy ar staff asiantaeth.

“Mae gan ein gweithwyr adsefydlu gymhwyster arbenigol. Ychydig iawn ohonynt sydd yna ar draws y DU, felly mae hi'n ddigon anodd dod o hyd i weithiwr cymwys, heb sôn am un sy'n siarad Cymraeg.”

“Mae hi'n anodd denu staff sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Ddwyrain Cymru sy'n ei gwneud yn anoddach darparu cefnogaeth yn y Gymraeg o'r safon a hoffem.”

“Dylai gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg - ni ddylai 'parodwydd i ddysgu Cymraeg', neu 'yn dysgu Cymraeg' fod yn ddigon ar gyfer y swyddi hyn.

Mae llawer o sefydliadau'n rhoi hyfforddiant Cymraeg i'w staff, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Dyma rai o'r enghreifftiau:

- cyrsiau a gynigir gan yr awdurdod lleol neu'r bwrdd iechyd.
- grwpiau Cymraeg amser cinio
- Staff sy'n siarad Cymraeg yn cyflwyno gweithdai i'w cyfoedion di-Gymraeg.

Roedd rhai'n meddwl y dylid cynnig cyrsiau dysgu Cymraeg i staff yn fwy rheolaidd. Fod bynnag, yr her i lawer yw dod o hyd i amser yn eu diwrnod gwaith hynod o brysur. Dywedodd staff y byddai'n rhaid iddynt gael amser wedi'i ddiogelu yn eu rota i allu mynychu'r dosbarthiadau.

Yn yn yr un modd mae gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn ddifrifol o brin. Awgrymodd rhai y dylai mwy o ddosbarthiadau fod ar gael yn y gymuned. Eto roedd cost yn cael ei ystyried yn rhwystr rhag mynychu felly roedd rhai'n credu y dylent fod am ddim.

(d) Ardaloedd lle mae siaradwyr Cymraeg yn hanfodol bwysig.

Roedd ymatebwyr sy'n gweithio yng ngorllewin Cymru yn dweud bod cael siaradwyr Cymraeg i ddarparu gofal yn hanfodol bwysig gan fod mwyafrif y boblogaeth hyn yn siarad Cymraeg a Chymraeg yw iaith gwaith.

“Mae siaradwyr Cymraeg yn hanfodol bwysig ar gyfer lleoliadau yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae gan bob un o gartrefi preswyl y Cyngor staff sy'n siarad Cymraeg, ac mae'r holl staff yn cael eu hannog i siarad neu i ddysgu Cymraeg.

“Mae mwy o alw yn Ne Sir Ddinbych, ond mae hyn wedi'i adlewyrchu yn sgiliau'r gweithlu hefyd, er enghraifft mae 95% o staff Cysgod y Gaer yn siarad Cymraeg”.

Yn yr un modd mae'n well gan oedolion ag anawsterau dysgu yng Ngwynedd gyfathrebu yn Gymraeg. Nid yw hyn yn broblem i staff lleol ond gall weithiau fod yn

rhwystr wrth weithio ar draws ffiniau siroedd, er enghraifft cynhelir yr holl gyfarfodydd rhanbarthol yn Saesneg, sy'n golygu nad yw rhai unigolion ag anableddau dysgu yn gallu cyfrannu.

Roedd rhai'n teimlo nad oes digon o staff gyda sgiliau Cymraeg yn gweithio yn y gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, felly nid oes gan deuluoedd y dewis o siarad Cymraeg. Rhaid cyflogi mwy o siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal nid oes asesiadau Cymraeg wedi'u dilysu ar gael, felly mae'n amhosibl cynnal yr asesiadau priodol gyda phlant a phobl ifanc ag anableddau dysgu.

Tynnodd eraill sylw at y ffaith bod dysgu Cymraeg yn arbennig o bwysig wrth gefnogi pobl â dementia, sydd yn aml yn troi'n ôl at siarad iaith aelwyd eu plentyndod. Mae hyn yn hanfodol bwysig i feithrin hyder defnyddwyr gwasanaethau:

“Rwyf wedi dechrau gwersi Cymraeg lefel mynediad, oherwydd hyn roedd y bosibl i mi gael sgwrs agoriadol fer gyda dyn mewn oed â dementia, ac mae perthynas dda wedi datblygu”.

(e) Hyrwyddo diwylliant Cymru

Mae rhai sefydliadau mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad yn aml yn dangos eu cefnogaeth i ddiwylliant Cymru mewn ffyrdd eraill, er enghraifft dathlu dyddiau Cymraeg i gyd.

“Rydym yn defnyddio ymadrodd yr wythnos ar gyfer trigolion a staff i hyrwyddo'r Gymraeg ac rydym bob amser yn dathlu ein diwylliant.

“Rydym yn cyfarch yn Gymraeg, yn cadw ein hysbryd o Gymreictod ac yn falch o fod yn Gymry.

Roeddent yn mynegi 'blinder' o feddwl bod yn rhaid i bopeth fod yn ddwyieithog oherwydd y bydd 'yn golygu mwy o waith papur eto.'

(f) Ffafiaeth dros siarad Saesneg

Roedd cymaint o ymatebwyr o blaid siarad Saesneg â'r nifer oedd yn cefnogi siarad Cymraeg. Roedd y grŵp hwn o'r farn nad yw'r Cynnig Gweithredol yn berthnasol iddyn nhw, oherwydd nad ydyn nhw neu'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau yn siarad Cymraeg. Roedd hyn i'w weld yn arbennig o wir am wasanaethau i blant a phobl ifanc:

Dim ond tair galwad Gymraeg yr ydym wedi'u cael mewn mwy na degawd.”

Mynegodd defnyddwyr gwasanaethau uniaith Saesneg bryder nad ydynt yn gallu darllen eu nodiadau achos yn Gymraeg, ac yn dweud eu bod yn teimlo'n annifyr pan fo'u gofalwyr yn siarad Gymraeg ymysg ei gilydd. Nid yw darparu'r gwaith papur yn ddwyieithog yn ddefnyddiol bob tro:

Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i dad ddilyn y wybodaeth mae o'n ei chael. Byddai'n ddefnyddiol bod â ffurflenni Saesneg yn unig unwaith y mae dewis iaith wedi'i sefydlu”.

Byddai'r wybodaeth yn haws i'w darllen ac yn gliriach pe bai'r ddwy iaith yn cael eu cadw ar wahân. Mae dyblygu dogfennau'n cael ei ystyried yn wastraff o adnoddau.

“Mae mam yn dweud bod gwneud popeth yn ddwyieithog yn gwneud maint y ffont yn llai ac oherwydd bod ganddi nam ar ei golwg byddai'n well ganddi gael y wybodaeth mewn un iaith a theip mwy”.

Roedd sawl ymatebydd yn teimlo bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar siarad Gymraeg pan fo ieithoedd eraill yn cael eu siarad yn fwy cyffredin ymysg defnyddwyr gwasanaethau nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu. Byddai rhai yn hoffi pe bai mwy o sylw'n cael ei roi i Makaton, Iaith Arwyddion Prydain a Phwyleg gan ddarparu dehonglwy'r ble bynnag y bo angen. Mae opsiynau Gymraeg Clir hefyd yn anodd i gael gafael arnynt.

7. Gwasanaethau GIG

(a) Beth sy'n gweithio'n dda

Ychydig o ymatebwyr soniodd am wasanaethau iechyd sy'n gweithio'n dda. Fe wnaethant dynnu sylw at y canlynol:

- Mae'r gwasanaeth a geir yng Nghanolfan Iechyd Bron Ffynnon, Dinbych yn ganmoladwy ac mae'r gofal a geir yn Adran Cardioleg Ysbyty Glan Clwyd yn amhrisiadwy.
- Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn gwerthfawrogi'r cydweithio agos â gweithwyr gofal iechyd sylfaenol.
- Roedd llawer yn ddiolchgar am gefnogaeth iechyd amgylcheddol a'r GIG yn ystod y pandemig.

- Dywedodd gweithwyr gofal bod gwasanaethau iechyd ar gyfer pobl ifanc yn gweithio'n dda i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth a'r cyngor gywir am iechyd, yn enwedig cyngor am iechyd rhywiol, cofrestru gyda Meddyg Teulu ac atgyfeiriadau at y Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol.

(b) Beth sydd angen ei wella

Soniwyd am amrywiaeth o wasanaethau y mae angen eu gwella, yn cynnwys:

- Gwell gofal diwedd oes, yn enwedig yn ystod y nos
- Mae'r cynnyrch ymataliad o safon wael iawn a defnyddir mwy na'r hyn a ragwelwyd yn aml
- Dylai therapyddion iaith a lleferydd roi mwy o amser i blant di-eiriau
- Gwella mynediad pobl hŷn at ofal deintyddol i osgoi effeithiau cyflyrau geneuol a deintyddol. Mae hyn yn cynnwys preswylwyr cartrefi gofal yn cael gofal deintyddol yn eu cartref gofal.
- Mae'r gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn anodd i'w ddefnyddio ac yn araf iawn i ymateb.
- Gwneud mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau teleiechyd i rwystro derbyniadau i'r ysbyty a gwella cynllunio ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty ac ymweliadau gan nyrsys ardal.
- Annog staff cartrefi gofal i gael brechlyn yn erbyn Covid.
- Nid yw Canolfan Feddygol Marches yn ddigon mawr ar gyfer poblogaeth Brychdyn.

Dywedodd rhai aelodau o staff bod systemau cyfrifiadurol gwael yn cael effaith negyddol ar eu gallu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd.

(c) Effaith COVID-19

Soniwyd am dri phrif faes y mae Covid-19 wedi effeithio'n negyddol arnynt, fel a ganlyn:

Gofal Deintyddol

Yn ystod y pandemig cafodd rhaglenni gofal deintyddol yn y gymuned (er enghraifft y rhaglen brwsio dannedd a farnais fflworid) eu hatal. Mae cynlluniau yn eu lle i aildddechrau'r gwasanaethau hyn gan flaenoriaethu'r ysgolion lle mae'r angen mwyaf, ond mae deintyddion yn bryderus am y canlynol:

- mae ysgolion a meithrinfeydd o dan bwysau mawr yn barod ac efallai na fyddant yn cytuno i gael ymweliadau.
- mae'n bosib bod canlyniadau iechyd geneuol y grŵp targed yn gwaethygu – bydd iechyd deintyddol plan yn waeth oherwydd na chafodd y rhaglen ei darparu'r llynedd.
- mae staff mewn ysgolion angen hyfforddiant ar y rhaglen eto
- mae colled morâl ymysg staff deintyddol ac maent yn teimlo bod pethau'n mynd am yn ôl ar ôl yr holl waith caled ar y rhaglen hon dros y 10 mlynedd diwethaf
- mae gwasanaethau deintyddol cymunedol yn gweithio gyda llai o gapasiti ac mae rhestrau aros wedi tyfu'n sylweddol.

Yn yr un modd nid yw gwasanaethau deintyddol sy'n gofalu am y bobl y mae'n rhy anodd iddynt fynd at ddeintydd arferol wedi gweld eu cleifion ar gyfer gwiriadau deintyddol arferol ac maent yn ofni y bydd pethau wedi gwaethygu i bobl oedd eisoes â chyflyrau cymhleth. Roedd argymhellion ar gyfer gwella yn cynnwys:

- gwell gwybodaeth ar-lein ac yn y cyfryngau cymdeithasol am yr hyn y mae'r gwasanaeth hwn yn ei gynnig.
- gwell cydweithio gyda'r gwasanaethau gofal cymdeithasol
- gwell rhannu cofnodion a gwybodaeth i helpu gyda phrosesau gwneud penderfyniadau perthnasol i gleifion ag anghenion cymhleth.

Apwyntiadau gyda Meddyg Teulu

Roedd methu gweld meddyg wyneb yn wyneb yn peri rhwystredigaeth i lawer o ymatebwyr. Roeddent yn teimlo bod hyn yn broblem benodol i bobl hŷn sydd yn aml yn anghyfforddus yn siarad dros y ffôn.

“ym meddygfa mam a dad 'does neb i'w gweld yn malio am yr henoed. Yn yr hirdymor mae'n bosibl y bydd pobl yn marw'n gynt na phe baent yn cael gweld y clinigwr priodol mewn da bryd.”

“Mae llawer o bobl yn teimlo'n anghyfforddus yn siarad ar y ffôn ac mae'n bosibl y gallai cam-ddiagnosis ddigwydd neu y bydd y gofal iechyd amhriodol yn cael ei roi.”

“Mae'r cyfyngiad ar wasanaethau Meddygon Teulu wedi effeithio arna' i'n bersonol ac mae wedi cael effaith niweidiol ar fy iechyd meddyliol a chorfforol am nad oeddwn yn teimlo'n gyfforddus yn ceisio cael apwyntiad wyneb yn

wyneb.... Roeddwn i'n teimlo nad oeddwn yn gallu estyn allan oherwydd y canfyddiad o bwysau ar wasanaethau ac ymateb y gwasanaethau wrth holi.”

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella'n cynnwys creu gwahanol ffyrdd o aros y tu allan i'r feddygfa i osgoi 'sefyll yn y tywydd poethaf'. Roedd eraill yn teimlo bod staff sy'n gweithio mewn meddygfeydd angen deall anawsterau iechyd meddwl ac anabledau yn well a dewis eu geiriau yn fwy doeth. Mae staff GIG i'w gweld fel petai ganddyn nhw lai o amynedd efo pobl sy'n stryglo, sy'n rhoi cnoc i hyder pobl”.

Rhestrau Aros

Mae rhestrau aros y GIG am asesiadau a thriniaeth wedi mynd yn hirach. Tynnodd ymatebwyr sylw at y canlynol:

- oedi hir am asesiad Therapydd Galwedigaethol
- arosiadau hir am ambiwlans, yn enwedig pobl sydd wedi disgyn ond heb ddiodef anaf. Mae galwadau'n cael eu gwrthod ac mae adnoddau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwllans Cymru dan bwysau.
- mae gofal diwedd oes wedi prinhau, gan ddisgyn yn bennaf ar Nyrsys Ardal a tîm gofal cartref y cyfnod olaf.
- dim gwllâu seibiant (ar gyfer cleifion â chlefydau cronig er mwyn rhoi seibiant i'r prif ofalwyr (teulu)).
- mae'n amhosibl gweld y tîm seicoleg addysg

Mae pobl ag anghenion cymhleth wedi'u heffeithio arnynt yn benodol am eu bod yn debygol o fod yn defnyddio amrywiaeth eang o wasanaethau ac yn 'cael eu gadael i lawr ar bob pwynt bron”.

Pryder mawr arall yw y bydd pobl yn gadael i gyflyrau ddirywio'n ddifrifol cyn gofyn am help oherwydd bod arnynt ofn mynd i'r ysbyty. Mae diffyg staff yn y gymuned hefyd yn ei gwneud yn anodd cadw cleifion adref yn ddiogel. Mae hyn yn arwain at fwy o bwysau oherwydd y bydd y galw am driniaeth yn cynyddu gan ychwanegu at yr amser y bydd yn ei gymryd i ddychwelyd i'r llinell sylfaen.

Mae bydwragedd wedi'u heffeithio'n benodol: “Oherwydd gwarchod, hunanynysu a salwch mae lefelau staffio'n isel dros ben. All morâl staff ddim bod yn is. Yn yr hirdymor bydd bydwragedd yn gadael neu i ffwrdd ar gyfnodau o salwch hirdymor. Mae cadw at Birthrate Plus yn ystod Covid yn rhwystro rheolwyr rhag staffio'n

effeithiol. Mae gofal mamolaeth yng Ngogledd Cymru yn awr mor brin o staff mae'n dechrau mynd yn beryglus.”

(d) Darparu gwasanaethau yn Gymraeg

Roedd ymatebwyr yn bryderus ynghylch diffyg staff sy'n siarad Cymraeg yn y GIG ac roeddent yn argymhell:

- mynediad at hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff y GIG
- cyflogi staff nyrsio a meddygol sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig yng Ngogledd Orllewin Cymru lle mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf
- mae'r neges ar beiriant ateb y feddygfa yn Saesneg yn gyntaf ac yna yn Gymraeg. Y Gymraeg ddylai ddod gyntaf

“Pan oedd fy mherthynas yn y Maelor fe ddywedon nhw wrtha'i ”dyda' ni ddim yn gwybod beth mae eich tad yn ei ddweud achos wneith o ddim ond siarad yn Gymraeg!”

Atodiad 1: Data Monitro Cydraddoldeb

Nodwch bod y tablau isod yn adlewyrchu nodweddion y 250 cyfranogwr a atebodd yr holiadur cydraddoldeb yn hytrach na phob un o'r 350 o gyfranogwyr yn yr arolwg. I gael darlun llawn o ymgysylltiad â phobl â nodweddion gwarchoddedig dylid ystyried y ffigyrau hyn ochr yn ochr â'r rhestr o sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Mae'r niferoedd yn y tablau wedi'u rowndio i'r 5 agosaf er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth bersonol.

Oedran

Oedran	Nifer	Canran
16 i 24	5	2%
25 i 34	30	12%
35 i 44	5	17%
45 i 54	75	30%
55 i 64	60	25%
65 tan 74	30	11%
75 oed a throsodd	10	3%

Hunaniaeth rhyw a rhywedd

Rhyw	Nifer	Canran
Benyw	210	85%
Gwryw	35	15%

Derbyniwyd llai na 5 o ymatebion gan bobl drawsrywiol

Anabledd

Dywedodd cyfanswm o 27% o'r ymatebwyr bod ganddynt anabledd. Mae'r tabl isod yn dangos pa ganran o'r 70 o bobl sydd â phob amhariad neu gyflwr

Anabledd	Nifer	Canran
Salwch/cyflwr iechyd hirsefydlog	35	52%
Cyflwr iechyd Meddwl	30	42%
Nam corfforol	25	36%
Nam ar y synhwyrâu	10	18%
Anabledd/Anhawster Dysgu	10	12%

Cyfrifoldebau Gofalu

Roedd gan 44% o gyfranogwyr gyfrifoldebau gofalu. Mae'r tabl isod yn dangos faint o ofal a ddarperir gan y cyfranogwyr hyn bob wythnos

Cyfrifoldebau Gofalu	Nifer	Canran
1 – 19 awr	50	46%
20 – 49 awr	25	23%
50 awr neu fwy	35	31%

Hunaniaeth Genedlaethol

Hunaniaeth Genedlaethol	Nifer	Canran
Cymraeg	140	56%
Prydeinig	60	25%
Saesneg	60	25%
Albanaidd	<5	2%
Gwyddelig (Gogledd Iwerddon)	<5	2%
Arall	5	3%

Roedd y cenedlaethau eraill yn cynnwys cyfranogwyr a oedd yn disgrifio eu hunaniaeth fel Pwyleg, De Affricanaidd, Canadiaidd neu Ewropeaidd Brydeinig.

Grŵp Ethnig

Grŵp Ethnig	Nifer	Canran
Gwyn	245	98%
Tras Gymysg	<5	1%
Indiaidd	<5	1%

Dewis Iaith

Iaith a Lleferydd	Nifer	Canran
Saesneg	180	74%
Cymraeg a Saesneg	35	14%
Cymraeg	30	12%

Iaith ysgrifenedig	Nifer	Canran
Saesneg	200	84%
Cymraeg a Saesneg	20	8%
Cymraeg	20	7%

Crefydd

Crefydd	Nifer	Canran
Cristion	125	51%
Dim crefydd	100	42%
Hindŵ	<5	-

Cyfeiriadedd rhywiol

Cyfeiriadedd rhywiol	Nifer	Canran
Heterorywiol	220	91%
Hoyw neu Lesbiaidd	5	3%
Deurywiol	5	2%
Panrywiol/Cwiar	<5	-

Statws Priodasol:

Statws Priodasol:	Nifer	Canran
Priod	125	55%
Erioed wedi bod yn briod	55	25%
Wedi ysgaru	20	8%
Gweddw	10	5%
Wedi gwahanu	10	5%
Mewn partneriaeth sifil gofrestredig	5	2%

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	15.02.2022
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Craig ab Iago
Swyddog Cyswllt:	Carys Fôn Williams, Pennaeth Tai ac Eiddo
Rhif Ffôn Cyswllt:	34368
Teitl yr Eitem:	Prydlesu Canolfan Cefnfaes i Bartneriaeth Ogwen

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i brydlesu safle Canolfan Cefnfaes yn uniongyrchol i Bartneriaeth Ogwen am lai na rhent y farchnad, er mwyn sicrhau buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Er mwyn cydymffurfio a gofynion pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003.

3 CYFLWYNIAD

3.1 Yn dilyn ad-drefnu darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid ac adleoli darpariaethau eraill megis y Cylch Meithrin o Ganolfan Cefnfaes, bu i Ganolfan Cefnfaes gael ei ddatgan yn weddill i anghenion y Cyngor.

3.2 Mae cais mewn llaw gan Bartneriaeth Ogwen i gymryd prydles hir dymor o Ganolfan Cefnfaes er mwyn sefydlu Canolfan Fentergarwch. Mae'r Bartneriaeth wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau arian grant ar gyfer ymgymryd â gwedd 1 o'r gwaith o ddatblygu'r Ganolfan, ac yn awyddus i symud ymlaen i wireddu'r cynllun.

4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 4.1 Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i gau Canolfan Cefnfaes, derbyniwyd cais gan Bartneriaeth Ogwen, fel menter gymdeithasol i gymryd meddiannaeth byr dymor o Ganolfan Cefnfaes, a hynny er sicrhau parhad defnydd cymunedol yr eiddo tra eu bod yn ystyried opsiynau ar gyfer defnydd hir dymor yr adeilad.
- 4.2 Cytunwyd yn wreiddiol ar drefniant meddiannaeth byr dymor yn amodol ar fod y Bartneriaeth yn gweithio ar ddatblygu cynllun busnes hirdymor ar gyfer Canolfan Cefnfaes. Yn dilyn cynnal ymgynghoriadau eang, a chomisiynu adroddiad sgopio trylwyr, cyflwynwyd cynllun busnes i Gyngor Gwynedd sydd wedi ei seilio ar ddatblygu Canolfan Cefnfaes yn ganolfan Fentergarwch i gynnwys gofodau cymunedol, gofod gwaith (swyddfeydd, gweithdai) a byncws.
- 4.3 Mae'r rhagolygon ariannol yn dangos na fydd yr incwm a fydd yn cael ei gynhyrchu o'r Ganolfan Fenter yn ddigonol i alluogi'r Bartneriaeth i dalu rhent ym mlynnyddoedd cyntaf y fenter gan y byddant yn wynebu costau datblygu sylweddol ac yn adeiladu enw da'r fenter cyn iddynt allu datblygu sylfaen incwm sefydlog, ac felly mae cais wedi ei dderbyn gan y Bartneriaeth am brydles 10 mlynedd a hynny am rent enwol.
- 4.4 Mae hawl cynllunio wedi ei sicrhau er galluogi Partneriaeth Ogwen i addasu'r eiddo yn Ganolfan Fentergarwch, a bwriedir ymgymryd â'r gwaith fesul gwedd.
- 4.5 Mae Partneriaeth Ogwen wedi sicrhau arian grant o £225,000 o Raglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni gwedd 1 o'r gwaith, sef datblygu gofod cymunedol yr adeilad.
- 4.6 Mae parodrwydd y Llywodraeth i ryddhau'r arian yma yn amodol ar allu Partneriaeth Ogwen i sicrhau prydles gan y Cyngor am gyfnod o 10 mlynedd, ac er diogelu'r arian grant mae'n hanfodol fod y brydles mewn lle erbyn mis Mawrth eleni.
- 4.7 Mae hawl cyfreithiol gan y Cyngor yn unol â phwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 i waredu am lai na rhent y farchnad mewn achosion lle mae buddion economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yn cael eu darparu.
- 4.8 Ystyrir y byddai gwaredu yn uniongyrchol i Bartneriaeth Ogwen ar gyfer datblygu'r ganolfan fentergarwch yn hwyluso'r buddiannau canlynol:-
- Sicrhau buddsoddiad sylweddol yn adeilad Canolfan Cefnfaes er creu adnodd cymunedol gwerthfawr.
 - Darparu gwasanaethau newydd i drigolion ardal Dyffryn Ogwen.
 - Potensial i gefnogi datblygiad busnesau bychain.
 - Rhoi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau trwy'r gofodau economaidd a hyfforddiant.

- Darparu unedau i'w llogi a'r gofod cyd weithio yn golygu na fydd trigolion y Dyffryn yn gorfod teithio, ac felly yn lleihau ôl troed carbon y Dyffryn.
- Potensial i greu swyddi.
- Potensial i annog twristiaid i ymweld â'r ardal.

4.9 Byddai derbyn yr argymhelliad a defnyddio pwerau Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 er mwyn amrywio oddi wrth y Polisi Gwaredu Cyffredinol ac Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn golygu hepgor y cyfle i ddenu incwm rhent pan fo trefniant meddiannaeth dros dro presennol Partneriaeth Ogwen yn dirwyn i ben ymhen blwyddyn.

4.10 Dylid nodi mai prydlesu'r eiddo yw'r bwriad, a hyny am gyfnod cychwynnol o 10 mlynedd. Bydd cyfnod o 10 mlynedd yn caniatáu i Bartneriaeth Ogwen ddatblygu'r ganolfan i'w llawn botensial, a bydd cyfle bryd hyny i adolygu telerau'r brydles i gynnwys yr elfen rhent.

4.11 Gellir rhagamcanu y byddai modd denu incwm rhent o oddeutu £3,000 y flwyddyn pe bai'r eiddo yn cael ei farchnata ar y farchnad agored heb gyfyngiadau, ac o ystyried ei gyflwr presennol.

4.12 Felly mae angen i aelodau'r Cabinet gloriannu'n ofalus y buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn erbyn y golled ariannol posib.

4.13 Mae'r Bartneriaeth yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol yn yr eiddo, a phe bai'r cynllun yn methu am unrhyw reswm, bydd yr eiddo yn parhau ym mherchnogaeth y Cyngor. Bryd hynny byddai modd i'r Cyngor gymryd penderfyniad i waredu ar y farchnad agored pe bai'n dymuno gwneud hynny.

5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Bydd yr Adran Tai ac Eiddo yn cyfarwyddo'r Gwasanaeth Cyfreithiol i roi prydles mewn lle rhag blaen. Bydd hyn yn galluogi'r Llywodraeth i ryddhau'r arian grant i Bartneriaeth Ogwen, er eu galluogi i gychwyn ar addasiadau gwedd 1 yn ystod 2022/23.

6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

Prif Swyddog Cyllid:

"Gallaf gadarnhau fod y Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 yn caniatáu i'r Cyngor waredu eiddo am lai na'r gydnabyddiaeth orau dan amgylchiadau penodol. Os yw'r Cabinet yn dymuno gwaredu Canolfan Cefnfaes am lai na'r gydnabyddiaeth orau (h.y. prydlesu am rent sy'n llai na'r gorau gellid ei gael ar y farchnad agored), mae angen i'r Cabinet fodloni ei hun fod methodoleg gadarn a gwrthrychol wedi ei ddefnyddio i ddod i'r casgliad fod manteision economaidd, amgylcheddol a/neu gymdeithasol yr opsiwn hwn yn gorbwyso'r incwm sy'n cael ei golli.

Yn hynny o beth, mae'r adroddiad yn amlinellu buddion y cynllun yn ogystal â gwerth yr incwm fydd yn cael ei golli."

Swyddog Monitro:

"Mae Adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i sicyrhau y pris gorau y gellir yn rhesymol ei dderbyn wrth osod les hir. Mae Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 yn caniatiau gosod les o'r fath heb gydymffurfio a'r gofyn yma os yw'r Cabinet o'r farn fod yr amodau y Gorchymyn wedi eu bodlonni. Rhaid felly i'r Cabinet os am genfnogi'r argymhelliad ddod i gasgliad y bydd pwrpas y bwriad yn debygol o gyfranu at gyrraedd un neu fwy o'r amcanion canlynol sef hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal y Cyngor neu ran ohonni. Mae'r adroddiad yn adnabod y buddiannau a ddisgwylir o ganiatau yr argymhelliad ac mae'r rhain yn disgyn o fewn y criteria."

Sylwadau'r Aelod Lleol – Y Cynghorydd Rheinallt Pugh:

Mae'r Aelod Lleol wedi datgan buddiant fel un o gyfarwyddwyr Partneriaeth Ogwen.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	15 Chwefror 2022
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams
Swyddog Cyswllt:	Bethan Griffith
Rhif Ffôn Cyswllt:	01286 679 195
Teitl yr Eitem:	Pris Cinio Ysgolion Cynradd, Arbennig a Dilydol Medi 2022

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Peidio â chynyddu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilydol ym mis Medi 2022.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Byddai peidio cynyddu pris cinio ysgol yn unol â chwyddiant o fis Medi 2022 yn golygu £107,190 o bwysau ar gyllideb yr Adran Addysg yn 2022/23. Erbyn mis Medi 2022, bydd disgyblion cyfnod sylfaen (4 i 7 oed) yn derbyn cinio am ddim a bydd unrhyw godiad yn effeithio disgyblion cyfnod allweddol 2 (8 i 11 oed) yn unig. Felly, mae'n briodol i sicrhau cadarnhad ffurfiol y Cabinet bod peidio cynyddu pris cinio ysgol eleni yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Gan fod y gyllideb arlwyo cynradd, arbennig a dilydol yn dibynnu ar godi incwm drwy werthiant prydau ysgol, mae angen i'r incwm a ddaw o dalu am ginio ysgol cynradd, arbennig a dilydol gadw i fyny efo chwyddiant costau'r gwasanaeth.

Mae costau darparu cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol wedi cynyddu 5.8% yn 2022-23 ac er mwyn cwrdd â'r costau hynny byddai angen codi pris cinio o £2.50 i £2.65.

Fodd bynnag, gan ystyried ein sefyllfa gymharol a'r flaenoriaeth sydd gennym o ran lleihau anghydraddoldeb, dichon y bydd y Cabinet yn dymuno ystyried pris cinio ysgol yn y cyd-destun hwn. Dim ond plant teuluoedd sydd ar fudd-daliadau sydd yn gymwys ar gyfer y cynllun Cinio am Ddm a byddai cynyddu pris cinio ysgol ar adeg lle mae nifer o deuluoedd y sir yn wynebu cyfnod heriol iawn yn ychwanegu at y baich ariannol y maent yn ei wynebu ar hyn o bryd.

4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Pan yn cymharu pris cinio ysgolion cynradd, arbennig a dilynol Gwynedd (sef £2.50) gyda gweddill Cyngorau Cymru (atodiad 1), mae 5 yn codi pris uwch, 2 yn codi yr un pris â Gwynedd ac 14 yn codi pris îs.

Byddai codi pris cinio yn unol â chwyddiant yn rhoi Gwynedd yn y chwarterl uchaf o brisiau cinio yng Nghymru. Byddai peidio codi pris cinio yn dod a ni yn agosach at y chwartil isaf.

Byddai codi'r pris cinio er mwyn ymdopi gydag effaith chwyddiant yn golygu cynnydd o £2.50 i £2.65.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Hysbysu ysgolion Gwynedd y bydd pris cinio ysgol yn cael ei rewi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesa unwaith yn rhagor ac y bydd y Cyngor yn cyllido'r bwlch ariannol o goffrau canolog heb effaith ar y gyllideb Addysg.

6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Cadarnhaf bod y ffigyrau ariannol sy'n yr adroddiad yma'n amcangyfrifon teg. Ynglŷn ag ariannu'r bwlch perthnasol yng nghyllideb yr Adran Addysg, cadarnhaf wrth lunio cyllideb drafft y Cyngor ar gyfer 2022/23, neilltuwyd

darpariaeth cyffredinol mewn cyllideb wrth gefn gellid ei ddefnyddio i'r perwyl hyn.

Prisiau Cinio Ysgolion

Ebrill 2022 - Prisiau posibl

<u>CYNGOR</u>	Disgybl	Disgybl lau	Meithrin	Oedolyn (cynnwys TAW)	Pris Cinio am ddim Uwchradd
Ynys Mon	£2.20	£2.20	£2.20	£4.44	£2.60
Blaenau Gwent	£2.40	n/a	n//a	£3.50	£2.65
Pen y Bont ar Ogwr	£2.20	£2.20	£2.20	£3.48	£2.50
Caerffili	£2.10	£2.10	£2.50	£3.30	£2.35
Caerdydd	£2.60	£2.60	n/a	£3.72	£3.05
Caerfyrddin	£2.67	£2.67	£2.67	£4.16	£2.67
Ceredigion	£2.50	£2.50	n/a	£4.35	£2.50
Conwy	£2.85	£2.85	-	£3.73	£2.90
Dinbych	£2.40	£2.40	£2.40	£3.80	£2.55
Wrecsam	£2.40	£2.40	£2.40	£3.20	£2.45
Gwynedd	£2.50	£2.50	£2.50	£3.60	Gosod fesul ysgol
Merthyr	£2.30	£2.30	£2.30	£3.55	£2.70
Sir Fynwy	£2.50	£2.50	£2.50	£4.50	-
Castell Nedd	£2.35	£2.35	£2.35	£3.30	Ysgol yn penderfynu
Newport	£2.15	£2.15	n/a	£3.30	£2.40
Penfro	£2.65	£2.55	n/a	£3.28	£2.70
Powys	£2.35	£2.35	£2.35	£4.50	£2.45
Rhondda Cynnon Taf	£2.55	£2.55	£2.55	£3.36	£2.80
Abertawe	£2.40	-	-	£3.95	-
Torfaen	£2.40	£2.30		£4.00	£2.60
Bro Morgannwg	£2.45	£2.45		£3.25	£2.65
Fflint	£2.30	£2.30	£1.20	£3.10	£2.50

Dyddiad codiad nesaf	Cynydd
	Gostyngiad o £2.50 i £2.20 yn Medi 2021
	Dim penderfyniad eto
	Dim newid
Ebrill 2022 (i'w gadarnhau)	2.50%
	Dim newid
25/04/2022	Cynnydd o 10c wedi ei gynnig.
Ebr-22	Prisau wedi codi Medi 21 a cynnydd o 5c wedi ei gynnig.
	Dim newid
	Dim newid
	Dim newid
	Dim newid
	Dim newid
Medi 2022 (i'w gadarnhau)	Cynnydd posibl o 5c yn Medi 2022.
	Dim newid
	Dim newid
Ebr-22	5c

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	15 Chwefror, 2022
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen
Rhif Cyswllt:	01286 679072
Pwnc:	GWELEDIGAETH Y CYNGOR AR GYFER GWEITHIO I'R DYFODOL

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Cefnogaeth y Cabinet i fabwysiadu'r weledigaeth ar gyfer Gweithio i'r Dyfodol, a phheidio dychwelyd i'r ffordd o weithio cyn y pandemig.
- Gweledigaeth – Gweithlu all weithio'n hyblyg a rhoi eu gorau i gyflawni a darparu gwasanaethau o safon ar gyfer pobl Gwynedd. Cyngor Gwynedd yn lle da i weithio, sydd yn hybu cydbwysedd bywyd a gwaith er lles staff ac er mwyn cadw a denu staff o safon.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

- Mae'r adroddiad yn amlinellu sut all y Cyngor adeiladu ar y manteision a dal gafael yn y buddion a'u profwyd wrth ddarparu gwasanaethau yn llwyddiannus mewn ffyrdd gwahanol yn ystod y pandemig, a mabwysiadu trefniadau gweithio mwy hyblyg i staff i'r dyfodol.
- Mae'r adroddiad yn amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y ffordd newydd o weithio i'r dyfodol ac yn rhoi diweddariad o'r gwaith cefndirol sydd ar y gweill er mwyn paratoi ar gyfer y ffordd newydd o weithio i'r dyfodol.
- Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol a chanllawiau Llywodraeth Cymru gyda chyfarwyddyd i'r staff hynny sydd yn gallu cyflawni eu swyddi o adref fod yn gwneud hynny ers mis Mawrth 2020. Rydym yn parhau i wneud hynny er nad yw'r gofyn i staff weithio o adref bellach (ers 28 Ionawr, 2022) yn ddeddfwriaeth. Rydym yn rhoi ystyriaeth i fesurau iechyd, diogelwch a lles wrth gynllunio ar gyfer ein gallu i ail-agor swyddfeydd yn ddiogel yn yr hir dymor.

1. GWELEDIGAETH

- Cyngor s'yn cefnogi, grymuso ac ymddiried yn y gweithlu i weithio'n hyblyg a chynhyrchiol i ddarparu gwasanaethau o safon uchel, mewn ffordd sydd yn lleihau'n sylweddol ein effaith ar yr amgylchedd.
- Adeiladu ar y ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau sydd wedi datblygu yn ystod y pandemig, trwy roi hyblygrwydd i staff weithio mewn ffordd hyblyg gan wneud defnydd o dechnoleg ar gyfer gweithio a chyfathrebu'n rhithiol.

2. GYRRWYR / BUDDION

Mae'r prif yrwyr ar gyfer mabwysiadu trefniadau gweithio newydd i'r dyfodol fel a ganlyn;

- Llesiant staff yn elwa oherwydd gwell cydbwysedd bywyd a gwaith yn arwain at staff fwy cynhyrchiol yn eu gwaith. Mae staff yn gweld buddion o fod yn gweithio'n hyblyg, ac mae hynny wedi ei adlewyrchu yn eu dymuniadau gweithio i'r dyfodol (gweler Rhan 7 - isod)
- Manteision i'r Cyngor yn y farchnad recriwtio wrth gynnig trefniadau gweithio hyblyg ple'n bosib.
- Llai o deithio mewn cerbydau i'r gwaith, gan felly leihau ôl troed carbon y sir.
- Cynnig hyblygrwydd o ran sut y caiff swyddfeydd eu defnyddio, gyda photensial am resymoli adeiladau i'r dyfodol.
- Profiad gweithio trwy argyfwng Covid yn dangos fod y dechnoleg yn gallu cefnogi dulliau gwahanol o weithio; symud mwy i gyfeiriad ple bo lawer llai o ddibynnu ar bapur.
- Gwneud gwell defnydd o amser gwaith staff – llai o deithio.
- Gall trefniadau gweithio hyblyg roi gwell cyfleoedd i bobl anabl ac unigolion sy'n gofalu am bobl anabl, gan gael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb.

3. EGWYDDORION

Bydd rhai egwyddorion yn sylfaen ar gyfer y trefniadau gweithio'n hyblyg;

- Ple bo amgylchiadau'r swydd yn caniatáu, bydd unrhyw drefniant gweithio'n hyblyg yn wirfoddol i aelodau staff.
- Bydd unrhyw drefniant gweithio'n hyblyg yn ddibynnol ar natur y swydd a bydd angen sicrhau na fydd unrhyw effaith negyddol ar wasanaethau i bobl Gwynedd.
- Nid yw'r trefniadau gweithio newydd yn ymwneud ag addasu niferoedd na strwythur presennol y gweithlu, ond yn hytrach yn ymwneud a sut mae staff yn cyflawni eu gwaith a darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd.
- Bydd unrhyw drefniant gweithio gartref yn ddibynnol ar fod gofod ac amgylchiadau'r cartref yn caniatáu i'r unigolyn gyflawni eu swydd yn effeithiol a diogel.
- Cynhelir cyfarfodydd mewnol yn rhithiol (i gynnwys cyd-swyddogion ac Aelodau unigol) gan ddefnyddio "Microsoft Teams" yn arferol, gan gydnabod y budd o gynnal cyfarfodydd tîm wyneb i wyneb yn achlysurol yn ystod y flwyddyn.

- Fod llesiant staff yn ganolog i'r trefniadau a byddent yn parhau i dderbyn cefnogaeth cyson megis cyfathrebu amserol, hyfforddiant, cefnogaeth iechyd, diogelwch a lles (gan gynnwys lles meddyliol) gan eu rheolwyr llinell a'r Cyngor yn ehangach.
- Mae'r weledigaeth yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth weithio o bell, gyda'r nod o alluogi i 30% o weithlu Cymru weithio yn agos at neu o'u cartrefi.

4. TREFNIADAU GWEITHIO

Rhagwelir y bydd staff y Cyngor, ble fod posib cyflawni eu swyddi mewn ffordd hyblyg, yn arddel un o'r trefniadau gweithio yma:

- **Gweithio Gartref** – mae'r staff yn cyflawni eu holl gwaith o'r cartref oni bai am achlysuron pan fydd gofyn iddynt fynychu'r swyddfa ar gais rhesymol gan y rheolwr (e.e. mynychu cyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb) neu oherwydd anghenion gwasanaeth.
- **Gweithio o Swyddfa** – mae'r staff yn cyflawni eu holl gwaith o swyddfa.
- **Gweithio Hybrid** – mae'r staff yn cyfuno gweithio o'r cartref ac o'r swyddfa. Bydd diwallu anghenion gwasanaeth yn cymryd blaenoriaeth mewn trefniant gweithio hybrid, a bydd rhaid i'r patrwm gwaith fod yn gytunedig gyda'r rheolwr. O dan trefniadau gweithio hybrid disgwylir i'r aelod staff weithio isafswm o 2 ddiwrnod yr wythnos o gartref (neu gyfran gyfystyr o'r wythnos waith i weithwyr rhan amser).

5. DYMUNIADAU STAFF AM DREFNIADAU GWEITHIO I'R DYFODOL

- Mae tua 1,800 o staff o fewn y Cyngor yn ymgymryd a swyddi ble gellid y gellid eu cyflawni o gartref i'r dyfodol.
- Ym mis Medi 2021 bu trafodaethau rhwng y rheolwr a'r aelodau staff hyn, er mwyn cael dealltwriaeth a throsolwg cychwynnol am eu dymuniadau gweithio i'r dyfodol. Nid oedd yr ymatebion gan staff yn ymrwymiad ffurfiol i arddel y trefniadau gweithio penodol yma.
- Yn fras, roedd yr ymatebion fel a ganlyn:
 - 59% yn dymuno trefniant gweithio hybrid
 - 25% yn dymuno gweithio o adref
 - 15% yn dymuno gweithio o swyddfa

Byddai unrhyw drefniant gweithio hyblyg/newydd yn destun i gyfnod treial cyn cytuno'n derfynol, er mwyn adolygu addasrwydd y trefniadau o safbwynt yr aelod staff a'r Cyngor fel cyflogwr.

6. SWYDDFEYDD

- Wrth fabwysiadu model newydd o weithio mae'n anorfod y bydd angen newidiadau i'r swyddfeydd er mwyn hwyluso hyn. Mae'n annhebygol y gellid adnabod gweithfan/desg ddynodedig barhaol yn y swyddfa ar gyfer aelodau staff sydd yn gweithio i drefniadau hybrid. Bydd darpariaeth system ar gyfer archebu desgiau ar-lein pan fo aelodau o staff hybrid yn gweithio o'r swyddfa.

- Rhagwelir y bydd y parthau/ardaloedd yn cael eu hadnabod o fewn y swyddfeydd ar gyfer gwasanaethau a thimau penodol er mwyn hwyluso cydweithio a bydd darpariaeth ystafelloedd penodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd a chyflawni gwaith cyfrinachol.
- Bydd angen gwaith pellach i'r dyfodol er mwyn edrych ar y posibilrwydd o greu hybiau cymunedol fwy lleol fel manau gweithio ar gyfer staff y Cyngor, neu ar y cyd gyda'n partneriaid.

7. AMODAU GWAITH / POLISIÂU CYFLOGAETH

- Mae nifer o amodau gwaith a pholisiau cyflogaeth yn cael eu hadolygu er mwyn cyfarch a pharatoi ar gyfer y ffordd newydd o weithio i'r dyfodol.
- Rydym yn ymgynghori gyda chynrychiolwyr yr Undebau Llafur yn lleol wrth wneud hyn.

8. DYSGU A DATBLYGU

- Mae Hyfforddiant Arwain o Bell eisoes ar gael i reolwyr ac arweinwyr. Mae gwaith datblygol ar y gweill er mwyn darparu hyfforddiant pellach e.e. sgiliau arwain / cynnal timau hybrid. Bydd yn hanfodol fod rheolwyr a gweithwyr yn cadw cysylltiad trwy sgysiau lles a pherfformiad rheolaidd. Bydd angen i reolwyr a gweithwyr gytuno a chynllunio sut y byddent yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd, a bydd cyfrifoldeb ar y ddwy ochr i sicrhau fod y cyfarfodydd a'r cyfathrebu cytunedig yn cael eu cynnal.
- Trefniadau anwytho staff newydd - mae dod i adnabod cydweithwyr a dysgu oddi wrth eraill yn llawer mwy heriol wrth weithio gartref; nid yw cyfathrebu rhithiol yn llenwi'r bwlch hwn yn llawn bob amser. Bydd angen trefniadau anwytho a chyfathrebu cadarn er mwyn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i staff newydd.

9. IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

- Bydd pob amgylchedd gwaith (gan gynnwys y gweithfannau cartref) yn destun asesiad risg i sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr.
- Mae'r Cyngor eisoes yn ymrwymedig i gefnogi a chynnal llesiant meddyliol ei holl staff a bydd yr arweiniad a'r gefnogaeth i'r dyfodol yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn cyfarch yr amgylchedd gwaith newydd.

10. TECHNOLEG GWYBODAETH

- Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth ffonau desg, gan fanteisio ar feddalwedd ffonau ar y cyfrifiaduron. Bydd ffonau traddodiadol ar ddesg (gyda rhai eithriadau yn unig) yn diflannu dros gyfnod o amser yn ystod 2022.

11. DIOGELU DATA

- Bydd polisiau diogelwch gwybodaeth yn cael eu hadolygu ac arweiniad perthnasol yn cael ei rannu gyda staff yn amserol.

- Bydd angen i wasanaethau ystyried a gweithredu ymatebion priodol i rwymedigaethau diogelu data, sef o ran sgysiau sensitif/cyfrinachol sy'n digwydd mewn cartrefi, diogelwch dogfennaeth copi caled yng nghartrefi swyddogion a swyddfeydd, sy'n gymesur a sensitifrwydd a maint y data personol a effeithir.

12. COSTAU

- Bydd angen i'r trefniadau gweithio newydd fod yn o leiaf gost-niwtral i'r Cyngor ar ôl unrhyw fuddsoddiad cychwynnol.
- Costau Cartref - Fel rhan o'r negodi cenedlaethol ar dal ac amodau gwaith ar gyfer 2021 mae'r undebau llafur wedi gofyn i awdurdodau lleol fod yn talu lwfans gweithio o gartref (£26 y mis) i staff sydd yn gweithio o adref yn rheolaidd. Mae'r cyflogwyr yn genedlaethol wedi gwrthod yr elfen yma o'r cais. Mae'r cais hefyd wedi ei ystyried yn lleol, ond gan mai gwirfoddol fydd gweithio o adref a bod buddion eraill i staff o gael caniatâd i weithio o adref, ni ystyrir yn addas i fod yn talu lwfans. Roedd y penderfyniad hwn hefyd yn ystyried y ffaith y bydd llawer o'r staff yn arbed ar eu costau teithio i'r swyddfa yn ddyddiol, a gellid gosod hynny yn erbyn y gost ychwanegol o weithio gartref.
- Costau Teithio - Bydd gan bob aelod o staff safle waith gorfforaethol enwebedig o hyd, a gallent hawlio treuliau teithio a chynhaliaeth ohoni, ac felly ni fydd newid i'r polisi presennol ar hawlio costau teithio.
- Roedd arbedion costau teithio ar gyfer staff ym mlwyddyn ariannol 2020-21 yn £1,207,090. Gan nad yw'r cyngor wedi dychwelyd i weithio eto heb unrhyw gyfyngiadau mae'n anodd amcangyfrif beth fydd yr arbediad parhaol ar deithio.
- Mae adnodd amcangyfrifol un-tro wedi ei glustnodi ar gyfer unrhyw addasiadau swyddfa ac anghenion TG, offer ayyb.
- Mae'n bosib y bydd arbedion yn y blynyddoedd i ddod mewn perthynas ag eiddo, trwy resymoli gofod swyddfeydd.

13. CAMAU NESAF/ RHAGELN WAITH / AMSERLEN

- Petai'r Cabinet yn gefnogol, cynigir bod y gwaith yn parhau er mwyn mabwysiadu amodau gwaith a pholisïau cyflogaeth er mwyn cyfarch y trefniadau gweithio i'r dyfodol.
- Pan fo trefniadau iechyd, diogelwch a lles priodol yn eu lle yn y swyddfeydd rhagwelir y gellid rhoi'r opsiwn i staff fod yn dychwelyd i swyddfa a threialu trefniadau gweithio newydd er mwyn asesu eu haddasrwydd tymor hir.
- Bwrw ymlaen gyda addasiadau i swyddfeydd – cynigir fod y newidiadau yn cael eu gweithredu fesul gwasanaeth/lleoliad dros y misoedd nesaf.

14. ASESAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Gweler atodiad

SYLWADAU - SWYDDOG MONITRO

Nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ond nodi fy nghefnogaeth i'r argymhellion sydd yn adeiladu ar y newidiadau a dysgu cadarnhaol ynglŷn a threfniadau gweithlu a gweithle a ddatblygwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

SYLWADAU – PENNAETH CYLLID

Gallaf gadarnhau fod y Gyllideb ddrafft 2022/23 yn cynnwys ariannu cais un-tro ar gyfer y cynllun hwn. Byddaf yn cefnogi'r cynllun hwn ac yn cynorthwyo fel bo'r angen i sicrhau fod unrhyw newidiadau yn aros yn gost-niwtral

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae'r profiad o fyw a gweithio trwy'r argyfwng COVID wedi dangos fod posib i rai staff gyflawni eu swyddi yn effeithiol o gartref. Er mwyn adeiladu ar y manteision a dal gafael yn y buddion a'u profwyd wrth ddarparu gwasanaethau yn llwyddiannus mewn ffyrdd gwahanol yn ystod y pandemig, bwriedir mabwysiadu trefniadau gweithio mwy hyblyg i staff i'r dyfodol.

Ple bo amgylchiadau'r swydd yn caniatáu, bydd unrhyw drefniant gweithio'n hyblyg yn wirfoddol i aelodau staff. Bydd posib i staff ddewis gweithio o'r swyddfa, neu o'r cartref, neu arddel trefniadau gweithio hybrid trwy gyfuno gweithio o'r cartref ac o'r swyddfa.

I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Ffion Griffiths, Rheolwr Prosiect

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mawrth 2021. Fersiwn 1af

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Grŵp Swyddfeydd
Tîm Rheoli Corfforaethol
Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol
Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Lles
Undebau Llafur

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig?

Mae'r aelodau staff wedi trafod eu dymuniadau am drefniadau gweithio i'r dyfodol yn unigol gyda'u rheolwyr, gan gymryd ystyriaeth o'u amgylchiadau personol ac unrhyw nodweddion gwarchoddedig.

Mae trafodaethau ynglŷn a'r trefniadau gweithio wedi eu cynnal gyda'r undebau llafur ac maent wedi darparu eu sylwadau

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Mae tua 1,800 o staff o fewn y Cyngor yn ymgymryd a swyddi ble gellid y gellid eu cyflawni o gartref i'r dyfodol.

Ym mis Medi 2021 bu trafodaethau rhwng y rheolwr a'r aelodau staff hyn, er mwyn cael dealltwriaeth am eu dymuniadau gweithio i'r dyfodol. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- 59% o'r staff yn dymuno trefniant gweithio'n hybrid
- 25% o'r staff yn dymuno gweithio o adref
- 15% o'r staff yn dymuno gweithio o swyddfa

Byddai unrhyw drefniant gweithio hyblyg yn destun i gyfnod treial cyn cytuno'n derfynol, er mwyn adolygu addasrwydd y trefniadau o safbwynt yr aelod staff a'r Cyngor fel cyflogwr.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol a chanllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru gyda chyfarwyddyd i'r staff hynny sydd yn gallu cyflawni eu swyddi o adref fod yn gwneud hynny ers mis Mawrth 2020. Rydym yn parhau i

wneud hynny er nad yw'r gofyn i staff weithio o adref bellach (ers 28 Ionawr, 2022) yn ddeddfwriaeth. Rydym yn rhoi ystyriaeth i fesurau iechyd, diogelwch a lles wrth gynllunio ar gyfer ein gallu i ail-agor swyddfeydd yn ddiogel yn yr hir dymor.

Mae'r trefniadau gweithio yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth weithio o bell, gyda'r nod o alluogi i 30% o weithlu Cymru weithio yn agos at neu o'u cartrefi, er mwyn cefnogi cyd-bwysedd bywyd a gwaith.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Bydd angen ymgynghori pellach (gyda staff, rheolwyr a'r undebau llafur) yn dilyn sefydlu'r trefniadau gweithio hybrid, yn ystod y cyfnod treialu, er mwyn asesu eu addasrwydd a'u llwyddiant.

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae croeso i chwi ychwanegu nodweddion eraill os ydych chi'n dymuno.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Yr iaith Gymraeg	Positif / negyddol / dim	Positif – Bydd staff yn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg a gall trefniadau gweithio hyblyg ddod a manteision yn y farchnad recriwtio wrth ehangu'r ardal ddaearyddol y gellid recriwtio ohoni gan gynyddu'r nifer o ymgeiswyr Cymraeg. Negyddol - staff, ac yn arbennig dysgwyr Cymraeg, fydd yn gweithio adref o bosib yn colli cyfleoedd i siarad Cymraeg yn gymdeithasol yn y gweithle.
Anabledd	Positif / negyddol / dim	Positif <ul style="list-style-type: none"> cyfleoedd i weithio mewn ffordd hyblyg yn golygu gostyngiad mewn teithio (a'r gallu i gyrru car) i'r swyddfa, a allai fod o gymorth i rhai bobl ag anableddau corfforol, anabledd dysgu neu sy'n ddall. mwy o hyblygrwydd i staff fod yn gofalu am aelodau o'r teulu neu ffrindiau sy'n anabl. gweithio o adref yn cynnig mwy o breifatrwydd os oes angen gofal personol.

		<ul style="list-style-type: none"> • Cyflyrau lechyd Meddwl – mwy o hyblygrwydd rhwng bywyd gwaith ac adref, a gall gwell cydbwysedd bywyd a gwaith arwain at lai o straen a gôr bryder. <p>Negyddol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflyrau lechyd meddwl – Unigrwydd. Gall llai o gyswllt gydag unigolion eraill trwy weithio gartref gynyddu gor-bryder. • Gall pobl a newroamrywiaeth gael anawsterau wrth geisio creu perthnasau gwaith a dod yn rhan o dîm newydd os ydyn nhw neu nifer o'u cydweithwyr yn gweithio o gartref.
Rhyw	Positif / negyddol / dim	Positif - Merched sydd a cyfrifoldeb gofalu plant / oedolion yn gallu gweithio'n fwy hyblyg.
Oedran	Positif / negyddol / dim	Positif – hyblygrwydd i rieni gydbwysu cyfrifoldebau gwaith gyda gofalu am blant.
Cyfeiriadedd rhywiol	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Positif / negyddol / dim	Positif – haws cydbwysu gwaith gyda amser/lle penodol i weddio wrth weithio gartref.
Ailbennu rhywedd	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Beichiogrwydd a mamolaeth	Positif / negyddol / dim	<p>Positif –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llai o amser teithio i'r gwaith os yn dioddef o flinder. • Gall trefniadau gweithio hyblyg ei gwneud yn haws i ferched ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth.
Priodas a phartneriaeth sifil	Positif / negyddol / dim	Dim effaith wedi ei adnabod
Anfantais Economaidd-Gymdeithasol	Positif / negyddol / dim	<p>Gall niferoedd llai o staff yn mynychu'r prif swyddfeydd olygu llai o wariant yn y trefi hynny, ond gall hefyd arwain at gynnydd mewn gwariant mewn trefi a phentrefi sydd yn nes at gartrefi staff ar draws y Sir.</p> <p>Ni fydd y Cyngor yn digolledu / talu lwfans i staff am gostau gweithio gartref (megis trydan a band eang). Bydd gweithio o adref yn wirfoddol i staff a bydd buddion eraill megis arbedion ar gostau teithio i'r swyddfa yn ddyddiol.</p>

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	posib	Gall trefniadau gweithio gartref arwain at sefyllfaoedd ble fod rhai unigolion o dan risg uwch o ddioddef trais yn y cartref.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Gall trefniadau gweithio'n hyblyg roi mwy o gyfleoedd i unigolion sydd ag anabledau ac/neu gyfrifoldebau gofalu weithio i'r Cyngor. Gall bobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n bell o swyddfeydd y Cyngor weithio i'r Cyngor.
Meithrin perthnasau da	nac ydi	Dim effaith wedi ei adnabod

* I'w ddileu yn ôl yr angen

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Dyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'r trefniadau gweithio hyblyg yn hyrwyddo gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a rhoi gwell cyfleoedd i bobl anabl ac unigolion sy'n gofalu.

Cynnig mwy o gyfleoedd i bobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n bell o swyddfeydd y Cyngor, i weithio i'r Cyngor.

Gall trefniadau gweithio'n hyblyg gael effaith gadarnhaol ar gyfer merched beichiog, merched sy'n bwydo o'r fron neu unigolion sydd ag anabledd corfforol neu gyflwr iechyd meddwl.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Dyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'r potensial am beth effeithiau negyddol posib wedi eu hamlinellu yn Rhan 3.1 uchod,
Fodd bynnag, nid yw'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi canfod ardrawiadau fyddai yn arwain at newid yr argymhelliad

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	√
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r effeithiau negyddol posib sydd wedi eu amlinellu yn Rhan 3.1 uchod yn cael ystyriaeth gyson wrth i'r datblygiadau yn y gwaith fynd yn eu blaenau

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Bydd unrhyw drefniant gweithio hyblyg yn destun i gyfnod treial (chwe mis) cyn cytuno'n derfynol gyda aelod staff, er mwyn adolygu addasrwydd y trefniadau o safbwynt yr aelod staff a'r Cyngor fel cyflogwr. Bydd gan staff, rheolwyr a'r undebau llafur fewnbwn i'r gwaith monitro yma.

Eitem 11

Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod :	15 Chwefror 2022
Aelod Cabinet :	Y Cyng. Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswilt :	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Adran / Gwasanaeth :	Cefnogaeth Gorfforaethol
Teitl yr Eitem	Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – Adolygiad 2022/23

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – Adolygiad 2022/23 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 3ydd o Fawrth 2022.

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD


- 2.1. Mabwysiadwyd Cynllun y Cyngor 2018-23 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Fawrth 2018. Yn flynyddol ers hynny rydym wedi bod yn adolygu ei gynnwys er mwyn sicrhau ein bod fel Cyngor yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith yn ôl anghenion pobl Gwynedd.
- 2.2. Mae angen i'r Cabinet yn gyntaf gymeradwyo cynnwys y Cynllun, gan gynnwys y diweddariadau sydd wedi ei wneud iddo, er mwyn argymhell bod y Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar y 3ydd o Fawrth 2022.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 yw'n datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y bwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Roedd y Cynllun, yn ei flwyddyn gyntaf, yn datgan ein gweledigaeth am 5 mlynedd, ac yna mae pob adolygiad blynyddol yn cynnig diweddariad sy'n crynhoi yn fyr ble yr ydym wedi ei gyrraedd ar y siwrnai, a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 3.2. Rydym bellach angen adolygu'r Cynllun er mwyn datgan beth y bwriadwn ei gyflawni yn ystod 2022/23, sef y flwyddyn olaf yn y cynllun pum mlynedd. Bydd angen i'r Cabinet roi sêl bendith ar y newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r Cynllun rhwng 2021/22 a 2022/23. Mae'r Cynllun diwygiedig newydd i'w weld yn **Atodiad 1**.

Cyswilt:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



- 
- 3.3. Ble mae newidiadau arwyddocaol wedi eu gwneud i gynnwys y Cynllun rydym yn cyflwyno Asesiad Effaith Cydraddoldeb er mwyn i'r Cabinet bwysu a mesur os ydi'r newidiadau yn dderbyniol o safbwynt yr effaith a gânt ar bobl sydd ag un neu fwy o'r nodweddion sydd wedi eu gwarchod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Asesiad i'w weld yn **Atodiad 2**.
 - 3.4. Mae'r Cynllun wedi ei rannu'n 2 brif ran, sef y **Blaenoriaethau Gwella** a'r **Cynlluniau Adran**. Mae'r Blaenoriaethau Gwella yn nodi ein Hamcanion Llesiant a'n Prosiectau Blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod dan sylw, ac yn crynhoi'r holl feysydd yr ydym am roi sylw penodol iddynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau ein trigolion. O dan bob Blaenoriaeth Gwella ceir crynodeb o'r hyn y bwriedir ei gyflawni.
 - 3.5. Ceir disgrifiad o waith dydd i ddydd yr Adrannau o fewn y **Cynlluniau Adran**. Mae'r rhain hefyd yn rhoi sylw i'r hyn yr ydym yn ei wneud mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Gynghorwyr fel Blaenoriaethau Lleol yn ôl yn hydref 2017.
 - 3.6. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o'n hymdrechion fel Cyngor wedi canolbwyntio ar ymateb i argyfwng Covid-19 ac felly rydym bellach yn cynllunio ar gyfer sefydlogi ac ail adeiladu. Er mwyn sicrhau fod y blaenoriaethau'n parhau i gyfarch anghenion pobl Gwynedd bu i ni ymgynghori yn ehangach gyda gweddill yr Aelodau Etholedig ar yr hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni yn ystod 2022/23.
 - 3.7. Cynhaliwyd dwy sesiwn ymgysylltu â'r Aelodau Etholedig ym mis Rhagfyr 2021 a fynychwyd gan 27 o aelodau. Yn gyffredinol roedd cytundeb i'r blaenoriaethau drafft ynghyd â chroeso i'r cyfle i fwydo i mewn i'r broses cyn cyflwyno'r cynllun yn ffurfiol i'r Cabinet a chyfarfod y Cyngor Llawn.

4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

- 4.1. Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r Cynllun.
- 4.2. Mae llawer o waith wedi'i wneud er mwyn adnabod meysydd y dylid eu blaenoriaethu o ystyried yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd wrth sefydlogi ac ailadeiladu yn dilyn argyfwng Covid-19 ac erbyn hyn mae sgôp nifer o brosiectau wedi ei ehangu i gynnwys y materion a oedd wedi eu hadnabod.
- 4.3. Fe grynhoi'r y prif newidiadau isod. Mae'r wybodaeth yn cynnwys eglurhad o ba brosiectau sy'n newydd i'r Cynllun a pha brosiectau sy'n barhad ar y rhai yn y Cynllun presennol neu wedi newid rywfaint (e.e. yn ehangu ar brosiect blaenrol neu wedi newid ffocws).

4.4. Mae'r prosiectau canlynol wedi eu hychwanegu o'r newydd.

- **Cinio am ddim i ddisgyblion cynradd** – yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2021 bod bwriad i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd, mae cryn waith angen ei wneud o ran ymarferoldeb y cynllun.

4.5. Yn ogystal, mae sgôp neu gynnwys y prosiectau canlynol wedi newid:

- Sgôp prosiect **Dalgylch Bangor** wedi'i ehangu i gynnwys gwella adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hiracl, buddsoddi yn y ddarpariaeth uwchradd er mwyn gwella profiad y dysgwyr, a chynyddu nifer y dysgwyr sydd yn dewis manteisio ar addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y ddinas.
- Sgôp prosiect **Rheolaeth o'r defnydd o dai fel tai haf ac ail gartrefi** wedi ei ehangu i gynnwys mwy o bwyslais ar gael gwell rheolaeth trwy'r drefn cynllunio.
- **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu** bellach wedi ei ehangu a'i ail-enwi yn **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Gweithredu a gwireddu prosiectau ein Cynllun Tai er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartref addas o fewn eu cymunedau.**
- Mae'r prosiect **Y Gweithlu a Recriwtio yn y Maes Gofal** wedi'i ymgorffori fel rhan o brosiect ehangach **Cynllunio'r Gweithlu**. O ganlyniad, bydd sawl adran yn cydweithio yn agos i ymateb i'r heriau recriwtio sydd yn wynebu'r Cyngor.

4.6. Mae gweddill y prosiectau Blaenoriaeth Gwella yn parhau o 2021/22. A yw'r Cabinet yn gytûn gyda'r newidiadau sydd wedi eu hamlygu uchod ac i'w gosod ar y ffurf sydd wedi ei amlinellu yn **Atodiad 1**?

4.7. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)(2015)**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant.

4.8. Bu i ni ymgynghori gyda'r Aelodau Etholedig a'r cyhoedd ynghylch y materion sy'n effeithio ar eu llesiant fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun gwreiddiol (a gyda Aelodau Etholedig yn ystod Chwefror 2021 a Rhagfyr 2021) gan hefyd ddadansoddi canlyniadau Aseiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Fel rhan o'r adolygiad y flwyddyn hon rydym hefyd wedi adolygu os yw'r Amcanion Llesiant yn parhau i fod yn gyfredol.

4.9. Bydd angen ychwanegu Rhagair yr Arweinydd i'r Cynllun fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor er eu cymeradwyaeth, ac fe wneir hynny yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y Cabinet.

4.10. Bydd yr Adran 'Gwybodaeth Ariannol' hefyd yn cael ei diweddarau cyn cyflwyno'r Cynllun terfynol er cymeradwyaeth y Cyngor.

5. Deddf Cydraddoldeb 2010

5.1 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi'r cynllun yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn **Atodiad 2**.

5.2 Nid yw'r asesiad ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd yn canfod unrhyw effaith fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif. Bydd cyfrifoldeb ar Arweinyddion Prosiect i gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn ar brosiectau unigol.

6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1. O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 3ydd o Fawrth 2022.

6.2. Ar ôl i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Cynllun, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r modd gorau o gyfathrebu prif negeseuon y cynllun gyda'r cyhoedd, a bydd cyfle i Aelodau Cabinet roi eu barn ar hynny yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun.

7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 Barn y Swyddogion Statudol:

i. Y Pennaeth Cyllid

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, sy'n gosod allan yr hyn y mae Cyngor Gwynedd am anelu i'w wneud dros y flwyddyn nesaf. Wrth i flwyddyn olaf y cynllun cyfredol gychwyn, mae cronfeydd penodol yn parhau yn eu lle i ariannu blaenoriaethau'r Cynllun, ond mae cyfran o'r cronfeydd hyn eisoes wedi cael ei ymrwymo. Mae tebygolrwydd y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, tra mae priodoldeb ariannol yn golygu byddwn yn parhau i sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario.



ii. Y Swyddog Monitro:

O fewn Cynllun y Cyngor mae agweddau statudol sydd yn cael eu cyfarch, yn benodol felly ynglŷn ag Amcanion Llesiant a osodir yn unol â'r gofyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol(Cymru) 2015. Drwy adolygu'r Cynllun mae'r Cyngor yn cyfarch gofynion yn blynyddol ynglŷn a'r rhain. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb.

8. Barn yr Aelod Lleol

Ddim yn fater lleol.

9. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad

Dim i'w nodi.

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2022/23

Atodiad 2 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb



Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 - 2023

Adolygiad 2022/23



Tud. 547



Cynnwys



Cynnwys	Tudalen
Rhagair Arweinydd y Cyngor	3
Cyflwyniad i'r Cynllun	4
Blaenoriaethau Gwella	8
Cynlluniau Adrannol	60
Addysg	62
Oedolion, Iechyd a Llesiant	69
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	73
Plant a Chefnogi Teuluoedd	82
Amgylchedd	88
Economi a Chymuned	97
Tai ac Eiddo	105
Ymgynghoriaeth Gwynedd	114
Cefnogaeth Gorfforaethol	117
Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)	124
Gwasanaethau Cyfreithiol	131
Gwybodaeth Ariannol	133

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru



Graffeg "designed by Freepik"

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am y Cynllun hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000 neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

Rhagair Arweinydd y Cyngor

I'w gwblhau yn dilyn cyfarfod y Tîm Arweinyddiaeth



A handwritten signature in black ink, appearing to be 'D. Evans'.

Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn,
Arweinydd Cyngor Gwynedd.

Cyflwyniad i'r Cynllun

Cafodd Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018 ac mae wedi ei adolygu yn flynyddol ers hynny. Fe'i lluniwyd ar sail tystiolaeth o fewn yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd ag adborth o ymgynghori efo cymunedau, aelodau etholedig, staff a phartneriaid.

Adolygiad 2022-23 yw'r olaf ar gyfer Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022, byddwn yn dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun newydd i'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023-28.

Yn unol â gofynion **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf)** mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant, sydd yn syml yn crynhoi uchelgais y Cyngor o weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu. Mae hyn yn golygu bod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf a fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y Sir.

Mae'r amcanion yma wedi'u cyhoeddi eisoes yn ein [datganiad llesiant](#), sydd hefyd yn egluro sut y maent yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Ddeddf. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut mae gwaith y Cyngor yn cyfrannu tuag at wireddu'r uchelgais hon drwy gyfuniad o waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor a phrosiectau penodol sydd wedi'u hadnabod er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hynny lle mae angen y mwyaf o'n hymdrech i'w datblygu. Mae'r prosiectau hyn wedi'u crynhoi o dan yr hyn a elwir yn Flaenoriaethau Gwella. Mae pob un o'r blaenoriaethau gwella yn cyfrannu at sawl un o'n hamcanion llesiant, ac mae'r cynllun yn nodi pa rai fesul prosiect.

Wrth weithredu byddwn hefyd yn rhoi ystyriaeth briodol i'r egwyddor datblygu cynaliadwy trwy ystyried y tymor hir, atal rhag digwydd, gweithio'n integredig, gweithio'n gydweithredol a chynnwys pobl o bob oed. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu ffordd o weithio, "Ffordd Gwynedd", sydd â'i ffocws ar roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mae'r cynllun yn cyfeirio at sawl enghraifft lle rydym yn gweithio'n ataliol, yn cynnwys pobl Gwynedd drwy ymgynghori a chydweithio â'n cymunedau a lle rydym yn ystyried anghenion y dyfodol.

Mae enghreifftiau hefyd lle'r ydym yn cydweithredu ac yn gweithio yn integredig i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd - megis drwy ein gwaith fel aelod o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, neu'n fewnol drwy brosiectau megis Cefnogi Llesiant Pobl a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd. Mae camau eisoes wedi'u cymryd i ddangos sut rydym yn cyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf trwy gryfhau ein trefniadau herio ac adrodd ar berfformiad. Bydd y gwaith hwn yn parhau dros y flwyddyn nesaf pan fyddwn yn adolygu ein trefniadau rheoli perfformiad ymhellach gan hefyd edrych i roi sylw i'r mater wrth gyflwyno

Cyflwyniad i'r Cynllun

trefniadau asesu effaith newydd ac ymateb i'r gofynion i gynnal hunan asesiad fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Rydym wedi adolygu cynnwys y Cynllun dros y misoedd diwethaf er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i wneud y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sy'n dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar bobl Gwynedd i'r dyfodol. Wrth gwrs, mae rhai newidiadau sylweddol yn anghenion ein cymunedau yn sgil argyfwng Covid-19 ac mae bywyd pobl Gwynedd ar hyn o bryd yn edrych yn dra gwahanol i'r hyn yr oedd yn ôl yn 2017.

Rydym fel Cyngor, felly, wedi bod yn adolygu cynnwys y cynllun a'r blaenoriaethau a oedd wedi'u gosod gennym eisoes. Adolygiad 2022-23 o Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 yw'r olaf, ac mae'n cynnwys parhad o gynlluniau sydd eisoes yn y cynllun, yn ogystal ag ambell flaenoriaeth newydd; nifer ohonynt wedi codi yn uniongyrchol o ganlyniad i argyfwng Covid-19, ac eraill wedi codi'n anuniongyrchol wrth i'r argyfwng, yr amodau byw a'r cyfyngiadau a ddaeth ydag o amlygu anghenion eraill yn fwy.

Bydd y fersiwn hwn o'r Cynllun, 'Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2022/23', yn disodli'r fersiwn cyfredol. Isod, ceisir crynhoi'r prif addasiadau a wnaed yn dilyn yr adolygiad:

Mae'r prosiect a ganlyn wedi ei ychwanegu o'r newydd:

- **Cinio am ddim i ddisgyblion cynradd** – yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2021 bod bwriad i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd, mae cryn waith angen ei wneud o ran ymarferoldeb y cynllun.

Yn ogystal, mae sgôp neu gynnwys y prosiectau a ganlyn wedi newid:

- Sgôp prosiect **Dalgylch Bangor** wedi'i ehangu i gynnwys buddsoddi yn y ddarpariaeth uwchradd er mwyn gwella profiad y dysgwr, a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n dewis manteisio ar addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y ddinas.
- Sgôp prosiect **Rheolaeth o'r defnydd o dai fel tai haf ac ail gartrefi** wedi ei ehangu i gynnwys mwy o bwyslais ar gael gwell rheolaeth trwy'r drefn cynllunio.
- **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu** bellach wedi'i ehangu a'i ail-enwi yn **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Gweithredu a gwireddu prosiectau ein Cynllun Tai er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartref addas o fewn eu cymunedau.**
- Mae'r prosiect **Y Gweithlu a Recriwtio yn y Maes Gofal** wedi'i ymgorffori fel rhan o brosiect **Cynllunio'r Gweithlu**. O ganlyniad, bydd sawl adran yn cydweithio yn agos i ymateb i'r heriau recriwtio sydd yn wynebu'r Cyngor.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch yr hyn yr ydym wedi'i wneud mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Gynghorwyr fel Blaenoriaethau Lleol yn ôl yn hydref 2017. Bydd unrhyw newidiadau neu addasiadau i'r blaenoriaethau, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y bwriedir eu cynnal i'r dyfodol, yn cael sylw o fewn y Cynlluniau Adran perthnasol.

Cyflwyniad i'r Cynllun

Mae sefyllfa ariannol ansicr Cymru a Phrydain yn gosod cryn her i ni fel Cyngor wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Mae cynnydd annigonol mewn grant gan y Llywodraeth yn golygu bod parhau i ddarparu nifer o wasanaethau yn anodd. Rhaid, felly, bod yn greadigol ac ystyried pob ffordd bosib o ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl Gwynedd yn eu haeddu. Rydym yn datgan yn glir, fodd bynnag, y bydd unrhyw newid yn seiliedig ar yr angen i weld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu ac i wella lles ein trigolion i'r dyfodol.

Ers i'r Cynllun gwreiddiol gael ei fabwysiadu mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu ei Gynllun Llesiant yn ystod gwanwyn 2018. Mae'r amcanion llesiant a'r blaenoriaethau a amlygir o fewn y Cynllun Llesiant yn gyson â'r rhai sydd o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Mae Cynllun y Cyngor yn canolbwyntio ar y gwasanaethau dydd i ddydd a'r materion y mae'r Cyngor wedi'u blaenoriaethu tra bydd y Cynllun Llesiant yn canolbwyntio ar y meysydd lle y teimlir y gall sefydliadau cyhoeddus wneud mwy o wahaniaeth i lesiant pobl yr ardal drwy weithio ar y cyd.

Ein uchelgais yw gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, a'n bod fel pobl yn...

Amcanion Llesiant

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael manteisio ar harddwch naturiol y sir

Byddwn yn gwneud hyn drwy arloesi a bod ar flaen y gad ym mhopeth yr ydym yn ei wneud, gan ganolbwyntio ar...

Blaenoriaethau Gwella

Creu economi hyfyw a ffyniannus

Roi cyfle i bob disgybl gael y cyfle i gyflawni ei botensial

Leihau anghydraddoldeb o fewn y sir

Sicrhau mynediad at gartref addas

Helpu pobl i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg

Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant

Roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud

Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd

...fydd yn cael ei gynnal gan holl waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor.

Blaenoriaethau Gwella

Ein Blaenoriaethau Gwella yw'r meysydd y credwn mae angen i ni ganolbwyntio arnynt oherwydd bod angen cynyddu neu wella'r sefyllfa bresennol. Isod, fe welwch ddisgrifiadau o'r 8 Blaenoriaeth Gwella, ac yna'r prosiectau unigol fydd yn cyfrannu at bob un ohonynt.

Mae yna rai prosiectau blaenoriaeth lle y bydd yn gwbl angenrheidiol i ni eu cyflawni ac, wrth gwrs, mae'r Cyngor yn bwriadu gwireddu pob un o'r prosiectau o fewn y cynllun hwn ac yn ymrwymo i roi pob ymdrech i wneud hynny. Fodd bynnag, dylid nodi fod argyfwng Covid-19, fel yr ydym wedi ei weld ers mis Mawrth 2020, yn achosi anawsterau a all gyfyngu ar ein gallu i gyflawni'n llawn ar rai pethau. Byddwn yn adrodd ar unrhyw anawsterau o'r fath mewn adroddiadau perfformiad perthnasol.

Blaenoriaeth Gwella 1

Creu economi hyfyw a ffyniannus.

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

Adran Economi a Chymuned

Mae diffyg twf yn wendid yn economi Gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Er mwyn ceisio gwyrddroi'r sefyllfa daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Prif raglen fuddsoddi y Bwrdd yw 'Cais Twf Gogledd Cymru' ac yn Rhagfyr 2020 arwyddwyd cytundeb rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd. Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais, ein nod fel Cyngor yw sicrhau y bydd pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf o'r buddsoddiad ariannol hwn, yn enwedig mewn cyfnod pan fydd angen ymateb i sgil-ffeithiau Covid-19 a Brexit.

Yn 2021/22 bu'r Swyddfa Rhaglen yn paratoi a chyflwyno'r achosion busnes sydd eu hangen gan y 2 Lywodraeth ar gyfer y 21 prosiect cais twf ar draws y rhanbarth.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith y Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys cefnogi rhaglen i wella argaeledd band eang cyflym ar draws Gwynedd; cefnogi rhwydweithiau ynni lleol blaengar ar draws y sir; gwarchod a chreu swyddi newydd ar safle Atomfa Trawsfynydd; cefnogi datblygu campws gwyddoniaeth newydd blaengar ym Mangor a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon.

Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sy'n cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

2. Cadw'r Budd yn Lleol

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.

Nid yw'r farchnad leol yn gallu ymateb i gyfleon bob amser oherwydd cyfyngiadau o ran maint neu rwystrau eraill sy'n bodoli. Mae hynny wedyn yn arwain at fusnesau lleol yn colli'r awydd a'r gallu i gystadlu am waith gyda'r canlyniad nad oes modd uchafu gwariant y Cyngor a gedwir yn lleol.

Rydym yn ceisio cefnogi busnesau lleol gyda'r newidiadau i'r rheoliadau caffael yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd gan fanteisio ar y cyfleoedd hefyd i gaffael yn lleol.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- rhannu ein dysgu o'r prosiect 'Social Value Portal' sydd yn asesu tendrau ar sail pris, ansawdd a gwerth lleol gan argymhell unrhyw newididadau i'r ffordd mae'r Cyngor yn caffael nwyddau a gwasanaethau
- darparu cynlluniau i ddatblygu gallu'r farchnad i ennill cytundebau caffael y Cyngor-ymateb i gwestiynau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn tendrau cefnogaeth i ennill achrediadau angenrheidiol neu unrhyw ddatblygiadau yn y maes
- creu 'map' o fusnesau lleol ar gyfer cynnal darlun o'r farchnad leol. Bod hyn yn ei dro yn adnabod cyfleoedd i fusnesau ymgeisio am waith neu adnabod bylchau cyflawni.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg**



3. Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £31,300 neu fwy) Adran Economi a Chymuned


Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol trigolion y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â tâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu cwmni Eginio i adfywio'r safle.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, a hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector ynni carbon isel a sector iechyd a meddygol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda busnesau Gwynedd i ddeall anghenion am sgiliau swyddi gwerth uwch i'r dyfodol ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



4. Arloesi Gwynedd Wledig

Adran Economi a Chymuned

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 80% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig gyda'r heriau hyn wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig Cofid-19 a Brexit.

Mae'r Cyngor yn ceisio cryfhau sail yr economi wledig gan annog mentrau lleol i ddatblygu, creu a chynnal swyddi ar draws Gwynedd. Mae pecyn ariannol wedi'i ganfod trwy Ewrop i weithredu Rhaglen Datblygu Gwledig yn yr ardal sydd yn cynnwys pecyn o brosiectau i hyrwyddo mentergarwch.

Mae sicrhau cysylltedd digidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. Rydym hefyd wedi bod yn rhan o'r rhaglen ARFOR, sef buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i greu mwy a gwell swyddi mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i hyrwyddo arloesedd i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



5. Hybu Canol Trefi

Adran Economi a Chymuned

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol gan gynnig ystod o wasanaethau i'n cymunedau.

Ond mae ardaloedd "stryd fawr" ein canol trefi yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd gyda nifer o siopau cadwyn genedlaethol yn cau a masnachu yn cael ei gyfyngu yn sgil Covid-19. Mae angen hybu a chefnogi datblygiad canol trefi i sicrhau eu bod yn gallu addasu a ffynnu i'r dyfodol; i gynnal a chreu gwaith; darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr a darparu unedau preswyl newydd.

Yn ystod 2020 sefydlwyd grŵp trawsadrannol ar gyfer datblygu rhaglen o welliannau a mesurau tymor byr mewn ymateb i argyfwng Covid-19. Llwyddwyd i ddenu grantiau gan Lywodraeth Cymru i weithredu rhaglen yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol, arwyddion, tirweddu a mesurau rheoli traffig. Sefydlwyd cronfa i gynorthwyo busnesau i addasu eu trefniadau er mwyn croesawu cwsmeriaid yn ddiogel. Sefydlwyd peilot i ddatblygu is-adeiledd digidol mewn canol trefi yn cynnig wifi, cyfleoedd marchnata ac e-fasnachu, ac mae trefniadau bellach mewn lle ar gyfer ymestyn y cynllun i holl drefi yng Ngwynedd.

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith yma gan hefyd ddatblygu pecyn o ymyraethau i wella a hybu canol trefi a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau.

Byddwn yn cydweithio a chefnogi ystod eang o grwpiau busnes a sefydliadau adfywio lleol er mwyn hybu a denu buddsoddiad i ganol trefi. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â busnesau ym Mangor a Chaernarfon lle mae Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) wedi eu sefydlu.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau gydag ymdrechion i adfywio canol trefi, gan roi sylw arbennig i dargedu eiddo gwag. Rhagwelir y bydd cyfle i ddatblygu cyfres o gynlluniau i wella canol trefi ledled y Sir fel rhan o'r Fframwaith Adfywio a byddwn yn denu grantiau, megis Rhaglen Adfywio Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu prosiectau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



6. Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith Adran Economi a Chymuned

Yn ystod Gorffennaf 2021 cyhoeddodd Pwyllgor Treftadaeth Byd Unesco bod Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi ei arysgrifio fel Safle Treftadaeth Byd. Mae'r dynodiad yn rhoi cyfle i ni gydnabod cyfraniad ein diwydiant llechi ar blatfform rhyngwladol, ac i ddathlu a gwarchod y diwylliant Cymraeg sydd ynghlwm â'r ardaloedd hynny.

Rydym eisoes wedi defnyddio enwebiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr trwy ddatblygu 6 Cynllun Cynefin ar gyfer 6 ardal. Mae'r Cynlluniau Cynefin yn adnabod blaenoriaethau adfywio lleol a chyfleon i fanteisio ar y dynodiad er budd cymunedau a'r tirlun hanesyddol. Trwy'r gwaith hwn, gwelwyd nifer o baneli dehongli'n cael eu gosod ar draws Gwynedd, gweithiau celf a murluniau yn ogystal â chynlluniau eraill i godi hyder cymunedau yn eu hardal fel prosiectau addysg a chynllun Llysgenhadon ifanc a busnes. Mae £1m o adnoddau ychwanegol wedi eu denu i'r sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

I'r dyfodol byddwn yn cyflwyno cais ar gyfer ariannu prosiect dilynol i LleCHI er mwyn cydweithio gyda'r cymunedau llechi i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Byddwn yn adolygu strwythurau a threfniadau rheoli'r safle er mwyn gweithredu'r Cynllun Rheoli ac er mwyn parhau i ymgysylltu a chydweithio efo cymunedau, tîrfeddiawyr, busnesau, a phartneriaid i sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y dynodiad er budd pobl Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

7. Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu Adran Economi a Chymuned

O ganlyniad i Covid-19 a Brexit mae'n gyfnod o ansicrwydd a newid i fusnesau. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her ac rydym eisoes wedi cefnogi busnesau lleol trwy ddarparu cymorth ariannol, cyngor a gwybodaeth.

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o adrannau'r Cyngor neu'n derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu adnoddau ac ymdrech i gefnogi ein busnesau lleol gan sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau i ffynnu.

Rydym hefyd yn annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan gyfathrebu'n rheolaidd gyda'r 4,400 o fusnesau sydd yn derbyn ein bwletinau gwybodaeth.

Rydym yn cefnogi a chydweithio gyda Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar becyn o brosiectau Cais Twf er mwyn creu cyfleoedd i fusnesau o fewn economi Gwynedd i'r dyfodol. Rydym hefyd yn gweithredu ymgyrch i annog trigolion Gwynedd ac ymwelwyr i gefnogi busnesau lleol.

Yn ogystal â pharhau gyda'r uchod, yn ystod 2022/23 byddwn yn gwerthuso gweithgaredd y cynllun ac yn adolygu ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r economi yn sgil pandemig Covid-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.



8. Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth gynaliadwy Adran Economi a Chymuned

Mae gennym bryder nad yw pobl Gwynedd yn elwa cymaint ag y dylent o dwristiaeth, gyda'r argyfwng Covid-19 wedi tanlinellu sut y gall effeithiau negyddol y diwydiant weithiau orbwyso'r manteision.

Mae gwaith wedi ei wneud er mwyn deall y newid mewn tueddiadau twristiaeth dros y blynyddoedd ac adnabod y buddion a'r risgiau i Wunedd, yn cynnwys effaith ar gymunedau, iaith a diwylliant yr ardal ac ail-gartrefi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae gwaith wedi ei wneud er mwyn llunio egwyddorion twristiaeth gynaliadwy ar gyfer Gwynedd ac Eryri fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol. Mae cytundeb o ddealltwriaeth hefyd wedi ei arwyddo rhwng y Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i weithredu ar y cyd yn y maes hwn.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer twristiaeth i'r dyfodol ac yn datblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 a Chynllun Gweithredu mewn cydweithrediad efo cymunedau a'r sector er mwyn sicrhau'r budd gorau i bobl Gwynedd ac Eryri o ymwelwyr.

Bydd y Cynllun a'r Cynllun Gweithredu'n gosod cyfeiriad i bolisiau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor i'r dyfodol, ond byddant hefyd yn cydnabod yr angen tymor byr i ymateb i effaith Covid-19.

Fel rhan o'r gwaith trawsadrannol a thraws-awdurdod, ac yn dilyn ymgynghoriadau trylwyr gyda chymunedau, busnesau a pherchnogion cartrefi modur; bydd yr Adran Amgylchedd yn arwain ar brosiect i wella rheolaeth ar gartrefi modur. Bydd hyn yn cynnwys rheoleiddio a gorfodi lle'n bosib yn ogystal a ddatblygu cynllun peilot 'aire' ar gyfer hyd at 6 safle ar draws Gwynedd yn ystod 2022. Bydd y gwaith yma'n ran o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

9. Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd

Adran Economi a Chymuned

Mae risg fod pob gwasanaeth yn gweithredu eu rhaglenni eu hunain yn unol â'u canllawiau grant, ond efallai ddim yn ymateb i wir anghenion a chyfleoedd adfywio Gwynedd.

Rydym wedi sefydlu Bwrdd Adfywio gyda'r bwriad o ddatblygu Rhaglen Adfywio ar gyfer cymunedau'r sir. Bydd y Rhaglen yn ymgorffori gweithgareddau trawsadrannol ynghyd â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio newydd ac yn datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer 13 o ddalgylchoedd ar draws y Sir.

Byddwn yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno gweld eu hardaloedd yn datblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac yn adnabod blaenoriaethau lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi sylw arbennig i anghenion canol trefi a dyfodol y 'stryd fawr' ar draws Gwynedd i'r dyfodol.

Byddwn yn sicrhau fod gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad y cynlluniau hyn, ynghyd â chyfranogiad sefydliadau a grwpiau lleol, a phartneriaid allweddol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



Blaenoriaeth Gwella 2

Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial.

Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wynedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Darpariaeth Ôl-16 yn Arfon

Adran Addysg

Mae amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon yn effeithio ar ddeilliannau a llwybrau dysgu.

Mae'r Cabinet eisoes wedi rhoi caniatâd i gychwyn ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd yr ymgysylltu anffurfiol yn ystod Tymor yr Hydref 2020.

Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau anffurfiol er mwyn trafod a gwyntyllu opsiynau posib gyda'r proffesiwn gan ddefnyddio'r trafodaethau rhain i benderfynu ar y ffordd orau i barhau i gadw momentwm gyda'r prosiect pwysig hwn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



2. Dalgylch Bangor

Adran Addysg

Er gwaethaf y pandemig bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd agor ei drysau yn Hydref 2020 gan ddod yn gartref addysgol newydd i hyd at 420 o ddysgwyr oed cynradd yn ninas Bangor. Mae safle'r ysgol hefyd yn cynnig addysg feithrin a darpariaeth gofal plant cynhwysfawr mewn awyrgylch pwrpasol gyda'r adnoddau gorau posibl. Mae gofod wedi ei gynllunio'n ofalus yn ogystal ar gyfer unedau arbenigol ar y safle i gefnogi ymhellach ddatblygiad plant. Bu i'r prosiect hwn gadw o fewn y gyllideb a neilltuwyd ar ei gyfer.

Bu i'r prosiect gael ei enwebu ar gyfer tair gwobr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021 a daeth i'r brig mewn dau sef: Gwobr Adeiladwaith Digidol (Digital Construction Award) a Gwobr Cleient y flwyddyn (Client of the Year Award).

Byddwn yn trefnu agoriad swyddogol ar y cyd â'r ysgol pan fydd yn saff i wneud hynny.

Fel rhan o'r trefniadau yn nalgylch Bangor bu i Ysgol y Faenol hefyd gael estyniad sylweddol. Er bod llithriad yn yr amserlen wedi bod o ganlyniad i'r pandemig, llwyddwyd i gwblhau yn fuan yn 2022. Mae'r ysgol yn gallu derbyn 315 o ddysgwyr yn sgil yr estyniad, sydd yn gynnydd o 129 o ddysgwyr. Mae'r adeilad wedi ei gynllunio i fod yn hw b i'r ardal leol hefyd gyda chanolfan gymunedol newydd a gofod ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael eu codi fel rhan o'r datblygiad.

Yn sgil y buddsoddiad sylweddol diweddar yn Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i fuddsoddi ymhellach a gwella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hirael hefyd. Bydd hyn yn gyfrwng i wella profiad y dysgwr a galluogi'r ysgol i ddarparu addysg a'r cwricwlwm yn yr 21ain ganrif.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cydnabod nad oes gan Ysgol Tryfan yr adnoddau y byddem yn dymuno iddynt eu cael a bod hynny'n effeithio ar brofiad y dysgwr. At hyn, bydd y Cyngor yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i wella'r adnoddau uwchradd yn ninas Bangor er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf ynghyd ac adeiladau ac adnoddau i allu darparu addysg a'r cwricwlwm yn yr 21ain ganrif.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**



3. Dalgylch Cricieth Adran Addysg


Mae cyflwr adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferythyr yng Nghricieth yn wael, sy'n effeithio ar brofiad y dysgwyr. Byddwn felly'n adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu.

Yn 2021/22, cyhoeddwyd rhybudd statudol a bu i'r Cabinet gadarnhau'n derfynol y penderfyniad i adleoli'r ysgol. Rydym wedi ymgysylltu ar gynlluniau, ynghyd â chadarnhau cyllideb tuag at sicrhau Uned Blynnyddoedd Cynnar ar y safle. Rydym hefyd wedi apwyntio contractwr ac mae archwiliad geoffisegol o'r safle wedi ei gyflawni hefyd.

Yn 2022/23, yn sgil prynu'r tir a derbyn caniatâd cynllunio, bwriedir cychwyn ar y gwaith o adeiladu'r ysgol newydd, gan anelu i agor yr ysgol ar y safle newydd ym Medi 2023.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**



4. Cydweithio Meirionnydd

Adran Addysg

Mae risg fod materion yn ymwneud â'r drefn bresennol yn effeithio ar brofiadau dysgwyr ym Meirionnydd, e.e. mae ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Os na fydd datrysiad i'r sefyllfa, bydd yr effaith ar wydnwch y gyfundrefn addysg a'r amodau arweinyddiaeth yn yr ardal yn parhau.

Mae heriau amlwg cyfnod Covid a phrysurdeb ysgolion uwchradd o ganlyniad i hynny wedi effeithio ar gynnydd y flaenoriaeth yma.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi casglu barn Penaethiaid a chynrychiolaeth o Lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu wynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn ardal Meirionnydd. Yn ystod y gwaith hwn bu i ni roi sylw penodol i adnabod yr heriau sy'n wynebu'r ysgolion o safbwynt recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr.

Erbyn diwedd 2021/22 byddwn wedi casglu barn disgyblion a rhieni ar ansawdd y profiadau y mae'r plant yn ei gael yn yr ysgolion, ynghyd â barn staff am y profiad o weithio o fewn yr ysgolion yma. Er mwyn sicrhau cymhariaeth deg yr ydym am ofyn yr un cwestiynau i staff, rhieni a phlant ysgolion Dwyfor ac Arfon hefyd.

Bydd cyfeiriad a chamau gweithredu'r flaenoriaeth hon ar gyfer 2022-23 yn cael ei seilio ar farn yr holl ran-ddeiliaid allweddol. Os cyfyd sefyllfa ble nad oes pryderon sylweddol wedi cael eu hamlygu, byddwn yn ystyried priodoldeb y flaenoriaeth hon fel rhan o Gynllun y Cyngor i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

5. Cinio am ddim i ddisgyblion cynradd

Adran Addysg

Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 bwriad gan y Llywodraeth i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd. Er bod y cynllun yn cael ei groesawu mae cryn waith angen ei wneud o ran ymarferoldeb y cynllun.

Nid oes manylder wedi cyrraedd eto o ran amserlen gwireddu'r cynllun ond mae'r cytundeb rhwng y blaid Lafur a Phlaid Cymru mewn lle am gyfnod o 3 blynedd ac felly gellir cymryd y bydd angen rhoi blaenoriaeth i'r prosiect dros y 3 blynedd nesaf.

Ar gyfartaledd mae tua 50% o ddisgyblion cynradd yn dewis cinio ysgol efo'r 50% arall yn dod a phecyn bwyd o adref i'r ysgol. Byddai'r cynllun yma o bosibl yn dyblu'r nifer o ddisgyblion cynradd a fyddai yn dewis cinio ysgol.

Yn ystod 2022/23 fe fyddwn yn rhoi ystyriaeth i'r hyn y bydd darparu cinio am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd yn ei olygu i'r Cyngor a'r hyn y bydd angen ei wneud er mwyn gwireddu'r ymrwymiad gan gynnal gwaith sgôpio.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel



6. Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Adran Addysg

Mae yna risg y byddwn yn methu a darparu yn addas ar gyfer pob disgybl gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) oherwydd na chafwyd adnoddau gan y Llywodraeth i gwrdd â'r cynnydd mewn angen am ddarpariaeth statudol (Deddf ADY a Tribiwnlys, 2018).

Mae'n bosibl hefyd na fydd plant a phobl ifanc yn cael y mynediad cywir at staff arbenigol (e.e. Seicolegwyr Addysg dwyieithog, Athrawon Synhwyrdd) a rolau allweddol o ran swyddi statudol o fewn y cod (Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar, Cydlynnydd ADY) oherwydd cyfuniad o anawsterau recriwtio, cyllido, a chynnydd mewn llwyth gwaith.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi:

- datblygu'r prosesau cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd drwy gyd-weithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) o fewn y Bwrdd Iechyd
- cynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid
- gweithredu systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod anghenion yn fuan yn y blynyddoedd cynnar, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector Ôl-16 yn parhau
- hefyd y gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ac asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu
- mae gwaith arloesol yn parhau i gymryd lle o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar)
- mae'r gwaith o edrych ar ddulliau cyllido darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif yn parhau i gymryd camau pendant tuag at Medi 2022, ynghyd â chydweithio yn genedlaethol ar sicrhau hyfforddi a recriwtio staff arbenigol dwy-ieithog (e.e. Seicolegwyr).

Mae elfennau o'r Ddeddfwriaeth yn fyw ers Medi 2021, ond gyda chyfnod o dair blynedd o drawsnewid hyd at Medi 2024. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- adolygu'r prosesau gweithredu yn barhaus er mwyn sicrhau systemau mor syml a defnyddiol â phosib
- parhau i ddatblygu systemau addas at y newid deddfwriaethol gan roi ffocws ar y Ôl-16, partneriaeth gyda rhieni ac asiantaethau, a'r dull cyllido mwyaf addas ar gyfer y gofyn deddfwriaethol, gan gydweithio yn agos â'r Colegau Addysg Bellach
- sefydlu dull ariannu - adolygu'r dull ariannu er mwyn cael model sydd yn rhoi gwell sefydlogrwydd o ran darpariaeth
- parhau â thrafodaethau cenedlaethol, gan barhau i drosglwyddo'r neges ynglŷn â phryder hyfforddi a recriwtio staff arbenigol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

7. Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc Adran Addysg

Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bydd angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles.

Mae rhieni yn bryderus ynglŷn a'u gyrru i'r ysgol neu yn penderfynu addysgu gartref, ac mae cynnydd mewn pryderon diogelu.

Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, a thu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall.

Yn ystod 2020/21 rydym wedi sefydlu byrddau prosiect ar gyfer y maes Blynyddoedd Cynnar ac ar gyfer y maes cefnogaeth i pobl ifanc ôl-16. Mae'r byrddau prosiect wedi adnabod y meysydd blaenoriaeth ac mae cynlluniau gwaith clir wedi eu llunio ar gyfer y mwyafrif ohonynt. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gyfer y grŵp oedran 5-16 drwy gefnogi'r ysgolion i weithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mae gwaith wedi ei wneud i gyfarch llesiant disgyblion 3 – 16 oed ac fel cam cyntaf mae trafodaethau wedi cychwyn gydag ystod o bartneriaid gan gynnwys y gwasanaeth iechyd i fapio'n fanwl pwy sydd yn cefnogi ac ymateb i ystod eang o anghenion llesiant ein pobl ifanc.

Yn 2022/23, byddwn wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes blynyddoedd cynnar a fydd yn sicrhau'r cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed yng Ngwynedd.

Byddwn hefyd wedi diweddarau ein fframwaith ymgysylltu ar gyfer ein dysgwyr ôl-16 ac wedi llunio strategaeth i ddarparu cymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd iddynt.

Byddwn wedi cytuno ar y model cefnogi mwyaf effeithiol ar gyfer cefnogi llesiant disgyblion oedran ysgol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

8. Strategaeth Dysgu Digidol

Adran Addysg

Mae risg o ddarparu addysg is-safonol i blant Gwynedd oherwydd methiant i uchafu'r cyfleoedd y mae dysgu digidol yn ei gynnig. Bwriad y strategaeth yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, creadigol ac yn feirniadol.

Yn sgil diwygio'r cwricwlwm mae cymhwysedd ddigidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob maes dysgu ac mae angen ei ystyried ym mhob agwedd wrth ddyfunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae amrywiaethau mewn ansawdd rhwydweithiau ysgolion, a chyflwr a nifer ac argaeledd dyfeisiadau i athrawon a dysgwyr. Mae amrywiaeth yn nealltwriaeth y cyfrwng ymysg athrawon. Nid yw'r drefn o gynnal offer yn sicrhau mynediad di-dor.

Mae'r Strategaeth Addysg Ddigidol wedi ei chymeradwyo ac mae'r gwaith o'i gweithredu wedi symud ymlaen cryn dipyn yn ystod 21/22. Mae gwaith allweddol ar yr is-adeiledd ar draws ein holl ysgolion wedi dirwyn i ben gyda dyfeisiadau newydd wedi eu rhannu â mwyafrif ein dysgwyr yn y sector gynradd ac arbennig. Mae model cefnogi newydd wedi ei lunio gyda'r gwaith o'i sefydlu ar gychwyn fel ei fod yn gwbl weithredol o Ebrill 2022 ymlaen. Mae cytundeb ar fodel ariannu cynaliadwy er mwyn sicrhau nad yw'r dyfeisiadau digidol yn oesi heb ffordd o'i diweddarau gyda'r Cyngor a'r ysgolion yn cyd-ariannu.

Ein blaenoriaethau yn ystod 2022/23 fydd sefydlu'r drefn gefnogi a symud i fod yn cyflwyno dyfeisiadau i bob athro ac athrawes ynghyd â mwyafrif disgyblion y sector uwchradd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**



Blaenoriaeth Gwella 3

Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan tlodi yn sylweddol o ran y niwed sy'n cael ei greu.

Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom i ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

Adran Economi a Chymuned

Mae wedi bod yn flwyddyn gyfnewidiol yn y byd gwaith yng Ngwynedd. Roedd nifer uchel yn ddi-waith yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn, yna nifer sylweddol o gyflogwyr yn adrodd heriau recriwtio yn ystod cyfnod yr haf ac yna darlun mwy cymysg at ddiwedd y flwyddyn.

Gall diweithdra a lleihad mewn incwm aelwydydd effeithio ar iechyd a lles unigolion a theuluoedd a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus. Mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Rydym eisoes wedi gwyro blaenoriaethau er mwyn gallu ymateb o fewn adnoddau presennol gan:

- ymestyn rhaglen Cymunedau i Waith er mwyn cefnogi mwy o unigolion di-waith sydd wedi eu cyfeirio gan asiantaethau Llywodraeth i dderbyn cymorth i oresgyn rhwystrau i waith
- weithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith
- gefnogi gweithluoedd sydd yn cael eu diswyddo er mwyn iddynt gael mynediad at wybodaeth berthnasol gan wahanol wasanaethau, a hynny mewn cyfnod lle mae cyfyngiadau Covid-19.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a chydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlynid ein gwasanaethau. Byddwn yn darparu rhaglen i gynnig profiadau gwaith i bobl ifanc di-waith mewn busnesau ar draws Gwynedd a bydd tasglu a sefydlwyd yn ystyried os oes camau pellach gall Cyngor Gwynedd ei gymryd i ymateb i'r her o gefnogi pobl Gwynedd yn ôl i waith a chefnogi busnesau lleol i sicrhau'r gweithwyr maent eu hangen.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

2. Cefnogi Llesiant Pobl

Adran Plant a Cefnogi Teuluoedd

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach.

Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd i gael mynediad at wasanaethau a chanfod gwybodaeth am be sydd ar gael i'w helpu, yn arbennig drwy gyfryngau rhithiol ac ar-lein ac felly'n wynebu eu allgau yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae rhai trigolion yn wynebu caledi ariannol, yn wynebu colli gwaith a cholli cartref. Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd cael yr help sydd ei angen arnynt i ddelio gyda'r heriau hyn a chynnal eu llesiant yn lleol, ac yn amserol.

Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.

Mae natur hir dymor y cynllun hwn wrth geisio mynd i'r afael a thaclo tlodi, heriau cymdeithasol cymhleth, gan weithio ar draws nifer o wasanaethau amrywiol, yn golygu ein bod yn parhau ar siwrne i gyflawni amcanion y cynllun.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

1. Blaenoriaethu ein ymdrechion a byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi trigolion:

- sy'n wynebu digartrefedd, drwy adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei gyflawni yn y maes hwn o dan y Cynllun Gweithredu Tai, yn ail-siapio gwasanaethau atal digartrefedd drwy'r Grant Cymorth Tai, ehangu ar y gefnogaeth i atal digartrefedd ymysg pobl ifanc, ac i gefnogi pobl gydag anghenion iechyd meddwl sy'n wynebu digartrefedd
- sy'n gofalu am anwyliaid yn ddi-dâl drwy gyflawni'r Cynllun Gweithredu Gofalwyr Gwynedd i hyrwyddo hawliau gwybodaeth ac asesiadau i ofalwyr di-dal bob oed; ac i ddatblygu darpariaethau i gefnogi gofalwyr gydag ysbaid a cefnogaeth llesiant
- sy'n wynebu tlodi ariannol a thlodi bwyd drwy sicrhau adnoddau i wella cydweithio ar draws partneriaid ac i gynyddu ein cefnogaeth cyngor ariannol a hyrwyddo buddaliadau ymysg trigolion
- sy'n cael eu allgau'n ddigidol drwy adnabod anghenion ein trigolion a cynllunio i gyfarch unrhyw fylchau gyda'n partneriaid.

2. Byddwn yn gweithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid ar:
 - ymyraethau llesiant i blant, pobl ifanc a phobl o bob oed
 - cefnogi cymunedau
 - cynnal gwydnwch cymunedau a chefnogi gwirfoddolwyr/ysbryd cymunedol.
3. Byddwn hefyd yn edrych ar fodelau ar gyfer sicrhau fod trigolion yn cael mynediad i'r ystod eang a newydd o gefnogaeth sydd ar gael yn amserol, yn gydlynus ac yn lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



3. Merched mewn Arweinyddiaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan - h.y. 70% merched 30% dynion.


Llwyddwyd hyd yma i gyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, adolygu nifer o bolisiau ac arferion gwaith yn ogystal â chreu fforymau ar gyfer arweinwyr a darpar-arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth pellach ar gyfer rheolwyr gwrywaidd yn y Cyngor
- ystyried addasrwydd cyfansoddiad paneli penodi ar gyfer swyddi
- cyflwyno rhaglen fentora benodol ar gyfer merched yn y gweithle
- adolygu llwyddiant y rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched
- parhau i gynghori ar adolygiad o amodau gwaith o safbwynt merched mewn arweinyddiaeth.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



4. Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb)

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn wneud rhaid i ni yn gyntaf adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor. Ein bwriad felly yw cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchoddedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cynnig.

Cafodd ymgysylltiad ei gynnal yn ystod 2020/21 fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ond mae wedi ymestyn i 2021/22 oherwydd yr angen i ganfod ffyrdd newydd o ymgysylltu. Yn ystod 2022/23 fe fyddwn yn:

- creu Cynllun Gweithredu pellach yn seiliedig ar y dystiolaeth y byddwn yn ei dderbyn o'r gwaith ymgysylltu fydd yn cynnwys rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth a chamau er mwyn gwella'r wybodaeth sydd gennym am y maes
- darparu trefn newydd o asesu effaith newid mewn polisiau a gweithdrefnau ar drigolion Gwynedd tra'n parhau i gynnig cymorth a hwyluso gallu rheolwyr i gynnal yr asesiadau hynny.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Blaenoriaeth Gwella 4

Mynediad at gartrefi addas

Mae gan y maes tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sy'n gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol eu hoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen.

Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Law yn llaw â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Gweithredu a gwireddu prosiectau ein Cynllun Tai er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartref addas o fewn eu cymunedau Adran Tai ac Eiddo

Er mwyn cyrraedd uchelgais ein Strategaeth Tai i "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd", rydym wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol a buddsoddiad o £77 miliwn.

Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn parhau i weithredu'r cynlluniau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**



2. Mynediad rhwydd a chlr at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai

Adran Tai ac Eiddo


Ar hyn o bryd, mae nifer o bwyntiau cyswllt o fewn yr Adran i'r cyhoedd gael mynediad at wahanol wasanaethau yn y maes Tai ac Eiddo. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys prosiect i sefydlu un pwynt cyswllt drwy greu Desg Gymorth Tai.

Rydym wedi ymchwilio i fodelau gwahanol o ddarparu desg gymorth a chychwyn ar y gwaith o sefydlu math o Ddesg Gymorth Tai all gynghori'r cyhoedd sut orau i ddatrys eu hanghenion tai. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori gyda budd-ddeiliaid i sicrhau fod y cymorth yn alinio gyda'r gwasanaethau tai sydd yn cael eu cynnig gan ddarparwyr allanol.

Rydym wedi penodi swyddog sydd wrthi'n cydlynu'r gwaith o sefydlu'r Siop un Stop arloesol er mwyn sicrhau fod gan drigolion Gwynedd un fynedfa ar gyfer cael mynediad i gymorth arbenigol ar gyfer eu hymholiadau tai.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



3. Rheolaeth o'r defnydd o dai fel tai haf ac ail gartrefi Adran Amgylchedd

Mae'r nifer sylweddol o dai yng Ngwynedd sydd yn cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau (ar gyfer llety gwyliau byr dymor ac ail gartrefi) yn bryder mawr gyda'r sgil effeithiau'n cynnwys cynnydd mewn prisiau tai sydd yn rwystr sylweddol i drigolion lleol fod yn gallu byw yn eu cymunedau. Gan fod yr argyfwng tai yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, comisiynwyd gwaith ymchwil ar gartrefi gwyliau gan y Cabinet er mwyn hel tystiolaeth i weld beth oedd yn bosib i'w wneud i reoli'r sefyllfa'n well.

Mae'r Cyngor wedi pwyso ar Lywodraeth Cymru ers blynyddoedd i gyflwyno newidiadau i gael rheolaeth gwell o gartrefi gwyliau, ac yn Rhagfyr 2020 cyhoeddwyd gwaith ymchwil y Cyngor sef "Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau" a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan bwysu arnynt i weithredu ar yr argymhellion. Mae'r gwaith ymchwil wedi bod yn arwyddocaol i'r datganiadau gan Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021 i ymgynghori ar addasiadau i'r rheoliadau ac i bolisi cynllunio, sydd yn cydnabod yr angen i gael rheolaeth gwell o gartrefi gwyliau.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ar y 23 Tachwedd 2021 ac mae'n agored hyd at y 22 Chwefror 2022, ac mae'r Adran yn cydlynu ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad. Cam allweddol wrth symud ymlaen yn 2022/23 fydd i ystyried pa ymateb fydd gan Llywodraeth Cymru i ymateb y Cyngor (ac eraill) i'r ymgynghoriad, fydd yn dylanwadu wedyn ar y camau nesaf y gall y Cyngor eu cymryd i gael rheolaeth gwell o gartrefi gwyliau.

Mae'r Adran hefyd yn rhoi mewnbwn i ymgynghoriadau eraill sydd gan y Llywodraeth sydd yn ymwneud a chartrefi gwyliau gan gynnwys trethi lleol ar gyfer llety gwyliau byr dymor, cynllun cofrestru a thrwyddedu ar gyfer tai a chynllun tai cymunedau Cymraeg. Eto, bydd y prif waith yn 2022/23 yn deillio allan o'n ymateb i'r ymgynghoriadau ac wrth gwrs ymateb a bwriad Llywodraeth Cymru yn dilyn hyn, a byddwn yn cydweithio â nifer o adrannau'r Cyngor i gyflawni hynny.

Nodir hefyd y bydd y Cyngor yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig. Mae'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant lleol am eu bod yn derbyn rhyddhad ardrethi busnesau bychain, sydd o ganlyniad yn lleihau'r buddsoddi'r incwm a geir o'r premiwm Treth Gyngor yn ein Cynllun Gweithredu Tai.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Blaenoriaeth Gwella 5

Byw bywydau trwy
gyfrwng y Gymraeg.

Un nodwedd unigryw sydd gan Wynedd fel sir hefyd yw ei Chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwymo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny yn ddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

Mae'r gwaith o gasglu hunanasesiadau gallu ieithyddol gan staff, i raddau helaeth, yn hunangynhaliol erbyn hyn. Mae hyn oherwydd ein bod wedi rhoi systemau a threfniadau ar waith, er enghraifft:

- yr holiadur ar gael i'w gwblhau trwy'r system Hunanwasanaeth
- neges yn cael ei hanfon at staff sy'n cael eu penodi trwy'r drefn ganolog
- yr holiadur yn rhan o broses anwytho staff gofal.

Golyga hyn y gallwn newid ychydig ar brif sylw'r prosiect. Tra bod y prif sylw hyd yma wedi'i roi i gasglu'r hunanasesiadau, y teimlad bellach yw y dylid rhoi mwy o sylw i'r cam dilynol, sef **ymateb i anghenion** ac **ehangu'r ddarpariaeth**. Yn ystod 2022/23 bydd hyn yn cynnwys:

- ymateb i anghenion y staff nad ydynt yn cyrraedd holl ddynodiadau iaith eu swyddi yn llawn
- ymateb i anghenion yr aelodau eraill o staff sydd wedi nodi yr hoffent hyfforddiant iaith
- marchnata'r cyfleoedd sydd ar gael yn fwy cyson
- ehangu'r ddarpariaeth fewnol o hyfforddiant iaith.

Bydd y gwaith o gasglu hunanasesiadau hefyd yn parhau ond yn canolbwyntio ar:

- barhau â'r ymgyrch bresennol gyda staff yr adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
- barhau i weithio gyda chartrefi gofal
- ddatblygu'r gwaith o gydweithio gyda staff gofal cymunedol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

2. Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus Adran Cefnogaeth Gorfforaethol


Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Mae sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn yn amau bod llai yn dewis defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg na sydd o siaradwyr Cymraeg yn y ddwy sir. Drwy gydwethio gyda ein partneriaid sy'n rhan o Is-grŵp y Gymraeg, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rydym wedi comisiynu astudiaeth o dderbynfeydd traddodiadol a fydd yn ymchwilio i hyn. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- ystyried sut y gallwn annog mwy o bobl i ymwneud â ni yn y Gymraeg, ac i fod yn gyfforddus wrth wneud hynny ar sail casgliadau'r astudiaeth yn y lle cyntaf
- gweithredu cynlluniau ar sail yr ystyriaethau hynny.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



3. Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae gennym bryder fod enwau llefydd cynhenid Cymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg.

Mae'r rhaglen waith wedi ei llunio a'i blaenoriaethu. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- ymdrin â materion mewnol sydd o fewn rheolaeth y Cyngor ar gyfer sylw yn gyntaf
- codi ymwybyddiaeth a diddordeb y cyhoedd mewn enwau llefydd cynhenid Cymreig
- cydweithio â sefydliadau eraill i warchod enwau Cymraeg o fewn y sir.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



4. Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc Adran Addysg

Mae sgiliau a hyder dysgwyr (o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig) yn y Gymraeg wedi dirywio yn sgil y cyfnod clo a Covid-19.

Yn 2021/22 rydym wedi llwyddo i sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo a Covid-19 ac rydym wedi dechrau cefnogi ysgolion i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu er mwyn ymateb i'r sefyllfa.

Yn ystod y broses o osod gwaelodlin, gwelsom fod pryder am sgiliau llafaredd a hyder disgyblion yn y Gymraeg yn cael eu hamlygu. Byddwn yn ymateb i'r pryderon hyn fel blaenoriaeth yn 2022/23 trwy gynorthwyo ysgolion i gefnogi sgiliau llafaredd a hyder disgyblion. Byddwn yn darparu hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol i athrawon a chymorthyddion ac yn cyd-weithio gydag ysgolion unigol i lunio cynlluniau gweithredu i ymateb i'r anghenion.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**

Blaenoriaeth Gwella 6

Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Rydym fel Cyngor yn darparu gofal yn uniongyrchol i blant a'u teuluoedd a phobl sydd angen cymorth arbenigol, ond ein gweledigaeth yw bod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw.

Gan fod anghenion pob unigolyn a theulu yn siŵr o fod yn wahanol, er mwyn iddynt barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant mae angen i ni fel Cyngor addasu ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth. Er mwyn llwyddo, bydd angen i ni barhau i gydweithio â darparwyr eraill, megis y Bwrdd Iechyd, gan gofio rhoi anghenion yr unigolyn yn ganolog bob tro.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd.

Yn 2021/22, sefydlwyd grŵp tasg er mwyn edrych ar 'gwir gost gofal' ac mae'r wybodaeth ddechreuol wedi amlygu bwlch ariannol, rhwng y ffioedd cyfredol mae'r Cyngor yn gallu ei gynnig a ffioedd cartrefi nyrsio a phreswyl sy'n yn golygu nad ydi trigolion yn cael cynnig dewis eang o gartrefi gofal yn eu cymunedau. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad cyn-gynllunio ar gyfer safle gofal Nyrsio ym Mhenrhos, adeiladu Uned Dementia ychwanegol yn ein Cartref Gofal yn Bermo a dechrau'r gwaith er mwyn addasu'r Ganolfan i unigolion gydag anabledd dysgu yn Nolgellau.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau byddwn yn ystod 2022/23 yn:

- ceisio deall "gwir gost gofal" er mwyn ystyried opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau comisiynu gofal i'r dyfodol
- parhau i symud ymlaen gyda'r prosiect Safle Penrhos er mwyn cyfarch yr angen am ddarpariaeth gwllâu Nyrsio Mhen Llŷn. Ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, byddwn yn ystod y flwyddyn yn glir ar yr opsiynau sydd gennym o ran y modelau darparu posib fyddai yn ein galluogi i gael rôl uniongyrchol yn darparu gofal Nyrsio ar y safle
- gweithio tuag at gynyddu nifer y gwelyau dementia yn y sir ymhellach
- ystyried a yw'n gwasanaethau cefnogol e.e. gofal dydd ac ysbaid yn parhau'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, neu os oes angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol
- addasu ein hadeiladau darparu gofal er mwyn gallu cwrdd â mesurau rheoli haint ychwanegol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor hyd yma oherwydd argyfwng Covid-19
- agor uned dementia pwrpasol yn ein cartref gofal yn Bermo
- gwneud defnydd o'r addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i'n cartref gofal yn Nolgellau er mwyn cynnig gofal pwrpasol ar gyfer unigolion sydd ag anghenion corfforol dwys

- agor y ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwillheli, a pharhau gyda'r gwaith o adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir gyda blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach
- cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



2. Ail-Ddylunio ein Gwasanaethau Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae anghenion gofal y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i drawsnewid ein gwasanaethau cymunedol. Mae angen i ni hwyluso gallu ein staff ni a staff y Bwrdd Iechyd i gydweithio fel un tîm o fewn ardaloedd penodol. Bydd hyn yn arwain at sicrhau mai un pwynt cyswllt fydd gan unigolion sydd angen cymorth iechyd a gofal yn y gymuned er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau a gwasanaeth di-dôr. Rydym hefyd yn gweithio i newid ein ffordd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir er mwyn hwyluso'n gallu i sicrhau fod y gofal wedi'i deilwro yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

Yn 2021/22, symudwyd nifer o dimau gofal cartref y Cyngor i weithio patrymau shifft ac fe gychwynnodd y gwaith o hyfforddi staff i fedru gweinyddu meddyginiaeth, sy'n cynnig gwell sefydlogrwydd i staff a hyblygrwydd i'r unigolion sy'n derbyn gofal. Yn ogystal, mae'r Hwb Iechyd Meddwl Cymunedol ym Mhwllheli wedi ailagor yn dilyn iddo orfod cau yn sgil argyfwng Covid-19 ac rydym wedi sefydlu hybiau lleisiant yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog, er mwyn rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i unigolion hyd at 25 oed.

Yn ystod 2022/23, byddwn yn:

- parhau i arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol
- gweithredu a sefydlu model newydd gofal cartref gan ddechrau profi manteision y newid er lles trigolion Gwynedd.
- parhau i gryfhau'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, yn cynnwys datblygu gwasanaeth symud a thrin arbenigol i alluogi unigolion i fyw mor annibynnol â phosib
- ychwanegu at y rhwydwaith o hybiau cymunedol sy'n cefnogi a chreu cyfleon i unigolion gydag anabledau dysgu trwy gychwyn ar y gwaith adeiladu i addasu Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau
- cytuno ar y ffordd fwyaf addas i ddiwallu anghenion lleisiant unigolion mewn modd ataliol yng Nghaernarfon, fydd yn ddarpariaeth cymunedol i holl oedolion yr ardal.
- profi'r y budd o gael hybiau lleisiant i bobl hyd at 25 oed yn Gaernarfon a Blaenau Ffestiniog. Bydd y ddarpariaeth fydd ar gael yn cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i unigolion.
- ychwanegu at yr opsiynau llety addas ar gyfer unigolion gydag Anabledau Dysgu i annog byw yn annibynnol, yn hytrach na ariannu lleoliadau drud all-sirol.
- ymgymryd a gwerthusiad dechreuol o ddarpariaeth iechyd meddwl a ddarperir gan y Cyngor fel sail i adolygiad o beth fydd ei angen yng nghyd-destun cynnydd yn y galw ac effeithiau pandemig Covid-19
- cydweithio hefo Iechyd a phartneriaid trydydd sector i sicrhau cysondeb o ran mynediad i wasanaethau iechyd meddwl addas ar draws y Sir fel bod unigolion yn derbyn cymorth amserol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

3. Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i Gilydd Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd


Mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth benodol ar adegau i'w helpu i fagu plant fel bod y plant hynny yn gallu aros gyda'u teulu, yn ffynnu, yn iach, ac yn ddiogel. Nid oes plant yn dod i ofal yn ddiangen yng Ngwynedd ac rydym am sicrhau nad yw hynny yn digwydd. Weithiau, mae'n orfodol fod plentyn yn dod i'n gofal oherwydd ei bod yn beryglus iddynt aros gartref. Mae ein trefniadau a'n penderfyniadau pan fo hynny'n digwydd yn seiliedig ar risg ac anghenion y teulu. Pan mae plentyn yn dod i ofal mae angen gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn derbyn gofal priodol, addas a lleol; a'u bod nhw a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi fel bod y plentyn yn gallu dychwelyd at ei deulu.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- prif-ffrydio y dysgu o'r prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn rhan o ymarfer ein gweithwyr ar draws ein gwasanaethau sef cynnal sgysiau cydweithredol gyda teuluoedd sy'n rhoi ffocws ar y newid sydd ei angen i leihau'r risg o niwed arwyddocaol; cefnogi ymarferwyr i adlewyrchu'n barhaus ar eu ymarfer
- gweithredu ar y gwelliannau yr ydym wedi eu hadnabod drwy'r ymarfer Ffordd Gwynedd i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut yr ydym yn gweithio, er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen i deuluoedd. Byddwn yn canolbwyntio ar drefniadau cyfathrebu rhwng gwasanaethau, cryfhau gweithdrefnau cydweithio ac adolygu'r prosesau yr ydym wedi eu hadnabod sy'n aneffeithiol
- adolygu'n gweithdrefnau ar y cyd gyda'n partneriaid er mwyn symud tuag at ddull 'dim drws anghywir' wrth ymateb i anghenion llesiant emosiynol a iechyd meddwl plant a phobl ifanc ("No Wrong Door" - Strategaeth Gymunedol Ranbarthol ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc 2022-2027).

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



4. Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae rhai plant a phobl ifanc sy'n dod i'n gofal gydag anghenion cymhleth a dwys. Mae rhai o'r plant hyn yn gorfod derbyn gofal a chefnogaeth mewn lleoliad drud y tu allan i Wynedd neu Gymru ac ymhell o'u teulu a'u cymuned. Rydym am sicrhau bod gennym amrywiaeth a digon o leoliadau addas ar gael yn lleol, a bod gennym weithwyr a chefnogaeth arbenigol yn lleol ar gyfer anghenion y plant hyn.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- gwerthuso'r tîm amlddisgyblaethol sydd wedi ei beilota ar y cyd gyda phartneriaid i gefnogi plant gydag anghenion cymhleth a'u teuluoedd
- gweithredu ar y gwerthusiad opsiynau ar gyfer adnabod darpariaeth breswyl yn lleol i blant gydag anghenion cymhleth
- manteisio ar ymgyrch Maethu Cymru i gynyddu niferoedd gofalwyr maeth drwy recriwtio a rhoi adnoddau i asesu gofalwyr ar gyfer sicrhau digon o leoliadau.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



5. Sicrhau fod teuluoedd a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Mae plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth a gallu sgiliau uchel; a phlant sydd ag awtistiaeth a dim anabledd dysgu, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Mae profiad y plant yma a'u teuluoedd yn dangos bod lle i wella ein trefniadau asesu presennol; bod bylchau mewn darpariaeth a bod angen help arnynt yn y cyfnod trosglwyddo i wasanaethau eraill megis oedolion ac ieuchyd.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- mabwysiadau Cynllun Awtistiaeth sy'n dangos sut yr ydym am wella ein trefniadau cydweithio a mynd ati i lenwi'r bylchau sydd wedi eu hadnabod
- monitro gweithrediad y cynllun drwy'r Bwrdd Amlasiantaethol Awtistiaeth Lleol sy'n dod a'r Bwrdd Iechyd, partneriaid trydydd sector ac adrannau'r Cyngor ynghyd
- sicrhau adnoddau ar gyfer creu'r rolau sydd wedi eu hadnabod drwy'r cynllun ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc awtistig yn y cyfnod trosglwyddo o blentyndod i oedolyn, a gyda'r cyfnod pan maent yn disgwyl asesiad awtistiaeth
- cyflwyno rhaglen hyfforddiant i weithwyr mewn gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol i godi ymwybyddiaeth am awtistiaeth a'r cynllun lleol.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



Blaenoriaeth Gwella 7

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ymhob man o fewn y Cyngor.

Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, ac yn sicrhau bod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu, yn anochel, yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).

Mae'r pwysu a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf.

Sut fyddwn ni'n cyflawni hyn?

1. Cymunedau Glân a Thaclus

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Byddwn yn cydweithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd drwy ymgysylltu er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r flaenoriaeth yma gan ehangu a datblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir e.e:

- strydoedd glan a deniadol
- ffyrdd a llwybrau cerdded mewn cyflwr da
- timau gwaith lleol er mwyn cyflawni'r gwaith
- trafodaeth am yr egwyddorion a chymunedau gweithredu drwy ymgysylltu â'r gymuned a'r staff
- llunio cynllun gweithredu, darganfod dyheadau a rhanddeiliaid posib ar lefel cymunedol.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi:

- cychwyn ar y gwaith cynllunio ar gyfer ymgysylltu gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd, gan gynnwys ymchwilio i mewn i'r dulliau mwyaf effeithiol o gynnal cynllun ymgysylltu llwyddiannus
- ymgysylltu gyda staff y Cyngor er mwyn casglu barn ar sut y gallwn sicrhau cymunedau glan a thaclus.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



2. Gweithredu Rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi “Ffordd Gwynedd” ar waith)

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai **anghenion pobl Gwynedd** sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Rydym eisoes yn herio timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol ac i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog ac ystyried a oes lle i wella.

Cefnogwyd rheolwyr i ddeall y cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae swydd-ddisgrifiadau diwygiedig wedi'u cytuno arnynt ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion tîm yn ogystal â gweddill staff y Cyngor sydd yn cadarnhau'r ymddygiadau disgwylidig ohonynt.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- adolygu canlyniadau hunan-asesiad o sut mae dulliau gwaith a'r diwylliant yn gwreiddio gan adnabod rhaglen waith ar gyfer gyrru'r diwylliant hwnnw yn ei flaen ymhellach fyth
- ail-afael yn yr adolygiadau gwasanaeth hynny sydd wedi'u hoedi yn sgil yr argyfwng Covid-19.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.



3. Sicrhau bod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Mae angen i ni sicrhau bod ein trefniadau gwarchod Iechyd a Diogelwch yn gadarn, a thra bod gennym drefniadau aeddfed o fewn y Cyngor mae gennym bryder bod yna bocedi lle mae yna gyfle i wella trefniadau gweithredol.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn edrych ar amcanion penodol ar gyfer yr elfennau a ganlyn a fydd, pan wedi eu cyfuno, yn greiddiol i fframwaith o reoli Iechyd a diogelwch yn effeithiol, sef:

- arweinyddiaeth glir a gweledol ar faterion Iechyd a diogelwch
- cael systemau effeithiol a chymesurol ble gellir cynhyrchu data byw a synhwyrol i gefnogi rheolaeth Iechyd a diogelwch a chefnogi arloesedd
- cael y gweithlu (ar bob lefel) yn wybodus ac yn gymwys i'w rôl ac wedi eu hyfforddi yn y risgiau y maent yn wynebu yn y gwaith, gan sicrhau argaeledd at gyngor cymwys amserol i gynghori ar risgiau arbenigol / datblygiadau diweddaraf ac arloesol yn y maes
- creu rhwydwaith, strwythurau a chymuned ar gyfer ymgynghori, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau ar faterion Iechyd a diogelwch, nid yn unig yn fewnol, ond hefyd ymysg rhyng-ddeiliad megis y trydydd sector, contractwyr a chyflenwyr
- sefydlu cyfundrefn effeithiol o fonitro, dysgu o gamgymeriadau, gan ddatblygu ac esblygu yn barhaus.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion Llesiant.



4. Cynllunio'r Gweithlu

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn.

Er bod Covid-19 wedi amlygu gweithlu effeithiol ac ymroddedig, mae'r cyfnod hefyd wedi amlygu heriau denu a chadw staff ar draws y Cyngor. Mae recriwtio i feysydd gofal a chefnogi teuluoedd yn benodol wedi profi yn anodd, gan beri risgiau i'n gallu i gyfarfod cyfrifoldebau statudol ar ran y Cyngor ym maes diogelu, gofal a chymorth.

Mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol. Golyga hynny fod angen i ni edrych ar ein hymarferion recriwtio, hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu eu talent.

Sefydlwyd sicrwydd tymor hir ar gyfer y Cynllun Prentisiaethau a'r Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory yn ystod y flwyddyn a fu ac mae'r Cynllun Datblygu Talent mewnol wedi'i lunio fel fframwaith ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- ymestyn y Cynllun Prentisiaethau i gynnwys niferoedd uwch o brentisiaid gan gydweithio efo cyflogwyr allanol lleol i ddarparu profiadau gwaith
- gweithredu'r Cynllun Datblygu Talent mewnol ar draws holl adrannau'r Cyngor
- parhau i gynnal ymgyrchoedd recriwtio lleol #GalwGofalwyr ar draws y sir, gan dreialu syniadau a dulliau newydd yn ogystal
- cydweithio'n agos hefo timau rheoli'r adrannau er mwyn cytuno ar drefniadau sefydlog i adnabod bylchau mewn sgiliau ac arbenigedd a ragwelir dros y 5-10 mlynedd nesaf ac i gymryd camau rhagweithiol i'w cyfarch
- edrych yn benodol ar y sefyllfa recriwtio yn y meysydd gofal cymdeithasol plant a gofal oedolion, gan edrych ar ffyrdd i gynyddu capasiti a gwydnwch ein gweithlu.

Fel rhan o'r gwaith i recriwtio, hyfforddi a meithrin talent staff, yn ystod 2022/23 bydd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion a Llesiant yn cydweithio er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hwn.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion Llesiant.

5. Cyflawni arbedion

Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol da, sydd eisoes wedi adnabod llawer o arbedion effeithlonrwydd er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

Mae'r gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni dros nifer o flynyddoedd yn awgrymu ein bod wedi cynaeafu cyfran helaeth o'r arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael, ond mae angen parhau i fonitro cynlluniau cymeradwy holl adrannau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y swmp o'r arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, sydd dros £32m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau. Nôl yn Ionawr 2021 adolygwyd yr holl gynlluniau arbedion er mwyn asesu pa rai oedd yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion. Ymhellach, adolygwyd cynlluniau arbedion 2022/23 yn Ionawr 2022 er mwyn asesu y cynlluniau oedd yn ymarferol i'w gwireddu drwy ddileu ac ail-broffilio rhai o'r cynlluniau. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni.

Mae'r rhagolygon ariannol ansicr ar gyfer 2022/23, fel sydd wedi ei fynegi yn yr adroddiad Strategaeth Cyllideb 2022/23 i Gabinet 28 Medi 2021, o ganlyniad i newidiadau i'r hinsawdd ariannol ac economaidd ynghyd â diffyg gwybodaeth. Yn wyneb yr ansicrwydd dylid cadw'r flaenoriaeth wella cyflawni arbedion ar gyfer 2022/23. Bydd adolygiad pellach o'r arbedion yn cael ei gynnal wrth sefydlu cyllideb 2022/23 i asesu cynlluniau sydd ddim yn gwireddu a rhai sydd yn cael eu hystyried i fod yn anodd ei chyflawni sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2022/23. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion Llesiant.

6. Cryfhau cyfathrebu ac ymgysylltu Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaethau yn cyffwrdd ar bob trigolyn drwy'r sir. Gellir ychwanegu gwerth at waith yr adran drwy gynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol; er enghraifft ymgyrchoedd atal mân sbwriel neu faw ci, neu ymgyrchoedd a chanllawiau i annog ail ddefnyddio, ail bwrsasu a lleihau gwastraff. Mae hefyd yn hynod bwysig fod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw'n effeithiol. Byddwn yn sicrhau bod trefniadau ymateb amserol ac ystyrlon mewn lle a byddwn yn:


- adolygu trefniadau cyfredol o gyfathrebu ac ymateb i ymholiad
- amlygu ble mae diffygion/llefydd gwella
- sefydlu grŵp tasg gyda chynrychiolaeth o swyddogion ynghyd â Galw Gwynedd
- adnabod mesurau er monitro.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi:

- sefydlu Grŵp Tasg gyda chynrychiolwyr trawsadrannol er mwyn cychwyn ar y gwaith o gryfhau ein ffrydiau cyfathrebu ac ymgysylltu
- mapio prosesu er sicrhau eu bod yn gywir a chyfredol
- adnabod bod angen gwell defnydd o'n system fewnol er cryfhau ein ffrydiau cyfathrebu gyda thrigolion Gwynedd
- adnabod prosiectau newydd er mwyn cryfhau ein ffrydiau cyfathrebu.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



7. Capasiti Gwarchod y Cyhoedd Adran Amgylchedd

Yn sgil argyfwng Covid-19, mae wedi dod yn fwy amlwg pa mor bwysig yw rôl ein Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wrth warchod iechyd ein cymunedau, ond hefyd wrth gynghori a chefnogi busnesau'r sir.

Mae'r profiadau yn ystod y cyfnod argyfwng wedi amlygu diffyg gwydnwch yng Ngwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn sgil blynyddoedd o doriadau.

Yn ystod 2021/22 cynhaliwyd adolygiad o strwythurau Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd er mwyn asesu'r anghenion yn llawn. Mae'r adolygiad wedi adnabod 4 gweithred ar gyfer cyfarch anghenion y Gwasanaethau, sef:

- darparu cyllideb dros dro i hwyluso parhad y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu
- cyflogi 3 hyfforddai gwarchod y cyhoedd am gyfnod dros dro o 3 mlynedd i gynllunio ar gyfer dilyniant
- darparu cyllideb barhaol ar gyfer creu swyddi Arweinyddion Tîm (x6) o fewn y capasiti staff presennol; yn unol ag egwyddorion haenau rheolaethol y Cyngor
- codi lefelau cyflog 13 o swyddogion cymwys iechyd yr amgylchedd / gwarchod y cyhoedd / safonau masnach fel eu bod yn fwy cymharol gyda chyflogau swyddi tebyg mewn awdurdodau eraill yn y Gogledd.

Yn ystod 2022/2023, bydd y bidiau am arian yn cael eu cyflwyno ac os yn llwyddiannus byddant yn cael eu rhoi ar waith er mwyn cynyddu capasiti i gefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel**



Blaenoriaeth Gwella 8

Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 bu i'r Cyngor ystyried cynnig yn ymwneud â newid hinsawdd ac fe benderfynwyd y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddem yn gwneud hyn drwy:

- Ddatgan Argyfwng Hinsawdd
- Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon
- Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon
- Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i leihau allyriadau carbon; a
- Galw ar Lywodraethau Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd di-garbon erbyn 2030.

1. Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd

Adran Amgylchedd

Wedi i argyfwng Covid-19 dorri ar draws y gwaith yma, penderfynodd y Cabinet ar ddechrau 2021 i ddarparu cyllid unwaith ac am byth er mwyn penodi Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd am gyfnod cychwynol o 12 mis i arwain y gwaith o ddod a'r cynllun hwn at ei gilydd.

Sefydlwyd Bwrdd Newid Hinsawdd trawsadrannol hefyd i lywio'r gwaith. Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio i adnabod lle allwn ni gael yr ardrawiad mwyaf wrth leihau ein heffaith ni fel corff ar yr amgylchedd ac i adnabod unrhyw fylchau yn ein gwaith hyd yma.

Cynhaliwyd cyfarfod gydag aelodau'r Cyngor drwy ddulliau rhithwir er mwyn iddynt gael cynnig eu syniadau a disgwylir y byddwn wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu erbyn diwedd Mawrth 2022. Yn 2022/23 byddwn yn dechrau gweithredu yn unol â'r addewidion sydd wedi eu nodi yn y cynllun.

Amcanion Llesiant y mae'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag atynt –

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.





Cynlluniau Adran



Mae'r rhan gyntaf o'r Cynllun, y Blaenoriaethau Gwella, wedi canolbwyntio ar weledigaeth y Cyngor ynghyd â'n Blaenoriaethau Gwella ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun.

Mae'r rhan nesaf o'r Cynllun yn cynnwys Cynlluniau yr Adrannau o fewn y Cyngor. Maent yn cynnwys disgrifiadau o waith 'dydd i ddydd' yr adrannau, ac mae llawer ohono yn ddyletswydd statudol ac yn orfodol i ni ei wneud, megis diogelu plant ac oedolion neu ddarparu addysg.

Yn ychwanegol at y Blaenoriaethau Gwella a'r gwaith 'dydd i ddydd' yma mae Blaenoriaethau Lleol wedi eu hadnabod gan yr Aelodau Etholedig fel y materion sy'n bwysig i drigolion eu hardal hwy. Trafodwyd y rhain fel rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun y Cyngor yn wreiddiol, ac mae unrhyw ddatblygiadau arnynt yn cael ei esbonio yn y cynlluniau adran sydd i ddilyn. Mae'r Blaenoriaethau Lleol wedi eu hamlygu o fewn ffrâm sydd â chefnidir lliw iddi.

Ceir rhestr o'r holl Adrannau isod ynghyd â gwybodaeth am eu prif gyfrifoldebau. Mae'r wybodaeth ariannol am gyllidebau pob adran i'w cael gyda'i gilydd ar y diwedd.

Os ydych am gysylltu â'r Adrannau neu'r Pennaeth gallwch ffonio 01766 771000 neu ddilyn y dolenni isod i'n gwefan.

	Pennaeth	Tudalen
1. Adran Addysg <ul style="list-style-type: none"> Cefnogi gweithrediad dydd i ddydd Ysgolion Gwynedd Cefnogi a sicrhau cynnal a gwella safonau addysg mewn cyfleusterau modern Darparu cefnogaeth a gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Arwain ar weithrediad y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd 	Garem Jackson <u>Manylion Cyswllt</u>	62
2. Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant <ul style="list-style-type: none"> Galluogi Oedolion Gwynedd i "Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw" Darparu gwasanaethau gofal trwy bartneriaethau a chydweithio Cynnig darpariaeth gofal cartref, gofal dydd a gofal preswyl 	Aled Davies <u>Manylion Cyswllt</u>	69
3. Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol <ul style="list-style-type: none"> Casglu ailgylchu, gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol trigolion Gwynedd Cynnal a chadw ffyrdd a strydoedd y sir Torri gwair a chynnal meysydd chwarae 	Steffan Jones <u>Manylion Cyswllt</u>	73
4. Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd <ul style="list-style-type: none"> Diogelu plant a phobl ifanc rhag niwed Gweithio i roi sefydlogrwydd i deuluoedd, plant a phobl ifanc Gwasanaethau leuenctid 	Marian Parry Hughes <u>Manylion Cyswllt</u>	82

5. Adran Amgylchedd

Dafydd Wyn Williams
Manylion Cyswllt

88

- Gwarchod cefn gwlad a'r mynediad iddo
- Archwiliadau hylendid a safonau bwyd; safonau masnach a thrwyddedu
- Rheolaeth traffig, parcio, cludiant cyhoeddus a datblygu cyfleoedd teithio llesol
- Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu
- Gwarchod y Cyhoedd

6. Adran Economi a Chymuned

Sioned E Williams
Manylion Cyswllt

97

- Datblygu economi Gwynedd trwy gefnogi busnesau, twristiaeth a marchnata ac adfywio cymunedol
- Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau

7. Adran Tai ac Eiddo

Carys Fôn Williams
Manylion Cyswllt

105

- Cefnogi teuluoedd digartref a chanfod llety dros dro a chartrefi fforddiadwy
- Sicrhau cartrefi safonol a diogel i denantiaid tai cymdeithasol a phreifat
- Dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd
- Cynnal, cadw a datblygu eiddo'r Cyngor, gan geisio lleihau ein allyriadau carbon.

8. Ymgynghoriaeth Gwynedd

Huw Williams
Manylion Cyswllt

114

- Gwasanaeth Ymgynghorol Masnachol yn darparu gwasanaeth cynllunio a rheoli prosiectau isadeiledd
- Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu
- Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol

9. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

Geraint Owen
Manylion Cyswllt

117

- Galw Gwynedd a Siopau Gwynedd
- Gwasanaethau Adnoddau Dynol, Cofrestru, Cyfathrebu a datblygu staff
- Gwasanaethau Gweinyddol a Chefnogol y Cyngor

10. Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)

Dewi Aeron Morgan
Manylion Cyswllt

124

- Cefnogaeth ariannol a chyfrifol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Treth Cyngor a Chronfa Bensiwn Gwynedd
- Cefnogi a datblygu darpariaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor

11. Gwasanaeth Cyfreithiol

Iwan Evans
Manylion Cyswllt

131

- Cefnogaeth gyfreithiol i holl wasanaethau'r Cyngor
- Gweinyddu Etholiadau Gwynedd
- Cefnogi gwasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru



Adran Addysg



Pwrpas yr Adran Addysg yw i sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau yn ein hysgolion i'w galluogi i gyrraedd y safonau uchaf ac i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Cinio am ddim i ddisgyblion cynradd (*Newydd ar gyfer 2022/23*)(Blaenoriaeth Gwella 2)
- Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Dalgylch Bangor – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Dalgylch Cricieth – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Cydweithio Meirionnydd – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Strategaeth Dysgu Digidol – (Blaenoriaeth Gwella 2)
- Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc – (Blaenoriaeth Gwella 5)

GWASANAETH YSGOLION

Cefnogi Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Llywodraethiant Effeithiol Ysgolion

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg yw hyrwyddo arweinyddiaeth, rheolaeth a llywodraethiant effeithiol ein hysgolion drwy gefnogi, arfogi a dal cyrff llywodraethol a thimau rheoli ysgolion yn atebol. Gwneir hynny mewn nifer o ffyrdd gwahanol yn ddibynnol ar anghenion ysgolion unigol.

Rhoddir cefnogaeth o safbwynt arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion drwy gyfres o raglenni proffesiynol sy'n cynnig llwybr o ddatblygiad proffesiynol i athrawon, arweinwyr canol ac uwch arweinyddiaeth. Gwneir hyn hefyd drwy raglen gymhelliant a luniwyd ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a Dysgu a Datblygu ar gyfer penaethiaid, timau rheoli a rheolwyr canol mewn ysgol. Yn ogystal mae'r Adran Addysg yn ceisio adnabod cyfleoedd i roi profiadau gwerthfawr i arweinwyr er mwyn adeiladu cyfundrefn wydn.

Rhoddir cefnogaeth gan yr Adran Addysg i lywodraethwyr drwy sicrhau eu bod yn deall eu rôl ac yn gweithredu'n effeithiol, drwy roi cefnogaeth strategol ac ymarferol iddynt yn ôl yr angen, eu cynghori'n briodol, yn ogystal â thrwy ddarparu rhaglen o hyfforddiant bwrpasol ar eu cyfer er sicrhau llywodraethiant effeithiol ein hysgolion. Mae gan yr Adran Addysg hefyd bwerau ymyrryd i'w defnyddio pan nad yw ysgol yn cael ei llywodraethu'n briodol.

Gwasanaeth Gwella Ysgolion

Cyfrifoldeb yr Adran Addysg a GwE mewn partneriaeth gyda'n hysgolion yw addysgu ein plant, ac mae canlyniadau ein hysgolion yn gyson dda. Gwasanaeth gwella ysgolion yw GwE, sydd yn gweithio ar ran chwe Awdurdod Lleol y gogledd, i arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr Adran Addysg a GwE yn rhoi cefnogaeth a her i'n hysgolion er mwyn gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu yn y dosbarth, i gefnogi arweinwyr i wella ansawdd yr arweinyddiaeth yn ein hysgolion – a hyn oll er mwyn gwella canlyniadau ymhellach ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Yng Ngwynedd, mae 80 o ysgolion cynradd, 12 o ysgolion uwchradd, 2 ysgol arbennig a 2 ysgol ddilynol.

Perfformiad

Mae'r ysgolion yn darparu addysg gynhwysol i blant a phobl ifanc hyd at 16 oed. Yng Ngwynedd, caiff addysg ôl-16 ei ddarparu mewn partneriaeth gyda'r colegau a'r ysgolion uwchradd yn Arfon, gan Goleg Meirion-Dwyfor (Grŵp Llandrillo Menai) yn Nwyfor a Meirionnydd ac Ysgol Godre'r Berwyn yn ardal Y Bala.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd clir i Awdurdodau Lleol beidio a chyhoeddi canlyniadau addysgol, ac mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r modd y gellir dal Awdurdodau Addysg yn atebol am berfformiad heb ddata cymharol o berfformiad ar draws Cymru.

Trawsnewid y gyfundrefn ysgolion

Yn dilyn ymgynghori ar gynaliadwyedd y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd, ynghyd â phryderon cyffredinol nad yw'r gyfundrefn ysgolion bresennol yn gynaliadwy, bu i Gabinet y Cyngor fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas canlynol fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn i sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sef:

- Cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- Dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd
- Oddeutu 80% o amser digyswllt i'r Pennaeth ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn y cynradd.

Yn sgil mabwysiadu'r egwyddorion, bydd y maes hwn yn trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran gan y rhagwelir nad proses gyflym, yn ystod cyfnod y Cyngor hwn, fydd gweithredu'r egwyddorion ar draws y gyfundrefn. Byddwn yn symud ymlaen yn bwylllog i sicrhau bod y gyfundrefn addysg yn gallu ymateb i'r newidiadau enfawr sydd ar y gorwel, megis newidiadau i drefn arolygu ysgolion (Estyn), ynghyd â newidiadau sylweddol iawn i'r cwricwlwm a threfniadaeth ein hysgolion yn sgil argymhellion Yr Athro Donaldson.

TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG

Mae rhai o adeiladau ein hysgolion yn hen ac yn anaddas i gyfarch anghenion dysgu ac addysgu ein plant yn y dyfodol. Pwrpas y gwasanaeth yma ydy cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib i'w galluogi i ffynnu.

Dros y cyfnod 2012-2022 bydd y Cyngor wedi llwyddo i fuddsoddi gwerth £73 miliwn i wella cyflwr ac amgylchedd dysgu yr ysgolion canlynol er lles plant y sir:

- Ysgol yr Hendre, Caernarfon
- Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn
- Ysgol Craig y Deryn, Llanegryn
- Ysgol Penybryn, Tywyn
- Ysgol Bro Llifon, Groeslon
- Ysgol Hafod Lon, Penrhyndeudraeth
- Ysgol Glancegin, Maesgeirchen
- Ysgol Bro Idris, Dalgylch Dolgellau
- Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala
- Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, Bangor

Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn datblygu modelau darparu addysg hyfyw sy'n ceisio:

- sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant a staff ysgolion Gwynedd
- gwella amodau ac amgylchiadau i benaethiaid er mwyn eu galluogi i arwain a rheoli ysgolion yn effeithiol a effeithlon
- sicrhau'r defnydd gorau a mwyaf effeithiol o gyllideb yr Adran Addysg.



GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) A CHYNHWYSIAD

Mae'r gwasanaeth yma yn cefnogi plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Mae'r Gwasanaeth ADY yn cynnwys meysydd anghenion dysgu penodol, cyfathrebu a rhyngweithio, nam golwg, nam clyw a meddygol/corfforol.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi ymyrraeth gynnar a chymorth wedi ei deilwra ar gyfer pob disgybl unigol drwy dîm o athrawon a chymorthyddion arbenigol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cynhaliath i ysgolion trwy'r Gwasanaeth Seicoleg. Mae pob disgybl yn cael mynediad llawn i ysgolion Gwynedd gan sicrhau, felly, fod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial.

Mae'r gwasanaeth lles a chynhwysiad yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Cyflwynir y gefnogaeth yma gan dîm o athrawon arbenigol, swyddogion lles, cwmselwyr ysgol a chymorthyddion arbenigol.

Rydym yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd drwy hyfforddi, cefnogi ar lawr dosbarth, a darparu gwasanaeth cynnal ymddygiad y tu allan i ysgolion prif lif. Mae'r gwasanaeth lles yn hyrwyddo presenoldeb drwy weithio gyda disgyblion, ysgolion a theuluoedd. Mae presenoldeb ysgolion Gwynedd dros y dair blynedd ddiwethaf cyn pandemig Covid-19 wedi bod yn gyson dda.

Er bod presenoldeb yn uchel a chyfraddau gwaharddiadau parhaol yn isel, mae'r her o gynnal a hyrwyddo lles a chynhwysiad yn dwysáu gyda nifer cynyddol o ddisgyblion yn arddangos ymddygiad heriol. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod ein hysgolion wedi eu hyfforddi a'u cefnogi'n gywir i gwrdd â'r her. Yn sail i hyn oll, mae'r gwasanaeth yn darparu arweiniad arbenigol ym maes diogelu. Darperir hyfforddiant a chyngor arbenigol i ysgolion ar draws yr awdurdod.

GAGENDOR LLES A CHYRHAEDDIAD

Mae pryder y gall dysgwyr gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu lles a'u cyrhaeddiad yn sgil effaith y cyfnod clo a phandemig Covid-19. Mewn ymateb i hynny, mae pob ysgol yn gweithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

YR IAITH GYMRAEG

Mae'r Gymraeg yn treiddio drwy holl waith a gwasanaethau'r Adran Addysg. Yn unol â rheoliadau newydd Llywodraeth Cymru, rydym wedi llunio ac ymgynghori ar ddogfen statudol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' newydd fydd yn disodli'r ddogfen bresennol ym Medi 2022 ac yn ymateb yn llawn i dargedau 'Cymraeg 2050- Miliwn o Siaradwyr' Llywodraeth Cymru. Mae 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' yn gosod disgwyliadau clir i'r Adran ac i'n hysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc, fel cyfrwng addysgu a dysgu, ac fel cyfrwng cymdeithasu am y deng mlynedd nesa, a thrwy raglen waith y Swyddogion Addysg, Cydlynnydd y Siarter Iaith, Cydlynnydd y Strategaeth Iaith Uwchradd, a'r Cydlynwyr Iaith Dalgylch, mae'r Adran yn cefnogi ysgolion i weithredu'r disgwyliadau hyn yn holl ysgolion y sir.



Mae Gwynedd wedi arwain ar waith arloesol i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd drwy gyfrwng y Siarter Iaith Gymraeg. Pwrpas y Siarter yw cael y plant i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, gan sicrhau cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol i wireddu'r nod.

Gwynedd yw'r unig sir ar draws Cymru sydd wedi llunio Strategaeth Iaith Uwchradd fel dilyniant i'r Siarter Iaith, ac roedd yr ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn awyddus i weld dilyniant sicr i'r Siarter Iaith. Un gwahaniaeth sylfaenol yng nghyd-destun y Strategaeth Iaith Uwchradd yw ei fod yn ymwneud â hyrwyddo defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg.

Mae'r Adran hefyd yn cynnal Canolfannau Iaith sy'n darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu helpu i ddysgu Cymraeg a chyfrannu i fywyd addysgol a chymdeithasol Gwynedd. Mae'r canolfannau yma yn helpu ein hysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith. Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer 'Cyfundrefn Addysg Drochi tuag at 2032 a thu hwnt', gan fuddsoddi £1.1 miliwn o arian cyfalaf addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd yn Nhywyn a Bangor, ynghyd â gwella'r cyfleusterau presennol ym Mhorthmadog. Bydd y gyfundrefn drochi ar ei newydd wedd yn dod i rym yn ystod 2022-23.

ARLWYO A GLANHAU

Pwrpas y Gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yw darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion Ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lân a diogel er mwyn cynorthwyo'r disgyblion i gyrraedd eu potensial.

Yn Tachwedd 2021, cyhoeddwyd bwriad gan Llywodraeth Cymru i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd. Mae'r Adran a'r Cyngor yn croesawu'r bwriad hwn yn fawr, er hynny byddai'r cynllun yma o bosibl yn dyblu'r nifer o ddisgyblion cynradd fyddai'n dewis cinio ysgol, ac felly mae nifer o ystyriaethau angen eu cyfarch a byddwn angen cychwyn ar y gwaith sgôpio yn ystod 2022/23. Mae'r gwaith yma wedi ei gynnwys fel prosiect sydd yn ymwneud a Blaenoriaeth Gwella 2 (Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial).

CANOLFAN FUSNES YSGOLION

Ers peth amser, mae cynnydd wedi bod ym mhryderon penaethiaid ysgolion ynglŷn a'u hamodau gwaith wrth iddynt orfod cyflawni nifer o rolau gwahanol; fel arweinwyr, rheolwyr, athrawon a gweinyddwyr. Mae arolygiadau Estyn yn ddieithriad yn dangos mai arweinyddiaeth effeithiol, gyda'r adnoddau ac amser digonol ynghlwm wrth hynny, sydd yn arwain at addysg dda a safonau uchel.

Ers Medi 2019 sefydlwyd y Ganolfan Fusnes Ysgolion er mwyn datblygu'r gefnogaeth a'r gynhaliaeth i'n hysgolion, a rhesymoli a rhannu'r gofynion rheolaethol. Gwaith craidd y Ganolfan Fusnes Ysgolion yw darparu gwasanaeth rheoli gwybodaeth (SIMS) i'r ysgolion cynradd, a chanolbwyntir hefyd ar ddarparu cytundeb lefel gwasanaeth i'r ysgolion cynradd sydd yn sicrhau gwasanaethau megis cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd i ysgolion. Ceir ffocws hefyd ar leihau baich gwaith rheolaethol a gweinyddol penaethiaid ac athrawon.

GWASANAETH ADNODDAU

Pwrpas y gwasanaeth yma ydy rhoi cefnogaeth statudol angenrheidiol i ysgolion Gwynedd allu gweithredu o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys mynediad i ysgolion, cyflogau a chontractau staff, a chludiant i ysgolion. Rhoddir hefyd gefnogaeth cyllidol, adnoddau dynol, iechyd a diogelwch a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i ysgolion. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cefnogaeth i Lywodraethwyr ysgolion.

Mae'r gwasanaeth yma yn rhoi cefnogaeth statudol angenrheidiol i ysgolion Gwynedd allu gweithredu o ddydd i ddydd. Mae 3 gwasanaeth penodol, sef:

- Cyflogau a Chontractau Staff Ysgolion
- Uned Ddata Addysg
- Cefnogi Llywodraethwyr

Mae'r Gwasanaeth Cyflogau a Chontractau Staff Ysgolion yn sicrhau bod yr ysgolion yn derbyn gwasanaeth cefnogol o'r safon uchaf ym maes cyflogau a chontractau yn brydlon ac yn gywir. Mae hyn yn galluogi'r penaethiaid a llywodraethwyr ganolbwyntio ar addysg ein plant.

Mae gwasanaeth yr Uned Data Addysg yn rhoi cefnogaeth i'r Adran drwy ddarparu isadeiledd data a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n gyrru penderfyniadau a pherfformiad. Mae Gwasanaeth Mynediad Ysgolion hefyd yn rhan o waith yr Uned Ddata Addysg.

Mae Gwasanaeth Cefnogi Llywodraethwyr yn cefnogi llywodraethwyr ysgolion Gwynedd i weithredu'n effeithiol trwy sicrhau eu bod yn deall eu rôl, drwy roi cefnogaeth strategol ac ymarferol iddynt yn ôl yr angen, eu cynghori'n briodol, yn ogystal â thrwy ddarparu rhaglen o hyfforddiant pwrpasol ar eu cyfer er mwyn sicrhau llywodraethiant effeithiol ein hysgolion. Mae gan yr Adran Addysg hefyd bwerau ymyrryd i'w defnyddio pan nad yw ysgol yn cael ei llywodraethu'n briodol.

Mae'r Gwasanaeth Adnoddau hefyd yn darparu cefnogaeth gyllidol, adnoddau dynol ac iechyd a diogelwch i ysgolion ynghyd ag arwain ar faterion cludiant addysg.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant



Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn darparu amryw o wasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion 18 oed neu hŷn sydd angen cyngor, gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol. Pwrpas yr adran yw i alluogi oedolion Gwynedd i *'fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw'*

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth ganlynol:

- Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol – (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal – (Blaenoriaeth Gwella 6)

Nodir hefyd fod yr Adran yn cyfrannu tuag at flaenoriaeth gwella Cynllunio'r Gweithlu (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) gan ymateb yn benodol i'r heriau recriwtio yn y maes gofal a sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Wrth gwrs, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar holl wasanaethau'r adran. Er ein bod wedi llwyddo i gynnal y rhan helaethaf o'n gwasanaethau, mae hynny wedi bod ar ffurf rhywfaint yn wahanol gydag ambell wasanaeth. Mae'r her o adfer rhai o'r gwasanaethau hyn wedi ein wynebu yn ystod 2021/22, a gyda Covid-19 dal gyda ni mae darparu gwasanaethau yn parhau yn heriol iawn. Fe fydd angen pwysu a mesur ein opsiynau o ran adfer y gwasanaeth ar yr un wedd neu roi gwasanaeth newydd yn ei le.

Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anabledd Corff a Synhwyrdd

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i helpu unigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion i geisio cyflawni eu hamcanion personol drwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r gwasanaeth yn asesu anghenion mewn dull sy'n adeiladu ar gryfderau unigolion. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn ffordd syml a hwylus o fewn cymunedau.

Er mwyn parhau i wella ein cynnig ddi-dor, byddwn yn adeiladu ar y berthynas waith rhyngom â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, asiantaethau statudol a'r trydydd sector, a hynny er mwyn cyfarch amcanion personol oedolion.

Gwasanaeth Iechyd Meddwl

Pwrpas y gwasanaeth yma yw i gynnig cefnogaeth i unigolion dros ddeunaw sy'n profi anawsterau iechyd meddwl gan roi cymorth iddynt i fyw bywyd llawn ac i gefnogi adfywiad.



Rydym yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i gefnogi unigolion ag anawsterau iechyd meddwl o fewn y gwasanaethau cynradd ac yn cefnogi unigolion efo anghenion mwy dwys neu gymhleth, er mwyn hyrwyddo adferiad a'u cefnogi i fyw yn annibynnol. Rydym hefyd yn cynnig asesiad a chefnogaeth i ofalwyr iechyd meddwl.

Mae'r argyfwng Covid-19 wedi creu sawl her i'r Gwasanaeth gan nad oedd yn bosibl cynnig asesiadau a chefnogaeth wyneb i wyneb. Er yr heriau, mae hefyd wedi cynnig cyfleoedd o ran darparu cefnogaeth rithiol sy'n fwy derbyniol i'r garfan iau ac yn gymorth i ddarparu mynediad i grwpiau.

Gwasanaeth Anableddau Dysgu



Pwrpas y gwasanaeth yw i gyfarch a hyrwyddo anghenion llesiant unigolion ag anabledd dysgu, boed hynny'n anghenion corfforol, emosiynol, meddyliol neu gymdeithasol, a sicrhau ein bod yn cyfarch be sy'n bwysig i unigolion ag anabledd dysgu a'u gofalwyr.

Er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn llawn i anghenion unigolion, bydd ystod eang o'n gwasanaethau'n aml yn cael eu cynnig mewn partneriaeth. Gall hyn fod yn gefnogaeth i fyw yn annibynnol, cefnogaeth allan yn y gymuned, neu lawer mwy.

Rydym eisiau canolbwyntio ar ddarpariaeth sy'n cynnig cyfleoedd i gymdeithasu a chynnal perthnasoedd. Mae ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol drwy'r hybiau lleol a chael ein harwain gan yr unigolion a'u gofalwyr.



Gwasanaeth Llesiant

Prif bwrpas y gwasanaeth yw i wella ansawdd bywyd drwy gysylltu pobl. Rydym hefyd yn cydlynu'r gefnogaeth i ofalwyr di-dal ar draws gwasanaethau'r Cyngor yn ogystal â chefnogi y rhaglen waith Gwynedd Oed Gyfeillgar, sydd â'r prosiect

Pontio'r Cenedlaethau yn ganolog iddo. Rydym yn gwneud hyn drwy gynlluniau sydd â'r elfennau canlynol yn ganolog iddynt:

- pwyslais ar fod yn gymdeithasol a chymunedol (lleihau unigrwydd)
- hybu iechyd a lles positif
- hyrwyddo cydweithio gyda phobl a rhwng pobl
- cryfhau a datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Yn ail hanner y flwyddyn ariannol bresennol, rydym wedi derbyn 3 ffrwd gyllidol ychwanegol i gefnogi pobol Gwynedd i adfer ar ôl sgil effeithiau'r pandemig. Mae'r gronfa i hybu pobl hŷn i ail godi allan ac i hybu i'w lleisiau gael ei glywed, wedi golygu ein bod wedi gwneud cysylltiadau newydd gyda gwahanol grwpiau cymunedol ar draws Gwynedd. Yn 2022/23, gobeithiwn y bydd arlwy o weithgareddau sy'n dod â phobol at ei gilydd, wedi eu trefnu ar lawr gwlad yn ein cymunedau. Mae'r Cronfeydd ychwanegol ar gyfer gofalwyr di-dâl, boed yn oedolion neu yn bobl ifanc a phlant, wedi caniatáu talu am amrywiaeth eang o gefnogaeth ychwanegol i ofalwyr, gyda'r hyblygrwydd sydd

ynghlwm wrth y cytundebau, yn sicrhau bod y cymorth ddigon hyblyg i gael ei deilwrio i gwrdd ag anghenion y gofalydd unigol.

Gwasanaeth Darparu



Rydym yn darparu gofal preswyl, gofal cymunedol a gofal dydd ar gyfer oedolion ag anghenion dwys a chymhleth.

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am y meysydd isod:

- darpariaeth Gofal Preswyl a Gofal Preswyl Dementia
- darpariaeth Gofal Cartref
- darpariaeth Gofal Dydd.

Mae llawer o waith y gwasanaeth yn derbyn sylw o fewn y prosiectau blaenoriaeth y mae'r adran yn arwain arnynt.

Roedd ardal Dolgellau wedi'i adnabod fel blaenoriaeth i ddatblygu darpariaeth gofal pwrpasol, ac mae'r ymdrech i adnabod safleoedd ar gyfer datblygiad yn yr ardal yma'n parhau. Rydym hefyd yn edrych ar ardaloedd eraill ym Meirionnydd yn ehangach.

Roedd galw hefyd am unedau pwrpasol i drigolion Llŷn, ac mae'r gwaith o adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwlheli wedi cychwyn mewn partneriaeth â chymdeithas dai **Adra**. Disgwylir i'r cynllun 28 fflat gael ei gwblhau yn ystod 2022/23.

Mae'r flaenoriaeth yma yn derbyn sylw o fewn y prosiect flaenoriaeth 'Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol.'

Mae argyfwng Covid-19 wedi creu heriau newydd a gwahanol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn benodol, ac wrth i ni ystyried datblygiad pellach y gwasanaeth fe fydd yn hanfodol ein bod yn sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi sy'n deillio o'r heriau hynny.



Gwasanaethau Diogelu a Diogelwch Cymunedol

Pwrpas y **Gwasanaeth Diogelu** yw diogelu unigolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth ac sy'n dioddef camdriniaeth neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth. Rydym yn sicrhau ansawdd gwaith diogelu'r Adran drwy fonitro a chynnal archwiliadau i brofiadau unigolion.

Rydym yn arwain ar achosion o bryderon cynyddol, trefniadau o Ddiogelu Rhag Colli Rhyddid (trefn sy'n cefnogi ac amddiffyn pobl sy'n methu a gwneud penderfyniadau eu hunain na rhoi caniatâd am eu gofal) ac yn ymateb i gwynion a phryderon yn amserol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am arwain gwaith partneriaeth **Diogelwch Cymunedol**, sy'n bartneriaeth statudol. Rydym yn gweithio dros ddwy sir, sef Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae'r risg wedi ei reoli (gan eithrio rhai wrthododd ymyrraeth)

2018/19
94.2%

2019/20
97%

2020/21
91.46%

Byddwn yn arwain ar y gwaith ar ran yr holl aelodau cyfrifol, sef y ddau Gyngor, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Prawf a'r Bwrdd Iechyd i daclo a lleihau trosedd ac anhrefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir. Byddwn rŵan yn gweithio ar gynllun y bartneriaeth ar gyfer 2022/23 er mwyn ymateb i flaenoriaethau trosedd ac anrhefn a adnabuwyd yn y ddwy sir.

Yn ystod cyfnod yr argyfwng Covid-19, rydym wedi gweld cynnydd mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol o fewn ein cymunedau. Mae tasglu traws adrannol wedi ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael a'r problemau hyn.



Gwasanaeth Busnes

Rydym yn darparu cefnogaeth i dimau rheng-flaen yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, a hynny er mwyn eu galluogi i gyflawni eu pwrpas er lles trigolion Gwynedd. Rydym yn gyfrifol am:

- Teleofal
- Datblygu'r Gweithlu
- Cyllid Cleientiaid
- Uned Incwm a Lles
- Contractio a Chomisiynu
- Gwasanaeth Gweinyddol
- Uned Cefnogi Systemau

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol



Mae'r adran hon yn darparu gwasanaethau rheng flaen sy'n bwysig i drigolion Gwynedd, megis casglu gwastraff, gwasanaethau profedigaeth a chynnal a chadw ffyrdd, cynnal fflyd, caeau chwarae a thiroedd gwyrdd. Mae gofalu am amgylchedd arbennig y sir yn ganolog i waith yr adran, ac mae'n cyfrannu at Gynllun Gweithredu Newid Hinsawdd y Cyngor. Mae'r Adran yn ogystal wedi llwyddo cyrraedd Achrediad Bsi 4500I (Iechyd a Diogelwch): 1400I (Amgylcheddol) a 900I (Rheolaeth Ansawdd)

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth ganlynol:

- Cymunedau Glân a Thaclus – (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu - (Blaenoriaeth Gwella 7)

Gwastraff ac Ailgylchu




Mae'r adran yn gyfrifol am dros filiwn o gasgliadau gwastraff o fewn cyfnod o 3 mis. Mae rhai o'r casgliadau yma'n cael eu methu, ac er bod y ffigwr yn isel (llai na 1%) rydym yn cydnabod bod y methiant yn bwysig i'r trigolyn. Mae'r adran bellach yn casglu gwybodaeth er mwyn dod i ddeall pam fod hyn yn digwydd ac i'w galluogi i ymateb i unrhyw broblemau perthnasol.

Rydym yn y broses o gyflwyno trefniadau casglu newydd a fydd yn lleihau'r nifer o gasgliadau sy'n cael eu methu ac yn gwella profiadau pobl Gwynedd o'r gwasanaeth gan sicrhau y bydd yr un criw ar yr un gylchdaith bob tro.

Mae'r newidiadau i drefniadau casglu gwastraff pob tair wythnos, a chasglu gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu yn wythnosol, wedi arwain at gynnydd mewn ailgylchu, a bu i'r Cyngor gyrraedd targed statudol Llywodraeth Cymru o 64% o wastraff y sir yn cael ei ailgylchu erbyn diwedd Mawrth 2019/20 gyda perfformiad Gwynedd ar ddiwedd 2020/21 yn 65%. Bydd y targed yn codi i **70% erbyn Mawrth, 2025**.

Mae'n hanfodol ymdrin â **gwastraff** mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i'n plant a phlant ein plant. Mae Cyngor Gwynedd yn falch ein bod yn ymdrin â'n gwastraff mewn dull cyfrifol, a'n bod yn uchafu bod mor ecogyfeillgar â phosib yn y broses hon.

Ailgylchu Gwynedd



Mae claddu gwastraff yn y ddaear yn achosi llygredd i'r tir, dŵr a'r awyr. Ers mis Awst 2019 ni wnaethom anfon dim i dirlenwi yn uniongyrchol gan ein bod yn trin ein gwastraff gweddilliol yn y safle gwastraff i drydan, Parc Adfer.


Mae'r hen safleoedd tirlenwi o fewn y sir bellach wedi cau ac yr ydym yn llosgi'r nwyon yn unol â rheoliadau'r cynllun cau. Rydym hefyd yn gyfrifol am y drefn o gasglu gwastraff gardd drwy'r sir gan ei droi yn gompost/gwrtaith. Mae'r Adran yn cynnig y compost er defnydd trigolion Gwynedd ar adegau penodol yn y flwyddyn.

GwyrAD

GwyrAD yw ein safle trin bwyd sydd wedi ei leoli o fewn y sir, ac yn trin yr holl fwyd a gesglir gan drigolion a busnesau Gwynedd. Mae'r safle yn gallu ymdrin ag 11,000 tonnell o wastraff bwyd gan ei droi yn ynni gwyrdd sy'n cael ei gyflenwi i'r grid cenedlaethol. Mae hyn yn ddigon i gynhyrchu trydan i 850 o dai.

Mae capasiti o fewn y safle i gynyddu'r tunelli o fwyd yr ydym yn ei gasglu er mwyn atal unrhyw wastraff rhag cyrraedd y bin gwastraff gweddilliol, a byddwn yn gweithio tuag at y nod hwnnw yn ystod 2022/23. Casglwyd 5144 tonnell o wastraff bwyd domestig a masnachol yn ystod 2020/21. Byddwn yn anelu i gynyddu ar y tunelli yma dros y flwyddyn nesaf.

Gwasanaethau Gwastraff Masnachol



Rydym yn darparu casgliadau gwastraff ac ailgylchu masnachol i dros 2,000 o fusnesau'r sir. Ers peth amser, rydym wedi cyflwyno casgliadau ailgylchu a bwyd fel rhan o'r pecyn sydd ar gael i'r busnesau i sicrhau bod y cwmnïau'n dargyfeirio eu gwastraff o'r bin gweddilliol a manteisio ar y drefn ailgylchu. Mae hyn yn cyfrannu at berfformiad ailgylchu'r cyngor wrth adrodd yn erbyn ein targedau statudol ac mae'r perfformiad wedi codi'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Gyda

thargedau statudol yn codi mae peth gwaith i'w wneud er mwyn gwella ymhellach a bydd gofyniad i wahanu deunydd ailgylchu, sydd ar hyn o bryd yn cael eu casglu mewn un bin cymysg gennym, yn dod i rym. Bydd y drefn newydd yn sicrhau fod y gwastraff yn cael ei drin yn gywir er budd yr amgylchedd.

Cynllun Gweithredu Maes Gwastraff


- Mae newidiadau yn nhrefniadau casglu gwastraff/ailgylchu Gwynedd wedi gwella'r profiad a'r gwasanaeth i drigolion y Sir, gan leihau'r nifer o gasgliadau sy'n cael eu methu ynghyd a thaclusrwydd wedi'r casgliad. Rydym yn y broses o fonitro effaith y newid yma ar y gwasanaeth.
- Datblygu strategaeth wastraff newydd i'r Sir sydd yn ystyried dulliau arloesol i annog aildddefnyddio a chynyddu ailgylchu. Drwy hyn gallwn gyrraedd y targed statudol newydd o 70% o wastraff yn cael ei ailgylchu erbyn 2025.
- Cynyddu ein casgliadau bwyd domestig a masnachol er mwyn ei drin yn GwyrAD a lleihau faint o'r deunydd yma sy'n cyrraedd y bin gweddilliol.
- Parhau i leihau ar wastraff gweddilliol a gynhyrchir.
- Adeiladu ar ein gwaith cychwynnol o hyrwyddo economi gylchol yng Ngwynedd (sef economi sy'n hybu aildddefnyddio ac ailgylchu gan leihau gwastraff).
- Edrych i gynyddu ein darpariaeth fasnachol er mwyn dod a ffrwd incwm i'r Cyngor a sicrhau fod gwastraff y sir yn cael ei ymdrin ag o mewn ffordd gyfrifol ac ecogyfeillgar.
- Cynnig casgliadau ailgylchu wedi eu gwahanu i gwsmeriaid masnachol.
- Cyflwyno mwy o finiau ailgylchu man sbwriel ar ein strydoedd .
- Ehangu ar ein rhwydwaith o siopau ail-dddefnyddio o fewn ein Canolfannau Ailgylchu.

Edrychiad Strydoedd a Thiroedd Cyhoeddus

O ran yr amgylchedd lleol, mae'n hynod bwysig bod ein strydoedd yn lân a diogel ac felly mae'n rhaid eu glanhau'n rheolaidd. Mae edrychiad strydoedd a manau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd ac mae tîm bychan o swyddogion yn gyfrifol am ymdrin â throseddau amgylcheddol fel tipio slei bach, graffiti a baw cŵn. Rydym yn y broses o ddatblygu system i fesur y nifer o ddiwrnodau mae'n cymryd i glirio tipio anghyfreithlon. Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio mesur o'r enw 'Mynegai Glendid' (cyfuniad o asesiad mewnol ac allanol) er mwyn asesu safon glendid ac edrychiad strydoedd.



Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarêts sydd ar unrhyw stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast. Yn ddiweddar, cynhaliodd Cadwch Gymru'n Daclus arolwg glanweithdra ar gyfer 2021/22, gwelir ein bod wedi sgorio'n uchel i'w gymharu â chyfartaledd Cymru. Mae'r sgôr wedi'i gofnodi isod. Nid oedd arolwg yn ystod 2020-21 oherwydd sefyllfa Covid.



Timau Cymunedau Glan a Thaclus

Yn ddiweddar, llwyddom i ennill buddsoddiad sylweddol er mwyn sefydlu Tîm Cymunedau Glan a Thaclus i ymgymryd â man waith cynnal ac i ategu gweithgareddau cynnal rheolaidd. Y bwriad yw ymateb i bryderon ar lefel cymunedol a gwneud gwahaniaeth gweladwy i ddelwedd yr ardal. Bydd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at lendid, taclusrwydd a diogelwch yr amgylchedd adeiledig lleol. Gobeithiwn sefydlu 5 Tim ar draws Gwynedd, a bydd hyn yn weithredol erbyn mis Ebrill 2022.

Fel rhan o'r cynllun hwn rydym hefyd yn awyddus i sefydlu partneriaethau tebyg ledled y sir, er mwyn cydweithio â chymunedau i wella edrychaid ac amgylchedd eu bro.



Cynnal Tiroedd



Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal ymylon ffyrdd a thiroedd agored er mwyn gwella ansawdd amgylchedd ein trefi a'n pentrefi a'u gwneud yn fwy diogel i drigolion. Erbyn hyn, rydym wedi llwyddo i fanteisio ar gyfleoedd i hybu bioamrywiaeth, tra hefyd yn sicrhau fod ein cyffyrdd a'n mannau cyhoeddus yn aros yn ddiogel a deniadol. Rydym bellach yn edrych i ddatblygu polisi priodol yn y maes hwn.

Caeau Chwarae Plant

Mae plant, rhieni a gofalwyr plant yn gwerthfawrogi meysydd chwarae ac rydym yn cynnal 127 ohonynt ledled y sir. Mae offer chwarae yn ddrud iawn ac mae'r arian ar gyfer cael offer newydd yn hynod brin.



Byddwn yn ceisio cynnal meysydd chwarae fel eu bod yn ddiogel i blant a phobl ifanc gael eu mwynhau.

Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- addasu ein patrymau torri gwair er mwyn hybu bioamrywiaeth
- gweithredu ar ddulliau ecogyfeillgar o ymdrin â chwyn, gan geisio osgoi defnyddio chwynladdwr niweidiol lle bynnag y bo'n bosib
- ehangu ar ddatblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir
- edrych ar ddulliau amgen o gynnal a chadw meysydd chwarae, drwy gydweithio â chymunedau/phartneriaid.

Gwasanaeth Profedigaeth




Rydym yn rheoli Amlogfa Bangor ac 16 o fynwentydd prysuraf a mwyaf y sir.

Mae'r gwasanaeth profedigaeth yn un hollbwysig i drigolion a byddwn yn sicrhau gwasanaeth sy'n briodol a pharchus.

Toiledau Cyhoeddus



Mae'r Adran yn gyfrifol am gynnal a glanhau **toiledau cyhoeddus** y sir. Nid oes rhaid i'r Cyngor ddarparu toiledau cyhoeddus, ac fe ddaeth cynllun i gau nifer o doiledau'r sir yn dilyn ymgynghoriad 'Her Gwynedd'. Serch hynny, creda'r adran fod darpariaeth o doiledau cyhoeddus addas yn bwysig i brofiad unigolion o'r sir, ac fe ddatblygwyd dulliau amgen o gadw cymaint o doiledau a phosib ar agor - drwy bartneriaethu â chynghorau cymuned neu drwy gefnogi toiledau cymunedol o fewn busnesau Gwynedd. Sefydlwyd trefn partneriaethau gyda chynghorau cymuned a thref sydd erbyn hyn yn llawn weithredol. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi partneriaethu gyda'r Cyngor i gynnal darpariaeth amgen. Drwy weithio ar y cyd, rydym ymhlith y siroedd sydd â'r darpariaethau uchaf o doiledau cyhoeddus yng Nghymru.



Teledu Cylch Cyfyng



Er mwyn diogelu a gwarchod y gymuned rydym yn gofalu am rwydwaith o gamerâu Teledu Cylch Cyfyng (CCTV) ym mannau poblog y sir sef Bangor, Caernarfon a Phyllheli. Mae'r systemau yn cynorthwyo i fonitro digwyddiadau troseddol a gwrthgymdeithasol.

Mae'r Adran wedi gwella'r rhwydwaith o gamerâu teledu cylch cyfyng ar draws Gwynedd er mwyn parhau gyda'r gwaith o ddiogelu trigolion ac eiddo'r sir.

Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- lle mae'n bosib, cynnig ehangu'r rhwydwaith drwy gydweithio â chymunedau a phartneriaethau eraill
- Cyd weithio gyda'r heddlu ar gynllun strydoedd diogel

Gwasanaeth Fflyd

Mae'r Adran yn gyfrifol am reoli a chynnal holl fflyd y cyngor. Mae'r Gwasanaeth Fflyd yn arwain a rhoi cymorth i adrannau'r cyngor er mwyn sicrhau defnydd priodol, diogel a chyfreithlon o'u cerbydau.

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am gynnal a chadw dros 400 o gerbydau i safon uchel ac fe wneir hyn dros dri lleoliad gwahanol ar draws Gwynedd gyda gweithdai yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

Mae'r adran yn gweithio tuag at leihau allyriadau carbon y fflyd. Ein nod yw buddsoddi mewn mewn cerbydau effeithlon, gan gynnwys cerbydau trydan. Sefydlwyd gwaelodin ar gyfer ein allyriadau fflyd yn ystod 2018 ac yr ydym yn falch o adrodd ein bod wedi gweld gostyngiad o 2.03% yn ein allyriadau-serch prysurdeb y cyfnod clo.

Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:


- datblygu strategaeth er blaenoriaethu'r gwaith o ddad-garboneiddio'r fflyd,
- treialu cerbydau trydan mewn sawl gwasanaeth,
- ymchwilio i'r potensial o ddefnyddio hydrogen fel tanwydd di-garbon i redeg ein fflyd drom,
- sefydlu system pŵl cerbydau ar gyfer y Cyngor, gan edrych hefyd ar gynnig defnydd cymunedol,
- sefydlu rhwydwaith gwefru ar draws y Sir.

Priffyrdd a Goleuo Stryd



Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o **ffyrdd sirol** ynghyd â 199 cilomedr o **gefnydd** (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 3% ohonynt yn ddiffygiol ac angen sylw.

Gyda lleihad yn y gyllideb berthnasol, parhau mae'r dirywiad yng nghyflwr ein ffyrdd Dosbarth C a di-ddosbarth. Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorfod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd yn her i ni atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig y ffyrdd o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a di-ddosbarth.



Mae Côt Ymarfer cenedlaethol newydd mewn grym erbyn hyn sydd yn rhoi pwyslais ar reoli risg.

Mae'r gwasanaeth yn y broses o gyflwyno newidiadau i'r Cynllun Cynnal Asedau Priffyrdd er cysoni a diwygio i sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r côd newydd. Rydym yn ceisio atal dirywiad sydyn yn safon ein ffyrdd. Drwy wneud hyn byddwn yn adlewyrchu ar yr hyn sydd o fewn y côd ymarfer newydd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn treialu defnydd o ddeunyddiau newydd neu ail-ddefnyddio deunyddiau er mwyn llenwi tyllau. Bydd hyn yn ein cynorthwyo drwy leihau ar waredu gwastraff ac yn cyfrannu at ein gwaith o leihau ein ôl troed carbon.

Cytundeb Cynnal Priffyrdd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am arwain partneriaeth o saith cyngor yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru er mwyn rheoli a chynnal 1,100km o gefnffyrdd (priffyrdd cenedlaethol pwysig Llywodraeth Cymru).



Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

Ein Gwasanaeth Priffyrdd sydd yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ynghyd â delio â damweiniau a digwyddiadau sy'n deillio o dywydd garw a thu allan i oriau gwaith arferol.



Cynnal a Chadw Pontydd a Strwythurau


Rydym yn cynnal a chadw 631 pont drwy'r sir. Mae 338 pont bwa a 96 pont wedi eu rhestru sydd â gofynion ychwanegol. Yn ogystal, mae gennym 1,618 o waliau cynnal drwy'r sir sydd hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw gan yr adran.

Goleuo Stryd

Rydym yn cynnal 18,705 o **oleuadau stryd** a 6,067 o **arwyddion** wedi eu goleuo er mwyn gwneud ein ffyrdd a'n strydoedd yn fwy diogel. Mae goleuadau yn defnyddio ynni trydan sydd ag effaith andwyol ar yr amgylchedd o safbwynt allyriadau carbon a llygredd golau.

Rydym wedi bod yn newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED (light emitting diode) gyda'r mwyafrif yn pylu neu ddiffodd pan fo'n briodol. Mae hyn i bwrpas lleihau costau ynni, lleihau allyriadau carbon ac atal llygredd golau heddiw ac i'r dyfodol. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cynorthwyo lleihau carbon wrth flaenoriaethu'r gwaith yma.

Allyriadau CO2 o ganlyniad i oleuadau stryd fesul blwyddyn (mewn tunelli)



Dros gyfnod y cynllun byddwn yn:

- cyflwyno Cynllun Cynnal Asedau newydd sydd yn blaenoriaethu ar sail risg,
- treialu dulliau ecogyfeillgar newydd o drin ein ffyrdd gan annog ail-ddefnyddio deunyddiau crai.
- cyflwyno trefn electroneg symudol er mwyn i'n gweithwyr dderbyn a chofnodi gwaith. Bydd hyn yn galluogi i ni gyflawni'r gwaith yn fwy effeithlon.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd



Ein pwrpas yw sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu rhag niwed; yn profi sefydlogrwydd yn eu bywyd ac yn cael y cyfleoedd gorau o ran eu hiechyd a'u lles.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Cefnogi Llesiant Pobl - (Blaenoriaeth Gwella 3)
- Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd - (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth - (Blaenoriaeth Gwella 6)
- Sicrhau fod teuluoedd a phlant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu - (Blaenoriaeth Gwella 6)

Nodir hefyd fod yr Adran yn cyfrannu tuag at flaenoriaeth gwella Cynllunio'r Gweithlu (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) gan ymateb yn benodol i'r heriau recriwtio yn y maes gofal cymdeithasol plant a sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Mae sawl tîm o fewn ein gwasanaeth ac rydym yn gweithio o fewn 3 haen o angen:

1. **Ymyrraeth Gynnar**
2. **Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal**
3. **Timau Arbenigol**

Yng Ngwynedd rydym yn credu y dylai pob plentyn a pherson ifanc gael y cyfle i gyrraedd eu llawn botensial. Rydym yn cydnabod bod plant yn datblygu orau pan maent yn cael eu cefnogi i dyfu a llwyddo o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd yn cydnabod bod cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys.

Mae hyrwyddo llesiant a cefnogi trigolion i ffynnu yn mynd y tu hwnt i wasanaethau adrannau unigol, ac oherwydd hynny rydym am wneud gwaith pellach ar draws holl wasanaethau ataliol y Cyngor er mwyn gwella ein gallu i ymateb i anghenion trigolion Gwynedd, mewn dull cydlynus, integredig ac effeithlon.

Ymyrraeth Gynnar

Mae cynnig ymyrraeth yn gynnar yn hanfodol er mwyn helpu plant a'u teuluoedd i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Mae gennym nifer o wasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar boed hynny yn gynnar ym mywyd plentyn er mwyn iddynt gael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu; neu'n gynnar pan fo her neu bryder yn amlygu gyntaf cyn i bethau waethygu; a byddwn yn gwneud hynny drwy weithio gyda'r teulu cyfan.

Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar

Ein pwrpas yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed drwy gefnogi darpariaethau addysg feithrin, datblygu'r sector gofal plant a chwarae, a darparu pecynnau rhiantu i helpu teuluoedd i fagu plant iach, hapus a diogel.

Rydym hefyd yn darparu pecynnau o gefnogaeth fwy dwys mewn ardaloedd penodol o Wynedd drwy'r rhaglen **Dechrau'n Deg**. Mae'r rhaglen yn cefnogi teuluoedd gyda magu plant a rhiantu, datblygiad iaith a lleferydd plant, a chefnogaeth iechyd a gofal, a hynny mewn timau aml-asiantaethol o fyd addysg, gofal a iechyd.



Tîm o Amgylch y Teulu

Ein pwrpas yw ymyrryd yn gynnar pan fo problemau o fewn teuluoedd yn dod i'r amlwg, ond mae hyn yn digwydd yn wirfoddol gyda chaniatâd y teulu. Byddwn yn helpu drwy ymateb i anghenion a darparu gwasanaethau priodol.

Rydym wedi derbyn 309 o gyfeiriadau i'r Tîm o Amgylch y Teulu yn ystod 2020-21.

Gwasanaeth Ieuenctid

Mae cael y cyfle i gymdeithasu, i gymryd rhan mewn gweithgareddau a pharhau i ddysgu a datblygu sgiliau newydd y tu allan i'r ysgol yn bwysig i bobl ifanc y sir. Mae cefnogi pobl ifanc i adeiladu gwydnwch i ddelio gydag unrhyw heriau all eu hwynebu yn y dyfodol yn bwysig iawn i'r Gwasanaeth Ieuenctid. Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym eu bod eisiau ein cefnogaeth ni i'w helpu i edrych ar ôl eu hiechyd a lles, i'w helpu i ddatblygu a dysgu sgiliau, ac i'w helpu i fod yn rhan o'u cymunedau.


Anghenion gofal a chefnogaeth, diogelu a gofal

Mae'r mwyafrif o blant a phobl ifanc yng Ngwynedd yn byw bywydau hapus, diogel ac yn mwynhau cyfleoedd i ddysgu ac i chwarae. Fodd bynnag, mae rhai plant a'u teuluoedd angen cyngor a chymorth mwy ffurfiol ar adegau.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am arwain, ymchwilio a rheoli ymyraethau diogelu plant y sir. Rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, meddygon, ac ymwelwyr iechyd ayyb i gyflawni'r cyfrifoldeb statudol yma. Mae'r cyfrifoldeb i ddiogelu yn un o gyfrifoldebau pwysicaf y Cyngor.

Mae'r **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth** yn cynnal safonau uchel wrth ymateb yn amserol i gyfeiriadau all fod yn rhai diogelu, ac i gyfeiriadau am ofal a chefnogaeth. Er mwyn diogelu plant a phobl ifanc rydym yn ymateb heb oedi i gyfeiriadau. Pan fo'r cyfeiriadau hynny yn cynnwys pryderon am honiadau o gamdriniaeth, rydym angen ymchwilio i'r honiadau yn unol â'r Canllawiau Amddiffyn Plant. Byddwn yn gwneud penderfyniad ar bob achos o fewn pedair awr ar hugain er mwyn penderfynu ar y ffordd orau i ymateb.

Mae'r **Timau Gwaith Cymdeithasol** yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth ddwys i blant a'u teuluoedd. Mae gweithwyr cymdeithasol yn gweld plant a'u teuluoedd yn rheolaidd ac yn cadw cysylltiad da gyda hwy gan fod yn effro i faterion o risg i blant a phobl ifanc. Rydym yn sicrhau fod adnoddau ar gael i'w cefnogi a bod eu hanghenion yn glir i ni. Mae cynlluniau yn eu lle wedyn ar gyfer ymateb i'w anghenion. Ar adegau, rydym yn cyfeirio ymlaen i dimau sydd yn cynnig ymyrraeth fwy arbenigol, fel y gwasanaethau yn y Tîm Trobwynt.



Rydym yn cynnal ymchwiliadau amddiffyn plant, ac weithiau mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth ddwys iawn ac mae angen i ni ddod â phlant sydd mewn perygl i ofal y Cyngor.



Mae plant yn dod i'n gofal fel arfer o dan amgylchiadau anodd iawn, ac rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun.

I sicrhau fod plant a phobl ifanc yn profi sefydlogrwydd rydym yn cefnogi plant i fyw gartref gyda chefnogaeth lle bo hynny'n bosibl. Rhoddir pwyslais hefyd ar geisio lleoli plentyn gydag aelodau o'i deulu estynedig neu ffrindiau'r teulu. Lle nad yw hynny'n bosibl, lleolir y plentyn gyda gofalywyr maeth cofrestredig, neu ar adegau bydd rhai plant a phobl ifanc angen unedau preswyl arbenigol i gwrdd ag anghenion penodol.

Rôl y **Tîm Maethu** yw sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref.

Rydym yn asesu a chefnogi gofalywyr maeth er mwyn iddynt allu cynnig y gefnogaeth angenrheidiol i blant sy'n dod i'n gofal, ac mae hyn yn flaenoriaeth uchel i'r Adran. Rydym yn ymwybodol bod plant sydd mewn sefyllfaoedd sefydlog yn cael y cyfle gorau i brofi'r ffiniau hynny sydd yn allweddol i ddatblygiad da. Mae hyn yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r canlyniadau gorau iddynt.


Tra bo plentyn yng ngofal y Cyngor, ein cyfrifoldeb yw darparu cynllun gofal clir ar ei gyfer sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau fod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud er lles y plentyn ac nad oes unrhyw oediad yn ei gynllun.



Mae'r **Tîm Ôl-16** yn cefnogi pobl ifanc sydd un ai angen eu diogelu neu angen gofal a chefnogaeth, ac mae'n cynnwys pobl ifanc sydd wedi gadael gofal hyd at 25 oed. Mae'r gweithwyr yn gweld y bobl ifanc yn rheolaidd ac yn annog iddynt gadw cysylltiad da gyda'u teuluoedd ac yn datblygu eu sgiliau i fyw yn annibynnol. Mae'r Cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn cynnig opsiwn i bobl ifanc nad ydynt yn barod i symud o'u lleoliad maeth ar eu pen-blwydd yn 18 oed i aros hyd nes eu bod nhw'n barod i wneud hynny.

Y Timau Arbenigol

Pwrpas **Gwasanaethau Trobwynt** yw lleihau anghenion drwy gynnig ystod o ymyraethau a chefnogaeth ddwys i blant sydd ar fin dod i ofal, sydd newydd ddod i ofal, neu i ddychwelyd plant adref o ofal yn ddiogel. Wrth gydweithio'n agos a chyd-gynhyrchu cynlluniau gofal gyda'r plant a'u teuluoedd mae anghenion iechyd corfforol, meddyliol a lles emosiynol plant a'u teuluoedd yn cael eu diwallu.



Mae anghenion y teuluoedd y bu i ni eu cefnogi yn ystod 2020/21 wedi bod yn fwy cymhleth a dwys; yn arbennig felly y nifer o bobl ifanc yn eu harddegau a oedd yn derbyn cefnogaeth.

Fel rhan o'r ymyrraethau hyn mae'r **Tîm Trobwynt** yn cynnig pecynnau cefnogi dwys gyda'r nod o gadw plant yn sefydlog yn eu cartrefi. Mae'r **Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS)** yn cynnig ymyrraeth arbenigol i deuluoedd ble mae camddefnydd o alcohol a chyffuriau gan y rhieni a gofalwyr yn ffactor o risg i'r plant. Oherwydd natur ddwys yr ymyrraeth, mae'r gwasanaeth wedi ei flaenoriaethu ar gyfer y teuluoedd ble mae'r risg i blant yn uchel. Mae'r prosiect **Adlewyrchu** yn cynnig cefnogaeth arbenigol i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol. Yn ogystal, mae **Trobwynt** yn cynnig gwasanaeth arbenigol sy'n canolbwyntio ar ddi-ddymu gorchmynion gofal lle mae gwaith dwys eisoes wedi ei gwblhau, a thrwy hynny yn cynnig ffordd allan o ofal i blant a'u teuluoedd.

Mae **Tîm Derwen** yn darparu gwasanaeth ar gyfer plant a phobl ifanc anabl a gwael a'u teuluoedd. Rydym yn darparu cymorth i bobl ifanc anabl i'w helpu i gael eu cynnwys mewn gweithgareddau a bywyd cymunedol a chynyddu sgiliau i'w gwneud yn fwy annibynnol. Rydym yn darparu cyfnodau o ofal seibiant drwy wasanaeth cefnogol i nifer fawr o deuluoedd. Mae'r tîm yn un amlddisgyblaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Mae gennym weithwyr cymdeithasol, nyrsys a seicolegwyr yn gweithio yn y tîm ac oherwydd ystod eang o anghenion cymhleth mae ein gweithwyr angen meddu ar sgiliau arbennig i ymateb i anghenion y plant a'u teuluoedd.




Pwrpas y **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuentid** yw gweithio yn ddwys gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi troseddu i'w hatal rhag aildroseddu. Rydym yn cynnig ystod eang o ymyrraethau arbenigol ac yn gweithio gyda'r teulu cyfan er mwyn dod o hyd i ddatrysiadau i helpu'r plant a phobl ifanc rhag aildroseddu. Rydym hefyd yn gweithio yn ataliol gyda phlant a phobl ifanc i'w hatal rhag troseddu yn y lle cyntaf. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth ag ysgolion ac o fewn cymunedau'r unigolion. Rydym yn dîm aml-asiantaethol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Bwrdd Iechyd, Gyrfa Cymru, Tai Gogledd Cymru ac eraill.

Sut rydym yn sicrhau ansawdd Diogelu

Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn mae gennym **Uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd** sydd yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar y maes pwysig hwn. Rydym yn gweithredu'r dyletswyddau statudol i adolygu achosion Plant mewn Gofal, ac yn rhoi arweiniad ar amddiffyn plant, gan gadeirio Cynadleddau Achos a Chyfarfodydd Strategaeth lle mae honiadau yn erbyn pobl broffesiynol.

Byddwn yn cynnal cynadleddau amddiffyn plant mewn partneriaeth â'r teuluoedd a gweithwyr eraill. Mae ymyrryd gyda theulu i ddiogelu'r plentyn yn gallu bod yn anodd iddynt. Yn aml, nid ydynt yn croesawu'r cymorth yma ac yn aml yn cydweithredu trwy orfodaeth. Ein nod yw sicrhau fod llais y plentyn yn fwy amlwg yn y trafodaethau a bod teuluoedd yn cymryd rhan fwy effeithiol yn eu cynllun diogelu.

Mae Swyddogion Adolygu Annibynnol yn monitro cynlluniau gofal pob plentyn a pherson ifanc sydd mewn gofal. Maent yn sicrhau fod y cynlluniau gofal wedi rhoi ystyriaeth briodol a phwysau i ddymuniadau a theimladau'r plentyn, a bod y plentyn yn deall ei sefyllfa yn llawn o ystyried ei oed a'i ddealltwriaeth. Mae'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu diogelu trwy gydol eu hamser mewn gofal. Maent yn gwrandao ar blant, gwneud yn siŵr eu bod yn hapus gyda'u cynlluniau, sicrhau bod eu barn yn cael llais a bod eu cynlluniau yn cael eu dilyn, a bod yn ddigon grymus i wneud rhywbeth am y peth os nad ydynt yn cael eu dilyn.



Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Amgylchedd



Mae'r Adran Amgylchedd yn arwain ar y prif feysydd canlynol:

- **Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu**
- **Gwarchod y Cyhoedd**
- **Trafnidiaeth a Chefn Gwlad**

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella ganlynol:

- Capasiti Gwarchod y Cyhoedd - (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd - (Blaenoriaeth Gwella 8)
- Rheolaeth o'r defnydd o dai fel tai haf ac ail gartrefi (Blaenoriaeth Gwella 4)

Nodir hefyd fod yr Adran yn cyfrannu tuag at flaenoriaeth gwella I, **Twristiaeth - llunio cynllun twristiaeth gynaliadwy** (Adran Economi a Chymuned) a bod yr Adran Amgylchedd yn arwain ar brosiect i wella rheolaeth ar gartrefi modur. Bydd hyn yn cynnwys rheoleiddio a gorfodi lle'n bosib yn ogystal â datblygu cynllun peilot i ddarparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos, ar gyfer Gwynedd i gynnwys hyd at 6 safle gyda'r cyntaf mewn lle cyn diwedd Mawrth 2023. Bydd y gwaith yma'n rhan o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Twristiaeth Gynaliadwy.

Yn naturiol, cafodd argyfwng Covid-19 a'r cyfyngiadau a ddaeth gydag o effaith sylweddol ar holl wasanaethau'r adran, gyda nifer e.e. ein gwasanaethau **Gwarchod y Cyhoedd** yn cyflawni gwaith tra gwahanol i'r arfer, a hynny o dan bwysau. Mae gennym wasanaeth gwbl newydd, y **Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu**, hefyd ers Mehefin 2020 ac rydym wedi gorfod dod o hyd i atebion gwahanol i sicrhau ein bod yn medru parhau i ddarparu gwasanaethau eraill. Gwelwyd yr effaith yma ar rediad arferol yr adran ac ar ein blaenoriaethau'n parhau'n ystod 2021/22 ac er ein bod wedi gallu sefydlogi rhywfaint ar rai gwasanaethau, mae'r her o adfer a diffyg capasiti yn parhau i'n hwynebu ni wrth i ni gamu mewn i 2022/23. Byddwn yn defnyddio'r gwersi sydd wedi codi o'r argyfwng wrth ystyried siâp ein gwasanaethau i'r dyfodol.

Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu

Mae ein Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'n cynnwys ein Gwasanaeth Cynllunio, ein Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd (Gwynedd a Môn) a'n Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu.

Pwrpas y **Gwasanaeth Cynllunio** yw hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd ein cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol).

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i ddatblygu tir, yn ogystal â chynghori ar unrhyw ymholiadau fydd yn cael eu hanfon cyn cyflwyno cais. Maent hefyd yn cymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio ac yn delio a phob math o ddatblygiadau megis tai (yn cynnwys tai fforddiadwy), ysgolion newydd, ffatrioedd a datblygiadau isadeiledd sylweddol megis cynlluniau gan y Grid Cenedlaethol. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn archwilio achosion o dorri rheolaeth cynllunio ac yn gorfodi pan fod cyfiawnhad gwneud hynny.

Mae cyfnodau o salwch hir dymor dros y deunaw mis diwethaf wedi amlygu diffyg gwydnwch yn y Gwasanaeth sydd wedi cael effaith ar pa mor gyflym mae ceisiadau'n cael eu penderfynu ac achosion gorfodaeth yn cael eu datrys, ac felly ar berfformiad y Gwasanaeth.

Mae ein **Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd** â Chyngor Sir Ynys Môn yn paratoi dogfennau polisi cynllunio, yn cynnwys paratoi a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ac sy'n cynnwys mapiau a pholisïau ysgrifenedig a ddefnyddir i benderfynu ceisiadau cynllunio. Law yn llaw â'r gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol, mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am baratoi cyfres o [Ganllawiau Cynllunio Atodol](#) i'w mabwysiadu. Mae'r canllawiau yn rhoi cig ar esgyrn polisïau cynllunio, ac yn atgyfnerthu gallu'r Cynllun Datblygu i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau i'r dyfodol. Rhoddir hefyd arweiniad ar faterion polisi cynllunio i Awdurdod Cynllunio Gwynedd, Awdurdod Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn, sefydliadau allanol a'r cyhoedd.

Yn ystod 2021/22 cyflwynwyd Adroddiadau Monitro Blynnyddol (Cynllun Datblygu Lleol) ar gyfer 2019/20 a 2020/21 i Lywodraeth Cymru. Ers cychwyn Awst 2021 mae'r broses statudol o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi cychwyn, gydag ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Adolygu sydd yn dod i'r casgliad fod angen adolygiad ffurf llawn, sydd gyfystyr a pharatoi cynllun o'r newydd.

Yn sgil Deddfwriaeth fydd yn dod i rym yn 2021 i greu Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru (a'r rhanbarthau eraill), bydd gofyn statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth. Bydd disgwyl i'r Cyngor gyfrannu tuag at y costau o greu Uned Newydd fydd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, gyda hyn ar adeg lle bydd y Gwasanaeth angen bod yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig neu Newydd. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio'n rhanbarthol gydag awdurdodau cynllunio eraill, gydag adroddiad ac argymhellion ar gyfer darparu Cynllun Datblygu Strategol wedi eu cyflwyno i Brif Weithredwyr Gogledd Cymru yn 2021/22.

Pwrpas y **Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu** yw sicrhau bod gwaith adeiladu'n cael ei gyflawni'n unol â gofynion Rheoliadau Adeiladu er mwyn cadw pobl yn ddiogel wrth wella cadwraeth tanwydd a phŵer, amddiffyn a gwella'r amgylchedd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd yn sicrhau bod mynediad a chyfleusterau angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer pobl anabl mewn adeiladau newydd ac fel rhan o addasiadau, a gweithredu gwasanaeth sydd ar gael 24 awr i ymateb i adeiladau peryglus.

Yn dilyn adolygiad Ffordd Gwynedd o'r Gwasanaeth, amlygwyd bod y gwaith oedd yn ennill ffioedd (ceisiadau Rheolaeth Adeiladu) yn cael ei flaenoriaethu dros y gwaith oedd yn ddim yn ennill ffioedd, megis gwaith gorfodi'r rheoliadau pan fod cyfiawnhad gwneud hynny. Ers trosglwyddo i'r Adran ym mis Ebrill 2020 mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn cydweithio'n agos gyda Gwasanaethau eraill yr Adran (a'r Cyngor) - i ymateb i broblemau sydd yn gysylltiedig ag eiddo gwag / blêr ar ben y gwaith o ddelio gydag adeiladau peryglus. Mae'r dull o gyllido'r Gwasanaeth wedi ei adolygu yn 2021/22 er mwyn ceisio cael rhaniad mwy cywir i adlewyrchu'r gwaith sydd ddim yn denu ffioedd, sef y gwaith gorfodaeth.

Mae'r Gwasanaeth yn un masnachol sydd yn cystadlu am waith gydag Archwilwyr Cymeradwy (sector breifat) ond maent hefyd yn cystadlu am staff, gyda'r Gwasanaeth yn colli dau swyddog yn ystod 2021/22 ac yn methu recriwtio. Yn dilyn 'Adolygiadau Diogelwch Adeiladu' yn sgil trychineb Grenfell gan Lywodraeth y DU a Chymru, bydd newidiadau deddfwriaethol i'r Ddeddf Adeiladu yn 2023 lle bydd gofynion cyfreithiol o ran cymwyseddau ar gyfer gwneud y gwaith. Yn sgil hyn mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r strwythur fydd yn cynllunio ar gyfer y gofynion cymwyseddau fydd yn dod i rym ac yn weithredol 2022/23.

Prif flaenoriaethau'r Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu ar gyfer 2022/23 fydd:

- Cryfhau gwydnwch yn y Gwasanaeth Cynllunio i ddelio gyda cheisiadau cynllunio'n gynt ac i ddatrys mwy achosion gorfodaeth.
- Paratoi Cynllun Cyflawni fydd yn cychwyn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig a chychwyn hel sail tystiolaeth.
- Sefydlu trefniadau ar gyfer adnabod swmp gwaith gorfodaeth Rheolaeth Adeiladu ac adnabod dangosyddion perfformiad ar gyfer hyn.
- Gweithredu'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu ar sail cyllideb sydd yn cynnwys mwy o waith gorfodaeth, a gyda strwythur staffio sydd fydd yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Adeiladu newydd.

Gwarchod y Cyhoedd

Mae ein Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn gwarchod ein trigolion ac ymwelwyr mewn perthynas ag amrediad o faterion amgylcheddol ac iechyd.

Mae hyn yn cynnwys:

- Rheoli llygredd sylweddau neu sŵn mewn aer, tir neu ddyfroedd ac ymchwilio i gwynion llygredd a niwsans statudol.
- Asesu diogelwch dŵr yfed o darddiad preifat a gorfodi gwelliannau'n ôl yr angen.
- Monitro prosesau diwydiannol ar amrywiol safleoedd a rheoleiddio allyriadau diwydiannol i'r aer (llosgyddion gwastraff olew, malurwyr symudol, peiriannau sment).
- Trwyddedu amrywiol feysydd (e.e. alcohol, gamblo, sefydliadau anifeiliaid, cerbydau a gyrwyr tacsis) er mwyn gwarchod defnyddwyr, busnesau a chymunedau Gwynedd rhag effeithiau andwyol; eto gan gymryd camau gorfodaeth os oes angen.

- Sicrhau bod bwyd a diod i'w werthu sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddsbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yng Ngwynedd yn rhydd o beryglon iechyd ac yn cydymffurfio â safonau priodol.
- Atal marwolaethau, anafiadau a chyflyrau sy'n gysylltiedig â manau gwaith.
- Gwarchod y cyhoedd rhag afiechydon heintus a chemegion niweidiol.
- Cynorthwyo busnesau Gwynedd i gwrdd â'r gofynion statudol sy'n ofynnol ohonynt mewn perthynas â bwyd a diogelwch.
- Gorfodi amrediad eang o ddeddfwriaeth safonau masnach yn ymwneud â chyflenwi a dosbarthu nwyddau a gwasanaethau ac ymdrin ag amryw o bynciau megis diogelwch nwyddau, codi ymwybyddiaeth o sgamiau a benthyca arian anghyfreithlon, e-fasnach ac ymchwiliadau rhyngwrwyd, iechyd a lles anifeiliaid a mwy.

Yn 2020/21 a 21/22, o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19, bu i'r gwasanaethau yma ganolbwyntio ar :

- Atal lledaeniad Covid-19.
- Delio gyda materion risg uchel.
- Er yn parhau i wneud gwaith atal Covid-19, ail gydio yn y gwaith rhagweithiol megis yn bennaf y rhaglenni archwiliadau gan gynnwys archwiliadau diogelwch bwyd yn unol â Chynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd, i gynnwys delio gyda'r ôl-groniad o archwiliadau.
- Y gwaith trwyddedu, rheolaeth llygredd a safonau masnach sydd rhaid gwneud rheolaeth llygredd a safonau masnach dydd i ddydd.

Rydym hefyd yn gyfrifol am y **Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (TTP)** ers mis Mehefin 2020. Prif amcan y gwasanaeth yma yw lleihau lledaeniad Covid-19 ar draws ein cymunedau drwy gefnogi pobl sydd wedi eu heintio i ynysu yn y modd priodol. Mae hyn yn cynnwys adnabod y bobl sydd wedi bod mewn cyswllt ag achosion positif o Covid-19, cefnogi pobl â symptomau i gael mynediad at brawf a gweithio a phartneriaid arbenigol er mwyn rheoli unrhyw risgiau i bobl sy'n ynysu ynghyd â chymunedau a busnesau ehangach yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymgymryd â gwaith sylweddol ar ran awdurdodau lleol eraill ar draws Gymru; mae hyn yn ein caniatáu i fod mwy gwydn ledled Cymru a gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

Mae'r gofynion ar y gwasanaeth yma dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn sylweddol iawn wrth i gyfyngiadau lacio gan arwain at gynnydd mewn achosion a chynnydd yn y nifer cyfartalog o gysylltiadau sydd i bob achos positif, yn enwedig ymysg plant oedran ysgol. Mae'r llwyth gwaith wedi bod yn fwy nac erioed ond mae recriwtio a chadw staff yn anodd o ganlyniad i natur y gwaith a hyd y gytundeb. Yn ogystal, mae'r angen i ymateb yn gyflym yn dilyn cyhoeddi canllawiau newydd yn heriol ac yn ddibynnol ar fedru ail-hyfforddi staff yn gyson.

Rydym wedi derbyn cadarnhad y bydd Llywodraeth Cymru yn cyllido'r gwasanaeth yma hyd at Fehefin 2022, ond ar hyn o bryd does dim arweiniad pellach am yr hyn fydd yn digwydd y tu hwnt i hynny.

Mae'r Adran wedi cynnal adolygiad o strwythurau staffio yn y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn ystod 2021-22, gan fod ymdrin â Covid-19 a cheisio gwneud gwaith dydd i ddydd wedi amlygu diffyg gwydnwch yn sgil y toriadau sydd wedi eu gweithredu gan y Cyngor dros y 10 mlynedd diwethaf. Y bwriad yw cyflwyno strwythurau newydd sydd yn cwrdd â gofynion y Gwasanaethau yn Ebrill 2022.

Prif flaenoriaethau'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer 2022/23 fydd:

- Cyflwyno strwythurau fydd yn rhoi gwydnwch hir dymor i'r Gwasanaethau.
- Parhau i ail gydion gyda'r rhaglenni o archwiliadau diogelwch bwyd yn unol â Chynllun Adfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd, archwiliadau ac ymgyrchoedd diogelwch cynnyrch, masnachu teg, iechyd anifeiliaid a bwyd anifeiliaid, cyflenwadau dwr preifat a phrosesau diwydiannol.
- Ceisio arweiniad gan Llywodraeth Cymru ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig mewn perthynas â'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu y tu hwnt i Fehefin 2022, gan weithio tuag at ddull digidol o gynnal y gwasanaeth yma (lle mae gofyn i bobl gwblhau eu ffurflen olrhain ar-lein yn hytrach na dros y ffon) er mwyn lleihau pwysau ar ein gwasanaethau.
- Lle fo amgylchiadau yn caniatáu, dargyfeirio adnoddau oedd wedi ei neilltuo yn gyfan gwbl at waith Covid-19 yn ôl at waith iechyd cyhoeddus 'arferol' gan nodi hefyd y bydd gorfodi gofynion Covid-19 mewn busnesau yn debygol o barhau.

Trafnidiaeth a Chefn Gwlad

Mae ein **Gwasanaethau Trafnidiaeth a Chefn Gwlad** yn cwmpasu'n gwaith mewn nifer o feysydd, yn cynnwys parcio a gofal stryd, traffig a phrosiectau, cludiant integredig, diogelwch y ffyrdd, a mynediad a rheolaeth cefn gwlad. Mae'r gwaith yn cynnwys:



- Sicrhau bod ein ffyrdd yn ddiogel a dirwysr i ddefnyddwyr, gan gynnwys sicrhau nad oes rhwystrau diangen i'r defnydd o briffyrdd yn sgil gweithgareddau a digwyddiadau.
- Cyflawni prosiectau'n ymwneud â diogelwch y ffyrdd, gwella'r rhwydwaith a thrafnidiaeth integredig a chynaliadwy mewn modd cost effeithio, amserol a diogel.
- Sicrhau bod datblygiadau newydd sy'n effeithio ar ein rhwydwaith ffyrdd wedi eu dylunio a'u gweithredu'n ddiogel.
- Darparu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio a hyrwyddo teithio llesol.
- Gorfodi cyfyngiadau parcio ar ac oddi ar ein strydoedd a chynnal ein meysydd parcio mewn modd diogel.
- Trwyddedu gosod sgipiau a sgaffaldau ar ein ffyrdd a gorfodi perchnogion eiddo i gael gwared ar rwystrau oddi ar y ffordd ac ati.
- Darparu cludiant diogel o ansawdd sy'n gost effeithiol i drigolion Gwynedd, yn cynnwys cludiant cyhoeddus, cludo dysgwyr i sefydliadau addysgol, cludiant cymunedol a chludiant ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.
- Paratoi contractau cludiant cyhoeddus ac amserlenni gweithredu ar gyfer gwahanol lwybrau er mwyn hwyluso, gyda'r ffaith nad yw dros hanner y llwybrau yng Ngwynedd yn fasnachol-hyfyw ac felly'n ddibynnol ar gymorth ariannol i'w rhedeg.
- Ceisio lleihau anafiadau a damweiniau ar ein ffyrdd drwy ymgymryd â mentrau addysgol, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd e.e. cynnig hyfforddiant beicio a chroesi ffyrdd yn ddiogel mewn ysgolion, hyfforddiant penodol i bobl ifanc ar ein ffyrdd neu i bobl hŷn sy'n parhau i yrru, a hyfforddiant ar amrywiol feysydd megis goryrru, gwisgo gwregys a gosod seddau babis yn ddiogel.

- Gofalu am rwydwaith llwybrau Gwynedd drwy flaenoriaethu cynnal y llwybrau hynny sy'n darparu cyfleoedd hamdden a theithio llesol o fewn cyrraedd i gymunedau. Rydym hefyd yn ymdrin â cheisiadau i wyro a chreu llwybrau ac yn cynnal a diweddarau mapiau rhwydwaith hawliau tramwy'r sir.
- Cynnal a datblygu'r Llwybr Arfordir cenedlaethol sy'n ymestyn oddeutu 300km o fewn i Wunedd.
- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswydd i warchod ein bioamrywiaeth drwy ddarparu cyngor arbenigol ar geisiadau cynllunio, datblygiadau ac ymholiadau.
- Cyd-gordio'r gwaith o reoli Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau, yn ogystal â gwarchod a cheisio rheoli ansawdd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn (AHNE)

Ffurfiwyd **Grŵp Tasg Parcio** yn 2019 er mwyn cynnal adolygiad o strategaeth parcio bresennol y Cyngor gan fod llawer iawn wedi newid ers i'r Cyngor gynnal yr adolygiad diwethaf yn 2015. Yn deillio o'r adolygiad, mae'r strwythur ffioedd newydd nawr yn weithredol ac mae Aelodau Cabinet y Cyngor wedi awdurdodi'r Adran Amgylchedd mewn ymgynghoriad gyda'r Adran Economi a Chymuned i gynnal prosiect peilot ar gyfer defnydd o 6 o safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, er mwyn darparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos ac i gynnwys dynodi'r lleoliadau; ond yn ddarostyngedig i sicrhau cyllid cyfalaf a'r hawliau angenrheidiol.

Mae'r **Rhaglen Gwella Bws** yn anelu i wneud gwelliannau ehangach i'r rhwydwaith ar draws Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith. Y nod yw sefydlogi'r rhwydwaith, cynyddu'r nifer o deithwyr gan ddefnyddio'r gwasanaeth bysiau i annog newid moddol ac ymddygiad teithio. Rydym ar hyn o bryd mewn trafodaeth gyda Thrafnidiaeth i Gymru er mwyn sefydlu'r rhwydwaith newydd yma a gobeithiwn fedru dechrau gweithredu rhannau ohono yn fuan yn 2022/23.

Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid gan y Llywodraeth i brynu 6 bws trydan a fydd yn gweithredu rhwng Blaenau Ffestiniog - Porthmadog - Caernarfon o Ebrill 2022 ymlaen, ac mae bwriad gennym hefyd i brynu bws trydan llai er mwyn teithio o amgylch pentrefi yn Ffestiniog. Mae hyn yn cyd-fynd â dymuniad y Llywodraeth i fysiau cyhoeddus a thacsis fod yn garbon niwtral erbyn 2028.

Yn dilyn pryderon am ddiogelwch y ffyrdd tu allan i ysgolion cynradd ac uwchradd Penygroes a rhai o'r ysgolion yng Nghaernarfon, mae cynlluniau ar y gweill i wella diogelwch ffyrdd yng nghyffiniau Ysgol y Gelli, Ysgol Syr Huw Owen a Chanolfan Byw'n Iach Arfon. Bydd y cynllun yma'n cynnwys mesurau i dawelu traffig, estyniad i faes parcio, darpariaeth i dacsis a llwybr troed newydd. Ym Mhenygroes, mae adroddiad dichonoldeb wedi'i gyflawni sy'n canolbwyntio ar sefyllfa draffig ger Ysgol Bro Llew ac Ysgol Dyffryn Nantlle. Mae bidiau am gyllid cyfalaf wedi eu cyflwyno er mwyn cyflawni'r holl welliannau hyn.

Nodir y bydd creu'r Cydbwyllgor Corfforaethol (CJC) ar gyfer Gogledd Cymru hefyd yn effeithio ar y gwasanaethau trafndiaeth gan y bydd un o ddyletswyddau'r CJC yn ymwneud a pharatoi Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol. Bydd disgwyl i'r Cyngor fod yn cyfrannu tuag at y costau o greu uned newydd a fydd yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol.

Mewn perthynas â'n gwaith bioamrywiaeth, mae argaeledd grantiau drwy'r **Bartneriaeth Natur Leol** wedi'n galluogi i gefnogi ac ysgogi gwaith sy'n gwella natur yn lleol ar draws y sir. Ar gyfer 2022/23:

- Rhagwelir bydd cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru tuag at waith y Bartneriaeth Natur Leol a rhaglen Llefydd Lleol i Natur yn parhau ac, yn amodol ar gadarnhad o'r cyllid, bydd posib parhau i gefnogi grwpiau lleol yn ardaloedd Caernarfon, Porthmadog a Bangor wneud gwaith sy'n cynnal a gwarchod bioamrywiaeth. Bydd adnoddau hefyd yn cael eu clustnodi tuag at reolaeth a gwaith diogelwch a'r rai o goedlannau a gwarchodfeydd yr Adran, megis Coed Nyrseri, Tremadog, Coed Doctor Llanberis a Pharc y Borth, Borth y Gest.
- Bydd dulliau newydd o reoli tiroedd y Lonydd Glas yn cael eu treialu gyda'r nod o gynyddu amrywiaeth blodau gwyllt cyfochrog a'r llwybrau.

Mae rhaglen grant i wella mynediad wedi caniatáu gwelliannau i lwybrau ar draws y sir a chafodd y gwelliannau a gwaith diogelwch coed ar Lon Eifion eu cwblhau, ond gohiriwyd y gwaith i ledu rhan o Lon Las Menai am resymau amgylcheddol. Mae'r gwaith wedi ei rhaglennu ar gyfer misoedd cyntaf 2022. Mae rhaglen grant Gwella Mynediad, Llywodraeth Cymru wedi galluogi nifer o welliannau i lwybrau poblogaidd ac adnabyddus ar draws y Sir gan gynnwys Y Lon Goed, Llanystumdwy a llwybr aml ddefnydd o amgylch Llyn Trawsfynydd. Yn amodol ar argaeledd y grant bydd gwelliannau pellach yn cael ei gweithredu yn ystod 2022 / 23.

Prif flaenoriaethau'r Gwasanaethau Trafnidiaeth a Chefn Gwlad ar gyfer 2022/23 yw:

- Cynnal prosiect peilot ar gyfer darparu cyfleusterau dros nos i gartrefi modur mewn 6 safle parcio yng Ngwynedd.
- Mewn ymateb i'r her newid hinsawdd a thargedau lleihau carbon y Cyngor cychwynnir ar waith i adnabod a mesur gwerth tiroedd y Cyngor ar gyfer amsugno carbon. Bydd y maes gwaith yn rhoi pwyslais ar goetiroedd a sut gellir eu rheoli'n well ynghyd ag adnabod cyfleodd i'w ymestyn neu greu coetiroedd newydd.

Eleni, rydym wedi clustnodi £25K ar gyfer datblygu'r cynllun o adeiladu Llwybr Beicio rhwng Tywyn ac Aberdyfi. Fel rhan o'r gwaith mi fydd angen i'r gwasanaeth prynu tir wrth ymyl y ffordd ac mae trafodaethau gyda thirfeddiannwr wedi bod yn anodd o ganlyniad i'r cyfyngiadau pellter cymdeithasol.

Yn 2022/23, ein bwriad i'w i gynnal cyfarfod gyda Chynghorwyr yr ardal i roi diweddariad iddynt ar le rydym ni wedi cyrraedd, beth yw'r rhwystrau sydd gennym a sut rydym yn meddwl symud y cynllun canlynol yn ei flaen.

Mae negodi a chytuno ar gytundeb i greu hawliau mynediad newydd neu newid statws rhai presennol yn broses sy'n gallu cymryd amser ac yn 21/ 22 gwelwyd llwyddiant i sicrhau cytundeb i greu cymal o'r llwybr arfordir rhwng Tal y bont a Phorth Penrhyn, rhagwelir bydd y llwybr ar agor yn ystod 2022. Mae trafodaeth yn parhau i sicrhau llwybr aml ddefnydd rhwng Pwllheli a Llanbedrog.

Dros y blynyddoedd diweddar mae rhannau o'r Llwybr Arfordir wedi cael ei effeithio gan sawl tirlithriad sydd wedi golygu gwaith i adfer y llwybr ond mewn sawl lleoliad yn ardaloedd Nefyn, Criccieth a Thraeth Penllech does dim dewis pellach ond i negodi i wyro'r llwybr. Gyda thebygrwydd y gwelir rhagor o dirlithriadau rhaid cyfeirio adnoddau ac ymdrech mewn ymateb os am warchod y Llwybr Arfordir.

Gwasanaeth Busnes, Prosiectau a Rhaglenni

Mae'r gwasanaethau yma yn cefnogi gwasanaethau eraill yr Adran i gyflawni eu pwrpas ac mae'r gwaith yn cynnwys rheoli contractau, cyllid ac incwm; denu grantiau a chyflawni prosiectau; rheoli datblygiad a gweithrediad effeithiol systemau technoleg gwybodaeth; integreiddio darpariaeth tendro a chaffael, pridiannau tir a darparu gwasanaeth cefnogol a gweinyddol i'r gwahanol wasanaethau.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn paratoi, gweithredu, a rheoli nifer fawr o gontractau'r Adran; monitro cynnydd a pherfformiad darparwyr a chontractwyr yn nhermau cytundebau, contractau a chyllid y gwasanaethau; dylunio systemau gweithredol a gweithdrefnau'r Adran mewn ffyrdd cost-effeithiol a pharatoi a chyflwyno papurau gwaith yn ymwneud ag arbedion, newidiadau i'r sefydliad staffio a ffioedd a phrisiau.

Mae angen i ni reoli datblygiad a gweithrediad systemau technoleg gwybodaeth, dylunio systemau gweithredol a gweithdrefnau'r holl wasanaethau sy'n cael eu defnyddio ar draws yr Adran mewn ffyrdd cost-effeithiol a fydd yn arwain at arferion gweithio mwy effeithlon ac effeithiol.


Yn 2022/23 bydd y gwasanaeth busnes, prosiectau a rhaglenni yn:

- Trosglwyddo i system ddigidol genedlaethol ar gyfer Cofrestr Pridiannau Tir Lleol ar gyfer chwiliadau .
- Ceisio denu grantiau ar gyfer cynlluniau gwelliant ar ein rhwydwaith ffyrdd, llwybrau a'r rhwydwaith 'teithio llesol' aml-ddefnydd, gwella cysylltedd arfordirol, a chynnal astudiaethau ecosystemau Cymru.

Rheolaeth Categori Corfforaethol

Mae'r gwasanaeth yma'n cydweithio a chefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir drwy ddarparu dealltwriaeth ddyfnach o'r farchnad, cynhyrchion, cyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi i ddatblygu cynlluniau categori strategol trawsadrannol. Mae'r gwasanaeth yn blaenoriaethu gwerth am arian a chadw'r budd yn lleol wrth wneud eu gwaith. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n gynnar â'r farchnad leol a chydweithio â Busnes Cymru sy'n darparu Cyngor a chefnogaeth i baratoi cynigion. Maent hefyd yn gweithio gyda chyflenwyr y Cyngor i'w hannog nhw i gynyddu eu gwariant lleol o fewn eu cadwyni cyflenwi.

Yn ystod 2022/23, bydd y gwasanaeth yma'n parhau i flaenoriaethu Gwerth Gorau am Arian a Chadw'r Budd yn Lleol wrth i'r Cyngor gaffael nwyddau a gwasanaethau. Ond yn ogystal, byddwn yn edrych ar sut bydd modd i ni leihau effaith ein gweithgareddau caffael ar yr amgylchedd ac ar ein hallyriadau carbon, sydd yn cyd-fynd a'r gwaith sydd wedi'i nodi o dan Blaenoriaeth Gwella 8 ar ein Cynllun Ymateb i Newid Hinsawdd.



Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Adran Economi a Chymuned



Mae'r Adran Economi a Chymuned yn cynnwys ystod o wasanaethau sydd yn anelu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r Adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth ganlynol:

- 1) Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 2) Creu Swyddi Gwerth Uchel - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 3) Arloesi Gwynedd Wledig - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 4) Hybu Canol Trefi - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 5) Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 6) Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 7) Twristiaeth - llunio cynllun twristiaeth gynaliadwy - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 8) Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd - (Blaenoriaeth Gwella 1)
- 9) Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith -(Blaenoriaeth Gwella 3)

Dyma fraslun o waith yr Adran yn 2022/23:

Gwasanaeth Datblygu Economaidd

Mae perfformiad yr economi yn effeithio ar ansawdd bywyd trigolion Gwynedd gan ddylanwadu ar gostau byw ac incwm aelwydydd. Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid i greu'r amodau i fusnesau a mentrau sefydlu, cystadlu a datblygu yng Ngwynedd gan greu a chynnal swyddi o ansawdd ar draws y sir.

Parhaodd Covid-19 i gael effaith sylweddol ar gyflogwyr a busnesau Gwynedd yn 2020/21. Roedd ystod eang o fusnesau wedi gorfod cau yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn ac roedd hyn, yn ei dro, wedi effeithio ar yr economi gyfan. O ganlyniad, mae nifer busnesau, cynhyrchiant a gwerth busnesau wedi gostwng. Mae Brexit hefyd wedi creu ansicrwydd i nifer o fusnesau, yn enwedig busnesau sy'n ddibynnol ar allforio a mewnfario nwyddau allweddol, ac mae ystod eang o fusnesau yn ei chael hi'n anodd recriwtio digon o weithwyr.

Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd yn parhau i fod yn llawer is na rhannau eraill o Gymru ac mae gwerth cynhyrchiant busnesau Gwynedd yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'n bwysig felly fod Cyngor Gwynedd yn cymryd camau rhagweithiol i greu'r amodau fydd yn sbarduno twf yn yr economi a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd.

Roedd 16,010 o fusnesau, mentrau a chwmnïau cymunedol yng Ngwynedd yn 2019. Mae'r Adran yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ymarferol i'w helpu i sefydlu, sefydlogi a datblygu er mwyn cynnal a chreu swyddi. Mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw arbennig i gefnogi busnesau drwy ddarparu gwahanol

2,188



o grantiau wedi eu rhannu i fusnesau Gwynedd yn 2020/21 gwerth £4.3M

becynnau cymorth busnes a hyrwyddo arloesedd i fusnesau gan eu hannog i wneud gwell defnydd o dechnoleg yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf gwledig.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ddatblygu prosiectau i wella cynhyrchiant economaidd y rhanbarth a chreu swyddi gwerth uwch yn y sir. Yn sgil y cynnydd sylweddol yn y gofyn am weithwyr rydym hefyd yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn cefnogi busnesau i gyflogi a phobl Gwynedd i gael mynediad i swyddi.

Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn parhau i geisio deall effaith hir dymor Covid-19 a Brexit ar fusnesau Gwynedd gan godi ymwybyddiaeth o ffynonellau cymorth er mwyn galluogi busnesau i ymdopi â'r newid. Byddwn hefyd yn adolygu ein blaenoriaethau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu help sydd yn elwa pobl Gwynedd ac yn cyfrannu at gynnal ac adfywio ein cymunedau.

Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1.35 biliwn, roedd dros 18,200 o bobl yn gweithio yn y maes yn 2019, ond mae'r economi ymweld wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan Covid-19 gyda busnesau wedi bod ar gau am gyfnodau sylweddol a digwyddiadau wedi cael eu hatal. Disgynnodd gwerth y sector yn 2020 yn sylweddol i £575miliwn a chyflogaeth i lawr i 9,570. Wrth i gyfyngiadau gael eu llacio dros gyfnod yr

haf gwelwyd nifer ymwelwyr i brif gyrchfannau ymwelwyr yn cynyddu yn sylweddol gan roi pwysau ar gymunedau lleol. Er mwyn gallu ymateb i bryderon cymunedau a busnesau, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad o'r maes a mabwysiadu cyfres o egwyddorion er mwyn galluogi'r sector adfer a datblygu'n gynaliadwy i'r dyfodol er budd a lles pobl Gwynedd.

77,570

o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol Eryri, Mynyddoedd a Môr yn 2020/21



Yn 2022/23 bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar wireddu a gwreiddio Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 a'i Gynllun Gweithredu.

Gwasanaethau Morwrol

Gan fod tirwedd ac amgylchedd naturiol Gwynedd mor bwysig i ffyniant y sir, mae'r Adran yn ceisio sicrhau **adnoddau diogel o ansawdd yn ein harbysrau, ein marinas ac ar draethau** Gwynedd er mwyn creu adnodd hamdden i hyrwyddo llesiant trigolion lleol ac ymwelwyr. Mae'r Adran yn gyfrifol am reoli hyd at 301km o arfordir a thraethau ond yn canolbwyntio ymdrech ar reoli'r prif draethau gwobredig. Mae hefyd yn rheoli 4 harbwr yn Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli yn ogystal â 2 marina, sef



1,777 o gychod a 923 o fadau dŵr personol wedi eu cofrestru yn ystod 2018/19

Hafan Pwllheli sy'n cynnig angorfa i 400 cwch a Doc Fictoria yng Nghaernarfon sy'n cynnig angorfa i 95 cwch.

Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio

Mae nifer o ffactorau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cyfuno i wneud Gwynedd yn le arbennig i fyw, gweithio a mentro. Ond mae rhai o'r cymunedau lle nad ydi grym y farchnad yn gryf angen hwb ar adegau er mwyn gwyrddroi dirywiad, ac er mwyn ymateb i heriau sy'n eu hwynebu cyn gallu cyflawni potensial i'r dyfodol. Adfywio ydi'r broses yma ac mae'n **ymdrech fwriadol i gydweithio gyda phobl Gwynedd a phartneriaid i wella ardaloedd.**

Nid oes modd i un Adran gyflawni amcanion agenda Adfywio Gwynedd ar ei phen ei hun. Er mwyn gwneud gwahaniaeth hirdymor a gwneud y defnydd gorau o adnoddau rhaid cydweithio ar draws Adrannau'r Cyngor, gyda'r gymuned ac amrywiaeth o bartneriaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio yn cydlynu'r ymdrechion hyn ar draws y Cyngor ac yn arwain ar gyfres o brosiectau sydd wedi cael eu hadnabod fel blaenoriaethau gan gymunedau Gwynedd. Un maes amlwg sydd wedi ei adnabod gan gymunedau ydi cyflwr canol trefi a phryder am rôl canolfannau masnachol i'r dyfodol.

Yn ystod 2022/23 bydd y gwasanaeth yn rhoi sylw arbennig i raglenni i adfywio canol trefi gan dargedu ardaloedd lle mae'r newid mwyaf wedi ei weld mewn patrymau manwerthu.

Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Mae'r Adran yn darparu gwasanaethau er mwyn i bobl Gwynedd wneud ein cymunedau yn llefydd gwell i fyw. **Mae'n bwysig bod grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol yn cael eu cefnogi i ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol.** Mae gan y Cyngor rwydwaith o swyddogion i gefnogi a grymuso cymunedau a 'CIST' o grantiau i gefnogi prosiectau cymunedol penodol.



Byddwn yn targedu rhai cymunedau yn fwy na'i gilydd gan roi sylw arbennig i gynllunio cefnogaeth i ardaloedd gyda'r anghenion mwyaf.

Yn 2022/23 byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau adfywio lleol ar gyfer pob un o'r 13 dalgylch yng Ngwynedd.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth mewn 9 prif lyfrgell, 4 llyfrgell gymunedol a 3 dolen clicio a chasglu ar draws y sir. Mae'n bwysig i bobl Gwynedd eu bod yn gallu benthycu llyfrau a llyfrau llafar, a lawrlwytho e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau o'u dewis. Benthycwyd 463,370 o eitemau gan bobl Gwynedd yn 2019/20 a 77,641 o eitemau yn 2020/21 (lleihad oherwydd cyfyngiad gwasanaeth oherwydd y pandemig). Ond nid yw holl drigolion Gwynedd yn gallu cyrraedd eu llyfrgell leol felly mae'r Cyngor hefyd yn darparu Gwasanaeth Llyfrgell i'r Cartref sy'n ymweld â 479 o unigolion yn

fisol. Mae Llyfrgelloedd Gwynedd hefyd yn cael eu comisiynu gan yr Adran Addysg i ddarparu gwasanaeth Lori Ni sy'n ymweld â phob Ysgol Gynradd, Arbennig a Dilynol ddwywaith y flwyddyn i fenthg llyfrau darllen i blant 3-11 oed. Rydym hefyd yn darparu Theatr/Sinema a Llyfrgell yn adeilad Neuadd Dwyfor ym Mhwlheli.

Mae pobl Gwynedd yn defnyddio'r llyfrgelloedd ar gyfer llawer iawn mwy na benthg llyfrau. Maent yn llefydd croesawgar i bobl eu defnyddio ar gyfer amryw o anghenion - i gael gwybodaeth am wasanaethau, ynghyd â chymorth a chefnogaeth i gyrchu gwybodaeth ar-lein. Mae Partneriaeth Addysg Oedolion Gwynedd a Môn trwy'r cymorth y Grant Addysg Gymunedol Oedolion, yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai ac Addysg Oedolion Cymru i gynnig nifer o gyrsiau byr a sesiynau blasu mewn amrediad o feysydd. Rydym hefyd yn cynnal gweithgareddau i Ddysgwyr Cymraeg, ac yn cynnal sesiynau i fabanod ac amseroedd stori i blant. Trwy ein Casgliadau Darllen yn Well, gellir cael mynediad at wybodaeth gellir ymddiried ynddo ar faterion iechyd a lles, yn cynnwys Dementia ac Iechyd Meddwl. Mae trigolion Gwynedd hefyd yn gallu defnyddio un o'r 96 o gyfrifiaduron, neu'r wi-fi, sydd yn y llyfrgelloedd yn rhad ac am ddim i chwilio am waith, neu i gael mynediad at wasanaethau lleol, yn ogystal â gallu llungopïo a sganio. Darperir rhaglen o ffilmiau, sioeau a digwyddiadau diwylliannol yn Neuadd Dwyfor, Pwllheli.

Derbyniodd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd adroddiad ardderchog ar ei berfformiad yn 2019/20, sy'n dangos fod y gwasanaeth yn perfformio'n dda oddi mewn i Fframwaith Asesu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru. Yn sgil Covid-19 mae'r llyfrgelloedd wedi bod ar gau i'r cyhoedd am gyfnodau helaeth, ond mae gwasanaethau amgen, gan gynnwys clicio a chasglu wedi bod ar gael.

Yn 2022/23 byddwn yn:

- parhau i gydweithio gyda chymunedau a hyrwyddo mynediad i'r gwasanaeth, gan sicrhau bod ein darpariaeth yn adlewyrchu gofynion ac anghenion pobl Gwynedd
- cydweithio fel Partneriaeth Addysg Oedolion Gwynedd a Môn i gynllunio rhaglen gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu i bobl Gwynedd yn y cymunedau
- ail agor Neuadd Dwyfor yn llawn i'r cyhoedd a pharatoi achos busnes i'w chynnal i'r dyfodol.

35,596
o bobl Gwynedd yn
aelodau o Lyfrgell



Gwasanaeth Archifau



9,843

o ddogfennau wedi eu gweld
gan y cyhoedd yn 2019-20

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i **warchod ein cofnodion cyhoeddus a gwneud yn siŵr fod gan bobl fynediad atynt.** Rydym yn gwneud hyn trwy ddau archifdy yng Ngwynedd - Archifdy Caernarfon ac Archifdy Meirionnydd yn Nolgellau.

Mae gan Archifdai Gwynedd ystod eang o ddogfennau, lluniau, mapiau a phapurau newydd, gyda'r ddogfen hynaf yn dyddio'n ôl i 1176. Ceir amrediad o gasgliadau cyhoeddus, swyddogol a phreifat sy'n adlewyrchu diwylliant a threftadaeth

cymunedau Gwynedd. Mae'r Archifdai yn darparu sesiynau blasu, a chysiau hanes teulu ac yn cydweithio gydag ysgolion Gwynedd.

Yn 2022/23 byddwn yn:

- arwain ar gydweithio gydag archifau ar draws y Gogledd a Llywodraeth Cymru i weithredu Achos Busnes Partneriaeth Archifau Gogledd Cymru sy'n ceisio adnabod cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o adnoddau archifau yn y rhanbarth er budd pobl y Gogledd
- adnabod cost digido'r casgliadau a chydweithio i adnabod systemau i alluogi mynediad i gasgliadau digidol.
- amlygu'r cyfleoedd all archifau Gwynedd eu cynnig ar gyfer Cwricwlwm i Gymru.

Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau

Mae'r gwasanaeth yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd sef Storiell ym Mangor ac Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy, gan ofalu am eu casgliadau; rhoi mynediad atynt a threfnu gweithgareddau i'n cymunedau.

Mae llawer o'n gwaith yn y maes celfyddydau cymunedol yn targedu **prosiectau ieuchyd, lles, addysg a thaclo unigrywdd**. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ddyrannu grantiau celfyddydol er mwyn cefnogi safon a chyfleoedd celfyddydol i bawb.

Ail agorwyd yr amgueddfeydd yn ystod 2021 gyda rhai elfennau'n agor yn raddol fel llogi a gweithgareddau. Mae'r gweithgareddau celfyddydol yn cael eu darparu yn rhithiol; trwy becynnau yn cael eu hanfon at ein cymunedau a gyda rhai yn cael eu trefnu yn ffisegol ar safleoedd o'r Hydref 2021.

Ein nod fydd parhau i gyfoethogi bywydau trigolion Gwynedd trwy hyrwyddo dealltwriaeth o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant unigryw.

Yn 2022/23 byddwn yn:

- gweithio gyda Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George i greu ffordd newydd o reoli'r Amgueddfa
- sicrhau llwyddiant cynllun Storiell a sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar ei chyfer allai weithio gyda'r sector gelfyddydol a threftadaeth yng Ngwynedd yn y dyfodol
- gweithio gyda'r sector gelfyddydol i adolygu ein cynllun i'r celfyddydau a gweithredu ar ei hamcanion
- cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Diwylliant i Wynedd.



64,000

o bobl wedi ymgysylltu
gydag ein hamgueddfeydd
yn 2019/20

Gwasanaeth Hamdden a Pharciau Gwledig

Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn ysbrydoli, cefnogi a galluogi pobl Gwynedd i fod yn egniol a byw eu bywydau yn iach.

Mae tueddiadau iechyd trigolion Gwynedd ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gyda lefelau gordewdra plant 4 oed yng Ngwynedd ymysg yr uchaf yng Nghymru, mae'n allweddol fod Cyngor Gwynedd a phartneriaid yn ymateb a chreu'r amodau i hyrwyddo byw'n iach.

Mae gan Gyngor Gwynedd rwydwaith o 12 o ganolfannau hamdden ar draws Gwynedd sy'n denu 1.3 miliwn o ymweliadau bob blwyddyn. Mae'r ddarpariaeth yma yn galluogi trigolion Gwynedd o bob oedran i ddysgu sgiliau newydd a mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau egniol mewn lleoliadau diogel.



Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i barhau i ddarparu'r cyfleusterau hyn ac wedi sefydlu Cwmni Byw'n Iach Cyf. er mwyn rhedeg y canolfannau ar ei rhan i'r dyfodol. Mae'r Adran wedi gosod cytundeb i'r cwmni i reoli'r gwasanaeth ers mis Ebrill 2019 ac rydym yn monitro'r cytundeb yn rheolaidd er mwyn

sicrhau ansawdd y gwasanaeth. O ganlyniad i gyfyngiadau Covid-19 mae'r canolfannau wedi gorfod bod ar gau am gyfnodau helaeth yn ystod 2020 a 2021.

Yn ogystal i reoli'r cyfleusterau hyn mae'r Cyngor hefyd wedi cytundebu gyda Chwmni Byw'n Iach i ddarparu rhaglenni allweddol i wella cynhwysiad mewn chwaraeon a gweithgareddau ffitrwydd. Mae Rhaglen Chwaraeon Cymunedol yn hyrwyddo gweithgareddau egniol cynhwysol i bobl ifanc ac i bobl hŷn mewn canolfannau, ysgolion, clybiau ac yn y gymuned ac mae Rhaglen Cyfeirio i Ymarfer yn helpu lleihau effaith cyflyrau sy'n atal trigolion Gwynedd rhag ymarfer a gwella eu hiechyd. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn niferoedd y cleientiaid ar gyfer y gwasanaeth yma, yn arbennig yn y meysydd dementia a chyflyrau cronig, ac mae tystiolaeth glir yn dangos effaith y buddsoddiad ar ansawdd bywyd ac iechyd.

Mae'r Cyngor hefyd yn rheoli parciau gwledig yng Nglynllifon a Phadarn. Mae'r parciau hyn yn safleoedd treftadaeth pwysig ac yn atyniadau poblogaidd i ymwelwyr. Ond mae'r parciau hefyd yn asedau gwerthfawr i wella llesiant trigolion Gwynedd ac i hyrwyddo byw'n iach. Bydd yr Adran yn ceisio sicrhau mwy o fudd i gymunedau lleol o'r asedau hyn i'r dyfodol.

Yn 2022/23 byddwn yn parhau i gefnogi Cwmni Byw'n Iach ac yn:

- buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon a hamdden i ymateb i'r galw
- cydweithio gyda Chwaraeon Gogledd Cymru i hyrwyddo cynhwysiad mewn chwaraeon
- uwchraddio cyfleusterau Parc Padarn a datblygu opsiynau rheoli Parciau Gwledig Glynllifon a Pharc Padarn i'r dyfodol.

Mae blaenoriaethau lleol wedi cael eu nodi yng Nghynllun y Cyngor ers 2018/19 gan ymateb i'r anghenion oedd wedi eu codi gan Gynghorwyr lleol. Mae'r Adran wedi defnyddio'r blaenoriaethau hyn wrth ddatblygu eu rhaglenni gwaith ehangach, ac felly mae nifer o'r anghenion yn cael eu cyfarch drwy waith sydd eisoes wedi ei ddisgrifio yn y Cynllun Adran hwn.

Isod rydym yn rhestru'r blaenoriaethau lleol ochr yn ochr â'r rhaglen neu brosiect sydd wedi ei chynllunio er mwyn ymateb i'r angen lleol a sirol hwnnw.

Blaenoriaethau Lleol	Rhaglen
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr lleol ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn yn ôl yn haf 2017, nodwyd dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflogau da er mwyn gwella sefyllfa economaidd trigolion lleol. Mae'r flaenoriaeth Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn elwa'r cymunedau hyn. Yn ardal Porthmadog, nodwyd yn ogystal fod pryder ymysg y cynghorwyr lleol ynglŷn â chyflwr rhai safleoedd segur yn yr ardal ac mewn ymateb i hyn byddwn yn effro i unrhyw gyfleoedd i gefnogi gwella neu aildefnyddio'r safleoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddi Gwerth Uchel • Hybu Canol Tref
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Dolgellau daeth i'r amlwg fod cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn llesteirio trigolion a busnesau'r ardal. Rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru • Arloesi Gwynedd Wledig
<p>Yn ardaloedd Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle, nododd y cynghorwyr lleol fod hyrwyddo ac adfywio'r stryd fawr yn flaenoriaeth leol, ac rydym wedi gwneud ceisiadau amlinellol ar gyfer peth gweithgaredd adfywio yn yr ardaloedd yma.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Hybu Canol Tref
<p>Wrth ymgynghori gyda chynghorwyr ardal Bangor, nodwyd dyhead i wella edrychiad yr ardal leol ac i ymateb i siopau gwag, gan nodi dymuniad i gydweithio â phartneriaid megis busnesau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned i greu incwm er mwyn cyfrannu at y gwaith. Gallai hyn yn ei dro gefnogi busnesau a chrefftwyr lleol. Rydym yn ystyried y cyfleoedd i adeiladu ar y gwaith a wneir eisoes ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Bangor a'n partneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn llunio ymateb. Mae arian grant ychwanegol i uchafu budd y Cynllun Benthyciadau di-log wedi ei sicrhau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> •Hybu Canol Tref
<p>Mae cyswllt hefyd gyda'r flaenoriaeth sirol ar gyfer rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith. Dylai adfywio'r ardaloedd yma wella unrhyw ddelwedd negyddol sy'n deillio o fod yn ardaloedd ôl-ddiwydiannol gan ryddhau eu potensial.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi Treftadaeth Lechi Gwynedd ar Waith
<p>Yn ystod sesiwn ymgynghori yn ardal Ffestiniog fe ddaeth i'r amlwg fod pryderon ymysg cynghorwyr lleol ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol a'r gwasanaethau a leolir yno. Cynhaliodd y tîm Adfywio arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol. Mae cyfle yma, mewn cyfnod o gynni ariannol, i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Adran Tai ac Eiddo



Mae'r Adran Tai ac Eiddo yn adran weddol newydd a sefydlwyd yn ystod 2019 gyda'r nod o hwyluso gallu'r Cyngor i wynebu un o heriau mwyaf y Sir, sef sicrhau digon o dai pwrpasol a safonol i gyfarch anghenion poblogaeth sy'n newid.

Mae'r Adran hefyd yn gyfrifol am reoli asedau eiddo'r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer darparu gwasanaethau i drigolion y Sir.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r Adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth a ganlyn:

- 1) **Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd:** Gweithredu a gwireddu prosiectau ein Cynllun Tai er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartref addas o fewn eu cymunedau – Blaenoriaeth Gwella 4.
- 2) **Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai:** Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn eu helpu gyda phroblemau tai – Blaenoriaeth Gwella 4.

Materion Tai

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gallu'r Cymdeithasau Tai i adeiladu mwy o dai i bobl leol. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn gosod her i geisio adeiladu 500 o dai cymdeithasol newydd erbyn 2026. Mae gennym bellach Bolisi Gosod Tai Lleol newydd felly bydd trigolion Gwynedd yn cael blaenoriaeth am denantiaeth yn y tai newydd hyn.

Nifer o unedau newydd a ddatblygwyd gyda'r Grant Tai Cymdeithasol



Digartrefedd

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd yn darparu cyngor a chymorth i bobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref. Mae'r tîm yn cyflawni dyletswydd statudol y Cyngor er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae eu gwaith yn cynnwys:

- helpu i atal digartrefedd cyn iddo ddigwydd
- asesu anghenion llety ac anghenion cefnogaeth unigolion a theuluoedd sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref

Nifer o bobl y bu i'r Uned Digartrefedd eu helpu yn ystod y flwyddyn



- helpu i ddod o hyd i rywle arall i fyw pan fo unigolyn neu deulu yn ddigartref neu'n wynebu bod yn ddigartref
- darparu llety dros dro mewn achosion o argyfwng, a sicrhau llety ar gyfer y rhai sydd mewn blaenoriaeth angen

Llety Dros dro



Mae'r gwasanaeth yn darparu nifer o lety dros dro nes bod eiddo parhaol ar gael i bobl ddigartref, megis dwy hostel ym mherchnogaeth y Cyngor sy'n darparu unedau hunangynhaliol a chefnogaeth gan staff i alluogi'r unigolion fyw yn annibynnol a dysgu sgiliau bywyd. Ar hyn o bryd mae 57 eiddo wedi eu prydlesu gan berchnogion preifat, a 27 eiddo wedi eu prydlesu gan Gymdeithasau Tai. Darparwyd llety ar gyfer 816 o deuluoedd/unigolion yn 2020/21. Mae'r niferoedd

digartref wedi cynyddu'n gyson ers rhai blynyddoedd ac mae'r patrwm hwnnw'n parhau, gan roi pwysau cynyddol ar y gwasanaeth i ddelio gyda'r angen i gartrefu pobl ar fyr-rybudd.

Cefnogaeth tenantiaeth



Gan fod nifer o bobl ddigartref yn fregus, darperir cefnogaeth i sicrhau fod unigolion yn gallu cynnal eu tenantiaeth ac osgoi dod yn ddigartref eto. Mae cymorth yn cael ei rhoi ar nifer o faterion megis hawlio budd-daliadau, cymorth ar gyfer cynnal a chadw llety, deall hawliau a chyfrifoldebau, a cheisio am grantiau ar gyfer dodrefnu eiddo. Rydym ar hyn o bryd yn cefnogi oddeutu 150 o unigolion ar draws Gwynedd.

Grant Cymorth Tai

Rhaglen grant ymyrraeth gynnar yw'r Grant Cymorth Tai, a sefydlwyd yn 2019 i helpu atal pobl rhag mynd yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu helpu unigolion a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn dwyn ynghyd dri grant sy'n bodoli eisoes, sef y Rhaglen Cefnogi Pobl, Grant Atal Digartrefedd a Rhentu Doeth Cymru.

Mae'r gwasanaethau a ariennir gan y grant yn ychwanegu at y gwasanaeth statudol ac yn cynorthwyo i sicrhau bod y cynnig cyffredinol yn helpu pobl i gael y cartrefi cywir a'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â phroblemau megis dyledion, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camdefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl.

Cofrestr Tai Cymdeithasol



Mae'r tîm Opsiynau Tai Gwynedd yn gweinyddu'r Gofrestr Tai Cyffredin ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r darparwyr tai

cymdeithasol yn y sir sef Adra, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru. Prif nod y tîm ydi blaenoriaethu mynediad at dŷ cymdeithasol ar sail y mwyaf anghenus yn

ein cymunedau ac i ddarparu cyngor i drigolion ar yr opsiynau tai sydd ar gael yng Ngwynedd. Gyda chymorth Opsiynau Tai Gwynedd llwyddodd 543 o deuluoedd i gael tenantiaeth gymdeithasol newydd yn 2020/21.

Nifer o deuluoedd y rhoddwyd tenantiaeth o'r newydd iddynt mewn tŷ cymdeithasol yn ystod y flwyddyn



2018/19 - 621

2019/20 - 696

2020/21 - 543

Mae'r Polisi Gosod Tai Cyffredin newydd, sydd wedi bod yn weithredol ers Hydref 2020, yn rhoi blaenoriaeth i drigolion Gwynedd am dai cymdeithasol ac yn disodli'r hen system pwyntiau i ddyrannu tai.

Cynllun ail leoli ffoaduriaid



Ers 2016 mae Gwynedd wedi cartrefu a darparu cefnogaeth i 8 teulu (40 o unigolion) i ailsefydlu yng Ngwynedd dan Gynllun Ailsefydlu Pobl Fregus o Syria. Mae'r Cynllun hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac yn ymfalchio yn gweld y teuluoedd hyn yn ymgartrefu yn eu cymunedau newydd.

Yn sgil llwyddiant y cynllun hwn, mae'r Cyngor bellach wedi ymrwmo i groesawu hyd at 20 o ffoaduriaid mwyaf bregus sy'n cael eu hadnabod gan Uchel Gomisiwn Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig (UNHCR) fel rhan o'r cynllun Ffoaduriaid Byd Eang (a elwir bellach yn 'Gynllun Ailsefydlu'r DU') dros y tair blynedd nesaf. O ganlyniad i'r pandemig, nid oedd yn bosib gweithredu'r cynllun hwn dros y flwyddyn ddiwethaf ond byddwn yn bachu ar y cyfle i weithredu pan fydd hynny'n ymarferol.

Yn dilyn digwyddiadau diweddar yn Afghanistan, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref ac yn parhau i wneud hynny, ac ar hyn o bryd mae 5 unigolyn sydd wedi ffoi Afghanistan wedi eu cartrefu yma yng Ngwynedd ac yn derbyn cymorth i ailsefydlu o fewn y gymdeithas trwy Gynllun Polisi Cymorth Adleoli Afghaniaid.

Safle teithwyr

Mae gofyn statudol ar bob Awdurdod Lleol i gwrdd â'r angen am safleoedd addas ar gyfer teithwyr. Mae safle pwrpasol yn cael ei rheoli gennym yn Llandygái ers blynnyddoedd lawer ac yn dilyn derbyn cymorth grant gan Lywodraeth Cymru bu buddsoddiad o £1.8m yno yn ddiweddar i wella'r cyfleusterau ac ymestyn y ddarpariaeth i gwrdd â'r gofyn o fewn y Sir.

Gorfodaeth Tai



Pwrpas y Tîm Gorfodaeth yw sicrhau cartrefi safonol, cynnes a diogel i denantiaid o fewn y Sir. Rydym yn gyfrifol am orfodi safonau mewn 9,000 o dai rhent preifat a 8,500 o dai cymdeithasol yng Ngwynedd.

Rydym hefyd yn gofalu am Gynllun Trwyddedu Tai Aml Ddaliadaeth (HMO's) sydd yn gwirio bod tai o'r fath yn cyrraedd y safonau disgwylidig. Ar hyn o bryd mae 181 o dai aml ddeiliadaeth wedi derbyn trwydded gennym yn dilyn proses archwilio fanwl.

Yn ystod 2020/21, cafodd y pandemig Covid-19 effaith ar wasanaeth yr uned hon, fel nifer o unedau eraill, ac ni fu'n bosibl cynnal archwiliadau ac ymweld â safleoedd yn yr un ffordd, ac adlewyrchir hynny yn y data ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r Uned yn gweithio ar y cyd gyda Rhentu Doeth Cymru i gynnal cofrestr cenedlaethol o dai rhent, ac, mewn blwyddyn arferol, yn archwilio anheddau ar gyfer achosion y Swyddfa Gartref, delio gyda chwynion yn ymwneud ag achosion o niwsans, ymdrin â phroblemau yn deillio o dai gwag ac yn ymdrin ag achosion o ddadfeddiannu anghyfreithlon.

Rhwystrodd cyfyngiadau Covid-19 ni rhag cynnal y rhan fwyaf o archwiliadau, er hynny rydym wedi bod yn cynnal archwiliadau ar faterion brys ac wedi ailgydio yn yr archwiliadau cyffredinol ers i'r rheolau lacio. Rydym yn disgwyl i'r ffigyrau y flwyddyn nesaf adlewyrchu'r niferoedd a gwblheir mewn blwyddyn arferol.

Nifer o bobl a gynorthwywyd drwy ddatrys peryglon yn eu tai

2018/19 - 1,454

2019/20 - 807

2020/21 - 107



Addasiadau i Dai

Mae'r Uned hon yn gyfrifol am hybu annibyniaeth a lles trigolion Gwynedd drwy ddarparu addasiadau prydlon a safonol i dai oedolion a phlant sydd ag anableddau corfforol. Buddsoddir oddeutu £1.3m y flwyddyn ar gynlluniau megis creu ystafelloedd ymolchi hygyrch, gosod rampiau y tu allan i'r tŷ, codi estyniadau ac ati yn ôl yr angen. Mae oddeutu 15 o'r rhain yn gyfeiriadau a dderbynnir gan ysbytai er mwyn galluogi i gleifion allu dychwelyd adref. Rydym hefyd yn ariannu oddeutu 750 y flwyddyn o fân addasiadau megis gosod canllawiau, rampiau symudol ac addasiadau bychain eraill.

Mae'r uned yn gweinyddu benthyciadau di-log ar gyfer atgyweirio tai mewn cyflwr gwael sydd mewn perchnogaeth trigolion ar incwm isel, mae galw sylweddol a chyson ar y benthyciadau hyn.


Yn ystod 2020/21, bu gostyngiad yn nifer yr addasiadau a gwblhawyd yn sgil effeithiau Covid-19 a Brexit, gyda chontractwyr a/neu drigolion Gwynedd yn hunanynysu, unigolion yn amharod i dderbyn

Nifer o dai wedi eu haddasu ar gyfer unigolion ag anableddau corfforol



contractwyr i'w tŷ i wneud gwaith oherwydd Covid-19, neu ddiffyg argaeledd deunyddiau o'r tu hwnt i Gymru.

Tai Gwag



Mae oddeutu 1,300 o dai gweigion yng Ngwynedd ar yn o bryd, ac mae gennym rôl bwysig wrth geisio dod â'r tai hyn yn ôl i ddefnydd er mwyn cyfrannu at nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael i bobl leol. Ers 2008 mae dros 600 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd trwy ddulliau megis cynnig grantiau i brynwyr tro cyntaf, darparu benthyciadau i landlordiaid neu berchnogion tai preifat, a defnyddio pwerau gorfodaeth. Mae hyn wedi arwain at allu cartrefu

dros 1,000 o bobl leol mewn tai oedd yn arfer bod yn wag ers peth amser.

Yn ystod 2020/21, lluniwyd y Cynllun Gweithredu Tai, Cynllun sy'n egluro sut byddwn yn mynd ati i weithredu ein Strategaeth Dai dros y chwe blynedd nesaf. Mae'r Cynllun yn weithredol ers mis Ebrill 2021 a hwn fydd yn gyrru'r gwaith ar dai gwag o hyn ymlaen. Oherwydd hynny, gwelir cwmp yn ffigyrau'r nifer o dai gwag a ddaeth yn ôl i ddefnydd yn ystod 2020/21, ond hyderwn y bydd y ffigwr hwnnw'n codi'n gyson yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Tlodi Tanwydd


Mae rhan fwyaf o adnoddau'r Llywodraeth yn y maes yma'n cael ei gyfeirio tuag at y Cymdeithasau Tai ond mae'r Cyngor wedi gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr yn y maes pwysig yma hefyd.

Mae costau tanwydd i gadw cartrefi'n gynnes wedi cynyddu'n sylweddol, ac yn cael effaith ar incwm trigolion Gwynedd, gan wthio nifer o deuluoedd i dlodi neu ymhellach i dlodi. Mae'r Cyngor yn cydweithio â'r sector preifat ar gynllun Eco ac Nyth i ehangu'r nifer o dai sy'n cael mesurau cymorth.

Mae'r Cyngor yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ar sut rydym yn gwella cyflwr tai er mwyn i ni allu gosod y mesurau carbon isel fydd yn eu tro yn arwain at leihau tlodi tanwydd. Rydym yn y broses o sefydlu siop un stop yn cynnig man galw hwylus i bobl geisio cymorth ac atebion i'w problemau tlodi tanwydd.

Rydym yn sicrhau bod trefniadau mewn lle i uchafu'r rhaglenni hyn i'n helpu i gyflawni'r Cynllun Gweithredu Tai, ynghyd â sicrhau bod y darpariaethau hyn wedi cysylltu gyda'r rhaglenni trechu tlodi ehangach.

Yn 2020/21, bu cwmp yn y nifer o geisiadau ECO, yn rhannol o ganlyniad i Covid-19 a'r ffaith fod cwmnïau yn methu ymweld â chartrefi Gwynedd mor rhwydd.



Materion Eiddo

Pwrpas y Gwasanaethau Eiddo yw sicrhau fod gennym eiddo sy'n addas i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor a rheoli'n asedau eiddo yn effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Cyngor yn berchen ar 965 o adeiladau wedi eu lleoli ar 477 o safleoedd ledled y Sir. Mae'r rhain yn bennaf yn adeiladau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd ond rydym hefyd yn berchen ac yn defnyddio eiddo anweithredol i hyrwyddo amcanion y Cyngor e.e. datblygu'r economi, darparu gofal cymdeithasol ayb. Mae nifer o'r eiddo anweithredol yma'n cael eu prydlesu i fusnesau lleol a sefydliadau eraill, sydd yn creu incwm refeniw blynyddol oddeutu £1.1m i'r Cyngor.

Cynnal a Chadw



Mae'r uned Cynnal a Chadw adeiladau yn darparu desg gymorth 24/7 er mwyn delio gyda oddeutu 10,000 o alwadau y flwyddyn am waith trwsio adeiladau. Mae nifer o'r rhain yn alwadau am waith lle bo angen ymateb brys er mwyn osgoi cau adeilad.

Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o gontractwyr lleol ond hefyd rydym wedi datblygu tîm mewnol o grefftwyr sy'n gallu delio gyda gwaith adeiladu, gwaith coed, gwaith trydanol a gwaith plymiwr.

Diogelwch Eiddo

Rydym yn sicrhau fod ein hadeiladau yn ddiogel i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau i drigolion Gwynedd drwy sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r lluo o gyfrifoldebau statudol a sicrhau fod gennym raglen cynnal a chadw effeithiol. Rydym yn rheoli risgiau asbestos, Clefyd y Lleng Filwyr, Radon a risgiau tân ac yn sicrhau fod systemau trydanol, nwy, olew, dŵr ayb yn ddiogel ar gyfer y miloedd o drigolion y Sir sy'n treulio amser yn ein hadeiladau bob dydd.

Datblygu Eiddo

Pwrpas yr Uned yw datblygu adeiladau newydd neu addasu ac adnewyddu adeiladau presennol i wella'r gwasanaeth a roddir i drigolion Gwynedd.



Dyluniad cysyniadol o'r ysgol newydd yng Nghricieth fydd yn agor ym Medi 2023


Drwy gydweithio'n agos gyda'r Tim Moderneiddio Addysg bu i'r Uned Datblygu Eiddo gwblhau rhaglen £60m o adeiladau ysgol newydd dros yr 8 mlynedd ddiwethaf a bellach mae rhaglen newydd £47m wrthi'n cael ei datblygu ar gyfer y pedair mlynedd nesaf.

Mae'r tim hefyd wrthi'n cyflawni rhaglen o unedau blynyddoedd cynnar a chanolfannau iaith y Sir i gyfarch yn angen mewn nifer o gymunedau unigol ledled Gwynedd. Yn ogystal, mae'r tîm wedi dechrau cyflawni rhaglen o ddatblygiadau'r Cynllun Gweithredu Tai, sy'n ymateb i angenion tai pobl Gwynedd.

Rheoli Stadau

Ein pwrpas yw sicrhau fod y Cyngor yn derbyn y gwerth gorau wrth reoli ei bortffolio asedau eiddo a sicrhau mai dim ond yr asedau hynny sydd wirioneddol eu hangen arnom sydd yn cael eu cadw. Dros y degawd diwethaf rydym wedi gallu lleihau maint stad eiddo'r Cyngor dros 25% gan sicrhau fod ein gwariant ar gynnal a darparu adeiladau cyn lleied â phosib er mwyn rhyddhau adnoddau ariannol ar gyfer darpariaeth gwasanaethau rheng flaen. Bydd hyn yn parhau pan fydd cyfleon yn codi, ond erbyn hyn rydym hefyd yn caffael eiddo ac ystyried unrhyw asedau nad oes bellach eu hangen ar gyfer darparu gwasanaeth i wireddu'r Cynllun Gweithredu Tai.

Incwm cronus o werthu eiddo



Y tîm Stadau sydd hefyd yn gyfrifol am reoli holl brydlesi'r Cyngor gan gynnwys y Stad Manddaliadau a'r portffolio Eiddo Diwydiannol gan gynnwys Canolfannau Menter Intec ac Mentec gan greu incwm rhent blynyddol o dros £1.1m.

Rheoli Swyddfeydd



Mae'r Tîm Swyddfeydd yn darparu gofod swyddfa ar gyfer oddeutu 1,500 o staff mewn 7 adeilad sylweddol, gan gynnwys yr holl wasanaethau perthnasol y mae hynny yn ei olygu fel gofalu, glanhau a threfniadau diogelwch ar gyfer yr adeiladau a'u defnyddwyr. Rydym hefyd yn gosod gofod swyddfa i denantiaid allanol.

Gwasanaeth Glanhau

Rydym hefyd yn darparu **gwasanaeth glanhau** ar gyfer nifer sylweddol o adeiladau amrywiol a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau rheng flaen y Cyngor. Rydym hefyd yn ddarparwr i sefydliadau allanol.



Uned Cadwraeth Ynni



Yn dilyn mabwysiadu ein Cynllun Rheoli Carbon, mae'r Tîm Ynni yn gweithredu nifer o brosiectau i **leihau allyriadau carbon**. Ers mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Carbon yn 2010, hyd at 2020 rydym wedi llwyddo i leihau'r allyriadau carbon o'n gweithgareddau 58.3%. Yn unol â newidiadau Llywodraeth Cymru, bydd y Cyngor yn adrodd gan ddefnyddio methodoleg newydd o hyn ymlaen, a byddwn hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffigyrau y flwyddyn nesaf. Mae gwaith y tîm i leihau ein defnydd wedi creu arbedion refeniw blynyddol o dros £1.1m i'r Cyngor. Rydym wedi cychwyn y gwaith o adnabod sut allwn ni gyfrannu ymhellach tuag at ddyhead y Cyngor i wynebu'r argyfwng hinsawdd.

Mae'r Uned Cadwraeth Ynni wedi llwyddo i sefydlu fframwaith prynu ynni, sy'n ein galluogi i sicrhau pris rhatach am ein trydan a nwy. Drwy wneud hyn rydym yn arbed oddeutu £916,000 dros bedair blynedd.

Yn ogystal, mae'r fframwaith yn creu incwm i'r Cyngor fel mae cynghorau a chyfundrefnau eraill yn ei defnyddio.

Mae rhaglen i godi ymwybyddiaeth ymysg plant ysgol wedi bod yn rhan bwysig o'r gwaith hwn gan ddefnyddio cymeriadau megis Sbarci a Fflic. www.sbarciafflic.org



Rheoli Pla a Wardeiniaid Cŵn



Rydym yn cynnig gwasanaeth rheoli a difa pob math o bla drwy gontractau a thrwy ymateb i alwadau dyddiol gan y cyhoedd am gymorth i reoli pla yn eu cartrefi neu fusnesau.



Rydym hefyd yn cyflawni'r gwasanaeth statudol i ofalu am gŵn strae.

Teleofal



Rydym yn darparu gwasanaeth gosod a chynnal a chadw offer Teleofal i drigolion Gwynedd. Mae hwn yn wasanaeth poblogaidd tu hwnt gan unigolion bregus a'u teuluoedd gyda'r defnydd o Dechnoleg Gynorthwyol yn galluogi i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartref.

Mae gwaith yr adran hon yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg

Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib

Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu fel adran fasnachol sy'n dod ag incwm i'r Cyngor, tra hefyd yn ymgymryd â swyddogaethau statudol ym maes dŵr a rheoli llifogydd. Drwy gyfuno'r masnachol a'r statudol mae YGC yn gallu cynnal swyddi safon uchel wrth gadw arbenigedd o fewn y Sir. Mae'r Adran yn arbenigo mewn meysydd peirianyddol, adeiladu a newid hinsawdd mewn perthynas â llifogydd ac erydiad arfordirol.

Dŵr a Llifogydd

O ganlyniad i Newid Hinsawdd, mae bygythiadau erydiad arfordirol a llifogydd yn gwaethgu. Ein bwriad yw, lle yn bosib, i reoli a lleihau effeithiau'r bygythiadau hyn ar bobl Gwynedd. Mae'r gwaith yma yn rhan bwysig o gynllun Newid Hinsawdd y Cyngor.

Blaengynllunio ac Adnabod Risg

Yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae'n hanfodol ein bod yn blaengynllunio i gadw'n cymunedau yn ddiogel, yn iach ac yn hyfyw i'r dyfodol. Mae newid hinsawdd yn creu heriau penodol, ac mae'r maes llifogydd wedi'i gydnabod fel maes blaenoriaeth yn rhyngwladol.

Er mwyn blaengynllunio am yr heriau hyn, rydym yn mynd ati i greu darlun o berygl llifogydd ar draws Gwynedd drwy ddadansoddi'r data sy'n cael ei gasglu gennym; yn ogystal â data allanol swyddogol arall megis rhagolygon hinsawdd a lefelau'r môr. Hyn oll sydd, wedyn, yn sail i'n Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn annog cydweithrediad rhwng y Cyngor cyfan a rhanddeiliaid amrywiol (megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, a'n cymunedau) i sicrhau ein bod yn cymryd pob cyfle posib i gydweithio ac addasu i amddiffyn rhag llifogydd. Mae ceisiadau grant llwyddiannus yn sicrhau buddsoddiad yn isadeiledd Gwynedd sy'n cynyddu gwytnwch ein cymunedau yn wyneb risgiau llifogydd. Rydym wedi adnabod bod angen cefnogaeth barhaus ymhob cymuned er mwyn sicrhau gwytnwch cynaliadwy i liniaru'r risgiau yma i'r dyfodol.

Isod, fe welwch grynodeb o'r gwaith casglu data sy'n bwydo i mewn i'r gwaith hwn.

Archwiliadau i Achosion o Llifogydd



Mae ymchwilio i ddigwyddiadau o lifogydd yn ddyletswydd arnom o dan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Ers i'r Ddeddf ddod yn weithredol yn 2010 mae YGC wedi ymchwilio i 49 digwyddiad o lifogydd mewnol bob blwyddyn, ar gyfartaledd. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth wrth ddarganfod diffygion, neu dderbyn unrhyw bryderon gan drigolion Gwynedd sy'n gysylltiedig â llifogydd. Ein nod yw ymateb i'r rhain yn yr amser byrraf posib.

Cynnal a Chadw Asedau Atal Llifogydd



Rydym yn gyfrifol am gynnal 226 o asedau arfordirol sy'n ymestyn ar hyd 21km o amddiffynfeydd arfordirol, a 55 o asedau sy'n rheoli'r risg o lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin. Mae arolygu a chynnal yr asedau hyn yn hanfodol wrth warchod cymunedau Gwynedd. Rydym yn rhoi sgôr o 1 i 5 (gydag 1 yn golygu 'fel newydd') i

bob ased, ac yn gosod targed cyflwr i bob un. Ein nod yw i bob ased yng Ngwynedd gyrraedd ei darged cyflwr i sicrhau eu bod yn lliniaru risgiau llifogydd i bobl Gwynedd. Rydym hefyd yn cynnal ac yn gweithredu rhaglen fonitro arfordirol sy'n asesu newidiadau i'r arfordir. Bydd hyn, oherwydd effaith newid hinsawdd, yn effeithio ar ein cymunedau arfordirol fwyfwy yn y blynyddoedd i ddod.

Ein Rôl yn y Drefn Gynllunio

Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Llifogydd Arweiniol Lleol, ac felly mae gan YGC rôl i atal datblygiadau a gweithgareddau a allai gyfrannu at berygl llifogydd. Mae'r rhain yn bennaf yn cynnwys:

- Rhoi cyngor ar geisiadau cynllunio o ran risg llifogydd dŵr wyneb a gofynion y canllawiau newydd ar gynllunio ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol sy'n weithredol o 1 Rhagfyr 2021.
- Cynghori ar waith mewn cyrsiau dŵr a chaniatáu ceisiadau perthnasol - ar gyfartaledd yn flynyddol, rydym yn derbyn 50 cais sy'n cael effaith ar neu yn rhwystro'r llif mewn cwrs dŵr cyffredin. Rydym yn sicrhau bod y gwaith adeiladu'n cael ei wneud mewn modd sydd â'r effaith lleiaf posib i berygl llifogydd a'r amgylchedd. Mae gofyniad statudol arnom i ymateb mewn 28 diwrnod, ond y nod ym mhob achos yw cymeradwyo ceisiadau cyn gynted ag y bo modd.

Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy

Ers Ionawr 2019 mae angen i fathau penodol o ddatblygiadau dderbyn caniatâd Systemau Traenio Cynaliadwy (SuDS). Cyn cychwyn adeiladu, mae angen i ddatblygwyr ystyried sut y byddent yn rheoli dŵr ar y safle, er mwyn sicrhau ansawdd y dŵr a lleihau'r risg o lifogydd i'r dyfodol.

Rydym yn gorff cymeradwyo SuDS ac yn cynnig cymorth cyn cais i helpu datblygwyr i gwrdd â'r gofynion.

Mae nifer o geisiadau wedi cynyddu yn ddiweddar o 12 yn 2019/20 i 48 yn 2020/21

Yn 2022/23, byddwn yn:

- **Parhau i flaenoriaethu gwaith atal llifogydd yn y sir, a datblygu cynlluniau er mwyn lliniaru risgiau llifogydd i drigolion Gwynedd.**
- **Sicrhau dylanwad ar y broses adnewyddu'r Cynllun Traethlin 2, a fydd yn rhoi'r weledigaeth hir dymor mewn lle o ran arfordir Gwynedd.**
- **Newid ein system er mwyn cwrdd â'r gofynion y canllawiau newydd ar gynllunio ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol.**

Gwasanaethau Masnachol Ymgynghorol




Mae YGC yn dylunio a rheoli prosiectau sy'n ymwneud â ffyrdd, strwythurau, adeiladau ac ati yng Ngwynedd a thrwy Gymru. Rydym yn creu a chynnal swyddi o ansawdd na fyddent yn y Sir fel arall, a thrwy ddenu ffioedd am ein gwaith rydym yn cyfrannu tuag at gostau cynnal Cyngor Gwynedd.

Rydym yn darparu gwasanaethau ymgynghorol amrywiol yn y meysydd isod:

- adeiladu ac isadeiledd,
- dŵr ac amgylchedd,
- technegol, a
- busnes a rheoli prosiectau.

Perfformiad Cyllidol



Fel rhan o'r gwasanaethau yma, gallwn wneud gwaith pensaernïol, syrfeio, dylunio, archwilio ac asesu, modelu hydroleg, geodechnegol a llawer mwy.

Mae'r gwaith yma hefyd yn chwarae rôl hanfodol yn ein gallu i wireddu ein gofynion statudol mewn perthynas â llifogydd ac erydiad arfordirol. Mae ein gallu i ddenu ffioedd am ein gwaith ymgynghorol yn ein galluogi i adeiladu arbenigedd technegol o fewn y Cyngor, a dal ein gafael ar yr arbenigedd a chyflogi pobl leol.

Yn ei dro, mae'r arbenigedd yn ein gallu i ddenu grantiau'n llwyddiannus drwy ddatblygu cynlluniau gwaith rheoli risg llifogydd sy'n arloesol ac yn gynaliadwy. Mae'r gwasanaethau ymgynghorol felly yn allweddol i'n caniatáu ni i warchod pobl Gwynedd yn wyneb effeithiau newid hinsawdd.

Yn 2022/23 byddwn yn canolbwyntio ar ychwanegu i'n rhestr o gleientiaid er mwyn cynyddu'r buddsoddiad rydym yn ei ddenu tra hefyd yn ymestyn yr amrediad o wasanaethau proffesiynol y gallwn ei gynnig.

Mae gwaith dydd i ddydd yr adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel,**
- **Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau**
- **Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.**



Adran Cefnogaeth Gorfforaethol



Mae'r adran yn atgyfnerthu gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol, arbenigol a rheng-flaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i weddill y Cyngor ganolbwyntio ar y gwasanaethau eraill a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth gwella canlynol:

- Cadw'r Budd yn Lleol – (Blaenoriaeth Gwella 1)
- Merched mewn Arweinyddiaeth – (Blaenoriaeth Gwella 3)
- Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb) – (Blaenoriaeth Gwella 3)
- Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig – (Blaenoriaeth Gwella 5)
- Hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau'r Cyngor – (Blaenoriaeth Gwella 5)
- Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus – (Blaenoriaeth Gwella 5)
- Sicrhau fod rheolwyr yn arddel eu rôl lechyd a Diogelwch yn effeithiol – (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Cynllunio'r Gweithlu – (Blaenoriaeth Gwella 7)
- Gweithredu rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi 'Ffordd Gwynedd' ar waith) – (Blaenoriaeth Gwella 7)

Cyswllt Cwsmer



Mae Galw Gwynedd, o'i ganolfan ym Mhenrhyndeudraeth, yn ymateb i alwadau ffôn, negeseuon e-byst a cheisiadau am wasanaeth ar-lein ar ran gwasanaethau'r Cyngor. Mae Siop Gwynedd yn Nolgellau, Pwllheli a Chaernarfon yn gweithredu fel siop-un-stop a derbynfa i'r un pwrpas, yn ogystal â gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y Gwasanaethau Trethi a Budd-dal.

Ateb galwadau
ffôn, ar
gyfartaledd o
fewn 47 eiliad



Derbynnir tua 190,000 galwad ffôn yn Galw Gwynedd bob blwyddyn, a daw o leiaf 20,000 o ymwelwyr i Siopau Gwynedd yn flynyddol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu a chyflwyno trefniadau newydd i'r gwasanaeth switsfwrdd er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmeriaid

- ail-strwythuro er mwyn sicrhau y gellir darparu yr ystod llawn o wasanaethau ymhob un o'n Canolfannau Cyswllt Cwsmer
- datblygu'r defnydd presennol o "web-chat" ac ymestyn y gefnogaeth i ddefnyddwyr ein gwasanaethau ar-lein.


Cofrestru



Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cofrestru o bedwar lleoliad ar draws y sir.

Cofrestrwyd dros 4,200 o briodasau, partneriaethau sifil, genedigaethau a marwolaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a derbyniwyd dros 1,000 o geisiadau am dystysgrifau. I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu hunan wasanaeth ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau
- cryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth.



Cyfathrebu ac Ymgysylltu



Mae'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn hwyluso deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd, staff a chynghorwyr.

Mae'r cyfathrebu yma yn cynnwys cynnal perthynas ragweithiol gyda'r cyfryngau, cynnal gwefan a chyfrifon gwefannau cymdeithasol y Cyngor, cyhoeddi Newyddion Gwynedd, cydgorio cyfleoedd i bobl Gwynedd leisio barn ar waith y Cyngor a chynnal trefniadau cyfathrebu mewnol y Cyngor.

I'r dyfodol byddwn yn:

- gwella'r drefn o adnabod a blaenoriaethu'r prif negeseuon a'r prif faterion er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn derbyn yr wybodaeth maent ei angen
- ymgymryd â gwaith datblygu i sicrhau bod gwefan y Cyngor yn parhau i gwrdd ag anghenion pobl Gwynedd
- cryfhau ac ymestyn ein trefniadau cyfathrebu mewnol.



Cefnogi Busnes y Cyngor



Mae'r gwasanaeth hwn yn cydlynu trefniadau ar gyfer cyhoeddi Cynllun y Cyngor, Cynllun Cydraddoldeb ac adroddiadau perfformiad y Cyngor yn ogystal â cynghori ar drefniadau prosiect a rheoli prosiectau, adolygiadau gwasanaeth ac ymchwiliadau craffu. Byddwn yn helpu gwasanaethau'r Cyngor i roi ystyriaeth deg i gydraddoldeb a hawliau pob unigolyn, ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cynorthwyo swyddogion a chynghorwyr i herio cynlluniau ac arferion gwaith.

Elfen arall o waith y gwasanaeth yw cefnogi gwaith y *Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus* lle mae cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn yn ogystal â'r *Bwrdd Iechyd*, *Cyfoeth Naturiol Cymru* a'r *Gwasanaeth Tân* ac *Achub* yn cydweithio er mwyn gwella lles trigolion mewn sawl maes.

I'r dyfodol byddwn yn:

- gweithredu ar y rhaglen waith o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 er mwyn sicrhau fod cydraddoldeb wedi'i wreiddio yn holl waith y Cyngor
- cydlynu'r gwaith o lunio Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn ar gyfer 2023-28
- cydlynu'r gwaith o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28.

Ymchwil a Gwybodaeth



Er mwyn i bob gwasanaeth yn y Cyngor fod yn gweithio'n llwyddiannus yn unol ag egwyddorion Ffordd Gwynedd maent angen deall beth ydi anghenion eu cwsmeriaid, yn gallu mesur os ydyn nhw'n cyflawni yr hyn sy'n bwysig i'w cwsmeriaid, ac yn gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth o'r effaith ar bobl Gwynedd. I wneud hyn i gyd mae gwybodaeth – ei gasglu, ei gadw, a'i ddadansoddi – yn hollbwysig. Mae'r gwasanaeth yma i gefnogi gwasanaethau'r Cyngor i wneud hyn.

Gan bod cymaint o wybodaeth yn cael ei ddal ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor, yn cynnwys gwybodaeth am bobl, mae angen gwneud yn siŵr fod y trefniadau ar gyfer creu, cadw, rhannu a defnyddio'r wybodaeth yma yn gweithio'n iawn ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth.



I'r dyfodol byddwn yn:

- cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cefnogi Busnes i wella'r dystiolaeth sydd ar gael i wasanaethau'r Cyngor ynglŷn â natur ac anghenion ardaloedd lleol yng Ngwynedd
- datblygu'r wybodaeth a dadansoddiadau mae rheolwyr y Cyngor yn ei gael ynglŷn â'u gweithlu a gwneud yr wybodaeth yma yn haws i gael mynediad ato

- gwneud y mwyaf o botensial system rheoli dogfennau a chofnodion newydd y Cyngor (iGwynedd), gan helpu gwasanaethau i ddatblygu pethau sy'n hwyluso ffyrdd o weithio a dileu camau diangen
- sicrhau bod trefniadau ac arferion gwaith cadw a rhannu gwybodaeth yn sicrhau bod y defnydd o ddata yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar bob adeg.


Caffael



Mae'r Cyngor yn gwario dros £118m y flwyddyn ar gaffael, neu brynu, gwahanol nwyddau a gwasanaethau o gyllidebau refeniw. Yn 2019/20, roedd pryniant o nwyddau a gwasanaethau lleol gyfwerth â £71m i'r economi leol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor ac adolygu'r hyn yr ydym yn ei brynu ar hyn o bryd
- mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chyflwyno cynlluniau pellach i gefnogi'r farchnad
- datblygu'n systemau pwrcasu electroneg er mwyn ymateb i ofynion newydd.



Democratiaeth ac Iaith



Mae'r Gwasanaeth Democratiaeth ac iaith yn gyfrifol am dri maes penodol, sef democratiaeth, cyfieithu ac iaith. Rydym yn gyfrifol am gynnal y drefn bwyllgorau a chynnig cefnogaeth amrywiol i 69 cynghorydd bellach. Bu lleihad yn y niferoedd o gynghorwyr yn sgil newidiadau gan y Comisiwn



Ffiniau.

Iaith weithredol y Cyngor yw'r Gymraeg, ond mae holl wasanaethau'r Cyngor ar gael i'r cyhoedd yn y Gymraeg a'r Saesneg. Felly rydym yn hybu ac yn galluogi'r defnydd o'r Gymraeg trwy'n holl wasanaethau. Cefnogir hyn trwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar bapur ac ar lafar i staff, cynghorwyr a thrigolion y sir.

Mae'r Cyngor eisiau gweld sefyllfa lle mae Gwynedd yn parhau i fod yn gadarnle i'r iaith a'i bod yn iaith bob dydd sydd yn cael ei chlywed a'i siarad yn naturiol gan blant, pobl ifanc ac oedolion ar draws y sir.

I'r dyfodol byddwn yn:

- cynnal cyfarfodydd prif bwyllgorau'r Cyngor yn unol â'r fframwaith pwyllgorau sydd wedi ei fabwysiadu, gan we ddarlledu yn unol â'r gofynion statudol a pharhau i ddatblygu ein trefniadau yn fwy effeithiol/effeithlon
- cefnogi cynghorwyr newydd a chefnogi cynghorwyr mewn rolau newydd yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022
- parhau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu byw eu bywydau drwy'r Gymraeg
- cychwyn y gwaith o werthuso ac adolygu ein Cynllun Hybu'r Gymraeg.



Gwasanaeth Cefnogol



Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol megis trefnu penodiadau, archebu nwyddau, argraffu, talu biliau a dosbarthu post i staff y Cyngor.

Yn 2021/22, mae'r gwasanaeth wedi canolbwyntio ar symleiddio trefniadau gweinyddol, lleihau gwaith papur diangen a galluogi staff a rheolwyr i gael mynediad at wasanaeth a gwybodaeth yn uniongyrchol ac yn amserol.

I'r dyfodol byddwn yn:

- mewnosod trefniadau recriwtio a phenodi er mwyn lleihau gweinyddiaeth fewnol a hefyd hwyluso'r dasg i unigolion wrth ymgeisio am swydd efo'r Cyngor
- newid y drefn o gyfathrebu a gweinyddu trwy bapur i fod yn gweithio'n electroneg
- gwaith ymchwil i'w wneud ar edrych ar systemau adnoddau dynol sydd ar gael yn y farchnad agored.

Cynlluniau Argyfwng

Mae gan y Cyngor rôl i baratoi cynlluniau ar gyfer ymdrin ag argyfwng ac i gydweithio efo'r gwasanaethau brys, asiantaethau a gwirfoddolwyr er mwyn gofalu am les y cyhoedd. Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu'r rôl allweddol honno fwy nag erioed o'r blaen.

Mae darparu cyfleusterau bwyd a gorffwys, llety dros-dro a diogelwch ffyrdd yn enghreifftiau amlwg o'r cyfrifoldebau penodol sydd gan y Cyngor wrth ymateb i amrywiol argyfyngau.

Mae'r Grŵp Gweithredol Cynlluniau Argyfwng, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bob Adran, yn cyd-gordio trefniadau i baratoi ar gyfer argyfyngau tra bo Grŵp Strategol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn cadw trosolwg ac yn herio'r trefniadau hynny yn ôl yr angen. Cefnogir hyn oll gan y Gwasanaeth Cynlluniau Argyfwng Rhanbarthol sydd wedi'i gytundebu i ddarparu'r arweiniad arbenigol yn y maes hwn.

I'r dyfodol byddwn yn:

- adolygu a chryfhau ein trefniadau parhad gwasanaeth gan gynnal ymarferion lleol i sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn effeithiol i'r amrywiol argyfyngau a wynebir.

Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol



Mae'r tîm o ymgynghorwyr a swyddogion adnoddau dynol yn gyfrifol am gynghori rheolwyr a phenaethiaid ysgolion ar ystod eang o faterion cyflogi staff. Mae hynny'n cynnwys dehongli yr amodau gwaith, materion cyflog cyfartal, ailstrwythuro neu dorri ar wasanaethau, ymdrin â disgyblaethau a chwynion, rheoli absenoldebau a chynllunio'r gweithlu. Mae'r gwasanaeth hefyd yn arwain ar raglen sy'n canolbwyntio ar adolygu a datblygu amodau gwaith y Cyngor ac yn chwarae rôl ganolog mewn cynnal perthynas waith adeiladol efo'r undebau llafur.

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu a gweithredu model busnes y gwasanaeth, fel bo'r pwyslais cynyddol ar roi cyngor a chefnogi rheolwyr i gymryd perchnogaeth o faterion cyflogaeth dydd i ddydd
- gweithredu rhaglen o adolygu a datblygu'r amodau gwaith lleol fel eu bod nhw'n adlewyrchu a chefnogi'r ffordd y mae'r Cyngor am i'w staff weithio.

Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant



Mae'r gwasanaeth yn cyflawni rôl statudol o roi cyngor cymwys i'r cyflogwr ar faterion iechyd, diogelwch a llesiant. Mae hyn yn cynnwys cynghori ar safonau cyfreithiol ym maes diogelwch, ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau eraill, monitro, archwilio a chynnal rhaglen hyfforddi.

Yn ychwanegol, rydym yn cefnogi staff trwy gyfnodau o absenoldebau, yn rhoi cyngor i reolwyr ar iechyd eu staff ac asesu addasrwydd i weithio yn dilyn anaf neu salwch, yn sgrinio iechyd gweithwyr, yn cynnal gwyliaidwriaeth iechyd ar staff yn ogystal â chynllunio a gweithredu rhaglen hybu iechyd a llesiant.

I'r dyfodol byddwn yn:

- prif ffrydio iechyd a llesiant meddyliol o fewn y gweithlu, gan godi ymwybyddiaeth ac arfogi staff ar draws y Cyngor ac hyrwyddo diwylliant o rannu profiadau a chefnogi unigolion
- datblygu a gweithredu model busnes newydd ar gyfer y gwasanaeth er mwyn annog perchnogaeth yn y gwasanaethau o faterion iechyd a diogelwch dydd i ddydd o fewn y Cyngor gan flaenoriaethu adnodd ar gyfer y risgiau uchaf.



Dysgu a Datblygu'r Sefydliad



Mae'r gwasanaeth yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu arloesol a pherthnasol, drwy ymgynghori ac ymateb i anghenion unigolion a thimau, helpu i ddatblygu diwylliant ac awyrgylch waith a buddiannau fel bod pawb yn rhoi o'u gorau, helpu gwasanaethau i adnabod cyfleoedd i wella a datblygu talent i lenwi bylchau'r dyfodol.

Darperir rhaglenni *Dysgu a Datblygu* i staff (ar bob lefel) ac Aelodau Etholedig, sy'n cynnwys datblygu'r arweinyddiaeth. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau a swyddogion i sicrhau perthnasedd ac ansawdd yr arlwy, i 'lenwi bylchau' yn y ddarpariaeth a theilwra teitlau i gyfarfod eu hanghenion. Mae'r gwasanaeth yn hybu a chefnogi unigolion i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu eu hunain, a chynigir amrediad o ddulliau dysgu sy'n cynnwys y 'traddodiadol' yn ogystal â dulliau arloesol megis *cymhelliant a mentora* a dysgu trwy brofiad.

Mae pwyslais arbennig ar ddatblygu dulliau dysgu o bell ('rithiol'), ac mae'r rhaglen ddysgu yn adlewyrchu hyn, gyda mwy gyfleon dysgu yn cael eu hychwanegu'n rheolaidd.

Amcan y gwaith *Datblygu'r Sefydliad* yw meithrin ymddygiadau a diwylliant sy'n creu a chynnal awyrgylch waith lle mae staff ar eu gorau i wasanaethu pobl Gwynedd. Mae rhoi llais i staff, gyda chyfle i gyfrannu barn a syniadau yn rhan allweddol o hyn tra bo ffocws hefyd ar ddatblygu gweithlu'r dyfodol trwy gynlluniau *Adnabod a Datblygu Talent*. Cynigir amrediad cynyddol o fuddiannau sydd yn cyfrannu at lesiant a bodlonrwydd staff.

Elfen bwysig arall yw *Gwella Gwasanaeth* drwy ymateb yn gadarnhaol i gwynion, gan hwyluso trefniadau i wasanaethau gymryd perchnogaeth drostynt, a dysgu ohonynt. Hefyd i ddatblygu llwyddiannau.

I'r dyfodol byddwn yn:

- datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth dysgu o bell
- cyfrannu at gynllun i sicrhau bod holl staff y Cyngor yn meddu ar sgiliau technoleg gwybodaeth briodol er mwyn defnyddio systemau hunan-wasanaeth a manteisio ar y ddarpariaeth dysgu
- ymestyn y gwaith (ymgyngorol ac ymarferol) i gefnogi adrannau i ddatblygu timau a sgiliau arwain
- datblygu a chydgordio amrediad o becynnau cefnogol i helpu staff a rheolwyr ymdopi.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg



Adran Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth)



Bwriad yr Adran Cyllid yw cyfrannu at gyflawni'r nod o geisio'r gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd drwy:

- sicrhau'r gefnogaeth briodol i weithrediad busnes y Cyngor a'i wasanaethau wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, er mwyn sefydlu cymuned gynaliadwy mewn modd agored, ymatebol a blaengar
- sicrhau arweiniad cefnogol proffesiynol a thechnoleg o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor ac annog mentergarwch
- darparu gwasanaethau rheng-flaen (fel casglu refeniw a thalu budd-daliadau) o ansawdd addas i'r cwsmer, gan ddarparu tegwch i bobl a chymunedau, a rhoi ffocws ar drigolion.

Yn ogystal â'r gwaith ddydd i ddydd a amlinellir isod, mae'r adran hon yn arwain ar y prosiect blaenoriaeth gwella ganlynol:


- Cyflawni arbedion – (Blaenoriaeth Gwella 7)

Nodir hefyd fod yr Adran yn cyfrannu tuag at flaenoriaeth gwella Rheolaeth o'r Defnydd o Dai fel Tai Haf ac Ail Gartrefi (Adran Amgylchedd) ac yn parhau i bwysu am ddiwygio'r drefn yn y maes yma, gan ddefnyddio tystiolaeth maent yn ei gasglu yn barhaus er mwyn cael Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ddeall maint y broblem sy'n bodoli yng Ngwynedd.

Gwasanaeth Budd-daliadau

Mae'r Cyngor yn gweinyddu cymorth budd-daliadau i tua 7,500 o denantiaid i dalu eu rhent, ac i tua 10,000 o unigolion, cyplau neu deuluoedd i dalu eu bil Treth Cyngor, gan anelu i wneud hynny'n brydlon a chywir.

Fe welir o'r graff bod y nifer o ddiwrnodau mae'n ei gymryd i dalu wedi cynyddu eto yn 2020/21 ar ôl lleihau yn 2019/20. Mae hefyd yn adlewyrchu sbigyn yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol pan welwyd cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau, ond dychwelodd yr amser prosesu i'w lefel cyfartalog erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.



Mae Llywodraeth y DU wedi cychwyn adolygiad cynhwysfawr o drefniadau Taliadau Tai Dewisol (Discretionary Housing Payments) yn ystod 2021/22. Bydd yr adolygiad yn parhau i mewn i 2022/23 a bydd y Cyngor yn parhau i lobio'r Llywodraeth gyda'r bwriad o'u hargyhoeddi i barhau


gyda'r elfen wledig o Daliadau Tai Dewisol, sy'n gwneud gwahaniaeth arwyddocaol i bobl Gwynedd.

Ar y cyfan, mae trefniadau yn gweithredu'n llyfn ac felly mae'r tebygolrwydd o ddirywiad yn y gwasanaeth a roddir gan y Cyngor yn isel.

Gwasanaeth Trethi

Heb Dreth Cyngor a Threthi Busnes, ni fyddai'n bosib i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau. Mae'r gwasanaeth yma yn gweinyddu a chasglu Treth Cyngor dros 61,500 eiddo, a Threth Busnes (Treth Annomestig) dros 9,000 eiddo busnes yn y ffordd fwyaf prydlon ac effeithlon bosib, gan gynnwys gweinyddu'r amrywiaeth o ddisgowntiau, eithriadau a chynlluniau rhyddhad sydd ar gael.

Canran Treth Cyngor a Threthi Busnes sy'n cael eu casglu o fewn y flwyddyn



Gwelwyd gostyngiad yn y gyfradd casglu Treth Cyngor ym misoedd cynharaf 2020/21, a hynny'n bennaf oherwydd penderfyniad y Cyngor i atal unrhyw waith adfer dyledion treth am 3 mis cyntaf y flwyddyn oherwydd y pandemig a'r cyfnod clo. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd y gyfradd casglu yn agos i ddychwelyd i'r lefel arferol.


Mae rhai o fusnesau wedi dioddef yn sylweddol yn ystod 2020/21, ac er gwaethaf cynlluniau rhyddhad trethi i fusnesau mewn sectorau penodol gwelir fod cyfradd casglu ar drethi annomestig yn sylweddol is yn 2020/21, o'i gymharu â blwyddyn arferol. Byddwn yn parhau i weithio gyda busnesau a'u cyfeirio at gymorth addas, mewn cydweithrediad â gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor.

Mae staff Trethi'r Cyngor yn ceisio cymell unigolion i ofyn am gyngor ar gyllido personol a chynghor dyledion ehangach.


Gwasanaeth Incwm

Mae'r Cyngor yn derbyn incwm (e.e. grantiau, taliadau am wasanaeth) o bob math, ac mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu'r incwm yma, gan gasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn gwneud yn fawr o'r incwm. Mae'r gwasanaeth yn ystyried anghenion adrannau'r Cyngor a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr wrth gyflawni ei waith.

Roedd ffigwr y dyledwyr dros 6 mis oed ar 31 Mawrth 2021 yn uwch nag ar y dyddiad cyfatebol mewn blynyddoedd blaenorol, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau'r pandemig.



% Anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod



Gwasanaeth Taliadau

Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am dalu credydwyr y Cyngor yn gywir ac ar amser. Mae dros 151,000 o anfonebau yn cael eu talu'n flynyddol, gyda 93% ohonynt wedi'u talu o fewn 30 diwrnod ar gyfartaledd, gan anelu i dalu cyflenwyr lleol yn brydlon.

Mae'r gwasanaeth wedi symud i drefn o dderbyn anfonebau yn electroneg, gyda dros 97% o'n taliadau bellach yn daliadau trwy'r banc, yn hytrach na thrwy sieciau.

Gwasanaeth Cyflogau


Mae dros 7,200 o unigolion gwahanol yn gweithio i'r Cyngor er mwyn ei alluogi i wasanaethu ar ran pobl Gwynedd, a phwrpas y Gwasanaeth Cyflogau ydi sicrhau eu bod yn cael eu talu yn gywir ac ar amser. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

Gwasanaeth Pensiynau

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gyfrifol am weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar ran dros 40 o gyflogwyr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r gronfa yn cynnwys dros 18,000 o aelodau actif, 12,000 o aelodau gohiriedig a 10,000 o bensiynwyr. Mae dyletswyddau'r gwasanaeth o ddydd i ddydd yn cynnwys sefydlu record i aelodau newydd; gwneud newidiadau i gofnodion aelodau; cyfrifo buddion gohiriedig; trosglwyddo hawliau pensiwn i mewn ac allan o'r CPLIL, a thalu buddion ar ôl ymddeoliad a marwolaeth aelodau'r cynllun.

Yn ystod 2022/23, bydd y Gwasanaeth Pensiynau yn canolbwyntio ar wella gwefan y cynllun a'r ddarpariaeth hunan wasanaeth i aelodau. Hefyd, bwriedir gweithio gyda chyflogwyr y Gronfa Bensiwn i dderbyn manylion perthnasol ar gyfer ail gyfrifo buddion aelodau yn dilyn yr achos 'McCloud'.

Cyfartaledd nifer dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol



Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys


Mae'r gwasanaeth yma'n buddsoddi arian y Cyngor er mwyn ennill llog, i gyfrannu at ariannu gwasanaethau. Maent hefyd yn rheoli buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn, er mwyn sicrhau'r gallu i dalu pensiynau rŵan ac i'r dyfodol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r gwasanaeth yn cynllunio a threfnu benthyciadau hir-dymor.

Amcan yr uned yw cadw'r arian yn ddiogel, ennill llog a sicrhau fod arian ar gael i dalu am wariant dyddiol.

Yn ystod 2020/21 arhosodd gweithgarwch benthycar'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. £422,000 oedd cyfanswm y llog a difidendau a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau'r Cyngor, sydd yn uwch na'r £400,000 oedd yn y gyllideb. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd y Cyngor wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu talu.

Mae cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru yn cyd-fuddsoddi yn gynyddol er mwyn cael y budd gorau i aelodau'r cynllun pensiwn. Mae Cronfa Gwynedd wedi pwlio buddsoddiadau ecwiti, incwm sefydlog, a marchnadoedd datblygol sydd yn golygu bod 83% o fuddsoddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd rwan wedi'i bwlio.

Cafwyd dechreuad heriol i flwyddyn ariannol 2020/21 yn sgil cwmp y marchnadoedd stoc ym Mawrth 2020 oherwydd y pandemig, ond mae'r marchnadoedd wedi bownsio yn ôl gydag adferiad yng ngwerth y Gronfa Bensiwn i £2.5 biliwn erbyn 31 Mawrth 2021 a hynny yn bennaf yn y marchnadoedd ecwiti.



Yn ystod 2022/23, bydd prisiad teirblyneddol Gronfa Bensiwn er mwyn adnabod gwerth asedau ac ymrwymadau'r 40 o gyflogwyr, ac addasu lefel eu cyfraniadau i'r cynllun pensiwn erbyn 2023/24.

Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg (yn cynnwys unedau datganoledig)

Darperir gwasanaeth cyllid a chyfrifeg i wasanaethau'r Cyngor, i'w cynorthwyo a'u cefnogi i fod yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'r gwasanaeth:

- Yn gosod cyllideb gytbwys flynyddol ar gyfer y Cyngor
- Yn monitro ac adrodd yn rheolaidd ar berfformiad ariannol y Cyngor
- Yn darparu cefnogaeth ariannol gyda chyllideb gros o £472 miliwn
- Yn gyfrifol am gynhyrchu cyfrifon terfynol ar gyfer Cyngor Gwynedd, GwE, Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, Harbyrau a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Yn cynorthwyo'r adrannau i wireddu £32.7 miliwn o arbedion ers 2015 (allan o gyfanswm o £34.8 miliwn).



Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod ar ddatganiadau ariannol 2020/21, sef bod y cyfrifon wedi eu paratoi'n briodol ac yn rhoi darlun cywir a theg o'r sefyllfa ariannol.


Yn sgil effaith y pandemig ar y Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol a cholledion incwm, byddwn yn darparu mwy o gyngor ariannol i holl ddeiliaid cyllidebau'r Cyngor, yn ogystal â chyngor "busnes" i adrannau.

Yn gyffredinol, nid yw'r arian mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn ddigonol i dalu am y gwasanaethau allweddol mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Felly, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, byddwn hefyd yn parhau i wireddu'r arbedion sydd eisoes wedi eu cymeradwyo, a hefyd yn cynllunio, fel bo angen, i ddarganfod a dethol yr arbedion er mwyn ymateb i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol.

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Mae'r gwasanaeth yn adolygu trefniadau llywodraethu a gweinyddol y Cyngor er mwyn rhoi hyder i'r awdurdod ac i'r dinesydd fod y trefniadau yma'n gadarn. Adroddir yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac i gyd-bwyllgorau mae Gwynedd yn lletya.

Am gyfnodau yn ystod 2020/21 bu'n rhaid dargyfeirio adnoddau Archwilio Mewnol dros dro i ddelio gyda'r argyfwng Covid-19, felly ni



chafodd pob archwiliad ei gwblhau yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig.

Gwasanaeth Risg ac Yswiriant

Mae angen i holl adrannau'r Cyngor asesu'r bygythiadau a chyfleoedd all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau, a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Rôl y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant yw cynghori a chefnogi'r adrannau wrth wneud hyn. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn amddiffyn buddiannau trethdalwyr, drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â thua 250 o hawliadau'r flwyddyn.

Mae gwaith yn parhau i sicrhau fod adrannau'r Cyngor yn cofnodi eu prif risgiau a'u hadolygu'n rheolaidd. Bydd y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant yn cefnogi'r holl adrannau er mwyn sicrhau fod defnydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyson ar draws y Cyngor, a bod asesiadau o risgiau yn cael eu diweddarau'n barhaus. Law yn llaw â hynny, bydd ystyriaeth gynyddol o gynnwys cofrestrau risg wrth fonitro perfformiad adrannau.

Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

Gweithredir Strategaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor er mwyn helpu pobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.

Wyneb y gwasanaeth yw'r *Gwasanaeth Cefnogol a'r Ddesg Gymorth* sy'n cefnogi 2,711 o ddefnyddwyr ac yn diwallu oddeutu 20,000 cais am wasanaeth yn flynyddol. Rhoddwyd sylw i 12,179 o geisiadau am wasanaeth yn nwy chwarter cyntaf y flwyddyn, a derbyniwyd adborth gan 480 o ddefnyddwyr, gyda 466 yn nodi eu bod yn fodlon iawn, 9 yn fodlon, 2 yn anfodlon, 2 yn anfodlon iawn ac 1 yn datgan nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon gyda'r gwasanaeth a roddwyd.

% argaeledd y rhwydwaith

2019/20: 99.98%
2020/21: 99.98%
2021/22: 99.8%



% bodlonrwydd y Ddesg Gymorth

2019/20: 99.35%
2020/21: 99.22%
2021/22: 99.89%



Er bod y cynnwrf gwreiddiol o amgylch darparu ar gyfer gweithio o gartref wedi distewi, mae gweithgaredd yr uned yn parhau yn uwch na'r arfer gan fod elfennau o ddal fyny ar raglenni gwaith a llithrwyd oherwydd yr argyfwng.

Mae paratodau ar waith i fewnoli cefnogaeth technegol i ysgolion a hyn yng ngolau cyhoeddi *Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd*. Mae'r uned wedi darparu 4,500 o liniaduron a 900 o iPads i'r sector cynradd ac yn darparu 3,700 gliniadur pellach i'r disgyblion uwchradd a 1,050 i athrawon y sir.

Mae'r *Uned Isadeiledd, Diogelwch a Rhwydwaith* yn sicrhau bod gwasanaethau technoleg yn cael eu cyflwyno ar seiliau cadarn gan ymledu i 300 adeilad, 1,400 o bwyntiau mynediad di-wifr a 3,500 o gysylltiadau ffôn, ac yn cefnogi'r holl systemau yn y ganolfan data, ar 440 gweinyddwr a thros 1,000TB o storfa. Cysylltir y ddwy ganolfan ddata gyda chyswllt ffibr cyflym uniongyrchol. Fe

gryfhawyd ein gwytnwch ym mhellach yn ystod 2021/22 drwy gyflwyno ail gyswllt i'r rhyngwrwyd yn y ganolfan ddata ym Mhenrhyndeudraeth a daeth y generadur yn weithredol yn y Pencadlys.

Elfen hynod bwysig a chritigol ar gyfer cyflwyno a chefnogi gwasanaethau digidol yw cadernid ein hamddiffynfeydd diogelwch a'n gallu i ymateb ac adfer i ymosodiadau seibr. Fe gryfhawyd ein hamddiffynfeydd drwy ddiweddarau ein pecynnau gwrth firws ac ychwanegu gallu i adnabod a delio ag ymosodiadau yn gynt ac ychwanegu gweithdrefn copi wrth gefn i gryfhau ein gallu i adfer o drychineb. Yn ychwanegol i dechnoleg newydd, fe weithredwyd ymarferiad gwe-rwydo a chyflwyno rhaglen o hyfforddiant i addysgu ein defnyddwyr i fod yn gweithredu fel llinell flaen ein hamddiffynfeydd.

Mae'r *Uned Datblygu a Gwasanaeth Gwybodaeth Ddaearyddol* yn darparu systemau sydd wedi eu datblygu o amgylch anghenion pwrpasol y defnyddiwr, gan gynnwys systemau sy'n cael eu defnyddio gan yr adrannau i wasanaethu'r cyhoedd, rhyngwynebau uniongyrchol i'r cyhoedd, a hunan-wasanaeth i staff. Gwnaethpwyd cynnydd sylweddol ar gyflwyno systemau newydd yn ystod 2021/22, er bod ceisiadau sylweddol yn parhau ar gyfer darparu systemau newydd ar frys mewn ymateb i'r pandemig, megis systemau hawlio a phrosesu amrywiol grantiau i fusnesau'r sir.

Mae'r *Uned Rheoli Rhaglen ac Arloesi* yn darparu cefnogaeth i'r adrannau ar gyfer diwallu eu hanghenion TG, gan gynnwys archebu cyfarpar a deunyddiau TG, gweithredu a monitro cytundebau a dadansoddi anghenion. Fe arweiniodd yr uned yma ar alluogi cynnal cyfarfodydd rhithiol y Cyngor, gan sefydlu'r gallu i wneud y rhain mewn modd hybrid erbyn 3ydd chwarter y flwyddyn, gyda'r ddarpariaeth hyn yn ymledu ym mhellach i gyfarfodydd swyddogion erbyn diwedd y flwyddyn. Rhoddwyd cefnogaeth sylweddol ar gyfer yr ymgyrch profi, olrhain a diogelu a'r profi cynyddol yng nghyd â chefnogi amryw adran i sefydlu systemau newydd.

Cymeradwywyd Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd gan Gabinet y Cyngor a gyda hynny, ddechrau ar baratodau o fewnoli'r gefnogaeth ddigidol. Ymgwymerwyd â gwaith sylweddol a hynny oddi fewn i adnoddau cyfredol y gwasanaeth gan gynnwys adnewyddu rhwydwaith a di-wifr oll o ysgolion y sir, darparu cyfrifiaduron i'r ysgolion cynradd, mudo e-byst yr ysgolion i system genedlaethol HWB, mudo holl ffeiliau'r ysgolion i HWB a symud oddi wrth ddibyniaeth ar weinyddwyr lleol. Fe fydd y gwaith yma'n parhau ac yn dwyshau ym mhellach yn ystod 2022/23.

Yn ystod 2022/23 bydd y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth yn cynnal ymarferion gwytnwch ar isadeiledd y Cyngor, mewnoli cefnogaeth dechnegol i ysgolion Gwynedd a rhoi'r Strategaeth Ddigidol Corfforaethol newydd ar waith.



Gwasanaethau Cyfreithiol



Mae'r adran yn cefnogi gallu'r Cyngor i ddarparu'r gorau i drigolion Gwynedd drwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol a rheng-flaen.

Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth gyfreithiol ar draws holl ystod gwaith y Cyngor, o amddiffyn plant ac erlyn i baratoi gorchmynion traffig a thrafodion tir ac eiddo.

Yn ogystal â bod ar gael i ymdrin ag ymholiadau dyddiol, mae'r tîm yn ymdrin â thua 900 o achosion a thrafodion yn flynyddol ar gyfartaledd. Rydym hefyd yn cefnogi prif flaenoriaethau'r Cyngor, yn benodol felly gweithredu y Strategaeth Tai ac adolygiad cyfundrefn Addysg ôl 16.

**Holiadur Bodlonrwydd
Cwsmeriad
- sgor 10 allan o 10**



Priodoldeb

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro i weithredu eu cyfrifoldebau am briodoldeb gweithrediad y Cyngor, y Cyfansoddiad a chwynion ynghyd â'r trefniadau ar gyfer cynnal safonau ymddygiad aelodau'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned.

Rydym yn parhau i gefnogi cyfundrefn priodoldeb Cyngor Gwynedd ynghyd â'r gyfundrefn foesebol i Gynghorau Tref a Chymuned y sir. Mae hyn hefyd yn golygu rhoi cyngor a sicrwydd cyfreithiol ar benderfyniadau a chyfundrefnau penderfynu. Darperir gwasanaeth Swyddog Monitro a chefnogaeth gyfreithiol hefyd i brosiectau cyd-weithio, GwE, Cyd-Bwyllgor Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 fydd:

- Cyfrannu at y gwaith o sefydlu Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
- Gweithio gyda'r Pwyllgor Safonau i ymdrin a'r adolygiad o'r fframwaith foesebol yn deillio o Adroddiad Mr Richard Penn
- Cynnal trefniadau anwytho a hyfforddi aelodau y Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned ar y Cod Ymddygiad yn sgil yr etholiadau lleol.

Etholiadau

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i'r Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Rydym fel tîm yn gweinyddu'r gofrestr etholwyr ynghyd â chynnal etholiadau ac isetholiadau lleol a chenedlaethol, refferenda neu boliau o fewn y sir.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 fydd:

- Cefnogi y Swyddog Canlyniadau i ddarparu Etholiadau Lleol Mai 2022
- Ymateb i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.

Crwner

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth i Wasanaeth y Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru.

Rydym yn cefnogi a gweinyddu trefniadau'r Crwner ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r tîm wedi ei sefydlu o fewn y Cyngor ac yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol o fewn yr adran bellach.

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2022/23 fydd:

- Ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner ar gyfer yr ardal a sefydlu yr ardal ar sail gynaliadwy.



Gwybodaeth Ariannol 2022/23



SIART CYLCH – TOESEN YMA

**Cyllidebau Net
2022/23**

**Adrannau
Cyngor
Gwynedd**

Adran Addysg 2022/23	
Maes	Cyllideb Net £
Ysgolion - Datganoledig	
Gwasanaethau Ansawdd Ysgolion	
Isadeiledd a Gwasanaethau Cefnogol	
Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad a Lles	
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	
Cyfanswm	

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant 2022/23

Maes	Cyllideb Net £
Pobl Hŷn	
Anabledd Corfforol	
Anabledd Dysgu	
Iechyd Meddwl	
Rheolaeth, Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Eraill	
Cyfanswm	

Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol 2022/23

Maes	Cyllideb Net £
Gwastraff ac Ailgylchu	
Cynnal Ffyrdd	
Glendid Strydoedd	
Goleuadau Stryd	
Toiledau Cyhoeddus	
Cynnal Tiroedd a Meysydd Chwarae	
Amlogfa a Mynwentydd	
Teledu Cylch Cyfyng	
Rheolaeth Fflyd	
Eraill	
Cyfanswm	

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd 2022/23

Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd	
Gwasanaethau Gweithredol	
Gwasanaethau Lleoliadau	
Gwasanaethau Derwen	
Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid	
Tîm Trothwy Gofal, Tîm Nos a Gwasanaethau Eraill	
Uned Blynnyddoedd Cynnar	
Gwasanaethau Ieuenctid	
Cyfanswm	

Adran Amgylchedd 2022/23	
Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth a Chategori Corfforaethol	
Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu	
Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd	
Diogelwch, Glendid a Safonau Bwyd	
Iechyd yr Amgylchedd	
Safonau Masnach	
Gwasanaethau Cleient Gwarchod y Cyhoedd	
Traffig, Diogelwch y Ffyrdd a Gorfodaeth	
Cynllunio Ymlaen	
Parcio a Gorfodaeth	
Cludiant	
Tocynnau Teithio Rhad	
Gwasanaethau Cefn Gwlad	
Cyfanswm	

Adran Economi a Chymuned 2022/23	
Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth yr Adran	
Rhaglenni Adfywio	
Cefnogi Cymunedau	
Morwrol a Pharciau Gwledig	
Cytundebau Hamdden	
Rhaglenni Chwaraeon	
Rhaglenni Datblygu Economaidd	
Twristiaeth a Marchnata a Digwyddiadau	
Llyfrgelloedd	
Amgueddfeydd a'r Celfyddydau	
Archifau	
Cyfanswm	

Adran Tai ac Eiddo 2022/23	
Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth a Gweinyddiaeth	
Gwasanaethau Eiddo Corfforaethol	
Gofalwyr	
Swyddfeydd	
Cynnal a Chadw	
Arlwyo, Glanhau a Gofalu	
Ynni	
Canolfannau Cymuned, Adeiladau Amrywiol	
Mân-ddaliadau	
Unedau Diwydiannol, Intec a Mentec	
Difa Pla a Rheoli Cŵn	
Gwasanaethau Tai	
Digartrefedd	
Cyfanswm	

Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd 2022/23	
Maes	Cyllideb Net £
Peirianeg	
Uned Dŵr ac Amgylchedd	
Uned Adeiladu	
Rheoli Risg Llifogydd	
Cyfanswm	

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol 2022/23	
Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth Adrannol	
Cynlluniau Argyfwng (yn ymddangos yng nghynllun adrannol Cefnogaeth Gorfforaethol)	
Uned Cefnogi Busnes y Cyngor	

Cyfathrebu ac Ymgysylltu	
Ymchwil a Gwybodaeth	
Gwasanaethau Democratiaeth	
Gwasanaethau Iaith Gymraeg	
Caffael	
Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol	
Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant	
Gwasanaeth Cefnogol	
Dysgu a Datblygu'r Sefydliad	
Siop Gwynedd, Galw Gwynedd, Bathodynau Glas, Cofrestrydd	
Cyfanswm	

Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth 2022/23

Maes	Cyllideb Net £
Rheolaeth Adrannol	
Cyllid a Chyfrifeg	
Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys	
Archwilio Mewnol	
Cyflogau	
Taliadau	
Incwm	
Refeniw Canolog	
Trethi	
Budd-daliadau	
Technoleg Gwybodaeth - Corfforaethol	
Technoleg Gwybodaeth - Rheoli Rhaglen	
Technoleg Gwybodaeth - Datblygu	
Technoleg Gwybodaeth - Isadeiledd	
Technoleg Gwybodaeth - Cefnogol	
Cyfanswm	

Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol 2022/23

Maes	Cyllideb Net £
Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr a chyllidebau cynlluniau penodol	
Swyddog Monitro a Phriodoldeb	

Gwasanaeth Cyfreithiol	
Cofrestru Etholwyr	
Crwner	
Etholiadau	
Cyfanswm	

Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchoddedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill Iaf 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

I) Manylion

I.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Cynllun y Cyngor 2018 – 23, Adolygiad 2022/23

I.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2018 a 2023. Cafodd fersiwn wreiddiol y Cynllun ei fabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2018. Roedd y Cynllun, yn ei flwyddyn gyntaf, yn datgan ein gweledigaeth am 5 mlynedd, ac yna mae pob adolygiad blynyddol yn cynnig diweddariad sy'n crynhoi yn fyr ble yr ydym wedi ei gyrraedd ar y siwrnai, a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Caiff y Cynllun ei adolygu'n flynyddol a'i ail-gyhoeddi gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o flaenoriaethau gwella'r cynllun presennol, y materion o flaenoriaeth sydd angen sylw yn y tymor byr, ac unrhyw faterion eraill ar gyfer sefydlogi ac ail adeiladu yn dilyn y cyfnod COVID-19 sydd angen eu cynnwys o fewn y blaenoriaethau.

Bydd y fersiwn hon o'r Cynllun, Adolygiad 2022/23, yn disodli'r fersiwn gyfredol.

Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna.

1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Dewi Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor

1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

27 Mehefin 2017, fersiwn 1 yn ymwneud â'r ymgysylltiad
13 Rhagfyr 2017, fersiwn 2, asesiad llawn o'r Cynllun
4 Chwefror 2019 – fersiwn 3, asesiad llawn o adolygiad 2019-20
31 Ionawr 2020 – fersiwn 4, asesiad llawn o adolygiad 2020-21
16 Chwefror 2021, fersiwn 5, asesiad llawn o adolygiad 2021-22

Hwn yw fersiwn 6 – 15 Chwefror 2022, asesiad llawn o adolygiad 2022-23

2) Gweithredu

2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaeth, trigolion Gwynedd, partneriaid ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchoddedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Ymgynghoriad 6 wythnos yn ystod gaeaf 2017/18 i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur byr ar-lein ar www.gwynedd.llyw.cymru/ymgyngori. Roedd copïau papur hefyd ar gael yn llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd leol.

Anogwyd cymaint â phosib o bobl Gwynedd i gwblhau a dychwelyd yr holiadur gan ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, rhaedru'r neges trwy ein partneriaid, gwefannau cymdeithasol ac e-newyddlen aelodau etholedig Rhaeadr.

Cysylltwyd â cymaint a phosib o grwpiau diddordeb a grwpiau sy'n cynrychioli neu'n gweithio hefo pobl a/neu blant hefo nodweddion cydraddoldeb i roi gwybod iddynt am yr ymgysylltiad ac i ofyn iddynt hysbysu eu defnyddwyr am yr holiadur.

2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Derbyniwyd 197 o holiaduron.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr gwblhau cwestiynau am eu nodweddion cydraddoldeb (yn ddewisol) a roedd yr wybodaeth a gasglwyd fel a ganlyn:

1) Cwblhau'r holiadur fel:

- Unigolyn - 159
- Sefydliad neu fusnes – 5
- Dim ateb – 33

2) Rhyw:

- Gwryw - 84
- Benyw - 65
- Gwell gennyf beidio â dweud – 9
- Dim ateb – 39

3) Grŵp oedran:

- 18-29 - 8
- 30-39 - 23
- 40-49 - 29
- 50-59 - 34
- 60-69 - 31
- 70 neu'n hyn - 25
- Gwell gennyf beidio â dweud - 9

- Dim ateb – 38
- 4) Hunaniaeth genedlaethol:
- Cymro / Cymraes – 77
 - Sais / Saesnes – 22
 - Prydeiniwr / Prydeinwraig – 46
 - Arall – 9
 - Gwell gennyf beidio â dweud – 8
 - Dim ateb – 35
- 5) Tarddiad Ethnig:
- Gwyn - 141
 - Cymysg / sawl grwp ethnig – 4
 - Du / Affricanaidd / Caribiaidd – 1
 - Gwell gennyf beidio â dweud – 11
 - Arall – 3
 - Dim ateb – 37
- 6) Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?
- Ydw - 15
 - Nac Ydw - 129
 - Gwell gennyf beidio â dweud – 15
 - Dim ateb – 38
- 7) Crefydd:
- Christian (pob enwad) – 72
 - Hindw – 2
 - Dim crefydd – 52
 - Anffyddiwr – 5
 - Tyst Jehova – 1
 - Dyniaethwr -1
 - Vasinava – 1
 - Wicca - 1
 - Arall – 7
 - Gwell gennyf peidio â dweud – 17
 - Dim ateb – 38
- 8) Cyfeiriadedd Rhywiol:
- Heterorywiol / Strêt - 127
 - Dyn hoyw – 1
 - Deurywiol – 1
 - Arall – 8
 - Gwell gennyf beidio â dweud - 20
 - Dim ateb – 40
- 9) Rhywedd adeg geni:
- Gwryw - 79
 - Benyw – 61

- Rhyngrywiol - 1
- Gwell gennyf beidio â dweud - 15
- Dim ateb – 41

10) Y ffordd rydych yn meddwl amdanoch chi eich hun:

- Gwryw - 77
- Benyw - 59
- Arall – 8
- Gwell gennyf beidio â dweud - 13
- Dim ateb - 40

Nid oedd yn bosib adnabod patrwm yn ymatebion unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb.

Dylai cynlluniau unigol ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwd ac ymgysylltu ymhellach â thrigolion Gwynedd yn ôl yr angen.

2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Fel rhan o'r broses o lunio Cynllun y Cyngor ar gyfer 2018-23 yn 2017 cynhaliwyd cyfres o 8 cyfarfod ardal yn ystod mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyfle i aelodau lleol amlygu unrhyw faterion oedd angen sylw o fewn yr ardaloedd hynny. Yn ogystal, bu i aelodau'r Pwyllgorau Craffu adnabod materion yr oeddent hwy o'r farn y dylid eu cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor i'r dyfodol.

Cynhaliwyd 4 sesiwn gweithdy pellach gydag aelodau ym mis Medi 2017 yng Nghaernarfon, Penrhyndeudraeth, Dolgellau a Phwllheli. Bwriad y gweithdai hyn oedd rhoi cyfle iddynt adnabod y blaenoriaethau sirol i'w cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor a chynnig sylwadau pellach ar y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod fesul ardal.

Disgwylir i unrhyw brosiect newydd fod â thystiolaeth gadarn am yr angen amdano. Wrth gynllunio unrhyw brosiect newydd dylid mesur yr effaith ar bobl Gwynedd, a llunio Asesiad Effaith Cydraddoldeb penodol yn ôl yr angen (gweler 1.2).

Er bod Cynllun 2021/22 yn ddilyniad, roedd yna lawer o newidiadau oherwydd y pandemig Covid ac felly penderfynwyd gwneud gweithdai pellach gyda Chynghorwyr Gwynedd.

Er mwyn sicrhau ein bod dal yn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, penderfynwyd ymgysylltu ar fersiwn 2022-23 o'r Cynllun gyda'r Cynghorwyr eto ym mis Rhagfyr 2021.

2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Bydd hyn yn cael ei adnabod yn asesiadau'r cynlluniau unigol

3) Adnabod yr Effaith

3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Bydd angen ystyried rhai o'r sylwadau isod ar y Gymraeg dan y nodwedd yma, a bydd yn fwy o bwysigrwydd mewn rhai prosiectau mewn meysydd fel twristiaeth, addysg ayb nag eraill.</p> <p>Mae'r newidiadau cymdeithasol ac yn arferion teithio a symudoledd pobl a welwyd yn sgil Covid yn ystod 2020 wedi amlygu materion ym meysydd twristiaeth a tai (cynnydd tai haf a gwyliau) a sut y mae'r newidiadau hynny yn effeithio ar y gymuned gynhenid.</p> <p>Bydd yn bwysig hefyd i'r cynlluniau ystyried effaith Covid ar gymunedau ac unigolion lleiafrif ethnig oherwydd fod rhai carfannau llawer mwy tebygol o ddiodef o'r effeithiau. Bydd hefyd angen ystyried y ffactorau a amlygwyd gan y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys.</p>
Anabledd	Positif	<p>Mae gofal yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith bositif. Disgwylir i bob cynllun unigol arall edrych ar yr effaith ar anabledd wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Mae'r ymatebion i'r ymgysylltiad yn dangos cefnogaeth mawr i'r gweithlu gofal gyda nifer eisiau iddynt gael codiad yn eu cyflog, amodau gweithio gwell, mwy o hyfforddiant a'r siawns i symud ymlaen yn eu gyrfa. Roedd pryder am y</p>

	<p>trosiant yn y gweithlu. Mae galw hefyd am wella safonau o fewn cartrefi gofal ac i ddenu mwy o bobl ifanc i fewn i'r maes.</p> <p>Neges gryf arall yw'r angen i wneud gwaith ataliol er mwyn sicrhau nad yw pobl angen gofal iechyd a dysgu o ymarfer da mannau eraill. Dangoswyd cefnogaeth gryf i adnoddau fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden fel adnoddau ar gyfer hyn a byddai toriadau yn y meysydd hyn yn "false economy". Pwysleisiwyd hefyd yr angen am drafnidiaeth.</p> <p>Hefyd mae'r angen i'r Cyngor gydweithio mwy, yn fewnol a gyda mudiadau allanol fel iechyd a'r trydydd sector, yn neges gryf gan y rhai sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Dylid hefyd rhoi cefnogaeth i gymunedau a darparu adnoddau fel gofal iechyd a cartrefi gofal ychwanegol yng nghefn gwlad yn ogystal â'r trefi mawrion.</p> <p>Adnabuwyd y camddefnydd o fannau parcio hygyrch i bobl anabl. Dau berson o blaid pobl anabl yn talu am barcio, un ohonynt yn berson anabl. Dywedodd un person anabl fod ceir wedi parcio ar y pafin yn broblem iddo.</p> <p>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod gan gynnwys rhai hygyrch.</p> <p>Dau berson yn poeni nad oeddynt yn cyrraedd meini prawf am ofal er ei bod yn anabl.</p> <p>Nodwyd fod pobl anabl a hefo rhai cyflyrau iechyd fwy o angen toiledau cyhoeddus.</p> <p>Credai nifer o Feirionnydd nad oedd ansawdd gofal yn wastad ar draws y sir hefo un person yn gofyn am ganolfan i bobl ag Alzheimers yn y rhanbarth ac un arall yn nodi pryder am fetu cael gofal yn y Gymraeg yno. Nododd un person anabl nad oedd yn bosib cael pobl i lanhau yn Meirionydd. Roedd wedi derbyn rhestr gan y Cyngor ond nid oedd neb arno o'i ardal. Credai fod hyn oherwydd yr angen i siarad Cymraeg. Roedd yn pryderu oherwydd yr effaith ar anghenion iechyd.</p> <p>Mae'r cyfnod Covid wedi bod yn heriol iawn i bobl anabl a'r gwasanaethau cymdeithasol fel eu gilydd. Mae yna gynlluniau ym mlaenoriaeth 6 sy'n ymateb i hyn.</p> <p>Yn ychwanegol, bydd angen i'r cynlluniau ystyried yr effaith y bydd y bandemig Covid ar gael ar bobl hefo cyflyrau penodol, yn enwedig y rhai sydd wedi gorfod ynysu am gyfnodau hir. Bydd rhai pobl sy'n dioddef o Covid hir yn</p>
--	--

		<p>dod i mewn i'r categori yma. Yn fwy cyffredinol mi fydd y pandemig wedi cael effaithiau ar iechyd meddwl pobl mewn amrywiol ffyrdd.</p>
Rhyw	Positif	<p>Ceir un cynllun unigol yn y benodol yn y maes yma sef “Merched mewn Arweinyddiaeth” felly disgwylir effaith positif yma. Wedi dweud hynny nid yw'n bosib adnabod effaith y Cynllun yn ei gyfanrwydd heb gwblhau asesiadau effaith ar y cynlluniau unigol eraill.</p> <p>Yn fwy cyffredinol, bydd angen adnabod yr effaith mae Covid wedi ei gael ar iechyd meddwl gofalwyr – un ai gofalwyr pobl anabl neu fel rhieni. Mae'r ystadegau yn dangos fod merched yn fwy tueddol o ymgymryd â rolau gofal. Hefyd bydd angen cofio am deuluoedd un rhiant, ac mae'r nifer helaethaf o'r rhain hefo merch fel penteulu.</p> <p>Mae hefyd yn arbennig o bwysig ystyried yr effaith ar bobl, yn ferched neu ddynion, sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn ystod y pandemig.</p>
Oedran	Positif	<p>Mae oedran yn cael ei flaenoriaethu mewn nifer o feysydd felly disgwylir cael effaith positif ar faes plant, pobl ifanc a phobl hŷn.</p> <p>Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar oeddrannau gwahanol wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Roedd yr ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth i waith ym maes Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, yn enwedig cymorth ac ymyrraeth cynnar, cryfhau addysg a rhoi hyfforddiant i bobl ifanc er mwyn iddynt cael swyddi. Roedd pryder fod pwyslais ar yr iaith Gymraeg yn effeithio recriwtio ac ansawdd addysg o fewn yr ysgolion. Nodwyd pwysigrwydd darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol. Roedd nifer yn mynegi nad oeddynt eisiau gweld toriadau ym maes gofal plant. Dywedodd un person ei bod yn bwysig i gefnogi pobl ifanc ar ôl iddynt adael gofal.</p> <p>Mae pryder ein bod yn colli pobl ifanc dawnus. Swyddi tymhorol twristiaeth ddim yn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Diffyg gobaith a dyhead yn broblem i bobl ifanc ym Meirionnydd yn ôl un person. Pobl ifanc angen gwaith i dalu am dai.</p> <p>Mae'r Cyngor yn adnabod y bydd newid mewn demograffeg, hefo'r gymuned yn mynd yn hŷn. Mae'r ymateb i'r ymgysylltiad yn dangos fod pobl yn pryderu am</p>

	<p>ddarpariaeth i'r dyfodol, e.e. cartrefi gofal, oherwydd y newidiadau hyn. Mae galw i bobl allu byw yn annibynnol yn eu cymunedau ac i roi cefnogaeth i'r cymunedau hynny er mwyn lleihau'r angen am ofal. Mae un ymatebwr eisiau prentisiaethau i bobl hŷn nid yn unig pobl ifanc ac un arall yn nodi'r ffaith fod pobl hŷn angen parcio mewn llefydd agosach at y canol i dref.</p> <p>Gwelir galw hefyd am feithrin perthynas da rhwng y cenedlaethau, gyda'r rhaglen deledu Hen Blant Bach yn cael ei enwi. Un person yn cynnig y dylidparu pobl hŷn unig hefo pobl ifanc digartref.</p> <p>Adnabuwyd fod ceir yn parcio ar y pafin yn broblem i bobl hŷn a theuluoedd hefo plant bychan mewn pramiau.</p> <p>Carfan o bobl sydd efallai ddim yn cael llawer o sylw wrth baratoi Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb yw pobl oed gwaith ond mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwarchod hawliau pobl o bob oed. Mae'r sylwadau am swyddi ayb yn berthnasol i'r oedran yma. Roedd cefnogaeth gref i greu a chadw swyddi yng Ngwynedd a gwella'r isadeiledd er mwyn gwneud hynny. Roedd yna hefyd negeseuon am wella sgiliau'r trigolion, denu cwmnïau mawr, peidio bod yn or ddibynnol ar dwristiaeth, a chefnogi datblygiadau tu allan i'r sir. Gall diffyg trafndiaeth cyhoeddus ar yr adegau iawn greu problemau i bobl sydd eisiau gweithio.</p> <p>Mae'r angen am amrywiaeth o dai wedi ei adnabod, gyda anghenion pobl ifanc a phobl hŷn yn cael eu hadnabod. Ond eto ni ddylid anghofio anghenion pobl o oedran arall, gyda'r galw am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol. Roedd sylwadau hefyd am gael tai yn agos at gyfleon gwaith a chysylltiadau trafndiaeth cyhoeddus, llacio'r rheolau cynllunio yng nghefn gwlad, edrych ar dai gwag a'r angen am dai cymdeithasol. Teimlai un person mai'r broblem oedd fod y cartrefi sydd ar gael ddim yn y lle iawn i deuluoedd ifanc (h.y. mewn trefi wrth ymyl ysgolion a siopau).</p> <p>Roedd nifer o bobl yn adnabod pwysigrwydd llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl hŷn ar gyfer cymdeithasu, iechyd a rhywle i fynd oddi ar y stryd. Nodwyd hefyd yr angen am ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc e.e. clybiau ieuenctid, Clwb Ffermwyr Ifanc.</p> <p>Gan fod pobl hŷn yn llawer mwy tueddol o gael problemau hefo Covid mae'n rhaid, wrth i'r cynlluniau symud yn eu blaenau, ystyried yr effaith mae Covid wedi ei gael ar bobl</p>
--	---

		<p>hŷn. Mae hynny'n arbennig o wir o'r rhai sydd wedi gofod hunan-ynysu am adegau hir.</p> <p>Mae'r pandemig hefyd wedi cael effaith gwael iawn ar fywydau a lles plant a phobl ifanc ac mae'n bwysig ystyried hynny hefyd wrth symud ymlaen.</p> <p>Yn wir mae Covid wedi effeithio ar les pawb ac mae newidiadau wedi eu gwneud i rai cynlluniau yn ateb hynny. Bydd angen ystyried hyn o fewn pob cynllun.</p>
Cyfeiriadedd rhywiol	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Bydd rhaid cofio hefyd am yr effaith ar iechyd meddwl pobl sydd wedi methu cyfarfod hefo'u partneriaid os nad ydynt yn byw hefo nhw.</p> <p>Mae hefyd yn arbennig o bwysig ystyried yr effaith ar bobl, yn ferched neu ddynion, sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn ystod y pandemig.</p>
Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Dywedodd un person nad oedd lle i grefydd o fewn addysg.</p>
Ailbennu rhywedd	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p>
Beichiogrwydd a mamolaeth	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p> <p>Mae wedi bod yn amser anodd iawn i famau beichiog a theuluoedd ifanc oherwydd y pandemig. Mae cynlluniau i helpu teuluoedd o fewn blaenoriaeth gwella 6.</p>
Priodas a phartneriaeth sifil	Dim wedi ei adnabod	<p>Nid oes unrhyw gynlluniau unigol yn ymwneud â'r nodwedd yma. Bydd angen i'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried.</p>
Yr iaith Gymraeg	Positif	<p>Mae hwn yn faes blaenoriaeth felly disgwylir cael effaith positif ar yr iaith Gymraeg. Disgwylir i bob cynllun unigol i edrych ar yr effaith ar yr iaith wrth wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar wahân.</p> <p>Wrth sôn am flaenoriaethu'r Gymraeg yn benodol yn yr ymgynghoriad, roedd 18 o'r sylwadau yn cefnogi'r angen i</p>

	<p>flaenoriaethu'r Gymraeg ac 14 yn dweud na ddylid gwario arian ar yr iaith.</p> <p>Derbyniwyd nifer o sylwadau am ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned neu thu allan i'r ystafell ddosbarth hefo mudiadau fel Clwb Ffermwyr Ifanc yn cael eu crybwyll gan nifer yn sgil cynnig i ad-drefnu'r Gwasanaeth Ieuenctid.</p> <p>Yn ychwanegol adnabuwyd yr anghenion canlynol - i'r Cyngor helpu'r sector breifat i gynnig darpariaeth Cymraeg, mwy o arwyddion dwyieithog, a sicrhau swyddi neu dai addas er mwyn cadw pobl ifanc yn yr ardal. Credai un fod y Gymraeg yn sgil i ddenu swyddi i'r ardal.</p> <p>Roedd pryder fod blaenoriaethu'r Gymraeg yn gelyniaethu'r di-Gymraeg a thwristiaid.</p> <p>Roedd pryder hefyd am gostau, gyda nifer yn credu nad oedd eisiau gohebu'n ddwyieithog ond yn hytrach yn newis iaith y derbynnydd ac nad oes angen cyfieithu ar y pryd os yw pawb yn gallu siarad Saesneg. Nodwyd y gallai polisi staffio'r Cyngor elyniaethu pobl di-Gymraeg a gallai'r Cyngor golli allan ar staff sy'n fwy galluog/profiadol.</p> <p>Credwyd fod hyn yn arbennig o debygol mewn meysydd fel gofal. Awgrymwyd y dylid cael cyfle i ddysgu'r Gymraeg 'on the job' a hefyd y dylai'r Cyngor annog, nid gorfodi, staff i siarad yr iaith.</p> <p>Roedd galw gan un person i'r ohebiaeth gan ysgolion fod yn ddwyieithog yn hytrach nag uniaith Gymraeg.</p> <p>Yn ôl yr ymatebwyr, y pethau pwysig am wersi Cymraeg oedd eu cost, eu cyfleuster (trafnidiaeth ayb) a'u haddasrwydd.</p> <p>Derbyniwyd nifer o sylwadau am y Gymraeg wrth drafod materion plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ogystal. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau hynny'n erbyn rhoi ffafriaeth i'r iaith Gymraeg. Mae pryder y byddai'n effeithio safonau addysg a recriwtio staff a hefyd am y gost. Dywedwyd y dylid gadael i athrawon ddatblygu sgiliau iaith tra yn y swydd. Ar y llaw arall derbyniwyd sylwadau am yr angen i datblygu deunyddiau e.e. apps, a rhoi gwersi Cymraeg am ddim.</p> <p>Er nad yn sôn am yr iaith Gymraeg yn benodol, mae nifer o sylwadau yn ymwneud â'r angen am dai fforddiadwy a thai i bobl lleol.</p> <p>Nodwyd yr angen am Gymraeg clir wrth gyfathrebu hefo'r cyhoedd, yn arbennig adroddiadau addysg. Nodwyd hefyd</p>
--	--

		<p>yr angen i wella safon yr iaith mewn gohebiaeth ayb a'r angen i'w wirio cyn ei anfon. Roedd yr ymatebydd yn derbyn mai oherwydd fod y Gymraeg yn iaith naturiol roedd y gwallau'n digwydd.</p> <p>Mae cyfnod Covid wedi arwain at nifer o newidiadau sydd a photensial i gael effaith negyddol ar y Gymraeg, gan gynnwys lleihad yn nifer y digwyddiadau a gweithgareddau sydd yn annog defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, ysgolion wedi cau yn arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, straen ar fusnesau lleol sydd yn cynnal cyfleoedd cyflogaeth, lleihad yn y cyfleoedd cyflogaeth newydd, cynydd mewn twristiaeth yn arwain at bryderon am gynydd mewn ail gartrefi a gwarchod enwau lleoedd cynhenid.</p> <p>Mae nifer o brosiectau'r Cynllun yn mynd i'r afael a'r materion hyn.</p>
<p>Anfantais Economaidd-Gymdeithasol</p>	<p>Positif</p>	<p>Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod nifer o bobl Gwynedd yn byw mewn amodau o anghyfartaledd oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol. Felly mae eisoes nifer o'r prosiectau sydd yn Cynllun y Cyngor yn ymwneud a lleihau anfantais economaidd-gymdeithasol. Isod mae enghreifftiau o brosiectau:</p> <p>Addysg - Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc.</p> <p>Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bydd angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles. Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, a thu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Yn 2022/23, byddwn wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes blynyddoedd cynnar a fydd yn sicrhau'r cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed yng Ngwynedd.</p> <p>Byddwn hefyd wedi diweddarau ein fframwaith ymgysylltu ar gyfer ein dysgwyr ôl-16 ac wedi llunio strategaeth i ddarparu cymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd iddynt. Byddwn wedi cytuno ar y model cefnogi mwyaf effeithiol ar gyfer cefnogi llesiant disgyblion oedran ysgol.</p> <p>Iechyd - Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol.</p>

		<p>Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd. Rydym wedi ymrwymo i wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor hyd yma oherwydd argyfwng Covid-19. • agor uned dementia pwrpasol yn ein cartref gofal yn Bermo. • gwneud defnydd o'r addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i'n cartref gofal yn Nolgellau er mwyn cynnig gofal pwrpasol ar gyfer unigolion sydd a anghenion corfforol dwys. • agor y ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwillheli, a pharhau gyda'r gwaith o adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir gyda blaenoriaethi ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach • cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd. <p>Gwaith - Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £31,300 neu fwy).</p> <p>Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol trigolion y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.</p> <p>Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu cwmni Eginio i adfywio'r safle.</p> <p>I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, a hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector ynni carbon isel a sector iechyd a meddygol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda busnesau Gwynedd i ddeall anghenion am sgiliau swyddi gwerth uwch i'r dyfodol ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn yn lleol.</p>
--	--	---

		<p>Cyfiawnder a Safonau Byw - Cefnogi Llesiant Pobl Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethgu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach. Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.</p> <p>Mae natur hir dymor y cynllun hwn wrth geisio mynd i'r afael a thaclo tloidi, heriau cymdeithasol cymhleth, gan weithio ar draws nifer o wasanaethau amrywiol, yn golygu ein bod yn parhau ar siwrne i gyflawni amcanion y cynllun.</p> <p>Cyfranogiad - Arloesi Gwynedd Wledig Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 80% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae sicrhau cysylltedd digidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i hyrwyddo arloesedd i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu.</p>
--	--	--

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw'n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Oherwydd Covid mae pobl wedi methu cael eu gwasanaethau arferol ac mae'n bosib fod hyn wedi effeithio rhai carfanau'n fwy na'u gilydd. Rhaid sicrhau nad ydynt yn cael eu camwahaniaethu yn eu herbyn wrth symud ymlaen.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Fel dywedodd un ymatebwr, mae'n bwysig cofio nodweddion cydraddoldeb unigolion wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig ym maes gofal. Mae hyn yn arbennig o wir wrth i ni symud ymlaen yn sgil Covid.
Meithrin perthnasau da	Ydi	Dylai'r meysydd blaenoriaeth a'r cynlluniau unigol gael effaith bositif ar y ddyletswydd. Bydd angen i'r Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb ar y cynlluniau unigol adnabod os oes materion i'w hystyried. Rhaid cydnabod fod gwaith i'w wneud yn y maes yma yn sgil Covid.

* I'w ddileu yn ôl yr angen

3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

Prosiect - Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Prosiect - Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

Drwy gydweithio gyda ein partneriaid sy'n rhan o Is-grŵp y Gymraeg, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rydym wedi comisiynu astudiaeth o dderbynfeydd traddodiadol a fydd yn ymchwilio i hyn.

Prosiect - Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig

Mae gennym bryder fod enwau llefydd cynhenid Gymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg.

Prosiect - Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc

Mae sgiliau a hyder dysgwyr (o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig) yn y Gymraeg wedi dirywio yn sgil y cyfnod clo a Covid-19. Yn 2021/22 rydym wedi llwyddo i sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo a Covid-19 ac rydym wedi dechrau cefnogi ysgolion i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu er mwyn ymateb i'r sefyllfa.

3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?

Pwrpas Cynllun y Cyngor ydi adnabod blaenoriaethau a meysydd allweddol i'w gweithredu rhwng 2018 a 2023. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma yn edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i hybu'r iaith Gymraeg yn eu meysydd.

3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).

Isod mae esiamplau o brosiectau sy'n cael eu cynnwys yn y Cynllun sy'n ymateb i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol:

Addysg - Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc.

Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y bydd angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwllch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles. Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, a thu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Yn 22/23, byddwn wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes blynyddoedd cynnar a fydd yn sicrhau'r cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed yng Ngwynedd.

Byddwn hefyd wedi diweddarau ein fframwaith ymgysylltu ar gyfer ein dysgwyr ôl-16 ac wedi llunio strategaeth i ddarparu cymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd iddynt. Byddwn wedi cytuno ar y model cefnogi mwyaf effeithiol ar gyfer cefnogi llesiant disgyblion oedran ysgol.

Iechyd - Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r dyfodol.

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd. Rydym wedi ymrwymo i wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir. Yn ystod

2022/23 byddwn yn:

- agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor hyd yma oherwydd argyfwng Covid-19.
- agor uned dementia pwrpasol yn ein cartref gofal yn Bermo.
- gwneud defnydd o'r addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i'n cartref gofal yn Nolgellau er mwyn cynnig gofal pwrpasol ar gyfer unigolion sydd a anghenion corfforol dwys.
- agor y ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwlheli, a pharhau gyda'r gwaith o adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir gyda blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach.
- cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.

Gwaith - Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £31,300 neu fwy).

Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol trigolion y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu cwmni Eginio i adfywio'r safle.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, a hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector ynni carbon isel a sector iechyd a meddygol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda busnesau Gwynedd i ddeall anghenion am sgiliau swyddi gwerth uwch i'r dyfodol ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn yn lleol.

Cyfiawnder a Safonau Byw - Cefnogi Llesiant Pobl

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach. Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.

Mae natur hir dymor y cynllun hwn wrth geisio mynd i'r afael a thaclo tlodi, heriau cymdeithasol cymhleth, gan weithio ar draws nifer o wasanaethau amrywiol, yn golygu ein bod yn parhau ar siwrne i gyflawni amcanion y cynllun.

Cyfranogiad - Arloesi Gwynedd Wledig

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 80% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae sicrhau cysylltedd digidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y

sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i hyrwyddo arloesedd i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu.

3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?

Mae disgwyl i bob cynllun unigol gael Asesiad ar wahân ar y prosiect yn ei gyfanrwydd a/neu ar rannau penodol ohono a bydd hyn yn cynnwys asesu'r anfantais economaidd gymdeithasol. Dyletswydd y person sy'n gyfrifol am y cynllun unigol yw gwneud yr Asesiad(au) yna. Bydd angen i'r asesiadau hyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i leihau anghyfartaledd o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu meysydd.

4) Dadansoddi'r canlyniadau

4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Mae'n ymddangos y dylai'r meysydd blaenoriaeth gael effaith sylweddol bositif ar o leiaf rai o'r nodweddion cydraddoldeb. Mae pob asesiad effaith cydraddoldeb unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. Mae hyn yn arbennig o wir os ydi ystyriaethau Covid am gael eu hystyried yn llawn yn eu hasesiadau effaith.

4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes effeithiau sylweddol negyddol wedi eu hadnabod hefo'r Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae pob asesiad effaith unigol yn edrych ar yr effaith mewn mwy o fanylder. Wedi dweud hynny mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol iawn ar bob rhan o gymdeithas ac mae cryn waith i'w wneud ym mhob maes er mwyn delio hefo'r heriau yma.

4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	
Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth	

4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r asesiadau unigol yn adnabod unrhyw effeithiau negyddol a'r camau i'w lliniaru.

4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

Nid yw'n berthnasol i'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.

5) Monitro

5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

Mae Adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am weithredu'r cynlluniau unigol o fewn Cynllun y Cyngor. Mae prosesau herio perfformiad y Cyngor, ble fydd yr Aelod Cabinet ac aelodau o bwylgorau craffu yn herio twf a datblygiad y gwaith sy'n cael ei gyflawni ar y Cynllun, yn waith parhaus drwy'r flwyddyn. Mae'r adroddiadau ar y cyfarfodydd herio perfformiad hyn yn cael eu cyhoeddi fel rhan o bapurau cyfarfod y Cabinet.

Os oes angen newid cynnwys neu gyfeiriad unrhyw brosiect unigol bydd angen ail ymweld â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y prosiect hwnnw. Oherwydd Covid-19 bydd yn bwysig gwneud hynny ar bob un cynllun.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor er mwyn ei chraffu ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

Hwn yw'r flwyddyn olaf cyfnod y Cynllun yma felly nid yw wedi newid llawer o'r flwyddyn diwethaf. Wrth greu Cynllun newydd byddwn yn ymwybodol iawn o'n dyletswyddau tuag at gydraddoldeb, anfantais economaidd-gymdeithasol a'r Gymraeg ac yn asesu effaith y Cynllun wrth ei ddatblygu.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	15 Chwefror, 2022
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Nia Jeffreys
Swyddog Cyswllt:	Geraint Owen/Iwan Evans
Rhif Cyswllt:	01286 679072
Pwnc:	ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL A'R GWASANAETH CYFREITHIOL

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Cefnogaeth Gorfforaethol a Chyfreithiol. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Dîm Rheoli'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ar yr 19 o Ionawr, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- 1.3 Rwyf yn fodlon bod y prosiectau sy'n cael eu harwain gan yr Adran, ynghyd a'r perfformiad dydd i ddydd, yn cael eu cynnal o fewn y gyllideb, gyda nifer o enghreifftiau ple bo'r cyflawniad yn mynd tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir o dan amgylchiadau anodd. Mae'r amgylchiadau anodd hynny a'r gofynion ychwanegol sy'n parhau ar rai o'r gwasanaethau yn golygu nad yw'r cynnydd gyda rhai prosiectau wedi bod i'r un graddau a'r hyn a ragwelwyd ond rwyf yn llwyr dderbyn bod hynny yn anorfod. Dymunaf eto nodi fy ngwerthfawrogiad o waith holl swyddogion yr Adran a chydabod y cyfraniad allweddol a wneir ganddynt i gefnogi gwaith y Cyngor.

CEFNOGAETH GORFFORAETHOL

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella]

Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar 9 o'r blaenoriaethau gwella sy'n ymddangos yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer eleni. Rwy'n crynhoi yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yma fel a ganlyn;

2.1 CADW'R BUDD YN LLEOL

- 2.1.1 Byddwch eisoes yn ymwybodol ein bod yn treialu methodoleg newydd i asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol a'n bod wedi cwblhau'r broses gaffael ar gyfer gwobrwyo cytundeb Taliadau Uniongyrchol Gwasanaeth Oedolion gan ddefnyddio'r fethodoleg honno. Adroddwyd yn flaenorol bod buddion ychwanegol wedi deillio o ddefnyddio'r fethodoleg newydd gan gynnwys ymrwymadau gan y cwmni buddugol i ddarparu swyddi i bobl leol, profiadau gwaith, hyfforddiant, cefnogi elusennau lleol a datblygu sgiliau Cymraeg ei gweithlu.
- 2.1.2 Mae treialu'r fethodoleg newydd yn parhau, gyda'r ail dendr peilot wedi'i gwblhau ym maes cynnal a chadw adeiladau. Nid yw ymateb y farchnad wedi bod cystal â'r peilot gyntaf ac mae hyn wedi amlygu'r angen i wneud gwaith pellach i annog a chefnogi'r farchnad. Fel rhan olaf o'r gwaith treialu'r fethodoleg byddwn yn cynnal un peilot arall yng nghyswllt cytundeb darparu peiriannau ar gyfer gwaith Priffyrdd a Bwrdeistrefol gyda golwg wedyn i ddod i gasgliad terfynol ynglyn a chyflwyno'r fethodoleg newydd i drefniadau caffael sefydlog y Cyngor.
- 2.1.3 Cyflwynwyd manylion y peilot a'r fethodoleg newydd i'r Grŵp Trydydd Sector yn ddiweddar a derbyniwyd ymateb hynod gadarnhaol i'r datblygiad.

2.2 MERCHED MEWN ARWEINYDDIAETH

- 2.2.1 Prif amcan y prosiect hwn yw hybu'r nifer o ferched sy'n ymgeisio ac yn cyrraedd swyddi uwch o fewn y Cyngor trwy adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn denu mwy o ferched i ymgymryd a'r gwaith i'r dyfodol. Mae'r grŵp prosiect wedi ymateb trwy gyflwyno Rhaglen Datblygu Potensial i ferched y Cyngor. Mae'r cofrestru ar gyfer y ffrwd cyntaf o ferched i ymgymryd a'r rhaglen yn awr ar agor gyda'r rhaglen ei hun i'w lansio gyda'r garfan gyntaf ar yr 8 o Fawrth, sef Diwrnod Rhyngwladol y Merched eleni. Mae rhaglen fentora hefyd wedi'i sefydlu er mwyn i arweinwyr y Cyngor fod yn fentoriaid ac mae'r gwaith o hyfforddi 15 o unigolion i weithredu fel mentoriaid wedi'i gwblhau yn ddiweddar.
- 2.2.2 Mae'r Grŵp Prosiect, sydd wedi'i sefydlu i yrru'r gwaith hwn yn ei flaen, wedi rhoi cryn bwyslais o'r cychwyn cyntaf ar gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dynion sydd yn reolwyr ac arweinyddion o fewn y Cyngor. Cynhaliwyd gweithdai i'r pwrpas hwnnw ar ddechrau gwaith y prosiect ond mae digwyddiad arall wedi'i drefnu (dyddiad i'w bennu yn ystod y Gwanwyn) ple bydd cyfle i ddynion yn benodol gael clywed a chwestiynu arweinwyr benywaidd a gwrywaidd fydd yn gallu rhannu profiadau a

thynnu sylw at rwystrau a wynebir gan ferched yn y gweithle ar un llaw a datrysiadau posib i'r rhwystrau hynny ar y llaw arall.

- 2.2.3 Fel ag yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r "sgyrsiau dros banded" ar gyfer Aelodau Etholedig a swyddogion benywaidd yn y Cyngor yn parhau gyda hwyluswyr a siaradwyr mewnol ac allanol wedi'u trefnu ar gyfer y cyfnod nesaf.
- 2.2.4 Mae'r rhaglen gyfathrebu wedi'i hadolygu dros y misoedd diwethaf gyda'r tudalennau gybodaeth ar fewnwyd y Cyngor wedi'i hail-lansio ar ei newydd wedd yn ystod Ionawr, hynny i gyd fynd efo'r gwahoddiad i gofrestru ar gyfer y Rhaglen Datblygu Potensial.

2.3 SICRHAU TEGWCH I BAWB

- 2.3.1 Mae pum ffrwd gwaith yn perthyn i'r gwaith yma, sef hyfforddiant, ymgysylltu, asesiadau effaith, bwlch tâl a chynyddu amrywiaeth o fewn y gweithlu. Nodir y cynnydd yng nghyd-destun y pum ffrwd gwaith fel a ganlyn;
- 2.3.2 Mae hyfforddiant Amgylchedd Dysgu o Bell neu rithiol i staff rheng flaen wedi ei ddarparu ac wedi ei gyflwyno i rai carfannau o staff. Mae adborth da wedi ei dderbyn am yr hyfforddiant ac mae'r gwaith ar addasu'r e-fodiwl yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o'i gyflwyno fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant ffurfiol ym mis Mawrth.
- 2.3.3 Cwblhawyd rhan gyntaf yr ymgysylltiad cyhoeddus er mwyn casglu'r wybodaeth ar unrhyw rwystrau sy'n wynebu pobl Gwynedd wrth ymwneud efo'r Cyngor. Yn anffodus mae'r gwaith o ddadansoddi'r wybodaeth wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl ac mae hyn wedi effeithio'r gallu i symud ymlaen gyda rhan 2 o'r ymgysylltiad.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i wella cynrychiolaeth pobl hefo gwahanol nodweddion ar y Grŵp Craidd Cydraddoldeb ac roedd yn dda gweld cynrychiolwyr newydd yn mynychu'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb yn y cyfarfod diwethaf.

- 2.3.4 Y prif waith cychwynnol yng nghyd-destun asesiadau effaith cydraddoldeb oedd creu ffurflen asesiad effaith newydd ar gyfer y Cyngor. Bydd yr asesiad yn ehangu ar y nodweddion a dyletswyddau cydraddoldeb presennol gan gynnwys cwestiynau ychwanegol ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, y Gymraeg, Hawliau Dynol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r gwaith hwn wedi ei ddatblygu gan grŵp o swyddogion ar draws y rhanbarth, gan gynnwys y cynghorau, y Bwrdd Iechyd, y Parc Cenedlaethol a'r Heddlu. Mae gwaith yn parhau i'w osod ar ffurf electroneg sy'n hawdd i'w ddefnyddio a bydd peilot yn cychwyn ym mis Chwefror er mwyn sicrhau fod y ffurflen yn addas cyn ehangu ei defnydd.

- 2.3.5 Mae'r Cyngor yn gofyn i bob aelod o staff lenwi holiadur data cydraddoldeb er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o nodweddion cydraddoldeb ein staff ac er



mwyn gwella'r gefnogaeth a roddir iddynt a hybu amrywiaeth o fewn y gweithlu. Mae'r wybodaeth yma'n wirfoddol ac felly nid yw'r niferoedd sy'n ei lenwi'n tueddu i fod uchel. Rydym felly wedi bod yn cynnal ymgyrchoedd er mwyn annog staff i gwblhau'r holiadur data cydraddoldeb ac mae'n ymddangos fod cynnydd bychan ond arwyddocaol wedi digwydd yn y niferoedd o ganlyniad i'r gwaith hynny. Bydd angen parhau gyda'r gwaith hyrwyddo hwn.

Cynhelir awdit gwirfoddol o'r bwlch tâl rhwng y rhywiau pob 3 blynedd a dylem fod wedi cynnal y diwethaf yn 2020. Erbyn hyn fodd bynnag mae arbenigwr annibynnol wedi cynnal yr adolygiad diweddaraf a disgwylir y byddwn yn derbyn casgliadau'r gwaith yn fuan.

- 2.3.6** Roedd gan Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru fwriad edrych i gynnal cyflwyniadau i gynorthwyo pobl gyda nodweddion cydraddoldeb i ymgeisio am swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae oediad wedi bod i'r gwaith hyn oherwydd y cyfyngiadau sydd wedi bod yn eu lle dros gyfnod y pandemig ond mae'r Rhwydwaith wedi ail-sefydlu'r gwaith fel un o'u blaenoriaethau erbyn hyn gyda golwg i gynnal digwyddiadau yn fuan.

2.4 ENWAU LLEFYDD CYNHENID GYMREIG

- 2.4.1** Fel y gwyddoch, mae'r gwaith hwn wedi'i sefydlu fel blaenoriaeth gwella o'r newydd yn yr adolygiad diweddaraf o Gynllun y Cyngor ac hynny er mwyn:

- Cysoni'r modd y mae'r Cyngor yn gweithredu wrth arddel enwau Cymraeg
- Sicrhau mai fersiynau Cymraeg enwau lleoedd sydd yn cael y flaenoriaeth gyda phartneriaid allanol
- Ceisio cymryd camau rhagweithiol i ddiogelu ac atal mwy o newidiadau i enwau cynhenid

- 2.4.2** Penodwyd swyddog prosiect i weithredu ar lunio rhaglen waith a chyflawni ar y cerrig milltir allweddol. Maent yn gyfuniad o faterion o fewn rheolaeth y Cyngor (egwyddorion y gall y Cyngor eu pasio) a materion sydd angen sylw pellach drwy gydweithio gydag eraill. Mae'r swyddog newydd wedi cychwyn yn ei waith ers dechrau mis Medi.

- 2.4.3** Yn y lle cyntaf mae'r sylw wedi bod ar faes enwau tai ac ar sefydlu rhestr o enwau safonol ar gyfer y Cyngor. Mae nifer o gamau pendant eisoes wedi eu cymryd, yn benodol wrth gydweithio gyda'r Adran Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu. Mae'r system gyfrifiadurol wedi ei haddasu sydd am arwain at ofyn safonol awtomatig ar gyfer enw Cymraeg ar eiddo newydd, newid ein ffordd o gasglu data am geisiadau i newid enwau tai yn ogystal a gwella rhannu gwybodaeth rhwng y ddwy adran.

- 2.4.4** Yn sgîl trafodaethau gyda swyddogion y Cyngor, mae bwlch wedi ei adnabod rhwng y ddelwedd gyhoeddus o newid enwau tai o'r Gymraeg i'r Saesneg, a'r data sydd yn cael ei gasglu gan y Cyngor ar gyfer newid enwau tai. Mae gwaith ar droed i fapio newidiadau ar lefel leol er mwyn mesur gwir faint y broblem. I gyd-fynd â'r cyfan mae

cymalau newydd wedi eu drafftio ar gyfer y Polisi Iaith, sy'n dangos ymrwymiad y Cyngor i ddefnyddio ac arddel enwau Cymraeg.

- 2.4.5 Er mwyn ennyn diddordeb a brwdfrydedd y cyhoedd i'r pwnc, mae rhaglen o weithgareddau hyrwyddo wedi ei llunio ar gyfer y flwyddyn. Cynaliwyd 2 sesiwn Zoom gyhoeddus o'r enw "Neb ond Ffylliaid" i'r cyhoedd gyda nifer wedi mynychu a mwy yn gwylio'r recordiad wedyn. Mae'r prosiect hefyd wedi cael cryn sylw yn y wasg, ac rydym hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth staff o darddiad enwau lleoliadau yn y sir. Yn ogystal, mae gwaith yn digwydd ar ddatblygu map rhyngweithiol fydd yn galluogi aelodau'r cyhoedd i nodi enwau sydd o bwys hanesyddol a lleol ond nad ydynt yn cael eu cydnabod ar fapiau "swyddogol".

2.5 HYBU DEFNYDD O'R GYMRAEG O FEWN GWASANAETHAU'R CYNGOR

- 2.5.1 Dyma'r cynllun sydd eisoes wedi llwyddo i sicrhau dynodiad iaith penodol ar gyfer pob swydd yn y Cyngor ac sydd wedi mynd cryn dipyn o'r ffordd i wirio gallu deilyddion presennol i gyrraedd gofynion ieithyddol eu swyddi (ynghyd a chefnogi unigolion sydd angen datblygiad pellach i gyrraedd y gofynion hynny). Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf;
- **2658** o staff canolog wedi cyflwyno hunanasesiad
 - **69%** o staff canolog wedi cyflwyno hunanasesiad
 - **92%** yn cyrraedd (neu basio) Dynodiadau iaith eu swydd
- 2.5.2 Mae yna gydweithio agos gyda Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er mwyn casglu asesiadau gan fwy o staff maes yr Adran tra bo dros 50% o staff yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi cwblhau'r holiadur hunanasesu iaith erbyn hyn hefyd. Mae 100% o staff YGC wedi cwblhau'r holiadur hunanasesu iaith ac mae cynnydd o 12% yn niferoedd staff Tai ac Eiddo sydd wedi cwblhau'r holiadur hunanasesu iaith ers i mi adrodd yn gynharach yn y flwyddyn.
- 2.5.3 Mae cynnydd arwyddocaol yng nghyswllt staff gofal cymunedol yn mynychu gwersi Cymraeg gyda 15 aelod o staff wedi dangos diddordeb yng nghyrsiau Cymraeg Gwaith, Nant Gwrtheyrn ac 13 wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau mewnol a gynhaliwyd rhwng Tachwedd a Chwefror. Mae 10 aelod o staff wedi dechrau gwersi wythnosol gyda Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin rhwng Medi a Tachwedd 2021 ac mae cefnogaeth yn cael ei gynnig i'r Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu er mwyn datblygu sgiliau iaith staff sydd wedi'u penodi i ymgymryd a'r gwaith hwnnw.
- 2.5.5 Mae'r Fforwm Dynodiadau Iaith wedi'i sefydlu gyda cynrychiolaeth o bob Adran yn y Cyngor yn mynychu'r cyfarfodydd. Ystyrir bodolaeth y Fforwm fel un modd o gynnal y momentwm efo'r gwaith hwn ac i sicrhau nad ydi'r cynnydd a wireddwyd yn llithro.

2.6 Y GYMRAEG A'R GWASANAETHAU CYHOEDDUS

- 2.6.1 Mae Is-Grŵp y Gymraeg, dan arweiniad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, wedi cytuno i gomisiynu astudiaeth o dderbynfeydd traddodiadol, sef Prosiect Gwasanaethau Cyswllt Cyntaf. Bydd yr astudiaeth yn ymchwilio ac yn ystyried sut y gellir annog mwy o bobl i ymwneud a sefydliadau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg.



Mae ffocws y prosiect (a'r rhaglen yn ei chyfanrwydd) ar y defnydd a wneir o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael, ac nid ar argaeledd gwasanaethau lle ddylai'r argaeledd hwnnw fod yn ddiodyn.

2.6.2 Nod y prosiect felly fydd i ddeall pa ffactorau sy'n creu'r cyd-destun gorau posib er mwyn annog defnydd o wasanaethau Cymraeg. Ar ddiwedd y prosiect, disgwyliai'r is-grŵp

- dderbyn rhestr o argymhellion i fynd i'r afael a pha ffactorau sy'n cael dylanwad ar ddewisiadau ieithyddol, beth ydi'r ffordd fwyaf effeithiol o'u rhoi ar waith, a beth sy'n gwanhau'r dylanwadau hynny hefyd.
- Yr amcan wedyn fyddai galluogi sefydliadau i gynllunio, strwythuro a chyflwyno'u gwasanaethau Cymraeg yn y ffordd fwyaf effeithiol posib.

2.6.3 Mae adnoddau wedi'u neilltuo gan y Cyngor a phartneriaid eraill er mwyn ariannu'r gwaith hwn gyda briff wedi'i osod ar fframwaith "Gwerthu i Gymru" yn Rhagfyr 2021 er mwyn gwahodd dyfynbrisiau ar gyfer cyflawni'r gwaith sydd i'w gomisiynu.

2.7 SICRHAU FOD RHEOLWYR YN ARDDEL EU RÔL IECHYD A DIOGELWCH YN EFFEITHIOL

2.7.1 Eglurwyd yn gynharach yn y flwyddyn bod y gwaith hwn wedi'i adnabod fel blaenoriaeth corfforaethol am y tro cyntaf yng Nghynllun y Cyngor am eleni. Nodwyd bryd hynny y byddai'r prosiect yn edrych yn benodol ar yr elfennau a ganlyn;

- Arweinyddiaeth glir a gweledol ar faterion iechyd a diogelwch
- Systemau: Cael systemau effeithiol a chymesurol ble gellir cynhyrchu data byw a synhwyrol i gefnogi rheolaeth iechyd a diogelwch a chefnogi arloesedd
- Cymhwysedd: Cael y gweithlu (ar bob lefel) yn wybodus ac yn gymwys i'w rôl ac wedi eu hyfforddi yn y risgiau y maent yn wynebu yn y gwaith, gan sicrhau argaeledd at gyngor cymwys amserol i gynghori ar risgiau arbenigol / datblygiadau diweddaraf ac arloesol yn y maes.
- Cymuned: Creu rhwydwaith, strwythurau a chymuned ar gyfer ymgynghori, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau ar faterion iechyd a diogelwch, nid yn unig yn fewnol, ond hefyd ymysg rhwng-ddeiliad megis y trydydd sector, contractwyr a chyflenwyr,
- Sicrwydd ansawdd: Cyfundrefn effeithiol o fonitro, dysgu o gamgymeriadau, dan ddatblygu ac esblygu yn barhaus.

2.7.2 Roedd bwriad yn yr Hydref i yrru ymlaen efo'r amcanion hyn ond yn sgil y ffaith bod aelodau'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi gorfod treulio y rhan helaethaf o'u hamser yn dehongli a chynghori gwasanaethau ar y rheoliadau newidiol yn ymwneud a rheoli'r pandemig, ni fu cynnydd yng nghyswllt y prosiect hwn yn ystod y misoedd diwethaf. Rwyf yn llawn ddeall a derbyn bod y gwaith yn ymwneud a'r argyfwng wedi gorfod cymryd blaenoriaeth ond yn edrych ymlaen i'r gwaith prosiect ehangach dderbyn sylw yn ddiweddarach eleni.

2.8 CYNLLUNIO'R GWEITHLU

- 2.8.1 Mae'r gwaith o adnabod bylchau a gweithredu'n rhagweithiol yn flaenoriaeth sydd wedi amlygu'i hun yn fwy nag erioed o'r blaen dros y flwyddyn diwethaf a bydd angen buddsoddi adnodd sylweddol er mwyn cefnogi datblygiad rheolwyr i gynllunio ac ymateb i'r heriau staffio sy'n wynebu nifer o wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae rhaglen waith a cherrig milltir penodol yn cael eu llunio yn bresennol yng nghydestun defnyddio'r technegau mwyaf diweddar i adnabod bylchau tymor byr, tymor canol a'r hir dymor ac yna cynllunio ar eu cyfer.
- 2.8.2 Tra bo'r rhaglen waith honno yn ei dyddiau cynnar, mae ffrydiau gwaith eraill sy'n allweddol ar gyfer cynllunio'r gweithlu i'r dyfodol yn parhau i ffynnu. Mae 30 prentis wedi eu cyflogi ers cychwyn y Cynllun Prentisiaethau gyda 15 yn cael eu cyflogi yn bresennol, 3 wedi gadael y Cynllun dros y ddwy flynedd diwethaf a 12 wedi derbyn swydd gyda'r Cyngor. Bydd y gwaith hyrwyddo ac hysbysebu ar gyfer y garfan nesaf o 20 prentis yn dechrau ym mis Mawrth gyda'r broses recriwtio ar gyfer cyflogi Swyddog Talent a Prentisiaethau ychwanegol ar waith yn bresennol er mwyn sicrhau y darperir y gefnogaeth orau posib i'r prentisiaid ar gyfer y dyfodol.
- 2.8.3 Yn ystod 2022, byddwn yn datblygu'r Cynllun Prentisiaethau i weithio mewn partneriaeth efo cwmnïau bychain a chontractwyr lleol yn ogystal a mentrau cymunedol, gyda chyfleoedd i gynnig lleoliadau gwaith efo'r partneriaid hynny.
- 2.8.4 O ran y gweithlu presennol, mae'r Cynllun Datblygu Talent yn parhau i gael ei ymestyn ar draws y gwasanaethau gyda rhagolygon y bydd mwy a mwy o'n swyddogion yn manteisio ar y cyfleoedd hyn ac yn gwireddu eu potensial o fewn y Cyngor i'r dyfodol.

2.9 RHOI Ffordd GWYNEDD AR WAITH

- 2.9.1 Fe'ch atgoffir bod adroddiad wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar yr 16 o Orffennaf, 2021 yn adrodd ar gynnwys llythyr Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn a chynnydd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor yn ogystal ag adlewyrchiadau Tîm Rheoli'r Cyngor i'r sylwadau a wnaed. Roedd y Prif Weithredwr eisoes wedi datgan ei awydd i gynnal adolygiad o'r cynnydd ar ffurf hunan-asesiad pellach yn yr Hydref a cytunodd aelodau'r Pwyllgor i gydweithio ag o i'r perwyl hwnnw trwy ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen er mwyn asesu i ba raddau y mae egwyddorion Ffordd Gwynedd wedi gwreiddio yn y Cyngor.
- 2.9.2 Mae'r gwaith paratoi ar gyfer cynnal yr adolygiad hwnnw yn agos i gael ei gwblhau gydag aelodau'r Grŵp Tasg a Gorffen wedi derbyn hyfforddiant yn niwylliant a dulliau gweithredu Ffordd Gwynedd tra bo'r holiadur ar gyfer cynnal hunan-asesiad ymhob Adran wedi'i lunio a'i gytuno arno hefyd.
- 2.9.3 Mae'r drefn herio perfformiad newydd wedi'i chyflwyno gydag adroddiadau perfformiad misol yn cael eu cyhoeddi tra bo'r cyfarfodydd herio perfformiad hanesyddol, gyda chynrychiolaeth o 'fysg aelodaeth y Pwyllgor Craffu perthnasol yn

cael eu cynnal ddwy waith y flwyddyn bellach ac hynny fel rhan o'r paratodau ar gyfer cyflwyno'r adroddiadau perfformiad i'r Cabinet.

- 2.9.4 Mae Archwilio Cymru wedi cynnal archwiliad i'n trefniadau herio perfformiad diwygiedig yn ystod yr Hydref ac wedi cyflwyno adroddiad sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer y dyfodol. Bydd y Prif Weithredwr yn cyflwyno adroddiad ei hun i'r Cabinet yn ddiweddarach fydd yn ystyried argymhellion Archwilio Cymru ochr yn ochr a'r adlewyrchu mewnol a wnaed, mewn ymgynghoriad a phenaethiaid adran ac aelodau Cabinet dros yr wythnosau diwethaf.

3. PERFFORMIAD

- 3.1 Nodir isod trosolwg o berfformiad yr Adran yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yma. Nid oes cyfeiriad at bob un o'r gwasanaethau ond rwy'n awyddus i gadarnhau fy mod yn fodlon efo perfformiad presennol y gwasanaethau hynny na gyfeirir atynt yma.

3.2 Iechyd, Diogelwch a Llesiant

- 3.2.1 Mae iechyd a llesiant meddyliol wedi ei adnabod fel blaenoriaeth ar y rhaglen iechyd a llesiant eto eleni ac mae pob math o weithgareddau wedi eu trefnu i godi ymwybyddiaeth. Mae pwysigrwydd cynnal ac adeiladu ymhellach ar y gefnogaeth y gellir ei gynnig yn hyn o beth wedi'i amlygu yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf ac mae'n parhau i fod yn un o'r blaenoriaethau mwyaf allweddol yng ngwaith y Gwasanaeth.

- 3.2.2 Mae'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi cyfrannu yn helaeth i'r pecyn cefnogaeth a gynigir yn bresennol. Mae fideos wedi eu creu i geisio codi ymwybyddiaeth mewn dulliau mwy ffres e.e. y fideo 'dwi'n barod i siarad wyt ti?' a'r fideo ar hunan laddiad. Yn ogystal, mae cardiau cefnogaeth, yn arbennig ar gyfer dynion, wedi eu creu. Mae sesiynau pellach gydag Andrew Tamplin ar lesiant meddyliol wedi eu cynnal ac mae Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol wedi mynychu sawl cyfarfod Tîm ar draws y Cyngor er mwyn trafod dulliau ymdopi a straen. Yn fwy diweddar mae'r ffocws wedi symud tuag at drefnu hyfforddiant mwy ffurfiol i Reolwyr ac Arweinwyr Tîm ac mae bid corfforaethol wedi ei gyflwyno am swyddog hyfforddi arbenigol yn y maes yma. Mae'r gwaith datblygol hefyd yn digwydd er mwyn ymchwilio i dueddiadau Adrannau unigol. Bydd hwn yn ddarn o waith a gaiff ei ddatblygu ymhellach tros y tri mis nesaf wrth sefydlu adroddiadau rheolaidd i Benaethiaid Adran.

- 3.2.2 Mae swyddogion yn y Gwasanaeth hwn yn parhau i fod yn ganolog i'n trefniadau ar gyfer dygymod efo'r sefyllfa COVID, gyda'r arweiniad a'r canllawiau gweithredu yn newid yn gyson. Mae hyn oll wedi golygu, fel ag yr wyf eisoes wedi cyfeirio ato yn yr adroddiad hon, bod rhai o'r cyfrifoldebau eraill yr ymgwymerir a hwy yn arferol, megis cynnal ymarferiadau monitro iechyd a diogelwch, wedi syrthio. Fodd bynnag, o roi y prosiect "Sicrhau bod Rheolwyr yn Arddel eu Rôl Iechyd a Diogelwch" ar waith, rwyf yn dawl hyderus y byddwn yn gallu ail-afael yn yr agweddau hyn o waith beunyddiol yn ddiweddarach eleni.

3.3 Cyswllt Cwsmer a Cofrestru

3.3.1 Bu i mi nodi yn yr adroddiad perfformiad yn yr Hydref bod y Gwasanaeth Cofrestru wedi dygymod yn arbennig o dan amgylchiadau gwirioneddol anodd dros y deunaw mis blaenorol a bod swyddogion o dan bwysau aruthrol yn sgîl swyddi gwag ag absenoldebau. Cymrwyd camau yn y cyfamser i gryfhau capasiti rheolaethol ac arbenigol o fewn yr Uned ond gyda cynifer o newidiadau staffio dros y misoedd diwethaf a'r ffaith bod rhai swyddi eto i'w llenwi, mae ychwaneg o waith ei angen er mwyn caniatáu i'r Gwasanaeth fod ar ei orau posibil. Yn sgîl hyn, mae adnoddau o wasanaethau eraill o fewn yr Adran wedi'i hail-gyfeirio i gynnal y sefyllfa am gyfnod. Oherwydd bod y camau dros-dro hyn wedi'u cyflwyno, mae perfformiad yng nghyswllt nifer o farwolaethau a genedigaethau a gofrestrir o fewn 5 diwrnod yn parhau i gymharu'n ffafriol efo gwasanaethau cyfatebol ar draws yr awdurdodau.

3.3.3 Mae'r amser cyfartalog a gymerir i ymateb i ymholiadau ffôn yn parhau'n uwch na'r perfformiad yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod nifer cynyddol o alwadau yn ein cyrraedd oherwydd nad yw cais/ymholiad cyntaf wedi'i ymateb iddo gan wasanaethau eraill o fewn y Cyngor. Mae hyn yn ddealladwy ar un llaw, o ystyried y pwysau sydd wedi bod ar nifer o'r gwasanaethau hynny yn ystod y pandemig ond mae'r Prif Weithredwr ynghyd a swyddogion o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn rhoi sylw penodol i hyn yn bresennol mewn ymdrech i sicrhau gwell ymateb i ymholiadau a chwynion ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

3.4 Ymchwil a Gwybodaeth

3.4.1 Mae'r Gwasanaeth hwn wedi bod yn flaenllaw yn sicrhau cyflwyniad gwybodaeth mewn modd dealladwy i swyddogion ac Aelodau yn y Cyngor yn ystod cyfnod y pandemig. Mae'r Dashfwrdd Argyfwng sydd yn dwyn yr wybodaeth berthnasol at ei gilydd wedi bod yn ddatblygiad pwysig ac yn un y gellir ei ystyried i sawl pwrpas yn y dyfodol.

3.4.2 Er yr holl bwysau gwaith ar swyddogion y Gwasanaeth, mae cynnydd da wedi'i wireddu yng nghyswllt amcanion y Cynllun Gwybodaeth gyda'r pecynnau gwybodaeth a'r data lleol wedi'i ddarparu'n amserol ar gyfer yr Asesiad Llesiant yng Ngwynedd ac ym Môn.

3.4.3 Wedi dweud hynny, mae digwyddiadau o wybodaeth bersonol yn cael ei ddatgelu mewn camgymeriad, neu trwy amryfusedd, yn parhau i ddigwydd mewn manau o fewn y Cyngor gyda 2 ddigwyddiad ym mis Tachwedd a thri arall yn ystod Rhagfyr. Mae'r digwyddiadau yn deillio yn bennaf o ddiolfalwch wrth anfon e-byst ac hefyd trwy ganiatáu mynediad (mewn camgymeriad) i swyddogion nad oes hawl ganddynt weld rhai manylion sensitif. Mae'r hyfforddiant parhaus a ddarperir yn cyfeirio'n benodol at y math yma o enghreifftiau ac yn pwysleisio'r angen i fod yn cadw materion diogelu gwybodaeth ar flaen y meddwl gydol yr amser. Bydd angen cadw golwg manwl ar unrhyw ddigwyddiadau tebyg dros y misoedd nesaf ac ystyried pa gamau ychwanegol ellir eu cymryd os nad yw'r sefyllfa yn gwella.

3.5 Democratiaeth a Iaith

3.5.1 Cymeradwywyd rhyddhau swm o £203,880 o'r Gronfa Trawsffurfio yng nghyfarfod y Cabinet ar y 30ain o Dachwedd, 2021 ac hynny er mwyn ariannu swydd ychwanegol am gyfnod o bedair blynedd i reoli yr uned Hunaniaith sydd wedi'i lleoli o fewn yr Adran yn bresennol. Mae'r Cabinet, ar y cyd a Grwp Strategol Hunaniaith dan gadeiryddiaeth Dafydd Iwan, wedi bod yn ystyried sefydlu Hunaniaith fel endid annibynnol dros y deuddeg mis diwethaf. O ganlyniad i ystyried oblygiadau y gwahanol opsiynau ar gyfer sefydlu Hunaniaith ar ei newydd wedd, cytunwyd y byddai'n ddoeth parhau i gadw Hunaniaith fel uned o fewn y Cyngor am y tro ond gyda golwg i'w sefydlu fel endid annibynnol ar ôl cyfnod o geisio denu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol a denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol. Ystyrir y bydd recriwtio a penodi Pen Swyddog i ymgymryd a'r gwaith hwn am y bedair blynedd nesaf, yn rhoi'r cyfle gorau posib i wireddu'r nôd.

4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

- 4.1 Bu i'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol danwario o £100,000 yn ystod y flwyddyn ariannol blaenorol ac hynny'n bennaf oherwydd cyfuniad o incwm ychwanegol a swyddi fu yn wag am gyfnodau yn ystod y flwyddyn. Mae'r sefyllfa ar gyfer 2021/22 yn cael ei hadolygu'n rheolaidd a'r rhagamcan presennol ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yw y bydd yn tan-wario hyd at £83,000 gyda'r rhesymau am hynny yn cyd-fynd yn agos efo'r rhai a nodwyd ar gyfer 2020/21.
- 4.2 Ers ei dyfodiad yn 2015, mae'r Adran wedi adnabod £2.5 miliwn o arbedion gan sicrhau cyfanswm arbediad o £195,500 yn 2020/21 gyda swm pellach o £117,750 i'w wireddu yn ystod y flwyddyn gyfredol. Mae £57,750 eisoes wedi'i wireddu gyda'r £60,000 sy'n weddill, i'w gyflawni gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol trwy gyfuniad o leihau y sefydliad staffio a cynyddu incwm.

GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Gwasanaeth Cyfreithiol

Diweddariad

Mae cyfres o swyddi gwag wedi golygu cyfnod heriol. Fodd bynnag mae'r gwasanaeth wedi ei gynnal drwy ddarpariaethau locums arbenigol ynghyd a darparwyr allanol. Adolygwyd ein trefniadau ar gyfer cadw a denu staff ac mae camau penodol wedi eu gosod mewn lle i gryfhau ein sefyllfa. Mae'r prosesau recriwtio ar waith.

Dangosyddion

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol yn cofnodi un dangosydd perfformiad meintiol. Cesglir adborth drwy ffurf holiadur achos a anfonir at swyddogion sydd yn derbyn y gwasanaeth

cyfreithiol ar ddiwedd achos. Cydnabyddir fod lefel ymatebion yn isel iawn o gymharu a nifer o achosion sydd yn agored ac rydym yn cynllunio i edrych ar drefn amgen.

Gosodir meincnod yn erbyn lefel bodlonrwydd sydd yn cyrraedd 10/10.

Canlyniad

Ar gyfer 2020/2021 adroddwyd fod y canran o achosion oedd yn graddio y gwasanaeth yn 10/10 yn 87%.

Ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2021 roedd y canran o ymatebion a dderbyniwyd yn graddio y gwasanaeth yn 10/10 yn 79%.

Swyddog Monitro -Priodoldeb

Materion Cynllun Cyngor

Cydweithio yn lleol ac yn rhanbarthol i gynllunio ac ymateb i newidiadau i lywodraethu ac i'r Cyfansoddiad fydd yn deillio o ddyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)2020.

Diweddariad

Rydym wedi arwain a chefnogi rhaglen waith i ymateb i ddyfodiad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Sefydlwyd y rhaglen waith ynghyd a tîm prosiect dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu . Mae'r gwaith yn symud ymlaen yn unol a'r rhaglen gyda adroddiadau yn ôl y gofyn i'r Cyngor Cabinet a Phwyllgorau eraill. Mae'r gwaith hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol ac rydym yn cyfrannu at waith cenedlaethol gyda'r llywodraeth ac awdurdodau eraill ar y Ddeddf.

Rydym hefyd wedi bod yn darparu cefnogaeth gyfreithiol a llywodraethu ar gyfer sefydlu Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd yn arwain at ei gyfarfod cyntaf ar 14ain o Ionawr 2022 a sefydlu trefniadau llywodraethu newydd wrth i Reoliadau newydd ddod i rym.

Etholiadau

Materion Cynllun Cyngor

Ymateb i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2020 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.

Ymateb i ardrawiad ac oblygiadau Covid-19 ar etholiadau ac isetholiadau all gael eu heffeithio drwy gynllunio trefniadau sydd yn sicrhau cynnal etholiadau effeithiol a phriodol.

Diweddariad

Cefnogir y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y gwaith o hyrwyddo cofrestru ac mae rhaglen waith wedi ei sefydlu a swyddog prosiect wedi ei phenodi gan ddefnyddio grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag rhaid cydnabod fod effaith cyfnodau clo yn arbennig ar sefydliadau addysgol wedi cael ardrawiad ar ein gallu i symud y gwaith yma yn ei flaen yn ystod 2020/21. Gyda Swyddog hyrwyddo wedi ei phenodi mae rhaglen waith o ymgysylltu a chreu deunydd a digwyddiadau hyrwyddo dealltwriaeth a chyfranogiad yn y broses etholiadol yn symud ymlaen gyda golwg ar Fai 2022. Rydym wedi rhedeg ymarferion uniongyrchol gyda ysgolion, colegau ynghyd a chomisiynu fideos hyrwyddo.

Bellach rydym yn gweithio i gefnogi y Swyddog Canlyniadau ar gyfer cynnal Etholiadau Lleol ar y 5ed o Fai 2022. Mae Covid-19 yn parhau yn ffactor yn y cynllunio ond yn cael ei adolygu yn gyson ar hyn o bryd.

Crwner

Ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner ar gyfer yr ardal all olygu cynnal adolygiad o'r ardal Grwnerol bresennol.

Diweddariad

Cychwynnwyd trafodaeth gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ynglŷn a'r prosesau yma. Gyda Uwch Grwner gweithredol mewn lle yn Ardal Crwner Gogledd Orllewin Cymru golygai hyn fod y Gwasanaeth yn cael ei gynnal yn ddi-dor. Bellach o dderbyn cadarnhad gan yr Prif Grwner na fydd adolygiad o o'r Ardal Grwnerol yn ddisgwyliadwy a bydd angen symud i adolygu trefniadau ardal Crwner Gogledd Orllewin er ei osod ar sail parhaol a trefnu proses i benodi Uwch Grwner parhaol. Roedd arbediad o £13,000 wedi ei osod gryn amser yn ôl ar y ddamcaniaeth y byddai yr adolygiad yn cael ei weithredu a bydd angen adolygu yr ymrwymiad yma.

SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

Roedd tanwariant o £47k yn y Gwasanaeth yn 2020/21. Mae'r sefyllfa ar gyfer 2021/22 yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac nid oes unrhyw bryder penodol ynglŷn a gallu'r Adran i weithredu o fewn ei chyllideb eto eleni.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

SYLWADAU - SWYDDOG MONITRO

Cyd-awdur yr adroddiad

SYLWADAU – PENNAETH CYLLID

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn cyfleu darlun teg o sefyllfa ariannol yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod: 15 Chwefror 2022

Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Thomas

Swyddog Cyswllt: Sioned Williams

Rhif Cyswllt: 01286 679547

Pwnc: ADRODDIAD HERIO PERFFORMIAD AELOD CABINET ECONOMI A CHYMUNED

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Y RHESYMAU PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod o Uwch Dîm Rheoli'r Adran 13 Ionawr 2022, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Craffu.
- 1.3 O ystyried effaith COVID 19 ar wasanaethau'r Adran, dwi'n fodlon gyda'r perfformiad. Mae rhai gwasanaethau wedi cael eu hailgynllunio gyda modelau darparu gwasanaeth newydd yn cael eu cyflwyno i sicrhau diogelwch staff a defnyddwyr gwasanaeth. Mae rhai gwasanaethau wedi gorfod newid eu blaenoriaethau yn llwyr a gwyro staff i ymdopi gyda'r galw ychwanegol i gefnogi busnesau. Dwi'n gefnogol iawn i'r newidiadau sydd wedi cael eu cyflwyno i ymateb i'r galw ond bydd rhaid ail-edrych ar yr adnoddau i ailfodelu a chynnal gwasanaethau i'r dyfodol.

2. PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-2023 [Blaenoriaethau Gwella]

Prosiect 1: Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

- 2.1 Gwelwyd cynnydd sylweddol yn y cynllun yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn. Cymeradwywyd cynlluniau busnes cychwynnol sawl cynllun o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru gan gynnwys rhai sy'n flaenoriaeth i Wynedd megis y Ganolfan Economi Wledig yng Nglynllifon a Chanolfan Prosesu Signal Digidol Prifysgol Bangor. Mae swyddogion ac Aelodau yn parhau i gyfrannu'n sylweddol i waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd i sicrhau y bydd yn cyflawni. Mae [linc yma](#) i adroddiad craffu sy'n cynnwys mwy o fanylion am y cynnydd ar y gwahanol brosiectau twf ar y pwynt adrodd mwyaf diweddar i Aelodau.

Prosiect 2: Creu Swyddi Gwerth Uchel

- 2.2 Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o weithgaredd gan gynnwys gwaith gyda sectorau sy'n debygol o greu swyddi da (megis y cyfryngau / digidol), datblygu cyfleoedd ar gyfer gwaith sy'n talu'n dda o fewn sectorau presennol a pharatoi disgyblion ysgolion Gwynedd i fanteisio ar y cyfleoedd.
- 2.3 Mae'n parhau'n gyfnod heriol i'r economi sydd yn amharu ar hyder cwmnïau i fuddsoddi ac, yn ei dro, ar waith y cynllun Creu Swyddi Gwerth Uchel. Er hyn, mae nifer o ddatblygiadau cadarnhaol yn y pedwar mis ers i mi adrodd diwethaf; yn cynnwys:
- Sicrhau cefnogaeth i ymestyn y cynllun STEM Gogledd hyd at canol 2023 a chomisiynu ymchwil ar y cyd gyda'r Adran Addysg i helpu ysgolion ddeall anghenion sgiliau ein busnesau lleol
 - Gwarantu parhad y rhwydwaith Gogledd Creadigol drwy ddenu arian gan Lywodraeth Cymru a holl siroedd y Gogledd a Grŵp Llandrillo-Menai
 - Recriwtio swyddogion i gwmni Eginio sydd wedi ei sefydlu i hwyluso denu buddsoddiad pellach i safle Atomfa Trawsfynydd
- 2.4 Siom enbyd, fodd bynnag, oedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i rwystro datblygiad ffordd mynediad newydd i safle Maes Awyr Llanbedr. Mae eu penderfyniad eisoes wedi arwain at golli £7.5M o arian Ewrop i Wynedd ynghyd â buddsoddiad preifat sylweddol. Mae'r Cyngor yn parhau i herio'r penderfyniad ac yn ymrwymedig i gefnogi datblygu'r maes awyr ond mae tystiolaeth glir fod dewis Llywodraeth Cymru yn peryglu'r cyfle i wireddu potensial llawn y safle i greu swyddi da i drigolion lleol.

Prosiect 3: Arloesi Gwynedd Wledig

- 2.5 Mae'r rhaglen yn gweithio i gryfhau seiliau'r economi wledig drwy ystod o ymyrraeth yn cynnwys cefnogi datblygu isadeiledd digidol y sir, helpu busnesau gwledig i sefydlu a thyfu a chefnogi mwy o arloesedd yng nghefn gwlad Gwynedd.
- 2.6 Adroddwyd yn flaenrol ar lwyddiant y cynllun ARFOR yng Ngwynedd ac ar draws siroedd y Gorllewin i ddangos y cyfle i ddefnyddio datblygu'r economi i gefnogi'r Gymraeg a bod y Cyngor wedi gwneud achos i Lywodraeth Cymru i barhau i fuddsoddi yn y rhaglen i'r dyfodol. Roeddwn

yn hynod falch felly o weld fod £4M wedi ei ddynodi ar gyfer ARFOR yng nghyllideb drafft Llywodraeth Cymru .

2.7 Y tu hwnt i ARFOR, mae nifer o lwyddiannau eraill gan y rhaglen yn ddiweddar dylid eu nodi:

- Sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru fydd yn cefnogi busnesau gwledig i wella eu presenoldeb ar y we a defnyddio mwy ar dechnoleg yn arbennig o ran datblygu'r cyswllt rhwng cyflenwyr lleol a darparwyr lletygarwch
- Cynnal rhaglen o weithgaredd o fewn rhwydwaith lleoliadau Ffiws Gwynedd i gefnogi busnesau i ddefnyddio offer cyfoes ([gwybodaeth bellach](#))
- Treialu siop 'pop-up' i hwyluso busnesau bach gwledig i dyfu ([gwybodaeth bellach](#))
- Darparu hyfforddiant a chymorth ariannol o dan y faner 'Llwyddo'n Lleol' i helpu pobl ifanc sefydlu busnesau sy'n ymateb i anghenion eu cymunedau ([gwybodaeth bellach](#))
- Cwblhau arbrawf i werthuso gwerth cerbydau cymunedol trydanol i ymateb i heriau trafndiaeth gwledig ([gwybodaeth bellach](#))

Prosiect 4: Hyrwyddo Canol Trefi

2.5 Dros y 18 mis diwethaf, addaswyd pwyslais y prosiect hwn yn sgil COVID, gyda phecyn o welliannau amgylcheddol tymor byr wedi eu gweithredu yn sgil llwyddiant i ddenu grantiau gan Llywodraeth Cymru. Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys datblygu isadeiledd digidol mewn canol trefi er mwyn cynnig wi-fi, llwyfan marchnata a chyd-fasnachu newydd, modd o gasglu a rheoli data ar batrymau defnydd canol tref.

2.6 Fodd bynnag, yn fwy diweddar rhoddwyd fwy o bwyslais ar geisio ymateb i heriau a chyfleoedd sy'n wynebu ardaloedd canol trefi i'r dyfodol. Sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer targedu cronfeydd rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gweithredu amrediad o brosiectau adfywio canol trefi. Llwyddwyd i sicrhau adnoddau grant 'Creu Lleoedd' ar gyfer y prosiectau canlynol i'w gweithredu yn ystod 2021/2:

Cynllun	Sefydliad	Cyfanswm Cost
Grant Gwella Eiddo Canol Trefi	Adran Economi a Chymuned	£285,714
Grant Tai Gwag	Adran Tai ac Eiddo	£285,714
Gwelliannau Storiell, Bangor	Adran Economi a Chymuned	£199,800
Canolfan Treftadaeth (Adeilad Spar)	Partneriaeth Ogwen	£253,000
Cynllun Cymru Fydd	Siop Griffiths	£237,560
Stryd Fawr Blaenau Ffestiniog (3 eiddo)	Antur Stiniog	£360,000
Hwb Datgarboneiddio Penygroes	Adra	£300,000
Tafarn y Fic, Bethesda	Tabernacl (Bethesda) Cyf	£75,000
	Cyfanswm	£1,996,788

2.7 Mae'r gwaith o ddatblygu prosiectau fel rhan o Gynllun Adfywio Canol Dinas Bangor hefyd yn parhau. Yn ystod y cyfnod gwelwyd gwaith yn cychwyn ar brosiect 'Nyth' Cwmni Fran Wen – sef cynllun cyffrous gwerth £3.2m i ddatblygu hwb creadigol pwrpasol i blant a phobl ifanc yng nghanol y ddinas. Hefyd, sicrhawyd pecyn gwerth £1.2m ar gyfer cynllun Prifysgol Bangor i weithredu gwelliannau ym Mharc y Coleg yng nghanol y ddinas. Sicrhawyd arian datblygol ar gyfer gwaith rhagbaratoi Cynllun Canolfan Iechyd a Llesiant ar gyfer y ddinas. Mae arian grant

hefyd wedi ei glustnodi ar gyfer adfer 3 adeilad gwag ar y Stryd Fawr, a gwaith wedi ei raglennu i gychwyn yn ystod chwarter olaf 2021/2.

- 2.8 Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Eiddo Gwag wedi ei baratoi – gan ddwyn ynghyd swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol Wasanaethau ar draws y Cyngor. Mae cyfarfod cyntaf o Grŵp Traws Adrannol Eiddo Gwag i'w cynnal yn mis Ionawr 2022, er mwyn cydgorddio a goruchwyllo gweithrediad y cynllun.
- 2.9 Mae'r Adran hefyd wedi cynnig mewnbwn i waith a gomisiynwyd ar ran 6 sir y Gogledd i ddatblygu Fframwaith Canol Trefi ranbarthol.

Prosiect 5: Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar Waith

- 2.10 Bellach mae 6 mis wedi mynd heibio ers i Gyngor Gwynedd a'i bartneriaid sicrhau dynodiad Safle Treftadaeth Byd i Dirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Yn dilyn y sylw eithriadol a gafwyd a'r bwrlwm a balchder o fewn ein cymunedau, mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi bod yn datblygu a chytuno ar drefniadau gweithredu ar gyfer rheoli'r safle'n llwyddiannus yn y dyfodol. Mae strwythur gweithredu newydd wedi ei gytuno a byddwn yn mynd ati dros y misoedd nesaf i sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth, Grŵp Gweithredu ac is grwpiau penodol i sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed wrth reoli'r safle a manteisio ar y cyfleon all ddeillio o'r dynodiad.
- 2.11 Mae gweithgareddau'r prosiect LleCHI a gyllidir trwy Gyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Arloesi Gwynedd Wledig a Chronfa'r Loteri Dreftadaeth bellach wedi dod i ben gyda nifer o weithgareddau cymunedol wedi eu gwreiddio ar draws ein dyffrynnoedd llechi yn cynnwys: gwaith celf, anthemau, murluniau, dehongli, arddangosfeydd, digwyddiadau, teithiau a chynlluniau gyda phlant a phobl ifanc Gwynedd i amlygu pwysigrwydd ein stori llechi a chreu balchder bro. Mae cais dilynol wedi ei gyflwyno i'r Gronfa Loteri Treftadaeth ac rydym yn disgwyl ymateb i'n cais erbyn diwedd Mawrth 2022.
- 2.12 Mae ymgynghoriad ar Ganllaw Dylunio Atodol wedi ei ddechrau gan yr Adran Amgylchedd er mwyn sicrhau datblygiad cynaliadwy o'r safle yn y dyfodol. Dros y misoedd nesaf bydd trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid, cymunedau a thirfeddianwyr i sicrhau'r buddion gorau o'r dynodiad a byddwn yn parhau i drafod prosiectau sy'n cael eu datblygu ar draws y dyffrynnoedd llechi.

Prosiect 6: Elwa o Dwristiaeth

- 2.13 Mae gwaith wedi ei wneud er mwyn cytuno ar egwyddorion twristiaeth Gwynedd fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau i drafod yr egwyddorion hyn gydag Aelodau Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn ogystal a digwyddiadau gyda'r sector a chymunedau Gwynedd. Bwriad y digwyddiadau hyn oedd cael eu mewnbwn i flaenoriaethau i'r dyfodol ac i adnabod y gefnogaeth fydd ei angen i ddatblygu a gwreiddio twristiaeth cynaliadwy yng Ngwynedd ac Eryri.
- 2.14 Fis Tachwedd 2021, arwyddwyd Cytundeb o Ddealltwriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri i gyd-weithio yn y maes hwn i'r dyfodol. Mae strwythur cyd-weithio ffurfiol wedi ei gytuno arno a chydweithio agos ac agored rhwng y ddau bartner yn parhau wrth i ni anelu i fabwysiadu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 yn y misoedd nesaf.
- 2.15 Bydd Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr economi ymweld fel rhan o drafodaethau ac ymgynghori ar y Cynlluniau Adfywio Ardal a bydd gweithdai wedi eu cynnal i

sicrhau mewnbwn ardaloedd i'r Cynllun Gweithredu. Trwy ddysgu o arfer da ardaloedd eraill o'r byd, rydym yn hyderus y bydd ein Cynllun newydd yn torri tir newydd ar gyfer cefnogi economi ymweld cynaliadwy.

Prosiect 7: Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

- 2.16 Mae'n parhau'n gyfnod ansicr i fusnesau Gwynedd. Drwy'r cynllun hwn rydym yn cynnal ein ffocws ar ddarparu cymorth a chefnogaeth i fentrau'r sir a hynny drwy gydweithio ar draws adrannau'r Cyngor.
- 2.17 Mae sicrhau fod ein busnesau gyda'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i gadw eu staff a'u cwsmeriaid yn ddiogel yn parhau i fod yn flaenoriaeth; gyda'r angen wedi cynyddu wrth i'r gofynion o ran atal lledu coronafeirws ddod i'r amlwg unwaith eto. Mae'r nifer yn derbyn bwletin gwybodaeth rheolaidd y Cyngor i fusnesau yn parhau i fod yn gyson ar ychydig yn fwy na 4,200.
- 2.18 Mae'r gwaith o ddarparu cymorth ymarferol ac ariannol i fusnesau yn parhau ond gyda llai o arian argyfwng i'w weinyddu ers cyfnod yr haf. Mae'r pwyslais wedi newid i fonitro'r arian sydd wedi ei ddarparu ynghyd â darparu cyngor ymarferol i fusnesau.
- 2.19 Adroddais yn flaenorol fy mod yn pryderu am allu'r gwasanaeth i gynnal y lefel o gymorth i fusnesau gan fod staff wedi eu gwyro dros dro o wahanol wasanaethau yn yr Adran dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gallu ymdopi gyda'r galw am gymorth gan fusnesau. Mae'r her yma'n parhau a nodaf fod Llywodraeth Cymru unwaith eto wedi troi at Awdurdodau Lleol i ddsbarthu cymorthdaliadau i fusnesau o ganlyniad i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd mis Rhagfyr. Bydd hyn yn gorfod cael blaenoriaeth o hyn ymlaen hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- 2.20 Mae'r Adran wedi cymryd camau cychwynnol i ymateb i'r her drwy recriwtio swyddog ychwanegol dros dro ond mae'r her ehangach o sefydlogi'r tîm presennol sydd ar gael i ddatblygu'r economi lleol a sicrhau fod adnoddau digonol i gyfarch angen busnesau am gymorth i oresgyn a thyfu yn parhau

Prosiect 8: Pobl Gwynedd yn Chwarae Rhan Iawn yn y Byd Gwaith

- 2.21 Mae'r farchnad llafur yng Ngwynedd yn parhau i newid. Ar ddechrau cyfnod argyfwng COVID roedd diweithdra yn her sylweddol ond bellach mae cyflogwyr yn adrodd fod problemau sicrhau staff digonol. Mae'r rhesymau dros hyn yn gymhleth ond yn sicr mae Brexit ac effaith y pandemig yn rhan sylweddol o'r broblem.
- 2.22 Drwy'r cyfnod mae tîm Gwaith Gwynedd yn y Cyngor wedi ymateb yn gyflym ac yn hyblyg er mwyn cyfarch yr angen. Mae'r tîm wedi bod yn helpu busnesau i hyrwyddo swyddi a recriwtio ac yn rhoi sylw i gefnogi unigolion sydd y tu allan i'r farchnad llafur ddychwelyd i waith. Mae 178 o bobl wedi sicrhau gwaith o ganlyniad i'r help maent wedi ei dderbyn gan y tîm hyd yn hyn eleni.

Prosiect 9: Lluo Cynllun Adfywio ar gyfer ein Hardaloedd

- 2.23 Mae Bwrdd Adfywio'r Cyngor wedi cefnogi'r bwriad o ddatblygu Fframwaith Adfywio Newydd ar gyfer y Sir, ond bu'n rhaid gohirio'r gwaith llynedd oherwydd y pandemig. Yn gynharach eleni penderfynwyd i fwrw ymlaen gyda'r rhaglen, ac mae'r gwaith rhagbaratoi wedi ei gwblhau.

Bydd y Fframwaith Adfywio arfaethedig yn cynnwys dogfen sirol ynghyd â chynlluniau adfywio lleol ar gyfer 13 ardal ar draws Gwynedd.

- 2.24 Yn ystod yr Hydref, trefnwyd sgysiau cychwynnol gyda Aelodau, Cyngorau Tref / Cymuned a grwpiau adfywio blaengar er mwyn holi barn am y prif faterion ym mhob un o'r 13 ardal adfywio lleol. Mae adroddiadau ar ganlyniadau'r sgysiau cychwynnol ar gael ar y linc yma (LINC).
- 2.25 Yn ystod mis Chwefror 2022, bydd gwaith ymgysylltu manwl a chynhwysfawr wedi ei drefnu ym mhob un o'r 13 ardal adfywio lleol. Mae gwybodaeth bellach ar y trefniadau ymgysylltu i'w canfod ar y linc yma(LINC).

3. PERFFORMIAD

- 3.1 Mae'r Adran yn y broses o adolygu ei mesuryddion perfformiad gyda trefniadau newydd i gasglu data yn cael ei sefydlu yn sgil COVID e.e. trefniadau newydd i gasglu lefel boddhad cwsmer ar waith gan nifer o wasanaethau ar hyn o bryd.
- 3.2 Wrth adolygu Dashfwrdd Perfformiad yr Adran mae'n glir fod cynnydd mewn nifer defnyddwyr gwasanaethau o'i gymharu â 2020/21, ond mae'r niferoedd hyn yn parhau i fod yn llawer is na'r lefel yn 2019/20 cyn argyfwng COVID. Gwelir hyn yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd gyda 102,834 o eitemau yn cael eu benthyg mewn cyfnod o 8 mis rhwng Ebrill a mis Tachwedd 2021 o'i gymharu â 40,719 dros y cyfnod cyfatebol yn 2020 a 286,803 yn 2019. Yr un ydi'r patrwm yn y defnydd o Ganolfannau Byw'n Iach gyda 208,898 wedi mynychu canolfannau dros gyfnod chwe mis o'i gymharu â 79,550 mewn blwyddyn yn 2020/21, ond 1,204,641 yn 2019/20. Mae gwasanaethau amgen wedi cael ei ddarparu, ond bydd angen ystyried effaith hyn ar gyllidebau i'r dyfodol.
- 3.3 Mae perfformiad Gwasanaeth Datblygu Economaidd a Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio o fwy o bryder imi ar hyn o bryd oherwydd y galw afreolaidd sydd ar y gwasanaethau hyn i ddyrannu pecynnau cymorth Llywodraeth i fusnesau a chanol trefi.
- 3.4 Dyrannwyd grantiau i 1,550 o fusnesau Gwynedd yn bennaf i'w cefnogi i oresgyn ardrowiad COVID-19 yn 2020/21. Yn 2021/22, roedd cymorth argyfwng yn parhau i fod ar gael i fusnesau oedd yn dal i gael eu heffeithio gan gyfyngiadau cyn cyfnod yr haf, ond mae'r nifer o fusnesau gefnogwyd wedi bod yn llawer llai, gyda 119 o fusnesau wedi eu cefnogi hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2021. Ond ers 20fed Ionawr 2022 mae pecyn cymorth busnes newydd wedi agor i fusnesau sydd angen ei weinyddu cyn diwedd mis Mawrth 2022. Tra fod yr adnoddau hyn i'w croesawu, mae gallu'r gwasanaeth i ymateb yn cael ei effeithio gan fod prinder staff o fewn y gwasanaethau.

4. SEFYLLFA ARIANNOL/ARBEDION

- 4.1 Bu i'r Adran Economi a Chymuned danwario £100k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21, yn bennaf gan fod llai o gostau yn sgil cau nifer o wasanaethau am gyfnodau helaeth o'r flwyddyn. Mae adolygiad manwl o sefyllfa ariannol 2021/22 yr Adran wedi ei gynnal yn ddiweddar fel rhan o adolygiad refeniw Tachwedd ar gyfer y Cyngor gyfan. Rhagwelir y bydd yr Adran yn tanwario **£86,453** erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2021/22. Prif reswm dros y tanwariant yw bod yr Adran yn rhagori ar y lefelau incwm eleni eto, yn benodol yn y meysydd traethau ac angorfeydd Hafan. Mae'r sefyllfa yma yn cael ei adrodd fel eitem ar wahân i Gabinet 15 Chwefror 2021.

- 4.2 Byddaf angen trafod cyllideb 2022/23 gyda'r Adran yng ngwydd y cynnydd yn yr incwm a'r galw am gyllideb uwch i gwrdd a'r galw yn sgil COVID wedi i grantiau'r Llywodraeth ddod i ben.
- 4.3 Nid oes gan yr Adran gynllun arbedion newydd ar gyfer 2021/22, ond mae 4 cynllun sy'n parhau o flynyddoedd blaenorol gyda 3 yn disgwyl am ganiatâd i godi ffioedd fel rhan o adolygiad parcio. Mae trefniadau ar waith gan yr Adran Amgylchedd i wneud yr adolygiad ac mae'r amserlen i wireddu'r arbedion yn ddibynnol ar y gwaith yma. Dwi'n gobeithio gallu cadarnhau'r amserlen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Byddaf yn parhau i fonitro perfformiad y gwahanol wasanaethau yn fisol ac yn cyflwyno adroddiad pellach i sylw'r Cabinet ar ailgynllunio'r gwasanaeth adfywio a chefnogi busnes.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

Pennaeth Cyllid:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn cyfleu darlun teg o sefyllfa ariannol yr Adran Economi a Chymuned